FFYDD DDI-FFVANT.

SEF,

HANES Y FFYDD GRISTIANOGOL, AI RHINWEDD.

Y trydydd preintiad gyd ag angwanegiad.

The Unfeigned Faith.

Containing a brief Hiſtorie of the Chriſtian Religion, and a proof of its verity, and efficacie.

The third Impreſſion with Augmentation.

Preintiedig yn Rhydychen gan *Hen: Hall*, ac a werthir yn Nimbech, a Gwrecſam, a Llanſyllin, Abergavenni, Caer-Fyrddin, a threſydd eraill.

1677.

Julii 24. 1676.

Non sine fructu relegisse me memini, vernaculâ Britanniæ veteris linguâ scriptum (eumque bis hactenus typis excusum) librum, cui Titulus, Y Ffydd Ddi-Ffuant : *in quo Ecclesiæ Anglicanæ Doctrinæ Politiæve contrarium nihil comperi.*

Michael Roberts. S. T. D. OXON.

Imprimatur

Aug. 1. 1676. GILB. IRONSYDE

Pro-Vice-Cancell. OXON.

44. 1
4. 60.

Imprimatur *liber Cambro-Britannicè Scriptus cui titulus* Y Ffydd Ddiffuant.

G. Jane R. P. D. Hen. Epis. Lond. a Sacris domesticis.

Llechres o'r Pennodau a'u cynhwysiadau, a'r dalennau lle ceir hwynt yn y llyfr hwn.

Pen. 1. *Ynghylch ystôri, a pharthau'r bŷd. y tu dalen* 1.
Pen. 2. *Ynghylch y Ffydd o ddechreuad y bŷd hyd blanniad Israel yngwlâd Canaan.* dal. 11.
Pen. 3. *Ynghylch y Ffydd o amser Joshua hyd anedigaeth Christ.* 18.
Pen. 4. *Dysodiad Christ. Cyhoeddiad ei efengyl ef hyd amser Trajanus.* 22.
Pen. 5. *Yr erlid dan Trajanus, Hadrianus, a Ferus, ymmerodron Rhufain, pryd y merthyrwyd Ignatius, Polycarpus, Justin, ac eraill.* 29.
Pen. 6. *Yr ymddiffin a wnaeth Justin Ferthyr dros y Christianogion at Senedd Rhufain, a'r ymmerawdr.* 34.
Pen. 7. *Erlid yr efengyl yn Ffrainc, a'r Affric, ac mewn lleoedd eraill, a'r achosion o'r blindêrau hynny.* 44.
Pen. 8. *Diffynniad y Ffydd yn erbyn y cynhedloedd gan Tertullianus henuriad o Carthago yn Affrica.* 47.
Pen. 9. *Yr erlid dan Decius, Falerianus, Diocleſianus ymmerodron Rhufain.* 68.
Pen. 10. *Llwyddiant yr efengyl yn amser Constantinus Fawr, a'r rhai a'r reolodd ar ei ol ef. Anghydfod Arrius ac eraill.* 74.
Pen. 11. *Ynghylch crefydd Mahomet.* 81.
Pen. 12. *Helynt y Ffydd Gristianogol hyd y pedwerydd Cant ar ddêg o oed Christ, a chwedi.* 96.
Pen. 13. *Llwyddiant y Twrciaid, ymdrech Protestaniaid a Phapistiaid.* 108.

Pen. 14. *Cyſtudd y Proteſtaniaid yn Lloegr yn amſer y Frenhines Mari.* dal. 122.
Pen. 15. *Llwyddiant y Ffydd yn Lloegr yn amſer y Frenhines Elizabeth, ei herlid yn Ffrainc, a lleoedd eraill.* 140.
Pen. 16. *Hanes y Ffydd ym mhlith y Cymru.* 150.
Pen. 17. *Llyfr Gildas yn argyoeddi cin henafiaid o'u pechodau.* 162.
Pen. 18. *Llygredigaeth a chyſtudd Cymru.* 185.
Pen. 19. *Helynt Cymru er pan gyfeithwyd yr yſcrythyrau yn Gymraeg.* 198.
Pen. 20. *Sicer wirionedd y Ffydd Griſtianogol* 215.
Pen. 21. *Ychwaneg o reſymmau yn profi gwirionedd y Ffydd.* 238.
Pen. 22. *Rhynwedd y Ffydd Griſtianogol yn gorchfygu llygredigaeth. Lle'r yſtyrir cyflwr pechadurus dynol ryw cyn eu galw.* 259.
Pen. 23. *Anhawſtra troedigaeth pechaduriaid o'u cyflwr llygredig.* 280.
Pen. 24. *Drwy argyoeddiad y gorchfygir pechaduriaid, ac eu gwneir yn ufudd i Dduw.* 299.
Pen. 25. *Grâs Duw yn meddiannu holl gynneddfau enaid, ac yn rheoli holl aelodau corph y gwir Griſtion.* 318.
Pen. 26. *Grym duwioldeb efangylol, a'r achoſion o hynny.* 334.
Pen. 27. *Ychwaneg ynghylch achoſion duwioldeb, a'i grym yn y bŷd hwn, a'r oes hon.* 349.
Pen. 28. *Cyfarwyddyd iw arfer fel y delo rhai i allu byw yn dduwiol.* 366.
Pen. 29. *Annogaethau i dduwioldeb.* 376.
Pen. 30. *Athrawiaeth y Beirdd Cymreig yn yr oeſoedd diweddaf.* 382.
Pen. 31. *Cryn ſwrn o iaith y Patrieirc a'r Prophwydi Sanctaidd yn y Gymraeg etto.* 394.

At

Edward Kenrick

At y Darlleydd.

GRâs, trugaredd, a thangneddyf a liosogo i ti trwy Grist Jesu. wrth ystyried mor gynnorthwyawl im gwladwyr a fyddai hyspysrwydd o'r pethau a ganlynant, ac nad adwaenwn i un llyfr iw gyfieithu ydoedd yn wahanredol yn amgyffred y cwbl o honynt, ymosodais iw pigo allan o amryw lyfrau: a chymerais gwrs y wenynen i sugno llawer llysieuyn i wneuthur hyn o ddilyn. Cyd-ddwg ditheu â'r sâth grwybyr ac sydd ynddo.

Cawn weled yma siamplau pobl Dduw, a'r modd y carasant ei ewyllis ef, ac y cadwasant ei orchymynnion ef; sel y bo i nrganlyn y brisc a dorrasont hwy drwy lychfeydd profedigaethau 'r byd dryc-hinog hwn: a cherdded *y llwybr cûl sydd yn arwain* i orphywystra tragywyddol. Amlhâodd defaid Jacob wrth gyfebru o flaen gwiail brithion, a dwyn wyn o'r un lliw â'r hyn o osodid iddynt i edrych arno *yn y cwtterydd o fewn y cafnau dyfroedd, lle y deuent i yfed.* Gen. 30, 37, 38, 39. Bydded i ninnau [illegible]h geisio ymddiwallu â gwybodaeth, jawn graffu a[illegible]rist, a'i ferthyron Sanctaidd, y rhai y diriselwyd p[illegible] pechod, a mwyniant bydol oddiam danynt [illegible]mal y

(a 2) [illegible]e-

tebygom ir *gwyn oedd ynddynt*, ac y chwanego gwir Griſtianogion tebyg iddynt yn ein plith. Ni a ddeuwn i borfeydd gleiſion, os awn *rhagom ar hyd ôl praidd y gwir fugail.* Can. Sol. 1. *Na fyddwn fuſcrell eithr dilynwyr i'r rhai drwy ffydd ac ammynedd ſy 'n etifeddu yr addewidion.* Heb. 6. 12. yn enwedig *byddwn ddilynwyr* i'n henafiaid *megis y buont hwythau i Grift.* 1 Cor. 11. 1. dodwn hawl i fraint a bonedd ein bên deidiau, ſef purdeb ffydd efangylaidd, a grym duwioldeb. Er mwyn hynny ſy'ngwladwyr anwyl, *y rhoddais* hyn o *ddiwydrwydd ar yſcrifennu attoch am yr jechydwriaeth gyffredinol, gan eich annog i ymdrech ym mhlaid y ffydd, yr hon a roddwyd vnwaith i'r Sainct*, ie ym mhlith y Britanniaid. Jud. 3. yr oedd Paul yn hoffi Timotheus yn hytrach wrth alw *iw gôf y ffydd ddi-ffuant ydoedd ynddo eſ, yr hon a drigoddyn gyntaf yn ei nain Lois, ac yn ei fam Eunice.* 2 Tim. 1, 5. eled y cymro yn hóff gan Dduw yn yr unrhyw ſôdd. Ac fel y dylem ddilyn rhinweddau yr ychydig o rai da ym myſc ein henafiaid, felly heſyd gochelyd pechodau y llaweroedd o honynt ydoedd ddrwg, a ddug arnynt ddialedd dwys, ac a wnaethont *na bu Duw ſodlon ir rhan fwyaf o honynt: Canys cwympwyd hwynt* yn nhîr eu ganedigaeth. A'r *pethau hyn a wnaed yn Siamplau i ni, ſel na chwennychem ddrygioni, megis ac y chwennychaſant hwy. Ac na odinebwn, fel y godinebodd rhai o honynt hwy, ac y ſyrthiodd* miloedd o honynt. *Ac na themtiwn Griſt, megis ac y temtiodd rhai o honynt hwy,*

hwy, ac a'i deſtrywiwyd. A'r pethau hyn oll a ddigwyddaſant yn ſiamplau iddynt hwy, ac a ſcrifenwyd yn rhybydd i ninnau, ar y rhai y daeth terfynau yr oeſoedd. 1 Cor. 10. 5, 6, 8, 9, 11. *Na fyddwch fel eich tadau, y rhai y galwodd y prophwydi arnynt, gan ddywedyd, dychwelwch oddiwrth eich ffyrdd drwg, ond ni chlywent, ac ni wrandawent,* nes i fwgythion Duw eu goddiwes hwynt. Zech. 1. 4, 6.

Darllen yn aſtud, a chydnabyddi nad yw ffydd beth newydd, eithr hên; na pheth dychymygol, eithr ſylweddol; *a ſiccrwydd y pethau nid ydis yn eu gweled.* Heb. 11. 1. Y rhai ſydd yſtyriol ar eiriau, a gweithredoedd Duw, ac yn byw yn raſol, a dderbyniant gyflawn hyder yn ei ffyrdd ef. Arfera ſanctaidd *ddiwydrwydd er mwyn llawn Siccrwyad gobaith hyd y diwedd.* Heb. 6. 11. Iw blant ufudd, ac nid iw elynion anghymmodol y mae'r Duw doeth yn adrodd ei gyfrinach.

Gwelodd Duw yn dda roddi i mi amſer i orphen yr hyn a ragfwriadaſwn ei yſcrifennu ynghylch Rhinwedd y ffydd, ac i ddatcan ei helynt hi beth yn helaethach nag o'r blaen, gan roddi ar lawr ſwy o reſymmau 'r prif Griſtianogiòn nag a welaiſti gynt. Ac o'i ddoeth ragluniaeth a'i ddaioni gwnaeth y Mawrhydi Neſol i mi drwy brofiad go-hir yn ſy nghyflwr fy hun wybod ſiccrwydd am y prif bethau yr wyf yma yn eu cyfrannu i eraill. Canys ar bôb rhyw achoſion ceſais fy Arglwydd graſuſol yn gyfrywi mi, ac y mae 'r yſcrythyrau yn mynegi ei fod

ef,

ef. Iw enw ef y byddo gogoniant, ac ith enaid titheu y byddo adèiladaeth, mal y byddech Griſtion mewn gwirionedd ac nid mewn lliw yn unig.

Ym myſc rhai pethau anarferol a ddigwyddodd i mi cefais ganſod llawer o'r Gymraeg yn y Bibl Hebraeg, a thybiais na ddylwn i gelu hynny oddiwrth fy ngwlâd, na goſod y ganwyll dan leſtr a oleuwyd yn fy llaw i oddiuchod heb gynnorthwy dŷn; a diammau y gellir gweled rhyw beth wrthi. Yn ddiau ni ddeallais i erioed o'r blaen arwyddoccâd llawer o eiriau ac enwau arferedig yn ein plith ni, nes i mi eu cael hwy yn yr iaith honno ym mha un yr yſcrifenwyd yr yſcrythyrau ſanctaidd gyntaf. A chan fod gennym etto beth o iaith y Prophwydi, ymegniwn i fod yn berchennogion o'u graſau hwynt hefyd, ac i wneuthur ar ôl yr hyn a draethant hwy.

Di a gei yn y llyfr hwn wyth o ddalennau â lluniau arnynt, y rhai ni fwriedais it tuag at addoliad, megis y gelli ddeall wrthynt; na thrwy'r un awdurdod ac y *lluniwyd Jeruſalem ar bridd-lech*, Ezec. 4. 1. ond er arfer naturiol, fel y mae'n gynnefin ym myſc cenhedloedd eraill.

Llê trawodd rhyw gwrr neu'i gilidd o'r groes wrth fy ngwaith a gwneuthur tippin o anaf arno, bydd mor dirion a'i feddiginiaethu drwy yſcrifennu neu ddeleu ymbell lythyren, a gwneuthur y nôd hwn —o gyſſylltiad, lle bo'r naill ran o'r gair yn rhybell oddiwrth y llall.

Y mae i mi achos arbennig i glodfori enw yr Holl-alluog am ddwyn fy ngorchwyl i hyn o hŷd. Ac iw alw *Eben-Ezer, a dywedyd, hyd ymma y cynnorthwyodd yr Arglwydd* fi. 1 Sam. 7. 12. Adolwg na ddigio neb wrth hyn o lyfran, eithr ei dderbyn â'r un ewyllis ac yr wyf inneu yn ei ddanfon. Na friwa'r llaw a eſtynno it arwydd o garedigrwydd, er gwaeled fyddo. Nid yw ddiarwybod i mi fod eraill yn y wlâd a fedraſent wneuthur y rhan fwyaf o hyn yn well. Ond ni rediff y ſûg o'r aeron (er pereiddied a chyflawned fyddont) nes eu dryllio a'u gwaſcu. os digwydd ir cyfryw, *a nhwy yn gwybod ofn yr Arglwydd*, ymoſod *i berſwadio dynion*, y mae iddynt er hyn ddigon o waith, a llê iw wneuthur. Ac ni hwyrach i ryw un o gariad iti, neu o genfigen i mi, yſcrifennu ychwaneg ynghylch yr unrhyw bethau: pa fodd bynnag gwna'r defnydd goreu o bôb cynnorthwy. Yr oedd yn o-anhydyn genifi fyned drwy'r daith hon, i geiſio it hyn o *hanes* am beth gwerthfawr a ſu ar y goll, ac i hel ynghŷd hyn o dyſtion yn achos Duw, nes iw wialen ef fy ngyrru, ac iw ragluniaeth ef *oſod anghenrhaid arnaſi*: ac i *gariad Criſt fy nghymell*. ô cofiwn yr hwn *a fu farw tros bawb, fel na byddei i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw troſtynt, ac y gyfodwyd* 2 Cor. 5. 11. 14. 15. Bu fodlon gan Baganiaid waſanaethu eu pobl drwy ddirfawr boen, a chaledi; ac os bu i'r cyfryw chwyſu a gwaedu dros eu gwlâd, nid yw ond peth bychan i Griſtianogion

anogion yscrifenu er ei mwyn. Y Cymro caredig o chei lesâd wrth ddarllain, treulia ymbell ddeigryn mewn gweddi dros un a dreuliodd lawer mynudyn mewn rhyw fath a'r orchwylion er dy fwyn di, ac felly tâl y pwyth ith

gydwladwr anwiw

Llundain, mîs Ebr. 1677.

1622 1st Ed.

CHARLES EDWARDS.

Robert Humphreys his Book in the yer of the Lord 1729

Nodau rhifyddiaeth. 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 53, 54, 55, 56, 57, 58, 59, 60, 61, 62, 63, 64, 65, 66, 67, 68, 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 77, 78, 79, 80, 81, 82, 83, 84, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 91, 92, 93, 94, 95, 96, 97, 98, 99, 100, 101, 102, 103, 110, 111, 112, 119, 120, 130, 140, 150, 160, 170, 180, 190, 200, 201, 202, 203, 204.

Hanes

DARLUN
DDAIA

Gwledydd

gwres og yw y

dan gylchau 'r ha

rhif 30. Gwledy

yw y rhai sydd odd

tua 'r gogledd

ddautu 'r dda

thra-oerllyd y

Digwydd Eclips ar yr haul pan fo'r Lleuad rhyngtho ef a'r ddaear

R. Palmer sculp

RLUNIAD Y
DDAIAR
Y GOGLEDD
ASIA
TARTARIA
CHINA
PERSIA
AFFRICA
Mor Coch
Cylch yr haul pan fo Cyhyd dydd a nôs
Y MOR
MAUR
Cylch yr haul fyrddydd gauaf
TIR Y DEHEU
Y DEHEU
rwledydd
og yw y rhai sydd
au 'r haul hyd y
Gwledydd tymherus
ydd oddiyno hyd y rhif 70
gogledd a'r deheu o
tu'r ddaiar, a
rllyd yw 'r
sculp lleill.
Eclips y lleuad a berir gan y
ddaiar yn sefyll rhyngthi hi â'r haul

Hanes y Ffydd Gristianogol er dechreuad y byd hyd yr oes hon.

PENNOD I.

Ynghylch Ystóri. a pharthau 'r byd.

DYledus ini chwilio helynt y Ffydd ymbob oes ac ymbob gwlâd. *Ymofyn yn awr amy dyddiau gynt a fuant o'th flaendi, o'r dydd y creawdd Duw ddyn ar y ddaiar, ac o'r naill gwrr i'r nefoedd hyd y cwrr arall i'r nefoedd, a glybu Pobl lais Duw? Gofyn i'r oes gynt, ac ymbaratôa i chwilio eu henafiaid hwynt (canys er doe'r ydym ni ac ni wyddom ddim) oni ddyscant hwy di? Ewch tros ynysoedd Chittim, a danfonwch i Cedar, ac ystyriwch yn ddiwyd.* Ac fal y gallem wybod pa fodd y gwasnaethodd pobl Dduw gynt, treiniwyd iddynt synegi hynny drwy air a scrifen, i'r cenedlaethau oedd i ddyfod *Traethaf ddammegion o'r cynfyd gan synegi i'r oes a ddêl foliant yr Arglwydd, fel y gosodent eu gobaith ar Dduw heb anghofio eu weithredoedd ef.* Er mwyn hyny Scrifennwyd y Scrythurau, ie ac yr oedd yr hèn Baganiaid yn Scrifennu ystoriau cywyr o'r pethau y ddigwyddent yn eu plith, ac oni buase hynny collasen miloedd o bobl Dduw eu bywyd yn amser *Esther: darllenwyd yn llyfr coffadwriaethau*

Deut. 4. 32, 33.

Job 8. 8, 9. 10.

Jer. 2. 10.

Psal. 78. 2, 3.

Esth. 6. 1. 2, ac 10. 2.

thau haneſſion yr amſeroedd, ſel yr achubaſeu *Mordecai* ſywyd y Brenin *Ahasferus*, ac yr oedd *yſpyſrwydd o ſawredd* Mordecai *yn Scrifennedig yn llyfr Cronicl Brenhinoedd* Media *a* Pherſia. Ac ſel y deallem yſtóri yn well, rheidiol ini y ſtyried Argraph y ddaiar yn ol y gorchymmyn a chwilio pôb Cwrr o'r byd. Gwledydd Cydnabyddus y bŷd y ddoſperthir yn bedwar o rannau, y rhai a elwir *Aſia*, *Affrica*, *Europa*, *ac America*.

Yn *Aſia* y creuwyd Adda ac Eſa: y ganwyd Chriſt, ac y pregethodd ef. Ynddi y mae llawer o daleithiau, Megis *Anatolia*, a elwid gynt *Aſia leiaf*, lle bu'r Saith eglwys y Scriſennodd Criſt
Datc. 2. a'r 3. attynt wedi ei dderchafiad drwy law Joan. Yn awr y *Twrciaid* Sy 'n ci llenwi. A *Cilicia*, dinas *Paul*, ſef *Tarſus*, oedd yma. A *Bythinia*, *Pontus*, *Galatia*. lle'r oedd Eglwys Griſtnogol yn amſer *Paul*. *Cappadocia*, *Armenia*, lle mae myny-
Gen. 9. ddoedd *Ararat* y gorphwyſodd Arch Noah arnynt. *A Lycaonia*, lle mae *Derbe*, a *Lyſtra* anwadal, y fynaſei addoli 'r apoſtolion, ac wedi hynny goddeſodd eu hetlid hwy. *Act*. 14. *Syria* hefyd lle mae *Tyrus*, a *Sidon*, a *Joppa*, lle
Act. 9. Cododd Petr *Dorcas* o farwi fyw. *A Damaſcus*, *ac Antiochia*, y alwodd y diſcyblion gyntaf yn Griſtianogion. *Act* 11. 26. *A Phaleſtina*, lle mae 'r môr marw yn yr hwn nis gall dim fyw gan ei Sawr pyglyd ef. Ynghylch y llyn Sawrllyd hwn y tyfiff pren ag afalau arno, tèg yr olwg, ond Pan gwffyrdder â hwynt ânt yn vlw; yn y fan lle y mae 'r llyn hwnn y bu *Sodom*, *a Gomorrah*. a dinaſoedd eraill, ne[illegible] pecho-

dau

dau dynnu arnynt ddialedd tanllyd, yma nid Llyn Llynclys, ond Llyncddinas. Rhannau *Palestina* yw.

1. *Galilea*, gogledd Israel, ynddi yr oedd *Caparnaum a Nazareth* Preswylfa Crist.

2. *Samaria*, rhwng *Galilea a Judea*: ynddi yr oedd *Cæsarea*, lle 'r yswyd *Herod* gan Iau. Wedi caethgludo 'r dêg llwyth, Assyriaid Cenhedlig y bressyliodd yma, y rhai oeddent yn Cymmysgu cresydd yr Juddewon ag eulyn addoliaeth y Cenhedloedd. *Act.* 12.

3. *Judea*, yma y mae *Hebron*, *a Mamre*, a *Bethlehem*, tref ganedigaeth Crist, a *Jerusalem* Enwog lle y croesholwyd ef. Nid yw 'r wlâd hon ond wyth ugain milltir o hŷd, a thrigain o lèd, etto rhyseddol oedd lliaws ei thrigolion, a ffrwythlondeb ei thir, gan ddwyn Cynnyrch ar ei ganfed, tra yr oedd eglwys Dduw yn preswylio ynddi. Ond yn awr nid yw mor ffrwythlon, er Pan wrthododd hi yr efengyl, ac y daeth dan law 'r Twrc. Cyffinia ar y ddwyrain ran o'r môr Canoldir, ac ynghylch Canol y byd ydyw. Yma y Cododd ffynnon dwfr y bywyd sef yr efengyl, ac y ffrydiodd i bob ffordd dros y bŷd. Yn *Arabia*, Cymmydogaeth *Palestina* y rhoddes Duw y gyfraith hefyd i Israel, a bara o'r nef. ynteu cyfleus y gosodes ei bulpyd, sel y clywen 'r bobloedd oddiamgylch âm ddaioni a doethineb Duw! Yn y gwledydd y henwyd y mae Cresydd *Mahomet*, a'r *Juddewaidd*, a'r *Gristnogaidd* yn ol arfer y Groegiaid, gan gymmuno plant, ar ol eu bedyddio uwch ben tân, (sel y tybiant) mewn usudd-dod ir gair, Sy'n dy-

wedyd y bedyddia Crist a'r yspryd, ac â thân.
Matth. 3. 11. ymattaliant hefyd oddiwrth fwydydd aflan dan yr hên destament. Pan ymlygrodd Cristnogaeth yn y dwyrain, ymgymmysgodd gan mwyaf a'r gresydd Juddewaidd, ond yn y Gorllewin a'r un Baganaidd, Ladingaidd hefyd. Yn *Asia* y mae *Assyria* lle'r oedd *Ninifeh*, ac y caethiwyd y dêg llwyth *A Mesopotamia*, (sef *Padam Aram*:) yn y wlâd hon yr oedd Paradwys. A *Babilon*, lle cymmysgwyd yr ieithoedd, ac y teyrnasodd *Nebuchadonozor*: A *Pherfia* ai hargiwyddiaethau, y gyrhaeddif or môr mawr ar y dehau, hyd y môr Caspiaidd ar y gogledd. A *Tartaria*, y elwid gynt gwlâd *Magog* mab *Japhet*, wedi hynny *Scythia*, ymmerodraeth fawr wedi pum mil o filltyroedd o hŷd, a thair mil o lêd: yma y teyrnasodd *Tamerlane*, fflangell y Twrciaid; dyma fam dilyw o bobl, ac aliwns, gogledd *Asia* yw. Creiydd *Mahomet* Sydd yn y teirnasoedd Mawrion hyn gan mwyaf. Cydnabyddant anfarwoldeb yr enaid. Mae rhai Christnogion gôgyfeiliornus yn eu plith, ac Juddewon hefyd. Ac *India* eheng, gyfoethog o aur Ophir, a thra hyfryd ei choedydd a'i maesydd. eulynaddoliaeth fydd ynddi, oddieithr lle mae'r Europeaid wedi adeiladu dinasoedd a chestyll hyd lan y môr tua'r dwyrain. A *China*, teirnas fawr, ynddi y mae dinas *Cwinsay* o daith deuddydd o hŷd, dywed ei thrigolion fod ganddynt gelfyddyd Preintio, a gwneuthur gynnau o flaen Europa: am hynny fod ganddynt hwy ddau lygad, a chan yr Europeaid un, a bod eraill heb yr un,

maent

maent yn addoli delw ac iddi dri o bennau; mae ganddynt hesyd lûn gwraig lân a dyn bychan ar ei braich, yr hwn a aned iddi a hitheu yn forwyn; Cydnabyddant fod yr enaid yn anfarwol. Ffrŵd yr esengyl a adawodd hyn o rŵd oi hol yn y gwledydd hynny. y mae ynysoedd enwog yn *Asia*, megis *Japan a Javan*, a'r *Molucciaid*; ac amryw o honynt dan lywodraeth yr Hispaenwyr, a Phabyddiaeth yn gwreiddio ynddynt.

Yr ail rhan o'r bŷd yw *Affrica*, a henwir felly, am ei bod heb oerni; ynddi y mae *Barbaria*, lle mae *Tunis*, yr oedd llawer o eglwysydd ac yscoldai têg yma gynt, ac *Awstin* yn Athro nodedig, a'r esengyl yn llwyddiannus. Cresydd *Mahomet* sy'n awr amlaf yna, a'r *Twrciaid* yn Caethiwo'r Cristnogion. Yr ûn môdd yw helynt *Algiers*, a *Morocco*, *Numidia*, *Lybia*. Poethgras yw eu tîr, am fod yr haul yn vnion uwch eu Pennau. *Ethiopia* sydd yma, y gysenwir felly am fod ei thrigolion yn dduon, megis wedi llosci eu hwynebau. Dûg yr Eunuch Gristianogaeth i'r wlâd hon, a glynanr ynddi etto, yn enwedig yn ymmerodraeth yr *Abassiniaid*, neu *Joan yr henuriad*: dywedir fod Llyfrdy yn un o balasau yr ymmerawdr hwn, a bod ynddo brophwydolieth *Enoch*, a Llyfrau eraill nid ydynt gennym ni. Mae 'rChristnogion hyn yn eu hail bedyddio eu hunain ar yr ystwyll bob blwyddyn: ni Phoerant ar ol Cymmuno, nes machludo 'r haul. Enwaedant eu plant cyn eu bedyddio. Y mae yn y gwledydd hyn ddau auaf bob blwyddyn.

Ἀφρικὴ.

Αἰθὼ ὄψ.

Acts. 8.

Canys mae'r haul wrth ſymmud o gylch y dehau attom ni i gylch y gogledd, ac yn ol Eilwaith, yn neſſâu attynt, ac yn Cilio oddiwrthynt ddwywaith bob blwyddyn, ond y mae eu gaiaf hwynt agos mor wreſog ar hâf gyda ni. Cydnabyddant *Batriarch Alecſandria*, Yſydd ddinas Enwog o'r *Aipht*; lle gwnaeth *Ptolomeus Philadelphus* Lyfrdy mawr ar ol ir *Aiphtiaid* ddychymmyg wneuthur papyr o hèſc Llydain. yn yr Aipht y mae *Cair*, dinas o wyth milltir ar ugain o hŷd. nid oes fawr law yno; Ond yr Afon Nilus ſydd ar dymhorau yn lliſo dros y wlâd iw gwrteithio. Nid yw Cyrph y trigolion yn bwrw cyſcod yr hâſ, gan ſod yr haul yn union uwch eu pennau. Maent rai yn Griſtnogol o'r un ffydd a'r *Abaſſiniaid*, ond dan awdurdod y *Twrciaid*.

Zech. 14. 18.

Y drydedd ran o'r bŷd yw *Europa*, ac yn awr yr odidoccaf o'r cwbl: gan ei bod yn boblog, yn ddyſgedig, yn Griſtnogol, yn gelfyddgar. ynddi y mae *Prydain* a'i hynyſoedd Perthynaſol, ſeſ *Orcades*, *Hebrides*, *Manaw*, *Môn*, *Iwerddon*. Trôdd y Gwyddyl yn Griſtnogol yn y flwyddyn o oedran Criſt, 335. A'r *Hiſpaen*, yn grŷſ gyda Phabyddieth. A *Ffrainc*, lle cyn. hwyſir creſydd y Proteſtaniaid. Perſwylia rhai o'n cenedl ni mewn talaith o honi, ſef *Llydaw*. Ar yſtlys Ffrainc y mae arglwyddiaeth tywyſog *Safoy*, yr hwn a yſglyfiodd y Proteſtaniaid duwiol ſel blaidd: A *Geneſa* Mammaeth dda ir bûr greſydd, A *Bataſia* Elwir *Holland*, a'r gwledydd cyſſylltedig, y broffeſſant greſydd y Proteſtaniaid yn unig. Yn *Europa* beſyd y mae *Germania*,

Germania,neu wlad yr Ellmyn,lle Cynnyddodd y wir grefydd yn ddirfawr er amser *Luther*, Rhan o honi yw *Helfetia*, ac o'r un grefydd er amser *Zuinglius*;ac *Hungaria* y gynnwys grefydd *Mahomet* a phabyddieth. A'r *Ital enwog*, lle mae *Rhufain*, gwladwriaeth *Genoa a Fenice* gadarn. Bu r' wlâd hon yn glodfawr am grefydd ac arglwyddiaeth gynt, ond wedi ymlygru ymwanhychodd.Tua'r gogledd y mae *Polonia*, teyrnas gref, ynddi mae crefydd y Groegiaid, â'r Proteſtaniaid. A *Denmarc*, a *Sweden*, or unrhyw grefydd: dywedir fod yma bobl a alarant yn oer ar amserau, gan lefain *Jeru*, *Jeru*, *Moscolon*. tybir mae eppil yr Juddewon ydynt,yn galaru am Jerusalem a Damascus drwy orchymmyn traddodiad.Yn ygwledydd hyn nid oes agos ddim dydd dros y trimis gauaf mewn mannau, ac onid ychydig nôs amser hâf. Tu ag yno y mae *Muscofia*, teyrnas helaeth o dair mîl o filltyroedd o hŷd. derbyniodd y grefydd Griſtnogol gan y Groegiaid yn y flwyddyn o oed Criſt 942. Er nad unâ ag Eglwys Rufain, canys yn ei hiaith ei hun yr addola Dduw,etto mae'n ôl goelgrefyddol.

Yn nès at yr haul y mae *Dacia*,ynddi y Cynhwysir *Transylfania*, *Moldafia*, *Walachia*, *Bulgaria*, *Bosnia*, taleithiau dan awdurdod y Twrc. ond mae rhai Proteſtaniaid yn eu mysc. A *Sclafonia neu Illyricum* lle mae *Croatia*,a *Dalmatia*; Pregethodd Paul o Jerusalem hyd yma, ac yn awr daliant'y ffydd yr un sut a'r Groegiaid. A *Groeg*, ei rhannau yw *Corinthus*,

Thessalia,

Canys mae'r haul wrth ſymmud o gylch y dehau attom ni i gylch y gogledd, ac yn ol Eilwaith, yn neſſâu attynt, ac yn Cilio oddiwrthynt ddwywaith bob blwyddyn, ond y mae eu gaiaf hwynt ꝛgos mor wreſog ar hâf gyda ni. Cydnabyddant *Batriarch Alecſandria*, Yſydd ddinas Enwog o'r *Aipht*; lle gwnaeth *Ptolomeus Philadelphus* Lyfrdy mawr ar ol ir *Aiphtiaid* ddychymmyg wneuthur papyr o hèſc Llydain. yn yr Aipht y mae *Cair*, dinas o wyth milltir ar ugain o hŷd. nid oes fawr law yno; Ond yr Afon Nilus ſydd ar dymhorau yn lliſo dros y wlâd iw gwrteithio. Nid yw Cyrph y trigolion yn bwrw cyſcod yr hâf, gan fod yr haul yn union uwch eu pennau. Maent rai yn Griſtnogol o'r un ffydd a'r *Abaſſiniaid*, ond dan awdurdod y *Twrciaid*.

Zech. 14. 18.

Y drydedd ran o'r bŷd yw *Europa*, ac yn awr yr odidoccaf o'r cwbl: gan ei bod yn boblog, yn ddyſgedig, yn Griſtnogol, yn gelfyddgar. ynddi y mae *Prydain* a'i hynyſoedd Perthynaſol, ſeſ *Orcades*, *Hebrides*, *Manaw*, *Môn*, *Iwerddon*. Trôdd y Gwyddyl yn Griſtnogol yn y flwyddyn o oedran Criſt, 335. A'r *Hiſpaen*, yn grŷſ gyda Phabyddieth. A *Ffrainc*, lle cyn. hwyſir creſydd y Proteſtaniaid. Perſwylia rhai o'n cenedl ni mewn talaith o honi, ſef *Llydaw*. Ar yſtlys Ffrainc y mae arglwydd iaeth tywyſog *Saſoy*, yr hwn a yſglyfiodd y Proteſtaniaid duwiol ſel blaidd: A *Geneſa* Mammaeth dda ir tûr greſydd, A *Bataſia* Elwir *Holland*, a'r gwledydd cyſſylltedig, y broſeſſant greſydd y Proteſtaniaid yn unig. Yn *Europa* beſyd y mae *Germania*,

Germania,neu wlad yr Ellmyn,lle Cynnyddodd y wir grefydd yn ddirfawr er amſer *Luther*, Rhan o honi yw *Helfetia*, ac o'r un grefydd er amſer *Zuinglius*;ac *Hungaria* y gynnwys grefydd *Mahomet* a phabyddieth. A'r *Italenwog*, lle mae *Rhufain*, gwladwriaeth *Genoa a Fenice* gadarn. Bu r' wlâd hon yn glodfawr am grefydd ac arglwyddiaeth gynt, ond wedi ymlygru ymwanhychodd.Tua'r gogledd y mae *Polonia*, teyrnas gref, ynddi mae crefydd y Groegiaid, â'r Proteſtaniaid. A *Denmarc*, a *Sweden*, or unrhyw grefydd: dywedir fod yma bobl a alarant yn oer ar amſerau, gan lefain *Jeru*, *Jeru*, *Moſcolon*. tybir mae eppil yr Juddewon ydynt,yn galaru am Jeruſalem a Damaſcus drwy orchymmyn traddodiad.Yn ygwledydd hyn nid oes agos ddim dydd dros y trimis gauaf mewn mannau, ac onid ychydig nôs amſer hâf. Tu ag yno y mae *Muſcofia*, teyrnas helaeth o dair mîl o filltyroedd o hŷd. derbyniodd y grefydd Griſtnogol gan y Groegiaid yn y flwyddyn o oed Criſt 942. Er nad unâ ag Eglwys Rufain, canys yn ei hiaith ei hun yr addola Dduw,etto mae'n ôl goelgrefyddol.

Yn nès at yr haul y mae *Dacia*,ynddi y Cynhwyſir *Tranſylfania*, *Moldafia*, *Walachia*, *Bulgaria*, *Boſnia*, taleithiau dan awdurdod y Twrc. ond mae rhai Proteſtaniaid yn eu myſc. A *Sclafonia neu Illyricum* lle mae *Croatia*,a *Dalmatia*; Pregethodd Paul o Jeruſalem hyd yma, ac yn awr daliant'y ffydd yr un ſut a'r Groegiaid. A *Groeg*, ei rhannau yw *Corinthus*,

Theſſalia,

Theſſalia, Macedonia, Achaia, Thracia, lle mae *Conſtantinopl*, y adeiladodd Conſtantinus ein gwladwr ni a'r yſtlys y môr Canoldir, ac yn awr prifddinas y Twrciaid yw. Plannodd yr Apoſtl Paul eglwyſydd Criſtnogol yn y gwledydd hyn, a Scrifennod amryw oi Epiſtolau attynt. ond er diwedd dûg dialedd Duw y Twrciaid arnynt, etto am drêth maent yn cael rhydd-did i broffeſſu'r grefydd Griſtnogol, a gwrthodant lygredigaeth y Ladingiaid. Mae gan y Criſtnogion lydd dan y Twrc bedwar patriarch parchedig (ſef megis archeſcobion) i lywodraethu'r Eglwyſydd, Un yn Conſtantinopl, un yn Alecſandria, un yn Jeruſalem, ac un yn Antiochia, heb law gweinidogion Cyffredin.

America y henwir yn bedwerydd ran o'r byd, ond tybir ei bod yn gymmaint ar tai'r eraill, y tu arall i'r ddaiar y mae. Canys ſel pellen gron yw'r byd; pan fachludo'r haul arnom ni, tywynna ar America. bydd nôs yma tra fo hi dydd yno. Amlygwyd y wlâd hon i'r Europeaid ynghylch yr un amſer ac yr adferwyd dyſceidieth a chreſydd, Oedran Criſt 1492. Criſtopher Columbus wrth ddirnad fod yr haul yn tywynnu y tû arall i'r ddaiar cybyd ar tû yma, a wybu fod yno wledydd; am hynny wedi cael dwy long gan frenin *Hiſpaen*, anturiodd hwylio hyd y môr mawr, oni ddaeth at ynys y alwodd ef *Hiſpaniola*. Nid eos ond cainc o fôr od oes ddim, rhwng *America* a *Thartaria* gogledd *Aſia*. Oddiyno y tybir fyned pobl iw phreſwylio hi gynt. Rhannau

America

America yw *Mecfico*, lle mae *Florida*. er bod y gwledydd hyn eyn agofed at yr haul ac yw duon *Affrica*, etto gwynnion yw eu trigolion. Yr hyn gyda rhai amgylchiadau eraill a barodd i R. Ben Ifrael dybied mae eppil y dèg Llwyth a aethant o *Aſſyria* drwy *Tartaria* i gyfanneddu yno. Eulynaddolgar ydynt, ond cydnabyddant anfarwolder yr enaid. Attebafant *Ferdinando Soto* a oedd yn ceifio eu dyfcu, nad oedd ei grefydd ef o Dduw, am fod ei dilynwyr mor waedlyd Rhan arall yw *Mecfico*, nid adwaenir moi therfyn tua'r gogledd, gelwir hi yn awr *Hifpaen newydd*. Canys Hifpaeniaid y ddugafant fyddinoedd, ac a laddafant chwe miliwn oi thrigolion ganedigol (y rhai oeddent noethion ac heb reolaeth a chymmerafant eu llè hwynt. Yn ninas *Mecfico* y mae eifteddle Rhaglaw brenin Hifpaen, ac Archefcob, ac yfcoldai. A *Yucutan*, lle lladdwyd peth echryfion o'r trigolion gan yr Hifpaeniaid. Yr oedd yn y wlàd hon demlau tèg cyn dyfod yr Hifpainiaid yno. Arferent befyd enwaediad, ac addolent groes, yr hon â adawfei gwr glân yno gynt er Coffadwriaeth, meddent: A *Nicaracwa*, lle mae mynydd yn bwrw tân allan o honaw. Mae 'r cyfryw beth mewn mannau eraill o America, a'r hên fyd befyd, megis *Ætna*, a *Feſuſius*, ond ni ddywedir fod Simnai cyn ddyfned i'r un, ac i'r mynydd hwn, gan fod y twll, o ba un y mae 'r tân yn dyfod allan, wedi deuddeg ugainllath o ddyfnder. Yn *Cwifira* y mae *Prydâin Newydd*, a ymroddodd i Sr *Francis Drâc*. Yn *America*

y

y mae *Firginia*, *a Lloegr Newydd*, ac ynddynt drefydd, a rheolaeth, a'r eſengyl yn llwyddiannus ymmyſc y Saeſon, a rhai o'r trigolion ganedigol heſyd. *Affraine Newydd. Debeudir America* yw *Peru*, lle mae taleithiau eheng oddiyno i fôr y dehau, a rhai pobl dduon, a llawer o aur, a pherlau, dan awdurdod yr *Hiſpaeniaid* y maent gan mwyaf, a gwnaeth dai-argrynſâu niwed mawr yn y gwledydd hyn er pan ddaethant yno. Mae Saeſon yn preſwylio yn amryw o ynyſoedd *America*, ſef *Barbadoes*, *Bermudas*, *Jamaica*. Creſydd naturiol yr Indiaid hyn yw cydnabod ſod Duw, a derchafant eu llygaid tua'r nef, aberthant, ac Arogldarthant. Gwnaeth gwyr *Mecſico* ddelw o baſteu, ac wedi ei dwyn megis mewn proteſſiwn, rhannaſant y cryſtyn rhwng y bobl, gan ddywedyd eu bod yn bwytta cnawd eu Duw, a hynny mewn môdd parchedig. Yr oedd gan wyr Peru dri delw i Dduw'r taranau, y rhai a alwent y tâd a'r mâb a'r brawd. Cyffeſſei'r Tywyſog ei bechodau i'r haul, ac yna neidieu i ddwfr rhedegog gan ddymuno ar yr afon ddwyn ei bechodau eſ ir môr iw boddi. Yngwlad *Peru* mae hi yn auaf, amſer hâf yn ein gwledydd ni, ymmyſc y Barbariaid Truain hyn y gwnaeth yr Hiſpaniaid *Aceldama*, ac y rhoddaſant y groes i ſeſyll mewn *Golgotha* fwy na'r hon yn *Jeruſalem*, a'r cwbl i ynnill aur, nid eneidiau, ac i droi'r bobl yn gaethweiſion iw geibio eſ.

Y mae gwlâd y welwyd ei chyrrau gan forwyr, y elwir *Magelanica*, neu tîr y dehau anghydnabyddus, tybir ei bod yn gymmaint ar

cwbl

cwbl y ddofparthwyd y tu hwnnw i'r ddaiar. Tebygol ei bod yn fawr iawn, gan fod yr haul yn troi yn ei chylch hi yn amfer gauaf gydani: ac nad oes ond ychydig o'r byd fydd eufus gydnabyddus y tu hwnnw i'r haul.

PEN. II.

Ynghylch y ffydd o ddechreuad y byd hyd blanniad Ifrael yngwlâd Canaan.

BEllach i ddyfod at yr amferoedd. Cyn feilio'r byd yr oedd yr Arglwydd Bendigedig yn rhagordeinio gwneuthur ei etholedigion yn fendigedig drwy Grift. megis y mae gwyr goludog yn dymuno cael plant i etifeddu eu meddiannau, felly yr ewyllyfiodd Duw greu dynion ac angylion i gyfrannu ei fawr ddaioni iddynt, ac i gymmeryd gwafanaeth yfprydol oddiwrthynt; *y Cyfryw y mae'r Tâd yn eu ceifio iw addoli ef.* Am hynny gwnaeth ef Adda ac Efa mewn cyflwr hyfryd pûr, gorph ac enaid. Nid oedd rhaid iddynt wrth ddillad, canys nid oedd un golwg gwradwyddus arnynt cyn pechu. Yr oedd yr holl greaduriaid yn ufudd i Adda, ac yn fwynaidd wrth eu gilidd; daeth y bleiddiaid a'r defaid atto ef yn gyttûn i gymmeryd henwau wedi pechu o Adda ac Efa, ni adawodd Duw hwynt un diwrnod heb banes achubwr i ddirymmu pechod a Satan: gan ragfynegu y Caffau hâd y wraig yfligo pen y farph. Gwelwn ynteu bregethu'r Efengyl er y dydd

Ephef. 1.4.

Joan. 4.23

Gen. 3.15.

Cyntaf

Cyntaf y bu dyn ar y ddaiar. A lladdwyd Crist drwy fwriad ac addewid Duw er dechreuad
*Dat.c.*13.8. y byd. Cymmododd Adda ac Efa a Duw drwy'r cyfammod grafol hwn, cyn y dydd Sabboth, fel na phallei addoliad. Hîr oes Adda fydd yn dangos iddo fyw mewn ufudd-dod i Dduw, canys ni ddarllennir i'r un o'r annuwiol fyw cyhyd ar Patriarchau Sanctaidd. Cy-
*Gen.*5.1. frifir ef yn yr un llech-res â rhai credadwy; a dyfcodd ei blant, Cain ac Abel, i addoli, ac aberthu: yr oedd yr aberthau y pryd hynny yn orchymmynnedig drwy air, wedi hynny drwy Scrifen yn amfer Mofes. Ac yn arwyddocâu yr haeddei'r aberthwr ei lâdd a'i lofci, ac yr aberthid Crift. Dûg Abel y pethau goreu y feddeu yn aberth i'r Arglwydd yn ewyllyfcar, a chyffelybys ddyfod tân o'r nef i gyrchu ei roddion ef i fynu, ac nid rhai
*Lev.*9.24. Cain, fel yr anfonod Duw dân i aberth Elias, ac y gwrthodod ebyrth y gau Brophwydi. typ oedd hyn o'r gwrefogrwydd y rydd Duw
1 *Bren.* 18.25.— yn ei wîr addolwyr i dderchafu gweddiau yfprydol tua'r nef, ac mai trwy'r yfpryd nefol yr offrymmeu Grift ei hun. Y mae cenfigen Cain yn ei yrru ef i lâdd ei unig frawd Abel dduwiol, am ei fod yn rhyngu bodd Duw yn well nag ef. Yr oedd erlidwyr Cyntaf, megis y rhai diweddaf, yn addoli y gwîr Dduw oddiallan. Wedi hynn yr oedd Ifmael o'r un broffefs ag Ifaac, etto yn ei watwar ef. Ac Efau o'r un tâd a Jacob, etto yn ei gaflâu ef. Efcymmunodd Duw Gain afrywiog allan o
*Gen.*4.14. addoliad; dyma ddechreuad rheolaeth eglwy-

ſig. Ar ol hyn rhoddes Duw ſab duwiol arall i Adda, ſef Seth, yr hwn y genhedlodd Enos raſol, ac felly dechreuodd gwir addolwyr Duw amlhâu, au galw eu hunain yn bobl yr arglwydd a hâd Cain felltigedig yn feibion dynion. *Gen. 4. 26.* A bu i rai duwiol ſyw wedi ŵythcant, wedi nawcant o flynyddoedd i glodfori Duw ynghyd. Os rhyfeddi ſod einioes y tadau cyn y diluw cyhyd, yſtyria eu bod yn leſtri newydd ddyſod o law 'r gwneuthurwr Perffaith. A bod eu hymborth yn iachus, ſef dail a ffrwythau, o'r hyn yn awr y gwneir phyſygwriaeth: ac yr oedd y ddaiar yn jevanc. A bendith doethineb yw hîr oes. Heſyd yr oedd *Dihar. 3.* eu hîr gymdeithas hwynt ynghyd, ſel Cy- *16.* manſa ffyddlon o henurieid daionus, yn cadw purdeb gwirionedd ydoedd y pryd hynny heb ei ſcrifennu: ac yn ſuddiol er amlhâu trigolion i'r byd, a gweiſion i Dduw.

Pan oedd y byd yn un cant ar bumtheg oed, ac i feibion Duw ymlygru gyda merched dynion, anſonodd Duw ddiluw i ſoddi'r byd, gan achub Noah berffaith, yr hwn y ſu chwe-chant o flynyddoedd cyn y diluw, ac a oſnodd pan rybuddiwyd ef am ddiſtryw 'r byd, gan ddarparu llong a'r dîr ſych; er bod pobl diameu yn ei watwar ef. Noah ai feibion a adſerodd y byd. Yn eppil ei ſab ef Sem yr arhoſodd y wir flydd.

Llwyr ddiſethwyd eppil Cain gan y diluw, ond parhâodd eppil Seth yn Noah. Y cyſammod a wnaethai Duw ag Adda a adnewyddwyd i Noah. Mewn amſer ty ſodd chwyn

eulu-

eulunaddoliaeth gyda hâd Cam, ord yr ydoedd y wir ffydd yn hynach na hi agos o ddwy fil o flynyddoedd.

Byrrhawyd einioes dynion y naill hanner ar ol y diluw, a hanner arall ar ol cymmyſſcu'r *jeithoedd* yn Babel. Bu Sem fyw hyd amſer Abraham ac Iſaac, ynghylch pumcant o flynyddoedd ar ol y diluw. Ni bu Abraham fyw mor naw ugain mlynedd. Wrth rannu'r *jeithioedd* torrodd yr arglwydd gymundeb rhwng yr eulunaddolwyr a'u gilidd, a gwaſcarwyd hwynt hyd y byd. *Melchiſedec* (yr hyn oi gyfiethu yw brennin Cyfiawnder) y ſendithiodd Abraham, oedd *Sem*, fel y tybia r' dyſcedig. Y Peth ſydd ſcrifennedig a guttuna ag ef. Yr oedd heb rieni na cheraint yn amſer Abraham, *Heb ddechreu dyddiau* yn y byd newydd, *na ddiwedd oes* yn yr hên; yr oedd y rhai byrroes y pryd hynny yn tybied na byddei ef marw byth, wrth ei weled ef yn byw cyhyd. Hawdd oedd iddo effod yn frenin, canys tâd yr holl rai duwiol oedd ef. A dyledus oedd i Abraham gymmeryd ei ſendith ef, canys offeiriad Duw oedd ef, ai hên-hendaid ynteu heſyd. Gwelodd Abraham ddyfodiad Criſt yn y Cnawd, a llawenychodd. Darllen lyfr Geneſis, a rhyfeddi mor ufudd i orchymmyn Duw, ac mor hyderus ar addewidion Duw oedd *Abraham*, *Iſaac*, *a Jacob*, *a Joſeph*, yr hwn lyfr y gynwys yſtori 2369 o flynyddoedd: Sef o ddechreuad y byd hyd farwolaeth Joſeph.

Gen. 11.

Gen. 14. 18.

*Hebr.*7.1.

*Ioan.*8.56.

Adnewyddwyd y Cyfammod i Abraham, a rhag

rhag eſangylwyd yr eſengyl iddò, A'r cyſammod a wnawd ag eſa berthyn i *filo genhedlaethau*. Iddò eſ y gorchymynnodd Duw yr Enwaediad gyntaf, lef blingo ymaeth blaengroen y rhan ddirgel ir plentyn gwryw. Yr hyn oedd yn arwyddocâu y Sancteiddiò hâd *Abraham*, ſef y genid Criſt oi lwynau eſ, yr hwn'a dywallteí ei waed dros ei bobl, ac y dylid torri ymaeth llygredigaeth trachwant. Yn yr oes hon (tebygol) y bu *Job* yn enwog mewn Creſydd yngwlad Uz. ir amſer hwn y perthyn hyd ei einioes eſ. Canys bu fyw Saith vgain mlynedd ar ol ei broſi, ac o'r blaen yr oedd ganddo feibion a merched. Ac ŵyr *Abraham o Ceturah* oedd ei gyſaill eſ *Bildad mab Suah*. Darfu ir pendefigion y ragddywedpwyd ymddwyn yn raſol mewn profedigaeth a goruchafieth. Ac wedi hyn nid allodd toſter yr Aiphtiaid ddiffodd Creſydd yr Iſraeliaid. Coſiaſant lw *Joſeph* am ſymmud ei eſcyrn eſ gyd â hwynt wrth ymadel a'r Aipht, diammeu nad anghofiaſant mo'i ffydd eſ. o'r amſer y gwnaeth Duw yr Cyſammod ag Abraham, hyd ddyfodiad *Iſrael* o'r Aipht y bu 430 flyn. ynghylch oed y byd 2500 Gwell oedd gan *Moſes* fod yn fab i Dduw nag yn ŵyr i Pharao, dewiſodd ádfyd gyda phobl Dduw, o flaen hawddfyd gyda phechod. A hynny wedi iddo fyned yn fawr, pan oedd ynghanol ei oed ai gôf: gwell ynteu yw Cyſſur yſprydol na digrifwch daiarol. Yn awr ordeinwyd yr Oen paſc er coffadwrieth i Iſrael o'u gwaredíad o'r Aipht, ac er yſpyſrwyddo Criſt i ddyfod, am hynny gelwir eſ

Deut. 10. 16.

Gen. 25. 2.

Exod. 13. 19.

Exod. 12. 41.

Hebr. 11. 27.

1 *Cor.* 5. 7.

Ioan. 1. 29. 1 *Cor.* 10. 3. ef yn oen i dynnu ymaeth bechodau. drwy Ffydd yr aeth y bobl drwy'r môr, lle bedyddwyd hwynt a phlant yn eu plith. a chan fod pobl Dduw wedi amlhâu yn fwy na chwechanmil, ac wedi eu didoli ir anialwch oddiwrth eulynaddolwyr, a byrrhâu einioes dyn, yscrifennodd Duw ei gyfraith iddynt ar gerrig á'i fŷs ei hun; wedi iddo â lleferydd eglur ei hadrodd

Exod. 20. wrth y bobl o'r mynydd tanllyd. Pan oedd yn rhoddi teyrnas iw bobl, rheidiol oedd iddo roddi cyfraith gyda hi, ie parodd iddynt gyfodi

Deu. 27. 3. Colofnau maen wedi eu gwyngalchu, a scrifennu holl eiriau yr gyfraith arnyut yn nhir Canaan, Fel y galleu pawb eu darllen er mwyn eu cadw. Ac fel y byddei'r bobl hyspysach ar ewyllis eu Harglwydd, gosodwyd hi nid yn vnig ar lêchau, a Cholofnau, ac mewn llyfrau,

Deut. 32. ond ar ganiâdau hefyd. tybir na bu er ioed yscrifen yn y byd cyn y pryd hyn. O'r blaen yr oedd y rhai pennaf o'r teuluoedd duwiol yn cael gweledigaethau Duw, ac yn dyscu i'r lleill yr hyn y fynegafei Duw iddynt hwy. *A*

Gen. 18. 17. — *gela fi'rhag Abraham medd yr Arglwydd: Canys mi a'i hadwaen ef y gorchymyn ef iw blant ac iw dylwyth ar ei ôl, gadw o honynt ffordd yr Arglwydd.*

Os gofynni pa fodd y gallei Moses wybod y pethau a ddigwyddafent er dechreuad y byd, ac fydd scrifennedig yn ei lyfr cyntaf ef?

Attebaf, y gallei ef wybod llawer drwy fynegiad dynol o'r pethau a ddyscafeu 'r genhedlaeth honno gan Joseph, ac ynteu gan Jacob, ac ynte gan Isaac, ac yntef gan Abraham, ac yntef gan Sem, a Sem ganNoah, aNo-

ah

ah gan Methuselah, ac ynteu gan Adda. A Chyda hynny yr oedd Moses yn cael ymddiddan a'r Arglwydd wyneb yn wyneb, yr hwn y ddatcuddiodd iddo ef y pethau fuasent, a Llawer o'r pethau a fyddent. *Deut.* 34 10.

Wedi amser Moses yr oedd y drugareddfa a'r typau eraill yn pennodi at Grist. Y deg gorchymmyn a roddes Duw yn ei amser ef yw'r vnrhyw ac a ddysgasau 'r ffyddloniaid, ac a ddilynasent hefyd o'r blaen. Y gorchymmyn cyntaf sy'n peri cymeryd yr vn Duw ac oedd gan Adda, Noah, ac Abraham. A'r ail a bair gasau eulunnod, sel y gwnaeth Jacob pan gladdodd ef ddelwau Rachel. Dengis llwon Abraham, ac Isaac, a Jacob mal yr oeddent yn perchi enw Duw, ac yn ei arfer ef yn vnic ar wirionedd pwysawr. Yr oedd y Sabbath o'r dechreuad. Melldithwyd Canaan eisiau iw dâd ef anrhydeddu ei dâd yntef. *Gen.* 2. 3 yn amser Isaac a Juda cospid godineb â *ac.* 9. 25 marwolaeth. Ni synnai Abraham ddwyn dim *Gen.* 26 oddiar Lot, na Jacob oddiar Laban. Enwog 11. oeddent am eu gwirionedd, a choelid iw haddewidion a'u hamodau Ni chwennychai Abraham ddim o'r eiddo brenhin Sodom, na Joseph wraig ei feistr.

Joshua gweinidog ac etifedd yspryd Moses a ddug Israel i Canaan, ac a wnaeth gyssammod *Josh.* 24, dirifol â hwynt, ar usudhâu ir Arglwydd, a bwrw ymmaeth eulynnod.

PEN. III.

Ynghylch y ffydd o amser Joshua hyd aneiddgaeth Christ.

OFarwolaeth Joshua byd amser Saul bu Israel heb frenin, tef yspaid ynghylch 450 flynydd. Yn y dyddiau hynny pan bechei 'r
Act 13. 20 eglwys drwy gau addoliad a drwg foesau gadawei 'r Arglwydd i erlidwyr ei gorthrymmu, a phan ddiwygei ei ffyrdd cyfodei waredwyr iddi. Bu llwyddiant crefydd yn helaethach yn amser y brenin Datydd, gwr wrth fodd Duw, ai fab Solomon, y ddewisodd ddoethineb ddduwiol o flaen golud bydol. Ynghylch hyn y tybir i *Frenhines Sheba* ddwyn y wir grefydd i Arabia ddedwydd, i Brenh. 10. i. Ond wedi hynny ymlygrodd Israel fwyfwy, nes i Dduw ddigio wrthynt, a Chyfodi brenin Assyria i gaethiwo y dèg llwyth, a brenin Babilon i gaethiwo 'r ddau eraill, gan losci Jerusalem a'r
2 *Brenh.* Deml. Bu'r Scrythur a'r gresydd yn brin yn
22. 15. nechreu teyrnasiad Josiah, ac Ahaz, yr hwn y
2 *Cron.* 28. 24. gaeodd y deml, hynny a barodd fawr gystudd.

O amser Solomon hyd gaethiwed Babilon y bu 438. *fly.* oedy hyd 3440. ond argyhoeddodd y gresydd ei herlidwyr, canys y pryd hyn Cyhoeddodd Nebuchodonozor iw holl daleithiau mae Duw 'r Israeliaid oedd y gwir Dduw, gan ei fawrygu ef am wneuthur gwr-
Dan. 3. 28. thiau dros ei bobl yn eu Cyfyngder. Medd ef,
or 4. 1. *hendigedig yw Duw Sadrach, Mesach ac Abednego, yr hwn a anfonodd ei Angel, ac a waredodd ei weision a ymddiriedasant ynddo.* Ond am ir Caldeaid

Caldeaid attal y gwirioneedd mewn anghyfiawnder, a chyftuddio Iſrael ddeng mlynedd a thrugain, dymchwelodd Duw eu ymmerodraeth hwynt, gan ei rhoddi ir Perſiaid. Y rhai a hyfforddiaſant yr Juddewon i ddychwelyd, ac i ailadeiladu yr deml a Jeruſalem, ac a gydnabuaſant heyd fawrhydi y gwir Dduw. Dengis llyfr *Ezra* helynt y ffydd dros 146 *flyn.* ar ol dychweliad Iſrael o Babilon. Y prophwyd olafar ol ailadeiladu 'r deml oedd Malachi: ac yn gymaint ac nad oedd un prophwyd i gyfodi ar ei ol ef rai cantoedd o *flyn.* nes dyfodiad Joan fedyddiwr, mae'n gadel ſiarſe arnynt am ddyfal ddyſcu cyfraith Moſes. Oed y byd 3608, Pan oedd *Alecſander brenin Macedonia,* yn orcheſtol yn gorchfygu cadernid Perſia, daeth tua Jeruſalem yn ddiclon, am i Jadduah yr Archoffeiriad ommedd ei gynorthwyo ef yn erbyn brenin Perſia, ir hwn yr oedd Jadduah yn rhwymedig drwy lŵ. A thra yr oedd y ddinas dan ei dychryn yn ymprydio, ac yn gweddio Duw, cafodd yr Archoffeiriad gyngor mewn breuddwyd i agor pyrth y ddinas, ac i fyned allan ai frodyr gyd ag ef yn eu gwiſcoedd offeiriadol i wyneb y fyddyn lidiog. Ar hyn rhedodd Alecſander i gyfarfod yr Archoffeiriad, ac ai cyfarchodd ef yn oſtyngedig, a gorchymmynnodd iw gapteniaid na wnaent niwed iddynt: gan ddywedyd i Dduw yn y Cyfryw debygolieth ymddangos iddo ef. ac addaw rhwydd hynt iw daith ef. Wedi hynny dangoſodd Jadduah iddo ef brophwydolieth Daniel, yn Crybwyll am ſuddugoliaeth iddo ef, yr hyn a annogodd Alecſander i adel ir Judde- *Mal.* 4. 4.

won rydd-did eu crefydd. Ar ol hyn mynnodd *Ptolemeus Philadelphus* brenin yr Aipht ddeuddeg a thrugain o ddyscawdwyr yr Juddewon i gyfieithu yr hèn destament o'r Hebræaeg ir Groeg. Ond prifiodd eraill o'r brenhinoedd Groegaidd yn erlidwyr chwerwon yn erbyn y wîr grefydd. Ceisiodd vn o honynt ddyfod ir deml ir fan Sanctaidd Sancteiddiolaf iw halogi a'i gau aberthau. Ond wrth weddi Simon yr Archofferiad, trawodd Duw ef â gwendid, fel nad allodd Symmud. Ac wedi myned yn wŷch, pennododd ddiwrnod i lâdd yr Juddewon; ond tynnodd Duw ei goffadwrieth ef ymaeth ár y dydd hwnnw: ac wedi hynny darfu i ddau angel ei ddychrynu ef a'i fyddyn oddiwrth Jerusalem. Yn amser *Antiochus Epiphanes* gwelwyd byddinoedd yn yr awyr vwchben Jerusalem, y pryd y ceisiodd ef yscubo allan o'r byd enw yr Juddewon a'u crefydd. Ac wedi iddo wneuthur creulondeb fawr, trawodd Duw ef â dolur gwaedlyd oni bu ef farw. Er na bu vn prophwyd yn Israel o amser Malachi hyd Joan fedyddiwr, dros well na thrychant o flynyddoedd, etto glynodd yr Juddewon yn gefnog yn eu crefydd y dyddiau hynny. Dengis llyfrau 'r Apocrypha helynt yr amseroedd hyn; y rhai er nad ydynt iw Cyfrif fel yr scrythuran Sanctaidd, oblegyd nad ydynt ymhob peth yn Cyttuno â hwynt, nag wedi eu scrifennu yn Hebraeg, na'u derbyn gan yr Juddewon, etto haeddant barch ystóriau dynol, duwiol.

Oedy hyd 3700.

Bu rhyfel rhwng dau frawd am frenhinieth Jerusalem; Cyrchodd y blaid oedd yn gwarchae

Oedy hyd 3903.

chae ar y ddinas vn Onias gwr duwiol (yr hwn drwy weddi y barafei law ar fychter mawr) i weddio droftynt ar iddynt gael y fiddugolieth, a gweddiodd yntef y geiriau hyn; *Arglwydd gan fod y naill blaid yn bobl iti, a'r blaid arall felly, ac yn offeiriaid kefyd, na wrando ar weddiau y naill yn erbyn y llall*: ar hynny liabyddiafant ef. Ar ŵyl y pâfc gommeddodd y gwarchaewyr ebyrth am eu harian ir lleill yn y ddinas, yr hyn a annogodd Dduw i anfon tymmheſtl i anrheithio ffrwyth y ddaiar, oni chymellodd newyn y gwarchaewyr hynny i ymadel. Ar fyrder daeth *Pompeius gadarn* i dorri'r ymryſſon, ac a ddaroſtyngodd y frenhinieth dan y Rhufeiniaid, wedi i'r Juddewon o'r blaen ddioddef llawer o doſter y Groegiaid. Wedi ir goreſcynwr hwn wneuthur Celanedd yn Jeruſalem, trôdd ir deml, a lladdodd yno ddeuddeg mil, er hynny ni pheidieu 'r offeiriaid yn y Cyfamſer er maint oedd y dychryn â chyflawni ſwyddau 'r diwrnod, Canys ympryd oedd ymattaliodd *Pompeius* rhag yſpeilio 'r deml o'i thryſſor o ran parch ir llê. ond wedi hynny daeth Craſſus awyddus, ac a yſcubodd ymmaeth ei golud, a chwympodd dialedd Duw ef drwy ddwylaw 'r Parthiaid, y rhai mewn dirmyg a lanwafant ei Saſn ef ag aur. Gwnaeth y Rhufeiniaid vn *Herod* (Edomiad o'r naill du) yn frenin yr Juddewon. Yn amſer yr *Herod* yma y bu daiargryn mawr yn Judea y laddodd ddengmil o bobl, heb law anifeiliaid lawer, ac y bu erlid mawr ar yr Juddewon, am dynnu i lawr lûn eryr (Lluman y Rhufainiaid,) a oſodaſeu ef ar ddrws y deml. 3 9 3 0.

PEN. IV.

Dyfodiad Chriſt. Cyhoeddiad ei Efengyl ef hyd amſer Traianus.

YN y flwyddyn olaf o deyrnaſiad Herod y ganwyd Criſt, Oed y byd tair mil, naw cant, a thrigain a thair. Ar hynny brawychodd Herod, ac a laddodd blant Bethlehem ar hyder llâdd Criſt yn ei grûd, ond bu ef ei hun farw yn y man gwedi. Er bod yr Eglwys yn ogoelgrefydd ol y pryd hyn, etto darllennwn yn yr efengil am amryw rai duwiol, megis *Simeon*, a *Zacharias*, ac *Elizabeth*, ac craill. Yn y bumthegfed flwyddyn o oedran Criſtpan oedd *Auguſtus Cæſar* ymmerawdr gorfodawg Rhufain ynrhifo ei filwyr, torrodd taran ddychrynllyd uwch eu Pennau, a dileuodd *C*, y llythyren gyntaf o henw *Cæſar*, teb/g lle yr oedd ei lûn a'i henw wedi eu hargraphu ar gofoſn. Canys yr oedd yn arall i lywydraethu ywch ei law ef. Ynghylch Pedair ar ddèg ar hugain oi oedran y croes hoeliwyd Criſt drwy ddymunniad ei wladwyr; daeth diflanniad ar yr holl Swyddogion a'i Condemniaſant ef. Ymlidiodd ymmerodr Rhufain Pilat ymmaeth, am iddo gadw 'r tryſſor Cyhoeddus iddo ei hun. Ac wedi i'r Juddewon gael pumtheg mlynedd go heddychol i glywed yr efengil gan yr apoſtolion i edrych a editarhaent, a nhwythau gan mwyaf yn Caledu eu calonau, amlhâodd eu helbulon ar bob trô, nes i'r Rhufeiniaid gwbl ddinyſtro Jeruſalem a'r deml, au gyrru

ymmaith

ymmaith o'u gwlâd, wedi llâdd o honynt vn cant a'r ddêg o filoedd, a gwerthu o honynt ddêg cant a Phedwar ugain o filoedd i gaethiwed. A digwyddodd iddynt yn ôl eu ſtyfnigrwydd, pan leſaſant yn erbyn Criſt, bydded ei waed ef arnom ni, a'n Plant. Ac o herwydd iddynt ddewis *Cæſar* o flaen *Criſt*, cawſant ddigon o *Cæſar*, canys Cymmellid hwynt i addoli ei lûn ef, ac erlidwyd hwynt am wrthod hynny. Cyn eu dinyſtr llifeiriol, Safodd Seren un ffurf â chleddyf uwch ben y ddinas, ac ymagorodd un o ddryſſau mawr y deml o hono ei hun, er ei fod o brês, ac arno farrau heirn. *A chlybwyd llais yn yr awyr yn peri ir Chriſtnogion fyn-d ymmaeth i Pella.* Yma Cymmerth ſwgythion Criſt afael arnynt. Efe dan wylo a rybuddiodd Jeruſalem y gwnau ei gelynion hi *yn gydwaſtad a'r llawr, a'i phlant o'i mewn, o herwydd nad adnabu amſer ei hymweliad* Och gwelwn ac oſnwn. Mae Duw yn rhygryf i'r gwrthnyſſiccat o ddynion. Taflodd gowri yr hên fŷd i fod yn ſurgynnod ar y ddaiar, bwriodd Pharao a'r Aiphtiaid i byſcod y môr côch, Herod i'r llaŵ, a Jezabel ir cŵn.

Oed. Criſt 72.

Luc. 19. 41. 44.

Er ir Juddewon wrthod trugaredd yr efengil, mynnodd Criſt weled o lafur ei enaid ymmhlith y cenhedloedd. Canys drwy bregethiad yr apoſtolion, (y gawſant ddawn rhyfeddol i fynegi'r iechydwriaeth i bob cenedl lle delent yn ei hiaith ei hun) mewn amſer bychan llanwyd pob teyrnas gan Griſtnogion, fel aneirif yſcuboriau ag ŷd mewn ychydig-wythnôſau y cynhaiaf. Gwelodd rhaglunieth Duw yn dda raglyfnu peth ar y bŷd drwy philoſophyddieth

y

y Groegiaid, a rheoleth foefawl y Rhufeiniaid, ac yno hauodd yr efengil. A hynny yn llawnder yr amferoedd, pan oedd y bŷd amlach o bobl nag y buafei e'r ioed o'r blaen. Pregethodd *Thomas* yr Apoſtol ir Parthiaid, Mediaid, a'r Perſiaid, ac er diwedd lladdwyd ef â phiccell. Efangylodd Simon Zelotes yn Affrica, a chroes hoelwyd ef. Llafuriodd Bartholomeus ymmyſc yr Indiaid, a blingwyd ef. Andreas a bregethodd ir Scythiaid, a chroeſhoelwyd ef, a Mathew ir Juddewon, ac a labyddwyd, Peder ir Juddewon ar waſcar, ac yn eu gwlâd: Philip ir Phrygiaid, a chroeſhoelwyd ef. Daeth Paul tua'r Gorllewyn, ſef i wlâd Groeg a'r Ital, a'r Hiſpaen: a dywedir i rai oi gymdeithion ef bregethu yn Ffrainc, ac oddiyno anfon Joſeph o Arimathea i blannu yr efengyl yn Prydain. Wedi i Paul gymeryd poen ryfeddol i hyfforddi yr eſengil, torrwyd ei ben ef yn Rhufain. Merthyrwyd Pedr hefyd. Efangylodd Thaddeus yn Edeſſa, lle y'iachâodd ef *Agbarus* y brenin, yr hwn a anfônaſai am Griſt i ddyſod atto ef, wrth glywed ſôn am ei wrthiau ef, ac addawſei Chriſt anfon un o'i ddyſcyblion atto ef ar ol ei dderchafiad. Cynygiodd *Agbarus* aur i *Thaddeus* am ei gymwynas, ond gwrthododd yr Efangylwr y rhôdd, gan ddywedyd, *Iddo ef adel yr eiddo ei hun, a phetha y wnai ef ag eiddo arall.*

Dyfodiad Chriſt yn y cnawd a gyflawnodd yr hyn a addawſei Duw, ac a ddiſgwiliaſei 'r bŷd am y Meſſiah, yr hwn oedd *ddymuniad pôb cenedl.* Rhagfynegodd prophwydi yr Juddewon, a phrydyddion y cenhedloedd am dano ef,

ef, mal y gwelir yn yr scrythyrau, a scrisennadau 'r Siblau. A chynted ac y ganwyd ef, cafodd bugeiliaid Bethlehem, a doethion y dwyrain, sef Juddewon a chenhedloedd rybudd iw groeshawu ef i'r bŷd. Addawsai Duw i Abraham y *bendithid yr holl genhedloedd yn ei hâd ef.* yn amser Dafydd Cafwyd yspysrwydd am dano ef yn y Psal. 110. 1. *Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd, eistedd ar fy neheulaw, hyd oni osodwyf dy elynion yn faingc i'th draed.* Lle'r amlygir y derchafiad y gafai 'r Mâb gan y Tâd wedi gorphen yr hyn oedd o'i waith offeiriadol iw wneuthur ar y ddaiar. Adroddwyd ei ddyndod, a'i enedigaeth ef yn amser Hezeciah. Mai o *Bethlehem y deuei allan vn i fod yn llywydd yn Israel: yr hwn yr oedd ei fynediad allan o'r dechreuad, er dyddiau tragwyddoldeb.* Rhagfynegwyd ei ddioddefiadau ef gan Esay. Pen. 53. a *Thywalltiad yr yspryd ar bôb Cnawd* gan *Joel. Pen.* 2 Oherwydd hyn yr oedd y duwiol yn disgwil am dano ef yn yr amser y daeth ef; mal y gwelir wrth Simeon, a Zacharias. Je y Samariaid, y rhai nid oedd ganddynt ond crefydd gymmysc, a wyddent *fod y Messias yn dysod, yr hwn a elwir Christ.* Mic. 5. 2. Joan. 4. 25.

Cyn myned ymhellach yn ystori 'r testament newydd, y styriwn fod y wîr grefydd dros ddwy fil a hanner o flynyddoedd, sef er dechreuad y bŷd hyd Moses, yn siml, ac yn blaen, heb fawr ddefodau corphorol mewn bwydydd na gwiscoedd, nag amseroedd, na llêodd, heb law'r aberthau, a'r enwaediad yn amser Abraham. Wedi hynny o amser Moses hyd dderchafiad Christ dros ynghylch pumtheg

Cant

Cant o flynyddoedd, bu rhifedi mawr o ffigurau a defodau gweledig i arwyddo Swyddau Crist, a phan ddaeth Crist ei hun yn y cnawd, a chyflawni 'r peth yr oedd y rheini yn ei ragfynegi, dioscodd crefydd y cyscodau hynny, gan ddychwelyd i'r simlrwydd dechreuol mewn modd trâ ysprydol. Ond yr un oedd Sylwedd crefydd ymhob oes dan yr hên destament, a'r newydd, (gwèl yr 11 *pennod at yr Hebr.*) gan weithio yr un grasau ynghalonau 'r ffyddloniaid cyntaf a'r diweddaraf. Gwell oedd gan rai duwiol yr hèn destament Dduw
Dan. 3. na'u bywyd, Cymerent eu bwrw i ffwrn o dân
17, 18. poeth, yn hytrach nag yr addolent *Eulun yn* lle'r Arglwydd byw. ac telly yr oedd gan Sainct y Testament newydd: *Parod oedd Paul*
Act 21.13. *nid iw rwymo yn unig ond i farw hefyd er mwyn enw yr Arglwydd Jesu.* Yr un moddion grâs arferent, ses cynghori, mysyrio, a gweddio. *Y-*
Job. 4. 4. *madroddion Job a gyfodent i fynu yr hwn oedd yn syrthio.* A dywed yr angel wrth Cornelius, *an-*
Act. 11. *fon am Petr, yr hwn a lefara eiriau wrthit, trwy*
14. *y rhai i'th iacheir di, a'th holl dŷ* Yn amser y
Psal. 1. 2. Psalmydd yr ydoedd y gwynsydedig *yn mysyrio ynghyfraith Dduw ddydd a nôs.* A gorchym-
1. *Tim.* 4. ynwyd i Timotheus, *Lynu wrth ddarllein; a*
15. *mysyrio ar y pethau hynny.* Nerthol oedd gweddiau pobl dda ym mhob oes, sel y gwelir yn
Jag. 5 15. Moses ac Elias; ac medd Jago, *llawer a ddichon taer weddi y cysiawn.*

Yr vnrhyw orchymmynion moesawl y sydd yn yr scrythurau Cyntaf a'r diweddaf. Rhaid ydoedd i Israel gynt megis y rhaid i'r Christianogion yn awr wneuthur da am ddrwg,

a cheifio lleſhau eu gelynion, gan ddychwelyd iddynt eu heidionnau a elent a'r gyfrgoll, a Chynnorthwyo eu aſſynnod llwythog hwynt. Rhaid ydoedd iddynt beidio â thwyll, ac â lleddrad, a bwytta eu bara drwy laſur, a chwŷs. Y gorchymmynion Moeſawl ydynt gopiau o'r ſanctteiddrwydd a'r cyfiawnder yſydd ynNuw, ac a ddarlunia ef ar eneidiau dynion: a chan fod ei ddaioni ef yn anghyfnewidiol, y mae ei gyfraith ef felly hefyd. Er dywedyd o'r Apoſtol *nad yw enwaediad na dienwaediad ddim*, etto ni ddywed nad yw ſanctaidd addoliad, ac eulunaddoliaeth, goneſtrwydd a lleddrad ddim, eithr annogiff bawb i *gadw gorchymmynion Duw*. *Exod.* 23. 4.5.

Yr un dedwyddwch yr oedd y graſol bob amſer yn ei geiſio, *Sef gogoniant tragwyddol. Gwyddai Job fod ei Brynwr yn fyw, ac y ſafai yn y diwedd ar y ddaear, ac er i bryfed ddifetha ei gorph ef, y cafai ef weled Duw yn ei gnawd.* Ac yr oedd y Criſtianogion cuſtuddiedig *yn cymmeryd eu yſpeilio am y pethau oedd ganddynt yn llawen, gan wybod fod gen ddynt olud gwell yn y nefoedd.* Drwy r'un Cyfryngwr yr oeddent yn cael trugaredd Dduw. Dywed yr Apoſtol Paul ir Corinthiaid yn ei amſer ef, ac ir Iſraeliaid yn y diffaethwch yn amſer Moſes *fwytta o'r un bwyd yſprydol, ac yfed o'r un ddiod yſprydol o'r graig yſprydol, a'r graig oedd Griſt.* A'r un anwyldra a amlygodd Duw tuag at y bobl dduwiol dan y Teſtament hên a'r newydd; gan obrwyo eu ymgeleddwyr hwy, *bendithiodd dŷ Potyphar er mwyn Joſeph, a Chriſt gwobr am roddi* *Job.* 19. 25, 26. *Heb.* 10.34. 1 *Cor.* 10.4. *Gen.* 39.5. *Math.* 10. 42.

*Exod.*8. 1. *Act.*12,1, 2, 23. *Josh.*5,13, 14. *roddi phiolaidd o ddwfr i un o ddyscyblion Crist*: a chystuddio eu cystuddwyr hwy, megis *Pharao*, A *Herod.* ymddangosodd Crist yn weledig dan yr hên destament, a chyflawnodd waith prynedigaeth yn nechreuad y newydd. yn Sicer y mae trugaredd Duw wedi amlhau yn fwy tuag at y bŷd yngweinidogaeth y testament newydd; am hynny y llawenychodd *Simeon*, ac y mae *Crist* yn dywedyd fod *llygaid ei ddyscyblion ef yn wynfydedig am weled y pethau yr oeddent yn eu gweled, o herwydd i lawer o Brophwydi ewyllysio eu gweled ac nis gwelsant.* Canys y mae'r efengil yn Eglurach. Yr oedd y testament newydd wedi ei orchguddio yn yr hên, yn awr y mae'r hên wedi ei ddatcuddio yn y newydd, ac fel yr haul yn Affrica yn rhoddi goleuni heb gysgod. *Ae aberthwyd yn awr nid geifr a lloi, either Crist ei hun, gan gael ini dragwyddol rydâhâd.* Hefyd nid oedd gynt ond ymbell deulu yn cael hyspysrwydd o'r grefydd: ac wedi amser *Moses* nid oedd ond un genedl yn cael ei galw yn oestadol, a'r rhan fwyaf o honno yn wrthodedig eisieu ufuddhâu: tra yr oedd agos yr holl genhedloedd eraill cyn amled a thywod y môr yngwaelod anghredinieth a cholledigaeth. Ond gorchymmynwyd i'r apostolion gynnig Cymmod a grâs i bob cenedl dan haul, fel y ganwyd plant ysprydol i Grist *megis y gwlith o gr ôth y wawr, A'r gwledydd y fuasent mewn tywyllwch er dechreuad y bŷd a welsant aleuni'r bywyd.*

*Luc.*2,29. *Luc.*10. 23, 24. *Heb.* 9.12. *Psa.*110.3.

Ar hyn llidiod y Cythrael y ddirfawr am golli ei ddeiliaid, a chynhyrfodd ymmerodron

Paganaidd

Paganaidd Rhufain i erlid y Criftianogion yn filain. O fewn y trychant blynyddoedd Cyntaf ar ol ganedigaeth Crift y bu dêg o erlidigaethau trymion.

Y cyntaf o honynt y digwyddodd yn *nheyrnafiad Nero.* Yr hwn a wnaeth iro Cyrph y Criftianogion â gwêr ac â phyg, iw lloſci'r nôs i oleuo beolydd Rhufain. Wedi hyn ofnodd *Domitianus* deyrnas Crift, a lladdodd ei geraint ef, a gyrrodd *Joan* i *Bathmos.* Ond pan ddeallodd ef mai yſprydol ac angylaidd oedd teyrnas yr Jeſu, attaliodd ei greulondeb. *Oed. Cr.* 67

PEN. V.

Yr Erlid dan Trajanus, Hadrianus a Ferus ymmerodron Rhufain, *pryd y merthyrwyd Ignatius, Polycarpus, Juſtin,* ac *eraill.*

AR ol hyn gorchymmynodd *Trajanus* lâdd llawer mîl o'r Criftianogion. Darfu i *Ignatius Pregethwr duwiol* ei argyhoeddi ef oi eulunaddolieth, a merthyrwyd ef am ei dyſtiolaeth: A thra'r oeddid yn ei droſglwyddo ef o Antiochia i Rufain, anfonodd lythr o'i flaen at y Chriftianogion o'r ddinas ymmerodrawl honno i ddymuno arnynt na cheiſient rwyſtro ei ferthyrdod ef. Cyfeithais hyn o hono o'r Groeg a'r ladin, mal y dirnedech ei yſpryd ef wrth ei eiriau. *Oed. Cr.* 100.

Wedi

Wedi fy rhwymo yn Ghriſt Jeſu yr y dwyf yn gobeithio cael eich cyſarch chwi, os bernir fi yn deilwng i ddyfod i'r pen. Dechreuwyd yn dda os caf râs i gyrhaeddyd gafael ar fy rhan yn ddirwyſtr. Canys yr wyf yn ofni eich caredigrwydd chwi, rhag iddi wneuthur imi niwed. Ni fynnwn i chwi ryngu bodd dynion ond Duw, megis yr ydych yn gwneuthur. Os tewch chwi â sôn yn fynghylch i gwneir fi yn eiddo Duw: eithr os hoffwch chwi fy nghnawd i, rhaid i mi redeg drachefn. Ond gweithiwch chwi yn hytrach fel i'm haberthir i Dduw, gan fod yr allor yn barod. Fal y canoch i'r Tâd yn Ghriſt Jeſu, am fod yn wiw ganddo beri i Eſcob o Syria yn y môdd hwn ddyfod i'r gorllewin wedi ei gyrchu o'r dwyrain, i fod yn dyſt o'i ddioddefiadau ef, ac i fachludo oddiwrth y byd at Dduw, fal y cyfodwyf ynddo ef. Gwedciwch drofoſi ar fynghael yn Griſtion, ac nid yn vnig fy ngalw felly.

Gadewch i mi fod yn fwyd i bwyſtfilod rheipus, drwy y rhai y caffwyf ddyfod at Dduw. Yd Duw ydwyfi, melir fi yn nannedd bwyſtfilod fal i'm caffer yn fara pur i Dduw. Je yn hytrach llithiwch y bwyſtfilod fel y byddont yn fêdd i mi, ac na weddillont ddim o'm Corph i, rhag i neb gael poen oddiwrthiſi wedi fy buno. Byddaf yn wir ddiſcybl i Griſt pryd na welo'r byd mo'm Corph i.

O Syria hyd Rufain ar dîr ac ar fôr yr ydwyf yn ymladd â bwyſtfilod ddydd a nôs, yn rhwym wrth ddeg o lewpardiaid, ſef y milwyr a'm gwiliant, y rhai fydd waeth er gwneuthur

iddynt gymwynas. O na chawn i fwynhau 'r bwyſtfilod a baratowyd imi, y rhai a chwenychwn i eu cael yn gyflym, y rhai a lithia fi'm traflyngcu i yn fuan, ac nad arbedont fi, megis yr otneſant rai eraill, mi ai cymmellaf hwynt onis gwnant yn rhwydd. Cŷd-ſynniwch â mi, gwn beth ſydd dda ar ſy llês: yn awr yr wyf yn dechreu bôd yn ddyſcybl, pŷd nad wyf yn chwenych dim gweledig nac anweledig ſal y mwynhawyf Griſt. Deled i'm herbyn y tân, ar Groes, ac ymgyrch bwyſtfilod, drylliadau ſy eſcyrn, torriadau ſy aelodau, datrodiad ſy holl gorph, am y caffwyf yr Jeſu. Gwell i mi farw dros Jeſu Griſt na rheoli hyd eithafoedd y ddaiar. Canys *pa lês i ddyn ynnill yr holl fŷd, á cholli ei enaid?* O frodyr na rwyſtrwch i mi fyw. Goddefwch i mi debygu i Griſt ſy Nuw mewn dioddefaint. Tywyſog y bŷd hwn a gais ſy nghipio, a llygru y meddwl ſydd gennif tuag at Dduw, na bydded i'r vn o honoch chwi ei gynorthwyo ef, eithr yn hytrach byddwch gynorthwywyr i mi. na leſarwch am Griſt dan dybio'r bŷd yn well. Yn fyw yr wyſ yn yſcrifennu attoch mewn mawr-ſerch i farw. Croeſhoelwyd ſy ſerch i, ac nid oes ynoſi neb ryw dân yn chwennych deſnydd-wydd bydol, eithr dwſr bywiol yn tarddu ynof, ac yn dywedyd ynoſi *tyred at y Tâd.* Nid wyf yn ymhyfrydu mewn ymborth llygredig, na digriſwch y bywyd hwn. Ewyllyſio yr wyſi fara Duw, *bara 'r bywyd*; yr hwn yw cnawd Chriſt, Mab Duw, a wnawd yn yr amſeroedd diweddaf o hâd Daſydd, ac Abraham, a'i waed ef yr wyf yn ei chwenych yn ddiod, yr hwn yw bywyd

tragwyddol. yn eich gweddiau cofiwch yr eglwys yn Syria y ſydd a'r Arglwydd yn fugail iddi yn fy llê i.

Yſcrifennodd un oi raglawiaid at yr Emerodr, na fedrei ef gael gwybodaeth o ddim drwg ar y Criſtianogion, er iddo eu Coſpi au holi yn fanwl, onid eu bod yn ymgyfarfod cyn y dydd i ganu hymnau i Griſt, ac i gydfwytta, au bôd yn ymwneuthur a'u gilydd i ymwrthod â lladrad, llofruddieth, a godineb: ar hynny cafodd y Criſtianogion heddwch. Ond yn amſer *Hadrianus* merthyrwyd *Zenon iarll duwiol* yn Rhufain, a deg mil o Griſtianogion gyda'g ef. Ar hyn plediodd dyſcawdwyr Criſtnogaidd eu hachos o flaen y gorthrymwr, oni lareiddiodd ei. Ie yſcrifenodd *Antoninus Pius* at ei ſwyddogion, ei ſod ef yn gweled y Criſtnogion yn ddioſn ar ddaiargryn, pan ſyddeu ei Ddeiliaid Paganaidd ef yn llawn dychryn. Am hynny tybiei eu bôd hwy yn bobl dda, ac na haeddent goſpedigaeth. Rhydd *Philo, Scryfenydd ayſcedig* er ei fod yn Juddew, gyfryw dyſtiolaeth am Griſtnogion yr oes hon yn yr Aipht: ſef eu bôd hwy yn gadael eu tiroedd, yn ymprydio, ac yn gweddio, ac yn canu pſalmau, un yn dechreu, ar lleill tua'r diwedd yn cydbyncio.

Dywedir i Griſtion ievanc o gydnabyddieth *Ioan yr apl*, adel ei broffeſs, a myned yn yſpeilwr pen ffordd A phan gyfarfu ar y mynydd ag Joan, ffoâ wdd oddiwrtho ef rhag Cywilydd. Ond wedi i Joan leſain ar ei ôl ef, ac addaw iddo gymod a Chriſt, Safodd y lleidr dan grynu ac wylo. Ac wedi ir *Apoſtol* weddio droſto ef, dychwelwyd ef at y Saint.

Pan

Pan fethei gan Satan ddiddymu'r ffydd drwy'r erlidwyr Paganaidd, cyffroei ymbleidiau yn yr eglwysydd, ac amryw opiniwnau. Am hynny gorfu i *Polycarpus athro cuwog* ddyfod o Asia i eglwys Rufain ynghylch y Pasc, ac vnodd a hwynt mewn Cymmundeb ysprydol yn swpper yr Arglwydd, er nad oedd Cyflondeb rhyngtho ef a nhwythau ynghylch y defod hwnw. Ond wedi hynny yn Amser *Ferus yr Emerodr* Cododd erlid yn erbyn yr efengil, a merthyrwyd Polycarpus dyfcybl Joan yr *apl.* Yr hwn y ddywedodd wrth y rhai oedd yn ceifio ganddo wadu ei ffydd, *Iddo wafnaethu Crift er's gwell na phedwar ugain mlynedd, ai gael ef yn feiftr da, ac am hynny na adawei ef mono ef byth.* Oed Chr. 162. Er ei fod yn oedranus, etto ni chwimiodd ronyn tra yr oeddynt yn ceifio ei lofci ef, ond ni finniei 'r tân arno ef tra yr oedd efyw, am hynny lladdafant ef a'r cleddyf, a thra'r oedd y tân yn llofci ei gelain ef, daeth arogl peraidd oddiwrtho ef: flangellwyd eraill, a threiglwyd hwynt yn noeth ar hyd cregin llymion, a phryd nad ymwrthodent a'u ffydd er hynny, teflyd hwynt ir llewod iw llarpio. Merthyrwyd *Juftinus* befyd dyfcawdr llythrennog, yr hwn fuafei vnwaith yn Philofophydd cenhedlig; ond wrth weled mor gyflurus y byddeu'r Criftnogion yn dioddef, decbreuodd fyn-feddylio, ac wrth ymddiddan a hên Griftion trôdd at Dduw. tyftiolaethodd nad ellid wneuthur niwed i Griftion, er ei lâdd ef. Cymer yr hyn a ganlyn o'i yfcrifennadau ef.

PEN. VI.

Yr ymddiffin a wnaeth Juſtin Ferthyr dros y Chriſtianogion at ſenedd Rhufain a'r ymmerawdr.

YMae gan Jeſu henw ac ordinhâd i ſod yn Achubwr er jechydwriaeth i'r ffyddloniaid, a dymchweliad y cythreuliaid, a hyn a ellwch chwi ei ddeall wrth y pethau a wneir yn eich golwg chwi. Oblegid yn ddiau llawer o'n pobl Griſtianogol ni drwy enw 'r Jeſu a groeſhoelwyd a iachaſant, ac ydynt yn awr yn iachau drwy 'r holl fŷd, a'ch dinas hon lawer o bobl cythrybledig gan gythreuliaid, y rhai nis gallau eich ſwynwyr chwi mo'u jachau. Gwyddom i lawer a dderbyniaſant ddyſcybliaeth y Stoicciaid, o herwydd iddynt athrawiaethu yn odidog ynghylch moddion gael eu caſhau a'u llâdd, megis Heraclitus gynt, a Muſonius yn ein hoes ni. Canys yr yſprydion drwg bob amſer a baraſant gaſineb i'r rhai a geiſient ſyw wrth reſwm, a gochelyd drygioni mewn neb ryw fodd. Ac yr wyf innau yn diſgwil goſod i mi gynllwyn gan ryw vn, a'm hoelio wrth bren.

Tra yr oeddwn yn ddilynwr dyſceidiaeth Plato, mi a glywn gablu'r Griſtianogion, eithr gwelwn hwynt yn myned yn ddiofn at farwolaeth, a phôb peth dychrynllyd arall. Bernais ynof fy hunan mae amhoſſibl ydoedd eu bod hwy yn byw mewn drygioni, a ſerch i drythyllwch. Canys pwy ac fyd i ddilynwr trythyllwch a ddichon gofleidio marwolaeth yn ewyllyſcar, iw ddifeddu ei hun o'r pethau ſydd dda ganddo?

Nyni

Nyni wedi ein troi drwy reſwm a'r Gair, a ddilynwn yr vnig a'r diadgenedledig Dduw drwy ei ſâb ef. A'r rhai oeddem gynt yn ymhyfrydu mewn godineb, yn awr a hoffwn ddiweirdeb yn vnig. Yrhai a arferem gunſwriaeth a'n Cyſſegrwn ein hunain i'r Tragwyddol Dduw. Yrhai a hoffem feddiannau yn bennaf peth, yn awr a gyfrannwn yr hyn ſydd gennym a'r anghenogion. Pwy bynnag a gredant wirioneddy, perthau a draddodir, ac a ddywedir gennym ni, ac a dderbyniaſant allu i fyw felly, a ddyſcir i weddio dan ymprydio, ac i geiſio gan Dduw faddeuant pechodau, a ninnau a weddiwn ac a ymprydiwn gydâ hwynt. Yn ol hynny arweinir hwynt gennym ni lle bo dwfr, ac adgenhedlir hwynt yn yr vnrhyw fôdd o adenedigaeth ac yr adgenhedlwyd ninnau. Canys yna y golchir hwynt yn y dwfr yn enw Tâd pôb peth, a'n Achubwr Jeſu Chriſt, a'r yſpryd Glân. O herwydd Chriſt a ddywedodd, *oddieithr eich geni chwi drachefn nid ewch i mewn i deyrnas nefoedd.* Nyni yn ol y golchiad hwn a ddygwn y credydyn at y brodyr i'r fan lle y byddont wedi ymgaſclu i wneuthur gweddiau cyffredin â meddwl dyfal droſtynt eu hunain, a thros yr hwn a oleuwyd, a thros bawb eraill ym mhôb man, ar ein cael drwy weithredoedd wedi i ni adnabod y gwirionedd yn geidwaid da o'r gorchymmynion a roddwyd i ni, a bôd yn gadwedigol yn dragywydd. Wedi gweddiau cyfarchwn eu gilydd â chuſſanau. Wedi hynny dygir bara, a phioled o ddwfr, a gwîn i'r hwn ſy'n flaenor ar y brodyr. Yntef wedi eu derbyn a gyflwyna fawl a gogoneddi Dâd pôb

peth drwy enw 'r Mâb, a'r yſpryd Glân, ac yn hirfaith rhydd ddiolch am iddo ganhiadu ini ei ddoniau hyn. A phan orphennо ef weddiau a thalu diolch, yr holl boblag hyſtryd gydſynniad a leſara Amen; yr hyn yn yr iaith Hebraeg a arwyddocca *gwneler*. Wedi i'r rhagflaenor orphen y weithred o ddiolchgarwch, y diaconiaid a roddant y bara a'r gwîn a'r dwfr i bôb vn o'r rhai preſennol, ac au dygant at y rhai abſennol. Yr ymborth hwn yn ein myſc ni a elwir *diolchgarwch*, yr hwn nid yw gyfreithlon i neb arall fôd gytrannog o hono, onid i'r hwn ſy'n credu iôd ein achrawiaeth ni yn wîr, ac a olchwyd er maddeuant pechodau, ac ſydd yn bucheddu fel y dyſcodd Chriſt. Canys nid fel bara cyffredin neu ddiod gyffredin y cymerwn ni y rheini. Yna yn ddiau yr ydym ni yn coffau eu gilidd ynghylch y pethau hyn, a'r rhai ſydd ganddynt a gynnorthwyant yr anghenus, ac yr ydym yn ddiwyd y naill gyda'r llall. Ac ym mhôb peth a roddom yr ydym gan fendithio yn moliannu gwneuthurwr pawb drwy ei fâb ef Jeſu Criſt, a'r yſpryd Glân. Ac ar y dydd a elwir y ſul, pawb oll a'r a breſwyliant yn y treſydd, neu 'r gwledydd a gyd ymgynhillant, a darllenir llyfrau 'r Apoſtolion, a ſcrythyrau 'r prophwydi cyhyd ac y bo 'r amſer yn goddef. Yn ol hyn cyd-gyfodwn oll a thywaltwn weddiau, ac wedi gweddio megis y rhag ddywedaſom ni, cyflwynir bara, a gwîn, a dwfr. Heb law hynny y rhai ydynt oludog a gyfrannant bôb vn wrth ei ewyllys: a'r hyn a gaſcler ſelly a roddir iw gadw at y blaenor, ac yntef oddiyno a gynnorthwya 'r ymddifaid,

ar

a'r gweddwon, yr anghenog clwyfus, caethion, a dieithraid. Ar ddydd Sul yn gyffredinol oll y gwnawn ni ein cynnulleidfau, yn gymmaint ac mai hwnw yw 'r dydd cyntaf y gwnaeth Duw 'r byd ynddo, ac y cyfododd ein Achubwr Jefu Grift arno.

Ei ymddiddaniad ef â Thrypho yr Iuddew.

Er ioed ni bu, ac byth ni bydd vn Duw arall, o Trypho, heb law yr hwn a wnaeth yr holl fyd; ni obeithiwn ni chwaith mewn neb arall onid yn Nuw Abraham, Ifaac, a Jacob. Ond gobeithiwn nid trwy Foefen, canys felly y gwnaem fel chwithau. Darllenais am gyfraith ddiweddarach ydoedd i ddyfod, a Theftament o awdurdod traflcer. Y Teftament hwnw fydd raid ei gadw gan bawb yn awr a'r a geffiant gael etifeddiaeth Duw: Chrift yw 'r gyfraith olaf, a'r dragwyddol a roddwyd i ni, a'r teftament ffyddlon, gwedi 'r hwn ni bydd na chyfraith na gorchymmyn arall, oni ddarllenaift di y peth a ddywedodd Elaias? *Gwrandewch arnaf fy mhobl, a chluftfeiniwch â mi frenhinoedd, canys cyfraith a aiff allan oddiwrthifi, a'm barn yn oleuni cenhedloedd. Y mae fynghyfiawnder yn neffau ar frys, a'm hiechydwriaeth i a aiff allan, ac yn fy mraich i y gobeithia y cenhedloedd.* A thrwy Jeremia y dywed Duw fal hyn am y Teftament newydd hwn, *wele 'r dyddiau yn dyfod, medd yr Arglwydd, y gwnaf gyfammod newydd â thŷ Ifrail, ac â thŷ Juda, nid yr hwn a wnaethym a'u tadau hwynt yn y dydd yr ymaflais yn eu llaw hwynt, tal y dygwn hwynt allan o dir yr Aipht.* Am hyny

gan ſynegu o Dduw y treſnid cyſammod newydd, a hynny yn oleuni i'r Cenhedloedd, a'n bod ni yn gweled, ac yn bygoel gennym ſod pobl drwy enw Jeſu Grift a groeſhoelwyd yn troi at Dduw oddiwrth eulunnod, a phôb math ar anwiredd, ac yn parhau yn eu proffes hyd farwolaeth, ac yn ymarſer â gwîr dduwioldeb: yn ddiau wrth y gweithredoedd, a'r rhinwedd a gydganlyn y gall pawb ddeall yn hawdd mai hon yw'r gytraith newydd, a'r Teſtament newydd, a dſgwiliad y rhai o'r holl genhedloedd a ddeilyfant bethau da gan Dduw. Canys nyni yr Iſrael yſprydol wedi ein dwyn at Dduw drwy Grift a groeſhoelwyd, ydym genhedlaeth Jacob, Iſaac, ac Abraham, yr hwn mewn dienwaediad a gafodd dyſtiolaeth am ei ffydd, ac a dderbyniodd ſendith, ac a alwyd gan Dduw yn *aâd llawer o genhedloedd.*

Y mae'r goſodwr Cyfraith yn breſennol, ac nis gwelwch. Y mae'r rhodion yn derbyn cennadwri llawen yr eſengyl, y mae'r deillion yn gweled, chwithau ni ddeallwch. Rhaid wrth enwaediad arall, a chwithau a falchiwch yn y cnawd. Mynn y gyfraith newydd i chwi gadw Sabbath yn oeſtadol, a chwithau pan dreulioch yn diwrnod mewn gorphywyſtra a debygwch i chwi wneuthur dledſwydd crefydd. Ac os bwyttewch fara croiw dywedwch i chwi gyflawni ewyllis Duw. Nid y pethau hyn a hoffa ein Duw ni. Os oes neb yn eich myſc chwi yn anudonŵr, neu yn dwyllwr, peidied â phechu; os oes neb yn odinebŵr edifarhaed, a cheidw wir a hyfryd Sabbathau Duw. Nid i'r ymdrochfa yr anfonodd Elaias chwi, fel y golchech

ymmaith

ymmaith lofruddiaeth, a phechodau eraill, y rhai nid yw dwfr y môr ddigonol iw glanhau. Ond yr olchfa jachufol gynt a gafau 'r edifeiriol. Ni chymmodir hwynt chwaith â Duw wrth waed bychod, a defaid, ond wrth ffydd drwy waed Chrift, a'i farwolaeth ef, canys er mwyn yr achos hwnw y bu ef farw. Ai llês bedydd yw ei fod yn gwneuthur y corph yn lanach? Bedyddier a golcher chwi yn eich eneidiau oddiwrth ddigofaint, a chybudd-dod, oddiwrth genfigen, a chafineb, ac wele 'r corph a fydd glân. Hyn hefyd yw arwyddoccâd y bara croyw, na chyflawnoch hên weitbredoedd y furdoes maleifus. Ond yr ydych chwi yn cymeryd y cwbl mewn yftyriaeth gnawdol, ac yn tybied ei fod yn wîr grefydd os gwnewch y cyfryw bethau, er eich bod yn y cyfamfer â'ch eneidiau yn llawn twyll a phôb drygioni. Y mae arnoch chwi a enwaedwyd yn y cnawd eifiau ein enwaediad ni; ond nid oes arnom ni, gan fod hon gennym, ddim o ddiffyg eich vn chwi. Canys pe buafei mor rheidiol ac yr ydych chwi yn tybied, ni chreuafai Duw mo Adda yn ddienwaededig, ac nid edrychafai ar roddion ac aberthau Abel, ac yntef yn ddienwaededig ei gnawd. Ni buafai Enoch chwaith yn rhyngu ei fodd ef, yr hwn *ni chafwyd am i'r Arglwydd ei fymmud ef.*

Ni a weddiwn Dduw yn oeftadol fal ein cadwer drwy Jefu Grift; mal wedi ein troi at Dduw drwyddo ef y bom yn ddifeius. Canys galwn ef yn Gynnorthwywr, ac yn Brynwr. Y Cythreuliaid a ofnant allu ei enw ef, a'r pryd hyn pan dyngheder nhw drwy enw Jefu Grift

a

a groeſhoelwyd dan Pontius Pilatus, y maent yn vſuddhau i ni; megis wrth hynny y byddo amlwg i bawb ſel y mae 'r cythreuliaid yn ddaroſtyngedig iw enw eſ, ac i ſwydd y dioddefaint a gymerth eſ arno. Gwnawd eſ yn offrwm dros yr holl bechaduriaid a fodlonant i ddyfodiw pwyll drwy edifeirwch, ac a ymprydiont yr ympryd a ſynegodd Eſay. gan *ddattodrhwymau*, a chadw 'r pethau eraill a rifir ganddo eſ, ac a wnaiff y rhai ſydd o ffydd Jeſu. Rheidiol i chwi fod yn ddiwyd i wybod pa ffordd y gellir cael maddeuant pechodau, a gobaith o'r pethau daionus a'r ſydd iw cael yn edifeddiaeth. Ac nid yw amgen na hon, ſef wedi adnabod y Chriſt hwn er maddeuant pechodau, a'ch glanhau a'r olchſa, bôd i chwi fyw heb pechod rhag llaw.

Newydd a dieithrol yr ymddengis profiadau o'r yſcrythyrau er eu darllen gennych beunydd; mal y dealloch wrth hynny i Dduw guddio oddiwrthych chwi, o herwydd eich drygioni ach malais, ſel na chanfyddoch ddoethineb yn ei eiriau eſ; oddieithr y rhai yn ôl rhâd ei drugaredd y gadawodd eſ iddynt hâd i jechydwriaerth, ſel na lwyr ddifethid eich cenedl chwi megis Sodom a Gomorra, ſel y dywed Eſaias. Heb law yr hwn a ddeallir ei fôd yn Dâd y cwbl, gelwir arall yn Arglwydd gan yr yſpryd Glân: ac nid trwy Foeſen yn vnig, ond trwy Ddaſydd heſyd. Canys trwyddo eſ y dywedpwyd, *Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd i eiſtedd ar fy neheulaw i, nes y goſodwyf dy elynion yn droedfainge iti.* A thrachefn, *dy orſedd di o Ddiw ſydd yn dragywydd, gwialen vni-*

ondeb

ondeb yw gwialen dy deyrnas di. Hoffaiſt gyſiawnder, a chaſeaiſt anwiredd, am hynny Duw, dy Dduw di a'th enneiniodd ag olew llawenydd vwchlaw dy gyſrannogion. Dygaf i chwi heſyd, o gyſeillion, dyſtiolaeth arall allan o'r yſcrythyrau ſanctaidd, ddarfod i Dduw cyn bod vn creadur genhedlu o honaw ei hun rinwedd ddeallus a elwir gan yr yſpryd Glân yn *Fâb*, weithiau yn *ddoethineb*, weithiau yn *Dduw*, weithiau yn *Arglwydd*, a'r *Gair*. Bu prŷd y galwodd ef ei hun yn *Ben Tywyſog* wrth ymddangos mewn dull ddynol i Joſhua Mab Nun. A thrwy Solomon y dywed fel hyn; *Yr Arglwydd a'm gwnaeth er dechreuad ei ffyrdd.* Hyn heſyd a ddywed gair Duw drwy Foeſen, *Gnawn ddyn ar ein delw ni.* A dywedodd Duw, *wele Adda ſydd megis vn o honom ni i wybod da a drwg* Gwnaeth y Chriſt hwn i ddwŷr bywiol oddiwrth Dduw ſfrydio ar lèd yn y diffaethwch ydoedd heb wybodaeth o Dduw, ſef yn nhir y cenhedloedd: yr hwn heſyd a amlygwyd yn eich cenedl chwi, ac a jachaodd y rhai clwyfus, byddarion, a chloffion, gan gyſodi 'r meirwon heſyd a'u dychwelyd i fywyd. Drwy hygoeledd ei weithredoedd cynhyrfodd y bobl o'r oes honno iw gydnabod.

Yn ein myſc ni hyd y pryd hyn y mae doniau prophwydoliaeth, oddiwrth yr hyn y dylech chwi ddeall ſymmud y pethau hynny attom ni a'r oeddent gynt yn eich cenedl chwi. Ac megis yn eich myſc chwi yn amſer y prophwydi ſanctaidd yr oedd gau brophwydi, felly yn ein myſc ninnau y mae gau athrawon, y rhai y rhybuddiodd ein Harglwydd ni iw gochelyd.

Eſe a ddywedodd y *caſeid*, ac *y lleddid ni er*

mwyn

mwyn ei enw ef, ac a deuan gan Griſtian a dwyllent lawer, yr hyn a gyflawnir befyd.

Onid oedd ef iw eni o wyryf, am yr hwn y llefarodd yr yſpryd Glan, *wele 'r Arglwydd a ddyry arwydd, wele morwyn a fydd feichiog, ac a Eſcor ar fab.* Os oedd ef megis rhai cyntafanedig eraill iw genhedlu wrth gydiad, pa arwydd a addawodd ef ei wneuthur nad yw gyffredin i bôb cyntafanedig? Ac yn hyn y meiddiech lygru cyfieithiad eich henuriaid a fu gydâ Ptolomæus brenin yr Aipht, gan haeru na chynwys yr yſcrythyr megis y troeſant hwy, ond *wele gwraig jevange â feichioga*, megis pe'r arwydd occeid peth mawr i wraig jevangc feichiogi wrth gydiad, yr hyn y mae gwragedd jeveingc agos i gyd yn ei wneuthur. Amlwg yw drwy 'r holl ddaiar nad oes neb a all ein dychrynu ni y rhai a roeſom ein henwau i'r Jeſu drwy ffydd. Y mae'n ddigon eglur nad ymadawn ni a'n proſeſs er ein taro a'r cleddyf, a'n harwain i'r groes, a'n caflu i'r bwyſtfilod, a'n penydio â thân, a phob math ar ddir boenau eraill. A pha ſwyaſ o'r cyfryw ddialeddau a wneler â ni, mwyaf a fydd o ffyddloniaid, ac o ddilynwyr gwir grefydd drwy enw 'r Jeſu. Canys megis ac wrth ei yſgythru y gwnaiff vn i'r Winwydden ſwrw allan wrŷſc jeſeingc; felly y digwydd ynom ninnau befyd: Canys gwinwydden a blanwyd gan Dduw a Chriſt yr Achubŵr yw ei bobl ef.

Cyfieithaſant hwy yr yſcrythyr honno yn Eſay. 7. 14. *o'r Hebraeg, ir Groeg fel hyn.* ἰδοὺ ἡ παρθένος ἐν γαστρὶ λήψεται. *we'e gwyryf â feichioga.*

Megis y cadwodd gwaęd yr oen pâſc y rheini yn

yn yr Aipht yn jach ddianaf, felly gwaed Chriſt a wareda y credadwy oddiwrth farwolaeth. A ydych chwi yn tybied y buaſem ni fyth yn gallu deall y pethau byn yn yr yſcrythyrau, oni bae i ni drwy ewyllys Duw dderbyn grâs fel y deallem hwynt, a chwithau heb y grâs hwn nis deallwch hwynt: fel y cymhwyſer at y peth yr hyn a gyhoeddwyd gan Foeſen, *digiaſant fi â duwiau dieithr, a minnau a baraf i ddynt hwythau wynſydu trwy 'r hen nid yw genedl, trwy genedl annealliw y digiaſ hwynt.* Deut. 32. 21.

O'i lythr ef at Diognetum.

Gwêl nid yn vnig â'th lygaid ond a'th bwyll o ba ſylwedd a ffurf y mae 'r rhai yr ydych chwi yn eu galw yn ddduwiau. Onid yw 'r naill o honynt yn faen fel yr hwn y ſathrer arno? a'r llall yn brês, heb fod yn amgenach na'r lleſtri a wnawd i'n gwaſanaeth ni? pren yw 'r llall, a hwnw yn bwdr hefyd. Onid yw arall yn arian, yr hwn ſydd raid iddo wrth ddyn iw gadw rhag ei ddwyn gan leidr?

Nid yw 'r Chriſtianogion neilldnol oddiwrth ddynion eraill, nac o ran gwlad, nac jaith. Eithr preſwyliant mewn dinaſoedd Groegaidd a Barbariaidd, megis ac y digwyddodd rhan pob vn, gan ddilyn arferion y brodorion yn eu dillad a'u bwyd. Yn yr vn môdd ac eraill y mae ganddynt bôb peth megis dinaſyddion, a dioddefant bob peth megis pererinion. Preſwyliant ar y ddaiar, ond y mae ganddynt eu dinaſyddiaeth yn y nêf. vſuddhant i'r cyfreithiau goſodedig, a bucheddant vwch eu llaw hwynt.

Carant

Carant bawb, a phawb a'u berlidiant hwynt: Lleddir a, bywocceir hwynt. Y maent yn dlodion, ac yn cyfoethogi llawer. Gwradwyddir hwynt, a gorfoleddant dan ammharch. Dygir eu gair da, a thyſtiolaethir eu cyfiawnder hwynt.

PEN. VII.

Erlid yr efengyl yn Frainc a'r Affric, ac mewn lleoedd eraill a'r achoſion o'r blinderau hynny.

YN yr oes hon y bu *Ireneus* dyſcybl *Polycarpus* yn Athro buddiol yn ffrainc, yn ei amſer ef y bu ymdrech rhwng Eſcob Rhufain ac eglwyſydd *Aſia* ynghylch y Paſc: mynneu rhai *Aſia* gadw'r un amſer a'r Juddewon, ond taereu Eglwys Europa iddynt dderbyn oddiwrth yr apoſtolion na ddylent gymmuno ond ar y Sabboth yn unic. Am hyn y Cyhoeddodd Victor eſcob Rhufain nad arferei ef ddim Cymmunneb ag eglwyſydd *Aſia*: ond darfu i *Ireneus* yn enw eglwyſi ffrainc, ac eraill, ei ar gyhoeddi ef oi boethder, er eu bod o'r un dŷb ag ef ynghylch y pwnc. Gan ddangos nad oedd holl eglwyſi Criſt drwy'r bŷd yn Cadw yr un amſer i ymprydio, canys ymprydieu rhai ddiwrnod, eraill ddauddydd, etto bod undeb cariadus rhyngthynt: Ac na ddylid drwy ymdrech am gyfcod golli ſylwedd crefydd, ſef cariad. Yr oedd gwrthiau yn yr eglwyſydd yn amſer *Ireneus*, ac eſangylwyr yn myned ar lêd i bregethu: pan drym-

drymhâodd yr erlid yn ffrainc merthyrwyd eſ, a llawer o'r Criſtnogion. Yno y cafodd y gweiniaid ddiangfa, a'r Cryfion galondid i ddioddefer mwyn Crilt, gan yſtyried *nad yw dioddefiadau yr amſer preſennol hwn, yn haeddu eu Cyffelybu i'r gogoniant a ddatcuddir i ni.* Safodd i fynu un *Fetius Jarll* i bledio gyd a'r Criſtnogion a merthyrwyd eſ gyd â hwynt. *Blandina gwyryf* raſol a flinodd ei phenydwyr drwy ddioddefgarwch, gan gyffeſſu ei ffydd heb ymwrando-â'i phoen. wedi i oſn yrru *Bibliſ* i wadu'r ffydd, poenydwyd hi er mwyn ei chymmell i gyhuddo ei chyfeillion, ac yn ddyſymmwth, fal un wedi deffro o gŵſc, addefodd Griſt, a thyſtiolaethodd nad oedd y Criſtianogion yn bwytta gwaed aniſeiliaid, a pha fôdd y bwyttaent waed plant? Pan weleu'r encilwyr gweiniaid fod y rhai Calonnog mor bârdd yn eu Cadwynau a'r briodas-ſerch yn ei thrwſiadau, deuent o honynt eu hunain ir frawdle i gyffeſſu Criſt er mwyn cael merthyrdod. er arteithio a ffrio yr Sainct ar farſor, etto buont ffyddlon hyd angeu. Wedi lloſci 'r merthyron, teſlid eu llŷdw ir afon, er mwyn gwanychu gobaith y Chriſtianogion am yr adgyfodiad. Ond digwyddodd ir ymerodr fod mewn Cyfyngder eſ ai fyddyn o ran Sychter, ac wedi iddo geiſio Cymmorth yn oſer gan ei eulynnod, anfonodd am y Chriſtnogion ynghyd i weddio at eu Duw dros y fyddyn, ac felly y gwnaethant, a chawſont law yn ebrwydd. ac am y Cymwynas hwnw gorchymmynwyd oſtegu'r erlid. *Rhuf.* 8. 18.

Dan emerodraeth *Seferus* y bu erlid tôſt yn enwedig ar Griſtnogion *Affrica* a *Chappadocia*, *Oed. Cri.* 205.

y

y pryd y merthyrwyd tâd *Origen*: ac er nad oedd yntef ond llangc dwy ar bumtheg oed aethei allan i gymeryd ei ferthyrdod gyd a'i dâd, oni buasei iw fam guddio ei ddillad ef; am hynny yscrifennodd at ei dâd iw annog ef i ddioddef. Trodd un *Capten Bafilides* yn Gristion wrth roddi *Potamiena* i farwolaeth am ei ffydd. Ac ychydig gwedi dioddefodd ei hun am ei Ffydd yr un gospedigaeth, ac y roefei ef ar eraill yn ei angbredinieth. Am hyn y dywedir fôd *gwaed y merthyron yn hâd yr Eglwys*. Canys pobl wrth weled Cyssur y merthyron a chwiliant am yr achos o honi, ac wedi ei chaffael, ai dilynant, am fôd tangneddyf á Duw yn awr angeu yn beth dymmunol.

Yr achosion pam yr oedd y rheolwyr Paganaiddcyn fynyched, a chyn gieiddied yn gorthrymu yr Christnogion oedd amryw; megis; *Y gelyniaeth fydd rhwng hâd y wraig a hâd y ddraig*. Cân gan natur lygredig Dduw ai ffyrdd. Am hynny codid celwyddau ar y Sainct, eu bod yn llâdd plant, ac yn godinebu yn eu cyfarfoddydd: ac yr oedd y wîr ffydd yn gostegu eulunaddolieth y cenhedloedd, ac am hynny yn eu cyffroi hwynt. Pan fwriodd Paul ytpryd dewiniaeth allan o langces, terfyscodd dinas *Philippi*; a llanwyd dinas *Epheſus* o gythryfwl yn erbyn yr esengil, rhag cyfrifteml y dduwies *Diana* yn ddiddim. A byddeu cynghorion Cristnogion yn anesmwytho y rhai oeddent yn ymroddi i bechod: Dyna'r peth y wnaeth i *Herod* garcharu a mwrdro *Ioan Fedyddiwr*. Wedi i un o ordderchion Rheolwr droi yn gristnoges, a gwrthod bodloni ei gynesin chwant ef, ceisiodd ymddial

Gen. 3. 15.

Act. 16. 18.

Act. 19. 27.

Marc. 6. 17, 18.

ymddial ar yr efengil. Hefyd yr oedd y Criſtnogion o ran ofn Duw beb roddi ufudd-dod i lawer o gyfreithiau y cenhedloedd: or achos hynny y bwriwyd yr Iſraeliaid gynt ir *ffwrn dân*, *ac i ffau'r llewod.* Ni ſyneu y rhai graſol dyngu i *Ffortun Cæſar*, nac addoli ei ddelw ef yn y marchnad-leodd, er gorchymmyn y Swyddogion: am hynny y bernid hwynt yn yſtyfnig, ac yn haeddu Côſp, rhag iddynt gyffroi hawl i frenhirieth. Yn olaf, pa aflwydd bynnag y ddigwyddei ir cenhedloedd, os newyn, neu haint, tybient i hynny fod o herwydd ir Criſtnogion ddirmygu eu gau dduwiau hwynt, a hynny, gyda chwant iw meddiannau hwynt, ai blaenllymei nhwy i ddiſetha'r ffyddloniaid. *Dan.*3.12, *ac pen* 6. 12.

A chan fod yſcrifennadau ladin Tertullianus yn achos y Chriſtianogion y pryd hynny yn llawn o reſymmau doethion, talſyrrais a chyfeiſhais o honynt yr hyn a ganlyn.

PEN. VIII.

Diſſynniad y ffydd yn erbyn y cenhedloedd gan Tertullianus henuriad o Carthago yn Affrica.

NId yw plaid y Chriſtianogion yn adolwyn nawdd am eu hachos, o herwydd nad yw ryfedd genddi ei chyflwr. Gŵyr ei bod yn bererin ar y ddaiar, ac yn hawdd iddi gael gelynion ym myſc dieithraid: a bod genddi dylwyth, eiſteddle, gobaith, a brî yn y neſoedd. Ond yn peth weithiau a hoffa hi ei wneuthur fal nas

condemnier hi yn anadnabyddus. Os collfarnant hi cyn ei gwrando, heb law cenfigen angbyfiawnder, haeddant eu hammau am ryw gydwybod, gan na fynnant wrando yr hyn nis gallent ei gondemnio wedi ei gwrandawer. Am hynny y gŵyn bon o'ch anwiredd yw 'r gyntaf a oſodwn i'ch erbyn, ſef eich caſineb i enw Chriſtianogol. Yr hwn anwiredd a drymheir, ac a argyhoeddir gan yr vn lliw â'r hwn y tybir ei eicuſodi, ſef anwybodaeth. Canys beth ſydd angbyfiawnach nag i bobl gaſſau yr hyn nis adnabyddant, pe rhôn i'r peth haeddu câs? Canys y pryd hynny yr haedda, pan wydder iddo haeddu. Ond pryd na bo gwybodaeth o'r haeddiant, pa fodd y diffynnir cyfiawnder y caſineb? Pan ſo dynion am hynny yn caſſau o herwydd nas gwyddant pa fath yw 'r peth a gaſſânt, pam nas dichon ef fod yn gyfryw beth ac na ddylent ei gaſſau? Felly argyhoeddwn bôb vn o'r ddau, ſef iddynt fod heb wybod tra caſſânt, ac yn anghyfiawn gaſſau, tra nis gwyddant. Bydded i bawb a gaſſânt yr hyn nis gwyddant, beidio â chaſſau, ſel y caffont wared o'u anwybodaeth Yr hyn ſydd ddrwg yn ddiau ni lefis y rhai a gipiwyd ido mo'i ymddiffin megis da. Tywallfodd natur ofn a chywilidd am ben pôb drwg. Hôff gan ddrwg weithredwyr ymguddio, gochelant ymddangos, crynant pan eu dalier, gwadant pan eu cyhudder. Ond beth debyg i hynny y wnaiff y Chriſtion? Nid oes gywilidd ar yr vn, nid edilar gan yr vn. Os gwrando yidir ef gorfoledda, os cyhuddir ef nid ymddiffin: pan holer ef cyffeſſiff yn rhwydd, pan ei barner ef rhydd ddiolch. Pa fath ddrwg

wg yw hwn y ſydd heb y pethau ydynt naturiol i'r drwg? megis ofn, cywilidd, cilio yn ôl, ediſeirwch, galar. Pa fath ddrwg yw hwn y mae 'r euog yn llawenychu o'i blegyd? cyhuddiad yr hwn yw dymuniad vn, a'i gôſp yw ei ddedwddwch. Nid elli ei alw yn ammhwyll, a thitheu yn anwybodus o hono.

Os yw ſiccr ein bod ni yn ddrwg pam i'n trinir gennwch chwi mewn modd amgenach na rhai drygiog eraill? Pan ſydder ynghylch barnu eraill arferant eu geneuau eu hunain, a dadleuwyr cyflogedig i ddângos eu diniweidrwydd; rhydd iddynt atteb ac ymddadleu, ac nes iddynt eu hymddiffyn eu hunain, a chael eu gwrando, nid cyfreithlon eu heuogfarnu. Ond ni chaniatteir i'r Chriſtianogion leſaru dim i ddiheuro eu hachos, i ddiffyn y gwirionedd, i wneuthur na bo'r barnwr yn anghyfiawn. Eithr hynny yn vnig a ddiſgwilir a'r ſydd reidiol i gyffroi câs cyffredinol, ſef cyfaddefiad o'r henw, ac nid holiad o fai.

Pan ydoedd Plinius yr ail yn rheoli talaith, ac iddo gondemnio rhai Chriſtianogion, a diſwyddo eraill, cythryblwyd ef o herwydd eu lliaws, ac ymgyngborodd â Thrajanus yr ymmerawdr beth i wneuthur â'r lleill: gan addef heb law eu cyndynrhwydd hwy yn gwrthod aberthu, na chawſei ef ddim ar eu crefydd hwy, ond cyfarfodydd plygeiniol i ganu i Griſt, ac i Dduw, ac i gydgreirio dyſcybliaeth, gan wahardd llofruddiaeth, godineb, twyll, anffyddlondeb, a phob yſcelerder arall. Yna yſcrifennodd Trajanus atto, yn ddiau na cheiſid allan mor rh[illegible]byn, onid eu cofpi pan eu cynnygid

hwy. O farn anrhefnus! gommedd chwilio am danynt megis rhai diniwed, a gorchymmyn eu cofpi megis rhai euog. Nid ydych yn gwneuthur â ni wrth ffurf barnu drwg weithredwyr eraill yn hyn chwaith, o herwydd pan fo eraill yn gwadu arferwch benydiau iw cymmell i gyfaddef. Ond penydiwch y Chriſtianogion yn vnig i geiſio eu cymmell i wneuthur gwâd. Llefain y dyn, Chriſtion wyfi: y mae ef yn dywedyd y peth ſydd, a thithau a fynni glywed y peth nid yw. A chwi yn ſwyddogion i waſcu 'r gwir allan o bobl drwy eu poeni, a geiſiwch glywed celwydd gennym ni. Yr wyfi medd ef, yr hyn yr ydwyti yn ei ofyn a ydwyfi. Pam ynteu y dadgymmali di fi ar gam? yr wyf yn cyfaddef, ac etto ti a'm poeni, beth a wneit pes gwadwn? Anhawdd y coeliwch i eraill a wado yn eglur, os gwadwn ni chwi a goeliwch yn ebrwydd. O ba le y mae 'r gwrthnyſſigrwydd hwn? nad yſtyriwch fod mwy coeliw roddi i vn a gyffeſſo o'i wirfodd, na phan wado drwy gymelliad.

Y rhan fwyaf wrth ddwyn tyſtiolaeth i ryw vn a gymmyſcant ddannodiaeth ei henw. Gwr da yw Caius Seius, eithr drwg yn vnig am ei fod yn Griſtion. Canmolant a wyddant, a goganant yr hyn nis gwyddant, a llygrant yr hyn a wyddant a'r peth y maent yn anadnabyddus ag ef. Pan yw gyfiawnach rhagfarnu am bethau anhyſpus wrth bethau amlwg, na rhagddamnio pethau amlwg wrth bethau anhyſpus.

Gofodwyd cyfraith gynt na chyſſegrid yn Duw gan yr ymmerawdr oddieithr ir ſenedd fodloni iddo. Tiberius am hynny, yn amſer pa

vn y daeth henw Chriſt hyd y bŷd, wedi clywed o Syria ddarfod iddo amlygu gwirioneidd eī Dduwdod yno, a'i cynnygiodd ir ſenedd, ac a ſwgythiodd gyhuddwyr y Chriſtianogion. Ymgynghorwch â'ch côf-lyfrau, ac yno y cewch weled mai Nero oedd y cyntaf a wnaeth greulondeb â'r cleddyf ymmerodrawl yn erbyn y blaid hon, ydoedd y pryd hynny yn dirfawr gynnyddu yn Rhufain. Ond yr ydym yn gorfoleddu am y cyfryw gyſſegrwr o'n condemniad. Canys yr hwn a wypo pa fâth ŵr oedd ef, a ddichon ddeall na chondemnid gan Nero ond rhyw ddaioni tra-bûdd-fawr.

I ni y mae llofruddiaeth yn waharddedig, ac nid yw rydd i ni geiſio toddi yr hyn a ymddyger yn y brŵ; canys pryſſurdeb llofruddiaeth yw rhwyſtro ganedigaeth. Nid oes gennym ni ddim gwaed aniſeiliaid yn ein bwydydd, y rhai ydym yn ymgadw oddiwrth yr hyn a dagwyd, rhag mewn mŏdd yn y bŷd ein halogi â gwaed.

Dywedir i'ch duwiau chwi gael pethau rheidiol i'r bywyd, ond nid eu gwneuthur. Y peth a gafwyd oedd o'r blaen, a'r peth oedd eiſoes ni chyfrifir i'r hwn a'i cafodd, ond i'r hwn a'i trefnodd. Yn y delwau nid wyfi yn dirnad dim amgen na 'r defnydd, a'u bod yn chwiorydd i leſtri a chelfi cyffredin. Gall ſod yn gyſſur i ni agurir o achos y duwiau hynny, eu bod hwy eu hunain yn gorfod iddynt ddioddef yr vn pethau wrth eu gwneuthur. Am hynny os gwrthodwn addoli lluniau oerion a ddirnedir gan lygod a phryfed copyn, oni haeddai gwrthod y fath gyſeiliorni adnabyddus glôd, yn lle côſp?

eich duwiau teuluaidd a elwch lariau a drinwch chwi wrth awdurdod cartrefol, gan eu gwystlo, a'u gwerthu, a'u newid, ac weithiau gwneuthur crochan o Sadwrn, weithiau noe o Minerfa, megis ac y byddo pob vn wedi darfod, a'i ddryllio wrth ei hir addoli: ac megis y bo'r perchen yn gweled angenrhaid teuluaidd yn sancteiddiach.

Yr hwn yr ydym ni yn ei addoli sydd vn Duw, a wnaeth yr adail fawr hon yn addurn iw fawrhydi, a'r holl elementau, cyrph ac yspry-doedd drwy 'r gair â'r hwn y gorchymmynnodd, a'r deall á'r hwn y trefnodd ef hwynt. Y mae ef yn anweledig, ac mor anfeidrol nas gellir mo'i amgyffred. Eithr y peth a ellir ei weled a'i amgyffred yn gyffredin sydd waelach na'r synhwyrau â'r rhai y dirnedir ef. Er bod yr enaid yngharchar y corph, a chwedi ei hamgylchu â drwg addysc, a'i gwanhychu gan chwantau, etto pan edrycho allan o gŵsc neu gleiyd geilw Dduw yn vnig, ac araith pawb yw, *caniattaed Duw hynny*. Addefiff ef yn Farnwr helyd, *Duw a wêl Yr wyf yn rhoi ar Dduw, a Duw â dàl i mi.* Ac wrth ddywedyd hyn nid yw yn edrych tua'r * Capitol, ond tua'r nêf, canys edwyn eilteddle 'r Duw byw. Ac sel y byddo i ni ddyfod yn nès atto ef a'i ewyllis, dwg offer yscrythyrol i'r hwn a ewyllysio chwilio am dano, a chredu iddo, a'i wasanaethu. Canys er y dechreuad anfonodd ir bŷd wŷr wedi eu sancteiddio gan yr yspryd Glân, i gyhoeddi mai 'r vnig Dduw sydd a greawdd y cwbl, a wnaeth ddŷn o'r pridd, ac yn niwedd y bŷd wedi ail-gyfodi 'r meirw oll a ferniff ei addolwyr i gael gwobr by-

* *Tvor yr eulynnod penaf.*

bywyd tragwyddol, a'r drygionus i dân mor barhaus. Y pethau hyn a watwaraſom ninnau vnwaith, pan oeddem o honoch chwi. Ni enir eithr gwneir rhai yn Griſtianogion.

Profwn fawrhydi, a heneiddrwydd yr yſcrythyrau. Yr hyn a wneir yn awr a ragſynegwyd gynt. Am hynny y mae gennym ni ffydd ſiccr am bethau i ddyfod, o herwydd eu rhagſynegu gyd a'r pethau a welir yn brofedig beunydd.

Nid yw gywilidd genym Griſt, eithr y mae 'n boſſ gennym gael ein cyfrif a'n condemnio tan ei henw ef. Dyſcafom ddarfod cenhedlu hwn o Dduw, a'i alw yn Dduw o vndod ſylwedd, ei ddeſcyn ef i forwyn, a ganwyd y cnawd ffurfiedig yn ei chrôth hi yn ddyn wedi ei vno â Duw. Gwyddai 'r Juddewon fod Chriſt i ddyfod, ac yn awr y maent yn diſgwil ei ddyfodiad ef, ac nid oes neb ryw ymgur mwy rhyngom ni a nhwythau, nag oblegid na chredant ei fod ef yn awr wedi dyfod. Canys gan fod dau ddyfodiad o hono w wedi eu mynegu; y cyntaf ſydd yn awr wedi ei gwplau yngoſtyngeiddrwydd cyflwr ei ddyndod, yr ail ſy'n dyneſſau yn niwedd y byd yn amlwg fawr hydi y Duwdod. Y nhw heb ddeall y cyntaf a obeithiant am yr ail, y ſydd wedi ei ſynegu yn eglurach. Haeddiant eu camweddau a wnaeth na ddeallent y cyntaf. Yr hwn a gamdybiaſant hwy yn ddyn yn vnig o herwydd ei waeledd, a gyfriſaſant hwy yn ſwynwr o herwydd ei rinwedd yn bwrw cythreuliaid allan o ddynion, ac yn rhoddi golwg ir deillion, iw egluro ei hun yn Aic Duw, a wnai, ac a wnaeth bob peth. Wrth farw ar y groes dangoſodd arwyddion. Yn y myny-

dyn hwnw ciliodd y dydd. Ac y mae 'r dam-wain hwnw wedi ei roddi i lawr mewn yſcrifen, ac ynghadw yn nbryſſordai eich hên gofion chwi. Pilatus (ac yntef yn Griſtion yn ei gyd-wybod) a ſynegodd y pethau hynny oll i Tiberius Cæſar. Dyma'r cyfrif a gyhoeddwn ni o'r henw, ac o'r awdwr. Nid rhydd i neb ddywedyd celwydd ynghylch ei greſydd. Yr ydym ni yn dywedyd dar gyhoedd, ie pan fydd-och chwi yn ein penydio ni, yr ydym ni yn anafus, ac yn waedlyd yn llelain, mai Duw a addolwn ni drwy Griſt.

Gweithrediad cythreiliaid ſydd er diniſtr dyn. Am hynny trawant gyrph â doluriau, ac â damweiniau chwerwon, a'r enaid â thraha diſymmwth. Eu teneuder au gwna yn barodol i fyned i fewn pob vn o'r ddwy ſylwedd yſydd yn nŷn. Llawer a ddichon yſprydol nerthoedd, ac nis dirnedir hwynt yn gweithio, nes gweled yr affaith wedi ei ddwyn i ben Os oes ryw gafod ddirgel yn peri i ffrwythydd ddiflannu yn eu blodau, ac yn heintio 'r awyr; a'r vn fath ymglwyf anamlwg y mae anadliad cythreuliaid yn yſtuno llygredigaethau meddwl dŷn â chynnyrfau angerddol, ammhwyll chwantau, a chyſeiliorni. Buan yw 'r cythreiliaid, am hynny mewn mynydyn y maent ym mhob man, ac yn hawdd iddynt wybod yr hyn a wneler yno. Eu cyflymder a gymerir am Dduwdod, eiſiau gwybod eu ſylwedd hwy.

Mynnant eu cymeryd weithiau yn awdwyr o'r pethau a ſynegant; ac felly y maent o'r drwg, ond nid o'r da. Caſclant dreſniadau Duw oddiwrth bregethau y prophwydi, ac oddiyno

gan

gan fwrw amcan yngbylch damweiniau 'r amseroedd, dynwaredant Dduwdod, dan ledratta prophwydoliaeth. Wrth eu bod yn yr awyr ynghymdogaeth y sêr a'r cymylau, deallant y darpariadau wybrennol, mal yr addawont y glaw y byddont eisoes yn ei ddirnad. Y maent yn gymwynascar yngbylch doluriau: Clwyfant yn gyntaf, ac yno gorchymmynant gyffyriau, ar ol y rheini peidiant â chlwyfo, a choelir iddynt hwy iachau. Gosoder wrth eich brawdleoedd chwi ryw vn y gwyddis fod cythrael yn ei flino, a'r yspryd hwnw wedi ei orchymmyn gan ryw Gristion, yn gystal a'i cysaddefiff ei hun yn gythrael mewn gwirionedd, ac y mae yn ei daeru ei hun yn Dduw mewn mannau erailll drwy gelwydd. Ynteu yn awr y mae eich Duw chwi wedi ei ddarostwng dan y Christianogion; ac ni ddylid cyfrif yn Dduw yr hwn sydd yn ddarostyngedig i ddŷn, ie (iw wradwydd) i'r rhai y mae yn centigennu wrthynt.

Nid esceulusaf yr ymgyrch yr hon a annogiff rhyfyg y rhai â ddywedant i'r Rhufeiniaid o ran haeddiant eu tra-diwyd grefyddoldeb gael eu derchafu i gymmaint vchder, ac y meddiannent y bŷd. A bod y duwiau hynny. a wnant y cymwynas iddynt hwy, i ragori ar y lleill i gyd. Siccr yw i lawer o'ch duwiau chwi sod yn reolwyr gynt, am hynny os ganddynt hwy y mae awdurdod i roddi teyrnas, pan oeddent hwy yn teyrnasu gan bwy y derbyniasant y gêd honno?

Er dychymmyg ofer goel gan Numa, etto nid oedd na delwau, na themlau yn nuwioldeb y Rhufeiniaid y pryd hynny, eithr crefydd gynail,

nil, a defodau tlodion oedd ganddynt. Dim capitoliau vchel, onid allorau tywyrch, a lleſtri Samia, a'r arogl o'r rheini, a'r duw nid oedd yn vnlle. Canys y pryd hynny cyfarwyddyd y Groegiaid, a'r Tuſcaniaid i wneuthur eulunnod ni lenwaſai mo'r ddinas. Ynteu nid oedd y Rhufeiniaid yn greſyddol cyn myned yn fawrion; ac wrth hynny nid aethant yn fawrion am eu bod yn greſyddol. Je pa fodd yr aent hwy yn fawrion am greſydd, i'r rhai y daeth codiad wrth anghreſydd? pob ymmerodraeth a geir wrth ryfeloedd a ddiniſtriant ddinaſoedd, y peth nis gwneir heb niweidio eu duwiau. Ond gan na theimlant ddim briwir hwy mor ddigôſp, ac yr addolir hwy yn ddiobr. Y rheini betyd, teyrnaſoedd pa rai ydynt wedi eu bwrw at yr ymmerodraeth Ruſeinaidd, pan gollaſant hwynt nid oeddent heb greſyddau. Edrychwch ynteu onid ef ſy'n caniattau teyrnaſoedd, yr hwn piau 'r bŷd, a'r dŷn a'i rheolo. Yn olaf os y greſydd Ruſeinaidd fydd yn rhoi teyrnaſoedd, ni buaſai Judah (a ddirmygai 'r duwiau cyffredin hynny) gynt yn teyrnaſu. Duw pa vn a ddarſu i chwi Ruſeiniaid dros ennyd ei anrhydeddu ag aberthau, a'i deml â rhoddion, a'r genedl â chyngrair: ac ni buaſech byth yn rheoli arni pe buaſai heb bechu yn erbyn Duw, ac yn ddiweddaf yn erbyn Chriſt.

Ond rhai a dybiant yn ynfydrwydd pryd y gallem aberthu dros yr amſer preſennol, ac ymadel yn ddianaf, gan gadw ein bwriad yn ein meddwl, etto fod yn well gennym ni ein diyſgogrwydd na'n ymwared. Yr ydych chwi yn rhoddi i ni gyngor pa fôdd i ch twyllo chwi. Ond yr ydym ni yn gwybod o ble y daw y cy-

fryw berbau a hyn, a phwy fydd yn cynhyrfu hyn i gyd, a pha fodd y gweithia ef yr awr hon drwy berfwadio yn ddichellgar, ac y bo lydd drwy benydio yn greulon i geisio bwrw ein dianwadalwch i lawr, fef yr yfpryd cythreulig. Yr hwn o herwydd ein ymyfcar oddiwrtho ei fydd yn cenfigennu i ni râs Duw, ac yn ymladd i'n herbyn ni allan o'ch meddyliau chwi. Canys er bod holl allu 'r cythreuliaid yn ddaroftyngedig danom ni, etto megis gweifion drwg cymmyfcant afrywiogrwydd ag ofn, a cheifiant niweidio 'r neb y maent yn ei arfwydo. Eithr pan eu dalier goreícynnir hwy. Gan yr vn yfprydoedd y ffurfir chwi i'n cymell ni i aberthu dros jechyd yr ymmerawdr. Yn ddiau yr ydych yn anrhydeddu Cæfar â chyfrwyfach ofn na † Jupiter ei hun, a chymwys hyny pes adnabyddech. Canys pa vn byw nad yw well nag vn marw? ond nid ydych chwi yn gwneuthur hyn wrth reíwm yn hytrach na gweiniaeth i'r awdurdod preíennol. Felly yn hyn i'ch cefir yn anghrefyddol yn erbyn eich duwiau eich hunain, pryd yr offrymmwch fwy ofn i arglwyddiaeth ddynol. Cynt y tyngwch yn anudon i'r holl dduwiau, nag i yfpryd Cæfar yn vnig. Ymddangofed yn gyntaf a all y rhai yr ydych yn aberthu iddynt gyfrannu iechydwriaeth i ymmerodron, nag i neb arall, ac yno bwriwch arnom ni fai yn erbyn Cæfar. Yr ydym ni yn gweddio at y gwir Dduw tragwyddol am jechydwriaeth i ymmerodron. Nyni y Chriftianogion gan edrych i fynu a'n dwylo ar lêd o herwydd eu bod yn ddiniwed, a'n pennau yn noethion o herwydd nad oes ar-

† *Yr eulun pennaf.*

nom

nom gywilidd, heb rybuddiwr i'n cofio o herwydd o'r galon y gweddiwn, ydym yn oeſtadol yn erfyn i'r ymmerodron oll fywyd hir, ymmerodraeth ddifraw, tŷ diogel, byddinoedd cryfion, ſenedd ffyddlon, pobl oneſt, a bŷd heddychol. Nid allaf weddio at neb arall am y pethau hyn ond atto ef oddiwrth yr hwn y gwn y câf. Efe yn vnig a'i gwna, a minneu yr hwn a ddylwn erfyn wyf ei wâs ef. Pwy bynnag wyt yn tybied nad ydym ni yn gofalu am jechydwriaeth Cæſar, edrych i eiriau Duw, ac i'n llythyrau ninnau, y rhai nid ydym ni ein hunain yn eu celu, ac a ddwg llawer o ddamweiniau i ddwylo rhai eraill. Gwybydd o'r rheini y gorchymmynir i ni weddio dros ein gelynion, a'n erlidwyr. Gydâ chwi yr yſgydwir yr ymmerodraeth, a phan yſgydwir ei haelodau eraill, yſgydwir ninnau hefyd. Y mae arnom ni angenrhaid arall i weddio dros yr ymmerodron, a phob gradd o'r ymmerodraeth, o herwydd i ni wybod yr oedir y trais dirfawr, a'r blinderau ofnadwy, y ſydd ar gwympo ar yr holl ſŷd, drwy y diogelwch a beriff ymmerodraeth Rhufain. Yr hwn a ddywedo mai Duw yw Cæſar, ſydd yn naccau ei ſod ef yn ymmerawdr. Onid yw ddŷn, nid yw ef ymmerawdr. Pan fyddo yn gorfoleddu yn ei gerbyd vchel, rhybuddîr ef o'i fod yn ddŷn; Canys dywedir wrtho o'r tŷ ôl, *cofia mai dŷn ydwyti.*

Cyfrifir y Chriſtianogion yn elynion cyhoeddus, am na roddant i'r ymmerodron anrhydedd ofer, a chelwyddog. Yn gydwybodus ac nid yn drythyll y cadwant eu blynyddawl bar-

chedigaethau

chedigaethau hwynt. Cymwynas gwych yw dwyn tân a dawnsiau allan ir heolydd, gloddesta yn sinteioedd, a rhedeg yn dorseydd i gamweithredau, a llithiau anlladrwydd. Ai felly drwy warth cyhoedd y dangosir llawenydd cyhoedd? A weddai i gylch ddyddiau parchedigaeth tywysogion y pethau sydd anweddol ar ddyddiau eraill? ymgynghorant ag astrologyddion a dewiniaid ynghylch bywyd y Cæsariaid, yr hyn gelfyddodau nid yw y Christianogion yn eu harfer yn eu hachosion eu hunain, gan i Dduw eu gwahardd. Gan orchymmyn i ni garu ein gelynion, pwy a allwn ni ei gasau? A chan ddarfod ein gwahardd i dalu 'r pwyth pan niweidier ni, pwy allwn ni ei ddrygu? Cynnifer gwaith ac y gwnaethoch chwi greulonder ir Christianogion, pa ddial a dderbyniasoch chwi ganddynt am y cam a wnaethech iddynt, er i chwi eu cyffroi hyd farwolaeth? Pryd y gallai vn noswaith weithio llawer o ddial drwy ychydig, pettai cyfreithlon i ni dalu 'r naill ddrwg am y llall.ond pell sydd oddiwrth y blaid ddu wiol na cheisio ymddial â thân dynol, na thybied yn ofidus ddioddef y peth hwnw ym mha vn y profir bi.

Canys pes ewyllysiem nid yn vnig chwareu 'r dialwyr yn ddirgel, ond myned yn elynion amlwg i chwi hefyd, a fyddai arnom ni ddiffyg lluoedd a byddinoedd! Canys yr ydym ni wedi llenwi eich dinasoedd chwi, a'ch ynysoedd, a'ch cestill, a'ch trefydd breiniol, a'ch tai cyngor, a'ch gwersylloedd, a'ch llwythau, a'ch llŷs, a'ch senedd, a'ch marchnad, eich temlau yn vnig a adawn ni i chwi. Pa ryfel yw na byddem ni gym-

gymwys a pharodol iddo, pe bau llai ein lliaws, y rhai ydym mor ewyllysgar i'n dihenyddio, oni bae fod yn rhyddach ir ddysgybliaeth hon gymeryd ei llâdd, nag iddi hi lâdd neb arall?

Nid oes i ni ddim iw ddywedyd, iw weled, nac iw glywed yn anniweirdeb y Theatr, nac ynghreulondeb yr ymdrechfa. Pa fodd yr ydym yn eich anfoddhau chwi os cymerwn ddifyrrwch ffordd arall? oni fynnwn ddigrifwch i ni y mae 'r golled (ped fai hynny golled hefyd) ac nid i chwi.

Yn awr mynegaf negesau y blaid Gristianogol, mal y gallwyf ddangos y da wedi i mi argyhoeddi 'r drwg. Corph ydym ni wrth gydwybod cresydd, ac vndeb dysgybliaeth a chyngrair gobaith. Ymgasclwn yn gynnulleidfa, fel pettem fyddyn yn amgylchu Duw â'n gweddiau, hyfryd gan Dduw y drais hon. Gweddiwn dros yr ymmerodron, a'r fwyddogion fy danynt, dros gyflwr y bŷd a'i lonyddwch. Cymmellir ni i wneuthur coffâd o'r yscrythyrau duwiol ynghylch y peth y byddo heiynt yr amseroedd presennol yn peri i ni ei ragrybuddio neu ei ystyried. Yn ddiau porthwn ffydd â lleserydd sanctaidd, cysodwn i synu obaith, siccrhawn byder: Yn yr vn man hefyd y bydd annogaethau, cerydd, â barn dduwiol: ac yn bwysfawr y bernir, megis gan rai a wyddant eu bod yngŵydd Duw. A'r farn bennaf a ragflaena'r hon fydd i ddysod yw, pan becho vn felly megis y deoler ef oddiwrth gymmundeb gweddi, a chynnulleidfa, a phob sanctaidd gyfrannogiad.

Henuriaid profadwy a reolant, y rhai a ddaethant

thant ir anrhydedd hwnw wrth dyfti olaeth, ac nid wrth werth. Rhydd pob vn arian yn y gîft vnwaith yn y mîs, neu pan fynno, a phan allo. Y rhai a arferir nid i wledda nac i diotta, ond i faethu, ac i gladdu y tlodion, a'r ymddifaid. y cyfryw weithrediad o garedigrwydd a'n gwnaeth yn hynod i rai: *Gwêl (* meddant *) fel y carant eu gilidd*! Canys hwy a gaffânt eu gilidd: Ac *mor barod ydyw 'r naill i farw drosy llall*: Canys hwy fyddant barottach y naill i lâdd y llall.

Pôb peth ydynt ddiwahan yn ein plith ni, ond y gwragedd. Yn y llê hwnw yr ydym ni yn peidio â chyfeillach, ym mha vn yn vnig y mae pobl eraill yn ei arfer, wrth ddyfcu gan Socrates y Groeg wr, a Chato y Rhufeinwr, a gyfrannafant eu gwragedd i eraill. Llogwr putteiniaid yw 'r philofophydd, a'r fwyddog.

Ein fwpper ni a ddengis ei fôdd wrth ei henw, canys gelwir ef *Agape*, fef *Cariad* yn Roeg. Beth bynnag a goftio ef y mae'n elw wneuthur traul er mwyn duwiolfeb, gan ein bod yn cynnorthwyo 'r tlodion â'r efmwythâd hwnw. Nid ymoftyngir i fwytta nes archwaethu gweddi at Dduw yn gyntaf. Bwytteir gymmaint ac a ddigono 'r newynog, yfir yr hyn a fo lleiol ir diwair. Ymddigonant megis rhai a gofiant eu bod i addoli Duw drwy 'r nôs, ac ymddiddanant megis rhai a wyddant fod yr Arglwydd yn gwrando. Wedi golchi eu dwylo, pob vn fel y gallo allan o'r yfchythyrau fanctaidd, neu o'i athrylith ei hun a gynhyrfir i'r canol i ganu mawl i Dduw, ac wrth hynny y gwybyddir pa fôdd yr yfoęd ef. Yr vn môdd gweddi a ddiwedda'r

wedda'r wledd; ac yno yr ymadewir nid i finteioedd yr ymladdau, nac i ruthro i drythyllwch, eithr ir vn gofal am gynwyledd a diweirdeb, megis rhai a gymmerasent nid cymmaint o swpper ac o reolaeth.

I niwed pwy y darfu i ni erioed ymgyfarfod? yr vn fath ydym ni ynghŷd ac ar wasgar, heb na drygu na thristau neb. Pan gascler ynghŷd bobl dda, duwiol, a diwair, ni ddylid eu galw yn ymranniad ddrwg, eithr yn llŷs. Y rhai a gydswriadant i gassau rhai da, a ymescusodant yn oser wrth gyfrif y Christianogion yn achos o bob adfyd cyffredin. Os yr afon Tiberis a aiff dros y muriau, os Nilus ni chyfid i wrteithio'r tir, os y ddaiar a grŷn, o bydd newyn neu haint, yn ebrwydd y bloeddir am swrw 'r Christianogion i'r llewod. Adolwg pa faint o gelaneddau a faeddasant y bŷd a'r ddinas cyn dyfodiad Christ? os cyflelybwn y dygn ddialeddau gynt, yscafnach yw y rhai a ddigwydd er pan dderbyniodd y bŷd y Christianogion gan Dduw. Canys er hynny diniweidrwydd a liniarodd anwireddau 'r bŷd, a dechreuodd bod erfynwyr ar Dduw. Chwychwi ynteu ydych euog o bôb aflwydd cyffredin, ymysc y rhai y dirmygir Duw, ac yr addolir delwau sesydlog.

Yr hwn a osododd sod barn dragwyddol ar ôl diwedd y bŷd, nid yw yn prysuro i wneuthur gwahaniaeth, yr hyn yw cyflwr y farn, cyn y diwedd. Yn y cysamser vniawn yw ar holl ddynol ryw wrth roddi seibiant a senn. Mynn i bethau hyfryd sod yn gyffredin ir annuwiol, a sarhâd iw bobl ei hun: sal y byddai i bawb o honom yn vnsaint brosi ei addswyn ddaioni

ioni a'i doster ef. O herwydd i ni ddyscu sod cyfiawnder gydag ef, hoffwn ei ddaioni ef, ac olnwn ei doster ef. Ond chwithau yn y gwrthwyneb a ddirmygwch y ddau. Canlyn ynteu sod holl blaau 'r bŷd yn digwydd i ni er rhybudd, ac i chwithau er cerydd oddiwrth Dduw.

Gwneir achwyn arall arnom ni hefyd gan ddywedyd ein bod ni yn ddiles yn negesau 'r bŷd. Pa fodd y gall hynny fod a ni yn byw gydâ chwi o'r vn lluniaeth, a dillad, a chyfraid bywyd? Canys nid Brachmanniaid ydym ni, ac yn byw dan goedydd. Yr ydym ni yn gofus o'r diolch a ddylaem ei roddi i'r Arglwydd Dduw y creawdwr, ac ni wrthodwn ni vn ffrwyth o'i weithredoedd ef: yn ddiau ymgymmhedrolwn fal nad arferom ef yn ormodol, neu ar fai. Nid ydym yn byw yn y bŷd heb farchnad, heb gigfa, nac heb eich gweithdai, buarthau, ffeiriau, a mafnachoedd eraill ynghŷd â chwi. Yr ydym ni yn llongwrio, ac yn milwrio, yn hwfmoneiddio, ac yn marchnatta gydâ chwi, am hynny cymyfcwn gelfyddydau, a chyhoeddwn ein gwaith i'ch raid chwi.

Ond nid wyf yn arfer dy ddefodau crefyddol, ni phrynwn thus. Gŵyr y Sabæaid fod mwy o'i marfiandiaeth hwynt yn myned i gladdu 'r Chriftianogion, nag i fwgdarthu i'r duwiau. Diau (meddwch) fod ardreth y temlau beunydd yn lleihau. Y mae 'n trugarogrwydd ni yn treulio mwy o heol i heol, na'ch crefydd chwi o deml i deml. Ond y mae achos ir ardrethau eraill i ddiolch ir Chriftianogion, y rhai mewn ffyddlondeb a dalant y peth fy ddyledus, a gochelant rhag twyllo neb: os gall neb gwyno

rhag anffrwythlondeb y Chriſtianogion, y rhai hyn ydynt: yn gyntaf, perchennogion putteiniaid llôg; yna 'r lleiddiaid dirgel drwy gleddyf neu wenwyn, a'r dewiniaid a'r ſwynwyr. Ond ffrwythlondeb mawr yw bod yn hyſp i'r rhain. o'ch pobl chwi y llenwir y carchar, o'ch pobl chwi y peſcir bwyſtfilod. Nid oes yno yn Chriſtion, oddieithr yn amlwg am ei fod yn Griſtion: ac os yw amgenach, nid yw ef yn awr yn Griſtion.

Dynwared ſerch i'r gwirionedd y mae 'r philoſophyddion, a'i llygru drwy geiſio gwâg ogoniant. Y mae 'r Chriſtianogion yn ei chwennych fel pech angenrheidiol, ac yn ei chwplhau yn hollhawl fel rhai fydd arnynt ofal am eu jechydwriaeth. Democritus wrth dynnu ei lygaid ei hun am nas gallai edrych ar wragedd heb eu chwennych, na bod heb driſtwch oni chaſai eu mwynhau hwynt, ſydd yn addef ei anniweirdeb wrth y diwygiad. Ond Chriſtion a edrych ar wraig â llygaid jach ddianaf, yn ei feddwl y mae ef yn ddall i drachwant. O dywed rhyw vn fod rhai o honom ni yn ymadel â rheol dyſcybliaeth, yna y peidiant â chael eu cyfrif gennym ni yn Griſtianogion.

O Herwydd mai ordeiniad y farn yw achlyſur yr adferiad, o angenrhaid yr vn ac a ſu a oſodir ger bron, fel y derbynio gan Dduw farn yn ol ei haeddiant. Yr vn rhai a fyddwn ni ac ydym yn awr. Addolwyr Duw a fyddant gyda Duw yn oeſtadol wedi eu gwiſco â ſylwedd eu priodol dragwyddoldeb. Ond yr anghrefyddol a'r rhai nid ydynt berffaith tuag at Dduw, a fyddant ym mhoen tân mor dragwyddol. Y

mae

mae mynyddoedd yn lloſci ac yn parhau, ynteu beth a wna 'r drygiog a gelynion Duw?

Yn ddiau Chriſtion wyr os mynnaf: ynteu yr wyti yn fyngholfarnu i os fi ai mynn. Ac yn gymmaint nas gellí mo'r hyn a elli i'm herbyn i oddieithr i mi ei fynnu, o'm ewyllys i yn awr y mae 'r peth a wnei, ac nid oth allu di. O herwydd hynny y mae 'r gwerin yn llawenychu yn ofer yn ein cyſtudd ni. Nyni piau 'r llawenydd y maent hwy yn ymhonni o hono: y rhai ſy well gennym gymeryd ein condemnio na fyrthio oddiwrth Ddduw. Yn y gwrthwyneb y rhai a'n caſaſant a ddylaſent driſtau, ac nid llawenychu, gan i ni gael yr hyn a ddewiſwn. Ynteu meddwch chwi paham yr ydym yn achwyn rhag eich erlidgarch os mynnwn ddioddef? yn ddiau ewyllyſiwn ddioddef, ond yn y môdd ac y mae 'r milwr yn ewyllyſio 'r frwydr, lle mae'n rheidiol oſni a bod mewn perigl. Er hynny ymleddir â'r holl nerth, a gorſoledda 'r hwn a orchſygo am iddo gael clôd ac yſpail, er iddo gwyno rhag yr ymgyrch Rhyſel i ni yw ein galw o flaen y brawdleoedd fel yr ymdrechom yno gyd a'r gwirionedd mewn perigl o'n bywyd: a gorchfygu yw cael yr hyn a ymdrechech am dano. A'r ſuddugoliaeth hon ſy'n cael yr anrhydedd o ryngu bodd Duw, a'r yſpail o ſyw yn dragwyddol. Amlheir ni wrth ein medi gennych chwi. Hâd yw gwaed y Chriſtianogion.

Cymer yr hyn a ganlyn befyd o yſcrifen yr un athro at Scapula. Rhaglaw Ca thago ydoedd yn bwgwth creulondeb i'r Chriſtianogion.

Anſonaſom y llyfr hwn nid o ran oſn 'am danom ein hunain a'n cyſeillion, eithr am danoch chwi a'n holl elynion. Canys felly i'n gorchymmynir drwy addyſc i hoffi ein gelynion, ac i weddio dros y rhai a'n erlidiant, fel y byddo hyn yn ddaioni perffaith, a phriodol i ni, ac nid cyffredin. Rhan pawb yw hoffi eu cyſeillion, ond Chriſtianogion yn vnig a hoffant eu gelynion. Nid rhan crefydd yw cymmell crefydd, yr hon a ddylid ei derbyn o wirfodd ac nid wrth gymmell. Gan enaid ewyllyſcar y gofynnir aberthau.

Nid yw Chriſtion elyn i neb llai o lawer i'r emerodr, yr hwn a ŵyr ei ei ordeinio gan ei Dduw ef. Anrhydeddwn yr ymmerawdr yn y môdd y mae cyfreithlon i ni, a buddiol iddo yntef, megis gŵr llai na Duw yn vnig. Am hynny yr aberthwn dros jechyd yr ymmerawdr, ond i'n Duw ni, a'r eiddo yntef, ac yn y môdd y gorchymmynodd Duw, ſef â gweddi bur. O herwydd nid oes ar Dduw gwneuthurwr pob peth eiſiau arogl neu waed.

Ni a'n ymddygwn ein hunain mewn diſtawrwydd a gwyldra, ac ni'n gwneir yn hynod vn ffordd, ond wrth ddiwygiad ein hên feiau.

Rheidiol i ni ofidio am nas caiff dinas yn y bŷd dywallt ein gwaed ni yn ddigoſp. Gallem olod o'th flaen di ddiwedd y cyfryw raglawiaid ac a gofiaſant yn niwedd eu hoes iddynt wneuthur ar fai gythryblio y Chriſtianogion. Nid ydym ni yn dy ddychrynu, nac yn dy ofni chwaith. Eithr ewyllyſiwn wneuthur pawb yn gadwedig drwy eu rhybuddio nad ymladdont yn erbyn Duw.

Cyd-

Cydlefont hwy fel y fynnont, mwynhânt gymwynafau 'r Chriftianogion. Canys gwaredwyd yfcrifennydd vn a fwrid i lawr bendramwnwgl gan gythrael, a chymmydog, a phlentyn rhyw rai eraill. A pha gymmaint o wŷr vrddafol (canys ni foniwn am y gwerin) a waredwyd oddiwrth gythreiliaid a doluriau? Je yr oedd Severus tâd Antoninus yn cofio 'r Chriftianogion. Canys ceifiodd ef Proculus y Chriftion a'i iachâufai ef gynt drwy olew, ac a'i cadwodd ef yn ei lŷs hyd ei farwolaeth. A Marcus Aurelius yn y rhyfel yn Germania a gafodd law mewn fychter drwy y gweddiau a wnaeth y milwyr Chriftianogol at Dduw. Pa drallod arall a oddef y Chriftion, oddieithr am ei blaid? yr hon ni phrofodd neb mewn cymmaint o amfer ei bod na godinebus, na chreulon. am ddiniweidrwydd, am ddaioni, am gyfiawnder, am ddiweirdeb, am ffydd, am wirionedd, am y Duw byw y llofcir ni. Etto y gwobr mwyaf a ganlyn yr ymdrech fwyaf, eich creulondeb chwi yw ein gogoniant ni. Ni ddeifydd am y blaid hon, yr hon a elli ddirnad ei hadeiladu yn fwy pan dybier ei llâdd. Canys pôb dŷn wrth weled y farh ddioddefgarwch, wedi ei daro gan betrufder cydwybod a gyffroir i chwilio am yr achos, ac wedi ei gwybod, yntef yn y man a ddilyn y gwirionedd.

PEN. IX.

Yr erlid dan Decius, Falerianus, a Dioclesianus ynmherodron Rhufain.

Ped. Cri. 250. WEdi i Decius gymeryd lle *Philip* yr emerodr, (yr hwn y laddasei ef am iddo droi yn Gristion) rhoddodd allan broclamasiwn gwaedlyd i lâdd y Cristnogion oll. dywed Historiâwr fod cyn hawsed cyfrif tywod y môr, a chyfrif henwau y rhai a ferthyrwyd y pryd hyn ynhalcithiau Rhufain, o'r dwyrain ir Gorllewyn: er i rai o'r Cristnogion lwfrhâu, ac aberthu i eulynnod rhag colli eu golud, etto cymerodd y lleill eu hyspeilio am eu da a'u bywyd yn ewyllysgar cyn y gwadent Grist; ie mecheu gan y rheolwyr na thrwy fwgythion nac addewidion, na gau resymau, na phoenydiau orchfygu ffydd gwragedd a merched: eithr yr oedd gwendid rasol yn gryfach nag awdurdod anghrediniol. Ac os byddeu rhai yn cyfaddef eu flydd yn ofnus yn y sesiwnau, cyfodeu eraill o honynt eu-hunain heb neb yn eu Cymell, i gyffesu yn galonog, oni byddeu'r dyrfa
Act. 14. 5 yn rhyfeddu, a'r barnwyr fel Phælix yn crynu, a'r Cristnogion yn gortoleddu; canys byddei dynnod Duw yn ddisymmwth yn llâdd amryw o'r penydwyr, a'r encilwyr; ac ysprydion drwg yn meddianu yr lleill. Lladdwyd Decius ei hun mewn rhyfel â'r Barbariaid; a daeth Cornwyd marwol drwy'r holl ymerodraeth, y dalodd am ddifrodi'r diniwed, oni byddeu Cyrph y cenhedlig yn dyrrau yn yr heolydd, a'r Cŵn yn eu llarpio, am na lesasent drin eu cleision, na chiaddu

ddu eu meirwon, rhag ofn yr haint: a'r Criſtnogion yn ymgleddus iw gilidd, heb ddim diffyg.

Ynghylch hyn y Cwympodd Origines athro nodedig: Siomwyd efi fwrw aberth ir eulyn, rhag i Ethiopiad halogi ei gorph ef. Ond edifrhâodd gwedi hynny, a galârodd yn oer am ei wendid: a phan aeth ſel herwr i Judea, ac ir gynnylleidfa ddymuno arno bregethu, agorodd y bibl, ar lle cyntaf y trawodd wrtho oedd hwn, ſef, *wrth yr annuwiol y dywedodd Duw, beth Pſa.50.16; Sydd iti a fynegech ar fy neddfau, neu a gymmerech ar fy nghyfammodyn dy enau?* yr hyn y wnaeth iw ddagrau ef attal ei eiriau, ac ir holl dyrfa wylo gyda'g ef.

O herwydd ſod y dyſcawdwr hwn mor hynod am ei ddyſceidiaeth a'i ddiweirdeb, cyrchwyd ef at Seſerus yr ymmerawdr i Rufain. Ac yno y daeth ef mewn gwiſc ſiml, ac yn droednoeth Wrth gymeryd ei daith gwrthododd wiſcoedd gwchion a march, a dewiſodd gerdded, am na ddarllennaſai i Griſt farchogaeth ond vn waith, a hynny ar aſſyn. a phan ddaeth ger bron yr ymmerawdr a gofyn iddo beth oedd ei brophes, attebodd mai'r gwirionedd. A phan ofynnodd yr ymmerawdr iddo pam yr anrhydeddent ddyn croeſhoeliedig am Dduw? Attebodd ſod yr Atheniaid y pryd hwnnw yn anrhydeddu henw a llûn Codrus eu brenhin am yr hyn a wnaethai ef iw gwaredu hwynt oddiwrth eu gelynion a ryfelau iw berbyn hwynt. Y rhai wrth ofyn cyngor i'r eulun Apollo ynghylch y rhyfel hwnw, a gawſent addewid o orchfygu'r Atheniaid, os hwy ni lladdent eu brenhin hwynt. Codrus wrth glywed hynny gan ſod yn

well ganddo waredíad ei bobl na'i fywyd ei hun, a ymwiſcodd ſel caethwâs ac a aeth i ſyddyn ei elynion, ac a ymladdodd yno yn bwrpaſol nes cael ei lâdd. Ond pan wybu 'r gelynion pwy oedd ef, codaſant eu gwerſyll, ac a ymadawſant. Ac o hynny allan yr Atheniaid a anrhydeddaſant enw Codrus. Ynteu llwyrach y dylau pawb anrhydeddu Chriſt, yr hwn ac ef yn Fâb Duw, er mwyn gwaredu dynol ryw oddiwrth eu hên elyn y cythrael, a'i ogof ſwrth o gyfeiliorni, a wiſcodd am dano gnawd gwael, a chan guddio ei fawrhydi a fu fyw mewn tylodi. Ac am iddo argyhoeddei yr Juddewon o'u pechodau caſodd ei fflangellu yn greulon, a gwaſcu drain am ei ben, a hoelio ei ddwylaw a'i draed ar groes. Ac er maint ei ofid ni rwgnachodd ef, eithr gweddiodd, o *Dâd madden iddynt, canys ni wyddant beth y maent yn ei wneuthur.* Dyma gariad Mâb Duw yn prynu dynol ryw allan o garchar diafol, a chaethiwed pechod. O'i Dduwdod ef y mae gennym ni ddigon o dyſtiolaeth drwy 'r yſcrythyr lân a yſcrifennodd prophwydi, ac wrth ei anedigaeth ef o forwyn bur, wrth ei fywoliaeth ſanctaidd ef, wrth ei athrawiaeth nefol ef, a'i wrthiau, a'i adgyfodiad, a'i eſcynniad i'r nefoedd yngolwg pum cant o Bobl rinweddol, wrth dywalltiad yr yſpryd Glân, wrth ſwrw cythreuliaid allan, ac wrth gyffeſſiad eich eulynnod.

Ar ol hyn Caſodd yr Eglwys ychydig yſbaid o dangnheddyf, y barodd falchder, ac anghydſod ymhlith y Chriſtianogion, ſel llygedyn rhwng dwy gafod yn codi chwyn yn yr ŷd. Yn gymaint a phanddaeth lleferydd attynt o'r Neſ yn gor-

chymmyn,

chymmyn, *ceiſiwch ac chwi gewch*, etto ni fedrent gyttuno ynghylch y nifer yr oeddid i weddio droſtynt, nes i ddryc-hin eilwaith yrru 'r defaid ynghyd, ac i greulondeb *Falerianus yr ymerodr* dorri allan yn eu herbyn hwynt: y pryd y merthyrwyd *Cyprianus athro Duwiol* o Affrica; a dewiſoſid tri chant yn *Carthago* eu bwrw i gyl poeth, yn hytrach nag aberthu i Eulun.

Profwyd pum math ar goſpedigaeth ol ynol i geiſio tynnu tair MorwynGriſtnogol oddiwrth y ffydd, ſef, diodwyd hwynt â fineger, ac â buſtl, wedi hynny flangellwyd hwynt, yna dirdynwyd hwynt, a rhoſtiwyd hwynt ar farwor, a thaflwyd hwynt i balfau bwyſiſiled rheibus: ac wedi i'r rheini eu harbed, ſladdwyd hwynt a'r cleddyf gan na wadent Griſt, bu hyn yn *Affrica*.

Dioddefodd y Chriſtnogion yr un ymdrin yn Ewyllyſcar mewn mannau eraill. Yn yr *Hiſpaen* gwelwyd y neſoedd yn ymagoryd i dderbyn eneidiau'r merthyron.

Ar ol i *Falerianus* erlid yr Eglwys ddwy flynedd, cymerwyd ef yn garcharwr mewn rhyfel gan *Sapores brenin Perſia*, a gwnawd ef yn gŷff ir brenin hwnw i ſangu arno wrth ſyned ar ei farch: Encyd wedi Cychwynnodd *Aurelianus* wneuthur blinder ir efengil, ond pan oedd yn yſcrifennu ei henw wrth warrant i goſpi'r Criſtnogion, rhwyſtrodd Cwlwm gwythi ef. A thros yſpaid pedair blŷnedd a deugain gwedi hynny cafodd yr efengil lonydd a llwyddiant: amlhâodd a chynyddodd y cynnulleidfau Criſtnogol, oni orfu iddynt adel yr hên gornèlau yr addolent ynddynt, a chyfodi adeiladau eheng. Ond ſel y mae'r hâf yn magu pryfed, felly tyfiff ymryſſon

ymryſſon a chenfigen o howddſyd: o herwydd
Oed. Cr. pa ham anfonodd rhagluniaeth Duw oerfel ar yr
301: Eglwyſydd drwy *Ddioclefianus yr ymerodr.* Yr hwn a orchmynodd ir byd ei addoli ef, ac am na wnaeu'r Criſtnogion hynny, lloſcodd Eglwyſydd, a'r yſcrythyrau drwy ei holi daleithiau. Nid arbedodd mo dywyſogion y llŷs, na'i wraig ei hun. Pan oedd miloedd o'r Chriſtnogion wedi ymgyfarfod i addoli Duw, gorchymmynodd iw filwyr eu lloſci hwynt ynghyd, am iddynt ommedd addoli yr eulyn *Jupiter*; ie merthyrodd leng oi filwyr Criſtnogol ar unwaith (ſef 6666) am iddynt roddi eu harfau i lawr, a naccâu dihenyddio eu brodyr. Lloſodd afonydd gan waed y Criſtnogion, a dychymygwyd ymhob gwlâd boenydiau newyddion iddynt. A bu'r creulondeb hwn yn drwn ar ein cenedl ni yn Prydain. Ac anfonwyd ar lèd orchymmyn argraphedig mewn prês i ddifrodi Chriſtnogaeth, ac i addoli *Jupiter, a Mawrth*, gan ddiolch ir gau dduwiau am y llawnder a'r iechyd y roddid ir bŷd y pryd hwnw. Ond yn ebrwydd anfonodd Duw newyn a chornwyd tra marwol i ddifetha'r Paganiaid.

Tra yr oeddid yn Antiochia yn ſſlangellu Romanus am ei ffydd, ac iddo yntef daer gynghori yr arteithiwr a'r barnwr i gredu yn Gbriſt, ac i adel ymmaith enlunaddoliaeth, gan hyſpyſu iddynt y dewai Chriſt i farnu'r bŷd, torraſant ei ddannedd ef, ac arteithiaſant ei wyneb ef, er mwyn rhwyſtro ei leferydd ef: yna dywedodd wrthynt *fod ganddo gymmaint o ſafnau ac a archollion.* Parodd dynnu allan o'r dyrfa blentyn Chriſtianogol faith mlwydd oed i gyffeſſu ei

ffydd,

ffydd, ac i roddi rheſwm yn erbyn eulunaddoliaeth, i edrych a dderbynient dyſtiolaeth y gwirion hwnw. Ond afrywiogaſant hwy yn erbyn y plentyn gan ei fflangellu a'i benydio ef. Yna ei iam ef a hi yn wraig Griſtianogol ai bannogodd ef i ddioddefgarwch, gan beri iddo ef yſtyried plant Bethlehem, ac Iſaac ieuangc a ymroddaſai i gymeryd ei aberthu. A phan ddarfu iddynt dynnu ei wallt ef, eb hi wrtho ef, yn y man di gei goron yn lle gwallt. A phan dorwyd ei ben ef, hi a'i rhoddodd yn ei mynwes, ac a ganodd ſawl i Dduw. Felly Chriſtion gwan a orchfygodd wrthwyneb crŷf, a methodd ganddynt beri iddo wadu ei ffydd yn yr oedran hwnw. Pan ſafodd gwyryf raſol (a elwid Agnes) yn ei ffydd yn ddiymmod, goſodaſant hi yn noethlummyn yn yr heol, a bwgythiaſant halogi ei diweirdeb hi. A'r cyntaf a gychwynnodd ei threiſio hi, a darawyd i lawr gan ſellden: Yna torwyd ei phen hi â'r cleddyf. Felly Julitta a ferthyrwyd, a hitheu yn dra-hyderus, ac yn annog gwragedd eraill i ddioddef dros Griſt, gan gofio iddynt ddarfod gwneuthur y wraig o aſcwrn.

Barnwyd deugain o ferthyron i feſyll yn noethion mewn llyn ar noſwaith oer, mal y rhynnent i farwolaeth. Y rhai wrth dynnu eu dillad oddiam danynt a ddywedaſant *eu bod hwy yn dioſc yr hên ddyn yn hytrach na'u gwiſc. A rhoddaſant ddiolch i Dduw eu bod hwy yn hwrw ymmaith eu pechod gyda'u gwiſc.* Ac eber nhw *o herwydd y ſarph y dilladwyd ni, o herwydd Chriſt y dioſcir ni. Diſgwiliwn ychydig a mynwes Abraham a'n cyd-gynheſa ni.*

PEN:

PEN. X.

Llwyddiant yr efengyl yn amser Conſtantinus Fawr, a'r rhai a reolodd ar ei ôl eſ. Anghydfod Arrius, ac eraill.

WEdi ir gerwindeb a ſynegwyd yn ddiweddaf barhau ddeg mlynedd, cododd Duw *Conſtantinus* iw liniaru. Yr hwn ag eſ mewn gofal i ryſela a *Macſentius* gormeſdeyrn yn Rhuſain, y welodd groes yn *yr awyr, a hyn wedi ei yſcrifennu â* llythyrennau o Sêr, *IN HOC VINCE, WRTH HWN GORCHFYGA.* Felly rhoddodd ei hyder ar Griſt, a bwriodd i lawr orthrymwyr y gorllewyn, a'r dwyrain, a llawer o'n gwladwyr ni yn ei ganlyn. Ac yſcrifennodd at frenin Perſia hefyd iw berſwadio eſ i adel heddwch ir Criſtnogion yn ei wledydd eſ, (canys darſuaſei iddo ferthyru un mil a'r bumtheg o honynt) gan ſynegi iddo yr dialedd y ddigwyddaſei i erlidwyr eraill.

Oed. Cri. 310.

Y pryd hyn Cyhoeddwyd rhydd-did i bawb i ddilyn y ffydd y welent orau. A chynyddodd y grefydd Griſtnogaidd fel yr ŷd ddechreu'r hâf ar ol oerni gaiaf. Rhoddwyd yn ol ir Criſtnogion y meddiannau y dreiſiaſid oddiarnynt, a breintiau yn ychwaneg: a gorfoleddant yngeiriau'r Pſalmau. Cawſant ſwyddau, ac awdurdod yn eu dwylo ymhob gwlâd. Diddymwyd llawer o ddrwg arferion pechadurus. Gorchmynwyd fanwl gadw'r Sabbath. Yſcrifenwyd aml gopiau or yſcrythyrau. Cyſodwyd i ſynu yſcolion dyſc ac eglwyſydd. Felly ymadnewyddodd y grefydd i barhâu yn hwy na'r yſcrifen brès oedd yn ei gwa-

Pſal. 48. *ac* 68.

gwahardd. Llwyddodd yr ymerodr duwiol hwn yn ei holl ffyrdd, a thrôdd amryw deyrnaſoedd at Griſt yn yr oes hon, wrth weled llaw Dduw yn erbyn eulynaddolieth. Ond yr *Iberiaid* o ymyl *Eucſinus* y dderbyniaſant y ffydd drwy wraig raſol, yr hon y iachâodd frenhines y wlâd drwy weddi.

Yn yr amſer hwn tyſtiolaethodd digon gyda'r grefydd Griſtianogol, gan ddangos i'r Apoſtolion nid yn vnig ddioddef marwolaeth er mwyn yr efengyl, ond iddynt ragwybod a rhagfynegu hynny hefyd. Ac i rifedi y Chriſtianogion ychwanegu dan erlid, a chael ammynedd anorchfygol dan amryw benydiau, y rhai nis gallaſent byth eu dioddef heb gymmorth Duw. Ac yn enwedig cydnabyddid fod y ffydd Griſtianogol o Dduw, am ei bod mor nerthol yn ſancteiddio ei dilynwyr. Am hynny medd Lactantius, *Moes i mi'r diclon a thrwy ychydig o eiriau Duw mi a'i gwnaf mor llonydd â'r llwdn dafad: Moes y cybydd a gwnaf ef yn haelionus: Moes yr hwn ſydd yn ofni marwolaeth, a daw i ddirmygu 'r groes a'r tân. Moes yr anllad, a thi a gefi ei weled ef yn ddiwair. Moes y creulon, a throir ei wŷn yn wir drugarogrwydd. Moes y traws, ac efe a ſyddyn gyſiawn.*

Yſtyriodd pobl hefyd fal yr oedd y prydyddion cenhedlig yn datcan yr anwireddau a wnaethau eu duwiau hwynt tra yr oeddent yn ddynion. A bod yr eulunnod ym mhob man yn peidio â lleſaru; a'r cenhedloedd yn credu yn Ghriſt yn aml. Cydnabuant hefyd fel yr oedd yr yſcrythyrau yn dal allan ewyllis y gwir Dduw yn gyflawn. A bod yn hawdd i'r rheini

eu deall hwy, a'r a fyddo yn ſanctaidd eu bucheddau, ac yn bur eu meddyliau. A thrwodd rhan fawr o'r byd yn Griſtianogol.

YR oes hon drwy amlder a rhydd-did yr eſengil y ſagodd ſoethyſdra ymmyſc proffeſſwyr, a chweſtiwnau rhy ddyfnion ynghylch y Drindod, ac undeb Criſt a'r Tâd o'r un ſylwedd, rhwng *Arius* ac eraill; oni thyfodd anghydfod gofidus ymmyſc yr eglwyſydd. Ac wedi i *Conſtantinus* roddi ſenn ir ddwy blaid drwy lythyrau, a'u hannog i adel heibio ddadleuon anhawdd eu dirnad, ydoedd yn hurtio Criſtnogion, ac ymoſod at bethau ſylweddol, lleſol i adeiladaeth a chariad; caſclodd Gymanfa fawr o Eſcobion, benuriaid, a Chriſtnogion Cyffredin i *Nicea*, lle y goſodaſant i lawr bynciau'r ffydd mewn credo cynwys, a rheolau er cadw undeb. Ac wedi cynhennau blinion, dywedir ddyfod trô ar fol *Arius* a thywallt o hono ei ymyſcaroedd. Ond ar ol marwolaeth *Conſtantinus*, darfu iw fab ef *Conſtantius*, (ir hwn y fyrthiaſei rheolaeth y dwyrain) gefnogi ſect *Arius*, a throi'r blaid Arall allan o'u ſwyddau a'u gweinidogaethau, yr hyn y barodd derfyſcoedd gwaedlyd. ac anfonodd Duw ddaiargrynfau dychrynlyd: yn gymmaint a phan oedd gymanfa gaeerys yn ymgaſclu yn *Nicomedia* i gadarnhau amryſyſſedd, diniſtriodd daiargryn y ddinas. A chyn pen nemmawr y mae *Julianus* yn cael yr ymerodraeth, yr hwn a adawodd y grefydd Griſtnogol yn yr hon y dygaſid ef i ſynu, ac adferodd goelgrefydd y cenhedloedd; a chyſtuddwyd y Criſtnogion am eu gwahaniadau. Etto amlygwyd ynddynt raſau neſol yn eu dioddefiadau,

Oed. Cr. 350.

363.

ac

ac ymhyfrydent dan y fflangellau, a thystiolaethent yn hŷ yn'erbyn yr eulynnod. 366.

Y pryd hyn hefyd y cafodd yr Juddewon gennad i adeiladu'r deml yn *Jerusalem*, ac i aberthu er mwyn gwradwyddo 'r efengil. Ond Symmudodd daiargryn yr adeilad a'r hèn Sylfeini, i gyflawni bwgwth Crist, *Na adewid carreg ar garreg yna heb ei dattod.* A descynnodd tân o'r nefoedd i losci offèrau 'r Seiri, a gwelwyd ôl crôes ar eu dillad, ac nis gallent ei olchi ymmaith. *Mat.* 24.2.

Ymhen y ddwy flynedd lladdwyd *Julianus* mewn brwydr yn erbyn y Persiaid, pan gafodd ei friw marwol, taflodd ei waed tua 'r nêf, gan gydnabod fynedCrist yn drêch nag ef. Ar ei ol ef bu *Falens* yr Emerodr yn flin wrth y rhai ni throent yn *Ariaid*. Yn *Edessa* rhuthrodd gwraig ai phlentyn yn ei llaw drwy lû o wyr arfog oeddent yn myned i lâdd cynnulleidfa rasol tra yr oeddent yn cyd-addoli, gan ddywedyd wrth y milwyr oeddynt yn ei ffoli hi am ei brŷs, *ei bod hi yn ceisio myned i mewn at ei brodyr, er mwyn derbyn y goron gyda hwynt.* Gorfyddeu ir rhai iachaf yn y ffydd lechu am eu bywyd, ac addoli yn y dirgel, tra yr oedd yr *Ariaid* yn meistroli'r Cwbl yn gyhoeddus. Peth rhyfedd fod cyn lleied rhagor mewn deall yn achos o gymaint gelynieth, nid oedd ond dwy lythyren yn y Groeg o amrafael rhyngthynt ar y cyntaf. Cydsylwedd ydoedd Crist a'r tâd meddei'r naill blaid, o gyffelyb sylwedd y teurei'r llall ei fod ef. Ond tân myglud yw cyfeiliorni, godebyg ir angel du y sydd yn ei gynneu, a dywylla 'r deall, ac a boetha 'r gwyniau i wneuthur mwyswy o ddrwg. ὁμούσιος ac ὁμοιούσιος

Cafodd

Cafodd eglwyſydd y gorllewyn adeiladaeth a thangneddyf gwell. Drwy orchymyn *Theodoſius yr ymerodr duwiol*, diniſtrwyd temlau'r eulynod, a rhoddwyd yr yſpail ir tlodion. Cafwyd yn Scrifennedig yn un o'r meini y darfyddei am deml yr eulun *Serapis* pan ddeuei'r groes ir goleu. Y pryd hyn bu *Ambroſe yn Athro* buddiol yn yr Ital, yr hwn a naccâodd ollwn yr *Ymerodr Theodoſius* iw Eglwys nes iddo ſynegi ei Edifeirwch am dywallt gwaed gwirion, wrth goſpi'r dieuog ynghymyſc ag eraill am derfyſc yn *Theſſalonia*: ac uſuddbâodd y pendefig i gerydd yr athro. Pan oedd yr ymerodr duwiol hwn yn rhy wan mewn brwydr yn erbyn gorthrymwyr, goſtyngodd ar ei liniau, a galwodd ar Dduw am gymmorth, ac yn ebrwydd daeth gwynt crŷf, y drôdd yn ôl Saethau ei elynion ar eu pennau eu hunain. A phan ydoedd ef yn tueddu peth tuag at yr *Ariaid*, daeth dyſcawdwr atto. ef, ac wedi ei gyfarch ef yn barchedig, galwodd ei fab ef *Arcadius* gerfydd ei henw, megis bachgen Cyffredin; a thra yr oedd yr ymerodr yn anfodlon am hynny, attebodd ef, gan ddywedyd, *os wyti yn cymmeryd yn ddrwg ddirmyg dy fâb, meddwl beth y wnaiff Duw ir neb ni roddo iw fab Criſt ei ddyledus fraint, ai anrhydedd.* Dan weinidogaeth *Ambroſe* y derbyniodd *Awſtin* yr ailanedigaeth, ac ediſeirwch dwys: yr hwn y brifiodd yn athro dyſcedig yſprydol yn *Affrica*, ac a adawodd oi ôl lawer o lyfrau nodedig a c felly bu eraill ymhlith y Groegiaid yn *Conſtantinopl*, yn enwedig *Cryſoſtom*, yr hwn a adawodd y bûdd oedd iddo ef iw gael wrth fod yn ŵr o gyfraith, ai helynt ſoneddigaidd, ac y ddewiſodd waſnaethu Duw

Oed Cr. 400.

mewn

mewn cyflwr gwaelach yn y byd wrth hyfforddi'r esengil: gan *ddywedyd fod gormod gol ad yn soddi'r enaid, fal y mae gormod llwyth yn soddi'r llong.* A gwelodd Duw yn dda waredu 'r bobl yr ydoedd mor rasol yn eu dyscu; yn gymaint a phan oedd y *Saraceniaid* yn cynnorthwyo'r *Persiaid* i orthrymmu'r Cristnogion, daeth cyffro byrbwyll ir fyddyn, a neidiodd yr anghred ir Afon *Euphrates*, lle boddodd miloedd o honynt. A phan oedd y *Gothiaid* ar fedr llosci *Constantinopl.* darfu i fyrddiwn o angylion yn rhith gwyr arfog eu gwlltio ymmaith. Ond casodd y *Gothiaid* a'r *Fandaliaid* (gwyr rhyfelgar o'r gogledd) lwyddiant mwy i gystuddio'r gorllewyn; ynnillasant Rufain, ac yspeiliasant hi a phrifiasant yn fflangell Duw ar y Cristnogion am eu balchder au dicter wrth eu gilidd; yn enwedig yr esgobion oedd euog o'r pechodau hyn, ie yn eu Cymansâu, a'u ymryssonau ynghylch geiriau. Digwyddodd hefyd dân erchyll mewn dinasoedd. A llif-ddyfroedd, a daiargrynfau ofnadwy, etto ni ollyngid y beiau i Syrthio; am hynny canlynodd cornwyd rhyfeddol a yscubodd ddinasoedd cyfain, ac aeth ar lêd y bŷd dros ddeugain o flynyddoedd. A thrachefn lladdodd daiargrynfâu filoedd o bobl ni chymerent ond rhyfychan o rybudd ymlaen llaw, er i Symeon gwr duwiol, syned o amgylch, a fflangellu Colosnau dinasoedd, gan erchi iddynt gymeryd gofal o sefyll ar eu traed pan ddawnsient. yn yr oes hon mae Cymanfau o wŷr Eglwysig yn rhoddi braint i escobion *Rhufain a Chonstantinopl*, i fod vwchlaw escobion eraill; ac yn dechreu gorchymmyn ffurf osodedig o wasanaeth i Duw.

405.

Oed. Cr. 544.

Wedi ir Saeson orescin Lloegr a Bod yn hîr mewn anghredinieth, daeth attynt bregethwyr o Rufain (sef Awstyn y monach) ac eraill, ac y
598 gawsant lwyddiant yn eu taith, canys credodd *Penaethiaid a* chyffredin, a bedyddwyd dengmil yn ymyl *Eboroc* yn yr un diwrnod, a mynegir i ryseddodau gyd ganlyn y gair er mwyn troedigaeth y Saeson. Dywedir am *Gregorius* escob Rhufain y ansonodd y pregethwyr at y Saeson, y crynei es pan ddarllenei eiriau *Abraham* wrth y glwth, *coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy fywyd.* Canys cyflawn oedd ei gyflwr ef yn y byd.

Luc. 16. 25.

Wedi i *Phocas* waedlyd lâdd ei feistr *Morys*, a myned yn ymerodr yn el lê ef, er cael gair da escob Rhufain, rhoddodd iddo Ditl i fod yn ben ar yr holl eglwysi: er i *Gregorius* ychydig o'r blaen brofi yn erbyn escob *Constantinopl*, nad allei escob yn y bŷd ymhonni or fath beth.

Oed. Cr. 602

Ynghylch y flwyddyn o oedran yr Arglwydd chwe chant, a thrigain a chwech, y dechreuodd cresydd *Mahomet* ledu drwy rym y *Saraceniaid*, y rhai oeddent wedi syrthio allan ag ymerodron y Cristnogion: yr oedd yr oes hon wedi ymrannu yn resunol o ran opiniwnau, a dychymygion dynol yn cael eu croesawu ymmatterion cresydd. Ar hyn *Mahomet yr hudol*, (drwy help *Sergius Monach* escymunedig) y ddyfeisiodd yr *Alcoran*, sef llyfr gau gresydd y Turciaid. Ac am ei fod ef yn fynych yn Syrthio yn y ffeintiadau, taerei mae ymddiddanion yr angel *Gabriel* y barent ei lewyg ef. Ac fal y derbyniair byd ei athrawieth ef yn rhwyddach, tymherodd hi i fodloni peth ar bawb. Cydnebydd Grist yn broph-

666.

brophwyd ffydlon er boddhâu 'r gwir Gristion. Gorchymmyniff enwaediad er mwyn yr Juddewon. Gwediff dduwdod Crist er ynnill yr *Ariaid* oeddent aml yn y parthau hynny. Canhiadiff amlder o wragedd ir un gwr, a rhydd-did y cnawd, er denu y Sawl y garent bechod, yr hyn sydd naturiol ir holl syd; a hynny nid yn unic yn y bywyd hwn, eithr ym mharadwys yr addaw ef wleddoedd, a gwragedd ir Sawl a ddilynant ei ffydd ef, ac a laddant bawb ai gwrthodo.

PEN. XI.

Ynghylch crefydd Mahomet.

GAn fod crefydd Mahomet wedi gorthrechu cymmaint o'r hên, fŷd, cymerwn yn ychwaneg yr hyspyfrwydd a ganlyn am dano ef, a'i ffordd. Yn ei ieuengctid plentyn ymddifad oedd ef a werthwyd yn gaeth wâs. Yn yr hwn gyflwr y rhagorodd ef ar ei gydweision mewn synwyr a diwydrwydd, oni chafodd ei osod yn bennaf goruchwiliwr ar farsiandiaeth ei feistr yn Syria, Persia, a'r Aipht. A thra 'r ydoedd ef yn tramwyo Cymmaint craffodd ar grefydd pob gwlâd, a gwelai 'r Gristianogol, a'r Juddewaidd yn odidoccaf. Ond pan su farw ei feistr, drwy gwnswriaeth ynnillodd serch ei feistres, ac a feddiannoddei mawr olud hi. A chwedi myned o honaw ef yn alluog, cafodd ei wenbeithio gan Sergius a fwriafid allan o eglwysydd y Christianogion am ei heresiau. Yr hwn a ddangosodd iddo ef fal yr oedd y Christianogion a'r Juddewon yn ely-

nol iw gilidd, ac yn wahannedig yn eu mysc eu hunain hefyd. A bod yr amser yn gwasnaethu iddo ef i gymeryd arno swydd prophwyd i ddwyn cyfraith arall ir byd. Am hynny aeth i lechu mewn ogof dros ennyd: tra fyddai Sergius yn cyboeddi i'r bobl berffeithrwydd ei fuchedd ef. Ac ym mhen dwy flynedd y mae yn ymddangos i'r byd gan ymhonni o'i fod yn brophwyd. Ac er peri iddynt goelio hynny cynnefinodd glomen i bigo pyssen allan o'i glust ef; a thaerai mai 'r ysbryd Glân ydoedd yn desgyn arno ef yn y rhith hwnw i synegu iddo beth a wnai. A phan gafodd drwy 'r gau arwydd hwnw ynghŷd â'i ffeintiadau ei gydnabod yn brophwyd gan ei gymmydogion, y mae yn ymgodi i fod yn frenin hefyd, gan gyhoeddi iw ddilynwyr ryddhâd oddiwrth bob caethiwed bydol, yr hyn a wnaeth iddynt lioesogi yn ddirfawr. Canys y caethwesion drwy Arabia oll a adawsant eu meistraid, ac a ymgasclasant atto ef, ac yn ewyllysgar a dderbyniasant ei gyfraith ef. Y rhain a fyddinoedd ef yn ddyfal, ac â hwynt curodd bawb o'i amgylch a'r a wrthwynebent ei athrawiaeth ef. Wedi iddo orchfygu pennaethiaid Mecca, a gorthrechu yr Juddewon yn Medina, aeth yn dywysog ar lû dewr, ac yn arglwydd ar wâd eberg. Y pryd hyn darfu i'r Saraceniaid hefyd prefwylwyr rhyfelgar y diffaerhwch (y lidiasent wrth Heraclius ymmerawdr Christianogol Constantinopl, eisieu cael cyfiog eu milwriaeth) ymuno ar gau brophwyd hwn, a i gymeryd ef yn ben-ciwdod arnynt. Ac yn ebrwydd dygasant ei deyrnged oddiar yr ymmerawdr, a lladdasant ei swyddogion ef yn

y

y gwledydd hynny. A thynnasant oddiwrtho ei nid Arabia yn unig, ond yr Aipht hefyd. Ac ymostyngodd y bobl yn gyffredin i grefydd Mahomet wrth weled ei arfau ef mor llwyddianus. Ac ar ddydd ei farwolaeth ef gwelwyd feren gynffonnog vn ffurf á chleddyf yn blaen weddu o'r dehau tua'r gogledd, a barhâodd i oleuo ganol dydd dros ddeng niwrnod ar vgain. Ac wrth yr arwydd hwnw britiodd y genedl honno y lledai brenhiniaeth Arabia ar draws y bŷd drwy nerth y cleddyf, fel y digwyddodd yn rhy wir er gwae i lawer gwlâd. Ei athrawiaeth ef fy gynwysedig yn y llyfr a elwir *Alcoran*, a arwyddocca *casgliad o orchymmynion*. Ac o herwydd ei fod ef yn crybwyll weithiau am y ffydd Gristianogol, dectholais a chyfieithais y pethau goreu ynddo, am fod cyfaddefiad gelyn yn dystiolaeth grêf yn ei erbyn ei hun, ac yn dda ar du'r gwir a orthrymmo ef. A'r pethau cyfeiliornus a'r sydd ynddo ef, a ddylent ein bannog ni i garu ein ffydd inchwfol yn wrefoccach, canys gwelir y glân yn bawddgarach wrth ei gyffelyba â'r gwrthyn. A bydd y *plant afradlon* pan ddelont attynt eu hunain yn well ganddynt eu hymborth cartrefol, ar ol profi'r *cibau* y sydd yn y wlâd bell.

Yr Alcoran. PEN. I. *A yscrifennwyd yma Mecca.*

DUW grasusol a thrugarog. Gogoneddus fo'r Duw grasusol a thrugarog, brenhin

dydd y farn. Tydi a addolwn ni, oddiwrthit ti y gofynnwn gymmorth. Cyfarwydda ni yn y ffordd vniawn, yn llwybr y rhai y buofti gymwynafcar wrthynt heb ddigofaint tuag attynt, ac ni'n camarweinir.

PEN. 2. A yfcrifenwyd ym Mecca. Gwir grediniaid a gant fwynhau hyfrydwch paradwys, fef aeron blafus, a gwragedd prydferth. Gwnaiff Duw i chwi farw, ac ailgyfodi, a dychwelyd o'i flaen ef i'ch barnu. Yr annuwiol a lofcant yn nhân vflern yn dragywydd. Gweddiwch ar y tymhorau gofodedig, a thelwch ddegymmau. Duw a roddes i Mofes y llyfr fydd yn dofparthu rhwng da a drwg Yna y drygionus a newidiafant y geiriau a ddyfcafom ni iddynt. Pawb a'r a gredant yn Nuw, Chriftianogion, Juddewona Samariaid, ac a wnelont weithredoedd da a obrwyir gan eu Harglwydd, ac a fyddant gadwedigol oddiwrth gyfludd yn nydd yr adgyfodiad. Nyni drwy yfprydoliaeth a roddafom wybodaeth i Jefu Mab Mari, ac a'i nerthafom ef drwy'r yfpryd Glân. Ond cyfodafoch Yn erbyn y prophwydi a ddaethont yngwrthwyneb i'ch ewyllis chwi. Enllibiafoch y naill ran o honynt, a lladdafoch y llall. Y mae melldith Dduw ar y rhai a werthafant eu heneidiau, a thrwy genfigen a anufuddhafant iw orchymmynion ef. Dywed wrthynt pwy fydd elynol i Gabriel? efe gyda chaniattâd Duw drwy yfprydoliaeth a roddes iti yr Alcoran, a ficrheiff yr hên fcrythyrau. Ni ddeifyfodd yr Juddewon a'r Chriftianogion ar Dduw ddanfon i chwi ddaioni, ond y mae Duw yn rhoddi ei drugaredd i'r neb a fynno ef. Gwaherddif efi

Juddewon

chwi

chwi ſwytta gwaed, a chig môch, oddieithr mewn dir anghenrhaid. Nid cyfiawnhâd yw troi 'r wyneb gan weddio tua'r dwyrain neu'r gorllewin. Hwnw a gyfiawnheir a'r a gredo i Dduw, a dydd y farn, yr angylion, a'r ſcrythyrau, a'r prophwydi: ac mewn cariad a gyfranno ryw beth o'i dda iw rieni, i'r ymddifaid, i'r tlawd, i'r pererinion, a'r caethion. Gorchymmynir ympryd i chwi, megis y gorchymynwyd i'r rhai a fu o'ch blaen chwi. Cyfreithlon i chwi adnabod eich gwragedd nos yr ympryd. Bwyttewch ac yfwch hyd oni alloch wybod rhagor rhwng edeu wen a du wrth liw 'r boreu ddydd, yna ymprydiwch o hynny hyd y nôs. Oh chwi y rhai a gredwch yn Nuw vſuddhewch iw orchymmynion ef, ac na ddilynwch gamrau diafol. efe ſydd elyn i chwi. Gorchymmynir i chwi ymladd.

Ymoſynnant â thi ynghylch gwîn, a chwareuon anturiol, dywed wrthynt ei fod iddynt yn bechod mawr, ac erio yn fuddiol i ddynion; ond y mae'r drwg a barent yn fwy na'r budd. Nid yw eich creſydd yn caniattau i chwi dyngu i Dduw yn ofer, ac yn fynych i'ch cyfiawnhau eich hunain. Oſnwch Dduw, a deallwch ei fod ef yn gwybod eich holl weithredoedd chwi. Seſwch ar eich gwiliedyddiaeth pan weddioch: onid ellwch fyned ar eich gliniau rhag ofn eich gelynion, nac eſceuluſwch ddywedyd eich gweddiau o'ch ſeſyll, neu oddiar geſnau eich ceſyllau. Nid oes ond yn bywiol a thragwyddol Dduw yn vnig, na thybiwch ei fod ef yn heppian neu yn hunô. Eiddo ef yw beth bynnag y ſydd yn y neſoedd neu'r ddaiar. Pwy a erfyn

drosoti gydâ ei Ddduwiol Fawrhydi ef oddieithr drwy ei gennad ef? helaethrwydd ei deyrngadair ef sy'n amgyffred nefoedd a daiar, a cheidwadaeth y ddau nid yw helbulus iddo ef, y mae ef yn Hollalluog a gogoneddus. Y mae Duw yn dygngallau occreth. Na wnewch angbyfiawnder i neb, ni wneir ef i chwithau. Arglwydd escusoda ni os anghofiasom di. Delea ein pechodau ni, a dod dy drugaredd i ni. Tydi wyt ein Harglwydd, dod i ni fuddugoliaeth yn erbyn yr anghrediniaid.

PEN. 3. Yscrifenwyd ym Medina.

Efe ddanfonodd iti 'r llyfr sy'n cynwys gwirionedd, ac yn cadarnbau 'r yscrythyrau, a ddanfonwyd o'i flaen ef. Efe ddanfonodd y Testament hên, a'r efengyl ydoedd gynt gyfarwyddwyr i'r bobl. Y rhai ni chredant ynghyfraith Dduw a gospir yn ddwys. Y mae ef yn ddialydd Hollalluog. Nid oes dim yn y nefoedd, na'r ddaiar yn guddiedig oddiwrtho ef. Arglwydd ti a gescli 'r bŷd ynghyd ddydd y farn, pryd na bydd dim yn anbysbus. Pryd nid ai yn erbyn dy addewidion. Pryd na wasanaetha golud na phlant i'r annuwiol, ond i ennyn tân vffern. Hîl a heppil anghredadwy Pharaoh, a gablasant ac a ddioddefasant gyfraith Dduw, ond yn ddiymmwth ese a'i dinystrodd hwynt am eu pechod. Y mae ef yn dôst yn ei gospedigaethau. Serch ar wragedd, plant, golud, cattel, ŷd, sydd hyfryd gan ddynion, y cyfryw yw golud y bywyd hwn: Ond y noddfa ficcraf sydd yn Nuw. Dywed wrthynt mynegaf i chwi bethau sydd well

well i'r rhai ſydd ag ofn Duw o flaen enllygaid. Cânt hwy breſwylio ym Mharadwys yn dragywydd, lle mae llawer o afonydd a gwragedd prydferth, a phôb math ar ſodlonrwydd. Gweddiodd Zachary ar yr Arglwydd a dywedodd, Arglwydd dod i mi heppil a ryngo fodd iti, ac a gadwo dy orchymmynion. Angel a alwodd arno, ac a ddywedodd wrtho, yr wyfi yn mynegi iti oddiwrth Ddnw, y cefi di tâb a'i enw Joan, eſe a wiria fod y Meſſias yn Air Duw. Eber Zachary, Arglwydd dyro i mi ryw arwydd o ymddwyn fy ngwraig. Attebodd yr Angel, hyn tydd yr arwydd a roddafi iti, ni leferi dros dridiau. Oh Mair y mae Duw yn mynegi iti air oddiwrth yr hwn y deilliaw y Meſſias, a henwir Jeſu, o riſedi 'r erfynwyr gydâ ei Dduwiol fawrhydi eſ. Eb hi Arglwydd pa fodd y cafi blentyn a mi heb gyffwrdd â gwr? Eſe attebodd, gwnaiff Duw fel y mynno ei hun. Pan grea ef ryw beth, eſe a ddywed bydd di, ac yna y bydd. Myfi a ddyſcaf iddo ei yr yſcrythyrau, dirgeledigaethau 'r gyfraith, yr hên deſtament, a'r efengyl ac eſe a ſydd brophwyd anſonedig i blant yr Iſrael. Dywedodd yr Jeſu wrth blant yr Iſrael, yr wyfi yn dyſod attoch chwi ag arwyddion eglur o'm anfoniad oddiwrth eich Arglwydd. Jachaf y rhai a aned yn ddall, a'r gwahanglwyſus, a chyfodaf y meirw. Cydſwriadodd yr Juddewon yn erbyn yr Jeſu. A gwnaeth Duw iw cydfradwriaeth ddychwelid arnyut hwy eu hunain. Y mae Jeſu gydâ Duw.

Os ymddiriedi dy dda i ddwylo llawer o'r rhai a adwaenant y gyfraith yſcrifennedig, hwy a'u dadroddant iti yn ffyddlon. Y mae llawer o

honynt

honynt nis dadroddant, oni fyddi ymogelgar.

Nid yw'r Arglwydd yn gorchymmyn i chwi addoli angylion, a prophwydi, efe a ddyfcodd i chwi yfcrythyr a gwybodaeth. Y rhai gynt a adnabuant y gyfraith fcrifennedig nid ydynt i gyd yn vnwedd. Y mae rhai yn eu myfc a barhatant mewn vfudd-dod, ac a fyfyriant y nôs ar wrthiau Duw, addolant ef, a chredant ei Dduwiol Fawrhydi ef, a dyddy farn; pregethant yn oneft, ac ymofodant ac weithredoedd da, diau eu bod yn bobl dda. Na fyddwch ocerwyr. Huff gan Dduw y rhai a roddant eluſen, a ddarollyngant eu gwŷn, ac a faddeuant i'r rhai a'u tramgwyddo: ac ar ol pechu a gofiant ei Dduwiol Fawrhydi, ac a ymbiliant am faddeuant. Y rhai ni pharhaffo yn eu cyfeiliorni a obrwyir â thrugaredd Dduw, ac a fwynhânt ei ffâfr ef ym mbaradwys.

PEN. 4 Y fcrifenwyd ym Medina. Yn enw Duw grafol a thrugarog. O chwi bobloedd ofnwch yr Arglwydd a'ch creawdd o vn dŷn, ac a greawdd ei wraig efo'i aſſen ef. Rhoddwch i'r ymddifaid y peth a berthyn iddynt, na ddifethwch eu da hwynt, pechod tra mawr yw hynny. Y rhai a ddifaont eu da hwynt yn anghyfiawn, a lyncant dân i w ymyfcaroedd. Ofnwch hefyd wneuthur cam â gwragedd. Priodwch y rhai fo yn boddhau i chwi dwy neu dair neu bedair. Cofbwch butteinwyr ac ordderchion. Nid oes faddeuant ir rhai a wnânt anwiredd hyd awr eu marwolaeth. Ar law Duw y mae rhoi troedigaeth. Y mae ef yn faddeugar i'r rhai a bechant yn ddiwybod, ac a edifarhant yn gyflym. Na phriodwch wragedd eich tadau, gonmeddir

meddir i chwi eich mammau, eich chwiorydd, eich merched, eich modrabedd, eich nithoedd Pr. iodwch eich gwragedd wrth gennad eu rheini. Na leddwch eu gilidd. Na chwennychwch drwy genfigen y peth a roddes Duw i'ch cymmydog. Ymbiliwch ar Dduw am râs. Na weddiwch a chwi yn feddw, byd oni wypoch beth y byddoch yn ei ddywedyd: na chra fyddoch yn halogedig, oddieithr ar ymdaith, nes eich glanhau. O byddwch ar daith, neu glâf, neu yn rhyddhau'r bol, neu wedi adnabod eich gwragedd, ac heb gael dwfr i ymolchi, ymaflwch yn y tywod, a fychwch eich wyneb â'ch dwylo.

PEN. 5. Yferifenwyd ym Medina.

Yn enw Duw grafufol a thrugarog. Na wnewch rwyftr i'r rhai a ddygant anrhegion i Mecca: na luddiwch i bererinion fyned yno i ofyn grâs. Gomeddir i chwi fwyta burgun, a chig môch, a gwaed, a pheth bynnag nis lladder dan adrodd enw Duw. Ni chewch fwytta o'r anifeiliaid a aberthir i'r eulunnod. Nac ymgynghorwch â dewiniaid na choelbrenni, pechod mawr yw. O chwi y rhai a gredwch yn Nuw ofnweh ef. Gwir ffyddloniaid oll a ddylent ymroddi iw ewyllis ef. Cymerth Duw addewid plant yr Iſrael i gadw ei orchymmynion ef. ac a ddywedodd wrthynt hwy myfi a fyddaf gydâ chwi pan weddiocb; coeliwch y prophwydi. Ecbwynant i mi elufenau, minnau a guddiaf eich pechodau, ac a'ch gollyngaf i Baradwys lle ffrydia llawer o afonydd. Pan giliafont oddiwrth yr byn a addawfent, rhoddafom ein meilldith iddynt, a chaledafom eu calonnau hwynt. Derbyniafom he-

fyd

fyd addewid y rhai a'u galwant eu hunain yn Gristianogion, ond anghofiasant hwythau yr hyn a addawsent. Newidiasant yr hyn a ddyscwyd iddynt, a bwriasom yn eu mysc hwynt elyniaeth a dygasedd, ie hyd ddydd y farn; y pryd y gwnaiff Duw iddynt wybod beth bynnag a wnaethont er cospedigaeth iddynt: Oh chwi y rhai a wyddoch y gwraith yscrifennedig! daeth ein prophwyd i ddwyn i'r golau lawer o bethau yr ydych chwi yn eu celu. Dywedodd yr Juddewon a'r Christianogion anwyl blant Duw ydym ni, dywed wrthynt, oni chaiff yr Arglwydd eich ceryddu chwi am eich pechodau? Torwch ymmaith ddwylo y rhai a ledrattant, ofnwch Dduw, ymleddweh dros ei gyfraith ef. Ordeiniasom dalu'r pwyth, dŷn am ddŷn, llygad am lygad, trwyn am drwyn, clust am glust, dant am ddant. Ar ol llawer o brophwydi anfonasom Jesu Mab Mair, yr hwn a siccrhaodd yr hên yscrythyrau. Iddo ef y rhoddasom yr esengyl gyflawn o oleuni, i arwain y bobl i'r ffordd vnion, gydâ siccrhâd yr hên destament, cyfarwyddwr ac addysc i'r cyfiawn. Y rhai a ddilynant yr esengyl a ddylent sarnu sel y mae yn orchymmynedig yn yr esengyl. Y mae y rhan fwyaf o'r bŷd yn annuwiol. O chwi y rhai ydych yn deall y gyfraith yscrifennedig, y mae y rhan fwyaf o honoch chwi yn ddrygionus. Dywed wrthynt hwy a ddyscais i chwi i wneuthur drwg pan bregethais i chwi affaith trugaredd Dduw? ymegniant i halogi'r ddaiar, ond câs gan Dduw y rhai a barant anrhefn. Maddeua ef bechodau y rhai a wyddant yr yscrythyr, ac a dront oddiwrth anwiredd, y cyfiyw a gant fy-

ned

ned i mewn i Baradwys, lle y mae llawnder o lawenydd. Darllennafant yr hên deftament, a'r efengyl, a'r yfcrythyrau oll, a mwynhafant amlder o bôb peth da, er hynny llawer a anufuddhafant i orchymmynion Duw. Oh chwi y rhai ydych yn gwybod y gyfraith yfcrifennedig! oni ddeliwch chwi ar yr hên deftament a'r efengyl, a'r yfcrythyrau, a ddanfonodd Duw i chwi, byddwch yn anheilwng. Yr Juddewon, Samariaid, a Chriftianogion, cymmaint oll ac a gredafant yn Nuw, ac adgyfodiad y meirw, ac a wnaethont weithredoedd da a waredir oddiwrth âdfyd, nid oes iddynt hwy ddim iw ofni yn nydd y farn.

Gwîn, chwareuon anturiol, eulunnod, a dewiniaeth ydynt ffiaidd berthau, a gweithrediadau bryntion y cythrael. Chwennychiff y cythrael hau gerwindeb as anghydfod yn eich plith drwy wîn, a chwareuon anturiol, i dagu eich coffadwriaeth am Dduw, a'ch gweddiau. Na fyddwch ry-fanwl i wybod pa bryd yr anfonwyd yr Alcoran o'r nêf. Pan neffao eich marwolaeth gwnewch eich ewyllis. Ofnwch Dduw, a gwrandewch ei orchymmynion ef; nid arwain ef y rhai a wrthryfelant yn ei erbyn ef. Efe a ddywed yn nydd y farn oh Jefu a orchymmynaift ti i'r bobl dy addoli di a'th fam? Atebiff yr Jefu ni thraddodais i ddim ond yr hyn a orchymmynaift di i mi, fef addolwch Dduw yr Arglwydd.

PEN. 6. A yfcrifenwyd ym Medina. Yn enw Duw grafufol, a thrugarog. Efe yw 'r hwn a'ch creawdd chwi o lŵch y ddaiar. Ac a ofodod amfer rhagderfynnedig i'ch marwolaeth, a'ch adgyfodiad. Efe a ddeall ddirgelion eich

calonnau.

calonau. Tra thruenus yw y rhai ni chredant yr adgyfodiad, trallodir hwynt am eu pechodau yn awr eu marwolaeth. Haeſa nad yw bywyd y bŷd hwn onid twyll a gwagedd; a bod bywyd y bŷdarall yn llawn o ddedwddwch i'r eyfiawn. Gwrendi ef weddiau 'r cyfiawn a wrandawant ei air ef. Na wnewch beibul i'r rhai a weddiant ar Dduw bryd-nhawn a boreu, ac a chwennychant weled ei wyneb ef. Os cythrybli hwynt, ti a fydd i yn rhyfedi yr anghyfiawn. Didoliff Duw y da oddiwrth y drwg megis yr ŷd oddiwrth y dwyſen. Tyngaſant yr ymladdent dros y ffydd os ymddangoſai rhyw wrthiau iw cyſcu hwynt. Oddiwrth Dduw y deilliaw rhyfeddodau, ni wyddant pa bryd y periff idd. ynt ymddangos. Dywedaſant na chredent ynddo ef [ſef Mahomet] oddieithr i'r vn rhinweddau ei ganlyn ef, ac oedd gan brophwydi eraill. Cyſtuddir y rhai a ſiariadant felly.

PEN. 7. Yſcriſenwyd ym Mecca. Na ſyddwch afradlon, câs gan Dduw y rhai a dreuliant eu golud yn ofer. Cofiwch ſal y llefarodd Lot wrth y bobl gan ddywedyd, a halogwch chwi eich hunain beunydd â phutteindra? dywedaſont moeſwch i ni yrru Lot a'i deulu allan o'n dinas, am na ſynnant ymhalogi gydâ ni. Ond Duw a'i gwaredodd ef allan o'u dwylo hwynt. Efe a ddywedodd wrth Moſes gwneuthym di yn brophwyd. Rhoddaſom iddo 'r llecbau, ar ynhai yr oedd yn yſcriſennedig yr hyn oedd reidiol i iechydwriaeth dynion. Pobl Moſes ar ol ei ymadawiad ef a addolaſant y llô: oni welſant na lefarai ef wrthynt? Efe a ddywedodd ſy nhrugaredd a gofleidia 'r holl fŷd, ſef y cyfryw ac fydd ô'm hofn i o flaen eu llygaid, a vſuddbant

fm gorchymmynion, a gredant y prophwyd ni feidr nac yſcrifennu na darllen, a'r hyn ſy yſcrifennedig yn yr hèn deſtament a'r efengyl. Gofynner iddynt hwy [ſef yr Juddewon] am bentref ydoedd ar lan y môr, trigolion pa vn ni chadwaſant y Sabbath, eithr pyſcotta a wnaethant ar ddydd y gorphywyſtra. Gwelſant y diwrnod hwnw nadroedd yn ymddangos ar y dwfr, ac ni welent hwynt ar ddiwrnodiau eraill. O feſur ychydig ac ychydig mi a goſpaſ y rhai a wrthodant ſy ngorchymmynion. Onid côl ganddynt ddywedyd fod Mahomet a chythrael ynddo ymoſynant â thi ynghylch dydd ac awr y ſarn, dywed wrthynt, na ŵyr neb hynny ond Duw. Anſonwyd fi yn vnig i fynegi llawenydd Paradwys, a dir boenau vffern. Os gelwch ar eulunnod am gymmorth trueni a ddaw arnoch. Os gelwch arnynt, ni chewch neb i'ch ymddiffyn, edrychant arnoch heb eich canſod chwi.

PEN. 8. Yſcrifenwyd ym Medina. I bwy y perthya yr yſpail? yr yſpail a berthyn i Dduw ac iw brophwyd. Pan yrrodd yr Arglwydd di allan o'th dŷ i ymladd yn erbyn yr anghred, yr oedd rhan o'r ffyddloniaid yn wrthwynebus ganddynt ymladd. Beth a ddymunech chwi onid côl y ſuddugoliaeth? na throwch eich cefnau ar yr annuwiol pan neſſânt i ymlâdd â chwi. Gwybyddwch y didola Duw y buſtl oddiwrth yr aſu, yr anghredadyn oddiwrth y cywyr gredadyn. Os troant i ymladd yn erbyn y prophwyd, lleddwch hwynt i ochelyd angbydfod. Annoger y ffyddloniaid i ymladd yn erbyn yr anghred.

PEN. 9. Yſcrifenwyd ym Medina. Cyhoedda

edda i'r anghredadwy y cant hwy ddioddef poenau tôst pan ddel mîs Heram. [Diwedd eu cyngrair] lleddwch hwynt pa le bynnag y cyfarfyddoch á hwynt: caethiwch a charcharwch hwynt. Y cyfryw ac a gredafant yn Nuw, ac a ymadawfant oddiwrth yn anwir, ac a arferafant eu nerth a'u golud i ymladd dros ei gyfraith ef, a gânt râdd a lle neillduol yn agos iw Dduwiol Fawrhydi ef. Pan greawdd yr Arglwydd nefoedd a daiar ordeiniodd ddeuddeg mis yn y flwyddyn.

PEN. 10 Yfcrifenwyd ym Mecca. Hwya ddywedant fod gorchymmynion yr Alcoran yn gwbl groes i'r hyn yr ydwyti yn ei bregethu, a darfod iti eu newid hwynt. Dywed wrthynt nid wyf yn ewyllyfio eu newid hwynt o honof fy hun. Dywedant ni chredwn ni yn y prophwyd, os Dûw ni pheriff i ryw ryfeddod ymddangos ynddo ef. Dywed wrthynt difgwiliwch, mi a ddifgwiliaf gydâ chwi.

PEN. 11. Addolwch yn Duw yn vnig. Rhoddwch bwyfau da a mefuran. Nac atteliwch ddim oddiwrth eich cymmydog.

PEN. 12. Yr oeddent wedi cymmaint burtio wrth edrych ar lendid Joseph, oni thorrafant eu byfedd yn lle eu brvyd.

PEN. 13. Dieffeithiawl yw gweddiau y rhai a ymbiliant â Duw arall. Annuwioldeb yw gweddiau y drygionus.

PEN. 16. Na thorrwch eich addewid a'r Arglwydd er da yn y bŷd, y mae ei râs ef yn well ar eich llês na golud y ddaiar y fydd ddarfodedig. Cyfoeth y nef fydd dragwyddol. Yr hwn a wnel weithredoedd da a fydd fendigedig

dig yn y bŷd hwn ac yn y llall. Pan newidiom ni neb ryw orchymmyn dywedant mai celwyddwr wyti. Hwy a ddywedant mai dŷn a ddyscodd yr Alcoran iddo. Yr hwn y maent hwy yn rhŷfygu ddarfod iddo ei ddyscu ef sydd wrth genedl yn ŵr o Persia, ac yn llefaru iaith y Persiaid, ond yr Alcoran sydd yn iaith Arabia.

Proffessodd Abraham vndeb Duw, ac nid addolodd eulunnod. Siccrhâodd ef y Sabbath.

PEN. 17. Ni luddiodd dim i ddangos y rhyfeddodau y mae trigolion Mecca yn deisyf eu gweled, oddieithr y dirmyg a wnaethpwyd gan eu rhagflaenoriaid hwy. Ni ddangosaf fi ryfeddodau mwy, ond peri i'r bobl wybod poenau vffern.

PEN. 18. Nac amheuer histori 'r cyscadwyr, y rhai a su yn yr ogof drychant o flynyddoedd.

PEN. 22. Yr hwn sydd ddiclon am swccro Mahomet rhwymèd tenyn wrth swmer ei dŷ, ac ymgroged, i edrych a oera ei fustl ef. Gosodasom gyfraith i offrwm aberthau.

PEN. 27. Solomon oedd etifedd Dafydd, ac a ddywedodd wrth y bobl, nyni a ddeallwn jaith yr adar. Pan ymgynnillodd byddyn Solomon gen ei fron ef yr ydoedd hi yn gyffyllteddig o ddynion, cythreiliaid, ac adar; arweiniodd ef hwynt i ddyffryn y môrgrug. A morgrugyn a lefodd, o forgrug ewch i'ch tai rhag i Solomon a'i luoedd eich sathru chwi dan draed yn ddiwybod. Pan glywodd Solomon y geiriau hyn dechreuodd chwerthin.

PEN. 33. Pan yscarodd Zeid ei wraig, rhoddwyd hi iti yn briod. Nid yw'r prophwyd yn

pechu wrth wneuthur y peth a ganiattâodd Duw. O brophwyd rhoddir iti gennad i adnabod y gwragedd a gynbyscaeddaist di, sef y caethforwynion, a merched dy ewythryd, a'th fodrabedd. Os y rheini ym Medina ni pheidiant â'u hanwiredd, rhoddaf iti gwbl awdurdod arnynt. Ychydig o honynt a'th barchant di, ond dal di hwynt, a llâdd hwynt ym mhale bynnag y cyfarfyddech â hwynt.

PEN. 35. Gogoniant i Dduw a greawdd yr angylion cennadau ei orchymmynion ef.

Yn awr ddarllenydd y gelli weled fod y wir grefydd ym mhlith dynion ym mhell cyn i'r bwngler hwn glyttio darnau o'i yſmaldod a'i gyfeiliorni ei hun wrth lawer o'i gwyddorion hi. Hawdd iti ddirnad fod digon o bobl yn ei amſer ef yn canfod ei hudoliaeth ef, ac yn gofyn iddo am ryſeddodau i beri iddynt goelio ei brophwydoliaeth ef, ac nas gallai ddangos yr vn: ac nad arferai ef foddion eraill onid tennyn a chelanedd i gau ſafnau y rhai a ymddadleuent yn erbyn ei ffordd ef. A bod ei anlladrwydd a'i chwant i'r yſpail, ac i waed, yn arwyddion hynod o ddull ei yſpryd ef.

PEN. XII.

Helynt y ffydd Griſtianogol hyd y pedwerydd cant ar ddêg o oed Chriſt, a chwedi.

YNghylch yr amſeroedd hynny hefyd y daeth y gwaſanaethiadin, letaniau, ac amryw ddychy-

ddychymedig ddefodau mewn Cymeriad yn yr Eglwyfydd, er lleihâd i rinwedd, a phurdeb crefydd. Fel hyn drwy 'r *Alcoran* a'r offeren y mae bwgwth Duw yn dechreu Cymeryd gafael ar y byd, ſef *nerthol weithredïad cyfeiliorni am angharu'r gwirionedd.* Tybiff rhai mai âr amſer hwn y Cuttuna *rhifedi enw'r bwyſtfil.* gan benodi ei ddechreuad ef. Etto ni adawodd Duw mo'i etholedigion yn y monachlogydd, a'r eglwyſydd, o ba rai bu *Beda yn enwog* ymhlith y Saeſon, ac a gyfeithiodd beth o'r ylcrythur yn Saeſonaec. A gadawodd llawer o foneddigion a chyffredin eu hachoſion bydol, ac ymroddaſant i ſuchedd gaethach yn y monachlogydd, gan ymprydio a gweddio yn aml; ond Cam-arferwyd hynny mewn amſer i gynnal llygredigaeth oſergoelus. Canys gorchymmynodd y *Pâb* oſod i ſynu ac addoli lluniau'r grôg a'r Seinctiau, ac eſcymunodd *Leo Iſaurus yr ymerodr,* am geiſio o hono wahardd addoli 'r delwau mudion, ac attaliodd yr Ital rhag ufuddhau iddo ef. Cymmellodd y *Pâb* hefyd arfer offeren *Gregorie* ymhob Eglwys, fal y byddei yr un ffurf waſanaeth ymhob man, a choronodd ef *Carolus magnus brenin ffraine* yn ymerodr y gorllewyn, er mwyn cael ganddo ef ei hyfforddi ef yn y pethau hyn. Ac ymhen talm o ddyddiau chwanegwyd defodau newyddion ac yr offeren, ſef gweddiau dros y meirw, a gwyliau calan gaiaf, a lluddwyd priodas ir offeiriaid, gan roddi iddynt lawer o freintiau awdurdodol yn lle priodas. Y pryd hyn y bu cyſtudd trwm ar y Saeſon; daeth gwyr *Denmarc* i mewn i Loegr, ac a laddaſant y Saeſon yn llidiog, heb arbed na Phethau Cyffredin,

2 *Theſ.* 2. 10, 11.

Dan. 13. 11.

729.

Oed Cri. 854.

na Phethau Cyſſegredig, canys Paganiaid oeddent. A *Pharhâodd* y diſrod anhrugarog hwnw yn hwy na dau cant o flynyddoedd. A chyn dyfod yr eſtroniaid hyn am eu pennau, ni pheidieu'r Saeſon a llâdd eu gilidd, canys yn faith brenhinieth y rhannaſent Loegr, yr hyn y barodd ymryſſon yn eu myſc, felly dialodd Duw waed y *Brittaniaid* arnynt; a gallent ddywedyd
Barn. 1.7. fel *Adonibezec, megis y gwnaethom felly y talodd Duw ini*, er iddynt dderbyn yr eſengil; fel y
2 *Sam.*12, 9, 10. Cymmerth *Dafydd* edifeirwch am lâdd *Urias*, *etto nid ymadawoddy cleddyf ai dŷ ef, dros hir amſer.* Cafodd *Alured*, er ei fod yn frenin duwiol, ei ran o'r gorthrymderau hyn. Hwn y Seiliodd yſcolion yn Rhydychen i hyfforddi gwybodaeth ymmyſc y Saeſon, ni byddei efun amſer heb ran o'r Scrythur yn ei gylch: a dymunodd ar Dduw anfon rhyw ddolur arno ef iw gadw oddiwrth anlladrwydd, a chynorthwyodd Duw ef yn ei flinderau. Er hynny mewn amſer daeth *Canutus* o Lychlyn i fod yn frenin ar Loegr, ac wrth weled fal y trawſei Duw ei dâd ef *Swanus* am ei greulondeb yn llâdd rhai crefyddol, ofnodd ac adeiladodd fonachlog; a phan oedd gwenheithwyr yn mawrhâu ei awdurdod ef, eiſteddodd ar y traeth yn ymyl y môr, ac archodd ir llanw beidio a dyfod atto ef: ond pryd nad ufuddhae iw orchymmyn ef, ceryddodd ei wenheithwyr, ac a ymddaroſtyngodd o flaen Duw, ac a gyſaddefodd mae Duw oedd frenin,
Oed. Cr. a bod pob peth dan ei lywodraeth ef.

990. Cyn dyfod y blinder echryſlon ar Loegr oddiwrth *Denmarc*, gwelwyd Cwmwl drwy 'r deyrnas, ai hanner o dân, a'r hanner arall o waed;

a

a glawiodd gwaed yn ymyl *Eborac*: wedi marw *Canutus cafodd Edward y Cyffesswr* y trenhiniaeth, yr hwn oedd wr Duwiol: ac wedi ei farw ef, daeth y *Normaniaid i Loegr*, ac ynnillasant y deirnas drwy vn frwydr, ac a freistrolasant y saeson yn drahaus, a rheolodd *William y Cwscwerwr* arnynt. Y flwyddyn o'r blaen gwelwyd seren gynffonog ofnadwy uwch-ben lloegr dros saith niwrnod. 1043. 1066.

Yn yr oes hon y tynnodd Anghrist y mwgwd oddiar ei wyneb; gan ymddangos ir byd, y Twrc yn rheibus yn y dwyrain, a'r *Pab Hildebrandus* yn y Gorllewin, yr hwn oedd yn ymddercháfu uwchlaw brenhinoedd y ddaiar: ac o'r amser yma allan, a thalm o'r blaen, drwy gleddyf, a gwenwyn, yr ymgodeu yr Pabau yn o-fynech: weithiau byddeu dau, weithiau tri o honynt yn ymdynnu am y goruchafieth A chan iddynt ymroddi i ddilyn cyngor y drwg, cyd-ffurfiasant addoliad Eglwysig yn y modd tebyccaf i ddiffodd purdeb ffydd yn enw crefydd; drwy attal oddiwrth bobl air Duw, ac yspryd deallus mewn gweddi, ac yn lle hynny adrodd geiriau ladin ar dâfc heb ddirnad, na theimlad. Ynghylch hyn y dechreuwyd cadw digwyl y meirw, yr hwn a ordeinwyd o herwydd breuddwyd *Abbad Cluniac*, yr hwn y welodd drwy hûn eneidiau 'r meirwon yr cael bûdd oddiwrth ei offerenau ef. *Trâ yr ydoedd y gweision yn cyscu, yr havodd Satan yr Efrau.* Rhoddes *Berengarius* gynnyg ar argyhoeddi ofergoelion yr oes hon, a gorthrymmwyd ef. Ond drylliodd mellt a tharanau amryw o'r delwau yn eglwysydd lloegr. A bu anfodlonrwydd cyffredin am orfod o'r offeiriadaid 1074. *Matth.* 13.

Oed. Cri. iriadau adel eu lleodd, neu wrthod eu gwragedd
1092. drwy orchymyn y Pâb: a phan appeliodd escob gorthrymmedig at Grist, rhoddes rybudd ir swyddogion pabaidd iw gysarfod ef. Ymhen ychydig bu ef farw, ac mewn modd erchill cyrchodd angeu nhwythau ar unwaith. A gwelwyd
1110. rhyfeddodau lawer; Sychodd yr afonydd, crynodd y ddaiar, berwodd ffynnon o waed yn lloegr dair wythnos. Ymddangosodd dwy leuad, a seren gynffonnog, a megis aneirif Sêr yn syrthio, a'r wybren ar dân oll. Wedi hynny gwelwyd tri haul, a thair lleuad, a chroes gôch ar draws
1158. yganol. Tystiolaethodd amryw wyr duwiol a dyscedig yn erbyn llygredigaeth yr amser hwn, a merthyrwyd hwynt. Ie er ir *Ymerodr Ffredericus Barbarossa* gyhoeddi beiau'r Pâb, etto gorfu iddo ymostwng iddo ef; a rhoddes y *Pâb* ei droed ar ei wddf ef, gan gamarfer geiriau'r Psal-
Psal. 91. 13. mydd *y llew a'r ddraig a sethri*. Yr un yspryd
1164. baichder a yrrodd y ddau Arch-escob faesnig mewn cymansa eglwysig i ymwthio cymmaint
1177. am yr eisteddle uchaf. A chra yr oedd y *Pharisead* yn anrhydeddu Duw yn ofer a thraddodidau dynol, Cysodod Duw bobl iddo ei hun iw *addoli mewn yspryd a gwirioneedd*; Sef yr *Albingenses yn Tholouse, a Croatia, a Dalmatia: A'r Waldenses yn Lugdunum offrainc*, y rhai a alwyd fal hyn. Tra yr oedd *Waldez* dinasydd goludog, ac eraill yn cyd-ymddiddan, ac i un oi cymdeithas Syrthio yn farw yn y lle, trawodd y fath ddychryn ynddo ef, ac y barodd iddo ymroi i wellhâu ei fuchedd: dechreuodd rannu llawer oi dda ir tlodion, a thwilio'r ysgrythyrau, canys llythyrennog oedd ef, a chynghori ei deulu ai gymmy-

gymmydogion i edifarhâu; a chyfleithodd rannau o'r yſcrythur lân ir rhai y welei ef yn ewyllyſcar iw dilyn: ac aeth y gronyn hâd mwſtard yn bren aml ei ganghennau. Am hynny cyſtuddwyd ef a'i ddilynwyr gan yr eglwyſwyr pabaidd, a chwalwyd hwynt, rhai i *Bohemia*, eraill i *Lombardy*, eraill hyd *taleithiau Ffrainc*, ac amlhâſent wrth eu gwaſcaru fal yr ŷd wrth ei hau. Eu athrawiaeth oedd. *Na ddylid ollwn dim ir gresydd, ond ſy guttunol a'r Scrythyrau. Nad oes yr un Cyſrynawr heb law Criſt, ac na ddylid gweddio at ſeinctiau, na thros y marw, na ddylid addoli mor cymmun, na lluniau, na themlau; mae Anghriſt oedd y Pâb y pryd hynny, ac am hynny y dylid gadel ymmaith ei ddefodau ef mewn bwydydd, ac amſeroedd.* Eu buchedd oedd gweddio yn hîr, yn wreſog, yn fynych ymmyſc eu gilidd. Nid arferent un ffurf weddi, ond gweddi'r Arglwydd yn unic. Cyn Cymeryd eu bwyd gweddient ar i Dduw ei fendithio ef, fel y torthau yn yr anialwch. Athrawiaethent eu gilidd yn boenus. Nofieu un o honynt liw nôs dros afon amſer gaiaf i hyfforddi cymmydog yngrâs Duw; byddei'r Scrythur ganddynt ar eu tafod leferydd, ie gan y bobl wledig; dioddefent eu lâdd am eu ffydd yn gyſſurus.

Yn fynych byddei Duw yn eu gwaredu hwynt a'u brodyr yn rhyſeddol, megis yn *Tholouſe* lle y lleihâodd cornwyd y fyddyn Babaidd oedd yn gwarchâu arni: ond wedi hynny rhoddodd y ddinas honno genad i eſcobion coelgreſyddol i ddyfod i mewn i ymgommio ynghylch eu ffydd, y rhai fel bradwyr y ddygaſant filwyr gyda'u Cyttiau i ddywallt gwaed gwirion. *Oed. Cri.* 1220.

1237. Mae eglwys y Groegiaid yn ymadel ag eglwys Rufain, eiſieu cael gan y Pâb ddiwygio'r pechau oedd ſeius. Yr hwn oedd yn pwyſo yn drwm ar Loegr heſyd, ac yn tynnu ei thryſſor atto ei hun am ollyngdod ir eneidiau, ac wrth amryw

1245. droſeydd eraill, onid oedd y penaethiaid yn achwyn arno wrth gymanfâodd Cyffredin. Blin echryſlon heſyd oedd helynt Criſtnogion y dwyrain yn *Aſia*, *Syria*, a'r gwledydd oddiamgylch, o herwydd y *Twrciaid*; y rhai er nad oeddent ar y cyntaf ond byddyn ſechan y ddaethei o *Scythia* i gynorthwyo *Perſia* am gyflog, etto wedi Syrthio allan a'r *Perſiaid* gorchtugaſant eu teyrnas hwynt, ac eraill o'u hamgylch, a derbyniaſant goelgreſydd *Mahomet*, oedd yn y gwledydd hynny o'r blaen. Ac er i dywyſogion y gorllewin ſet *Godfrey o Builon*, ac eraill, arwein byddinoedd Cedyrn yn eu herbyn, ac ynnill *Jeruſalem* oddi arnynt, a llâdd o honynt lawer cant o filoedd, etto tyſei anghydſod rhwng y tywyſogion a'u gilidd, neu rhwng yr ymerodr a'r Pâb ynghylch arglwyddieth, y roddei achlyſſur i'r *Turciaid* i ynnill eu colled gyda'g elw. Ie Cenfigennodd *Ymerodr Conſtantinopl a'r* Groegiad wrth y byddinoedd Ladingaidd, a chymmyſcent galch gyda'r blawd y werthent iddynt, iw gwenwyno. Er bod y Criſtnogion oſergoelus (y rhai oeddent yn erlid purdeb crefydd yn eu gwladwyr eu hunain) yn anllwyddianus yn eu rhyſel â'r Twrc, etto daeth *Tamerlan Ymerodr Tartaria* a byddyn yn ei erbyn ef, ac ai gorchſygodd ef; gan gau ar *Bajazet* (y *Twrc pennaf a chreulonaf yn ei amſer*) mewn grât haiarn fel llew iw her-ddangos: ac er mwyn coſpi ei falchder

ef,

ef, sangei ar ei gesn ef wrth syned ar ei farch. Ar y daith hon dûg y Cwncwerer hwn lawer o deyrnasoedd dano, a bu dirion wrth y Cristnogion. Pan oedd *Bajazet* yn myned rua'r frwydr hon mewn gofal a galar, (canys clywsei ddarsod i *Tamerlan* ynnill *Sebastia* oddiar eu wŷr ef, a llâdd ei fab ef *Orthobules*) aeth heibio i fugail ydoedd yn canu pibau dan areilio ei braidd, gan ochneidio, a dywedyd, *dedwydd wyti nad oes geniti na Sebastia nag Orthobules iw golli.* Yr hyn sy'n dangos, mae gwell yw Cyflwr y rhai Sy'n bodloni ar ychydig, na' rhai Sy'n meddu llawer.

Yn y gorllewin rhydd Duw fwyfwy o oleusyneg am lygredigaeth yr eglwyswyr; ac mae rhai yn cael deall yn llyfr y Datcuddiad, ac yn profi mae Anghrist ydoedd y Pâb; ac yn prophwydo y cosodei Duw weinidogion tlodion i bregethu'r efengil, ac i borthi praidd Crist yn dduwiol: Ac yn dangos fel yr oedd rhagrithwyr ofergoelus, *yn addurno escyrn y Sainct Meirwon, ac yn penydio y rhai byw am wirionedd en ffydd. A'u bod yn fflangellu delwau bywiol Duw, sef ei bobl, er iddynt addoli delwau mudion.* A'u bod yn porthi, neu yn hytrach yn siomi desaid Crist â phorfa súr, ac afiachus, sef dychymygion dynol, ac yn cau yn fanwl rhag iddynt gael blâs ar dîr Duw, sef y scrythyrau. Rhagsynegodd rhai Sanctaidd *y Cysodoi Duw rai yn yspryd* Elias *i adferu purdeb crefydd,* er ei bod y pryd hynny dan gwmwl. Ac ymhen ychydig annogodd yspryd yr Arglwydd *Joan Wiccliffe athro'r Gadair yn Rhydychen* i oleuo Llogr. Yr hwn wedi ei erlid gan yr escobion, a bregethodd yn droednoeth, gan dynnu llawer oddiwrth eulynaddoliad

Oed. Cr. 1324.

ddoliad pabaidd, i chwilio'r Scrythyrau, ac iw dilyn. Arferei ef, a llawer o'i frodyr bregethu yn yr heolydd ar ddyddiau marchnad, pan lyswyd yr Eglwysydd iddynt. A phan oedd Cymansa yn *Llundain* yn myned ynghylch holi *Wiccliffe* ai lyfrau, digwyddodd yn yr awr honno ddaiargryn mawr, a ddychrynodd y *preladiaid*. Amlhâodd dyscyblion i Grist yn ddirfawr drwy bregethau, a llyfrau yr efengylwr daionus hwn, ai gydweithwyr, er gwaetha'r rheolwyr oeddent yn ceisio eu rhwystro: ac wedi ei farw ef ai ben ar y gobenydd (canys cawsei ddiogelwch drwy hyfforddiad rhai o'r penaethiaid) yscrifennodd yscolheigion Rhydychen dystiolaeth ir hollfyd oi burdeb ai Sancteiddrwydd ef.

Oed. Cr. 1371.

Je yn *Bohemia* cysododd *John Husse*, ac yscolheigion enwog yn *Prague* i siccrhâu ei athrawieth ef, gan brofi *fod Duw yn anfon y pregethwyr oeddent yn dal allan burdeb yr efengil, er bod y Pâb ai escobion yn eu gommedd, a bod eu cariad tu ag at Dduw ai bobl, au Sancteiddrwydd, au diodde (garwch, yn arwyddion disiomedig ou galwad; canys wrth gariad yr adwaenir dyscyblion Crist*. Ac er i lawer geryddu *Husse* (fel y gwnawd a *Bartimaeus*) i geisio ganddo dewi, etto llefodd yn fwy o lawer yn erbyn eulynaddoliad yr amser, a dangosodd y fath Anghenfil ydoedd yr Anghrist, gan fod tri phen, sef tri Phâb ar unwaith yn ymdrechu am y llaw vchaf; y gwahaniad hwnw y lèdodd iddo ef ddrws ymadrodd. Er diwedd anfonodd yr ymerodr am dano ef i *Gymansa Constance*, lle y caeth garcharwyd ef mewn heirn, er iddo o'r blaen gael addewid yr ymerodr a'r Pab penaf, (y rhai oeddent yno yn bresenol)

y

y gallei ef syned a dysod yn ddiogel ddirwystr. A phan welsant nas gellid moi ddenu ef at Babyddieth, blingasant ei goryn ef, (er tynnu ymmaeth yr olew Cyssegredig meddent, ar hwn yr enneiniasid ef wrth dderbyn urddau) a gwiscasant am ei ben ef gap â lluniau Cythreuliaid wedi eu peintio arno, a lloscasant ef yn vlw; a thaerasant na ddylid cwplau addewid i *Heretic.* Ond tra yr oedd ef wrth y stangc yr oedd ei gynghorion ef mor fuddiol, ai weddiau ef mor nerthol, onid oedd y bobl yn cydnabod iddo farw yn rasol. *Oed. Cr.* 1415.

O Garchar yscrifenodd at ei wladwyr iw cadarnhâu yn y ffydd, gan ddywedyd *iddo gael datcuddiad y galwei'r Arglwydd bobl rasol iddo ei hun, ac o'r rheini y Cyfoden weinidogion i adferu grym duwioldeb. Ac os llosceu 'r Papistiaid ei lyfrau ef, fel y gwnaeth yr Juddow â phrophwydolieth Jeremi, etto gosodid allan yr athrawieth eilwaith yn helaethach.* Jer. 36. 23

Ar ol Husse Canlynodd *Jerome, ei gyfaill anwyl, ac athro dyscedig* o'r un ddinas. Yr hwn pan aeth i *Constance* o honaw ei hun i ymweled ai *frawd Husse*, (sal y Cynorthwya 'r naill aelod y llall mewn anghyflwr) Carcharwyd ef yno yn gaeth-filain dros agos i flwyddyn; ac er iddo lithro unwaith, etto yr eilwaith yr ymddangosodd o flaen y gymansa, argyhoeddodd hwynt yn llym am waed *Husse*, a phrofessodd y wir grefydd yn nerthol, a daliodd hi hyd farw: am hynny lloscwyd ef wrth stangc cerfiedig ar lûn *Husse* er ychwanegu ei alar. dywedodd y ddau ferthyr hyn wrth y *Papistiaid, y caent atteb i Dduw, ac iddyut hwythau am eu gwaed ymhen y can mlynedd,*

nedd. Ond darfu ir tân y laddodd 'yr athrawon fywhâu'r dyscyblion yn *Bohemia,* lle 'r ymnerthasant i ddiffyn eu crefydd, au bywyd; ac er ir *Pâb* a'r *ymerodr* anfon llûoedd mawrion iw difetha hwynt, etto gorchfugasant y *Papistiaid* mewn un brwydr ar ddêg cyn marw *Zisca eu Capten*, a hynny mewn modd rhyfeddol: canys ychydig nifer oeddent mewn Cyffelybieth iw gelynion; a thrawei'r fath ofn yn y *Papistiaid*, oni ffoent Cyn ymladd weithiau. Ac wedi'r gwarediadau rhyfeddol hynny, mewn amser tyfodd gwahaniadau rhwng y penaethiaid, a thrwy frâd rhoddwyd y deyrnas ir *ymerodr*; yr hwn ai Cymerth yn fwynaidd, ac a orchymmynodd ir hên filwyr ymgasclu i fewn yscuboriau er mwyn derbyn eu Cyflog yn heddychol, a Phan gafodd hwynt ynghyd, parodd losci'r yscuboriau, a nhwythau yrddynt.

Yn Lloegr y Paratowyd yr un ymdrin ir ffyddloniaid gan eu llyfenwi yn *Lolards*, (fel *lolium* art) hynny yw efrau: ac am hynny Ceisiwyd eu chwynnu, a'u llosci, a rhwystro eu cyfarfodydd. Er gosod petisiwnau ar ddryssau'r *Parliament* am ddiwygiad gresyddol, etto ni cheid hynny drwy awdurdod ddynol yn yr oes honno; eithr rhoddwyd i farwolaeth y rhai ni addolent y groes, a'r bara yn y Cymmun, a gosodwyd Cyfreithiau caeth i chwilio am bob dyn, a phob llyfr iw difetha, a'r y ddalieu allan y wir athrawieth: er hynny chwanegeu rhyfedi y rhai duwiol; er fyrthio rhai, cyfoden eraill. Ond lleihâodd y *Papistiaid* beth, canys lladdwyd o bonynt ddau cantro filoedd yn y rhyfel y fu rhwng dau *Bâb* oeddent yn ymryssion ai gilidd dros

naw

naw mlynedd a'r hugain. Gwnaeth *Arglwydd Cobham* ei ran yn pledio gyda'r wir grefydd hyd farw, tyftiolaethodd iddo gael grâs i ofni Duw, er pan dderbyniafei et athrawiaeth *Wiccliffe*, ai fod o'r blaen yn byw mewn amryw bechodau ynghymdeithas y *Papiftiaid*. Pan alwent arno i addoli 'r groes, eftynnei allan ei freichiau, gan ddywedyd, *Dyma groes o wneuthuriad Duw.* (gan feddwl ei gorph tra'r oedd ei freichiau ar lêd) *ac etto nid addolwch, onid erlidwch fi, anrhefymol ynteu addoli croes o waith dyn.*

Merthyrwyd un ar bymtheg ar hugain ar unwaith, ac ymhen y mîs trawodd Duw dafod *Arundel Arch-efcob Caergaint*, fel nad allei na llyncu, na lleferu amryw ddyddiau cyn ei farw. A chydnabyddodd llawer yr amfer hwnw, gymhwyfed oedd barn Duw yn erbyn yr hwn oedd mor fywiog yn Ceifio gofiegu gwir bregethwyr yr efengil. Yn yr oes hon y gorchym- *Oed. Cr.* ynwyd dau wŷl i Fair. 1439.

Ond y mae Duw yn dychwelyd at y bŷd â mawr drugaredd, ac yn rhoddi dawn i ddyn y 1450 brifiodd yn hyfforddiant mawr ir efengil, fef celfyddyd preintio; mynnei 'r yfcrythyr i ddynol *Ifa.* 28.24. ryw gydnabod mae o'r nêf y mae cyfarwyddyd yn dyfod i drîn y ddaiar, fel y caffo dyn lunieth Corphorol: ynteu llwyr y dylid fendithio Duw am y modd hwn i amlhâu llunieth yfprydol, ynghylch mor fuddiol a dawn y tafodau yn amfer yr Apoftolion.

Cyn y pryd hyn yr oedd yr Scrythyrau a llyfrau da eraill yn anaml, ac yn ddrudion, o herwydd meithder eu yfcrifennu. Profwyd ar lŵ yn erbyn proffeflwr mewn llŷs pabaidd *yn y flwyddyn* 1429.

1429 iddo roddi un ſwllt ar bumtheg ar hugain am y teſtament newydd yn *Llundain*: tebygol yCoſtiaſei'r biblCytany tri chymaint,am yr hyn ſwm y galleſid purcaſu hawl i gryn dyſyn o dîr yn yr oes honno. Ond yn ein dyddiau ni aml a rhâd yw llyfrau da,ac yſcolion iw dyſcu; am hynny hawſach cael gwybodaeth o air Duw, yr hyn ſydd yn ddyrnod pen i bob *Anghriſt*:am fod anwybodaeth yn Cadarnhâu Cyſeiliorni,ſel y mae oerni yn caledu 'r pŷg, a goleuni ai gyrr i gilio, ſel y gwna 'r tân ir plwm ymoilwn.

Yſtyr rhaglunieth Duw, pan oedd yr *Eglwys* yn amlhâu ac yn dyſod o'r *Aipht*, y rhoddes ef ei ewyllys yn gyntaf yn yſcrifennedig,a phan oedd ar amlhâu a gwaredu ei bobl oddiwrth Babyddieth,caniadodd ei yſcrythyrau yn breintiedig gyntaf.

PEN. XIII.

Llwyddiant y Twrciaid, ymdrech Proteſtaniaid a. Phapiſtiaid.

YN y ſtwyddyn o oedran *Chriſt* 1453. darfu ir *Turciaid* ynnill *Conſtantinopl.* prif ddinas ymerodraeth Griſtnogol y dwyrain dros un cant ar ddêg o flynyddoedd,Sef er amſer *ein gwladwr Conſtantinus*,yr hwn ai hadeiladodd hi. Gofidus ſyddei mynegu a chlywed doſted fu ei difrod. Goreſcynnodd y *Twrciaid Creulon* yn yr oes hon ddau cant o ddinaſoedd,a deuddeg o deirnaſoedd, a dwy ymerodraeth Griſtnogol, a hynny yn amſer un oi brenhinoedd: heb law y teirnaſoedd enwog y dreiſiaſant drwy fin arfau

gynt

gynt a chwedi. Yr achosion amlwg o lwyddiant yr Anghred hyn ydoedd lawer. *Sef,*

Oblegid ir Cristnogion ymlygru gan mwyaf, heb roddi iawn ymddiried yn Ghrist, ond dewisent *St George*, a *St Dennis*, a'r cyfryw yn ymddiffynwyr iddynt, gan adel *Jesu* heibio, heb yr hwn nis gallent ddim. Ac yr oeddent mor filain yn erbyn eu brodyr y ddilynent rym yr efengil, ac oedd y *Twrciaid* yn erbyn y rhai a broffessent ei ffurf hi; ie mor ambûr ydoedd buchedd y rhan fwyaf o'r Cristnogion, oni orsu i *Grist* ddangos barn arnynt er tystiolaethu yngwydd ei elynion mor anfodlon oedd ef i bechodau y rhai a ymhonnent oi enw ef, ac mor gâs oedd ganddo anwiredd; i hyn ystyriwn yr histori yma. Wedi ir *Twrc* wneuthur Cyngrair a *brenin Polonia, ac Hungaria*, a Symmud ei fyddinoedd ymmaeth oddiwrtho ef yn ddigon pell, gwelei'r *Pâb* y gallei'r brenin gael barr gwâg i ynnill peth oddiar y *Twrc*, os torrei ei ammod, ar hyn gwnaethpwyd rhuthr am ben y *Twrciaid*, a nhwy heb ddisgwil dim o'r fath beth: a phan oedd y *Twrciaid* yn y frwydr ar golli'r maes, tynnodd eu brenin hwynt oi fynwes yr ysgrifen, lle yr oedd ammodau'r Cyttundeb ar lawr, gan ddywedyd; *O Crist os wyti Dduw fel y dywedant, ac y tybiwn ninnau dy fod ti dial yr anffyddlondeb hwn ar y bobl sy'n proffessu dy enwdi, ond a'u gweithredodd yn dy wadu di.* Ar hyn aeth y *Twrc* yn drèch, er ei fod o'r blaen ar y gwaethaf. Amseroedd eraill pan aent ir frwydr dan gablu Crist, gorchfygid nhwythau; ond y naill amser gyda'r llall, caniadodd Duw iddynt fod yn fflangell lifeiriol iw bobl anufudd; odid ddinas

Joan. 15. 5

Sum ex Lib: Joh: Kent 1929

na

na thrêſ drwy *Aſia*, *Affrica*, *a rhan fawr o Europa*: lle ni wnæth yr anghred geirwon byn i waed y Criſtnogion ffrydio, a'r rhai y arbedei eu cleddyf, a werthid fel aniſeiliaid o farchnad i farchnad i dynnu yn lle ychen, neu i wneuthur rhyw galedi arall. Ac yn awr ni chaiff y Criſtnogion y ſydd dan drêth drom ymyſc y *Twrciaid*, mor ymgynnill ond yn ddirgel, na bod mewn ſwydd, na gwiſco arfau, na dillad chwaith o'r un ſut â hwynt; na gwrthwynebu un cabl-air yn erbyn *Criſt*: ac os dywedant ddim yn erbyn *Mahomet*, cânt eu lloſci. A'r peth truanaf o'r cwbl yw orfod iddynt ymadel a'u plant i ddwylo gelynion *Criſt* iw dwyn i ſynu megis mewn monachlogydd yn y gau grefydd, ac i ddyſcu traenio; fel pan dyfont, ac anghofio eu rhieni (canys ni chânt ſyth moi hadnabod mwy ar ôl eu tynnu oddiwrthynt) yr ymladdont yn ſedrus yn erbyn yr eſengil.

Cymer yr byſpyſrwydd a ganlyn ynghylch y modd y mae'r Turciaid yn trin yr Alcoran a'u crefydd yn yr oeſoedd diweddaf hyn.

Y mae ganddynt demlau eheng a choſtus, yn y rhai nid oes dim lluniau onid y geiriau hyn yn yſcrifennedig yn iaith Arabia, *Nid oes ond un Duw, a Mahomet yn brophwyd iddo. Un creawdwr a'r prophwydi yn gyd-radd. Nid oes gadarn fel yr Arglwydd.* Y mae eu hoffeiriaid i weddio ynddynt ynghŷd â'r bobl ſoneddigaidd bum waith beunydd. Ac wrth ddyſod iw gweddiau golchant eu dwylo a'u traed, a thanellant ddwfr ar eu pennau deirgwaith, gan ddywedyd *gogoniant i'n Duw*. Yna wedi tynnu eu hyſcidiau oddiam eu traed, a'u gadel wrth ddrws y ddeml, ant i

mewn

mewn, rhai yn droednoeth, eraill mewn escidiau glân 'âr rhai ni chyffyrddant y ddaiar mewn lle arall yn y bŷd. Wedi y darfyddo gan yr officiriad bregethu, caniff ef â'r bobl â llais isel dros hanner awr, heb ddywedyd dim ond y geiriau hyn *nid oes ond un* Duw.

Ymprydiant bum wythnos yn y flwyddyn. Yn y dyddiau hynny ni phrofant ddim nes gweled y sêr, ac yna bwyttânt bob rhyw fwyd, oddieithr y peth a dagwyd, a chig moch. Enwaedant eu plant yn faith neu wyth mlwydd oed, pan allont wneuthur cyffes. Priodant heb gynhyscaeth. Yn eu pebyll wrth fyned i gyscu, ac wrth gychwyn dranoeth llefant yn uchel gan ddywedyd *Duw* deirgwaith, sef *Allah, Allah, Allahu*. Y mae 'r Juddewon hefyd yn glynu yn ffurf crefydd yn rhyfeddol. Y maent yn yr oes hon yn wascaredig ar hyd y bŷd, ac yn prefwylio draw ac obry yn y rhan fwyaf o deyrnasoedd y dwyrain a'r gorllewin, ond heb ymuno â chenhedloedd eraill mewn addoliad, eithr ar eu pennau eu hunain yr addolant, ac â'u gilidd gan mwyaf yr ymgymdeithasant. Cadwant y Sabbath bob wythnos ddiwrnod o flaen y Christianogion. Enwaedant ar eu plânt fel gynt. Y mae ganddynt yr hên Destament Hebraeg yn yscrifennedig ar femrwn, a chadwant ef yn barchedig yn eu synagog, ac wrth ei gyrchu o'r fan lle y mae ynghadw at y darllenwr, sefiff yr holl gynnylleidfa ar eu traed, a chanant fawl i Dduw. Ac heb law hynny y mae ef gan lawer o honynt yn brintiedig, ac edrychant ynddo i galyn eu hathro pan fyddo ef yn darllein yn y memrwn. Tra fyddont yn addoli ni thynnant mo'u hettia'u, eithr bwriant orchgudd

teneu arnynt, a ſyrth i lawr dros beth o'u hwynebau, mewn coffadwriaeth (tebyg cennif) o'r gorchgudd a roes Moſes ar ei wyneb pan ydoedd yn diſcleirio, wedi iddo aros cyhyd yn y mynydd gydâ Duw i dderbyn y gyfraith. A'r arfer hwn a allai roddi achlyſur i'r Apoſtol i ddywedyd am danynt yn ei amſer ef, fod eu *meddylian hwynt* wedi eu *dallu*: canys (medd eſ) *hyd y dydd heddyw y mae'r vn gorchgudd wrth ddarllen yr hên deſtament yn aros heb ei ddatcuddio.* Diſgwiliant y Meſſias i ddyfod, a gobeithiant y caiff eu cenedl hwynt ddychwelyd i *wlâd Canaan etto.*

2 *Cor.* 3. 14.

1506. Yn Lloegr Lloſcwyd pobl dduwiol am ymwrthod â phabyddieth. Tra yr oeddent yn lloſci un o honynt yn Cheaping Sadberie, torrodd tarw baitiedig yn rhydd, ac a whyliodd y *Doctor Whitington* a gondemniaſei'r merthyr, gan luſco ei ymyſcaroedd ef hyd yr heol wrth ei gyrn, heb gwffwrdd â neb arall yn yr holl ymwaſc. Etto ni chymereu'r erlidwyr ddim rhybudd: eithr cipiaſant *John Browne* o'i dy, ac ni chaſodd ei wraig moi hanes ef, nes ei ddwyn ef iw loſci yn agos iw gartref: a thra'r oedd ef yn y cyffion yn aros ei ddihenydd, mynegodd iw wraig fal y darfuaſei ir *Eſcob* loſci ei draed ef hyd at yr eſcyrn, iw gymell ef i wadu ei ffydd: ac wedi dymuno arni hi, a'i blant barhâu yn ofn Duw, ymroddodd ir tân.

A *Thomas Man* a folianodd Dduw am ei wneuthur ef yn offer i droi ſaithgant at y ffydd, yr oedd ef yn marw droſti.

Yr oedd cynnulleidfâu mawrion o bobl dduwiol yn ymgyfarfod heb wybod ir *Eſcobion* yn amryw ſannau yn Lloegr; ond wrth gymmell y wraig i [dyſtiolaethu yn erbyn y gwr, a'r plant

yn

yn erbyn eu rhieni, a'r naill frawd yn erbyn y llall, catwyd yspysrwydd, pwy oeddent yn dysciu i eraill wersi o'r testament newydd, a'r credo, a'r dêg gorchymmyn, ac yn darllen neu yn gwrando yr scryth yrau saesonaec y nôs, a thartwyd hwynt tel y defaid gan y bleiddiaid.

Er nad oedd ond ymbell ddarn o'r yscrythyrau yn saesoneg a rheini yn wahanddedig drwy gyfraeth y deyrnas, ac heb fawr bobl lythreneg hyd y wlâd y sedreu eu darllen, etto rhyseddol amled oedd y rhai y gawsent rás wrth eu clywed mewn cornelau, *a gwelwyd gwendid Duw yn gryfach na dynion.* 1 Cor. 1. 25.

Ynghylch y dyddiau hyn y prophwydodd rhai duwiol y glanheid yr Eglwys oddiwrth ei llygredigaeth, ac yr ail flodeuei purdeb yr efengil, digwyddodd hefyd rai rhyseddodau. *Syrthiodd creesau gwaedlyd, a llun hoelion, a gwaiwffon ac yspwng ar wiscoedd pobl yn Germania. Traj yr oeddid yn Rhusain yn Cyssegru prif henuriaid, trawodd temestl angerddol yr Eglwys lle'r oeddent, oni syrthiodd yr agoriadau o law delw Peder.* Anghwanegodd dysceidieth, a phreintwyd llyfrau'r hên athrawon, drwy lasur *Erasmus* ac eraill. A chyfodod llawer o wyr duwiol dyscedig i chwilio 'r yscrythyrau yn yr ieithoedd hynny ymha rai yr yscrifenaseu'r *Prophwydi*, a'r *Apestelion* hwynt, *sef yr Hebræeg* ar *Groeg*, a chawsant ddwfr y bywyd yn loiwfach yn y ffynnonau nag yn llestri mŵs y *Pab.*

Scrifennodd *Luther*, *a Melancton*, *a Zwinglius*, a llawer eraill yn erbyn marsiandiaeth, ac eulynaddoliaeth y *Pâb*: *na thalen yr Pardynau ddim yn fonci ei i bob gwlâd iw gwerthwam arian*, *ond*

bod maddeuant Pechod drwy ffydd yn Ghrist, ac y dylid addoli yn ol ewyllis Duw, ac nid yn ol coel y Pab. Ar hyn casclodd *Ymerodr Germania* gymanfa fawr o holl lywodraethwyr ei wledydd i ddinas *Wormes*, lle yr anfonwyd am *Luther* i bledio ei achos. A phan amlygodd yr *Ymerodr* wrthwyneb i ddywgiad crefydd, ceisiodd ei gyfeillion gan *Luther* nad anturieu fyned ir ddinas: attebodd yntef, *Yr ai ef i mewn yn Enw'r* IESU, *er bod yno gymaint o gythreuliaid iw wrthwynebu ef, ag oedd o gerrig ar bennau yr tai.* A phan ddaeth ger bron, ymadroddodd yn galonnog ymhlaid yr

Gal. 2. efengil; gan yspysu iddynt, *Na adylid coelio angel o'r nef, gwaethach dynion ar y ddaiar, yn erbyn gair Duw.* A'r flwyddyn gwedi hyn yscrifennodd y Pâb at Benaethiaid *Germania* oeddent ynghyd

Oed. Cri. 1522. yn *Norenberg*, i ddymuno arnynt chwareu yr meddygon gofalus, a ferio Cancr *Luther* â thân, fal na thaneu ymmhellach. Ond attebasant iddo, fod ei reolaeth lygredig ef yn gerydd ir byd, am fod y gollyngdod y wertheu ef oddiwrth bechod, a'i benyd yn y byd hwn, a'r purdan, yn gwneuthur pobl yn annuwiol, gan hyderu y gallent gyflawni eu chwantau, ac achub eu heneidiau am ychydig arian; gan bennodi ynghylch cant o feiau anafus oedd yn cyd-ganlyn pabyddieth.

O hynny allan ymosodd y tywysogion i swcro'r pregethwyr, a'r bobl dduwiol i addoli Duw mewn purdeb yn gyhoeddus, ac nid yn unig mewn tyllau fel o'r blaen. Casodd gweinidogaeth *Zuinglius a Leo Juda* dycciant mâwr yngwladwrieth *Helvetia*, lle gorchymmynodd y Swyddogion losci yr delwau, a bwrw ymmaeth ddefodau llygredig, a phregethu gair Duw yn aml, ac yn

eglur

eglur, gan gyhoeddi eu bod yn dal fulw fel yr oedd yr offeiriaid Pabaidd yn arfer eu hofergoelion er mwyn elw, a derchafu'r Pab, a bod gweinidogion efangylaidd yn ceisio bûdd eneidiau, a derchafu *Crist*. ie ymmha ddinas bynnag, neu deyrnas y caseu pregethiad yr efengyl ychydig rydd-did, Syrthieu'r offeren a'r delwau i lawr yno, fel *Dagon* gynt o flaen yr Arch. Ac yn gymaint nad ellid disgwil amgenach, na chyfodei Ceidwad'y Carchar uffernol waedd ac erlid ar ol y Carcharorion aethent yn rhyddion oddiwrtho ef drwy ffydd yn-Ghrist, ymunodd *tywysogion Germania*, ac arglwyddi dinasoedd breiniol mewn protestasiwn, fel cyhoedd ddatcan eu meddwl i gyd-gynal dywigiad, ac am hynny y galwyd hwynt yn Brotestaniaid.

O hyn allan aeth y Papistiaid, megis *eirth wedi colli eu cenawon*, yn greulonach wrth y Protestaniaid y syddeu dan eu palfau hwynt: gan dynnu aelodau rhai a gefail, a chladdu eraill yn fyw, a llosci eraill yn vlw, a chrogi llawer. Ac er na ddiffoddeu eu gwaed hwynt mo boethder digofaint yr erlidwyr, etto troe llawer at râs Duw, wrth weled dioddefgarwch y merthyron diweddaraf megis y rhai cyntaf.

Encyd wedi torri pen *George Scherter* (y droesen lawer at *Grist* yn ei fywyd) ac ir corph farw yn nhŷb pawb, trôdd ar ei gefn, ac a roddes y troed deheu dros yr asswy, ac felly ei ddwylaw yn groes. Wrth weled hyn ofnodd pawb, a chredodd llawer iw athrawiaeth ef, canys addawsei iddynt arwydd oi fod ef yn marw dros *Grist*.

Yr oedd un ym mynydd *Peliers* yn bodloni ymwadu â ffydd y Protestaniaid, er mwyn cael

myned allan o garchar ; a chyttunodd y Papiſtiaid ir peth, ond iddo gymeryd hyn yn benyd arno, ſef edrych ar loſci un ai hên gymdeithion yn y ffydd, yr hyn y wnaeth ef : ac wrth weled mor gyſſurus yr oedd hwnw yn marw, gwrthododd wadu ei ffydd, eithr dewiſodd ddioddef drofti.

Er maint ſu blinder eraill, etto cafodd *Luther* farw ai ben ar y gobenydd yn heddychol, ar ol iddo dros naw mlynedd ar hugain bregethu yn ſuddiol, a gweddio yn nerthol, ac yſcrifennu yn orcheſtol, a chael gwarediadau rhyfeddol, a dilyn buchedd Sanctaidd. Pan fyddeu golud yn dyfod atto, ofnai yn ddirfawr rhag bod Duw yn cynyg ei wobr iddo yn y byd hwn, gan ddwedyd, *Na chaſei Duw fodloni mono ſelly.* Y diwrnod cyn ei farw ef yr oedd ymddiddan ar ei fwrdd ef ynghylch y Néf, a ydoedd y ſainct yn adnabod eu gilidd yno, A thra'r oedd ynteu yn eiſtedd yn egwan gyda hwynt iw bryd bwyd, adroddodd ei dŷb, mae *fel yr adnabu Adda Eſaym. Mharadwys er na welſei moni eiroed o'r blaen, ſelly y bydd cymdeithas y rhai perffaith yn y néf, er na welſent eu gilidd mewn cyrph goganeddus eiroed o'r blaen.*

Yn yr Hilpaen mae yr ymgais yn llâdd llawer o rai duwiol, dyſcedig, a boneddigaidd. Teiſi y Criſtiaid hyn y neb y ſynnont i garchar tywyll du, lle ni chaiff y Carcharor na darllen, nac yſcrifennu, ac os dywed y plentyn air dros ei dâd caeth, caiff yr un miniad ac yntef, am ddymuno yn dda i heretic. Dirdynnir yno, a llwythir a heirn yn greulon, ac yn ddirgel.

Ymmyſc eraill y ferthyrwyd yn yr *Ital*, nodedig ſu *dieddefgarwch Pomponius Algerius yſcolhaig o Padua* ; yr hwn pan garcharwyd ef am ei zêl i

bur

bur grefydd, yſcrifennodd at ei frodyr, *Iddo ef ſel Sampſon gael dîl mêl ymmol y llew, a pharadwys hyfryd yn y daiardy drewllyd, a llawenydd nefol yn yr ogof uffernol, a lle byddeu eraill yn crynu, ei fod ef yn ymhyfrydu a bod Crift mor fwyn a chadw cymdeithas ai weifion yn y carchar iſaf*, Seliodd efy ffydd ai waed yn Rhufain. Wedi hyn condemnwyd vn cant ar bumtheg yn *Calabria* gwlâd or *Ital*, lle y derbyniaſid yr eſengil yn ewyllyſcar; a thorrodd y *Papiſtiaid* wythi gwaed pedwar ugain o'r *Proteſtaniaid* yn yr un diwrnod a chyllell gigidd, gan eu llâdd ſel defaid ol yn ol: yr ydoedd y merthyron mor fodlon i farw, a'r dihennyddiwr mor waedlyd yn taro ei gyllell rhwng ei ddannedd, tra fyddei yn ymaflyd yn y naill ar ol y llall, onid oedd yr edrychwyr yn wylo gan erchylled oedd y golwg: etto ni orphwyſaſont nes diniſtrio dwy dref, a mil oi trigolion. 1560.

Yr un ffunyd y gwnawd yn *ffrainc â'r Waldeſiaid yn Merindol, a Cabriers*; y rhai a ddaliaſent burdeb yr eſengil yn dreſtadol er ys talm o flynyddoed, lle y lladwyd y gwyr a'r gwragedd, a'r plant, heb arbed neb; a chyflawnodd y *Papiſtiaid* yr un peth ac yr ydoedd yr *Apoſtol Jago* yn achwyn rhagddo, *Condemnaſant a lladdaſant y cyfiawn, ac ynteu heb ſeſyll iw herbyn.* Y cyfryw zêl waedlyd i Babyddieth y barodd i *Ddiwc Safoy*, erlid yr un bobl yn ei arglwyddieth yntef, Sef *Piedmont*, tan y mynydd *Mynen*, gan roſtio rhai o honynt wrth dân araf, a chaethiwo eraill mewn llongau, a gyrru eraill i lechu ir creigiau. *pen. 5. 6.*

Ynghylch hyn y bu *Calfin* yn bregethwr hynod yn *Geneſa*, yr hwn oedd yn ſtudio'r gyfraeth ar

y cyntaf, nes i Dduw ynnill ei galon ef at yr yscrythyrau, yr ydoedd ef yn un o'r pregethwyr puräf, a chyflawnaf o râs a dysceidieth, a'r y fu er amser yr Apostolion; daeth llawer o'r *Ital*, a'r *Hispaen*, *a lloegr* at ei weinidogaeth ef, o ran arogl y bywyd oedd ynddi: dûg lawer o boen, a chystudd yngwaith yr arglwydd. Er bod *Duwc Safoy* yn cenfigenu wrth ffyniant yr efengil yn y ddinas enwog hon, etto ymddiffynnodd Duw y ddinas ai eglwys yn ei erbyn ef. Ar ol *Calfin bu Beza* yn golofn yn eglwys *Gsnefa*, yr hwn oedd lawn o olud, â dysc, a goruchafieth: ac wedi ir Arglwydd ei ddarostwng ef drwy ddolur, ymrôdd i ogoneddu ei waredwr yngweinidogaeth yr efengil, gan wneuthur ammod â Duw yn ei gyfyngder yngeiriau'r Prophwyd, *dwg fy enaid allan o garchar fel*
Psal. 142. 7. *y molianwyf dy enw.*

Yn *Scotland* bu *Cnocs* yn *athro llwyddianus* i adferu gwir rasol ddysc; rhoddodd Duw iddo ddawn i ragfynegu Pethau, yn enwedig yn erbyn rhwystrwyr yr efengil. Annibennus fyddeu portreiadu llafur a lludded cymaint ac y gyfododd Duw i alw'r bŷd o dywyllwch i oleuni yn yr oes hon y tu hwnt ir môr; dyfal oeddent, a mentrus mewn dadlau cyhoeddus i gau safnau athrawon Pabyddieth: Diwyd yn Pregethu ac yn yscrifennu, addfwyn yn dioddef; nerthol mewn gweddiau; rhaid ini ddywedyd yngeiriau
Psal. 68. 31. *Dafydd, yr Arglwydd a roddes y gair, mawr oedd mintai y rhai ai pregethent.*

Yn *Lloegr* hefyd bu tystion ffyddlon i Dduw y pryd hyn, megis *Bilney*, yr hwn wrth glywed llawer yn dywedyd, *na chlywsent ericed sôn am adgyfodiad y Corph*, (canys ni ddeallent mo'r

credo-

credo Ladin) tosturiodd wrth ei wladwyr, a phregethodd ymhob man y cafei rydd-did yndo: ac yn y maeusydd, ac o dŷ i dŷ, nes ei losci ef am ei boen; efe drôdd *Latimer* at Dduw.

Hynod su gwaith grâs hefyd yn *James Bainham*, gwr o gyfraith, a mâb i farchog; yr hwn drwy gôsp y gymellwyd ai enau i wadu ffydd ei galon, ond cyn pen y mîs wedi iddo gael rhydd-did ei gorph, yr oedd ei gydwybod ef yn gaeth, nes iddo fyned at gynulleidfa ddirgel o'r bobl dduwiol, a chydnabod eu gwymp yn edifarus: aeth hefyd ir eglwys blwyf ar y Sabboth, a'r testament newydd Saesonaeg yn ei law, a mynegodd ir holl bobl dan wylo dagrau heilltion, fel y darfuasau iddo ef wadu Duw, a dymunodd arnynt faddeu iddo ef: gan eu cynghori i ochelyd dicter Duw, a'u galw hwynt yn dyftion, ei fod ef yn dychwelyd at y gwirionedd eilwaith, yr hyn a scrifennodd ef at yr Escob hefyd. Am hyn carcharwyd ef yn fileiniach nag o'r blaen; gan ei gadw yn y cyffion a heirn ar ei draed bumthegnôs ynglôdy yr Escob, ai fflangellu yn fynych, ac er diwedd llosca fant ef wrth Stanc. A thra yr oedd ef yn tân ai aelodau wedi banner llosci, dywedodd wrth y Papistiaid *Yr ydych yn gofyn am ryfeddodau gennym, gwelwch yma yn awr ryfeddod, Canys nid wyfi yn teimlo mwy o boen y tân hwn, na Phe bydawn ar wely mân-blu, neu un o bêr-lysiau.* *Oed. Cri.* 1532.

Ar ol hwn canlynodd *John Frith*, yr hwn y scrifennodd mor fuddiol o'r Carchar; ac y ficcrhâodd ymadrodd yr *Apostol, na rwymir gair Duw*; canys derbyniodd *Cranmer* ac eraill adeiladaeth oddiwrth ei waith ef.

Ynghylch hyn y collodd y Pâb ei awdurdod yn

Lloegr

Lloegr, ſel na chydnabyddid ef yn ben ir Eglwys, ac am hynny na roddid un tammed brâs iddo ef mwy. Ac y bu *Tyndal* gwr o gyffiniau Cymru yn hyfforddiant mawr i wir wybodaeth, canys cyfieithodd a phreintioddyr ſcrythyrau yn ſaeſonaeg, ac anfonodd hwynt iw tanu yn Lloegr, a llyfrau buddiol eraill; a thycciaſant er iechydwrieth i laweroedd yn yr oes honno: ar hyn cyffrôdd y rhai oedd yn caru tywyllwch, ſal *Ieruſalem* wrth eni Criſt, ac ni orphwyſaſant nes cael ei loſci ef ai lyfrau; tra yr oedd yn diſgwil ei ddiwedd, efe a drôdd geidwad y Carchar ai dylwyth i ofni Duw. Pan wahoddodd ei wladwyr Mr *Tyndal* i edrych ar gonſurwr y ſyddeu arfer o wneuthur pethau rhyfeddol, drwy ei ffydd attaliodd ef nerth gythreulig yr hudol; yr hwn wedi chwyſu yn ſwyno, ac heb allu gwneuthur dim oi gynefin gaſtiau, a gyfaddefodd ſod rhyw un yn y ſtafell yn diddymmu ei ſcil ef. Er bod y *Brenin Harry* 8 yn bwrw i lawr awdurdod y *Pâb*, etto nid ymwrthododdai athrawieth ef; am hynny dygpwyd *Lambert* cydweithiwr *Tyndal* yn yr eſengil, i bledio ar gyhoedd â dêg o'r eſcobion oi yn-ol o flaen y brenin; yr hyn y wnaeth ef yn
Oed Cri. orcheſtol, canys yr oedd Duw wedi ei gynyſca-
1538. eddu ef â Zêl, ac â dyſceidieth ragorol: Ac am ei dyſtiolaeth lloſcwyd ef yn Llundain. A phan oedd ei holl gorph ef yn ffaglu, cododd ei ddwylaw i fynu, ai fuſedd yn goleuo fol Canhwyllau, gan leſain wrth y bobl, *Neb ond Criſt, neb ond Criſt.*

Ar ol hyn lloſcwyd llawer o'r bobl dduwiol yn Lloegr, a thorwyd pen *Arglwydd Cromwell*, yr hwn ydoedd ir ffyddloniaid fel *Obadiah ynhŷ Ahab*. Ymmyſc eraill hynod ſu ffydd lleſtr gwan *ſef*

Anne

Anne Aſcew, gwraig ſonheddig; yr hon y ddangoſodd iw herlidwyr, ſal yr oeddent yn gwrthwynebu'r yſpryd Glân. Hwy ai racciâſant hi yn greulon, oni thynnaſant agos ei holl gymalau a'i heſcyrn oddiwrth eu gilidd, eiſieu caffael genddi wadu ei ffydd, neu ochain dan ei phoen. Ac er ei bod hi o dylwyth ardderchog, a chynnig iddi bethau mawrion am droi yn *Bapiſties*, etto gwrthododd y cyfan, ac ymroddodd i ddiweddu ſei ddyddiau yn tân er tyſtiolaeth yr Eſengil. *Oed. Cr.* 1546.

Gwelwyd yr un dewrder mewn gwraig raſol yn *Scotland*, yr hon y ſarnwyd yn hetetic, eiſieu iddi alw ar Fair, gyda'g ar Griſt, pan fyddeu hi mewn gwewyr eſcor; a phan oedd hi yn cymeryd ei chenad ai gwr (yr hwn oedd heſyd i gymeryd ei ſarwolaeth gyda hi am ei ffydd) annogodd eſi lawenychu, ac eb hi, *Ni ddywedaf nôs da i chwi, canys yn ebrwydd ymgyfarfyddwn ynheirnas nêf.*

Yn y flwyddyn 1547. gwelodd Duw yn dda roddi ynghalon y *brenin Edward 6* ai gynghorwyr ſerch ir wir ffydd, a gallu yn eu dwylaw iw hyfforddi. Ac er nad oedd y *Brenin* ond bachgen, etto fel *Joſiah brenin daionus Jeruſalem*, parodd ymofyn â gair Duw, ac ufuddhâu iddo; ie arſerodd *Duwc Somerſet*, y pennaſo Arglwyddi'r cyngor, ei holl egni mewn zêl raſol i ſwrw eulynaddoliaeth i lawr. A thrwy Act o Barliament diddymwyd y Cyfreithiau caeth gwaedlyd y wneuthid o amſer i amſer i orthrymmu grym yr eſengyl. Ond cododd ynghylch dengmîl o wŷr Cerniu *a Deſonſire* yn arſog i wrthwynebu diwygiad y ffydd, gan geiſio 'r gyfraeth gaeth yn ei herbyn i ſod eilwaith mewn grym, a'r offeren

Lladin;

Lladin; i hyn attebodd y *brenin, Nad oedd achos i ddeiliaid gwyno rhagddo ef, am iddo yſcrifennu cyfreithau a llaeth yn lle gwaed, ac nad oedd y llyfr gwaſanaeth ond yr un yn ſaeſonaeg, ac oedd o'r blaen yn Lladin, er ei fod beth yn llai o herwydd gadel allan o hono ef rai pethau anweddaidd oedd yn yr offeren Lladin, a bod yn well iddynt glywed y gweddiau yn yr iaith y ddeallent.* A chan na roddent le i reſwm, gorchſygwyd hwynt mewn dwy frwydr, er eu bod yn ſwy eu rhifedi na byddun y brenin.

Yn yr un achos caſodd gwyr y *brenin Edwarc* ſuddugolieth yn *Scotland*, er ir *Papiſtiaid* hynny ddwyn y Bara mewn blwch, a'r delwau eraill yr hyderent arnynt, gyda hwynt ir maes. Lle lladdwyd tair mîl ar ddèg o'r *Scotiaid*, a chant yn unig o'r *Saeſon*, digwyddodd hyn ar yr un diwrnod ac y lloſcwyd y delwau yn Llundain.

Daroſtyngwyd heſyd y gwrthryſelwyr yn *Norffolc a Sire Eborac*. A churwyd *gwyr Ffrainc yn Jerſey*. Yn yr amſer hwn rhoddwyd *biblau Saeſonaec* i bob plwyf yn Lloegr, a goſodwyd allan *y llyfr Homili* i gynorthwyo y lleodd oeddent weigion: canys anhawdd ydoedd cael pregethwr ym. bob plwyf cyn gynted ar ol troi ymmaeth gymaint o offeiriadau pabaidd.

PEN. XIV.

Cyſtudd y Proteſtaniaid yn Lloegr yn amſer y frenhines Mari.

OND gan nad oedd y deyrnas yn dwyn ffrwyth cyſattebol ir llaſur, a'r hâd, a'r caſodydd

fodydd nefol yr oedd Duw yn ei ganhiadu iddi, gadawodd ir *Papiſtiaid* ei batingo hi eilwaith, a lloſci 'r *Proteſtaniaid* yn aml; i edrych y ddygei hi ffrwyth gwell gwedi. Canys ar ôl ir *frenhines Mari* addaw yn dég ir *Proteſtaniaid* er mwyn cael y goron, galwodd *Barliament* i fwrw i lawr y grefydd y gawſei ryddid gan ei *brawd Edward*, a goſododd *Babyddieth* i fynu eilwaith, ac i hyfforddi ei phwrpas priododd *Philip brenin Hiſpaen.*

Ac er rhybuddio'r byd o'r peth oedd ar ddyfod, gwelwyd dau haul yn Llundain, ac enſys ai chefn yn iſaf, ai dau gorn i fynu, megis pe buaſeu'r nef ar ſedr Saethu tua'r ddaiar.

Yn y broſedigaeth danllyd cymellwyd rhai i wadu eu flydd, megis yr *Juſtus Bales*, yr hwn wedi hynny ai boddodd ei hun o dra gofid calon.

Ac wedi dihenyddio yr arglwyddes *Jane Gray*, *Criſtnoges gyflawn o zêl*, a gwybodaeth raſol, amhwyllodd yr *Juſtus Morgan* ai barnaſei hi i golli ei phen, a llefodd nes ei farw, *am dynnu 'r arglwyddes Jane* oddiwrtho ef.

Yn y flwyddyn 1555 â'r drydydd o deyrnaſiad y *frenh. Marie*, y dechreuwyd lloſci 'r Pregethwyr duwiol: a'r Cyntaf o honynt y dorrodd y brîſc, oedd Mr *Rogers*. Yr hwn, pan arweinwyd ef o gaeth garchar ir tân, a chyfarfod ar y ffordd ai wraig ag un a'r ddêg o blant, y rhai pe gallaſent y ddiffoddaſant y tân ai dagrau; ni ruſodd garu Criſt ai wirionedd yn fwy na'i wraig, a'i blanr, ai fywyd heſyd. A gorfoleddodd y brodyr yn ddirfawr weled cadernid ei ffydd ef.

Ac wedi hwn canlynodd Mr *Sanders* i wneuthur yr unrhyw dyſtiolaeth. Yr hwn yn ei ieuenctid y roddaſid yn ferſiant. Ond ni orphwyſodd

ei

ei gydwybod ef nes troi at ei lyfrau i fyned yn bregethwr. Dangosodd *fod yr offeren fel gwenwyn lawer wedi ei gymmysc ag ychydig lefrith*, fel llawer o amryfuseddau ymysc rhai Scrythyrau. Lloscwyd ef *yn Ghofentri.*

Felly hefyd y digwyddodd i *Hooper Escob Caer Wrangon*, yr hwn wedi cau arno yn fanwl yngharcharau Llundain, (nid ydoedd ryfedd cloi arno am ei fod yn dlws mor werthfawr) a anfonwyd i *Gaerloiw* iw loſci; lle yr ymgafclodd llawer iw weled ef, ac i weddio gyda'g ef, gan fendithio Duw am y grâs y dderbyniafent drwy ei bregethiad ddwys ef; canys dywedei, *nad oedd pobl, heb ir yſpryd ferwi ymaeth eu trachwantau, gymhwyſach i Dduw, nag a fyddai cig amrwd yn fwyd i ddyn.* Pan ddaeth at y ſtanc rhoddwyd ger ei fron ef yſcrifen oddiwrth y frenhines i beri arbed ei fywyd ef, os troeu yn *Bapiſt*, ac wedi iddo wrthod y gau gymwynas hwnw, rhoddodd ei enaid i law Dduw, ar ol iw gorph ef ddioddef angerdd y tân dri chwarter awr heb chwimio. Tyſtiolaethodd *nad allen un garu Criſt a'i enaid, a pherchi yr offeren â'i gorph, mwy nag y gall gwraig ferchu ei gwr â'i chalon, tra y rhoddo hi ei chorph i craill.*

Yr achoſion pennaf yngolwg dynion o ferthyrdod y bobl dduwiol y pryd hyn, oedd eu cefnogrwydd hwynt i fefyll gyda'r yſcrythyrau yn erbyn traddodiadau pabaidd. Gan wrthod addef y *pâb* yn ben ir eglwys, nag yn wir aelod o honi, o herwydd ei feiau. Gommeddafant hefyd addoli lluniau, a'r bara yn yr offeren. Ni chilient ymaeth er cael rhybudd ou perigl; canys dewiſent goron ferthyrdod, fel y bobl raſol yn y brif eglwys.

Pan

Pan roddwyd dyfyn i'r Dr *Tailor* (yr hwn y gynyddodd y praidd y ddechreuafeu *Bilney* ei gafclu yn *Hadley*, onid aeth y plwyf yn yfcol ddyfcedig) naccâodd ddianc, er bod ei berthynafau yn tâergeifio ganddo ei arbed ei hun; eithr dywedodd, *Na chai ef fyth y faith achlyffur i ogoneddu Duw a thrwy ddioddef dros ei efengyl ef.* Am hynny aeth i Lundain heb neb yn ei wilied ef ar hyd y ffordd. A phan ddaeth ger bron, tyftiolaethodd y gwir yn hŷ. Ac yn y carebar llawenychodd yn enwedig am gymdeithas yr *Angel Bradford.* Yr oedd Carcharau Lloegr yn awr fal Eglwyfydd llawn o'r bobl dduwiolaf, a hyfryd oedd weled eu rhinweddau, a chlywed eu cynghorion, a'u gweddiau. Wedi ei fwrw ef i farw, a'r Swyddogion yn eiriol arno am gymodi â phabyddeth, *dywedodd Iddo dwyllo llawer yn Hadley*; ar hyn tybiafant y troeu ef, hyd oni ddeongiodd y peth, *fef y twylleu ef y pryfed yn monwent Hadley, am na chaent fwytta mo'i gorph Cnawdig ef, eithr gadawei ei lofci yn tân cyn y gwaden Grift*; ac felly y bu.

Ac nid pregethwyr yn unic, ond proffeffwyr cyffredin hefyd fuont ffyddlon hyd angau canys wedi i *Boner efcob Llundain* holi *un Tomkins gwehydd*, ac am nad ymwadeu â'i grefydd, yr hon a ddilyneu ef yn ddiwyd, pwyodd yr *Efcob* ef yn greulon, gan dynu gwallt ei ben a'i farf, a chymerth ganwyll dair-dyblig olau, ac a lofcodd ei law ef, onid oedd y dwfr yn faethu allan o'r giau; etto nid oedd y merthyr yn teimlo gronyn o boen, am fod ei yfpryd ef yn gyflawn o gffyur, ac wedi hynny llofcafant ei holl gorph ef yn *Smithfield.*

Felly

Felly y gwnaethpwyd ag *William Hunter, bachgen o ran oedran, a gwr mewn gwybodaeth.* Tra yr oedd hwn wrth y ſtanc yn gweddio y geiriau hyn, *mab Duw tywyna arnafi. yn* ebrwydd diſcleiriodd yr haul yn ei wyneb ef, er bod yr wybren yn dywyll iawn, ac yn gymmylog o'r blaen.

Yn Neheudir Cymru heſyd dioddefodd rhai am yr un achos, ſef eſcob Ffarrar o Fynyw, yr hwn y gyhuddwyd gan ſwyddogion malaiſys ei eſcobaeth yn amſer y *brenin Edward*, ac a garcharwyd ar gam, megis pe buaſei yn tueddu at *Babyddieth*; ac yn amſer y *frenhines Mari* mynnodd yr un cyhuddwyr ei loſci ef am wrthwynebu *pabyddieth.* Wrth fyned i farw pan oedd un yn cwyno iddo doſted fyddeu ei boen, attebodd ynteu, *os gwelwch fi yn aſtonydd, na choeliwch fy athrawieth.* A ſafodd ynghanol y tân nes ei drengu:

Yr oedd hefyd *un Rawlins Wynne Yn Ghaerddydd*, yr hwn er ei fod yn anllythrennog, etto wedi cyffroi ei feddwl i geiſio gwybod, a dilyn ewyllis *Duw*, wrth wrando ar ei blentyn yn darllen yr Scrythyrau Saeſonaeg y gafodd y fath wybodaeth a zêl, ac y droes lawer at ofn Duw, am hynny ar ol hir garchar, lloſcwyd ef yn ei dref gartrefol. Ac wrth fyned at y ſtanc gweleu ei gymdogion gyfnewidiad ryfeddol yn ei gorph ef, canys lle'r oedd o'r blaen yn crymmu gan oedran, yr oedd yn awr yn fyth inion, a chantho wyneb ſiriol. Am yr un achos lloſcwyd gwr duwiol
1558. ſiml yn *Harford Weſt* elwid *William Nichol.*

Yn Ghaer-Lleon yn ymyl Gwynedd y lloſcwyd *George Marſh Pregethwr duwiol*, yr hwn pan glywodd fod ymoſyn am dano ef, aeth i mewn o hono ei hun, ac argyhoeddodd ei ddiodefgarwch ef

lawer

Dioddefaint y merthyron.

Torryd gwithi gwaed rhai, a Hoſenyd aelodau eraill.

Rhwygo cnawd rhai â gefail.

Diweddaraf.

Crogi gwragedd a phlant——.

(1062)

Lloſcwyd llawer yn fyw.

lawer o bobl: oni orfu ir *Escob* bregethu i geisio gan bobl goelio mae heretic y loscasei ef: a chyn pen nemawr bu yr *Escob* yntef farw. Dywedodd *Marsh fod Duw yn dyrnu ac yn nithio yr ŷd yn amser y frenhines Marie y hanasai ef yn amser y brenin Edward; Ac y dyleu rhai da ddioddef mwy er mwyn Crist, nag y mae y rhai drwg yn eu goddef er mwyn pechod: gan eu bod yn dwyn carchar ac angeu, am ymddial, neu ledratta arian iwtreulio ar eu chwantau.*

A thra yr oedd y merthyron yn canmol Duw wrth y stanciau, yr oedd yr offeiriaid yn canmol y *pâb* yn eu gorsèddau, ond cyrhaeddodd llaw Dduw rai o honynt. Canys tra yr oedd *offeiriad Crondal* yn ei bregeth yn clodfori y maddeuant pechodau y dderbyniasei ef oddiwrth gennad y pâb iddo ef ei hun, ac ir plwyf, ac wrth hwnnw yn hyderu ei fod mewn cyflwr da, yn ebrwydd syrthiodd yn fârw yn y pulpud, ac ni symmudodd syth na llaw na throed.

Gwelwyd arwydd gwell ar un Mr *Haukes gwr gallwog yn yr scrythurau*: yr hwn pan oedd yn myned iw lloſci eisieu dwyn ei blentyn iw fedyddio yn ol yr offeren, y gadarnhâodd ei gyfneseisiaid yn y ffydd; y rhai a ddymunasant arno pan fyddei ef yn tân, roddi iddynt arwydd os gellid cadw y meddwl yn llonydd yn y fâth boen er mwyn yr esengyl. A phan oedd y merthyr yn tân, wedi crychu ei groen, a cholli ei leferydd, a lloſci ei sysedd, oni thybiodd pawb iddo drengu, yn ebrwydd cododd ei ddylaw (a nhwy yn ffaglu yn olau) vwch ei ben, gan eu taro ynghyd dair-gwaith: yr hyn y barodd ir bobl glodfori Duw gyda bloedd fawr.

Ni bu ddim llai cyssurus helynt *Bradford* yn ei

gystudd; yr hwn y gawseu râs mawr gan Dduw yn ievange, a phan oeddid yn ei alw ef i weinidogaeth yr efengyl, yr oedd yn arswydus ganddo fel *Moses* gymeryd y swydd arno, o ran y dŷb wâel oedd ganddo am dano ei hun, nes i athro enwog ei argyhoeddi ef, a'i annog ef, *Nad attalieu fara haidd oddiwrth eneidiau newynllyd, onid oedd ganddo fara gwyn iw roddi iddynt.* Rhagddangosodd y deuei plâ am broffessu'r efengyl yn ghawdol, a chanlynodd y chwys marwol y pryd hynny. Pregethu a darllen, a gweddio a mysyrio oedd ei fywyd ef, ar ei liniau y byddeu yn studio, dan synych wylo. Addfwyn, a ffyddlon, a chyflawn o Zèl oedd ef. Yscrifennodd *fod y byd yn fodlon i Babyddieth, oblegid nad oedd yr offeren yn ceryddu neb am bechod, fal yr oedd pregethiad yr efengyl, a bod yr eglwys butteinaidd yn ymdrwssio â defodau brithion, ond bod yr eglwys briod yn blayn hebddynt, ac yn dègoddifewn.*

Psal. 45.

Wedi ei garcharu yn amser y *frenhines Marie*, cafodd y fath garedigrwydd gan èi geidwaid, ac a roddes iddo achlyssur i bregethu beunydd, a llenwi ei stafell o bobl ddnwiol, ac yn synych i gyfrannu swpper yr Arglwydd. Er ei fod ef unwaith yn ô-anewyllyscar i swydd y weinidogaeth, etto yr oedd ef yn chwannog i ferthyrdod, gan ddywedyd yn ei weddi, pan ddaeth yr amser cystudd cyffredin ar dduwioldeb, *wele fi, anfon fi.* A gorfoleddodd yngbariad Duw, *am iddo anfon am dano ef, fel Elias, mewn cerbyd tanllyd.* Wedi ei rybuddio ef yngarchar oi farwolaeth, gweddiodd, a chynghorodd mor yspryd ol ymmysc ei gyfeillion, a bu mor hyfryd yn ei enaid, megis pe buaseu yn y nêf eusus, Pan ddaeth at y stanc

Isai. 6. 8.

yn

yn *Smithfield*, a dechreu cynghori 'r bobl, rhwyſtrodd y *Siri* ef, am fod yr ymwaſc yn fawr. (Tel y byddeu wrth loſci 'r holl ferthyron, am hynny ofneu'r ſwyddogion rhag cythryfwl, a phryſſurent i orphen eu gorchwyl.) Ond trodd *Mr Bradford* at ei gyd-ferthyr, gan ei galonni ef, wrth yſtyried y caſent y nôs honno ſwpper llawen gyda'r Arglwydd. Ar ol hyn lloſcwyd mewn amryw fannau yn Lloegr y flwyddyn hon lawer o wŷr duwiol, boneddigion a chyffredin; weithiau pedwar, weithiau Pump, weithiau chwech yn yr un tanllwyth, dan gyffeſſu eu ffydd yn raſol: ie yr ydoedd y fath nerth ynghyffes y merthyron, ac y drôdd lawer y ſuaſent *Bapiſtiaid* yn amſer y *brenin Edward*, yn *Brotcſtaniaid* cynnes yn amſer y *frenhines Marie*. Canys gwelwyd llawer o râs ac o anwyldra Duw tuag at y rhai cyſtuddiedig y pryd hyn.

Pan oedd *Robert Smith* wrth ei loſci yn dymuno ar Dduw *ddangos arwydd arno er daioni*, wedi iddo fyned yn loûn dû yn tân, yn ddiſymwth cyfododd yn ei ſeſyll a churodd y bonion breichiau ydoedd ganddo, i ddangos llawenydd ei galon.

Yn *Norwich* heſyd carcharwyd un *Mr. Robert Samuel Pregethwr graſol*; gan ei gadwyno ef yn ei union ſefyll wrth bôſt, fal na chaſeu onid blaenau ei draed i gynal ei holl gorph; ai benydio â newyn, heb roddi iddo ond tri thammaid o fara, a thair llwyaid o ddwfr yn y dydd, a phan geiſieu yfed ei drwnc ei hun, nid oedd ddefnyn o ddwfr yn ei gorph iw wnenthur. Yn y cyflwr hwn ſyrthiodd mewn llewyg, a ſafodd un mewn gwiſc wen yn ei ymyl ef, ac a ddywedodd, *Samuel Cymmer gyffur, canys ar ôl y dydd hwn, ni newyni ac ni*

ſychedi byth mwy: ac o hynny allan ni theimlodd na newyn na ſyched hyd oni loſcwyd ef. A chyn pen nemawr o amſer dygpwyd ef at y ſtanc lle y mynegodd y weledigaeth iw gyfeillion, gan ddywedyd nad allei ef o ran gorchwyledd adrodd y fath gyſſuron y gawſeu ef gan Griſt yn ei boenau. Pan ddaeth at y tân ni thybiodd y penyd hwnw ond chwareu wrth y triniad y gawſeu ef gan erlidwyr yngharchar. *O greulondeb Pabaiddl o ddioddefgarwch ſanctaidd!* Tyſtiolaethodd rhai iddynt weled ei gorph ef yn diſcleirio yn tân fel arian côeth.

Felly y ceiſiodd yr vnrhyw erlydwyr lâdd *Robert Glover gwr bonheddig*, drwy oerni; a gorthrymder yngharchar; onid nerthodd Duw ef yn ei gorph ai enaid gan roddi iddo brawf o ſywyd tragwyddol. Wedi iddynt ei gondemnio ef, bu anghyſſurus ddwy nôs cyn ei loſci: ond pan ddaeth at olwg y ſtanc, cafodd y fâth ſiccrwydd hyfryd o gariad Duw, oni chûrodd ei ddwylo ynghyd, gan leſain ar ei gyfaill yn llawen, a dywedyd, *eſe ddaeth, eſe ddaeth*: mor ſiriol ac un y gawſeu ei waredu oddiwrth ryw berygl marwol, ac nid fel un yn myned iddo.

Gwelodd yr erlidwyr achos i ddychrynu pe gofodaſent hynny at eu calonau; canys pan loſcwyd *Eſcob Ridley a Latimer yn Rhydychen*, am iddynt dyſtiolaethu gydâ 'r efengyl yn ddiwyd yn yr eglwyſydd, ac yſcolion dyſc, arhoſodd *Gardiner Eſcob Winchſter* un o'r erlidwyr penaf heb ei giniaw hyd yr hwyr, nes clywed ir merthyron hynny gael eu diwedd, ac yno eiſteddodd i wledda gyda 'i gyfeillion yn llawen. Ond trawodd llaw Dduw ef ar y bwrdd, oni chwyddodd ei

gorph

gorph ef, a Phoethodd y tu fewn iddo ef, a bu farw a'i dafod allan fel gloun dû.

A thra yr oedd *un Hubberdin* yn pregethu yn erbyn y Proteſtaniaid, ac mewn gwŷn yn curo'r pulpid a'i draed, ſyrthiodd y pulpid, ac yntef hefyd, ac ychydig gwedi bu ef farw oi gwymp. Etto ni pheidieu'r erlid. Eithr dygpwyd *Philpott*, un o gedyrn Duw ir tân yn *Llundain*. Yr oedd y merthyr hwn yn ſâb i farchog, ac yn yſcolhaig mawr, a thrafaeliwr. Ymddadleuodd mor nerthol mewn cymanfa, nad alleu'r Papiſtiaid wrthſeſyll yr yſpryd a'r doethineb drwy 'r hwn yr oedd ef yn lleſaru. Argyhoeddodd hwynt yn egniol o flaen arglwyddi'r cyngor, canys doeth, a duwiol, a dewr ydoedd ef. Am hynny cafodd ef gyda'g eraill helynt gaeth drymder gaiaf, mewn cyffion o heirn ynglŷdy *Boner Eſcob Llundain*: etto llawenychent a chanent pſalmau. Yſcriſennodd at ei gyd-filwyr caeth, ei fod ef yn gobeithio y llareiddieu angerdd y tân wrth fod Duw yn yſcafnhâu trymder y carchar. Pan ddaeth at yr ſtanc, plygodd ei lîn, a dywedodd, *talaf ſy addunedau ynoti o Smithfield*: a chuſſanodd y ſtanc, gan ddywedyd eilwaith, *a wrthodaſi ddiedd ef wrth y pren hwn dros ſy mhrynwr, y ddioddefodd farwolaeth wradwyddus droſoſi ar y groes?* ar ol ei ferthyrdod ef, yſcriſennodd gwraig dduwiol at *Boner*, y byddeu raid iddo roddi Cyfrif am waed yr *Abel* cyfiawn hwnw, ac y gorfyddeu iddo ef, a'i offeiriadau corynfoel (eilliant eu corynau i wneuthur eu gwallt wrth eu cluſtiau ar lûn coron) roddi biſwel ar eu pennau i guddio nôd y bwyſtfil; am i wir greſydd anghwanegu wrth dywallt gwaed y merthyron, ac wrth dorri'r blychau hynny, yr oedd yr enaſ-

int gwerthfawr yn llenwi'r deyrnas a'i drogi. Hyfryd oedd gweled mor gariadus yr ydoedd y bobl dduwiol y fyddent rydd, yn gweini i gyfreidiau y rhai rhwym, yn enwedig amryw wragedd boneddigion a chyffredin, fel y rhai a ymgleddafant Grift hyd farw, ac a baratoefant bér-lyffiau iddo ef yn ei fedd. Gwniau rai gryffau newyddion ir merthyron hyn iw lloffci ynddynt, (diofcid hwynt wrth y ftanc hyd at y cryfau) paratoent fcarffiau i filwyr Crift i ymnill y frwydr olaf. *Ynteu hyfbys yw fod yr un yfpryd cyniad yn y rhai credadwyr ymhob oes.*

Yfcrifennodd *Mr. Philpott* fod patrwn eglur o merthyras Duw yn yr *Anglwyddes Fane*, yr hon er ei bod yn gyfoethog, yn ievanc, yn anrhydeddus, yn dèg ei phryd ai gwedd, ac heb fod dan awdurdod neb, etto dirmygodd y cwbl oll, ac ymroddes i Groes Crift: acy cyfodei hi yn y farn yn erbyn y rhai oeddent yn gwadu Crift rhag ofn colled, fel brenhines y debeu yn erbyn y genedl gynt. Cyffeflodd hi ei hun yn amfer enbydus, fod melysdra Crift yn ei bynnill hi fwyfwy, ai bod yn blafu mwyniant y byd fal phyfygwrieth gwrthwynebus.

Ac fel y gwelwyd yn awr yn y brofedigaeth hon ffyddlondeb y merthyron, ac ymgeledd Duw tuag attynt yn eu cyfluddiau trymmaf, a'i ddialeddau ar yr erlidwyr, felly'r anghyffur y ddigwyddei ir encilwyr llyrfion; megis i *un Weft*, yr hwn rhag ofn y ddarllennodd yr offeren yn erbyn ei gydwybod, a bu ef farw ychydig gwedi.

Braill am y cyfryw wendid y fyrthient i flinder meddwl, hyd oni ddychwelent at Dduw, neu wnaent ben am danynt eu hunain, neu nhwy gafent

ryw

tyw aflwydd arall. Fel y bu i *Richard Denton gôf*; at yr hwn yr ansonodd un o'r merthyron fflyring yn arwydd, gan gosio iddo ef ei fywiogrwydd yn y ffydd gynt, a dymuno arno bryssuro ar ol ei gymdeithion, Attebodd *Denton, gwir yw, ond ochni fedrafi ddioddef fy llosci.* Etto gwedi, trawodd tân yn ei dŷ ef, ac wrth geisio achub ei ddodrefn, lloscwyd ef a dau oi dylwyth, gan ddioddef heb ddiolch yn ei achos ei hun y peth a wrthodaseu ef yn achos Crist.

Gwelwn ynteu fod *Paul* yn caru *Timotheus* pan orchymmynnodd iddo gymeryd ei ran o gystudd yr efengyl. 2 *Tim.* 1. 8.

Yn nechreu'r flwyddyn 1556 lloscwyd faith yn yr un tanllwyth yn *Smithfield*, a phump ar vnwaith yn *Ghaergaint*. Yn y tân Canasant psallmau, trâ'r oedd yr edrychwyr ou hamgylch yn tywallt dagrau.

Yn *Rhydychen* dioddefodd *Cranmer* ferthyrdod, ar ol iddo gael llawer segsa gan y *Papistiaid* drwy ymddadlu, ac iddynt ei ddiûrddo ef, gan roddi am dano ef ddillad escobaidd au diosc, (fel y gwnaeth y milwyr â Christ wrth ei watwor ef â gwîsc frenhinawl.) Pan aeth ef at y tân dalliodd ei law ddeheu ynddo yn gyntaf, am iddo o'r blaen drwy weniaith ei elynion yscrifennu ei henw â hi wrth bapyr pabaidd, yr hyn y wnaeth iddo ef wylo yn chwerw-dost. Rhyfeddodd llawer na syflodd ef ronyn yn y tân, er ei fod yn hen-wr barfwyn.

Ar ol hyn lloscwyd chwech yn yr un tân yn *Smithfield*, a'r un rhyfedi yn *Colchester*, a digwyddodd i *Boner* losci dau ŵr duwiol yn yr un tân, a'r naill yn gripl, a'r llall yn ddall, ac wedi eu rhwymo

hwynt gerfydd eu canolau wrth y ſtanc, bwriodd y cripl ei faglau ymmaeth, gan ddywedyd wrth ei gydſerthyr, *Cymer gyſſur ſy mrawd, iachsir di o'th ddallineb yn awr, a minneu o'm cloffni.*

Lloſgwyd llangc dall *yn Ghaerloiw* am yr un achos, a thrannoeth merthyrwyd gwraig weddw a dwy o wyryſon graſol yn *Smithfield*, y rhai a ddaliaſant y ffydd yn gadarn. Ac yn ymyl *Llundain* lloſcwyd tri ar ddêg yn yr un tân, ſef un ar ddêg o wŷr, a dwy wraig, y rhai a ſafodd yn rhyddion yn tân, nes rhoddi eu heneidiau ir Arglwydd. Wrth ſyned a hwynt iw dihenydd, caſodd y ſiri arnynt mewn dwy ſtafell, ac wedi hynny aeth at y naill blaid, ac a daerodd iw Cymdeithion hwynt wadu eu ffydd, ac am hynny yr arbedid eu bywyd hwynt; attebaſant iddo ef, *nad oedd eu ffydd hwynt wedi ei hadeiladu ar ddynion, ond ar air Duw.* A phan wnaeth ef ſelly ar blaid arall, cafodd yr un atteb.

Lloſcwyd tri yn yr un tân yn *Newberie*, un o honynt oedd ŵr dyſcedig o *Rydychen*, y gollaſeu ei lê yn amſer *y brenin Edward* am ei Zêl ir pâb; y pryd y cyfaddefodd ef wrth ei gyfaill oedd yn gadel y deyrnas am yr un ſtyſnigrwydd, fel hyn, *Yr ydym yn dioddef llawer dros y Pâb, ond nid oes gennym y fath ſelyſdra yn ein Calonnau oddiwrth ei greſydd ef, ac y welwn ni y Proteſtaniaid yn eu ſwynhau yn eu ffordd nhwy; yr ydym ni yn ymdrechu am ni wyddom ni pa beth, yn fwy o ran ewyllis, na chydwybod, etto gwell geniſi ſyned i gardotta, na chael o honynt eu gair yn drechaf.* Ond yn amſer *y frenhines Mari*, er iddo gael y bŷd wrth ei fodd, etto wrth weled cyſſur a graſlonrwyd y merthyron, trôdd yn hollhawl at yr eſengyl, a

theimlodd

theimlodd yr offeren yn flin iddo ei gwrando. Am hynny cystuddwyd a dygpwyd ef ir tân, lle y dywedodd wrth ei gydfilwyr, *Byddweh gyssurus, yn llê 'r marwor hyn ni gawn berlau, y mae yspryd Duw yn tystiolaethu hynny i'n ysprydoedd ni.*

Yn *Garnsey* y Lloscwyd gwraig ai dwy serched yn yr un tân; yr oedd un o'r merched yn wraig i bregethwr, ac yn seichiog agos iw thymp; a phan dorrodd angerdd y tân ei bol hi, Syrthiodd y plentyn oddiwrthi hi: Ac wedi ei gipio ef i fynu, ai ddwyn at y Swyddogion, gwnaethpwyd ag ef mor anghrugarog, ac y gwnaeth Pharao â Phlant yr Hebreaid, neu Herod â phlant Bethlehem, gan ei fwrw ef ir tân at ei fam, er ei fod yn blentyn gwryw golygûs. Felly bedyddwyd â thân yr hwn a aned yn ferthyr, i dystiolaethu dynered mamaethod oeddent.

Yr un fath hyfforddiad y gafodd morwyn ddall yn *Darby*, ydoedd yn byw wrth wau hosânau, ac a brynodd *Destament newydd*; rhoddei geiniog sel yr ynnillei hi i ryw un am ddarllen iddi benodau ynddo, oni chafodd hi wybodaeth iachusol; am hynny lloscwyd hi.

Yn y flwyddyn 1557 Lloscwyd saith yn yr un tân *ynghaergaint*, a phump ar unwaith yn *Smithfield*, a saith ar unwaith yn *Maidstone*; ac eilwaith saith yn yr un tân *ynghaergaint*. Yr oedd un o honynt sef gwraig *Benden* y garcharwyd naw wythnos mewn twll cyfyng, ni chafodd hi un gwely i orwedd arno, na newid ei dillad, na dim llunieth, ond gwerth tair ffyrling yn y dydd, ac ni chafodd neb wybod p'le yr oedd hi, nes iw brawd ar foreucweth ei chlywed hi yn adrodd ei chwyn wrth Dduw mewn gweddi: ar ol hynny pan

pan ofynnodd yr Escob iddi, a fodlonei hi i fynd i'r offeren, attebodd, y gwyddei hi yn yspysiach y pryd hynny nag o'r blaen, nad oeddent hwy o Dduw, am eu bod mor giaidd.

Merthyrwyd dêg yn yr un tân yn *Lewes*, a dêg eraill yn *Colchester*.

Yn y flwyddyn 1558 merthyrwyd rhai o'r gynylleidfa ddirgel y gyfarfyddent yn *Islington*. Tystiolaethodd yr *Athro* ei fod ef yn *Rhuftain*, lle y gwelsei ef gymaint o lygredigaeth ac y wnaeth iddo ffieiddio *Pabyddiaeth*. A bu rysedd ddioddefsgarwch *Cuthert Sympson y diacon*, Pan boenwyd ef yn greulon, eisieu iddo ddangos y llyfr, lle'r oedd henwau'r bobl dduwiol oeddent wedi ymwneuthur i gyd addoli yn ol yspryd yr efengyl; er hynny dalwyd hwynt ynghyd gwedi, a lloscwyd tri ar ddêg o honynt. Catharwyd gwraig dlawd, ddewr yn yr scrythyrau, yn *Ecseter*, am iddi argyhoeddi un ydoedd yn adgweirio delwau, y rhai a anfurfiasid yn amser y *brenin Edward*; Eb hi, *yr wyti yn ynfyd wneuthur trwynau newyddion ir delwau y gollant en pennau cyn bo hîr*. Pan fygythiid hi, *attebei fod ei chalon yn ficcr gyda Christ*: pan gynygid iddi arian, dywedei *ei bod hi yn myned i ddinas lle ni cherddent*. Ac ynghylch wythnos cyn marw'r *frenhines Marie*, lloscwyd pump yn yr un tân yn *Ghaergaint*. Pan farnwyd y rhain i farw, cysodod un o honynt yn enw'r lleill eu gyd, ac wedi ei gynhyrfu gan Zel ddirfawr, adroddodd escymundod yn erbyn yr erlidwyr ag yspryd awdurdodawl, gan ddymuno ar Dduw ddangos barn arnynt er adeiladaeth ir deyrnas. A gwnaeth Duw yn ol gair eu weision. Canys cyn pen yr wythnos, bu farw'r frenhi-

frenhines, a syrthiodd pabyddieth yn *Lloegr* : ac yna dychwelodd yr Hispaenwyr adref. Ac er eu dysod i Loegr i geisio diffodd eglurdeb yr Esengyl, etto hi enynnodd râs yn eneidiau rhai o honynt, a hyfforddiasant wîr wybodaeth yn eu gwlâd eu hunain, oni erlidwyd yno lawer o'i phlegyd.

Maith fyddei mynegi gymaint y ferthyrwyd yn *Lloegr* yn y dymmhestl hon, am hynny mi a grybwyllais am ychydig o lawer, ac na bô ond sôn a chrybwyll am y fâth bêth mwy.

Pan fu farw *y frenhines Marie*, agorwyd dryssau carcharau i lawer oeddent wedi eu bwrw i farw. A chafodd yr adar nefol y cauasid arnynt yn y cewyll, eu gollwng allan i byngcio yn y Côed. Ie Cafodd rhai fal *Joseph* eu codi o garchârau i orsêddau; yn amser y trwm gystudd gwelwyd gofal Duw yn pryssuro gwarediad iw bobl.

Methodd gan yr erlidwyr gyflawni yr hyn a ewyllysient, pan oedd gallu dynol yn eu dwylo; megis pan ddaeth marchog ai weision i lusco gwraig dduwiol i'r offeren yn erbyn ei meddwl, trawodd ffit or gowt arno ef cyn dosted, ac y gorfu ei ddwyn ef adref, a gadel y wraig yn llonydd. A dywed *Melancton*, i angel roddi rhybudd i drosglwyddo *Grineus dduwiol* oddiar ffordd erlid peryglus oedd yn dysod am ei ben ef yn ddisymmwth. Tra yr oedd yr *arglwyddes Elizabeth* yngharchar yn *Woodstoc*, yn amser ei *chwaer*, daeth un â dêg ar hugain o wŷr gyda'g ef yno mewn bwriad iw llâdd hi fel y tybid; ond yr oedd y pen ceidwad wedi myned oddi cartref, a chwedi gadel siarse ar ei frawd na chafei nèb siarad a hi; a'r gorchymmyn y roddasid er gwneuthur ei charchar hi yn gaethach, y brisiodd yn fôdd i achub ei bywyd hi:

felly

felly trowd ei chaethiwed yn ddiogelwch iddi.

Nid anhynod fu anfodlonrwydd *Duw* yn erbyn yr erlidwyr; ni chafodd y *frenhines Mari* ond yr aflwydd bîgilidd wedi tywallt gwâed y rhai duwiol; (yr oedd *Hezechias a Jehoſophat* wrth ddiwygio pethau Creſyddol yn ffynnu, a *Manaſſes eulynaddolgar* yn methu.) Bu newyn mawr yn *Lloegr* yn ei hamſer hi, oni orſu bwytta mês yn lle ŷd. Hi gollodd *Calice dinas enwog o Ffrainc*, y ſuaſai ym meddiant y *Saeſon* er's llawer o flynyddoedd. Gwradwyddwyd hi yn ddirfawr o herwydd anffrwythlondeb ei phriodas. Gorchymmynwyd ir *Eſcobion* a'r *offeiriadau* roddi diolch yn yr eglwyſydd am ei beichiogi hi, a gweddio am nerth iddi i eſcor, canys dymuniad ei chalon hi oedd cael plentyn i etifeddu 'r goron, y peth ni chaniâdodd *Duw* iddi.

Yr hyn a gyhoeddodd i bawb, fod offeiriadau yr Eglwys Gatholic (ſel y galwent eu hunain) yn ſiommedig, ac nas galleu eu offerennau dynnu enaid o'r pûrdân ir nêſ, mwy na phlentyn o'r brû ir byd.

Hefyd collodd y *frenhines honno* ſerch a chymdeithas ei gŵr, a phryd na pheidieu ag erlid er dim a ddigwyddeu iddi tra fyddeu fyw, llonyddodd angeu hi yn fuan; a bu farw dan ochneidio, ac nid ſel y merthyron dan byncio.

Goddiweddodd dialedd weinidogion ei chreulondeb hi hefyd. A daeth rhyw glwyf byrr yn eu myſc hwynt a yſcubodd ymaeth lawer o honynt yn ddiſymmwth. Bu farw'r *Cardinal Pool Cenad y Pâb* dranoeth ar ol y *frenhines*. Cipiodd angau diſyſyd un *Duning Canghellawr Norwich*, a *Jeffery Canghellawr Saliſburie*. Bu farw *Gardiner*

ai

ai dafod allan, fel pe buafei gyda *Dives* tra yr oedd ef ar y ddaiar, heb ddefnyn o ddwfr iw oeri. Ofnodd yr *Juſtus Morgan* yr *arglwyddes Jane* ar ol torri ei phen hi, yn fwy nag yr ofnodd *Herod Joan Fedyddiwr* ar ol torri ei ben ef er bodloni *Herodias*. Pan oedd *Eſcob Defer* yn dyfod allan o yſtafell y *Cardinal Pool*, lle buafei yn ceiſio ei fendith ef, ſyrthiodd dros y griſiau a thorrodd ei wddf. Ebedodd Brân dros ben *Baili Crowland* (yr hwn ychydig o'r blaen y gymellafei 'r offèren ar ei blwyf âi holl allu) a than grawcio gollyngodd ei brynti yn ei wyneb ef, oni redodd i lawr o ben ei drwyn ef hyd ei farf; ac yr oedd y fawr mor ffiaidd, na pheidiodd ef â chwdy, a rhêgu 'r frân nes ei farw. Syrthiodd y *Goliah* hwn drwy foddion gwael, a gorchfugwyd ef gan elyn mwy anfoefol nag egniol, gan ddioddef dirmyg gyd â dinyſtr; felly gwybedyn y dagodd y *Pab Adrianus*. Nychodd un *Baulding* hyd angeu, o ddyrnod mellten ai trawfei ef wrth ddala *un Seaman* y ferthyrwyd.

Ni ddiangodd erlidwyr y tu hwnt ir môr rhag dialedd chwaith. Pan oedd *Cardinal Creſſentius* yn llywodraethu cymanfa *Tridentum* dros y Pâb, daeth Cî du mawr, a llygaid tanllyd iw yſtafell ef, ac ni welei nèb ond y *Cardinal* mono ef, ar hynny clafychodd a bu farw. A phan oedd erlidiwr mawr yn *Antwerp* yn myned gyda'i wraig mewn cerbyd dros bont ymmhen y drêf, ſafodd y meirch; oni ddolefodd ef yn ddiclon wrth y gyrrwr ar iddo fyned ymlaen yn enw mîl o gythreuliaid: ar hynny Cododd Corwynt diſymmwth (er bod yr hîn yn dêg o'r blaen) y daflodd y Cerbyd dros y bont i glawdd dwfn, lle trigodd ef ai wraig.

PEN.

PEN. XV.

Llwyddiant y ffydd yn Lloegr yn amſer y frenhines Elizabeth, ei herlid yn ffrainc a lleoedd eraill.

WEdi Coroni'r *frenhines Elizabeth*, ac iddi roddi ei bryd a'i gallu i gynal yr eſengyl, Cynnyddodd gwybodaeth o *Ddaw* yn *Lloegr* yn ddirfawr; ac er in *Papiſtiaid* oddiſewn ac oddi allan ir deyrnas oſod maglau yn aml iw dinyſtrio hi, etto ymddiffynnodd *Duw* hi, ai waith yn ei llaw hi. Ac yn fynech daeth eu dichellion nhwy ir golau drwy foddion rhyfeddol: megis Pan gymerwyd llong yr oedd offeiriad Pabaidd yn morio ynddi, ac iddo rwygo a thaflu ei bapyrau ir môr, Chwythodd gwynt hwy ir llong eilwaith, ac wedi eu rhoddi ynghyd gwybuwyd wrthynt fod y *Pab* a'r *Hiſpaen* a *Ffrainc* yn bwriadu rhurhro am ben *Lloegr*. Ac er mwyn Cadarnhâu yr deyrnas yn eu herbyn hwynt caſwyd peirianau rhyfel ni chawſid yn *Lloegr* erioed o'r blaen, megis Powder gwn, a mwyn Prês, a charreg reidiol iw drin ef, i wneuthur gynnau mawrion; y pethau oeddent ddeffygiol o'r blaen. Ac adeiladwyd mwy o longau nag oedd cyn ei hamſer hi.

Wedi methu pob brâd ddirgel, y mae'r *Hiſpaen* yn bârod i wneuthur celanedd yn yr amlwg, ac yn anſon byddyn fawr, elwyd *Anoreſcynnol*, i gwncwerio *Lloegr*. Yr hon pan ddaeth ir *môr Saeſnig*, bwriodd angor y tu neſaf i *Ffrainc* i aros am ychwaneg o gymdeithion. Ond yn y Cyſamſer gyrrodd y *Saeſon*, oedd yn agos nhwythau, wyth o longau tanllyd ymyſc llongau'r *Hiſpaeniyr*;

enwyr; yr hyn y barodd ddychryn, a chri, a gwascarfa fawr yn eu plith; ac a roddes achlyſſur a mantais ir *Saeſon* i ddryllio rhai, ac i yſſigo eraill o honynt, ac i ddigaloni'r cwbl; oni ymroeſant i hwylio gyda'r gwynt tua'r gogledd, o amgylch *Scotland*, a'r *ſwerddon*, i ddychwelyd adref gyda chywilydd a cholled fawr, rhwng ymlâddau a thymhèſtlau. Wedi hynny cyſaddefodd un o'u Penaethiaid hwy, *ei fod ef yn tybied mae* Proteſtant *ydoedd* Criſt. *Oed. Cr.* 1588.

Cafodd y Papiſtiaid y gwaethafyn y rhyfel y godaſent drwy *iarll Tyron* yn yr *ſwerddon* hefyd, er iddo barhâu yn hîr, a Chynorthwyodd y *Saeſon* yr *Hollandiaid* i ynnill rhydd-did eu gwlâd, a'u creſydd. Ond yn *Ffrainc* wedi i dduwioldeb amlhâu, a methu o'r brenin drwy ryfel ddiwreiddio ei dilynwyr, denwyd *tywyſog Navarre*, *Penaethy Proteſtaniaid*, i briodi *Chwaer y brenin* mewn ſûg cuttundeb rhwng y ddwy blaid. A phan ymgaſclodd y rhai ardderchoccaf o'r tu creſyddol ir neithior yn y brif ddinas, rhuthrodd y *Papiſtiaid* am eu pennau liw nôs tra yr oeddent yn eu gwlâu yn ddiofal, a lladdaſant ddengmil o honynt ar *ddigwyl Bartholomeus*, yn y flwyddyn 1572. Acyn gyflym anfonwyd gair i ddinaſoedd eraill i wneuthur yr un cieidd-dra a lladdwyd y tadau a'r plant yn eu breichiau, a lladdwyd y plant a'u dwylo am yddfau eu tâdau; yn rhai dinaſoedd cauwyd y Pyrth rhag ir un ddianc oddiwrth y gigyddieth waedlyd.

Lladdwyd cantoedd yn *Weldis*, a miloedd yn *Orleance*, ac wyth gant yn *Lugdunum*, lle y dechreuodd *Waldez* adgweirio creſydd; Tri ugain ar ddèg yn *Burdeaux*, llawer yn *Tholas a Roan*: ymhob

hob man wedi dengmil a'r hugain. Mor doſturus oedd y golwg, oni orſu ir cigyddion anſon am wîn i gynal eu calondid, er bod defaid y lladdfa yn rhoddi ei gyddfau i lawr yn ddiymdrech.

Am hyn gorchymmynnodd y Pàb lawenydd mawr yn *Rhufain*, a gorfoleddodd *brenin Ffrainc*, gan dybied iddo wneuthur diben llwyr o'r *Proteſtaniaid*.

Ond ymwrolodd *Rochel*, a rhai dinaſoedd eraill, lle'r oedd y *Proteſtaniaid* amlaf, iw ymddiffyn eu hunain; ac ni thycciodd i holl allu *Ffrainc* warchau a'r *Rochel*, am i *Ddnw* anſon pyſcod dieithr hyd yr anſon yn ymborth ir ddinas; ac felly drwy r yſeddod ddiddymmu pwrpas ei gelynion. Ar hyn blinodd y brenin yn ymguro, a chyflychodd i roddi rhydd-did a heddwch ir rhai creſyddol a weddillaſid drwy *Ffrainc* oll. Ymhen y ddwy flynedd, bu farw'r *brenin* hwnw dan waedu drwy holl dyllau ei gorph, ſef ei ſafn, a'i ffroenau, a'i lygaid, a'i gluſtiau, a'i rannau iſaf; yr hwn a wnaeth i waed ffrydio, ffrydiodd gwaed o bono, fal y darllenai ei bechod yn ei benyd. Yn nyddiau'r trychineb hwn gwelwyd Seren newydd dros ddwy flynedd, ac yna diffoddodd. Yn *Sevil* o'r *Hiſpaen* y carcharwyd wythgant ar unwaith am burdeb ffydd, gan eu lloſci o feſur yr ugain, er bod llawer o honynt yn uchel-râdd yn y byd.

Yn *Fflandria* hefyd cynnyddodd yr eſengyl, yn enwedig yn ninas *Lile*, ac erlidwyd hi yn ſanwl. ymmyſc eraill o rai duwiol y ſerthyrwyd yno, enwog ſu dau bregethwr, ſef *Guy de Brez*, *a Peregrine de la Grange*, y rhai pan oedd eu caredigion yn cwyno iddynt wrth weled eu heirn, a ddywedaſant, *Fod yn werthfawrogach ganddynt gade*

wynau

wynàu heirn er mwyn Crist, na chadwynau eur ffordd arall, a bod swn y linciau yn felysach ganddynt na cherddoriaeth, a'u bod yn eu cystuddyn cael prawf Sicer o'r peth y bregethasent o'r blaen.

Yr un amser merthyrwyd llawer yn *Fenice*, gan eu taflu ir môr. Yn *Falence* cyn gwyd ei bywyd i *Margaret Pierrone* er taflu ei bibl ir tân o flaen y dref, eithr gwrthodod wneuthur felly, a chymerth ei merthyrdod, gan garu gair bywyd tragwyddol yn fwy na'i bywyd naturiol. *Oed. Crr.* 1593.

Wedi i Loegr gael hîr dawelwch, a goleuni Cynnes yr haul efengylaidd, dychymmygodd y *Papistiaid* gysodi tembestl erchill drwy frâd y powder gwn.

Canys pan ydoedd y *brenin James, a'r ddau dŷ o Barliament* i eistedd yn *Westminster*, y nôs o'r blaen cafwyd un baryl ar bumtheg ar hugain o bowder gwn, wedi eu cuddio mewn seleri dan dai'r *Parliament*; lle dalwyd *Guido Fawkes*, a chefis yn ei gylch parodol i ennyn y powder i chwythu i fynu yr *Parliament* dranoeth pan y mgyfarfyddent. Ar yr un dydd ymgasclodd y rhai penaf o'r *Papistiaid* yn y wlâd hefyd, ar hyder yr ymchwanegent fel pellen eira wrth ymsymmud ar hyd y deyrnas, a galw ar eu cyfeillion i gysodi mewn arfau; ir diben hwnw dügasant lawer o feirch mawrion: yr hyn y wnaeth ir wlâd ganfyn ar eu hôl hwynt drwy ddwy shire neu dair, nes llâdd a dal y rhai prysfuraf o honynt. 1605.

Ond yn y *Faltoline* cyflawnodd y *Papistiaid* eu dychymygion drygionus yn erbyn y *Protestaniaid*, er iddynt fethu yn *Lloegr*; canys cysodasant yn ddisymmwth mewn arfau, a lladdasant y rheolwyr a'r pregethwyr, a'r cyffredin yn eu tai; ac

yn yr eglwyſydd, heb arbed na gwragedd na phlant. Y pryd y bu nodedig calondid gwraig ſonheddig ievangc ai phlentyn yn ei breichiau; canys pan ofynnodd y lleiddiaid y droei hi yn *Bapiſties* i achub ei bywyd ei hun ai phlentyn, atte-
1520. bodd hi iddynt fel hyn; *Gan nad arbedodd Duw mo'i ſâb, ond ei roddi i ſarw er fy mwyn i, minnau a'm rhoddaf fy hun am plentyn i ſarw er ei fwyn yn, tef.* Ar hynny lladdaſant hi.

Cyn y gelanedd hon yn y gwledydd hyn canodd cloch alarwm o honi ei hun; ac wedi'r gigyddieth, clybwyd llais yn yr awyr yn dywedyd, *gwae, gwae, gwae byd y gwirioniaid*; A gwelodd y bŷd y ſeren gynffonog gôch yngylch dwy flynedd o'r blaen. Ac ychydig gwedi torrodd allan ryfel echryſlon yn *Germania* rhwng y *Papiſtiaid* a'r *Proteſtaniaid*, a barbâodd ddêg ar hugain o flynyddoedd; a naw mlynedd cyn ei ddarfod, clybwyd hela mawr gan y Cythrael yn *Bafaria* arglwyddieth o *Germania*, gyda bloeddio mawr, a llais ofnadwŷn: a dywedodd *pan ddarfyddei iddo hela, yr ai i byſgotta; ſef yr arferei ddichell pan beidiei trais.*

Ni bu ac nid yw'r oeſoedd diweddaf (er drycced moddion llaweroedd) heb ymbell rai grafol ac anwyl gan Dduw y gaent gymundeb enwedigol ag ef, a pheth hyſpyſrwydd neilltuol o'i ewyllys a'i gariad ef: Darllennir i vn defoſionol (ydoedd yn driſt eiſiau medru o honaw ganfod vniondeb Duw yn ei ragluniaeth tuag at ddynion da a drwg) ar ei daith gael cymdeithas Angel yn rhith gŵr, yr hwn ai dug ef i letteua at ŵr da, lle y cawſant ymddiddanion hyfryd ynghylch pethau nefol, a chroeſaw caredus. Ertto dranoeth

wrth

wrth ymadel cymmerth yr Angel phiol aur gydag ef o'r lletty. A'r ail nôs daethant i letteua at ŵr duwiol, a thranoeth wrth ymadel lladdodd yr Angel ddŷn bychan yn y crŷd ydoedd vnig blentyn gwr y tŷ. A'r trydydd nôs hefyd daethant i letteua at ŵr duwiol, y ddanfonodd ei wâs dranoeth iw hebrwng hwynt: a phan ddaethont at afon taflodd yr Angel y gwâs i'r afon, lle y boddodd ef. A'r pedwerydd noswaith dywedir iddynt ddigwydd i fewn tŷ dihirŵr, lle y cawsant lettŷ diffaith; ecto dranoeth rhoddes yr Angel y phiol aur i ŵr y tŷ, ac a aeth ymmaeth. A thra'r oedd y pererin defosionol yn rhyfeddu ynghylch y pethau a wnaethai ei gyd-ymdeithiwr ef, amlygodd yr Angel ei hun iddo ef, a rhoddodd iddo reswm am y barnedigaethau a welsai; gan ddywedyd fod meistr y tŷ cyntaf yn ŵr da, ond yfed yn y phiol honno bôb boreu a hi yn ormod a'i gwnai beth yn anghymhwysach i ddyledswyddau sanctaidd, er nadydoedd hynny yn ddirnadwy iddo ef ei hun nac i eraill. Am hynny eb ef y cymmerais i y phiol ymmaith, gan fod yn well iddo golli honno na'i gymhedroldeb. Pen y teulu lle y buom ni yr ail nôs ydoedd ddyfal mewn dyledswyddau sanctaidd ac haelioni i dlodion tra 'r oedd yn ddiblant. Ond pan gafodd fâb aeth mor anwyl ganddo ef, a threuliodd gymmaint o amser yn chwareu ag ef, oni Esceulusodd ef yr arferion sanctaidd oedd gynnefinol iddo o'r blaen, ac attaliodd ei haelioni ir tlawd er cynhilo iw fâb. Am hynny cymmerais y plentyn i'r nêf, fel ygallo ef wasanaethu Duw yn well ar y ddaiar. A'r gwâs a foddais i ydoedd yn bwriadu lâdd ei feistr y nôs nesaf. Ac am y diffeithwr i'r hwn y rhoddais

ddais i y phiol aur, nid oedd efi gael dim yn y bŷd arall, rhoddais iddo beth yn hwn, yr hyn fydd iddo yn fagl, canys efe a fydd yn fwy angbymhedrol.

Mynegiff vn o Groniclau Lloegr fel yr oedd newyn mawr yn y deyrnas: a chynted ac y dechreuodd yr ŷd ydoedd yn y ddaiar addiedu, nid allau'r tlodion mo'i arbed, onid ei hel a'i fwytta ennyd cyn ei fod yn barod ir Crymman. Yr hyn a gyffrôdd blwyfi beri i'r offeiriad yn gyhoeddus adrodd melldith yn erbyn y rhai ydoedd yn anrheithio'r ŷd. Ond vn o'r plwyfolion a fafodd i fynu, ac a ymmeddodd ir offeiriad felldigo neb am ei ŷd ef, o herwydd iddo wybod angen y tlodion a'i fod ef yn fodlon iddynt gael cymmorth. Ond llêf y lliaws a aeth yn drechaf. A thra'r oedd yr offeiriad yn adrodd melldith yn erbyn y tlodion a anrheithiau'r ŷd, fyrthiodd cafod o genllyfc gydâ mellt a gurodd yr ŷd i lawr, fel pedfpafau gertwyni wedi myned drofto, ac ni phrofau nac anifeiliaid nac adar mono. Yn unig ŷd y gŵr trugarog hwnw er ei fod ym mhlith ydau'r lleill a fu diangol heb ir gafod ei gyffwrdd.

Yn yr Jwerddon ym mhlwyf Dunagor yr oedd pregethwr duwiol elwid Mr Steward, yr hwn wrth farw yn y flwyddyn 1634 a ddywedodd y digwyddau fyddoedd gwaeth yn y teyrnafoedd hyn nag a fuafau yn Germania: ac y byddau i gelaneddau miloedd o'r rhai a ddirmygafent yr efengyl fod ar wyneb y ddaiar fel tom heb eu claddu. Ac eb e, *gwae di Dunagor, canys bydd danadl poethion a glafwellt hirion yn amlach ynot ti, nag a fu erioed bobl i wrando gair Duw.* A chyn pen y deng mhlynedd cyflawnwyd ei brophwydo-

phwydoliaeth ef yn dra dŵys ysowaeth.

Yr oedd pregethwr arall yn oddiweddaf a suasai fyw yn rasol a chariadus: yr hwn ddiwrnod cyn ei farw a Esponiodd yr 8 PenodAt y Rhufeiniaid dros ddwy awr, ac yn ddisymwth efe attaliodd ac a dywedodd, *beth yw'r disgleirdeb a welai? tywyniad sy Achubwr yw, bydd wych sŷd, croesaw nefoedd: y seren ddydd o'r uchelder a ymwelodd â 'nghalon i.* A chan droi at weinidog yr efengyl a ddaethai i edrych am dano ef, efe a ddywedodd wrtho ef, *yr wyfi yn dymuno arnoch chwi bregethu yn fy nghladdedigaeth i, canys heno y byddaf farw. A dywedwch hyn oddiwrthifi, a dywedwch ef yn hyderus, fod Duw yn gwneuthur yn gwcithasgar â dŷn. Yr wyfi yn teimlo ei drugaredd ef, ac yn gweled ei Fawrhydi ef, pa un ai yny Corph, ai allan o'r corph nis gallaf ddywedyd, Duw a wyr. Ond yr wyfi yn gweled pethau anrhaethadwy.* A chan fod yn gyflawn o gariad Duw yn ei yspryd efe a ymgyfodai tua i fynu, a thua'r boreu efe a ymadawodd â'r bŷd gan ddywedyd y geiriau hyn; *O y cyfnewidiad bendigedig a gafi oddiwrth nôs at ddydd, oddiwrth farwolaeth at fywyd, oddiwrth drifstwch at gyfur, oddiwrth sŷd cynhennus i fod yn y nêf! O fy 'nghyfeillion anwyl yr wyf yn tostirio eich gadel chwi o'm hol. Ond y peth yr wyfi yn ei deimlo yn awr, gobeithio y teimlwch chwithau cyn eich marw, fod Duw yn gwneuthur yn gweithasgar â dŷn. Ac yn awr gerbyd tanllyd a cherchaifi Elijah, dwg fi i'm dalfa fendigedig. O Angylion bendigedig dygwch fi i fonwes fy anwylyd goreu. Tyred Arglwydd Iesu, tyred yn fuan, Amen. Amen.*

Yn yr Iwerddon Cysododd y Gwyddelod yn ddisymwth, a lladdasant o'r Saeson a Chymru ddau cant *Oed. Cr.* 1641.

cant o filoedd mewn dau fis, cyn cael hamdden iw gwrthfefyll hwynt; ond wedi hynny daeth dial dwys arnynt hwythau. Dwy flynedd cyn hynny Cododd y *Scotiaid* mewn arfau. Ac ychydig gwedi hynny torrodd allan y rhyfel brwd yn *Lloegr*, am yr hwn anghydfod anafus, nid rhaid yn awr fôn yn helaethach, am fod ei friwiau, neu ei greithiau iw gweled etto. Yn unig Cyfaddefwn drugaredd *Duw* yn peri i wybodaeth efangylaidd chwanegu drwy ymdrech y ddwyblaid. Oddiwrth ymgur y dûr a'r Calleſtr ennynnodd goleuni gyda'r tân. Cyn y rhyfel, hi lawiodd wenith, a digwyddodd amryw ryfeddodau eraill.

Yn *Piedmont* rhuthrodd *Duwc Safoy* am ben y *Waldeſiaid* duwiol; a digwyddodd yr un rhyw drychinebi *Broteſtaniaid Cracofia yn Polonia*. Cafodd y rhai gorthrummedig o'r ddau fan hynny gymmorth Caredig allan o *Loegr*, y gafelwyd iddynt drwy ddefofiwn ewyllyſcar; fal y derbyniodd y *Sainct Cyſtuddiedig o Judea* eluſen haelionus oddiwrth eglwyſydd y cenhedloedd yn amſer yr *Apl. Paul*. Cyn pen yr hanner blwyddyn gwedi, cafodd *Duwc Safoy* ei lenwi â gwaed drwy ddwylo 'r *Hiſpaenwyr*.

Bellach wedi bwrw golwg ein meddwl ar bob gwlâd, ac oes, ni allwn ddywedyd yn hŷ, na bu gwybodaeth yr efengyl er ioed eglurach, a'r ſcrythurau, a llyfrau da amlach; a rhattach, na phregethwyr ſedruſſach, oddieithr y Propphwydi, neu 'r apoſtolion â'u cymdeithion, nag ydynt yr amſer hwn ynheirnafoedd y Gorllewin, lle mae adgweiriad a rhydd-did crefydd. Yr Arglwydd a roddo ei râs i wneuthur ein bucheddau yn gyfattebol ir cynorthwyau, fal na ddiffodder yr yſpryd,

ryd, ac na thywyller moddion grâs.

Ac am deyrnaſoedd y dwyrain, gobeithio nas gorthrymma coel-greſydd *Mahomet* mor eſengyl yn y gwledydd hynny yn oeſtadol. Amlygwyd (mi debygwn) arwydd o hynny ir *Twrciaid* yn *Medina*, lle mae bedd *Mahomet*, i ymweled a pha un yr ymgaſclant o bell. Canys ar ol i daranau dychrynllyd a themmeſtl ddeffro meddyliau'r bobl yno, gwelwyd y geiriau hyn yn ſcrifennedig â llythrenau *Arabaidd* yn y ffurfafen, *oh Pam y Creâwch mewn Celwyddau!* Ac yn foreu gwelwyd gwraig ſiriol mewn gwiſc wen, a'r haul oi hamgylch, a llyfr yn ei llaw, yn dyſod oddiwrth y gogledd-orllewin, a chyferbyn â hi yr oedd megis byddinoedd o *Perſiaid* ac o'r *Twrciaid* mewn trefn barodol i ymlâdd â hi: etto hi ſafodd yn ei llê, ac a agoroddy llyfr ydoedd yn ei llaw hi; ar hynny ffoawdd y byddinoedd, a diffoddodd yr holl lampau wrth ſèdd *Mahomet*. A bu hyn beunydd dros dair wythnos. *Cynhyrfwyd un o'u offeiriadau hwynt i eſponi iddynt y ddrychiolaeth, gan ddywedyd, mae fal ac y darfu ir* Juddewon, *a'r* Criſtnogion *ddigio* Duw *wrth droi at ddelwau, a defodau dynol, oddiwrth ei gyfraith Sanctaidd eſ; felly ddarfod iddynt hwythau, un ai llygru deddf* Mahomet, *a'r euogrwydd o hynny a barafei i'r byddinoedd ffoi; Neu fod llyfr arall nid oeddent yn ei chwilio, yr hwn pan agorid eſ, y barai i bob gallu dynol gilio: Am hynny, eb eſ, yr wyſi yn ofni, nad yw ein crefydd ni ond llygredig, a'n prophwyd ni ond hudol; yr hwn a addawodd ddychwelyd attom cyn hyn, ac ni chyflawnodd, ie daw* Criſt *y ſonir am dano, ac a ſydd ag enw mor ddiſclair a'r haul. A hynny tros byth.* Am hyn poenwyd a lladdwyd yr offeiriad. *Oed. Chr.* 1620.

Ond byw yw'r Arglwydd nêf y ddichon ddwyn i ben yr hyn yr anfonodd y weledigaeth iw ragarwyddocâu.

1664. 1665. Gwelwyd tair feren gynffonog odifewn yr un hanner blwyddyn, ac ychydig gwedi torrodd allan gornwyd angerddol yn Lloegr, a gwympodd fwy o bobl na haint y nodau yn amfer Dafydd. A lloſcodd Llundain: a bwriodd mynydd Ætna dân ofnadwy allan o honaw, a loſcodd drefydd, ac a wnaeth niwed mawr yn Sicilia. Canys ar ol dair argryn dychrynllyd, tarddodd allan o'r mynydd ffrwd boeth o ryw fettel toddedig, ac a aeth yn ddilyw o chwe milltir o lèd, gan ddifetha pethau y ffordd y cerddodd.

2 *Chron.* 23. 24.

PEN. XVI.

Hanes y ffydd ymmhlith y cymry.

WRth ddwyn hanes y ffydd mewn gwledydd eraill, tybiais yn ddyladwy draethu beth yn helaethach am ei helynt yn ein gwlâd ein hunain, mal na byddem ddieithrol ac anghyfarwydd gartref.

Diammau fod ein Cenedl ni er ys hîr amfer wedi gwladychu yn yr ynys hon, a thebygol ei dyfod ar y cyntaf oddiwrth wledydd y dwyrein, gan fod cymaint carenydd rhwng ein iaith ni ag ieithoedd y parthau hynny. Mae ei llefariad yn aml fel yr Hebraeg yn dyfod oddiwrth gyffiniau y galon, o wraidd y geneu, ac nid fel y Saefonaeg oddiar flaen y tafod. Yr ydoedd cydnabyddiaeth rhwng ein gwlâd ni â'r Groegiaid. Canys darllennir

i Bla-

i Bladud brenin Prydain fyned ir Athen er mwyn dyfceidiaeth:a phan ddychwelodd adref dûg bedwar o Philofophyddion oddiyno gyda'g ef i ddyfcu'r celfyddydau yma; ac i hynny feiliodd yfcolion dyfc, ac wedi hynny bu'r Druidion yn ddyfcawdwyr doethion o Baganiaid. Ond tebyg fod ein gwladwyr yn anufudd ir gwybodaeth anianol ydoedd yn eu myfc. Canys yn yr oes honno, tra yr oedd Rhifall yn rheoli, glawiodd gwaed dros dridiau yn ddibaid; ac o hynny cododd y fath liaws o wybed gwenwynllyd, ac ar ol y rheini canlynodd y fâth blâ marwol, oni ddeleuwyd agos genedl a henw y Britaniaid. Mewn amfer attyta-fant dracheſo,a gorchfugâfant ogledd Germania, a thrwy guttundeb rhoddwyd Cambria merch Beli brenin Prydain i dywyfog y wlad honno, ac o honi y daeth y Cimbriaid, cenedl enwog o'r gogledd. Yn y drydydd oes gwedi bu Llûdd yn frenin clodfawr yma, efe a ehengodd ac a gadarnbâodd y brifddinas, pryd y galwyd hi caer-Lûdd, ac oddiwrth hynny Llundain, fel y tybia rhai, ond gwell gan eraill gymmeryd o honi yr enw oddiwrth longau, megis Llong-ddinas. Yn ol hyn anfonodd Prydain fyddun gynorthwyol i Gallia yn erbyn Cæfar ydoedd yn rhyfela yno. Yr hyn a gyffrôdd yRhufeiniaid(y gwncweriodd y rhan fwyaf o'r bŷd o Perfia hyd yma) i oreſcyn yr ynys hon, ydoedd anghydnabyddus iddynt hyd hynny. Ond prifiodd y Britaniaid yn anioddefgar dan iau y Rhufeiniaid, a daeth Claudius Cæfar attynt iw llonyddu. Dracheſn cododd Prydain gyda y brenin Arifog i geifio ynnill ei rhydd-did; ac er i Glaudius Cæfar ddyfod eilwaith i mewn yn llidiog,etto gorfu iddo guttuno ag Arifog a rhoddi ei ferch Geniſta iddo, ac ammodau eſmwythach o

Oed. byd. 3300.

ufudd-dod ir ynys. Yn amſer ei mâb hwy Meurig, yr heidiodd y Phichtiaid i mewn o Scythia (telly y gelwid gwledydd y gogledd, Llychlyn, a rhan o Germania gynt) y rhai a diriaſont yn Scotia i nythu yno. Galwyd yr Jwerddon yn Scotia (y ſydd air Groegaidd yn arwyddoccâu *tywyllwch*) o herwydd bod ei choedydd yn ei gwneuthur yn ynys dywyll. Ond darfu ir Scotiaid eu hwylio hwynt oddiyno ir * Albain gogledd Prydain. Lladdodd Meurig eu brenin hwy mewn brwydr, a chaethiwodd nhwythau, ond goddefodd iddynt fyw yn eithafoedd anial y wlâd, a alwyd Caethnes. Galwyd hwynt Phichtiaid neu Graithuniaid, am eu bod yn gwneuthur creithiau ag argraphiadau ar eu cyrph, tebyg mal yr ymddangoſent yn fwy ofnadwy iw gelynion.

*Scotland.

Wedi dyfod peth caethder bydol ar ein gwlad ni o Rufain, anfonodd Duw iddi foddion rhyddid yſprydol o Gaerſalem, gan ganhiadu yr eſengyl yn gynar iddi, ſef yn nyddiau 'r apoſtolion, er pelled ydoedd hi oddiwrth Paleſtina. Dywed Euſebius fyned rhai o'r apoſtolion *ir ynyſoedd a elwir Brittanaidd.* Ac aeth ffydd ein henafiaid mor enwog drwy 'r bŷd, oni byddai athrawon godidoccaf y Criſtnogion yn boſtio o honi ynheirnaſoedd y dwyrain a'r gorllewyn; Ac yn argymmennu oddiwrthi i brofi Duwdod Criſt, gan fod ei deirnas ef yn treiddio, lle nid allai un Cæſar finio. Felly y dengis Tertullianus y ſcrifennodd gyda'r Criſtnogion yn yr ail canſed o oedran Criſt. Medd ef, Brittannorum inacceſſa Romanis loca Chriſto ſubdita. *Mae'r mannau o'r eiddo 'r Britaniaid ſydd anhygyrch ir Rhufeiniaid, wedi ymroddi i Griſt.* Yr oedd rhai o'n cenedl ni yn yr Albain

ἐπὶ τὰς κατὰ Βρεττανικὰς νήσους.

bain heb fyned dan awdurdod y Rhufeiniaid. A thystiolaethiff Origen, y scrifennodd ynghylch pedair blynedd a deugain gwedi, Virtus Domini Salvatoris & cum his est, qui ab orbe nostro in Britannia dividuntur, & cum universis qui sub sole in nomine ejus crediderunt. *Fod rhinwedd yr Arglwydd Jachawdwr gydâ rheini yn Prydain a wahanwyd oddiwrth ein byd ni, a chydâ phawb dan haul a'r a gredasant yn ei enw ef.* Ac medd Theodoret, *ein pyscodwyr ni, a'n Publicanod, a'r Gwniedydd a ddugasant y cyfreithau efengylaidd ir holl genhedloedd, ac ynnillasant nid yn unig y Rhufeiniaid, ond y Scythiaid hefyd, a'r Indiaid, a'r Ethiopiaid, a'r Persiaid, a'r Brittaniaid, a'r Cimbriaid, a'r Germaniaid i dderbyn deddfau'r Croeshoeliedig.* A gwelodd Duw yn dda beri i'r wreichionen efengylaidd yn Prydain losci tua'r nenn, ac ennyn zêl yn y brenin Lleucius, yr hwn a fedyddwyd ynghylch y naw ugainfed flwyddyn o Oedran Crist. Galwyd hwn *Lles, a'r Lleufer Mawr*, am y gwybodaeth a ddigwyddodd yn ei amser ef; canys canlynodd y Penaethiaid ei esampl ef; a chynorthwyodd Doewan a phregethwyr eraill y ffydd yma yn odidog. Ac felly aeth ein gwlâd ni yn flaenor ar yr holl deyrnasoedd yn proffessu'r efengyl drwy gyffredin gyngor. Tybir iddi ymgaloni mewn Cristnogaeth beth yn hyfach, o herwydd i ymerodr Rhufain gyhoeddi ei ewyllis da tuag at y Cristnogion, am iddynt weddio am law iw fyddyn ef oedd ar drigo o syched. Dywed Croniclau Germania

οἱ δὲ ἡμέτεροι αλιεῖς, καὶ οἱ τελῶναι, καὶ ὁ σκυτοτόμος ἅπασιν ἀνθρώποις τοὺς εὐαγγελικοὺς προσενηνόχασι νόμους, καὶ οὐ μόνον Ρωμαίους, ἀλλὰ καὶ τὰ Σκυθικὰ ἔθνη, καὶ Ἴνδους, καὶ Αἰθίοπας, καὶ Πέρσας, καὶ Βρεττανοὺς, καὶ κίμβρους, καὶ Γερμανοὺς δέξασθαι τοῦ σταυρώθεντος τοὺς νόμους ἀνέπεισαν.

Oed. Cri. 180.

mania i Leucius adel ei reiolti bydol a myned i bregethu 'r efengyl mewn rhannau o honi, a throi llawer at Grist. Ond tebyccaf mae Brittwn arall o'r un henw a wnaeth hynny cyn ei amser ef. Wedi marw Lleucius yn ddiblant, daeth Seferus yr ymerodr i heddychu Prydain ydoedd gythryblus: a gwnaeth glawdd ar draws yr Albain i attal y Phictiaid. Gwedi hynny ynnillodd y Britanniaid eu rhydd did gan ddifetha y Rhufeiniaid; a phan ddaeth * Custeint a byddyn yn eu herbyn hwynt, heddychasant ag ef; yr hwn ai dyhuddodd hwy ai swynder, ac a briododdeu penadures Helen, merch hawddgar, ddyscedig, a chrefyddol, o'r hon y ganwyd iddo y mâb grasol * Custenyn; yr hwn wedi marw ei dâd ynghaer Ebrauc, a aeth yn ymerawdr; ac a brifiodd yn Swccwr daionus ir Cristnogion oll. O prydain y pryd hyn y dechreuodd Duw weithio dywygiad yn y byd drwy Cwstenyn fawr, fal y dywed ei broclamasiwn ef at Raglawiaethau palestina. *Pan farnodd Duw fy ngweinidogaeth i yn gymwys i gyflawni eî ewyllys ef, gan ddechreu o fôr Prydain, a'r parthau tua machlud haul, gyrrodd ar ffô y dŷgan oeddent yn gorthrymmu dynion, a chynnyddodd y ffydd ddedwyddaf.* Cydnabyddir hyn yn anrhydedd i prydain, *olau etewyn o eirias ei Sanctaiddrwydd y lewyrchodd ir ymerodraeth oll.* Casclodd Cwstenyn gymanfa gyffredin Eglwysig yn Gallia, yn y flwyddyn o oedran yr Arglwydd, trychant a phedair ar ddèg, ac un arall yn Nicea wedi hynny, ac yr oedd Escobion Prydain ymhob un o'r ddau. Ac nid oedd milwyr Britaniaidd ddieithrol iw fyddinoedd ef, wrth fwrw gorthrymwyr y bŷd i lawr. Ynghylch ôes gwr gwedi, aeth ein gwladwyr ni yn dra li-

* *Constantius.*

* *Constantinus.*

blwydd. yr Arg. 306.

Ffrainge

oſog i ganlyn Macſimus eu rheolwr i Gallia; yr hwn a geiſiodd ddiſwyddo ei ſeiſtreid ymerodron Rhufain, a chymeryd eu llê hwynt. Y pryd hynny ſel y cybir y plannodd Canon Meriadoc Arglwydd Rhywſonioc wŷr Gwynedd yn* Llydaw. Y rhai a anfonaſant adref am wragedd, ac hebrynguyd iddynt un mîl ar ddêg o wyryſon; y rhai a daflwyd gan demmeſtl ar y môr i ran o Germania; lle y derbynwyd hwy gan genhedloedd Barbariaidd gelyniaethol i Prydain, a ſynnaſent ymrewydd â hwynt, ac am nas Caent eu llâdd a orugaſant. Y mae parch i goffadwriaeth y merthyron hyn am eu diweirdeb. Ar ol hynny gorſu i Frittaniaid Llydâw, gymeryd gwragedd o'r wlâd honno, a thorraſant eu tafodau hwy, rhag iddynt lygru Cymraeg eu plant. Ond wedi ir Phichtiaid ymgyfathrachu â'r Scotiaid, preſwylwyr yr Jwerddon, Cawſant eu Cynorthwy nhwy i flino ein henafiaid ni, ac i helaethu eu terfynau, a rhyngthynt meddianaſant yr Albain. Ac oddiyno mewn amſer anrheithiaſant Loegr, ydoedd rŷ wan iw gwrthſefyll hwynt, gan ir Rheolwyr Rhufeiniaidd dynnu allan o honi agos yr holl wŷr jevaingc iw Canlyn hwy ar bob achlyſur i Gallia, a'r Ital, i ddiffyn ymerodraeth Rhufain, ydoedd yr amſeroedd hynny yn cael lloneid ei dwylaw gan amryw elynion gartref. Wedi'r bedwaredd ganſed o oed Criſt, mae tyſtiolaeth hynod am ffydd y Britaniaid yn Scriſenâdau un o'r hên bregethwyr Groegaidd, clod-fawruſſaf yn y bŷd, ſef Joan * Aureneu o Conſtantinopl.

Oed. Cri. 400.

* Letavia.

Oed. Cri. 450.

* Chryſoſtomus.

Profodd ynyſoedd Prydain rinwedd y gair, canys ſeilwyd

Αἱ Βρεττανικαὶ νῆσοι τῆς δυνάμεως τὸ ῥῆμα τοῦ θεοῦ ἐδέξαντο, καὶ

egl-

γάρ κἀκεῖ ἐκκλησίαι πεπήγασι.
Κἂν εἰς τὸν ὠκεανὸν ἀπέλθης, κἂν πρὸς τὰς Βρεττανικὰς νήσους ἐκείνας, κἂν εἰς τὸν εὔξεινον πλεύσης πόντον, κἂν πρὸς τὰ νότια ἀπέλθης μέρη, πάντων ἀκούσῃ παντάχου τὰ ἀπὸ τῆς γραφῆς φιλοσοφούντων, φωνῇ μὲν ἑτέρα, πίστει δὲ οὐκ ἑτέρα, σολοικίζουσι μὲν τῷ φθόγγῳ, εὐσεβοῦσι δὲ τῷ τρόπῳ.

eglwysydd yno. Od ai i'r môr mawr, neu'r ynysoedd hynny o'r eiddo Prydain, neu os Llongwrio a wnei i fôr Euc̄inus, neu od ai i barthau yr Dehen, cai glywed pawb ym-hob man yn philosophyddio ynghylch pethau'r scrythyrau, yn ddiau ag iaith arall, ond nid â ffydd arall, â garw-sain y llefarant, ond buchedd dduwiol a ddilynant.

Ynghylch hyn Cysododd o Gymry un Morgan, yn Ladin gelwir ef Pelagius, tybir mae Abbad Bangor îs y coed oedd ef, a thano swy na dwysil o synych. Aeth hwn i Rusain, ac oddiyno i Gaersalem, sel yr oedd arfer Cristnogion y pryd hynny i ddysod ynghyd yno o bob parth ac iaith, er mwyn gweled gwlâd ganedigaeth Crist ai apostolion. A phan ddeuent ynghŷd byddai ganddynt yr un ffydd, er nad oeddent o'r un iaith. Ymgysarfyddai pob cenedl ar ei phen ei hun, ond yr un Crist a addolent, a'r un rheol wirionedd y gadwent. Bu ein Gwladwr ni yn enwog, ac yn anwyl am ei sancteiddrwydd ai wybodaeth ymysc y Cristnogion, a'r dyscawdwyr godidoccaf yn y bŷd; megis escob Rhusain, ac Awstin escob Hippo. ond er diwedd athrawiaethodd ymmhob gwlâd, sod ewyllis rŷdd gan bob dŷn, heb bechod gwreiddiol; a pharodd anghydsod mawr ymhob mann. Yscrifenodd Hierom ydoedd yn Bethlehem, yn erbyn Morgan ydoedd yntef yn Jerusalem, gan gymwyso yn ei erbyn ef eiriau Jeremi, *oddiwrth brophwydi Jerusalem yr aeth halogrwydd allan ir holl dir.* Gan ei sod ef yn cael

Jer. 23. 15.

achlysur

achlysur i bâu ei athrawiaeth ymmysc y Crisnogion a ymgysarsyddent yno o'r holl fŷd. Ar ol hyn magodd llid, a lladdodd dilynwyr Morgan rai o braidd Hierome, a lloscasant eu monachlogydd. A phan ymrwystrodd trigolion Prydain hefyd â'r ddadl hon, cawsant gan escobion Gallia anson Garmon escob Antisiodor, a Lupus escob Trecasse attynt i gynorthwyo eu ffydd. Yrhai wedi dysod i'n gwlâd ni, lle 'r oedd Cristnogaeth wedi gwanhychu, a droesant lawer at ddaioni wrth ymddadlu yn gyhoeddus, a phregethu yn aml. A phan oedd ein henasiaid ni mewn Cysyng gyngor o herwydd y Phichtiaid a'r Saeson ydoedd yn rhuthro arnynt yn unsryd, Ar ol aml ymprydiau, a gweddiau derchasedig, a chymûnau, arhôsodd Garmon gyda thyrsa ddewisol o ddyscyblion mewn Cynllwyn: a chynted ag y daeth byddyn y gelynion yno, yn ddisymmwth Crôchlesodd ef ai ddilynwyr, gan adrôdd *Allelvia* deirgwaith, onid oedd y wlâd yn dadseinio: a thrawodd y sath fraw yn y Saeson a'r Phichtiaid, oni ddiangasant gan fwrw eu harsau ymmaith, a boddodd llawer o honynt yn yr afon wrth geisio myned trwyddi ar frŷs. Digwyddodd hyn yn ymyl yr Wyddcruc yn sire y fflint, a gelwir y lle *Maes Garmon* hyd heddyw. Dyma suddugolieth debyg i un Gideon gynt, pan ffôawdd gwersyll y Midianiaid wrth glywed rhai diarsog yn llesain *Cleddyf yr Arglwydd a Gideon.* Gwedi hyn darsu ir Gwyddyl Phichtiaid ddysod i Fôn, a churo 'r Britaniaid mewn man a elwir *Cerrig y Gwyddyl.* Ond gwedi hynny Caswathon Law-bir tâd † Maglocun ai hymlidiodd hwynt ymmaith. Pregethodd Ninianus Brittwn yr esengyl ir Phichtiaid yn yr Albain, *Barn.* 7. 20.

† *Maelgwyn. blwydd. yr Arg.* 420.

Albain, ac a ffynnodd yn ei waith: ac ymhen deuddeg mlynedd gwedi daeth Padrig Britwn arall i bregethu ir Jwerddon. Ganesid ef yn yr Albain yn nhrèf Banafau, yn nhalaith Tabernia, ai dâd oedd Ddeon, ai daid yn henuriad. Cipiodd yr Scotiaid hwn gyd a'g eraill yn garcharor yn ievangc, a gwerthasant ef yn gaethwas yn yr Jwerddon, yn yr hwn gyflwr y trèdd ef at Dduw yn ddifrifol, gan weddio yn aml; ac wedi hîr gystudd cafodd ddychwelyd adref: a phan oedd ei rieni yn daer arno am aros gyda hwynt, mewn breuddwyd gwelai un o'r Jwerddon yn rhoi llythr iddo ef, yn nechreu 'r hwn y darllennai, *Ilais y Gwyddelod*, a thybiai glywed ei llefain hwynt yn un-air yn dywedyd, *yr ydym yn deisyf arnati fachgen Sanctaidd ddyfod a rhodio yn ein mysc ni etto*; a chynhyrfodd hynny ei galon ef. Aeth i Gallia at Garmon a Marthin dyscawdwyr ysprydol, nerthol, ac arbosodd gyda hwynt rai blynyddoedd i ymgadarnhâu mewn grâs a dysceidiaeth. Ac oddiyno Cyrchodd i Rufain, lle cafodd hyfforddiant a chymdeithion i ddychwelyd ir Jwerddon, lle y tycciodd ei weinidogaeth ef yn ddirfawr, i droi'r tywysogion a'r Cyffredin at ffydd Grist, yr hon oedd yno ymysc rhai o'r blaen. Cymmerth ef hefyd boen rasol yn Nheubarth Cymry wrth fyned ar ei daith. Ychydig gwedi hn Dubricius o Gaerlleon ar wysc, a Chadoc o Langarfan, a Gildas Albanus yn hyfforddiant mawr i ddysceidiaeth a chrefydd yn Ghymry. Dywedir am Gildas, pan oedd ef yn pregethu, a dyfod o fam Dewi (a bi yn feichiog arno ef) i mewn iw gynnulleidfa ef, yn ddisymwth Syrthiodd attal ar ei bregethiad ef, fel
Luc. 1. 22. ar lefarydd Zacharias, a chwedi hynny prophwydodd

dodd ir wraig *y byddai'r plentyn y ddygai hi yn ei chróth yn odidog yngair y gogoniant.* A phrifiodd y peth felly. Canys aeth Dewi yn Archescob tra ysprydol, ac anrhydeddus. Yr ydoedd Mynyw mor hynod am grefydd yn ei amser ef, ac y dywedid y gallai Cristion gael Cymaint adeiladaeth iw enaid wrth fyned yn Bererin yno ddwywaith, ac y gai o fyned i Rufain unwaith.

Meneviam si bis, & Romam si semel ibis:
Merces aqua tibi redditur hic & ibi.
Dôs i Fynyw ddwywaith, Ac i Rufain unwaith.
A'r un elw cryno, Y gai di yma ac yno.

Ynghylch y pryd hwn gwnaeth Teilaw, a Phadern hefyd eu rhannau yn gwasanaethu eu cenhedlaeth. Yn yr oes hon yr ydoedd gan y Britanniaid dri Archescob, un yn Llundain, un yn Ghaer Ebrauc, ac un yn Ghaer Lleon ar Wysc, yn Neheubarth Cymru, heb law Escobion, a gweinidogion. Yr oedd eglwysydd Cymru dan lywodraeth Archescob Caer Lleon ar Wysc, a rhai Lloegr dan lywodraeth Archescob Llundain, a rhai yr Albain a'r gogledd-dir tu hwynt i Humber, dan lywodraeth Archescob Caer Ebrauc. Yr ydoedd hefyd yscoldai nodedig yn amryw fannau, lle 'r oeddid yn dwyn philosophyddion i fynu, ac athrawon, ac enwediccaf coleds yn Ghymru ydoedd yn Ghaer Lleon ar Wysc.

Ond am fod Prydain *yn gwybod ewyllis ei Harglwydd ac heb ei wneuthur, darperir iddi lawer o ffonnodiau:* ac am ei bod yn dir cyndyn, *yn dwyn drain a mieri yn lle llyssiau cymwys ir llafurwr nefol, aeth yn anghymeradwy, ac yn agos i felldith a llosciad.* Ynghylch Pedwar Cant a thrugain o oed Crist, mae'r Rhufeiniaid y fuasent yn lly- *Oed. Cri.*

wodraethu arni yn bîr, yn ei gadel yn weddw. Mar 'r Phichtiaid a'r Scotiaid yn rhuthro iddi fel *bleiddiaid yr hŵyr*, ac mae'r Saeſon anghredadwy, pobl o ogledd-dir Germania, a gyflogafid iw gwrthſefyll hwy, yn lle cynorthwywyr yn prifio yn llwyr ddiniſtrwyr ein cenedl ni: a thrwy dân a chleddyf yn troi'r dinaſoedd yn garneddau, a chelaneddau 'r dinaſyddion yn domennydd, a'r hyn nis gallent ei reibio wrth chwareu 'r llewod, yſclyfaethent ef ar ddull llwynogod. Canys wedi ir Britanniaid eu curo hwy yn ddewr, ac wrth gyttundeb ddyfod o'r penaethiaid ynghŷd yn ddiarfog i dynnu ammodau heddwch, ac i gydwlêdda â'u penaethiaid nhwythau, cawſant eu llâdd yn dwyllodrus â chyllill birion yngwaſtadedd caer † Caradoc. A rhoddes hynny o drychineb fantais ir dihirwyr i oreſcyn llawer o'r ynys. Ond drwy ddewrder a phwyll Emrys Aurelianus, a'i frawd Uthr, a'i nai ef y brenin Arthur, gweſodd Duw yn dda roddi'r Maes ir Britanniaid mewn llawer brwydr, ac attal gerwindeb y Saeſon, nas gallaſant mo ddifrodi ein henafiaid ni i gyd a'r unwaith. Canys heb law Cymru glynaſant yngorllewin a gogledd Lloegr amryw flynyddoedd, wedi ir Saeſon breſwylio Llundain, a dwyrein barthau 'r ynys. Yn yr amſeroedd helbulus hyn goſododd rhai law Dduw at eu calonnau, ac ymroeſant iw waſanaethu ef gyda'g ofn a dychryn. O'r cyfryw yr ydoedd Centigernus, yr hwn a Seiliodd fonachlog Llanelwy ynghylch y flwyddyn 560: ordeinwyd ir mynych oeddent naw cant ymrannu, fel y delai'r naill dyrfa i mewn i addoli Duw, pan ddarfyddai ir llall; fel na pheidiai addoliad Soniarus un amſer. Oddiyno aeth

† *Salisbury.*

aeth ef i Glascu yn yr Albain, Lle bu ef yn hyfforddiant mawr ir efengyl, a Gildas Albainus hefyd. Clomen Celli yr un môdd a gyfododd lawer o fonachlogydd ym Mhrydain, a'r Jwerddon. A phan aeth i Glascu, ef a rhai oi ddilynwyr i ymweled a Chentigernus, Cyfarfuant ai gilidd dan ganu psalmau, Meddai 'r naill blaid *y Sainct ânt o rinwedd i rinwedd, ymddengis pob un ger bron Duw yn Sion. Meddai 'r llall, yn ffyrdd yr Arglwydd mawr yw gogoniant yr Arglwydd.* Anfonodd Americ brenin yr Jwerddon am Frittwn duwiol dyscedig elwid Gildas, (Ac a gyfenwir Badon) i adferu trefn eglwysig yn ei deyrnas ef, gan addaw ufuddhâu iw athrawieth ef. A phan gymmerodd yr athro ysprydol y gwaith mewn llaw, bendithiodd Duw ei orchwyl ef yn diwygio pethau cresyddol drwy'r Jwerddon oll, lle y llacciasent lawer er amser Padrig. Mae 'r Prydydd y ddaroganodd ynghylch y Coronog Faban, yn galw hwn yn brophwyd.

Psal. 84.7. *Psal.* 138. 5.

Coronog Faban y gaiff mawr urddas,
Medd yr hên Brophwyd a elwir Gildas.

Bu ef fyw yn y tô nesaf at y brenin Arthur, ac a scrifennodd lyfr Ladin y sydd etto iw weled, i fynegi helynt Prydain, ac i argyhoeddi ei wladwyr oi pechodau a'u peryglon. Ac o herwydd ei fod yn hynaf llyfr o waith Cymro a'r sydd iw gael yn brintiedig, a mwyaf ei barch, ac yn berthynasol i'm perwyl, wedi ei scrifennu at ein henafiaid ni ynghylch amser eu difrawd, darfu i mi ei dalfyrru, ai gyfieithu o'r Ladin ir Gymraec. Ac i'th hyfforddi iw ddeall ef, gosodais ymbell air ynghwrr y dalennau, y pennodau hefyd, a'r adnôdau, lle ceir yr scrythyrau y arferiff ef

Blwy, yr Arg. 564.

yn amſ, er nad oeddent wedi eu rhannu felly yn ei amſer ef.

PEN. XVII.

Llyfr Gildas yn argyhoeda'i ein henafiaid o'u pechodau.

† *Hwn a brintiodd y Llyfr gyntaf.*

RHagymadrodd † Polydorus Fergilius at Cuthbert Tonſtall Eſcob Llundain.

Pan i'm rhoddais ſy hun i ſcrifennu hiſtori Lloegr, ac er mwyn hynny i ddyſal chwilio Croniclau, darllenais yn Beda ddarfod i ryw hiſtoriawr gynt â'i henw Gildas, yn wylofus alaethu dinyſtr a phechôdau ei wladwyr y Britaniaid. A thra yr oddwn yn chwilio am dano, tŷdi goreu Eſcob, yr hwn wyt yn dra gofalus am chwanegu dyſceidiaeth, a gefaiſt y llyfr: A phan aeth y gair allan ymmyſc yſcolheigion gael hên awdwr, a bod chwant iddo, gwelais yn dda ei gyhoeddi, ac yntef yn grŷt mewn athrawiaeth. Os gwnaiff leſſâd, ſel y mae yn dra-buddiol, cyſrifer hynny i ti, am ei ddyſod o'r tywyll ir golau a thi yn arweinydd; bydd wych. 1525.

GILDAS FRITTWN YNGHYLCH ADFYD PRYDAIN.

Tewais â ſôn gyda mawr ofid Calon, ſel y mae'r Arglwydd chwiliwr yr arennau yn dŷſt i mi, dros ddeng mlynedd. Ond gwelwn yn ein amſer ni mal y galar-nâdodd Jeremi, *ſod y ddinas aml ei phobl yn eiſtedd ei hunan yn weddw, a thywyſſogeſt y taleithiau tan deirnged*, ſef yr Eglwys: a *thywyllu yr aur*, ſef llewyrch gair Duw. A darllennwn.

Galarnad. Jer. pen. 1. ac 4. 1.

ir

ir Arglwydd ddywedyd *y teſtid plant y deyrnas ir tywyllwch eithaf. Ac y torrid ymmaith yr oliwydden wyllt a impiaſid yn y dda, oddieithr iddi ofni.* Gwelwn faint o ddifrawch ſydd mewn pobl o'r oes hon, er ei bod yn dra phechadurus a du. Mewn zêl gan hynny i dŷ Dduw, a'i gyfraith, a chwedi ſy nghymmell gan weddiau Sanctaidd y brodyr, ymoſodais i lefaru, fel yr aſſyn y ddangoſodd ir Swynwr ſod angel â'i gleddyf noeth yn ei erbyn ef, er cael ei churo am ei phôen. *Math. 8. 12. Rhuf. 11. 17. Num. 22.*

Ynys Prydain ſydd fel priodas ferch wedi ei thrwſſio â llawer o dlyſſau. A chyn dyfodiad Criſt yn y cnawd addolodd ſynyddoedd, ac afonydd peryglus, a phethau cythreulig, (agos cyn amled a rhai 'r Aipht) llunian hyllion rhai o honynt ſydd eto iw gweled ynghylch Caerau anghyfanneddol Ond wedi i Griſt y gwir haul ddangos ei belydr, ſef ei orchymynion iddi, yn amſer Tiberius Cæſar; derbynwyd hwynt gan rai eneidiau yn llygoer, a chan eraill yn galonnog: ac yn yr erlid yn amſer Diocleſianus goleuodd lampau'r merthyron ynddi. Y rhai a ſaſaſant yn y maes yn ddewr gyda Chriſt yn wrryw ac yn fenyw. Y prŷd yr addurnwyd Albanus Sanctaidd â gwrthiau rhyfeddol yngolwg yr anuwiol, oeddent yn ei arteithio efam ei gyffes raſol. Canys drwy weddi wreſog agorodd ffordd i fyned drwy frwynen yr afon enwog Temes yn Droed ſych gydâ mîl o wŷr, a'r dyfroedd yn ſefyll o'u deutu fel caulennydd mawrion. Oni thrôdd yr arteithiwr o flaidd yn oen, i ſychedu am ſuddugoliaeth merthyrdod. Ond wedi'r demmeſtl, mae'r Criſtnogion â golugon ſiriol yn mwynhâu goleuni tawel yr awyr neſol. Adnewyddant

yr eglwysydd y swriasid i lawr, addolant â chalonnau ac â geneuau pûr, a gorfoleddant. A pharhâodd Cyssondeb hyfryd ymmysc aelodau Crist, nes i hocced Arrius ac eraill, sel nadrodd chwythu gwenwyn marwol amryw heresiau o'r tu hwnt ir môr i'n gwlad ni, yr hon oedd chwannog i glywed rhyw newydd-beth. Er diwedd gan fod yr ynys yn dwyn henw y Rhuseiniaid y rhai ai gorescynnasent hi er ys talm o flynyddoedd, ond nid yn arfer eu moddion hwynt, eithr yn bwrw allan egin chwerw, anfonodd ei gwyr jevaingc yn llûoedd i ganlyn Macsimus y Gormesdeyrn i Gallia, y rhai ni ddychwelasant adref mwy. Ar ol hyn y mae Prydain wedi Colli ei milwyr ai rheolwyr, yn tuchan dan orthrymder dwy genedl tramor greulon, sef y Phichtiaid a'r Scotiaid dros lawer o flynyddoedd, ac yn cael Cymmorth yn eu herbyn o Rufain ddwywaith. Ond gwedi dychwelyd o'r Rhuseiniaid adref (y rhai cyn ymadel a rybuddiasent ein gwlâd ni i ddyscu traenio, ac nad ymollyngai 'n llibyn o ran muscrelli iw chaethiwo gan genhedloedd nid oeddent ddim cryfach na hi) y mae'r Phichtiaid a'r Scotiaid (y rhai a orchguddient eu hwynebau a blew, yn hytrach na rhannau gwradwyddus eu cyrph â dillad) yn heidio drachefn, ac yn cymeryd meddiant o'r holl ogledd-dir, a darnir y dinasyddion alaethus gan y gelynion, sel ŵyn gan gigyddion: a newyn angeiriawl a lynai wrth y diangol, gan fod y wlâd mor synych wedi ei hyspeilio, nid oedd ymborth ond y ddelid wrth hela. Mae'r gweddillion truenus yn anfon llythyrau y adroddant sel hyn, *At* Aetius ocheneidiau'r Britaniaid. Mae 'r Barbariaid yn ein gyrru ni at y môr, a'r môr yn ein*

* *Rhaglaw Galliadan y Rhuseiniaid. blw. yr Argl. 446.*

ein gyrru ni at y Barbariaid, rhwng y ddau lleddir neu foddir ni. Yn y Cyfamſer wedi methu 'r genadwri, rhoddaſant eu hyder ar Dduw, ac nid ar ddŷn, a'r pryd hynny y gwnaethant gelanedd ymmyſc eu gelynion gyntaf; yn ol ymadrodd Philo, *Bydd Cymmorth Duw barod lle metho un dŷn.* Dros ennyd fechan peidiodd hyfder y gelynion, ond nid ein drygioni ni. Ciliodd y gelynion oddiwrth y dinaſoedd, ond ni chiliodd y dinaſyddion oddiwrth eu pechodau. Canys yr oedd ein cenedl ni, megis y mae yn awr, yn grèf i bechu, ac yn wan i ryfela. Yn yr yſpaid tangneddyf llifeiriodd yr ŷnys o bob rhyw lawnder cynhalieth, gyda'r hwn y cyd-tyfodd trythyllwch, oni ellid ddywedyd y pryd hynny yn gymmwys, *fod yn eich plith chwi y Cyfryw odineb*, ac na *henwir ymmyſc y Cenhedloedd.* Ac nid y bai hwnw yn unic, eithr pob rhyw lygredigaeth a'r ſydd ddigwyddawl i natur ddynol, ac yn gŵyr-droi pob daioni yn awr hefyd. Sef caſineb ir gwirionedd, ac ir rhai ai baero, ſerch ir celwydd, ac ir neb ai gwnelo, croeſawu'r drwg yn lle da, perchi gloddeſt am fwynder, a chwennych tywyllwch yn lle 'r haul, a chymeryd Satan am angel goleuni. *Eneinwyd Brenhinoedd nid trwy'r Arglwydd*, ond y rhai ſyddau creulonach nag eraill; a chyn pen nemawr, lleddid hwynt, a dewiſid rhai gwaeth. Ac os digwyddai i un o honynt fod yn hynawſach, ac yn nês at y gwirionedd, gwrthwynebid hwnw megis dinyſtriwr Prydain. Yr un môdd oedd ganddynt y pethau a ddigiau, a'r pethau a fodlonau Dduw; oni ellid ddywedyd wrth ein gwlâd ni—*hâd y rhai drygioni, gwrthodaſoch yr Arglwydd, digiaſoch Sanct Iſrael, i babeth i'ch tarewir mwy? cildynrwydd a chwant-*

1 Cor. 5. 1.

Hoſh. 8. 4.

Eſai. 1. 4, 5, 6.

wanegwch: y pen oll sydd glwysus, a'r holl galon yn llesc, o wadn y troed hyd y pen nid oes dim cysan ynddo. Ac nid y gwyr bydol yn unic oedd fel hyn, ond praidd Duw hefyd, a'u bugeiliaid. Yn y cysamser y mae Duw yn ewyllysio glanhâu ei deulu, wrth anson iddynt air fod eu hên elynion yn darparu dyfod attynt iw difrodi, ac i gymeryd y wlâd; ond nid ydynt well er hynny. *Gan na chymer gwâs pengaled addysc a'r eiriau; fflangellir yr ynfyd ac nid yw yn synied.* Canys y mae plâ angheuol yn llâdd cymmaint lliaws o'r bobl, nas gallau'r byw eu claddu. Etto Cyflawnir prophwydolieth Esai, *Gwahoddodd Duw i wylofain, ac i foeledd, ac i ymwregyssu â sachliain, ac wele lawenydd a gorfoledd, gan fwytta cîg ac yfed, a dywedyd, bwyttawn, ac yfwn, Canys y foru y byddwn feirw.* O herwydd nessâodd yr amser *i gyflawni eu hanwireddau fel rhai yr Amoriaid gynt.* Y prŷd y dallwyd y cynghoriaid a'r brenin balch i ollwn y Saeson ou gwirfodd ir ynys, iw cynorthwyo yn erbyn eu hên elynion. Oddioglud hurtrwydd meddwl y tywysogion! fel rhai *Zoan, y roddasont i Pharao gyngor annoeth.* Osnent* y Saeson o'r blaen fel angeu, ac etto gwahoddasont y bleiddiaid hynny i gorlan defaid. yn gyntaf daeth tair llongaid o honynt i mewn ir ddwyrein ran o'r ynys, lle 'r arhosasont drwy genad y brenin anhappys. Ac wedi dyfod torfoedd ychwaneg attynt, addawsant yn dèg dros drô, yr ymladdent dros eu lletteuwyr syber. Ond mewn amser gofynnant haelioni mwy, a thorrant eu cyngrair, a rhuthrant dros yr ynys o'r dwyrain ir gorllewin. Oni chyflawnwyd ynom ni air y prophwyd, *y cenhedloedd o Dduw y ddaethant i'th etifeddiaeth, halogasont dy*

Dihar. 29. 19. ac 27. 22.

Esai. 22. 12, 13.

Gen. 15. 16.

Esai. 19. 11.

* *Canys gwnaethent ruthr i Prydain o'r blaen, ac arferent yspeilio ar y mor.*

Psal. 79. 1.

deml

dem l Sanctaidd. Onid oedd dros yr holl wlâd gelain y trigolion gyda'r eglwyswyr, yn ddarnau hyd yr heolydd, ie yn dyrrau cymyscedig, megis mewn gwryf mawr y gwescir afalau ynddo, heb fêdd iddynt, oddieithr tai wedi syrthio neu foliau milod. Diangodd y gweddillion ir môr a'r mynyddoedd, gan oer-nâdu sal hyn, *Rhoddaist ni fel defaid iw bwytta, a gwasceraist ni ymmysc y cenhedloedd.* Ac mewn amser maent eilwaith yn ymgasclu ynghyd o bob parth, fel y gwenin ir cwch ar dymmestl; gan alw ar Dduw â'u holl galon, a llwythant y nefoedd ag aneirif weddiau na lwyr ddisethyd monynt; a than lywodraeth Emrys Aurelianus, gwr pwyllog, (rhieni yr hwn a laddesid yn y derfysc) maent yn rhoi cursa iw gelynion drwy help Duw. Ac o hynny allan weithiau byddai 'r dinasyddion, weithiau'r gelynion yn cael y maes; fel y profai 'r Arglwydd yn ol ei arfer, ydoedd Israel bresennol yn ei garu ef ai peidio, hyd flwyddyn gwersyll mynydd † Badon, a'r lladdfa ddiweddaf agos y wnawd ar y diffeithwyr, yr hyn oedd bedair blynedd a deugain, ac un mîs ar ol dyfodiad y Saeson i mewn, a'r amser y ganwyd fi. Nid aeth destrywedigaeth yr ynys, a'r cynorthwy y ddigwyddodd iddi heb ei ddisgwyl, fyth allan o gôf y rhai ai gwelsent. Am hynny gwnaeth y brenhinoedd, a'r penaethiaid, a'r eglwyswyr, a'r cyffredin, bob un eu dyledswyddau. Ond pan gyfododd tô arall ni wyddai oddiwrth ddim, ond y tawelwch presennol, dymchwelwyd gwirionedd a chyfiawnder, fel na welir mo'i hôl mewn grâdd yn y bŷd o ddynion; oddieithr ychydig iawn y sydd a'u bywyd yn hôff gan Dduw, ac au gweddiau yn cynal ein gwendid ni. Na thybied neb fy mod i yn

Psal. 44 11.

† *Bath.*

bwrw

bwrw attynt hwy, tra yr wyf mor hyf'yn cwynofain pentwr y rhai drygionus, y fydd *yn gwasnaethu eu bolian* a diafol yn hytrach na Chriſt. Canys i ba beth y celwn ni yr hyn y mae'r cenhedloedd oddiamgylch, nid yn unig yn ei wybod, ond yn ei ddannod? ſef bod gan Prydain frenhinoedd o dreiſwyr, a barnwyr o orthrymwyr, y ſclyfaethant y gwirion, ac a gadwant yr euog, a chanddynt lawer o wragedd putteinaidd, yn llocheſu lladron a godinebwyr, yn anudonwyr, yn codi terfyſcoedd ymmyſc eu gilidd. Megis y darfu ir gormeſdeyrn † Cuſtenyn y leni yn yr eglwys lâdd dau o'r hâd brenhinol, er iddo ymrwymo a llŵ cyhoeddus na wnai dwyll iw bobl. Wedi iddo o'r blaen yrru ymmaith ei wraig o ſerch ar butteiniaid. Oh pam yr wyti yn archolli dy enaid dy hun? Oh pam yr wyti yn ennyn y tân iti dy hun? edifarhâ a thyred at Griſt *y tâd daionus, y wnaiff*
Pſal. 34. 8. *wlêdd* o gyſſur nefol ir dychweledig, fel y profo *mor felys yw'r Arglwydd.* A pheth y wnei ditheu Aurelius Conan y ceneu llêw, onid wyti ar foddi yn yr unrhyw frynti o fwrdwr a godineb? oni
Pſal. 7. 12. *Deut.* 32. 39. throi at yr Arglwydd yn fuan, eſe *a chwery âi gleddyf attati* ar fyrder, *ac ni bydd a'th waredo di o'i law ef.* A thitheu Fortipor benllwyd rheolwr Gwent, tebyg i lewpart anllwiog o anwireddau, mab diras i frenin da, ſel Manaſſes i Hezechia, beth a wnei di yn cyffio yn dy orſedd-faingc dwyllodrus, halogedig gan fwrdwr a phutteindra? na threulia yr ychydig ſydd yn ol o'th ddyddiau

† *Y Cuſtenyn hwn aeth yn frenin ar ol Arthur. dywedir iddo edifarhâu am ei ddrwg gwedi hyn, a phregethu yr efengyl yn yr Albain, ai ferthyru ef yno.*

yn

yn digio Duw. Canys *yn awr y mae'r amser cymeradwy, a dyddiechydwrieth* yn tywynnu ir edifeiriol. A thitheu Cuneglas, pam y gwnei gymaint helbul i ddynion drwy ryfel cartrefol, ac i Dduw drwy aneirif bechodau, yn erbyn y gair sy'n dywedyd, *nas gall godinebwyr etifeddu teyrnas nef?* paid ath ddigofaint tuag at Dduw ai braidd, newid dy foddion, mal y bo iddynt hwy weddio drosoti, y rhai allant rwymo yr euog ar y ddaiar, a rhoi gollyngdod ir edifeiriol. Titheu hefyd * Maglocun, a yrraist gymmaint o frenhinoedd gormesol allan ou teyrn gader au bywyd, pam yr ymdreiglei yn y fath dduon bechodau, megis pettit wedi meddwi ar wîn Sodome? oni orthrumaisti drwy gleddyf a thân, dy * ewythr y brenin ai filwyr dewr, y rhai oeddent mewn brwydr, nid anhebyg yr olwg arnynt i genawon llewod? esceulusaist eiriau'r prophwyd y ddywed, *gwyr gwaedlyd a thwyllodrus ni byddant byw hanner eu dyddiau. Gwae di anrheithiwr, pan ddarffo it anrheithio i'th anrheithir.* Pan addunedaist fynd yn fonach, (ysgatfydd o ran pigiadau dy gydwybod) a chwedi troi o frân yn glomen, a hedeg rhag ewinedd creulon y gwalch i gelloedd diogel y Sainct; o faint fuasai llawenydd yr eglwys, oni buasai i elyn dynol ryw dy dynnu di allan oi mynwes hi! O fel y buasai gobaith nefol yn calonni yr ysprydoedd cystuddiedig, buasit heb *ddychwelyd fel y ci at y chwdfa!* Yn awr *rhoddi dy aelodau yn arfau anghyfiawnder i bechod a diasol.* Ni wrendi dy glustiau hyfrydlais dyscyblion Crist yn canu mawl i Dduw, ond dadwrdd gwenheithwyr celwyddog yn canu dy fawl dy hun. Ie yr wyti fel ebol gwyllt yn rhedeg drwy

1 Cor. 6. 9.

Math. 16. 19.

*Maelgwyn tywysog Gwynedd.

*Cathwallain.

Cas wallen

Psal. 55. 23.

Esai. 33. 1.

2 Pet. 2.

faeusydd

faeuſydd anwiredd, yn tybied ſod y fan lle ni bu yn felyſach, ac fyth yn myned rhagddo. Canys gan ddirmygu dy wraig briod, ceraiſt wraig gwr arall, ac yntef yn fyw, a hwnw nid eſtron, ond mab dy frawd. Ac i ſoddi dy warr galed yn ddyfnach, bwriaiſt arni ychwaneg o bwys euogrwydd, gan i ti drwy hocced y ſudrog, lâdd dy wraig dy hun, a gwr y llall, iw chymeryd hi attat. Pa wr duwiol wrth glywed y fath beth, nad ocheneidiau ei ymyſcaroedd ef? Pa eglwyſwr a'r ſydd a'i galon yn union tuag at Dduw, na ddywed gyda'r prophwyd, *pwy a rydd i'm pen ddwfr,* *Jer. 9. 1.* *ac i'm llygaid ffynon o ddagrau, fel yr wylwn ddydd a nôs, am laddedigion fy mhobl?* Nid oes diffyg cynghorion arnati, gan ſod geniti athro ſydd † ddyſcawdwr hyawdl agos i Prydain oll. O frenin golch dy galon oddiwrth dy ddrygioni, ac na ddirmyga Dduw ſydd yn dywedyd, "Pan leſarwyſ *Jer. 18. 7, 8.* 'am genedl neu frenhiniaeth, y diwreiddiaf, y chwalaf, y tynnaf i lawr, ac y difethaf, os y genedl honno y dywedais yn ei herbyn a dry oddiwrth ei drygioni, myfi a edifarhâf am y drwg a amcenais ei wneuthur iddi. Hefyd ynghaniad Deuteronomium, "cenedl heb gyngor a deall ydynt *Deut. 32. 28, 29, 30.* 'hwy, oh na baent ddoethion, na ddeallent, nad 'yſtyrient eu diwedd. Pa ſodd yr ymlidiei un fil? *Math. 11* 'ac y gyrrei dau ddengmil i ffoi? Ac deuwch attafi bawb ſydd yn llwythog. Na fychana 'r prophwydi, na ninnau chwaith er ein gwaeled, y rhai ydym mewn meſur o ddiragrith dwywolder me- *Eſai, 56. 10.* ddwl yn dal ar air y prophwyd, rhag ein cael "yn 'gwn mudion. Er nad wyfi mor gyflawn o rym

† *Elltud tebyg; neu Ddaniel y ſeiliodd ſonachlog Fangor fawr yngwynedd ynghylch hyn.*

i ddangos

* i ddangos ei anwiredd i dŷ Jacob, ai bechodau i
' dŷ Iſrael, etto cofiwn eiriau Solomon, " y neb a *Mic.3.8.*
' ddywedo wrth yr annuwiol cyfiawn wyt, y bobl
' ai melldithiant eſ, ond ir neb a'i ceryddo y bydd *Dihar.24.*
' gobaith. Y brenin drwy farn a gadarnhâ y *24, 25.*
' wlâd, ond os gwrendi ar gelwydd, ei holl weiſion *Dihar.29.*
' ſyddant annuwiol. Gwae y rhai a ddywedant *4. 12.*
' am y drwg da yw, ac am y da drwg yw. Gan *Eſai.5.20.*
' oſod tywyllwch am oleuni, a goleuni am dy-
' wyllwch, y chwerw am ſelys, a melys am chwe-
' rw. Y rhai ſydd ganddynt lygaid heb weled, a *Matth.13,*
' chluſtiau heb glywed, a'u calon wedi tywyllu *15.*
gan gwmwl têw eu drygioni. Na ddywedwch mae dychymyg dychryn i chwi yr ydym ni, gan ſod y prophwydi ſanctaidd oeddent enau Duw i ddynion, yn tyſtiolaethu gyda ni yn erbyn y cenſigenus, a'r gwargaled o'r oes hon. Canys diammau gan bob doeth, ſod pechodau yr amſer hwn yn llawer trymach na rhai 'r cynſyd; gan *Heb. 10.*
ſod yr apoſtol yn dywedyd —*yr un a dorrai gyfr-* *28, 29.*
aith Moſes a fyddei farw, pa ſaint mwy coſpedigaeth y bernir haeddu o'r hwn a fathrodd Fab Duw. Pan ddywedodd Samuel wrth Saul, —*ynſyd* *1 Sam.*
y gwnaethoſt, ni chedwaiſt orchymyn yr Arglwydd, *13, 14.*
ni ſaif dy frenhinieth di. Beth y wnaeth eſ iw gyffelybu i ſwrdwr a godineb, ſef anwireddau 'r amſer hwn? heſyd --*annſudd dod ſydd fel pechod de-* *1 Sam.15.*
winiaeth, a throſeddiad ſydd eulunaddoliaeth, o her- *23.*
wydd it ſwrw ymmaith air yr Arglwydd, ynteu ath
fwrw dithau ymmaith. Creſſwch ſod troſeddiad yn ddelwaddolieth. Am hynny na wenheithied yr anwiriaid hyn monynt eu hunain, am ſod heb aberthu i Dduwiau'r Paganiaid; tra ſônt ſel *môch yn Sathru gemman Criſt dan draed,* eulyn addolwyr

ydŷnt

2 Sam. 24. 9. 15. ydynt. Pan rifodd Dafydd y bobl, daroſtyngwyd ef â *lladdfa dengmil a thrugain o honynt.* A daeth gair yr Arglwydd at Baaſa brenin Iſrael gan ddywedyd, --- 1 Bren. 16. 1, 2, 4. *o herwydd i'm dywneuthur yn flaenor ar fy mhobl Iſrael, a pheri o honoti iddynt fy nigio i am pechodau, wele y cwn a fwytty yr hwn a fyddo marw o'r eiddo Baaſa yn y ddinas, ac adar y nefoedd a fwytty yr hwn a fyddo marw o'r eiddo ef yn y maes.* Gwrandewch hefyd beth y ſwgythiodd yr Arglwydd drwy enau Elias Sanctaidd yn erbyn Ahab brenin drygionus Iſrael, drwy ddichell pa un ai wraig y gorthrymwyd Naboth wirion am ei winllan. --- 1 Bren. 21. 2. 13. 19. *A leddaiſti ac a feddiennaiſt hefyd? Yn y lle llyfodd y cwn waed Naboth y llyf cwn dy waed tithau hefyd.* A gwybyddis yn ſiccr ir peth ddyfod felly. Ond rhag i yſpryd celwyddog yngenau eich prophwydi chwi, eich hudo chwi fel y bu i Ahab, clywch eiriau 'r prophwyd Michea, 1 Bren. 22, 23. *wele yr Arglwydd y roddodd yſpryd celwyddog yngenau dy holl brophwydi hyn, a'r Arglwydd a lefarodd ddrwg am danat ti.* Canys dir yw, ſod yn awr athrawon llawn o yſpryd gwrthwynebus yn cyhoeddi eu Ewyllis llygredig eu hunain, yn hytrach na'r gwirionedd; Pſal. 55. 21. *a'u geiriau yn dyner ach nag olew, a hwynt yn biccellau.* Y rhai a ddywedant *heddwch, heddwch, er na bydd heddwch* ir rhai a barbânt yn eu pechodau. Jer. 6. 14. Eſai. 57. 21. *Nid oes lawenydd ir annuwiol* medd yr Arglwydd. Dywed Azariah wrth Aſa, 2 Cron. 15. 2. *yr Arglwydd ſydd gyda chwi, tra fyddoch gyd ag ef, ac os ceiſiwch ef, chwi a'i cewch ef, ond os gadewch ef, yntef a'ch gedi chwithau.* Ac os prophwyd a geryddodd Jehoſaphat am helpu brenin anghyfiawn, gan ddywedyd, 2 Cron. 19. 2. *ai cynorthwyo yr annuwiol, a charu 'r neb a gaſſa 'r Arglwydd a wnait ti? Am hyn digo-*

eſaint

o saint oddiwrth yr Arglwydd sydd arnat ti: beth y wneir ir rhai a leffetheirir â'u pechodau eu hunain? Camweddau pa rai sydd raid ini eu casâu, sel y dywed y Psalmwr, *y rhai a gerwch yr Arglwydd casewch ddrygioni.* Ystyriwch eiriau 'r prophwyd Zechariah, yr hwn a safodd oddiar y bobl, ac a ddywedodd wrthynt hwy oeddent yn gadel yr Arglwydd, sel y gwnewch chwithau yn awr, *sel hyn y dywedodd Duw, pa ham yr ydych chwi yn troseddu gorchymmynion yr Arglwydd? diau na ffynnwch chwi, Canys gadawsoch yr Arglwydd, am hynny yntef a'ch gedi chwithau.* Medd Esai, *gwrandewch air yr Arglwydd tywysogion Sodoma, clywch gyfraith ein Duw ni pobl Gomorah: na chwanegwch ddwyn offrwm ofer.* Ond yr ydym ni yn awyddus yn derbyn yr offrymmau y mae ein Harglwydd yn eu gwrthod. A thrachefn medd ef, *pan weddioch lawer ni wrandawaf.* Ond dengis pa fodd y Cymmodifi, *ymlanhewch, bwriwch ymmaith eich drygioni, dysgwch wneuthur daioni, ceisiwch farn, os byddwch ewyllysgar, ac ufudd, daioni y tîr a fwyttewch; Ond os gwrthodwch â chleddyf i'ch yssir.* Gwrandewch, derbyniwch yr hwn sydd mor ddiragrith yn tystiolaethu beth sydd gobr eich da a'ch drwg. Ac nid sel eich bolerwyr gwenhieithus y anadlant wenwyn i'ch clustiau. 'Gwae i chwi y rhai a gy-
'fodwch yn foreu i ddilyn meddwdod, a arhoswch
'hyd yr hwyr, oni ennyno y gwin chwi. Yn eich
'gwleddoedd y mae y delyn, a'r bibell, a'r gwin;
'ond am waith yr Arglwydd nid edrychwch,
'a gweithredoedd ei ddwylaw ef nid ystyriwch.
'Am hynny y caeth-gludwyd fy mhobl, am nad

Pſal. 97. 10.

2 Cron. 24. 20.

Isai. 10. 13. 15, 16. 19.

Esai. 5. 11. 12, 13, 14. 24, 25.

'oes

'oes ganddynt wybodaeth, ai gwyr anrhydeddus
'a newynwyd, au lliaws a wywodd gan fyched:
'O herwydd hynny yr ymhengodd uffern, ac
'yr agorodd ei Safn yn anferth, ac yno y di-
'fcyn eu gogoniant au lliaws, am iddynt ddiy-
'ftyru cyfraith Arglwydd y lluoedd, a dirmygu
'gair Sanct yr Iſrael. Er hyn oll ni ddychwe-
'lodd llid ein Arglwydd, ond etto y mae ei law
'ef wedi ei heſtyn allan. Clywch yr hyn y
ddywed Jeremi wrth y bobl ynfyd, au brenhino-
Jer.2.5,6. edd yſtyfnig, 'pa anwiredd a gafodd eich tadau
'chwi ynoſi, gan iddynt ymbellhâu oddiwr-
'thif, a rhodio ar ol oferedd, a myned yn o-
'fer? ac ni ddywedant pa le y mae'r Argl-
'wydd an dug ni i fynu o dîr yr Aipht? mi
'a wrandewais, ac a glywais, ond ni ddywe-
Jer.8.6,7. 'dent yn iawn, nid ediſarhâodd neb am ei anwi-
'redd gan ddywedyd beth a wneuthum i? pob
'un oedd yn troi iw yrfa megis march yn rhu-
'thro ir frwydr. Y barcyt yn yr awyr a edwyn
'ei dymhorau, y durtur, a'r wennol, a'r aran, a
'gadwant amſer eu dyfodiad, eithr fy mhobl i ni
'wyddant farn yr Arglwydd. Dracheſn ein
Jer.9.13, 'Arglwydd a ddywedodd am wrthod o honynt
14,15. 'fy nghyfraith yr hon a roddais iddynt, ac na
'wrandawſant ar fy llèf, na rhodio ynddi, eithr
'myned yn ol drygioni eu calon eu hun; am hyn-
'ny mi a'i bwydaf hwynt y bobl hyn â wermod,
'ac ai diodaf hwynt â dwfr buſtl. Am hynny na
Jer.11.24. 'weddia dros y bobl hyn, Canys ni wrandawaf yr
'amſer y gwaeddant arnaf o herwydd eu dryg-
'fyd. Beth ynteu y gwnaiff ein rheolwyr anba-
pus ni yr awr bon? Gommeddwyd gan Dduw ir
ychydig y gawſant y *ffordd gôl*, ac a adawſant y

lydan

lydan, dywallt eu gweddiau dros y cyſryw ac y barhânt yn eu drygau. Yn y gwrthwyneb pan droent at Dduw a'u holl galon, nid allai Jonas beri i ddial ddeſcyn ar y Ninifeaid. Ac medd yr Arglwydd yn Amos. "Mewn tair o anwire-
'ddau Judah, ac mewn pedair ni throaf hwynt;
'am iddynt ddirmygu Cyfraith yr Arglwydd, ac
'nas cadwaſant ei ddeddfau eſ; ond eu oferedd
'ai cyſeiliornodd hwynt. Eithr anfonaf dân i Ju-
'dah, ac eſe a ddifa Syſſeini Jeruſalem. Mewn
'tair o anwireddau Iſrael, ac mewn pedair ni
'throaf hwynt; am iddynt werthu y cyfiawn am
'arian, a'r tlawd er pâr o eſcidiau. Gwrandewch
fwgythion y prophwyd Zephaniah. "Agos yw
'dydd mawr yr Arglwydd, agos a phryſſur iawn,
'ſeſllais dydd yr Arglwydd ſydd chwerw. Diwr-
'nod llidiog yw'r diwrnod hwnw, diwrnod trall-
'od a chyſyngdra, diwrnod diniſtr, ac anghyfan-
'nedd-dra; diwrnod tywyll a dû, diwrnod Cym-
'mylau a thywyllni, diwrnod udcorn, ac arwm
'yn erbyn y dinaſoedd Caeroc. Ac Haggai. "Un-
'waith etto, eſcydwaf y neſoedd, a'r ddaiar, a'r
'môr a'r ſychdir. Yn awr heſyd edrychwch beth
y ddywed y prophwyd Zechariah, "Dy chwelwch
'attaſi medd yr Arglwydd, ac mi a ddychwelaf
'attoch chwithau. Na fyddwch fel eich tadau y
'rhai y galwodd y prophwydi o'r blaen arnynt,
'gan ddywedyd, ſel hyn y dywed Arglwydd y
'lluoedd, dychwelwch oddiwrth eich ffyrdd dr-
'wg, ond ni chlywent, ac ni wrandawent arnaf.
Medd Malachi Sanctaiddd "wele ddydd yr Arg-
'wydd yn dyſod, yn lloſci megis ffwrn, a'r holl
'feilchion, a holl weithredwyr anwiredd a ſydd-
'ant Soſi, a'r dydd ſydd yn dyſod ai llyſc hwynt,

Jonah. 4.
Amos 2. 4. 6. 6.
Zeph. 1. 14, 15, 16.
Hag. 2. 6.
Zech. 1. 3. 4.
Mal. 4. 1.

'medd Arglwydd y llúoedd, fel nas gadawo idd-
'ynt na gwreiddyn na changen. Gwelwch hefyd
'fel yr ymadroddiff Job Sanctaidd ynghylch de-
Job. 21.7, chreu a diwedd yr annuwiol. "Pa ham y mae'r
8,9,10,12. 'annuwiol yn byw, yn heneiddio, a'u hâd yn ol
17,18. 'eu dymuniad? Eu tai fydd mewn heddwch
'allan o ofn, ac nid yw gwialen Duw arnynt
'hwy. Nid yw eu buwch yn erthylu; Cymerant
'dympan a thelyn. Ai nid yw Duw yn edrych
ar weithredoedd yr anghrefyddol? ydyw; *Canys diffydd Canwyll yr annuwolion, a daw dinyſtr arnynt hwy, a byddant fel ſoſi o flaen gwynt, ac fel*
Ezec. 9.8, *mân-us y gippiodd Corwynt.* Pan oedd *Ezeciel* yn
9.10. gwaeddi o herwydd llâdd Iſrael, dywedodd yr
Arglwydd wrtho, *anwiredd tŷ Iſrael a Juda ſydd ſawr tros ben, a llawn yw y tîr o gamwedd, wele ſi, nid erbyd fy llygad, ac ni thoſturiaf.* A
Ezec. 14, gair yr Arglwydd a ddaeth atto ef drachefn
13,14. gan ddywedyd, "Hâ fâb dyn pan becho gwlad i'm herbyn trwy wneuthur camwedd, yna
'yr eſtynnaf fy llaw arni, a thorraf ffon ei bara hi, ac anfonaf arni newyn, ac a dorraf ymmaith o honi ddyn ac anifail; pe byddei yn
'ei chanol y trywyr hyn, Noah, Daniel, a
'Job, hwynt hwy yn eu cyfiawnder a achubent eu henaid eu hun yn unig medd yr Arglwydd. Ey anrhydeddwyr a anrhydedda fi medd
1 Sam. 2, 30. 'yr Arglwydd, am dirmygwyr a ddirmygir.
'Oh Ceiſiwn a chwiliwn ein ffyrdd, a dychwe-
Galarnâd. 3. 40, 41. 'ſwn at yr Arglwydd, derchafwn ein calonnau, a'n dwylo at Dduw yn y neioedd. Onid
'oes ynoſi y perth oedd yn yr apoſtol i ddywedyd. *mi a ddymunwn ſy mod fy hun yn anathema*
Rhuſ. 9. 3. *oddiwrth Griſt dros fy mrodyr*; Etto gallaſ ddywedyd

edyd o'm holl galon gyda'r apostol mewn lle arall, — *hiraethus wyf am donoch oll i fod yn ymyscaroedd Jesu Grist.* Phil. 1. 8.

Yma o ran gwylder y gorphywyswn yn ewyllyscar fel un a ddelei o'r môr ir porthladd, oni bae fy mod i yn gweled gymaint mynyddoedd o yscelerder yn ymgodi yn erbyn Duw yn yr escobion a'r eglwyswyr o'n urdd ni. Y rhai sydd raid i mi eu llabyddio â cheryddon caledion, fel y byddont feirw i bechod, a byw i Dduw, ac na byddwyf euog o dderbyn wyneb. Ond dymunwn nawdd y rheini, buchedd pa rai yr wyfi nid yn unic yn ei ganmol, ond yn ei gyfrif yn well na holl olud y byd, ac yn deisyf bod yn gyfrannog o honaw. Y mae gan Prydain offeiriadau annoeth, a llawer o weinidogion digywilydd, a elwir yn fugeiliaid, a nhwy yn fleiddiaid parodol i ládd eneidiau; yn rhag-ddarbodi iw boliau eu hunain, ac nid i leshâd y gwerin. Yn Rhoddi esamplau o'r gwaethaf drwy ddrwg foddion, heb argyhoeddi'r bobl ou pechodau, o herwydd eu bod nhwy eu hunain yn euog o'r unrhyw. Yn trais-feddiannu Cadair Pedr, ac yn haeddu un Judas fradwr. Yn edrych â golugon sarrug ar y cyfiawn tlodion fel ar nadroedd, ac yn perchi yr anwiriaid cyfoethogion fel angylion; yn fudion, ac yn anfedrus ynghylch ordinhâdau 'r Apostolion, ond yn gyfarwydd ar achosion bydol. Yn ymdreiglo mewn brunti pechodau annoddef; heb fod ganddynt deilyngdod athrawaidd, ond yr henw yn unig. Yn anaddas i neb rhyw râdd eglwysig, yr hon ni ddylai neb ei chymeryd, ond rhai Sanctaidd, perffaith, a dilynwyr yr apostolion, *a diargoedd*, i ddywedyd yn- 1 Tim. 3, 2.

geiriau athro'r cenhedloedd. Pa fodd y gall y rhai nid ydynt gydnabyddus â ffydd, ac ni chymerasant edifeirwch am eu pechodau, ymgodi i urdd eglwysig heb gyssegriedrad? Pan gaffont yr oruchafieth ymgryfhânt mewn chwantau cybyddodd a thrythyllwch, heb neb a lefaso annod iddynt na'u hanwireddau hèn, na'r newydd. O bobl anhappys, oni ddiengwch rhag y bleiddiaid rheibus hynny, fel y gwnaeth Lot oddiwrth gafod tanllyd Sodom? a chwi *ddeillion, os y'ch arweinir gan y deillion, Syrthiweh* ynghyd i *ffos* uffern. Gwn nad yw'r escobion a'r henuriaid oll wedi eu diwyno â balchder, ac aflendid, eithr bod rhai yn ddiwair, ac yn dda; etto cosprwyd *Eli* â'r un fath farwolaeth a'i feibion, er nad ydoedd efei hun yn treisio aberthau'r Arglwydd. Pa un o honynt fel Noah a ommeddodd ollwn gelynion Duw ir Arch, y r hon yn awr yw'r eglwys? fel y dangosid, na ddylai neb ond y diniwed, a'r gwr edifeiriol sod yn nhŷ Dduw. Pwy *a gassáodd gynnulleidfa y drygionus, a chydâ'r annuwolion nid eisteddodd?* pwy fydd yn bendithio yn unic y rhai a waredant y cyfiawn, ac ni chwenychant eiddo arall, fel y gwnaeth *Melchisedech?* Pa un fel *Esai* y *glanhawyd ei wefusau â thân yr allor*, wedi ei gyffes ostyngedig? Pa un o honoch chwi y rhai ydych yn cyffio yn yr eisteddle weinidogaethol, wedi eich bwrw allan o gyngor yr anwiriaid, a'ch curo fel yr apostolion Sanctaidd, a *gyfrifwyd yn deilwng i ddioddef ammarch o achos Crist*, y gwir Dduw? *Ar ol rhwymau, carcharau, a llongddryllïadau, a gwialennodiau, a pheryglon lladron, llisddyfroedd, cenhedloedd, ſuddewon, a gau apostolion, ar ol newyn, ac ymprŷd, ac anhunedd, a gofal tros*

Matth. 15. 14.

1 *Sam* 2. 22. 24.

Psal. 26. 5.

Gen. 14. 18.

Esai. 6, 7, 8.

Act. 5. 34. 40.

2 *Cor.* 11. 23, 26, 28.

yr eglwysi, a llafur yn pregethu'r efengyl, fel y llestr etholedig. Pa un o honoch chwi fel y merthyr Sanctaidd Ignatius escob Antiochia, ar ôl gweithrediadau rhyfeddol yn-Ghrist; er ei dystiolaeth ef y falwyd gan lewod? wrth glywed ei eiriau ef pan dducpwyd ef i ddioddef, ni thybiwch eich hunain yn Gristianogion canolig, chwaethach gweinidogion mewn cyffelybieth iddo ef. Canys dywed yn y llythyr a ansonodd ef at eglwys Rufain; "Yr ydwyf yn ymdrechu ag anifeiliaid ddydd a 'nôs O Syria hyd Rufain, ar fôr ac ar dîr, a dêg o 'lewpardiaid sef milwyr yn fy ngwilied, y rhai a 'ymgreulonant wrth fy nghymwynâsau, ond dy-'scir fi yn fwy wrth eu di-hirwch hwynt, ond 'ni'm cyfiawnheir wrth hyn. Pa bryd y daw'r 'bwystfilod iachusol y baratowyd i mi? pa bryd 'y gollyngir hwynt? pa bryd y bwyttânt fy ngh-'nawd i? os arbedant fi, fel y gwnaethant â rhai, 'mi ai cymmellaf hwynt i'm llyncu: myfi a ym-'hyrddaf fy hun arnynt hwy. Rhoddwch genad 'i mi, gwn beth sydd orau ar fy llês, yn awr yr 'wyfi yn dechreu bod yn ddyscybl i Grist: ym-'maith â gwŷn ddynol, fal y byddwyf deilwng i 'gaffael Jesu Grist. Gosoder arnafi bob cospedi-'gaeth allo'r diafol ei ddychymyg; y tân, y groes, 'anifeiliaid, tyniad fy escyrn; drylliad fy aelodau, 'am y byddwyf deilwng i fwynhâu Jesu Grist. Pa un o honoch chwi fel Polycarpus bugail Eglwys Smyrna, a biliodd y bwrdd yn addfwyn ir rhai oeddent yn ei gyrchu ef ir tân er cariad Crist? ac a ddywedodd *y rhoddid iddo allu goddef angerdd y tân yn ddiyscog heb ei hoelio wrtho.* Pa un o honoch chwi y gadwodd y rheol apostolaidd mewn cythrybliadau Gormesdeyrn, sef *y dylid uf-*

Act. 4. 19. *uddhâu i Ddaw yn hytrach nag i ddynion.* Am hynny gwrandewch ymadroddion ein Arglwydd, a'i brophwydi yn erbyn bugeiliaid diog, anoneſt, ammherffeth, fel i'ch piger au piccelian bwynt er mwyn eich iachau. Condemnwyd Eli yr offeiriad yn Silo, eiſieu iddo mewn Zêl Duw iawn ger-ddu ei blant, y rhai a laddwyd yn yr un diwrnod. Ac os digwydd y fath bethau ir rhai a geiſiant amendio eu deiliaid â geiriau heb gôſp, beth y wneir ir rhai ſydd yn tynnu eraill i ddrwg, ac yn eu hannog? Medd Eſay, "yr Arglwydd ſy yn ſefyll i farnu y bobloedd. Yr Arglwydd a ddaw i farn â henuriaid ei bobl au tywyſogion. Canys chwi a borafoch y winllan, anrhaith y tlawd ſydd yn eich tai. Yr offeiriaid y gyſeiliornaſant drwy ddiod gadarn, y byrddau oll ſy lawn o chwdfa, a budreddi heb lè glân. Am hynny gwrandewch air yr Arglwydd ddynion gwatwarus; llywodraethwyr y bobl hyn y rhai ſydd yn Jeruſalem, am i chwi ddywedyd gwnaethom ammod ag angau, ac ag uffern y gwnaethom gyngrair: pan ddêl ffrewyll liſeiriol ni ddaw attom ni, Canys goſodaſom ein gobaith ar gelwydd, a than ffalſter y llechaſom. Y cenllyſc a yſcuba noddfa celwydd, a'r dyfroedd a ſoddant y lloches: A diddymir eich ammod ag angau, a'ch Cyngrair ag Uffern ni ſaiſ; pan ddêl y ffrewyll liſeiriol, byddwch yn ſathrfa iddi. A thracheſn medd yr Arglwydd, " o herwydd bod y bobl hyn yn neſſau attaf â'u genau, ac yn fy anrhydeddu i â'u gwefuſau, a phellhâu eu calon oddiwrthif; am hynny wele fi yn chwanegu gwneuthur yn rhyfedd ymmyſc y bobl

Rhoddes Efrem yw ſyniad iw ſyniad.

1 Sam. 2, 23, 24.

Eſai. 3 13, 14. ac pen. 28. 7, 8. 2 Pet. 2. 18.

hyn

'hyn, ſef gwrthiau a rhyfeddod. Canys diſethir
'doethineb eu doethion hwynt, a deall eu rhai
'deallgar hwynt a ymguddia. Gwrandewch beth
y ddywed y prophwyd Jeremr wrth y bugeiliaid annoeth, "yr offeiriaid ni ddywedaſant pa
'lê y mae'r Arglwydd? a'r rhai ſy yn trino y
'gyfraith nid adnabuant fi; y bugeiliaid hefyd a
'droſeddaſant im herbyn, oblegyd hyn mi a
'ddadleuaf â chwi etto medd yr Arglwydd, ie
'dadleuaf â meibion eich meibion chwi. A pheth
'erchyll y wnawd yn y tir, y prophwydi a bro-
'phwydant gelwydd, yr offeiriaid hefyd ai can-
'molant, a'm pobl a hoffant hynny: etto beth
'a wnewch yn niwedd hyn? Wrth bwy y dy-
'wedaf, a phwy a rybuddiaf ſel y clywant? wele
'eu cluſt hwy ſydd ddienwaededig, ac ni allant
'wrando: wele dirmygus ganddynt air yr Arg-
'wydd, ac ni dderbyniant ef. Canys eſtynnaf ſy
'llaw ar drigolion y wlâd medd yr Arglwydd:
'oblegyd o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf pob un
'ſydd yn ymroi i gybydd-dod, ac o'r prophwyd
'hyd yr offeiriad pob un ſydd yn gwneuthur ffal-
'ſter. cynorthwyant ddwylo *y drygionus, fel na ddychwel neb oddiwrth ei ddrygioni. Gwnaeth-pwyd hwynt oll i mi ſel Sodoma, ai thrigolion ſel Gomorrah.* Am hynny fel hyn y dywed ein Arglwydd wrth y prophwydi, *wele mi ai bwydaf hwynt â wermod, ac ai diodaf hwynt â buſtl. Canys dywedant wrth ſy nghablwyr bydd i chwi heddwch, ac wrth bob un ſydd yn rhodio yn ôl anwiredd ei galon ei hun ni ddaw arnoch niwed. Wele Cor-wynt llidiawgrwydd yr Arglwydd aeth allan, a themeſtl angerddol a ſyrth ar bennau y drygionus, digoſaint yr Arglwydd ni ddychwel, nes iddo gw-*

Eſai. 29. 13, 14. Jer. 2. 8, 9.

pen. 5. 30. 31.

pen 6. 16. 12, 13.

pen. 23. 14. 15, 17, 19, 20.

plân meddwl ei galon. Joel Sanctaidd hefyd wrth gynghori yr offeiriaid elceulus, a galaru am golled y bobl o herwydd eu pechodau, a ddywedodd, *deffrowch feddwgr, ac wylwch, ac udwch holl yfwyr gwîn, canys torrwyd hyfrydwch oddiwrth*
Joel. 1. 5. *eich mîn. wyledyr offeiriaid gweinidogion yr Arglwydd, a dywedant, arbed dy bobl o Arglwydd, ac na*
dâyro dy etifeddiaeth i warth, i lywodraethu o'r
pen. 2. 17. *cenhedloedd arnynt, fel na ddywedont ymhlith y*
bobloedd pa lê y mae eu Duw kwynt? Ond ni wrandewch chwi ar y pethau hyn, ond ar y pethau a ddigiant Dduw yn fwy. I chwi y perthyn gair yr Arglwydd yn Amos, " Caseais a ffieiddiais eich gwyliau; ac nid aroglaf yn eich cym-
' manfâoedd. Canys er i chwi offrymmu i mi
Amos 5. 21, 22. ac pen. 8. 11. 12. ' boeth offrymmau, a'ch offrymmau bwyd, ni
' fyddaf fodlon iddynt. Canys wele yr dyddiau
' yn dyfod medd ein Arglwydd, yr anfonaf ne-
' wyn ir tîr, nid newyn am fara, na fyched am
Llwyr'y cyflawnwyd lhyn yn-Ghymru. ' ddwfr, ond am wrando geiriau'r Arglwydd. A
' hwy a wibiant o'r gogledd hyd y dwyrain i gei-
' fio gair ein Arglwydd, ac nis cânt. Ac medd
Micah. " Llefant ar yr Arglwydd, ac nis ettyb
Mic. 3. 4. 6. ' hwynt, efe a guddia ei wyneb oddiwrthynt y
' pryd hwnw, fel y buont ddrwg yn eu gwei-
' thredoedd. Yr haul a fachluda ar y prophwydi,
Zeph. 3. 4. 5. ' a'r dydd a ddua arnynt. Ac medd Zephaniah.
" Offeiriaid Jerusalem a halogasant y cyssegr,
' gwnaethant yn Sceler yn y gyfraith. Yr Arglwydd cyfiawn a ddwg ei farn i oleuni yn foreu.
Mal. 1. 6, 7, 14. Ac yn *Malachi*, " Chwi offeiriaid y rhai ydych yn
' dirmygu fy enw, wrth offrwm ar fy allor fara
' halogedig, melltigedig yw y twyllodrus, medd

'Arglwydd

'Arglwydd y lluoedd. Ac yn *Ezeciel*, "Gwae *Ezec.* 13.
'y wniant gluftogau tan boll benelinoedd i ddy- 18. *ac pen.*
'mchwelyd eneidiau. Ei hoffeiriaid a ddirmyga- 22. 26.
'fant fy nghyfraith, ac a halogafant fy mhethau
'Sanctaidd: ni wnaethont ragor rhwng cyffegre-
'dic a halogedic, ac ni wnaethont wybod rhagor
'rhwng yr aflan a'r glan. Cuddiafant hefyd eu
'llygaid oddiwrth fy Sabbothau. Gwelwn beth
'y ddywed gwneuthurwr ac achubwr y bŷd;
'chwi yw halen y ddaiar, eithr o diflafodd yr ha-
'len â pha beth yr helltir ef? ni thâl efe mwy
'ddim, onid iw fwrw allan, ai fathru gan ddy-
'nion. Chwi yw goleuni y bŷd. Ond pa un o *Matth.* 5.
offeiriadau yr oes hon fydd yn gyrru ymmaith 13. 14. 19.
dywylliwch? ie oni wnaeth eu pechodau dûon
hwynt y fath nôs niwlog drwy'r holl ynys, ac a
beriff i bawb agos golli'r iawn ffordd: "Pwy
'bynnag a doro un o'r gorchmynion lleiaf, ac a
'ddyfco i ddynion felly, lleiaf y gelwir ef yn nhey-
rnas nefoedd. Pa un o honoch fy'n yftyried y
peth a ganlyn: fef, *pa foddy dywedi wrth dy frawd*
gâd i mi fwrw allan y brycheuyn o'th lygad, ac wele
drawft yn dy lygad dy hun? na roddwch y peth fy Mat. 7. 4. 6
Sanctaidd ir cûn, ac na theflwch eich gemmau
o flaen y môch. Gwae chwi ragrithwyr fydd yn cau
teyrnas nefoedd, nid ydych yn myned i mewn eich Lu. 11. 52
hunain, nac yn gadel i eraill fyned i mewn; gwa-
ed pa rai a ofynnir ar eich dwylo chwi yn nŷdd
y farn. Dylai pob dyfcawdwr debygu i Paul,
yr hwn nis gallai dim ei *wahanu oddiwrth gari-*
ad Crift, na gorthrymder, nac ymlid, na chleddyf. Rhuf. 8.
ond yr ydych chwi yn goddef llawer er mwyn 35.
gwneuthur drygioni, a digio Crift. Darllenwyd
i chwi wrth dderbyn urddau, *chwychwi ydych*
ywo-

rywogaeth etholedig, brenhinol offeiriadaeth, cenedl
1 Pet. 2. 9. *ſanctaidd, pobl briodol: fel y mynegoch rinweddau*
yr hwn a'ch galwodd allan o dywyllwch iw ryfeddol
oleuni ef. Ond nid ydych chwi yn unic heb fynegi rhinweddau Duw, eithr yn peri ir anghredadwy eu dirmygu drwy eich drwg fucheddau chwi. O elynion Duw, ac nid ei offeiriaid ef! o fradwyr ac nid dilynwyr yr apoſtolion Sanctaidd; gwrthwynebwyr Criſt, ac nid ei weinidogion. Gellid rhoi i chwi ſenn glaiarach, ond ni leſnâ teimlo briw pwdr yn eſmwyth, y bo rhaid ei ſerio â thân. Clywſoch heſyd y *rhaid ir diaconi*
1 Tim. 3. 8, 9. *aid fod yn honeſt, nid yn ddau eiriog, nid yn ymroi i win lawer, nid yn budr elwa: end yn dala dirgelwch y ffydd mewn cydwybod bûr.* Ond troir hyn yn y gwrthwyneb, gan fod y gwŷr eglwyſig yn anoneſt, yn ddau eiriog, yn feudwon, yn budr elwa, yn dala anffyddlondeb mewn cydwybod amhur. Clywſoch heſyd yn y dydd hwnw, (pryd y buaſai unionach eich lluſco chwi i garchar i'ch cyſtwyo, na'ch gollwn ir offeiriadaeth) ir Arglwydd ddywedyd wrth Pedr am ei
Math 16, 17, 18. gyffeſſe, *Gwyn dy fŷd ti Simon, canys nid cîg a gwaed a ddatcuddiodd i ti hyn, ond fy Nhâd ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys.* Ond yr ydych chwi yn gwadu Criſt a'ch gweithredoedd yn lle ei gyffeſſu ef. Ac ni chydweithia Duw â chwi i *adeiladu*
Math. 7. 26. *ar y tywod*, yn ol y gair, *hwy a wnaethont frenhinoedd*
Hoſh. 8. 4. *ac nid trwoſi.* Addawyd i bob gweinidog Sanctaidd, *Pa beth bynnag a rwymech ar y ddaiar, a fydd rhwymmedig yn y nefoedd, a pha beth bynnag a ryddbaech ar y ddaiar a fydd wedi ei ryddhâu yn y nefoedd.* Ond pa ſodd y rhyddhewch chwi beth, ſel y byddo wedi ei ryddhâu yn y neſoedd, a chwi

eich

eich hunain wedi eich cau allan o'r nefoedd am eich pechodau? a chwedi eich gefynnu â rhaffau anfad anwireddau; *â rhaffau ei bechodau y rhwymir pob un.* Pa fôdd y rhwymwch beth ar y ddaiar mal y byddo rhwymedig uchod, a chwithau wedi eich attal gan eich pechodau, fal nas galloch efcyn i fynu, eithr defcyn ir carchar uffernol? Ceifiwch un aftyllen edifeirwch ar ol llong-ddrylliad, fel y diangoch i dîr y rhai byw; ac y troer oddiwrthych ddigofaint yr Arglwydd: yr hwn a ddywed yn drugarog, *nid wyf yn ewyllyfio marwolaeth pechadur, ond yn hytrach iddo droi a byw.* Yr Holl-Alluog, Duw pob diddanwch a thrugaredd, a gadwo yr ychydig fugeiliaid da oddiwrth bob niwed, ac ai gwnelo yn freiniol o ddinas caer Salem nefol. Ir Tâd, a'r Mâb, a'r Yfpryd Glân y byddo gogoniant yn oes oefoedd Amen. *Dihar.* 5. 22.

PEN. XVIII.

Llygredigaeth a chyfludd Cymru.

WRth a draethwyd y gwelwn gael o'r Britaniaid yr unrhyw rybuddion, ac y gafas yr Ifraeliaid gynt o flaen eu caethiwed, ac ynghylch yr un môdd y gwrthodafant hwynt, ac ynghylch yr un fâth gyftudd a ganlynoddfac nid heb ei haeddu. Yr achos amlwg o'u deftryw ydoedd hollhawl bechadurieth pob grâdd ar ddynion, Sef barnwyr, eglwyfwyr, a chyffredin. A'r ymlygriad a fagodd oddiwrth ymbleidiau yr Arriaid a'r Morganiaid. Pan gymerodd ymddadlau opiniwnus 1 *Tim.* 6. 3, 4.

opiniwnus lè pregethau iachus parasant llîd yn lle duwioldeb. Aml ryseloedd hefyd a ostegasant gyfreithiau dinasol ac ysprydol; ac a wnaethant bechaduriaid yn hyfach: a ffrwythlondeb y tîr au gwnaeth yn wreioccach. Y Britwn sel *Jeshurun a aeth yn frâs, ac a wingodd, pwyntiodd, yna cfe wrthododd Dduw yr hwn ai gwnaeth.* Am hynny casodd ei gystwyo, a chollodd y wlâd a halogodd. Ac ni wnaeth Arglwydd y winllan mor cam swrw allan denantiaid anniolchgar. Yr hwn yn ei ddoethineb ai gysiawnder a ganhiadodd ir un fath bêth ddigwydd mewn llawer o wledydd eraill ynghylch yr un amser, gan laccio ffrwyn cenhedloedd y gogledd; y rhai oeddent bôb amser pan lanwent eu gwledydd oerion eu hunain, yn deirion am ymhyrddu i leoedd cynhesach. Heidient am bennau rhai eraill, pan lenwent eu cychod eu hunain. Y cyfryw oedd y Phichtiaid y ddaethant ir Albain, Y Gothiaid ar Fandaliaid a ymgyrchasant ir Ital, A'r Affric, a'r Hispaen ychydig cyn yr amser hwn: a'r Lwmbardiaid a bresswyliasant yn yr Ital. A'r Ffranconiaid ynghylch hyn a arhosasant yn Gallîa, ac ai galwasant hi Ffrainc. Ac ychydig wedi hyn daeth y Twrciaid a'r Tartariaid i gymeryd meddiant o'r gwledydd gorau yn yr hollfyd, Sef Asia leiaf, Arabia, yr Aipht, a Syria. Ymhob oes torrodd Duw genhedloedd pechadurus i lawr *fel glaswellt*: a hynny, iw ymddiffyn ei hun ai anrhydedd yn erbyn pechaduriaid afreolus. Pan addsedeu eu hanwireddau *trosseddwyr a gyd-ddestrywid*; Weithiau drwy'r elfenau, sel drwy ddwfr yn amser Noah, a thrwy dân yn amser Lot: Weithiau drwy ddynion, megis y Cananeaid yn amser Joshua; a'r Israeliaid drwy'r

Deut. 32. 15.

Psal. 37. 2, 38.

drwy'r Aſſyriaid, ar Caldeaid. Ie yn y Cynfyd pan oedd llawer o'r ddaiar yn wâg, a digon o lê i bobl i fyw wrth yſtlys eu gilidd, etto *diſethodd meibion Eſau yr Horiaid a thrigaſant yn eu llê hwynt. A'r Ammoniaid a ddiſethaſant y Zamzumiaid, ac a drigaſant yn eu llê hwynt. A'r Caphtoriaid a ddiſethaſant yr Aſiaid.* y mŏdd cyntaf diſwynwyd y ddaiar gyd a'i thrigolion, ond yr ail mŏdd digwyddodd dialedd i bŏbl yn unig: a bu'r tîr diangol, fel y rhoddai gynhaliaeth i genedl arall y briſiai dros drô yn uſuddach iw Duw. Deut. 2. 12. 21. 23.

Yr achlyſur o wanbychiad ein gwlâd ydoedd rheoliad y Rhuſeiniaid arni a'u hymadawiad hwy o honi i ddiffyn yr Ital. Megis mewn dychryn pan gilio'r gwaed o'r wyneb a'r aelodau at y galon iw diddanu bi, digwydd gleſni a lleſcedd ynddynt hwy. Ni adawodd ei hèn feiſtraid fawr o'u hôl, ond amryw eiriau Ladin yn gymyſcedig â'n iaith ni. Aphlanniad y Britaniaid yn Llydaw a eiddilodd lawer ar eu cenedl gartref: ac au cymwyſodd i dderbyn *yr un meſur* gan y Saeſon, ac y roddaſent hwythau ir Letafiaid. Anghydſod y penaethiaid hefyd a agorodd adwyau i ollwn aflwydd ir ynys. Pan aeth Fortigern duwc Cerniu yn frenin drwy frâd gwaedlyd, rhoddodd ſwy ymddiried yn y Saeſon y gyflogaſai, nag yn ei ddeiliaid ganedigol. Gorſu ir brenin Arthur ryſela â'i wladwr Melfas tywyſog gwlâd yr bâſ, i ddial trais ei frenbines Gwenhwyſar. A chwedi iddo ynnill deuddeg brwydr oddiar y Saeſon, trwy anfodlonrwydd ei nai Modred caſodd ei farwolaeth: a chydag ef Syrthiodd llwyddiant ei genedl; a'r *deyrnau wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun a anghyfaneddwyd* Hefyd tra yr oedd Prydain yn wan, yr oedd Matth. 7. 2. Matth. 12. 25.

oedd hi yn brydferth, a'i glendid y barodd i gymaint o ddieithraid ei threisio hi. Ni chafodd lonydd gan yspeilwyr wrth fod ei thîr mor gyfoethog. Ffrwythlondeb y pren a falau y gwnaiff ergydio cymmaint o bastynau atto, yn enwedig os
Jacob. 1. 10. bydd heb *gae* yn ei gylch. Aeth *ei hymddiffynfeydd*
Nahum. 3. 12. *fel ffigysbydd â'u blaenffrwyth arnynt, pan ysgydwyd hwynt, syrthiasant yn safnau y bwyttawyr.* Pe buasai yn addoli Duw yn ddyladwy, *ni chawsai neb chwennych moi thîr, er anamled ei gwr-rywiaid:*
Exod. 34. 23, 24. ac os buasai rhuthr iddi, *creuasai'r Arglwydd amddiffyn ar ei holl ogoniant.* Ond wedi iddi ddigio
Esai. 4. 5. Duw, aeth ei golud hi yn obrwy ir Sawl ai Lladdent hi. *Plannasei'r Arglwydd winllan* (Sef ei eglwys) *ynddi, a disgwiliodd iddi ddwyn grawnwîn* o
Esai. 5. 2. 5, 6, 7. weithredoedd grasol, *a hitheu a ddug rawn gwylltion* o foesau drwg: *Sef trais yn llê barn,* ac yn llê *cyfiawnder gwaedd. Am hynny tynnodd ymmaith ei chae* amdiffin *fel y porid hi, a thorrodd ei magwyr fel y byddai yn Sathrfa: a gosododd hi yn ddifrod, ac i'r cwmylau y gorchymynnodd na lawient law arni,* gan attal oddiwrthi neu brinhâu ei ordinhâdau a moddion grâs. Cyn pen nemawr ar ôl yscrifen
* *yn rhyw-le gelwir hi y Gall Felen.* Gildas bu agos i blâ a elwid y * *Fall felen* a dibennu gweddillion y Britaniaid: y rhai wedi hynny a gollasant Gaerloiw, a'r Bath, a'r cwbl o orllewin Lloegr, oddieithr Cerniu. A deleodd y Saeson y grefydd Gristnogol, a throesant yr Eglwysydd yn demlau eulynnod Paganaidd, drwy
Oed. Cri. 586. eu harglwythiaethau oll.

Er i Awstin y monach, a phregethwyr eraill ddyfod o Rufain, a throi llawer o'r Saeson at brofesse y grefydd Gristnogol; etto ni chafodd y cymru fawr esmwythâd, o herwydd na chynorthwyent

wyent bregethiad yr efengyl ir Saeſon, ac na dderbynient ddefodau Eglwys Ruſain, oeddent wedi amlhâu y pryd hwnw. Yn enwedig cythrybliodd y ddadl loerig (ſef pa ddydd o'r lleuad y cedwid y pâſc) lawer ar y Britaniaid a'r Gwyddelod. Dilynai ein cenedl ni arfer yr Aſiaid, a chadwai 'r Gwyddelod yr un tymhorau ac oedd arferol ymmyſc eglwyſydd y Gorllewin, a Rhuſain yn amſer Padrig. Ond talm gwedi ſef yn y chweched oes, newidiodd eglwys Ruſain ei harfer gyntaf i ddilyn defod Alecſandria, a chymerth boen i droi eraill i gydffurffio â hi. Ynghylch hyn goreſcynnodd y Saeſon Gaerlleon ar Ddwſrdwy, a lladdaſant un cant ar ddèg o ſynych Bangor is y coed. Ond rhwyſtrodd Brochwel tywyſog Powys iddynt ddyfod tros Ddwſrdwy, nes i Cadfan brenin Gwynedd, a Bledrus tywyſog Cerniu, a Meredyth brenin Deheubarth ddyfod iw ſwccwr ef. Pryd yr ymladdaſant a'r Saeſon, ac a laddaſant o honynt ſwy na mîl, a gyrraſant y lleill i ffoi, a dialwyd arnynt waed y mynych. Ynghylch blwyddyn yr Arglwydd chwe chant a phedair a thrugain, amſer hâf, digwyddodd tywyllwch mawr oddiwrth ecclips ar yr haul, ar ol hynny gwelwyd y nefoedd yn danllyd, ac yn nechreu'r Cynhaiaf gwnaeth plâ tra marwol ddiſtrawd angerddol ar drigolion Prydain a'r Jwerddon. Ond arbedodd y plâ hwn a'r fall ſelen y Pictiaid a'r Scotiaid yn yr Albain, er iddynt fod yn dôſt wrth y Britaniaid. Cydnabyddwn ddoethineb, a daioni, a chyfiawnder Duw, yn ei farnedigaethau ar ein henafiaid ni. Canys gadawai gryn ennyd rhwng y dyrnodiau y roddai iddynt, ſel y caent amſer i yſtyried eu ffyrdd, ac i droi oddiwrth eu

Blwydd. yr Argl. 617.

hanwireddau

banwireddau er y naill gerydd, cyn dyfod y llall. Ac felly y gwnaeth ef ar Iſraeliaid pan ddygn ddigiodd ef wrthynt, gan adel caethiwo Samaria yn gyntaf, ac ymhen talm o flynyddoedd gwedi, y caethiwyd Jeruſalem ar ddwy waith neu dair, a'r cyſtydd olaf ſyddai drymmaf. Wedi i weddillion y Britaniaid lynu encyd mewn dalfau yng-ogledd Lloegr o † Cumbria i Glaſcu rhwng y Saeſon, a'r Pictiaid, megis rhwng y rhiſc a'r pren; ynghylch y flwyddyn o oedran yr Arglwydd ſaith gant a thrugain, y moſododd eu gelynion o'u dautu i warchae ar ddinas Alcluid, lle gwnaethant ymroad iddynt drwy guttundeb. A chan eu bod fel ŷd rhwng dau ſaen melin, aethant yn wynn wrth eu dryllio, a rhoddaſant eu brŷd ar waſanaethu Duw yn fanylach, ac amlhâſant yn y monachlogydd. Ac er iddynt gadw eu creſydd, collaſant eu hiaith, canys Saeſonaec a ſieryd y Cumbriaid yn awr. Yn yr un oes cyſyngwyd ar Gymru beſyd. Canys gwnaeth Offa Sais, brenin Merſia, glawdd mawr dwfn o fôr i fôr, yn derſyn rhwng Cymru a lloegr. Y pryd y cwttogwyd terſynau Powys a deheubarth. Yr ydoedd Cymru wedi ei rhannu yn dair talaeth; ſef *Gwynedd*, ac yn Aberffraw ym Môn yr oedd llŷs y tywyſog; a *Deheubarth*, ac yn Ghaer Fyrddin a Dinfawr y cartrefai'r tywyſog: a *Phowys*, ac yn Mathraſal y Preſwyliai'r tywyſog, wedi colli'r Mwythig. Tywyſog Gwynedd oedd bennaf, a'r ddau eraill i dalu teyrnged iddo ef. A gorfu i Gerniu ſyned dan jau'r Saeſon.

a *Bren.* 8. 9. *ac pen.* 24. 11. *ac pen.* 25. 4.

† *Cumberland.*

Bl. yr Arg. 777.

Ynghylch oes gwr gwedi teyrnaſodd Alfred yn Lloegr. Anſonodd ef i Gymru am ddau ŵr dyſcedig iw hyfforddi ef i Seilio yſcolion yn Rhydychen

dychen; Sef Affer, ac Joan D'erigena o Fynyw: yr hwn wedi iddo ystudio gartref, a aethai ir Athen i gael ychwaneg o gydnabyddiaeth ag yscolheictod, a phan ddychwelodd ef adref, cyrchwyd ef at Alfred i ddechreu dysceidiaeth yn Rhydychen. yr Alfred hwn a drodd gyfreithiau Dwfnwal Moelmut brenin Prydain o'r Gymraeg ir Saesonaeg, ac ai gosodod yn rheol iw ddeiliaid mewn rhan o Mersia, o'r tu dehau ir Teames, a pharhâodd hynny hyd amser Edward y Cyffesswr. *Bl. yr Arg.* 872.

Ynghylch wyth mlynedd a thrugain gwedi hynny y rheolodd Howel dda Gymru oll. Ae am ei sod ef yn ŵr crefyddol, ac yn ceisio gwellhâu ei wlâd, casclodd ynghyd eglwyswyr a Phendefigion cymru i ddiwygio 'r gyfraith, gan ddiddymu pethau afreidiol, ac esponi pethau amheus, a chadernhâu pethau iachus. Y mae ei gyfraith ef iw gweled etto yn Gymraeg, ac yn Ladin, a bu mewn grym drychant a deugain o flynyddoedd, nes dwyn y Cymru iw rheoli wrth gyfraith Loegr. *Blwyddyn yr Arg.* 940.

Wedi ir Normaniaid gwncwerio Lloegr, a chael tiroedd pennaethiaid y Saeson, blysiâsant Gymru hefyd, a chymerasant bob âchlysur i ymhyrddu iddi. Yr hyn su haws iddynt ei wneuthur, o herwydd yr ymryfonau cenfigenus oedd rhwng y blaenoriaid Cymreig yn eu mysc eu hunain. Yn amser Gwilym Gôch cyflogodd Jestyn Arglwydd Morganwg weision y brenin iw gynnorthwyo ef i ryfela yn erbyn tywysog Deheubarth; yr hyn a wnaethant hwy yn gefnog, gan lâdd y tywysog ac Jestyn hefyd, a chymeryd ei arglwyddiaeth ef iddynt eu hunain, yr hon a ddaliasant hwy, a'u etifeddion rhag llaw. Yng- *William Rufus.* 1091.

hylch yr un amser ynnillodd y Normaniaid Argl. wyddiaeth Brecheiniog, a meddianasant y wlâd. yr un môdd y gwnaethant a Dyfet, sef Swydd Penfro, ac Aberteifi, a Phowys, a Rhywonioc, a Tegengl, a glan y môr o Gaer lleon ar Ddowrdwy i Gonwy, gan eu gorescyn â'r cleddyf, ac adeiladu cestyll iw preswylio'n ddiogelâch. Ond nid allai'r Cymry oddef y gormesiaid; am hynny yn synech cysodasant mewn arfau iw gyrru ymmaith. Yr hyn a gyffrôdd y brenin *William Rufus* i ddyfod yn eu herbyn â'i holl allu ddwywaith yn filain; a gwaeddodd y gorthrummedig ar Dduw yn daer, ac a gawsant eu gwaredu na lwyr ddifrodwyd hwynt. Er hynny anghofiant law Dduw drachefn, ac yspeilia 'r penaethiaid eu gilidd yn ddichellgar, ac yn waedlyd, a threisiant wragedd. Ac wrth glywed eu bod mor afreolus, tyngodd y brenin Harry y Cyntaf o'r henw, nas gadawai un byw yn Gwynedd, na Phowys, heb eu llwyr ddiffetha: a bwriadodd ddwyn pobl eraill i gyfanneddu yn eu llè hwynt. Ir pwrpas hwnw cysododd holl allu Lloegr, a'r Albain, a gosododd allan dair byddun ar un-waith yn erbyn Cymru. un tua'r Deheubarth, a'r llall tua Gwynedd dan law brenin yr Albain, a'r drydydd y arweiniai'r brenin ei hun. Ond ymgasclodd y Cymbry ir creigiau a'r coedydd, ac ymgadwasant nes iddynt heddychu â'r brenin. Ond wedi ei farw ef, yn amser y brenin Stephen rhoddasant gais ar guro 'r dieithriaid allan o'u gwlâd, gan lâdd o honynt dair mil mewn brwydr dôst. Daeth y brenin Harry yr ail â byddyn grêf yn eu herbyn nhwy yn dra-llidiog, a gwersyllodd ar fynydd Berwyn. Ymgasclodd

Blw. yr Argl. 1113

y

y Cymru ynghŷd ir coedydd a'r uchelderau, a chwaraeſant oddiyno mor ddyſal nad allai dim llunieth ddyſod ac werſyll eu gelynion. A tyrthiodd glaw mor angerddol, oni ymroddodd y brenin i ddychwelyd tua Lloegr heb wneuthur fawr niwed. Yn amſer y blinderau hyn mentrodd Madog, un o feibion Owen tywyſog Gwynedd, i geiſio gwlad arall ar amcan hyd y môr mawr tua machlud haul: a chwedi gweled gwledydd hyfryd heb drigolion, dychwelodd adref, a llanwodd ddêg o longau â'r cyfryw oi genedl ag y doedd chwanog i fyned lle caent heddwch: a thybir iddynt wladychu yn Mecſico. O herwydd pan ddatcuddwyd America ir Europeaid yn yr oes ddiweddaf aeth heibio, cafwyd yno eiriau Cymreig. Canys pan ymddiddanont ynghŷd dywedant wrth eu gilidd, *gwrando*, ac y mae yno aderyn brith a chraig y alwant *Pengwyn*, ac ynys a elwir *Corroeſo, a Phen Briton*; ac afon elwir *Gwyndor*.

1166.

1170.

Er maint oedd helbul Joan brenin Lloegr oddiwrth y Pâb, a'r Arglwyddi, etto cymerth hamdden i ddyſod ddwy waith tua Gwynedd â thorſoedd mawrion. Ond Cadwodd Llywelyn ap Jorwerth y tywyſog ei bobl, a'u da yn yr eryri, nes cyttuno â'r brenin, gan roddi iddo Swydd y fflint, ac ugain mil o gattel. Ond pan welodd Llewelyn fantais gwrthryfelodd eilwaith, ac ynnillodd y Mwythic. A lloſcodd y brenin *Groeſoſwallt, a thalm gwedi, lloſcodd y tywyſog hi beſyd. Cyſododd yn Ghymru benadur dewr ar ei ol ynteu, ſef Llewelyn ap Gryffyth, ac a geiſiodd fwrw ymmaith iau'r Saeſon, ac a gadwodd y maes â dengmil o wŷr, gan guro ei elynion yn fynech. Yn ei amſer ef hi lawiodd

1211.

**tebyg gennif mai henw yr dréf yw Croes ſyll Allt. oddiwrthy ſyllau, ſef cloddiau yr hên ddinas ar allt.*

waed yn amryw fannau yn-Ghymry, ac ymhen pum mlynedd gwedi lladdwyd y tywysog Llewelyn, a darfu i frenin Lloegr ſef Edward y Cyntaf
1282. lwyr ddaroſtwng y Cymbry, a goſod dieithriaid
Galarnad. 3.9. *a'nynt iw cyſtwyo; â chaeodd eu ffyrdd a cherrig nâdd,* gan adeiladu ceſtyll cryfion yn Gwynedd, ſef yn Ghonwy, Caer yn Arfon, a Beumaris i lochefu gorthrumwyr. A goſodocd ei Arglwyddi yn Nimbech, a Rhuthyn, a llêodd cedyrn eraill ir unrhyw ddiben. A phan derfyſcai'r Cymbry lleddid peth echryſlon o honynt: ac er hynny ni pheidient â mentro eu bywyd ar bôb achlyſur. Yn amſer y *Wiclifiaid*, yr oedd un *Cymro nodedig*, A elwid *Walter Brute* o eſcobaeth *Henfford*, yr hwn oedd ddyſcedig, ac yn dyfal gynghori eraill i dduwioldeb, er ei fod yn ŵr llyg. Argyhoeddodd ei wladwyr am ſwyno drwy eiriau, neu ddwſr
Act. 19. bendigaid, gan ddangos *na leſodd enw'r Jeſu i feibion Sceſa.* Eglurodd mor wrthwyneb i *Criſt* o. edd yr ymarweddiad gyffredin, gan fod *Criſt* yn gorchymmyn cariad, nid tywallt gwaed, ac i'r eſengil ddiddymmu'r defodau cnawdol, a bod y *Pâb* yn eu hailgoſod hwynt i fynu.

Digwyddodd amrafael rhwng yr arglwydd Gray o gaſtell Rhuthyn, ac Owen Arglwydd Glyndwfrdwy ynghylch cau mynydd. A phan ſafodd ei gymydogion gyda'g Owen, ac ymladd â'r Arglwydd Gray, a'i gymeryd ef yn garcharor, ar hynny o rwyddeb ymgaſclodd y Cymbry atto eſo bôb parth, gan ei annog ef i ryfela a'r Saeſon, a'r hyder bruttiau Merddyn a'r daroganau, i edrych allent ynnill yn ôl dracheſn yr hyn a gollaſau eu henafiaid. Ond gwnaeth y gwrthryſel
1400. hwnw niwed mawr iddynt. O herwydd wedi eu gorchſygu,

gorchfygu, aeth y brenin Harri y pedwerydd yn orddig wrthynt, ac yn orthrymwr creulon arnynt: efe a wnaeth eu *lleffetheiriau yn drymmach,* a'u rhwymmau yn dynnach; ac ordeiniodd bethau anrhesymol yn eu herbyn hwy; gan osod cyfreithiau ydoedd yn gwarafun i un Cymbro brynu tîr, na bod yn swrdes o un drêf farchnad, na swyddog, na gwisco arfau, na chael cyfraith ar Sais ond drwy Justisiaid a chwèst oSaeson: na chadw ei blant at ddysceidiaeth, na'u rhoddi yn brentisiaid i grefft yn y bŷd mewn un drêf yn y deyrnas. Gosodwyd deddfau hefyd na chai 'r Cymbry mor ymgyfarfod ynghŷd i ymgynghori ond yngŵydd y swyddogion teisnig, ac na chaent gadw neb rhyw gastell, nac amddiffynfa. Ac os Sais a briodai Gymraes, gorfyddai iddo golli ei swrdeisiaeth ai swydd. Nid oedd llafasus chwaith ddwyn dim lluniaeth i Gymry heb genad y spyfol y brenin neu 'r cyngor. Y gyfraith yw goleuni gwladwriaeth, *am hynny os ydoedd hi yn dywyllwch, oh faint oedd y tywyllwch hwnw?* os rhe- *Mat. 6.* ol llywodraeth oedd anghyfiawn, mawr oedd yr 23. anghyfiawnder hwnw! pan *drowd barn yn wermod,* aeth trais yn fustl. Tôst oedd y gyfraith, ond tostach oedd anghyfraith y swyddogion milain. *Amos. 5.7.*

Galarnad. 3. 7.

Gwelwn yma mor afiesol fu i'n henafiaid amcanu bwrw cystudd oddiwrthynt cyn troi at Dduw drwy edifeirwch. Prifiodd y gwrthryfel hwn fel un zedeciah, yn achos o gaethiwed Babilonaidd. Darfu ir daroganau eu fiomi nhw hefyd. Cnawd i bob cenedl dan orthymder goelio pôb Bruttiwr a'r addawo ryddhâd iddynt. Crefawai'r Israeliaid y prophwydi gwenheithus, ond deuai'r peth yn y

2 Bren. 24. 20.

Jer. 28.10. gwrthwyneb ir bobl anwireddus. Pan *dorrodd Hananiah y gefyn pren*, rhoddes Duw yn ei lê *iau o haiarn* ar eu gwarrau. Dull yr amseroedd Pabaidd hynny, a chystudd, gyda'g hiraeth am warediad, a wnaeth ein henafiaid ni yn dueddol i roi llê i feddyliau ofergoelus. *Y newynog a'r sychedig a freuddwydia am lunieth, ond pan deffrò gwâg a deffygiol fydd ei enaid.* Pan gafodd y brenin Arthur ei friw marwol aeth i ynys † Wydren iw ddiweddu, er mewn celu ei farwolaeth; rhag llawenychu ei elynion, na digaloni ei ddeiliaid. Am hynny bu ein gwladwyr ni gantoedd o flynyddoedd gwedi, yn tybied na buasai ef farw; ond yn brithgoelio y caent ef eilwaith i lywodraethu arnynt fel y taer ddymunent. A phan aeu tywysogion Cymry â'r mâes oddiar y Saeson mewn dwy frwydr neu dair, ymhyfâent yn aruthr, gan ddisgwyl cyflawni bruttiau 'r prydyddion am gael o'r Britaniaid ail gorescyn yr ynys. A hynny a wnaeth ir Saeson o ran gwawd, wisco coron am ben Llewelyn y dorrasent oddiar ei gorph ef, wrth ei osod ar y tŵr yn Llundain. Ar ol Rhysel Owen Glyndwfr, parhâodd y caethiwed gorthrwm hwn ar ein cenedl ni drwy yr amser y rheolodd pump o frenhinoedd Lloegr; ac yn ddigon o hŷd er dwyn dygn dlodi, ac anwybodaeth arni. Ac i ddigaloni neu ddiffodd yr hyn o fawrfrydigrwydd, ac o fedrusrwydd, celfyddyd, ffydd, a moesau da y suasai yn eu mysc gynt. Yn y cyflwr hwn cafodd achos i alaru ger bron Duw fel Sion gustuddiol; *Nyni a wnaethom gamwedd, ac a fuom anufydd, a thitheu nid arbedaist. Gorchguddiaist ni â sorraint. Ti a'n gwnaethost yn sorod ac yn yscybion. Dychryn a magl a ddaeth arnom, anrhaith a dinistr. Syrthiodd y goron*

Esai. 29 8.

† *Glassenbury.*

Galarnad. 3.42, 43. *ac pen.* 5. 16.

ron oddiam ein pen, gwae ni n awr hechu o honom. Canys cyflawnwyd ynddi twgwth Duw yn ddigon union, — *oblegyd na walnaethoddyr Arglwydd ei Duw mewn llawenydd, ac mewn hyfrydwch ealon, am amldra pob dim, am hynny y gwasanaethodd ei gelynion mewn newyn, ac mewn syched, ac mewn noethni, ac mewn eisieu pob dim, ac efe a roddes iau haiarn ar ei gwddf.* Yn amser yr anwybodaeth hon yr arferodd ein gwladwyr ymgymdeithasu â'r tylwyth tèg yn y coedydd y nós. Er hyn *nid yn dragywydd y gwrthododd yr Arglwydd hwynt, ond er iddo eu cystuddio yn* drwm, etto efe a *dosturiodd* wrthynt *yn ol amlder ei drugareddau.* Ac a ddattododd lawer o'u rhwymau trwy y breninHarri y Seithfed: Yr hwn oedd ŵyr i Owen Tudyr O Fôn (a briodasai frenhines weddw yr oedd ef yn ei wasanaethu) ac a gafodd y frenhiniaeth sel hyn. Pan ddigiodd penaethiaid Lloegr wrth y brenin Rifflard y trydydd, am iddo fwrdro ei neiaint bychain ydoedd dan ei olygiad ef, a chipio 'r goron oddiarnynt, gwahoddasant i mewn yr iarll Harri, ydoedd yn Llundaw yn llechu Ar hynny tiriodd ef yn Aber daugleddeu, a chwedi i gryn fyddun o Gymru a Saeson godi gyda'g ef, aeth a'r mâes oddiar y brenin Rifflard, a chymerth ei lê ef. A phrifiodd yn ei mwythâd, nid i Gymry yn unic ond i Loegr hefyd: a diweddodd ymdrech tôst a fuasai rhwng dau deulu frenhinol am y goron dalm o flynyddoedd, ymha un y lladesid llawer o filoedd Gan ei fod ef yn etifedd y naill dŷ, priododd etifeddes y tŷ arall, ac felly heddychodd y deirnas. Yn y chweched flwyddyn ar ugain o deyrnasiad ei fâb ef, y breninHarri Wythfed, gwnawd Act o Barliament i gael o Gymry

Deut. 28. 47, 48.

Galarnad. 3. 31, 32.

yr un breintiau, rhydd-did, a chyfiawnder â Llo-egr, gan ei rhannu yn Siroedd, a threfnu Seſſiwnau iddi. Yn nyddiau ei ſâb yntef, ſef y brenin Edward y chweched, cynygwyd iddi warediad oddiwrth ei chaethiwed yſprydol, fel y cawſai ryddbâd o'r blaen oddiwrth ei chyfyngder bydol. Ond nid oedd nemawr a fedrai, ac a fynnai gyfieithu, a phregethu gair Duw yn gymraeg yn yr yſpaid hwnw. A dyna'r achos na chafwyd nêb yn Ghymry wedi hynny ſef yn amſer y frenhines Mari, i ddwyn tyſtiolaeth gydâ ffydd y Proteſtaniaid drwy ddioddefaint, oddieithr tri yn y deheubarth y ſedrent Saeſonaeg. Yr hyn ſydd Argoel hynod reitied ydyw cyfeithiad, a phregethiad yr Scrythurau yn iaith gyffredin pobl, i weithio ynddynt ffydd iachuſol.

PEN. XIX.

Helynt cymru er pan gyfieithwyd yr yſcrythyrau yn Gymraeg.

YN nechreu teyrnaſiad y frenhines Elizabeth, gorchymynwyd drwy Act o Barliament droi'r bibl yn gymraeg. Ond yr oedd ein gwlâd ni wedi myned yn ddichwant am dano, neu yn anfedrus tuag at y fath bêth. Am hynny ſafodd y gwaith ynghylch naw mlynedd, ac yno Riſſiard Dafies eſcob Mynyw, ac William Salisbury gwr bonheddig, a gyfieithaſant y Teſtament Newydd yn Gymraeg, ac ai printiaſant ymmlwyddyn yr Arglwydd, mil a phum Cant, a thrugain, a Saith. Ac am ſod llythr Saeſonaeg Mr. W. S. at y frenhines

Oed. Chr. 1567.

hines yn amlygu peth o helynt ein cenedl ni y prŷd hynny, cyfeithais hyn o honaw ef.

Ir rhinweddolaf, a'r Arddercheccaf
Dywyſoges, Elizabeth.

Pan ail cofwyf ddull y grefydd wedi ei llygru yn Lloegr, a'r defodau ofer a ymluſcaſent i'n gwlâd ninnau Cymry, pryd yn lle'r bywiol Dduw yr addolau dynion ddelwau meirwon, o gôed, a cherrig, clychau ac eſcyrn: a phan yſtyriwyf hefyd ein diweddar gyffredin ymadawiad oddiwrth Sancteiddiolaf air Duw, y dderbyniaſid unwaith, a'r erlidigaethau anhrugarog y ſydd ar lawer etto mewn gwledydd eraill; nid allaf amgen na wnelwyf fal y truan *Bartimeus ddall*, neu'r *gwahanglwyſus O Samaria'n Achubwr*, ſef dyſod yn dragoſtyngedig o flaen eich mawrhydi, nid yn vnic droſof fy hun, ond hefyd am waredigaeth llawer mîl o'm gwladwyr oddiwrth yſprydol ddallineb anwybodaeth, a ffiaidd haint hên eulun-addoliaeth, a gau ofergoel: yn ddyladwy i gydnabod eich cymwynas digyffelyb chwi i ni, wrth ganhiadu cael o honom yr Scrythyrau Sanctaidd, eſi ein dallineb yſprydol, a'n gwahanglwyf, yn ein byſpyſaf dafodiaith. Yr oedd ein gwladwyr ni gynt yn anhawdd ganddynt dderbyn y grefydd Ruſeinaidd, ac nid heb achos; etto yn awr gwedi (y cyfryw yw niwed drwg arfer) anhawdd ſu ganddynt ei gadel, a derbyn efengyl Jeſu Griſt. Ar ol cyſtuddio 'r genedl hon yn dra-gofidus â hîr ryſeloedd, *am ei gwrthgiliad*, ſel y tybir; a'i llwyr oreſcin, a'i chadw tanodd â chyfreithiau ſarrug, etto er diwedd rhyngodd bôdd i Dduw oi gynefin drugaredd edrych i lawr dracheſn arnynt, gan anfon dau frenin o goffadwriaeth

wriaeth tra-enwog, Harri Seithfed, ai fâb Harri yr wythfed, Sef eich tâd â'ch taid chwi, y rhai yn rasulol a'u gollyngodd hwy o'u poenau ac a eimwythâsant eu beichiau anoddef; y naill a fu farteri o rydd-did, a'r llall ag Actâu o Barliament, gan droi ymmaith eu caethiwed hwy, a'u gwneuthur yn ungorph ai ddeiliaid o Loegr. Diammeu nad cymwynas bychan ydoedd hynny. Etto y mae'r llesâd hwn o'r eiddo eich mawrh di chwi, yn rhagori arno, yn gymaint ac y mae 'r enaid yn rhagori ar y corph. Os yw *Mair Magdalen* mor enwog drwy'r holl fyd lle *pregethir yr efengyl*, am roddi blychaid o ennaint deinyddiol i enneinio Corph cnawdol Crist; cedwir eich haelioni chwithau byth mewn coffadwriaeth am ganhiadu ennaint yr ysprvd Glân i enneinio ei gorph ysprydol ef, sef yr eglwys. Yn gymaint ac i escobion Cymry fy'ngalw i wneuthur pêth tuag at osod allan y gorchwyl teilwng hwn, tybiaf yn ddyledus yma yn eu henw hwy gyflwyno i'ch mawrhydi (megis y blaenffrwyth goreu) lyfr Testament Newydd ein Harglwydd Jesu Grist, wedi ei gyfeithu ir Gymraeg. A dymunwn ar Dduw gael o'ch deiliad chwi o Gymru gwbl o lyfr gair Duw yr un ffunud. Yna y gallau eu cyd-ddeiliaid o Loegr adrodd yn hytryd am danynt y n y geiriau hyn, *Y bobloedd a eisteddent mewn tywyllwch a welsant oleuni mawr: y rhai a breswylient yn nhîr Cyscod angeu, arnynt hwy y llewyrchodd y goleuni. Gwynfyd y bobl y mae felly iddynt, ie bendigedig y bobl y mae 'r Arglwydd yn Dduw iddynt.* Yna y dywedent ill dau yn frawdol fel hyn, — *Deuwch ac escynwn i fynydd yr Arglwydd, i dŷ Duw Jacob, ac Efe a*

ddysc

ddysc i ni ei ffyrdd, ac ni a rodiwn yn ei lwybrau ef.

Dros ugain mlynedd wedi hyn, bu Cymru heb nemawr o bregethwyr ynddi, na'r bên destament yn ei hiaith, er bod rhai ewyllyswyr da iddi. Dywedodd y doctor Powel drosti yn y llyfr Saesonaeg y breintiodd ef 1584, *Os rhyglyddai ſodd i Dduw anfon iddi y Bibl yn ei hiaith ei hunan yn ol y cyfreithiau Duwiol a wneithid, y byddai iw chyſtadlu ag un wlâd yn Lloegr, os y rheolwyr a'r dyſcawdwyr ſyddent da.* Y flwyddyn nesaf at hon anrheithiodd cynhaiaf anhymerus yr ŷd, a lladdodd y gaiaf y cattel agos i gyd drwy Gymru oll. A chyſododd Cymbro â'i galon yn gresynu wrth anwybodaeth ei wlâd i betisiwna 'r frenhines a'r Parliament am ychwaneg o hyfforddiant iddi: gan ddangos *fod y blâ o newyn arni, o herwydd anghyfanned-dra tŷ Dduw ynddi.* Hag. 1. 9. Ac ym mlwyddyn yr Arglwydd mîl a phumcant, a phedwar ugain ac ŵyth, cyfieithwyd a phreintwyd y Bibl cyſan yn Gymraeg gan y doctor Morgan Ficcr Llanrhaiadr ym Mochnant. Oed. Cri. 1588. Ond ni hwyrach ſel y dywedodd Nathaniel, *a ddichon da ddyfod o Nazareth?* Yr amheua'r Gwyneddwr, a allai 'r fath gymwynas iachuſol ddeilliaw o'r gymdogaeth honno. Etto gwèl ſel y prifiodd ceccri rhai o'i blwyſolion yn fantais ir athro hwn yn ei orchwyl pwys-fawr. Canys pan orſu iddo ſyned i lŷs yr Archeſcob i atteb iddynt, canſu'r prelad pwyllog ei odidowgrwydd ef, ac ai hannogodd ef ir gwaith bendigaid hwnw. Cymer hyn o grynodeb a chyfieithad oi lythr ladin ef at y frenchines, a breintwyd gyda 'r Bibl Cymraeg oi ladmeriaeth ef. —

Ir arddercheccaf frenhines Elizabeth, grâs a bendith yn yr Arglwydd.

Pa

Pa gymaint y mae eich mawrhydi chwi (odi-doccaf dywyſoges) yn nylêd y goruchaf Dduw, nid yn unic ei ryfeddol amdiffin ef yn tarfu y gelynion creulon yn ddiweddar, eithr hefyd y duwioldeb rhagorol, clodfawr drwy'r hollfŷd, â pha un yr addurnodd ef eich mawrhydi, fy'n eglur dyſtiolaethu. A hyn a ddengis pa radlawn ofal ydoedd gan eich mawrhydi chwi am eich Britaniaid, nid amgen na'ch ordinhâd drwy awdurdod Parliament y deyrnas i droi yn Gymraeg yr ddwy yſcrifen o Sanctaidd air Duw, ſef yr hên a'r newydd. Yr hyn hefyd fy'n datcan ein fyrthni, a'n eſgeulyſder ni, gan nad allai y fath athrwm anghenrhaid ein cynhyrfu ni, na chyfraith mor lleſol ein cymell ni, ſel nad arhoſai pêth mor bwysfawr, (mwy na pha un nis gallai dim fyth fôd) cyhyd heb ei gymeryd mewn llaw. Canys y Teſtament Newydd yn unic a drôdd eſcob Menyw yn Gymraeg er ys ugain mlynedd, gyda chynorthwy *William Salisbury*, gŵr a haeddai yn dda ar law ein eglwys ni. Nid hawdd mynegi faint o leſhâd y wnaeth ef i'n gwlâd ni wrth y gorchwyl hwnw. Canys y prŷd hynny prin y medrai ymbell un bregethu yn Gymraeg, o herwydd bod y geiriau rheidiol i egluro Sanctaidd ddirgeledigaethau yr Scrythr lân yn gymraeg wedi myned ar aball, megis wedi eu golchi ymmaith â dwfr * Lethe, neu wedi eu claddu dan lŵch anarfer: mal nas gallau na'r dyſcawdwyr agor yn ddigon amlwg yr hyn a ewyllyſient, na'r gwrandawyr eu deall; na dirnad pa rai oedd geiriau'r ſcrythyrau, a pha rai oedd eſponiadau o honynt. Yn ddiau pan ymgaſclent yn chwannog at bregethau, a bôd yn ddyfal ynddynt, etto

* *Afon yn Affrica yn gwneuthur i'r rhai a yfant oi dwfr anghofio pob peth.*

yn

ŷn anhyſpys ac yn amheus y byddai y rhan fwyaf yn ymadel, megis wedi cael tryſſor mawr nis gallent gloddio atto, neu fod mewn gwlêdd ſawr, heb gael bwytta o bonaw. Ond yn awr drwy ddirfawr ddaioni y Gorucha Dduw, a llafur y Cyfeithydd hwn, y mae genym fwy o bregethwyr, a pharottach, a gwrandawyr hyddyſcach. Fel y mae'r ddau beth hyn yn dda gan y duwiol, etto nid yw'r un o'r ddau hyd yn hyn yn gyſattebol iw dymuniad hwy. Canys gan fôd ar ein gwlâd ni eiſiau yr yſcrifen gyntaf honno o air Duw, y ſydd ragfynegiad, a darluniad, a thŷſt ddiogel ir llall: och faint o eſamplau, pa nifer o addewidion a chyſſuron ſydd dan gûdd? Pa faint o rybuddion, annogau, a thyſtiolaethau y mae ein pobl ni o'u hanfodd hebddynt: iechydwriaeth dragwyddol pa rai ſydd mewn mawr berigl hyd yn hynn; pan yw pôb un i *fyw drwy ffydd, a bôd ffydd trwy glywed, a chlywed trwy air Duw:* Yr hwn ni ſeiniodd ond ychydig i'n cenedl ni hyd yn hyn, gan ei fôd mewn iaith ddieithr. Am hynny wrth weled mor lleſol, ac anghenrheidiol ydoedd cyfieithu'r Scrythyrau eraill ir Gymraeg, (er i atgof o m gwendid fy hun, a maintioli 'r gorchwyl, a drygianiaeth rhai anwydau fy nigalonni yn hîr) gan gydſynio â dymuniadau 'r duwiol, goddefais fy mherſwadio i oſod ar y gwaith poenus hwn, a thra anghymeradwy i lawer. A chwedi ei ddechreu, deffygiaſwn o ran anhawſtra yr pêth, a maintioli 'r gôſt, a dugaſwn bum llyfr Moeſen yn unig at y printwâſc, oni bae ir parchediccaf archeſcob Caer-Gaint, achleſwr dyſceidiaeth, amddiffynwr y gwirionedd, a thirion wrth ein cenedl ni, fy nghymorth â'i haelioni, a'i awdurdod,

Rhuf. 10. 17.

Joan Whitgift.

durdod, ac â'i gyngor i fyned ymmlaen. Ar ol ei esampl ef, aeth gwŷr da eraill * yn gynorthwyol i mi: Oni chyfieithais i yr Testament Hên i gyd, a diwygiais argraphiad y Newydd. Os tybia neb mai gwell er mwyn cyttundeb fyddai cymell ein cenedl ni i ddyscu Saesonaeg, na throi 'r Scrythyrau i'n iaith ni; dymunwn arnynt ymogel, na yrront grefydd ymmaith wrth hyfforddi cordiad. Er bod yn ddymunol i drigolion yr un ynys siarad yr un iaith; etto mae yn gystal iw ystyried, y gosyn hynny gymmaint o amser a thrafferth iw ddwyn i ben, oni byddai yn rhy greulon ewyllysio neu oddef pobl Dduw i golli drwy newyn ei air ef yn y cyfrwng. Heb law hynny diammau y dichon cyssondeb crefydd wneuthur mwy tuag at danghnefedd, na chyssondeb iaith. Ac nid duwiol cyfrif bûdd yn well na chrefydd, a chordiad addiallan yn well na'r heddwch y mae gair Duw yn ei seilio ymmeddyliau dynion. Yn olaf, mor annoeth yw y rhai y dybiant, pe gwarasunid gair Duw yn ein iaith mammawl, yr annogai hynny i ddyscu un arall. Canys bydd crefydd yn anadnabyddus onis dyscir yn iaith y cyffredin; a'r peth y bo un heb adnobod ei felysdra a'i werthfawrogrwydd, ni chymer ddim poen er mewn ei gael. Am hynny attolugwn ar eich mawrhydi i'r rhai y rhoddasoch un fron y gwirionedd eusus, ganhiadu yr llall, fel y clodforo bob tafod Dduw.

Yn yr oes hon preintwyd hefyd rai llyfrau Cymraeg eraill i wneuthur ymaddroddiad ynghylch pethau Scrythyrol yn hawsach, ac yn rhwyddach, Megis Dicsionari William Salisburi, sef llyfr yn dangos arwyddoccâd geiriau Cymreig, y gyhoeddodd

* *Escobion Llan elwy, a Bangor. Dr Dafydd Powel. Mr Edmund Prys. Mr R. Vauchan o Literwrth. Mr Gabriel Goodman Deon Westminster.*

hoeddodd ef ugain mlynedd o flaen cyfeithad y Teſtament Newydd. Ac ar yr un flwyddyn ac y preintwyd y Teſtament Newydd gartref, cyhoeddodd y doctor Griffith Roberts Ramadeg Cymraeg yn yr Ital, ac ai anrhegodd ef i jarll Penfro, gan ei ganmol am na ddywedai ond bruttaneth wrth Gymro ymmyſc Penaduriaid y deyrnas. A chwedi hynny yſcriſennodd y doctor Joan Dafydd Rhys Ramadeg Cymraeg arall: ac yn y flwyddyn 1595 gwnaeth Harri Perri ddoſparth ar Retoreg, yn dyſcu lluniaeth ymadrodd yn Gymraeg. Yn nechreu yr hwn y mae 'r ſerſi ladin yma o waith Henri Holland.

Ancillas Dominus præmiſit, ſpero ſequentem
Poſt dominam: facilem ſterne libelle viam.

Ydoedd yn datcan ei obaith ef fôd aml bregethiad, a gwybodaeth o'r eſengyl ar ddyfod ir wlâd am i'r Arglwydd anfon y llawforwynion, ſef Gramadeg a Retoreg i gyweirio 'r ffordd iddi. Ac ar yr un flwyddyn rhoddwyd y pſalmau ar gynghanedd Gymraeg yn America. A thrôdd trafaeliwr arall ſef Mr M. Cyffin lyfr eſcob Juel yn Gymraeg. Wedi dychwelyd caethiwed Cymru ſel un Job, cynhyrfwyd rhai o'i charedigion o bôb parth, *i roddi iddi bôb un ei dlws iw chyſſuro am yr holl ddrwg a ddigwyddaſai iddi.* Yn ghylch hyn gwnaeth Mr Robert Holland gweinidog Llanddyſerwr yn Sire Gaer-Fyrddin, draethawd byrr yn erbyn conſurwyr a Dewiniaid, ar dull ymadrodd rhwng Tudyr a Gronw. Ac ymhen dwy flynedd ar ugain gwedi trôdd ef gateciſm Mr Perkins yn Gymraeg, ac ai preintiodd ef. Yn nheyrnaſiad y brenin James wedi diwygio cyfieithad y Bibl yn Saeſonaeg, gwnaeth yr eſcob Parry drwy gynorthwy Job. 42. 11

thwy y Doctor Dafies o Fallwyd yr un cymwynas i'n gwladwyr ni yn cywreinio yr Bibl cymraeg. Gan addef yn ei lythr ladin at y brenin, *iddo*
1620. *dacclu'r adeilad a wnaethau ei ragflaenoriaid ef, a Lloffa tywyſennau ar ol eu cynhaiaf hwy.* Y Pryd y preintwyd y llyfr Homili hefyd yn Gymraeg. Er dyfod y Bibl Cymraeg ir llannau, ni ddaethai mono etto yn gyfan i dai, am ei fod o brîſt mawr, ac o gymaint prîs na chlywai ond rhyw un arno ei bwrcaſu, am hynny yn y flwyddyn mîl a chwechant a dêg ar ugain, drwy draul yr anrhydeddus Sr Thomas Midleton, a Mr Heilyn Alderman o Lundain preintwyd ef â llythyrennau mân; ac aeth ei faintioli a'i bris yn gynhwyſach, ac yno daeth i ddwylo 'r gwerin yn amlach. Gallesid galw 'r gorchwyl hwn fel mâb Zilpha,
Gen. 30. 11. *Gad, ſef bagad, y mae tyrfa yn dyfod.* Canys o hynny allan aeth gwybodaeth o Dduw ar gynydd amlwg ymmhlith ein gwlâdwyr ni. Ac i hyfforddi ein pregethwyr, perfeithiodd y Doctor Dafies ddicſionari Cymraeg, a ddechreuaſai 'r doctor Thomas Williams, ac eraill o ewyllyſwyr da i Gymru: a gwnaeth ef Ramadeg Cymraeg hefyd. A chyfieithwyd llyfrau godidog tuag at adeiladaeth yſprydol; Sef *llyfr y Reſoluſion*, a'r *ymarfer o Ddduwioldeb*, a'r *Llwybr Hyffordd ir neſoedd.* Gwnaeth *Carwr y Gymro*, *a Sail y gretydd Griſtnogol*, a chaniâdau Scrythyrol *Ficcar Llanddyfri* Ieſhâd i amryw. Lluoſogodd hefyd yſcolion i blant drwy Gymru, a ducpwyd i fynu lawer oi gwyr ievainge mewn dyſceidiaeth yn y coleds y berthyn iddi yn Rhydychen (y ſeiliodd y frenhines Elizabeth yn y flwyddyn 1572 drwy annogaeth Sr Hugh Priſe) ac mewn yſcoldai eraill. Ac

ſel

fel y rhoddes Duw *hâd ir hauwr*, *amlhâoddy torthau ir bwyttawyr*, a phreintwyd eilwaith chwe mîl o Fiblau Cymraeg â llythyrennau mân, ac aethont cyn ratted a biblau Saesonaeg. Ac er mwyn hên bobl, a'r rhai fyddent â golugon gwannach, preintwyd llaweroedd o'r Testament Newydd yn gymraeg ar eu pennau eu hunain â llythyrennau brâfach. Felly gwnawd yscrifen gymraeg o ewyllys Duw *yn eglur ar lechau, fel y rhedo yr hwn ai darlleno*; a chyn rhatted, ac y llawenhycho yr hwn ai pryno. Preintwyd hefyd lawer o lyfrau buddiol eraill yn gymraeg, megis *cateciſm Eſcob Vſher*, a'r hwn a wnaeth y *Gymanfa yn Weſtminſter. Drecſeliau ynghylch tragwyddoldeb, y Cywyr Ddychwelwr. Galwad ir anychweledig*, a'r cyfryw. Ac fel y gwelodd Duw yn dda amlhâu cynorthwyau 'r ffydd yn ein plith, felly amlhâodd rifedi y Sawl au iawn arferant. Wedi iddo roddi goleuni'r efengyl i'n gwlâd, deffrôdd gydwybodau amryw bobl *i fwrw oddiwrthynt weithredoedd y tywyllwch, ac i rodio yn weddus megis wrth liw dydd. Nid mewn meddwdod, anlladrwydd, a chenfigen*, oad mewn ſobrwydd, diweirdeb, a chariad Duw. Am hynny nid yn ofer y goleuodd ef ei lampau, gan fôd rhai yn *gweithio eu iechydwriaeth* wrthynt. Ac ni chwbl gywil yddwyd gobaith ein henafiaid; Yr rhai yn eu Zèl a addawſant ir awdurdod, *os caſai eu gwlâd air Duw yn ei hiaith, y rhodiai hi yn eiffyrdd ef*. Gwn i'm gofid, fod y rhan fwyaf yn rhodio 'n ddrwg fucheddol, etto tâl yr hyn ſydd o eneidiau grafol yuddi yn awr, fwy na'r gôſt a'r boen a gymerwyd iw hyfforddi mewn gwybodaeth er ys can mlynedd. A'r Arglwydd a ganhiado iw daioni rhag llaw debygu ir *go-*

1654

Hab. 2. 2.

Gwêl Ephr. W. S. a'r Dr. Po.

leuni yr hwn a lewyrcha fwyfwy hyd ganol dydd.

Bellach yſtyriwn mor ddwys y darfu i'n henafiaid ni ddigio Duw, gan iddynt fôd dan drais a blinder echryſlon ynghylch mîl o flynyddoedd.

Ser. 20. 3. Oni ellid eu galw *Magor Miſſabib, ſef dychryn o*
Hoſh. 4. 1. *amgylch; a ſyrthiaſant ar gleddyf eu gelynion. Bu*
hîr gŵyn rhwng yr Arglwydd a thrigolion ein gwlâd, nes iddynt gael y gwaethaf, a'u torri yn niwyn. Yna y gallaſai un ofyn *pwy a gyſyd* Gymru,
Amo. 7. 2. *Canys bechan yw? Ond yr Arglwydd ai cofiodd yn ei*
Pſal. 136. *hiſel radd o herwydd ei drugaredd*: a gweithiodd
23. ei gwarediad fel un Iſrael yn amſer Ahaſuerus, ac Eſther, drwy briodas. Gan wneuthur ei chaſeion yn dirion wrthi, ai herlidwyr yn ddiddanwyr iddi. Y rhai a dynaſant oddiarni y caethiwed teimladwy mewn pethau bydol yn gyntaf, ac ar ôl hynny canhiadâſant iddi foddion rhydd-hâd oddiwrth gadwynau'r tywyllwch yſprydol. Pe rhôn ir ſaeſon tra yr oeddent yn gorthrummu ein cenedl ni, gynnyg ffordd y Proteſtaniaid iddi, tebyg y buaſai cyn anhawſed genddi ei derbyn, ac oedd gan yr Americiaid truenus dderbyn ffydd yr Hiſpaeniaid trahaus, y rhai a ddywedaſant, *na cheiſient hwy mor nêf, os oedd yr Hiſpaeniaid yn myned yno*: Neu ac oedd gan yr Iſraeliaid goelio addewidion Duw drwy ei brophwyd Moſes yn yr Aipht, *Y rhai ni wrandawſant gan gyfyngdra yſpryd, a chan gaethiwed caled.*

Exod. 6. 9.

Ac er tynered ſu'r moddion i ddwyn gair Duw at ein cenedl ni, etto arafaidd, ac oerllyd y creſawyd eſ. Codódd Cerniu mewn arfau iw wrthwynebu eſ. A buGymru ugain mlynedd heb ddim o'r Scrythyr lân yn ei hiaith yn gyhoeddus, wedi troi'r Bibl cyſan yn Saeſonaeg drwy genad awdurdod

durdod y deyrnas. A chwedi troi'r naill Deſtament yn gymraeg, bu ugain mlynedd drachefn heb y llall. A phan gafwyd y ddau ir eglwyſydd, bu ddwy flynedd a deugain gwedi cyn eu cael i dai, ac i ddwylo'r cyffredin. Ac hyd yn hyn nid aeth diwydrwydd creſydd gymaint mewn cymeriad yn ein plith ni, ac ydyw yn Lloegr, a'r Albain, a gwledydd eraill. Ac nid rhyfedd i anwybodaeth bylu ein cenedl ni, pryd na lefaſent gan y gyfraith roi dyſceidiaeth iw plant: na chan babyddiaeth yr amſeroedd hynny gael golwg o'r ſcrythyrau. A chwedi iddynt dros lawer oes gynefino â'r cyflwr hwnw, aeth y carchar yn gartref; a dywed y ddihareb, *yr aderyn a faccer yn uffern, yn uffern y myn drigo.* Y rhai fyddo yn hîr yn gorwedd mewn daiar dŷ tywyll, triſt, a lyſmeiriant pan ddelont ir awyr heulog. Grwgnachodd yr Iſraeliaid ymadel â'r Aipht, wedi eu bod yno cyhyd. Yn yr oeſoedd diweddaf, yr oedd y Germaniaid, a gwyr Ffrainc, a'r Saeſon yn daer ar yr awdurdodau oedd arnynt am gael rhydd did i ddilyn purdeb creſydd, ac onis caent, nhwy ai dilynent hyd ferthyrdod. Ond gorfu ir awdurdodau goruchel gymell y Cymry i ddaioni, a braidd y deffrôent er hynny. Ond *Arglwydd y cynhaiaf* a ddichon drefnu ir dydd a gododd yn araf, brifio yn dèg i achub llawer o ffrwyth a llafur yn ein gwlâd, *a bod goleuni yn yr hwyr*, a lleſtair i'n pechodau ei dywyllu. Zech. 14. 7.

Ond er pan ddaeth yr ſcrythyrau yn Gymraeg i'n plith, y mae 'r helynt orau ar ein cenedl ni ac y fu ers llawer o genedlaethau. Rhoddes Duw iddi heddwch oddiamgylch. Ni ŵyr y tô preſennol oddiwrth y cyfyngdra gofidus ydoedd gynefin

i'n henafiaid ni gynt. Y mae'r Saeſon oeddent fleiddiaid rheibus, wedi myned i ni yn fugeiliaid ymgeleddgar, ac agos cyn hynawſed wrthym ni, ac ydym ni wrth eu gilidd. Y nhwy ſy'n preintio ein llyfrau ni, ac yn dyſcu celfyddydau i ni; ac yn marchnatta â'n gwlâd nid wrth y dur a'r baiarn, ond yr aur a'r arian. Yr hon ſydd yn awr lawnach o ddynion ac o olud, nag y fu ers talm o'r blaen; *a'n celloedd yn llawn o bôb rhyw luniaeth,*
Pſal. 144. 13. *a'n defaid yn dwyn myrddiwn, a'n hychen yn gryſion i lafurio, heb na rhuthro i mewn, na myned allan, na gwaeddyn ein heolydd.* Mae gwybodaeth wedi amlhâu, a'r cythreuliaid yn y coedydd wedi diſtewi. Mae ein moddion heſyd wedi rhywiogeiddio llawer. Nid oes mor ſath yſpeilio, a threiſio, a mwrdro, ag y glywſom ni gan ein henafiaid ei fod yn eu myſc er's talm. Mae Powys yn weddus wrth ſel y bu. Mae Lloegr yn agored i ni heſyd, a chyn hyſed ini breſwylio ynddi mewn cyſiawnder ac oedd i'n tèn rieni ni cyn ei cholli. Ni bu ein cenedl ni yn yr Jwerddon er ioed emlach. A diammeu pe cryſhaeu uſudd-dod i air Duw yn ein myſc ni, ychwanegid at ein trugareddau ni. *Canys gwyn ſŷd y bobl y mae'r Arglwydd yn Ddaw iddynt. Er gorwedd o honynt*
Pſal. 144. 15. *ymmyſc y crochanau, byddant fel eſcyll colommen wedi eu gwiſco ag arian, a'i hadenydd ag*
Pſal. 68. 13. *aur melyn.* Ynteu nag *anghyttuna ag iachus eiri-*
1 Tim. 6. 3. *au ein Harglwydd Jeſu Griſt, a'r athrawiaeth*
ſydd ar ol Duwioldeb. Os ewyllyſi yn dda i'r wlâd,
1 Pet. 3. 11 *a gweled dyddiau da, gochel y drwg, a gwna y da.* Am hynny dywedaf wrth y Cymro a ryddhawyd, yn ol y ſiarſe y roddes Chriſt ar
Joan. 5. 14 y clwyfus a iachawyd, — *Wele ti a wnaethpwyd*

yn

yn iach, na phecha mwyach, rhag digwydd i ti beth a fyddo gwaeth. Mae ewyllis Duw yn ddatcuddiedig yn yr oes hon; *Caffed ei pherffaith waith ynom ni, rhag nad arbedo'r Arglwydd monom ni* mwy na'n henafiaid. Cyndyn yw'r anwybodaeth, a'r drygioni sydd yn ein mysc ni etto. *Wedi yr hyn oll a ddaeth arnom am ein mawr gamwedd, a rhoddi o'r Arglwydd ini ddiangfa fel hyn, a dorrwn ni drachefn ei orchymynion ef; oni ddigia efe wrthym nes ein difetha, fel na byddo vn diangol?* Nid ydym ni heddyw ond tipin o weddill y Britaniaid, mogelwn rhag i'n Gwneuthurwr yn ei ddig fwrw ymmaith hynny ir diniſtriwr ar ôl y llall. *Gwelwn ddaioni a thoſter Duw, Sef i'n tadau a gwympaſant, toſter, cithr daioni i ni os arhoſwn yn ei ddaioni ef, os amgen torrir ninnau hefyd ymmaith.* Canys prifia goleuni yr efengyl i bobl anufudd fel mellten beryglus, a ddwg daranau dychrynllyd ar ei hôl. *Cadwn farnedigaethau'r Arglwydd, ac na wnawn y ffiaidd bethau a wnaeth y rhai a fu o'n blaen: fel na chwydo y wlâd ninnau megis y chwydodd hi y genedl a fu o'n blaen.*

Ezr. 9. 13, 14.

Rhuf. 11. 22.

Levit. 18. 26, 27, 28.

Gweddiwn ar Dduw am roi yſpryd ei râs i bôb grâdd ar ddynion yn ein myſc, *fel yr adeiladont yr hên ddiffaethfa, ac y cyſodont anghyfannedd-dra llawer oes: Sef tabernacl Dafydd yr hwn a ſyrthiodd* yn ein gwlâd ni yn amſer ein hên dadau; *ac yr adeilader ei fylchau drachefn: fel y byddo ir hyn a weddillwyd o honom geiſio'r Arglwydd, yr hwn ſydd yn gwneuthur yr holl bethau hyn;* ac a'n *gwaredodd o dŷ caethiwed* bydol ac yſprydol, y mae'r Gwyddelod yn nychu ynddo etto. Gwilia arnat yn ddyfal o Gymbro, rhag iti rwyſtro na digalon iadferi-

Eſai. 61. 4.

Act. 15. 16, 17.

ad y ffydd yn dy frô. Canys *yr Arglwydd yr hwn*
Zech. 3.2. *a ddewisodd y gweddill a gerydda bôb gwrthwyne-*
bwr, Onid pentewyn yw hwn wedi ei achub o'r tân?
yn hytrach gwnaed yr oes hon ei rhan yn adeila-
du ar y sail yscrythyrol a osododd yr oes ddiwe-
ddaf, ac yn cynnyddu'r gwaith a ddechreuwyd
drwy gymmaint o anhawstra, fel *y torro goleuni*
Cymru allan fel y wawr, ac na ddiffodder ei phente-
wyn. Byddai yn gymorth nid bychan iddi, pe cy-
fodau ei blaenoriaid goleds neu ddau ynddi, i
ddwyn gwyr jevaingc gobeithiol i fynu mewn
dysceidiaeth a moesau da, tuag at eu cymhwyso
gyda bendith y goruchaf i weinidogaeth efangy-
lol, a swyddogaeth wladwriaethol. Beth sydd swy
cyssurus ir gydwybod, na'r hyn y wneler tuag at
adferu addoliad Duw ym mysc pobl y fu mewn
hîr drueni a thywyllwch? pan ddychwelwyd cae-
thiwed yr Israeliaid o Babilon, aeth *Joshua yr ar-*
Zech. 3. 1. *choffeiriad, a Zerubbabel y tywysog* wrth ail-adeil-
ac pen. 4. 7. adu'r deml yn anwyl gan Dduw, a dynion, ac
angylion Ac ychydig gwedi ni bu neb rhyw or-
chwyl a ddiddanodd Nehemiah gymmaint, a'i
lafur ef yn ail-adeiladu Jerusalem, gyda ei zêl yn
gwellhau buchedd a threfn ei genedl. Medd ef, *Co-*
Neh. 5. 19. *fia fi o fy Nuw er llès i mi, yn ol yr hyn oll a wneu-*
ac pen. 13. *thum i'r bobl hyn.* A phan ddug hwynt i Sancteiddio'r Sabboth yr oeddent o'r blaen yn ei halogi,
22. dywedodd ef, *Am hyn hefyd cofia fi fy Nuw, ac*
arbed fi yn ol lliaws dy drugaredd. Ni ddeleir y ca-
redigrwydd a wneler i deml yr Arglwydd, Ac ni
2 Sam. 7. phalla ei wobr. Pan gyfrannodd Dafydd ei feddwl
2. 4. 11. ir prophwyd Nathan, ei fod ef ar fedr adeila-
du tŷ i Dduw, y nosson honno mynegodd Duw
y gwnai ef dŷ iddo yntef; ac a'i cwplaôdd yn
helaeth.

helaeth. Pan ſwccrodd Obed Edom Arch Dduw, cafodd daledigaeth ſyber a hynod, *oni fynegwyd ir brenin, gan ddywedyd, yr Arglwydd a ſendithioad dŷ Obed Edom, a'r hyn oll cedd ganddo, er mwyn Arch Dduw.* 2 Sam. 6. 12. Diandlawd ydoedd y fendith a lonnodd gymaint oll ac oedd eiddo ef. Y tarth a weler yn eſcyn i fynu, a fydd ſiccr o ddeſcyn i lawr eilwaith yn law ffrwythlon. Ac felly y gwnaiff anadliad y galon raſol, y fyddo â'r ewyllis ac â'r gallu yn ymgodi at bethau perthynol i deyrnas nêf, gan ddychwelyd â chafodydd o fendithion aml. Ni bydd y nêf yn nylèd y ddaiar. Yr hyn a wyddai Salomon yn hy-dda wrth ei brawf, a'i lwyddiant ryfeddol wedi iddo adeiladu'r deml. Am hynny yn ei ddoethineb a'i ſerch cynghorodd ei fâb, gan ddywedyd, *anrhydedda yr Arglwydd â'th gyfoeth, ac â'r peth pennaf o'th holl ffrwyth: felly y llenwir dy ſcuboriau â digonoldeb, a'th winwyrŷfoedd a dorrant gan wîn newydd.* Dihar 3. 9, 10. Ac nid yn y bŷd yma yn unig y ceir tâl am yr hyn a dreulier ar waſanaeth Duw, eithr yn y bŷd arall hefyd. Pan gipio marwolaeth y rhai didda at benyd a phrinder dragwyddol, caiff y Goruchwylwyr ffyddlon a arferant eu talentau yngwaſanaeth eu Harglwydd *dryſſor yn y nefoedd yr hwn ni ddarfydd*, a chynhalieth ogoneddus byth. Ynteu maſnach ynnillfawr *yw rhoddi echwyn i'r Arglwydd*, a goreu hwſmonaeth yw llafurio i danu'r hâd y tyfiff ei gnŵd yn uwch na'r cymylau. *Obleygyd yr hwn ſydd yn hau iw gnawd ei hun, o'r cnawd a fêd lygredigaeth, eithr yr hwn ſydd yn hau i'r yſpryd, o'r yſpryd a fêd fywyd tragwyddol.* Luc. 12. 33. Gal. 6. 8. Oh nad ymegniai'n cenedl i ſod mor fywiog, ac mor wreſog yn y grefydd Griſtnogol ac y ſu rhai o'n

hen deidiau ni gynt. Troesant hwy Scotiaid, a Phi-chtiaid, a Germaniaid, a cenhedloedd eraill at ffydd Grist, ac a esceuluswn ni hi yn ein cartref ein hunain? yr oeddent hwy yn flaenaf, ac a fyddwn ninnau *yn olaf* yn achofion teyrnas nêf? yr oeddent hwy fal eryrod yn ymgais *â Haul y Cyfiawnder*, ac a fyddwn ninnau fal tulluanod yn hoffach gennym y tywyllwch? Na ddirywiwn, eithr fel *Naboth* glynwn yn y *Winllan* efangylaidd y fydd *dreftadaeth ein henafiaid: a rhodiwn fel plant y goleuni*: ac ymddygwn *yn ddyladwy wrth fôdd Duw, megis y mae hi yn bryd i ni bellach. Nid mewn cyfeddach, a meddwdod, nid mewn cyd-orwedd, ac anlladrwydd, nid mewn cynnen, a chenfigen.* Mal y gallo ein gwlâd a fu cyhyd dan wradwydd fyned yn enwog am rinwedd. Tybia rhai mae heppil Cam ydym ni, a pheth o weddillion y Cenhedloedd a ddiangafant o dir Canaan tua'r gorllewyn rhag y dialedd diniftriol a ddaeth arnynt yn amfer Joshua. Os yw hynny yn bod, (Canys nid yw'r chwedl heb liw) etto by ddwn rafol, a bendith Chrift a ylch ymmaith felldith Noah. A chaiff y cenhedloedd o'n hamgylch wybod nad *ardal dry gioni ydym, na'r bobl wrthy rhai y llidiodd yr Arglwydd yn dragywydd.* Eithr *y rhai a'n gwelant* a gydnabyddant, ein bod yr *hâd a fendithiodd yr Arglwydd. Cyd-ymfyriwn bawb ei gilidd, i ymannog nid i gâs, a thyrnau drwg, eithr i gariad a gweithredoedd da.* O Herwydd *cyfiawnder a ddercha fa genhedl: ond cywilydd pobloedd yw pechod.*

1 *Bren.* 21. 3.
Rhuf. 13, 13.
Gen. 9. 22. 25.
Mal. 1. 4.
Efai. 61. 9.
Heb. 10. 24
Dihar. 14. 34.

PEN.

PEN. XX.

Sicer wirioneddy Ffydd Griſtianogol.

ER bod achau'r ffydd (y argraphwyd euſus) yn gwirio Duw yn dâd iddi, etto gellir cael ychwaneg o hyſpyſrwydd am hynny wrth ei phrŷd ai gwêdd y ſydd yn tebygu iddo ef; a'i oſal ymgleddus yntefyn cynal ei hathrawieth, ſef yr yſcrythurau ſanctaidd: ac oddiwrth amryw yſtyriaethau eraill y ganlynant.

1. Rhaid ydoedd i ddŷn er y dydd cyntaf y gwnawd ef waſnaethu *Duw*, i hynny y creawyd ef. Ac ſal y gwnai ef hynny mewn môdd cymeradwy, rheidiol oedd iddo wybod ewyllis ei Greawdwr. Yr hon y ſynegwyd ir bobl gyntaf hîrhoedlog, ac a ſcrifenwyd ir cenedlaethau byr-oes: yr hwn a ordeiniodd yr haul i ddŷn er y dechreuad i wneuthur gorchwylion corphorol wrtho, y roddes iddo reol yn foreu i gyflawni dyledſwyddau yſprydol wrthi: a mwy na thebygol mai'r eſangylaidd oedd honno, gan nâd oes grefydd yn y bŷd cyn hyned â'r Griſtnogol, na ſcrifennâdau yn y bŷd mor oedranus â rhai'r prophwydi, nac yn mynegu cymmaint ynghylch y cynſyd. Nid yw dychymygion y *Pâb*, a *Mahomet*, a'r cenhedloedd, ond Babanod anelwig, diſynwyr wrth y rhain; ie cywion gorphenhaf y ddeorodd gwreſogrwydd llwyddiant bydol, y ddaethant o'r cibau yn ddiweddar, ac a ddarſyddant eilwaith. Cafodd yr eſengyl ei chredu lawer Cant o flynyddoedd cyn eu geni hwy, a chaiff etto ar ol eu marw hwy, canys *tragwyddol yw*. Gwelwn bar- *Dan.* 14. 6

hâu

hâu o adeilâdau Duw, ſef y nefoedd a'r ddaiar, yn hwy na rhai cadarnaf o waith dynion, ac a wnaethpwydou blaen hwynt hefyd. Y mae ffordd grâs yn hynach na ffordd pechod; ac y mae amſer yn dwyn gwîr ir goleu: haeddeu'r ffydd yn teu barch o herwydd ei phenwynni, a'i bod yn broſedig ac yn ganmoladwy gan bôb oes.

2 Perffaith helaeth yw gweithredoedd *Duw*; nid oes yn y nefoedd a'r ddaiar ddim yn niffig, eithr yn gwbl ddigonol y maent i gynal dŷn gyda chariad *Duw*; gwelir hyn heiyd yn athrawieth y ffydd; medd *Dafydd dy orchymyn ſydd dra eheng.* Yn yr yſcrythyr y mae digon o gyfarwyddyd i ddŷn pa ſodd i ymddwyn tu-ag at *Dduw*, a thuag at ddŷn, ac i edrych atto ei hun, *i fyw yn ddoeth wiol, yn gyfiawn, ac yn ſobr.* Ac ni reola ein gweithredoedd ni yn unic a'n geiriau; ond ein meddyliau, a'n gwyniau, a'n chwantau, a'n dymuniadau, y rhai ni chyffwrdd cyfreithiau dynol â hwynt.

Pſal. 119. 96.

Y mae pôb pêth y wnelo, y ddywedo, y feddylio dynion yn orchymmynedig neu yn ommeddedig yngair *Duw*. Ac y mae pôb daioni a ddigwydd ir graſol yn y bŷd yma, ac yn y bŷd a ddaw; a phob aflwydd a ddigwydd ir anuſydd, yn gynwyſedig yn ei addewidion, a'i fwgythion. Nid yw 'r delwau y gerfier gan ddyfais gywreinwaith ddim wrth ddŷn y greawdd *doethineb Duw*, yr hwn ſydd ganddo bôb aelod, a chymal, a gien, a gwythen a'r ſydd reidiol iddo, ac yſpryd iw cynhyrfu, er ei wneuthur yn waſnaethgar i *Dduw*, ac iddo ei hun; dyna 'r fath ragoriem berſeithrwydd y welir rhwng cyfreithiau dynol, a gorchymmynion bywiol Duw.

3 Ergyd

3 Ergyd ſcrifenâdau 'r grefydd Griſtianogol yw gogoneddu *Duw*, a chymwyſo dynion i hynny yn dragywydd, *yrhai ſydd o'r ddaiar â'r pechod am hynny y ſoniant, ac y ſyniant*, ond yr hyn ſydd o'r nêſ, yno y cyrchiff eilwaith. Arwydd yw bod elfen y tân nefol hwn uchod, am ei ſod yn eſcyn tu-ag i ſynu.

Dengis yr ſcrythurau mal y creawdd, ac y 'prynodd ac y cynal yr Arglwydd y bŷd, er eglurhâu ei drugaredd ef, ac fal y barnodd ef y bŷd yn amſer *Noah*, ac wedi hynny er amlygu ei gyfiawnder ef. Galwant am ſanctteiddrwydd, gan orchymmyn hynny, a rhoddi ger bron annogaethau cryfion i berſwadio dynion i ſôd yn rafol; megis eſampl *Duw* ei hun, a ddywed *byddwch ſanctaidd, canys Sanctaidd ydwyfi*; cyd-ymffurfia rhai â'u pen-llywydd: a'i aml ddaioni ef, attolygant ar bobl *i'r trugareddau Duw roddi eu cyrph yn aberth byw, ſanctaidd, yr hyn yw eu rheſymol waſanaeth hwynt*. Torrir calleſtr ar gluſtog, a'r galon galed ar ymyſcaroedd tyner *Jeſu Griſt*; fal y byddo 'r editeiriol *ſyw trwy ffydd Mâb Duw, yr hwn a'i carodd* hwynt, *ac a'i dodes ei hun droſtynt hwy*. Archant Adel pôb mwyniant bydol, a *dwyn pôb croes i ddilyn Duw*. Ni buaſai dyn fyth yn rhoddi y fath dâſc arno ei hun, a chûed ganddo ei bleſer, a'i bechod, a'i eſmwythder: yr hyn ſydd argoel i *Dduw* wneuthur y gorchymynion heb genad dŷn; canys y mae dŷn pechadurus yn dueddol i geiſio, ac nid i *wadu yr hunan*. Tŷſt yw Crefydd *Mahomet*, y ganiâda iw dilynwyr ddigon o anlladrwyd, ac ylpail; a dychymygion y *Pâb* a gynhaliant ei falchder ef. Beth yw ei burdan ef, onid pair gelfyddgar i droi ei weddiau ai

1 Pet. 1. 16.

Rhuf. 12. 1

Gal. 2. 20.

Marc. 10. 28.

-bardynau

bardynau plumaidd eſyn arian iw goffrau eſ?

4 Y mae gair Chriſt *yn awdurdodol*, ac ſelly
Math. 7. 28. yn amlygu ei ddyfod oddiwrth y brenin nefol.
Gen. 1. 3. Megis y bu yn y creadigaeth, pan *ddywedodd Duw bydded goleuni, a goleuni a fu.* Gweithia'r ſcrythyrau mor rymmus ryfeddol ar eneidiau dynion, ac y rhaid en cydnabod yn *allu Duw er ie-*
Rhuf. 1. 16 *chydwrieth ir rhai ſydd yn credu. Nid anhawdd dirnad pendefig goruchel wrth ei foddion, ai ymddygiad, er ei fod mewn trwſiad plaen.* Pan leſaro *Duw* yn ei air wrth gydwybodau dynion, bwrir i lawr y meddyliau balchaf, trumheir y meddyliau yſcafnaf, dychryniff y meddyliau dewraf, archollir y calonnau calettaf *megis â chleddyf dauſiniog.* Aml ac am-
Heb. 4. 12. *Luc.* 1. 51. lwg yw gwaith rhagluniaeth *Duw* yn tynnu i lawr y cedyrn, a'r beilchion ymmyſc ei elynion; ac nid llai hynod gwaith ei drugaredd ef drwy'r ſcrythyrau yn *iſelu ucheldrem dynion* Parodd carcharor truan wrth adrodd ewyllis *Duw* i farnwr *gr-*
Act. 24, 25 *ynu* ynghanol ei reiolti. Gwnaeth pyſcodwr gwael i eraill *weithio allan eu iechydwrieth drwy ofn a dychryn,* oeddent o'r blaen yn pryſſuro at golledigaeth drwy wawd a chwerthin. Caſodd gwatwarwyr wybod rhagor rhwng gwaith meddwdod a prophwydoliaeth, prifiodd y *gwîn newydd* yn fineger llym, a barodd iw cydwybodau dolurus hwynt ofidio, a llefain am iachâd. Canys tra yr oedd Petr yn agori iddynt yr hyn oedd gynwyſedig yn ſcrifennâdau'r prophwydi, (ſal y *tywall-*
Act. 2, 13, 14, 16, 17, 21. 35. 37. *tei Duw o'i yſpryd ar bôb cnawd yn y dyddiau diweddaf, ac yr adgyfodei ef Griſt i'r orſeddfaingc, gan oſod ei elynion yn droed-faingc iddo ef)* dwyſbigwydd gwrandawyr *yn eu calonnau,* oni *ddywedaſant wrthyr Apoſtolion, Ha-wyr frodyr beth a wnawn ni?*

Ac

Ac maly mae'r ſcrythyrau yn *feibion y daran* i ddeffroi cydwybodau cyſclud, felly hefyd yn *feibion diddanwch* i gydwybodau dychrynllyd. Cyhoeddant rydd-did ir caethion yn gyſtal a chaethiwed i'r rhyddion: a chan eu bod *yn attal poethder y ffwrn danllyd*, ſef digofaint a gofid meddwl, byddem waeth na'r anghrèd gynt, oni chyſaddeſwn ſod eu gallu o *Duw*. Y pennod cyntaf o'r epiſtol at y Rhufeiniaid y gynhyrfodd *Luther*, y bennod gyntaf o'r epiſtol cyntaf at *Temothews*, a'r 15 adn. a gyſſurodd *Junius a Bilney*, oni ymroeſant i garu *Duw*. Y mae gwlithin hyfryd ar bôb glaſwelltyn, a mèl ymmhôb meillionen, a melyſdra ymhôb meſuſen, ac arogl peraidd ym mhôb llyſieuyn yn yr ardd yſprydol hon. Gwelir y fath gyfnewidiad ryſeddol yn y rhai ſydd yn derbyn grâs yr efengyl, megis pe troeu gwiberod yn glommennod, neu fleiddiaid yn ddefaid. *Paul yr erlidiwr* a aeth yn *bregethwr* yr efengyl. Troiff y meddwon yn ſobr, a'r anllad yn ddiwair, a'r daiarol yn neſol, a'r dŷn *oi gôſ iw iawn bwyll*, er iddo o'r blaen *dorri pob rhwyman* i ganlyn ei drachwantau. Dôfiff y boneddigion gwreſoccaf, *a'r llanciau gwylltaf a lanhânt eu llwybrau, wrth ymgadw yn ol gair Duw*. Er bod Joſiah yn frenin hoyw-deg, etto wrth *glywed darllen llyfr y gyfraith meddalhàodd ei galon ef, ymoſtyngodd, ac wyloàd ger bron yr Arglwydd, a gwnaeth gyfammod* cyhoeddus *ar fyned ar ôl yr Arglwydd, ac ar gadw ei orchymynion ef â'i holl galon, ac â'i holl enaid. Tr hyn hefyd a gyflawnodd ef yn ffydd on.* Pe cerddai afon yn erbyn ei ffrŵd, (ſel yr Jorddonen gynt) ni byddei hynny ryſeddach nag ymarweddiad y gwir Griſtianogion, y ſydd yngwrthwyneb iw chwantau naturiol.

Dan. 3.

Pſal. 119. 9.

2 *Brenh.* 22. 10, 11.

19.

ac epn. 23. 3.

5. Gwaith *Duw* yn cadw yr ſcrythyrau o amſer i amſer, er maint ydoedd bwriadau angylion, a dynion drwg iw difetha hwy, a ddengis fod eu ganedigaeth hwy o honaw ef. Cais y creaduriaid oll ymddiffin eu hepil, megis yr jâr ei chywion, a'r ddafad ei hoen. Ceiſiodd y cythrael ym mhob oes fwrw geiriau *Duw* allan o feddyliau, a ſerch pobl; a gwneuthur eu coffadwriaethau fal rhidyllau; i ollwn i lawr yr ŷd ffrwythlon, ac i ddala yr ſothach, a'r ehêdion. *Y mae 'r drwg yn*
Math. 13. 19. *cipio gair y deyrnas oddiar y galon anneallus*, etto mae'n *ſcrifennedig ar galonnau* miloedd. Ni bu malais dynion drwg ſegur chwaith, eithr ymegniâſant i ddileu 'r ſcrythyrau allan o'r bŷd. Mae'n rhyw i bôb dŷn *drwg gaſàu eu goleuni, a'i wrthod, fel nad argyoedder ei weithredoedd ef.* Lliaws y
Jaan. 3. 20. bŷd a'i gadernid y wnaethant ruthr arnynt. *Y bobloedd a derfyſcaſant, a brenhinoedd y ddaiar a ymoſodaſant, ac a ymgyngorâſant i ddryllio rhwymau'r*
Pſal. 2. 1. *Arglwydd*, er cael rhydd-did i bechu. Yr oedd amlder y cyffredin, a gallu, a chyngor pennaethiaid ynghyd yn eu herbyn. Yr ydoedd ir *bwyſtfil* a'i hwylieu hwy lawer *o bennau*, a mwy *o gyrn*,
Datc. 13. 1 fef cyffrwyſtra a mawr allu. Gyrrodd brenhinoedd eulynaddolgar Iſrael yr ſcrythyrau i lechu
2 Cron. 34. 14. mewn cornèlau. Ynghûdd yn y demil y *cafodd Helciah lyfr cyfraith yr Arglwydd, yr hwn a roddaſid drwy law Moſes.* A thaflaſant hwynt ir tân: *torrodd*
Jer. 36. 23 *Jehojacim lyfr Jeremi â chyllell*, ac a'i lloſcodd ef. Ac wedi hynny cawſant yr un fath ymdrin gan gedyrn *frenhinoedd Aſſyria, Babylon, Cæloſyria, ymerodron Rhufain*, yr awdurdodau mwyaf yn y bŷd; y rhai oeddent fel bleiddiaid gwangcus, a llyfrau 'r ffydd, a'i dilynwyr ar olwg fal wŷn di-

ymwared:

ymwared. Collwyd llyfrau Philoſophyddion, a phrydyddion, a'r eiddo *Solomon* ynghylch planhigion; er nad oedd llid iddynt yn ceiſio eu llâdd, etto buont feirw o ran oedran. Ond y mae llyfrau *Duw* wedi dyfod drwy lawer o beryglon, a gelynion, etto yn fyw ac yn iâch, ac yn cenhedlu yn eu henaint; *er i lû ei gorchfygu hwynt*, (ſal Gad) *hwy orfyddaſant er diwedd. Prennau'r Arglwydd ſydd lawn ſugn*, er gwaethaf poethder angerdd uffernol; ie gwreiddiâſant yn ddyfnach, ac yn gadarnach, ar ôl eu ſiglo gan y temhèſtloedd cryſion, ac a aethont yn ffrwythlonach, *nerth Duw y berffeithwyd yn eu gwendid hwynt.* Pan fyddo'r gwyntoedd yn yſtyno yr ŷd wrth flodeuo, er ſaled y blewyn ſydd yn dala y blodeuyn, etto o herwydd nas gall dynion fyw heb lunieth, y mae *Duw* yn peri ir gronyn gwan lynu yn ei gafael er gwaethaf gwrthwyneb cryf; yr un môdd y gwelir *rhaglunieth Duw* yn cadw ŷd yr enaid.

Gen. 49. 19. Pſal. 104. 16.

6 Cafodd yr eſengyl y fath dycciant yn gorchfygu'r bŷd, ac a ddengis fôd *Duw* ar ei phlaid, yſtyriwn fod llawer o rwyſtrau i attal ei chynnyrch. Yn amſer yr *Apoſtolion* yr oedd arfer a defod pôb un o deyrnaſoedd y ddaiar yn ei herbyn; yr ydoedd eulynaddolieth wedi hir wreîddio yn eu myſc. Cais aniſeiliaid dynnu at eu cynefin er afiachuſſed ſyddo. Y mae gorchymmynion y wîr ffydd yn anhawdd i gig a gwaed. *Gadel pleſeraw, tai, a thiroedd, a'r bywyd naturiol hefyd er mwyn Criſt*, ydoedd gâs gan y cyfoethogion. Ac y mae ei phynciau yn anbebygol yn nhyb y doethion, ſef i forwyn eſcor, ac i Dduw gymeryd natur dŷn. Am hynny nid oedd râdd yn y bŷd ar ddynion nas gwrthwynebodd ufuddbâu, megis *tywyſogion, dina-*

Marc. 10. 22. Luc. 19. 14. 47.

Act.17.18. *dinasyddion, Philosophyddion, Pharisead, scrifen-*
Act. 24. 1. *ddion, areithwyr, milwyr, Crefftwyr, a chyffredin.*
Math. 27. Darfu i'r swyddogion gospi y rhai credadwy, a'r
27, 28. milwyr eu dychrynu, a'r areithwyr eu cyhyddo,
Act.16.24. Math. 27. a'r philosophyddion drwy gau resumau geisio
25. eu hurtio, a'r lliaws er mwyn eu pendasadu flo-
Act.19.34. eddio, er hynny aeth y ffydd ymmlaen yn orchestol drwyddynt oll. Nid allodd cleddyfau'r swyddwyr, na gwaiwffyn y milwyr, na cholynnau'r *aspiaid*, sef drwg dasodau ei chadw yn ol.

Hefyd er bod y rhwystrau yn fawrion, nid oedd cynorthwyau gweledig, ac offerau yr esengyl o nid bychain; Gwael ydoedd cyflyrau, a theneu ydoedd mintai pregethwyr y brif eglwys: *ychydig* oeddent yn erbyn *llawer*, a rhai *siml* yn erbyn *cyfreithwyr*; *pyscodwyr*, a *gwehyddion* yn erbyn *beneddigion*, a *swyddogion*; etto cawsont *oruchafiaeth*
2 Cor. 2. 14. *yn Ghrist*, yr hwn a *eglurhaodd arogledd ei wybodaeth trwyddynt hwy ymhob lle*. Gan fod bwled, sydd dippin o blwm crwn heb na blaen, na min, yn myned yn rhwyddach drwy sâen a phren, nag y gall llaw dyn hyrddu'r arf flaen-llymmaf, mae'n dangos egni 'r tân yn torri allan o gysyngdra. Pylni yr offerau esangylaidd a ddylai'n
Isai.9. 7. argyhoeddi, mai nerth *Zêl Arglwyddy lluoedd* ydoedd yn eu gyrru drwy gymaint o anhawstra.
Exod. 8. 17. 19. Pan orchfygodd *Moses ffyddlon yr Aipht* a'i *brenin â gwialen ac â llwch*, cyffessodd ei elynion fod *bŷs Duw* gydag ef. Ni syrthiasai sty fnigrwydd y bŷd wrth bregethiad yr apostolion, *na muriau Jerico* wrth waith yr Israeliaid yn bloeddio, oni bae fod *Duw* gyd â hwynt. Ni buasen *ffôl*
1 Cor. 1. 27. *bethau y bŷd yn gwradwyddo y doethion*, a *gwan bethau 'r bŷd yn gwradwyddo y pethau cedyrn*, oni bae

i Dduw eu hethol. Pan ydoedd yr *adar yn difa, a'r haul yn llosci, a'r drain yn tagu tair rhan o hâd y gair,* hawdd fuasai i'r môch a'r mîlod orpen y rhan arall, fel nad aethai fyth mor gnudfawr, am nad oedd un cae o waith dŷn yn ei gylch. *Cyffelyb oedd teyrnas nefoedd i ronyn o hâd mwstard, y lleiaf o'r hadau, a* lliaws mawr o gywion drwg yn ceisio ei gipio, heb ddŷn iw tarsu; ac etto tyfodd yn bren canghennog. Rhysedd nas gallasau cymmaint o gŵn lyngcu 'r tippin *surdoes,* cyn iddo beri i'r bŷd newid ei flâs! Ac wrth adferu 'r ffydd bu pin scrifennu Luther yn drèch na chleddyf Cæsar. Math. 13. 4, 31.

7. Y mae pethau yn digwydd yn y bŷd fel y rhagsynega 'r scrythur am danynt. A phwy a wyddai beth syddei helynt y bŷd, onid yr hwn ydoedd iw reoli? Digwydd cystudd a blinder ir duwiol, fal y mae 'n scrifennedig, *pawb a'r sy yn ewyllysio byw yn dduwiol yn Christ Jesu a erlidir. Ac aml ddrygau a gaiff y cyfiawn, ond yr Arglwydd a'i gwared ef oddiwrthynt oll.* Encilia proffesswyr diffrwyth, a'u crefydd a ddiflenniff o ran eu chwantau cnawdol a phrofedigaethau bydol, fel y rhagsynegodd Christ *y gwyweu'r egin gan boethder erlid, ac y tegid hwynt gan ddrain gofalon y bŷd.* Gwelir llwyddiant amserol ir annuwiol, yr hwn dros ychydig sydd *yn gadarn ac yn frigog, fel y lawrif gwyrdd,* ac yn y man *aiff ymaith, ac ni bydd mwy o honaw,* mal y datcan y prophwyd. Amlwg yw fod y rhan fwyaf o ddynion yn myned hyd *ffordd lydan* llygredigaeth i uffern, a'r rhan leiaf yn cael ac yn cadw y *ffordd gûl* ir nêf, fal yr yspysia 'r efengyl. 2 Tim. 3. 12. Psal. 34. 19. Math. 13. 21, 22. Psal. 37. 35, 36. Math. 7. 13, 14.

Pwy ni chydnebydd fod pobl ddrwg yn amlach na rhai da yn yr oes hon, a phôb amſer? Cwyniff gair Duw yn drwm rhag pechaduriaeth dynol ryw, ac oni weli achos? A ydyw dŷn yn perchi ei wneuthurwr a'i Brynwr? Y mae'r anifeiliaid yr ydwyti yn eu magu yn ufuddach iti, nag wyti ir hwn ath wnaeth, a phôb pèth arall ith cynnal di. Beth bynnag ath ddigio di, enw Duw a gaiff ei rwygo drwy dy lŵon di. Rhy gynnefin hefyd yw i ddynion orthrechu, a thwyllo, a llâdd eu gilidd, a hynny yn ddichellgar. Chwrna'r cî, a chwŷth y neidr cyn brathu, a hynny o rybudd ath hyffordda iw gochelyd: ond dan dewi, ie dan wenu y dryga'r naill ddŷn y llall; onid all ei ddifetha à chuwch, fel Judas efe ai bradycha â chuſan. Am hynny os cwbl anghredi, rhaid iti ymwrthod ath deimlad naturiol gyſtal ac â ffydd yſprydol.

Gen 6.

8. Y dialeddau trymion a oddiweddaſant wrthwynebwyr y gair ym mhob oes a ddylent berſwadio dynion iw berchi ef. *Adweinir yr Arglwydd wrth y farn a wna.* Bu a bydd Jeruſalem a'i chyfraith (ſef yr eglwys ufudd i ewyllis Chriſt) *fel maen trwm*, a yſſiga'r neb a geiſio ei daflu ymmaith, *a phawb a ymlwytho ag ef yn ddian a rwygir.* Plâau yr Aipht, a'r Anghriſt a dyſtiolaethant hyn. Er bod llawer fel y glŵth yn diangc yn ddigoſp nes myned ir *tân anniffoddadwy*, etto odid wlâd nac amſer na wnaeth Duw rai troſſeddwyr echryſſon yn ddrychau iw cymydogion, i weled ynddynt mor *ofnadwy yw ſyrthio yn nwylo'r Duw byw.* Aneirif weithiau y canſuwyd ac y canſyddir dôſt farnedigaethau yn

Pſal. 9. 16.

Zech. 12. 3.

Exod. 8. 9

Datc. 15. 7.

Luc. 16. 19.

yn digwydd ir drwg er bod ganddynt lawer o foddion tebygol ac o ddyfais iw gochelyd. Trawodd y faeth Ahab ddrygionus er iddo ei orchguddio ei hun mewn gwifcoedd, mal na byddai iw elynion mo'i adnabod, ac ymddiogelu mewn arfogaeth. A phan fetho gan rai ymachub er allont ei wneuthur, pan ddigwyddo 'r dial arnynt, dywedir mai peth oedd a fynnai fod. Pan gymero yr Arglwydd yr annuwiol ymmaith yn ei ddigofaint megis â chorwynt, dywed dŷn *diau fod gwobr ir cyfiawn, diau fod Duw a farna ar* Pfal. 58. 9. 11. *y ddaiar.* A thra mynech y bydd yr Hollalluog â blaen ei gleddyf yn dangos i ddynion y pechodau y byddo iw llâdd hwynt o'u plegyd gan anfon y fath gymwys gofpedigaeth, ac a fyddo yn dwyn i gôf ac i gydwybod pôb un yr anwiredd ai haeddodd. Gwelir cyfiawnder y Goruchaf yn rhoddi i ddynion yr un mefur ac a roefant hwythau i eraill. Fel y darfufai i *gleddyf Agag ddiblantu gwragedd, felly y diblantwyd ei fam* 1 Sam. 15. 33. *yntef â'r cleddyf, a darniwyd ef ger bron yr Arglwydd.* Yr hyn a gafclo 'r tadau drwy gybydddod anwireddus, a wafcara 'r plant drwy afradlondeb fafweddus. Y rhai yftyriol a graffont ar ddiwedd y drygionus a gant weled achos i ddywedyd, *wele'r gwyr ni ofodafant Ddaw yn ga-* Pfal. 52. 7. *dernid iddynt, eithr ymddiriedafant yn lluofogrwydd eu golud, ac a ymnerthafant yn eu drygioni.* Y mae mor hawdd i bôb cymydogaeth henwi rhai na cherddafant fyth gam rhwydd ar ol gwneuthur rhyw anwiredd erchill a waherddir yn yr fcrythyrau, nad rhaid i mi roddi efamplau ychwaneg ar lawr heb law y rhai fydd yfcrifenne-

dig o'r blaen yn hiſtôri'r ffydd.

9. Nid all fod ſwy o amgylchiadau tebygol i wirio hên ſcrifennâdau a wnawd er's miloedd o flynyddoedd, nag ſydd yn perthyn ir yſcrythyrau. Canys yr oeddent yn gyhoeddus, a galleu eu gelynion eu gwrth-ddywedyd os gwelent achos, ond nid oeddent yn gwadu eithr yn cyfaddef y pethau a adroddir ynddynt. yn unig rhoddent gam yſtyr arnynt, ac yn fynech edifarhâent, ac ufuddhâent iddynt, fel y gwnaeth Saul ac eraill. Parodd cyfraith Dduw gyfnewidiadau hynod drwy'r bŷd, am hynny nid ellid ei chelu. Yr ydoedd copîau o'r yſcrythyrau mewn amryw wledydd pell oddiwrth eu gilidd, ac yn cyttuno ym mhôb pêth ſylweddol. Y gwyr goneſtaf yn y bŷd (a'u gelynion yn dyſtion) ydoedd yn eu cadw hwynt; y rhai a ofnent golled tragwyddol os chwanegent attynt, neu os tynnent beth oddiwrthynt. Y cloddiau, a'r tomennydd, a'r ceſtyll amharus cyn amled yn y terfynau rhwng Cymru a Lloegr, ſydd yn dangos mai gwir yw'r Croniclau a ddatcanant y rhyfeloedd tôſt a fu gynt rhwng y Cymru a'r Saeſon. Llediaith Gymreig Llydaw ſy 'n creirio 'r hiſtoriâu a fynegant i'n cenedl ni fyned i Ffrainc i breſwylio yn yr amſeroedd gynt. Ac nid oes lai o arwyddion gweledig i'n ſiccrhau yn ſcrifennâdau Duw. Canys gwelir yn awr ôl yr eglwyſydd efangylaidd a blannodd yr Apoſtolion, ac yr anfonaſant epiſtôlau attynt. Y mae yn Aſia, Affrica, a'n gwledydd ninnau gynnulleidfaoedd a theyrnaſoedd Chriſtianogol a barchant yr yſcrythyrau etto, megis y traddodwyd hwynt iddynt hwy gan

eu

eu henafiaid; heb law yr Juddewon fydd yn aml yn dwyn tyftiolaeth ir hên brophwydi, fel y derbyniafant hwy gan eu henafiaid nhwythau. Os ammheui a fu natur dŷn berffaith ar y cyntaf, ac iddo fyrthio gwedi hynny, fel y mae yn Llyfr Genefis; wele gynneddfau yn yr enaid y fydd yn arwyddoccâu ei fod ef unwaith yn well. Wrth furni llym y ddiod neu 'r gwîn y gelli ddirnad eu bod hwy unwaith yn gryf ac yn felys, ond iddynt o honynt eu hunain newid eu blâs. Annigonolrwydd ac awydd yr enaid fy 'n dangos fod iddo gynt etifeddiaeth fawr, a'i fod yn mwynhau peth mwy na'r bŷd, fef y Duw anfeidrol: am hynny y mae 'n ymgyrhaeddyd at ychwaneg fyth heb ymfodloni ar derfyn yn y bŷd. Dyfeifiau, yftrywiau, a dichellion y meddwl, fydd argoel fod ynddo wybodaeth fawr, pan ydoedd bûr ar ddelw Duw.

Dengis wyneb y bŷd hefyd nad yw ef er y diluw ddim hynach nag y mynega 'r fcrythyrau. Ei gyfarwyddyd diweddar i drîn y creaduriaid a yfpyfa nad oes mor llawer er pan ddaeth iw oed ai fynwyr. Nid oes mor llawer iawn er pan arferwyd Philofophyddieth, a dyfceidieth, a phreintio, a chyfraith, a phyfygwrieth, ac hwfmonaeth; bu pryd na welfid heb wrthiau *droi 'r cerrig yn fara* wrth galchu 'r tir. Y mae'r amryw jeithoedd ymyfc dynion etto yn gwirio'r hiftôri ynghylch *gwafcarfa a chymyfciad Babel.* Canys gan fod yn awr gymmaint o'r vn geiriau, a'r vn rhyw fain gan y llythrennau ym myfc cenhedloedd ac ieithoedd dieithrol iw gilidd, y mae yn hygoel mai 'r vn iaith oedd ar y cyntaf gan

Math. 4, 9.

Gen. 11, 9.

bawb, megis y datcan Moſes. Je pwy bynnag a ddeallo 'r Hebraeg ac ieithoedd eraill hefyd, a ddichon ddirnad eu gwneuthur hwynt o honi hi: ac nad yw 'r amrafael ieithoedd a'r ſydd amlaf yn y parthau hynodaf o'r bŷd, ond yr vn iaith wedi ei chymyſcu a'i thaflu wyneb a gwrthwyneb allan o'r dreſn gyntaf gan ddynion wedi ammhwyllo, a ddechreuent ymbell air yn ei ddiwedd, ac a'i diweddent yn ei ddechreu. Felly y dywed y Cymro *mud*, yr hwn air yn yr Hebraeg yw *dum*. Dechreuent hefyd rai geiriau yn eu canol, a thrawent eu deupen ynghŷd, a thaflent ſilaftau geiriau eraill y naill ar draws y llall, fel na wyddid mai 'r vn geiriau oeddent. Dywed yr ſcrythyr gymmyſcu 'r iaith yn Babel; ynteu digwyddodd ieithoedd newyddion yno wrth ddadgyſſylltu, a chwalu, a rhwyſtrus benblethu aneirif ddarnau o'r hên. Ac o hynny y mae arwyddion digon hynod i'r ieithydd a graffo arnynt.

10. Daioni budd-fawr y Grefydd Griſtnogol a gyhoedda ei bod o'r nef; y mae'n eglur ſod *Duw* yn ewyllyſio yn dda i ddŷn, am iddo ddarparu yn haelionus tuag atto ef; megis awyr i roddi iddo anadl, haul, a lleuad, a ſêr, i oleuo ac i gynheſu ei drigle ef; y dwfr, a'r ddaiar, a chwbl ac ſydd ynddynt iw ſwydo, iw ddiodi, ai ddilladu, ai lonni ef. A chan ir Creawdwr cariadus ddiwallu y rhan waelaf o ddŷn, ſef ei gorph, a'i fywyd naturiol, nid yw debygol yr eſceuluſei ef y rhan oreu, ſef ei enaid a'i ſywyd tragwyddol: yn enwedig gan ſod yr enaid mewn cyflwr graſol ar lûn *Duw: canys anwylaf gan rieni y plant a fyddo debyccaf iddynt yn eu gwedd*

a'u

a'u moddion. Ac *nid oes nac enw, na llyfr arall dan y nef drwy ba un y dichon dŷn fod yn gadwedig onid Crift*, a'i ferythyrau: yr hyn fydd amlwg wrth yftyried godidowgrwydd y wir, a ffolineb pob gau grefydd.

Anrhaethol yw'r lleſhâd corphorol ac yſprydol a gynnig Crift, ac y fwŷnhae 'r bŷd pe dilynei gyfarwyddyd yr ferythyrau. Pe byddeu pobl *fodlon ir hyn ſydd ganddynt, yn maddeu iw gilydd, yn cyd-ddwyn au gilydd, yn gymwynaſgar, yn gariadus, yn gwneuthur ag eraill fal yr ewyllyſient i eraill wneuthur â nhwythau*, ac yn cadw gorchymmynion eraill Crift, ni byddeu cymaint yn tuchan dan orthrymder, a châs, ac anghydfod, eithr *eiſteddent yn danghnefeddus, ac yn ddigonol yn y cyſtod dân eu ffigysbrenni.* ped faeu'r iâch yn ddiwydd weithio, a'r cyfoethog yn rhwydd i gyfranu i gyfreidiau'r gwan, ac yn ymwrthod â balchder, glothineb, meddwdod, afradlondeb, ac yn byw yn dduwiol, *gan obeithio yn yr Arglwydd, a gwneuthur da*; *Caent drigo yn y tîr, a phorthid hwynt yn ddiau: ac* ni byddai na noethni, na newyn, na'r trallodau eraill fy'n dyfod ar ol pechod yn poenydio dynion. ie byddau'r moddion y ragddywedpwyd yn peri iechyd corphorol, gan fod ſeguryd, ac anghymmedroldeb yn achos o ddoluriau, a chodymau, a briwiau, a phlâu oddiwrth ddigter *Duw.*

1 Tim. 6. 8. Col. 3. 12, 13. Math. 7. 12. 2 Theſ. 3. 10. Pſal. 37 3.

Dedwydd hefyd fyddeu eneidiau dynion yn y byd yma wrth ddilyn gair *Duw*, canys cyſſur mawr yn eu cydwybodau a gaiff y diwyd, a'r trugarog; *a thrwy lawenydd y tynnent ddwfr o ffynhonnau iechydwriaeth*, ſef ordinhâdau *Duw.*

Eſmwythach ir meddwl yw ammynedd na diclonedd, bodlonrwydd na chybudd-dod, diweirdeb na thrachwant. eithr anifeilaidd, a chwilyddus, a blîn yw mwyniant pechod, a gedi golyn gwenwynllyd gofidus oi ôl yn yr enaid. ynteu *profwch, a gwelwch mor dda yw'r Argl.* Pſal. 34. 8. *wydd, a'i ffydd, gwyn ei fyd y gwr a ymddiriedo ynddo.* pan fyddo 'r cywyr Griſtion ennyd yn y dirgel yn ymddiddan â Duw mewn myfyrdod ddifrifol, a gweddi wreſog, daw allan yn drahyfryd. Wrth ymgymdeithaſu â'i Greawdwr a'i Brynwr, yn ei fendigedig Yſpryd, glŷn wrtho ef y fâth lewyrch prydferth yn ei ymddiddanion, a'i ymarweddiad, ac a fyddo eglur iddo ef ei hun ac i eraill. yn y gwrthwyneb y rhai a fyddont yn y dirgel yn ymhalogi ag aflendid, bwriadau maleiſus, llofruddiaeth, a drygau eraill, neu yn ymgymdeithaſu â diafol drwy gyfammod, a ddygant euogrwydd teimladwy yn eu cylch, a glŷn wrthynt ryw hyllni chwîth a fyddo dirnadwy nid iddynt hwy eu hunain yn unig, ond iw cymmydogion hefyd: mal na byddo daioni grâs, a drwg pechod yn anhynod ir bŷd.

Tyſtiolaethodd *Solomon*, ac eraill a brofaſant bôb pêth, eulynaddolieth, glothineb, difyrrwch cnawdol, llawnder bydol, mai goreu yw grâs Can. Sol. 2. 3. *Duw* a'i ffyrdd: *a bod ffrwyth Criſt yn felys iw genau.* Yn y bŷd a ddaw caiff y graſol ddedwddwch yſprydol a chorphorol, a hynny yn dragywydd. Ped fai am bôb awr o ufudd-dod ond awr o hyfrydwch, byddei yr gwobr yn rheſymmol; eithr ceir llawer milwaith mwy na 'r can cymmaint.

Brwnt

Brwnt a niweidiol yw pôb gau-grefydd. yr oeddid yn llâdd ac yn lloſci dynion yn aberth ir eulynod gynt,ac yn taflu plant ir tân yn addoliad Molech. Gwneid llawer o affendid yn noethlymyn, ac yn feddw mewn rhith addoliad *i Baccus, Venus, Flora, Jupiter, Hercules.* Nid yw crefydd *Mahomet* fal un Criſt yn peri addfwynder,ond afrywiogrwydd,a ddiniſtriodd deyrnaſoedd,a threfydd, a'u trigolion o feſur y miliwn. Nac yn gwneuthur rhai i fod heb *chwenych eiddo cymydog*, ond yn caniadu treiſio oddiarno yr hyn a feddo. Bucheddol a diniwed ydoedd dyſcyblion Criſt, ond lladron, a llofruddion amlwg ydoedd *Mahomet* a'i ddilynwyr. Arfer Criſt a'i Apoſtolion oedd bywhâu'r meirwon, ac iachâu 'r clwyfus; ond arfer addolwyr *Mahomet* yw llâdd y rhai byw, a chlwyfo'r iachus: Nid gwneuthur llês drwy wrthiau, onid niwed drwy arfau. *Scythia* eger fyddai eu rhan,pe rhoddent yn ôl fel *Zacheus*,yr hyn a yſpeiliaſant drwy orthrymder gwaeth na'r eiddo Nimrod. Ynghylch yr un fath foddion ſydd i ddychymygion *Pâbaidd* hefyd. a rhag cael allan ddrygioni y coel-grefyddau hyn, gommeddir ir bobl eu chwilio,y rhai ni chânt dan boen marwolaeth ymddadlu yn eu cylch; eithr gwthir hwynt ar y bŷd fal cathod mewn cydau. Pwy nid amheuai'r farchnad yn feius a gymhellid arno ef, heb gael cennad unwaith iw phrofi, na'i hedrych, iw phwyſo, nac iw meſur? arwydd eu bod yn ddiflas, pan fynnant eu llyngcu heb eu harchwaethu; ac yn dwyllodrus, pryd na fynnant eu dwyn ir goleu. anwybodaeth yw eu mammaeth, canys *Pette'r bŷd ddewin ni fwyttai furgyn:*

Jer. 32. 35.

Luc 19.

Ond *y dall a lwnge lawer gwybedyn.*

Joan, 5 59. Yn y gwrthwyneb, *nid yw'r gwirionedd yn ceisio'r cornel.* gwahadd yr ſcrythyrau bawb iw chwilio, a chanmolant bawb y wnel hynny. gal-

Act. 17. 11. want y *Beræaid yn foneddigeiddiach na'r Theſſalonicaid, am iddynt chwilio beunydd yr Scrythyrau* i geiſio gwybod y gwir. ac oni bae eu bod yn gywyr ac yn dda, ni byddent mor chwanog i gymeryd eu holi. ie fel y cynnyddo cydnabyddieth dŷn â hwynt, goreu fydd ei dŷb am danynt. Am hynny gan fod *Duw* yn dda ynddo ei hun, ac wrth ddŷn, a bod y grefydd ſcrythyrol yn oreu i ddynol ryw, nid all na byddo o *Dduw.*

11 Nid yw'r efengyl ddychymyg twyllodrus dynion, nac angylion. ni edi ofn *Duw* i ddynion, ac angylion da geiſio ſiomi neb: ac ni oddef atcafrwydd yr angylion drwg iddynt amlygu cymaint o'u dichellion a'u profedigaethau, a'u caſineb yn erbyn meibion dynion, ac y mae'r ſcrythyrau yn ei fynegu. Nid yw debygol y rhybuddiei'r cythrael bobl rhag dyfod atto ef ir tân tragwyddol; ac y gorchymmynei iddynt gaſhâu celwydd, a malais, yr hyn y mae ef yn eu chwenych; a charu *Duw*, a ſancteiddrwydd, yr hyn ſydd gâs ganddo ef: hynod yw ei lafur ef yn ceiſio rhwyſtro pob dŷn i ddilyn athrawieth dduwiol. Gwelir dynion drwg hefyd yn gwrthwynebu gorchymmynion, ac yn diflaſu addewidion yr ſcrythyrau; Ceiſiaſant ym mhob oes eu dileu allan o'r bŷd, a llâdd pawb a'u dilynent. Am hynny nid oes neb iw gydnabod yn Dâd ir gwirionedd Sanctaidd, onid *Duw* yn unic.

12. Amlder y tyſtion o amryw wledydd, ac yn

elynol

elynol iw gilydd, y gydnabyddant yr Scrythyrau a ddichon gynorthwyo ein Siccrwydd o honynt. Heb sôn am eglwysydd y *Protestaniaid*, y mae *Talmud yr Juddewon*, ac offeren y *Papistiaid*, ac *Alcoran y Twrciaid*, sal clustogau gwniedyddion wedi eu cluttio â darnau o honynt. yr hyn sydd eglurdeb hyspys fod yr Scrythyrau yn y bŷd o'u blaen hwynt, ac yn gyfoethog, ac mewn cymeriad, pan fenthyccieu pawb oddiwrthynt, er mewn lliwio eu opiniwnau. Ni cherddasеu arian drwg yr euruchod hynny, oni bae eu tebygolieth i'r arian brenhinol cyfreithlon, ydoedd mewn bri oi blaen hwynt. y peth y byddo pawb yn ei gyfaddef yn ddi-nâg, a ellir ei goelio yn ddiddadl; er na buost erioed yn *Llundain*, etto ni wedi fod y fath ddinas enwog, o herwydd i gymmaint o'th gydnabyddieth ei gweled. Yr un *Duw* ac sydd yn gwahardd dywedyd celwydd, sy'n gomedd iti anghoelio'r gwir: ac onid ê, ni cheid ddim llês oddiwrth physygwrieth, a llawer o gelfyddydau eraill, sef oni choelir, oni ddilynir y rheolau sydd yn y llyfrau perthynol iddynt. Periffanghredinieth anrhesymol i ddyn gadw ei ddolur corphorol, a gwrthod moddion arferol o iachâd; ie rhynnu o anwyd, a marw o newyn, rhag ir tŷ syrthio yn ei ben ef, ac i fwyd ei wenwyno ef. Ni roddi'r parch dyledus i'th dad a'th fam, oni choeli ddim o'r hyn a fu cyn côf iti, sef iddynt hwy dy genhedlu a'th fagu.

13. Tystiolaethodd *Duw* ei fod ef yn perchenogi yr Scrythyrau drwy y gwrthiau y nerthodd ef y proplwydi, Christ, a'i ddysgyblion iw gwneuthur. Estynnodd *Moses* ei wialen a gwna-

eth

eth ffordd fych ir bobl i fyned drwy ganol y môr. Safodd yr haul wrth archiad *Ioſhua:* aneirif ydoedd rhyfeddodau *Criſt*, a'i *Apoſtolion*, fal y darllenir yn y Teſtament newydd. Ac ni chwbl beidiodd pethau rhyfeddol a dilyn y pregethwyr duwiol, y fafafant gyda gwirionedd yr efengyl yn erbyn llygredigaethau cyffredin yn yr oes ddiweddaf hon, mal y gweli yn hiſtori y merthyron. Yn amſer y *Frenhines Mari* ofnai *Brenhines Babaidd Scotland weddiau Cnocs raſol*, (yr hwn oedd yn adferu purdeb efangylaidd â'i holl egni) *yn fwy nag ugain mil o wŷr:* a chyfaddefid *na fyrthiei yr un o'i fwgythion ef ir llawr.* yn amſer *Luther* pân edifârodd ar gonſuriwr iddo wneuthur cyfammod â'r cythrael drwy ſcrifen o'i waed er cael ei gymorth i wneuthur caſtiau, a dyfod o'r amſer i fynu i'r cythrael gael ei enaid ef a'i gorph yn ol y cyttundeb a fuafai rhyngthynt, ymgaſclodd pregethwyr a phobl dduwiol ynghŷd i weddio, a'r pechadur dychrynedig yn eu canol hwynt; ac yn niwedd y diwrnod trawodd rhuthrwynt yſtormus wrth ffeneſtr y fan lle'r oeddent ynghŷd, a fwriodd yr yſcrifen waedlyd i mewn attynt. y pryd y nâdodd diafol yn arw, orfod iddo roddi yr fond i fynu heb allu cymmeryd y dyledwr.

Adwaenwn un y gofododd rhyw yſpryd arno mewn môdd teimladwy; ac wrth alw yn ei ddychryn ar *Ddaw* yn-*Gbriſt*, y gafodd lonydd yn ebrwydd. Rhag-fynegodd *Mr Focs* yn *Germania* wrth bregethu, y dychwelid rhydd-did ir efengyl yn *Lloegr*, ac yn ebrwydd bu farw 'r *Frenhines Mari*, a chyflawnwyd ei air ef yngo-

lwg

ſwg y rhai a dramgwyddaſent wrth ei glywed ef. yn amſer y *frenhines Elizabeth* cyrchwyd y pregethwr duwiol hwnw at un *Mrs Honiwood,* ydoedd glâf o driſtwch yſpryd, a chlefyd wâſt; a phan ddaeth iw yſtafell hi, cafodd ei theulu hi yn eiſtedd ar lawr yn ſynn wedi blino yn wŷlo, ac yn diſgwyl yr awr iddi hi: ac wedi iddo ef daer-weddio gydâ hwynt, mynegodd ir clâf, *yr adferei Duw ei hiechyd iddi eilwaith, ac y cafai hi hîr oedran yn y bŷd hwn i ogoneddu ei enw ef*; ar hynny yn o-ddiclon hi ai attebodd ef, *y gallei ef ddywedyd yn gyſtal na thorrai'r phiol wydr ydoedd yn ei llaw hi er ei thaflu ynghŷd â'r pôſt, yr hon a fwriodd hi oddiwrthi gyd â'r gair, ac a gyfodwyd i fynu oddiar lawr yn gyfan; a bu fyw'r wraig wedi hynny, oni welodd hi drychant oi phlant, a'i hwyrion, a'i goreſcennydd.* Amſer arall pan ydoedd yr efangylwr hwn yn cymeryd ei genad ag *Jarll Arundel* wrth lan y dwfr, dymunodd yr *iarll* arno, nad elai ir cafan, o herwydd bod yr hîn yn dymheſtlog, a'r dwfr yn arw beryglus; attebodd yntef, *gwneled y dwfr hwn â mi, fel y tyſtiolaethais i chwi'r gwirionedd* (ſef purdeb crefydd) *mewn ſimlrwydd calon*: felly efe a aeth ir cafan, ac yn y fan goſtegodd y gwynt, a gwaſtattâodd y dwrf. Ie odid oes na gwlâd heb ryw beth rhyfeddol yn digwydd ynddynt i ſiccrhâu gair *Duw*, a'i ras, er nad yw pawb yn craffu arnynt o ran eu eſceuluſdra; Y rhai *ni welant uchelder yr Arglwydd na'i law.* Eſai. 26. 10, 11.

Ond nid rhaid ir unrhyw wrthiau fod mor weledig, ac mor aml, ac oeddent yn amſer yr *Apoſtolion*: am fod y ffydd a'i ſcrifennâdau yn

awr

awr mewn hir oeſtadol feddiant ym myſc y cenhedloedd, a hynny yn y gwledydd mwyaf enwog, a llythrenog drwy 'r holl fŷd. Y mae treſtadol gyfiawn feddiannau yn gwneuthur titl yn ddiddadl, ac yn afreidiol gyfodi' r meirw iw brofi. Pan oedd Criſt yn gorphorol wedi newydd eſcyn iw orſedd-fainc, gweddus ydoedd iddo ef gyfrannu doniau a breintiau tra-rhagorol iw ddeiliaid, ac wedi hynny llywodraethu wrth y rheol gyffredin y gyhoeddaſei ef i bawb. Pan goroner brenin daiarol, ar y cyntaf egir y carchârau, ac aml fydd rhoddion y beidiant gwedi; a chaiff cwrs cynefin cyfraith lê, a hynny er llês ir wladwrieth hefyd. Nid cymwys ir Mawrhydi Nefol dorri treſn arferol ei greadigaeth, a'i ragluniaeth heb raid, wrth ddymuniad pob un moethus, anufydd, *yr hwn oni wrendi ar ſcrifennadau yr prophwydi, ni chredai chwaith pe cyfodai un oddiwrth y meirw i fynegi ewyllis Duw*; Canys ceiſiodd yr *Juddewon* gwrthnyſſig *lâdd Lazarus*, yn llé ufuddhàu iw dyſtiolaeth ef am

Joan. 12. 9,10. *Griſt, ar ôl ei gyfodi ef o'r bêdd.* A fynni di i *Griſt* fyned ir bôen i ddioddef yn fynnych, ac i adgyfodi ym mhôb oes, ac ym mhôb gwlâd, a gadel i

Joan 20. 23. bob llaw ymhyrddu iw friwiau ef? *Bendigedig yw y rhai ni welſant, ac a gredaſant.* Heb law hyn, nid yw pobl yn cymeryd attynt ond ychydig ofn *Duw*, er maint y welant oi ryfeddol allu ef. Beunydd y mae'r ddaiar drom ſel pèl fawr

Job 26.7. yn ſefyll ynghanol yr awyr, ac *ynghrôg ar ddiddim.* Nid oes ond yr awyr yn ei hamgylchu o bôb tu, heb ddim gweledig iw hattegu. y mae olwynion mawr y nefoedd yn troi oddiamgylch

mewn

mewn pedair awr ar ugain, heb un dŷn yn rhoddi llaw arnynt, y mae'r cant cwmpasog yn troi, ar fôth sef y ddaiar heb syflyd. Gwnaiff *Duw* i'th gulla wrth dy borthi di, droi bara a diod yn gnawd, ac yn waed, fal y troes *Crist y dwfr yn win.* Joan. 2.

Ynghenedliad creaduriaid byw, aiff defnyn gwlyb yn gnawd, yn escym, ac yn groen; etto pwy sydd yn rhyfeddu, ac yn rhoddi'r gogoniant i *Ddaw*, am ei weithredoedd hyn? *Grwgnachodd Israel tra yr oeddent yn cael manna o'r nef*; *ni pheidient ag erlid Elias*, ac ni choelient ei air ef, er i *dân o'r nefoedd yssu ei wrthwynebwyr* 2 Brenh. *ef o fesur y dêg a deugain.* Hefyd pe rhoddei *Duw* 1. 9, 10. yr un gwrthiau ac a wnaeth *Christ* a'i *Apostolion* i amlhau ym mhob oes, ac ym mhob man, ni byddent ryfeddodau, na chynorthwyau i'n ffydd ni, eithr eu cynefindra y sagei esceulusdra ynom ni. Ni chynhyrfa llysiau physygwriaethol mo'r corph, os arferir hwynt fal llunieth beunyddiol. Rhyfeddach yw i'r haul dywynu nâ thywyllu, canys naturiol yw diddymiad, a gallu anfeidrol *Duw* sydd yn peri bod o ddim. Rhyfeddach i'r ddaiar sefyll ynghanol yr awyr na siglo; etto dychrynwn fwy pan so ecclips ar yr haul, a chrynfa ar y ddaiar, o herwydd eu anamlder. Am hynny gwell ar ein llês, a bûdd ein heneidiau, fod rhyfeddodau apostolaidd yn rhyfeddodau byth, nag yn bethau cyffredin. Ond rhag tybied fod y ffydd yn ddidŷst, gwnaeth *Duw* yn yr oesoedd diweddaf rai pethau nid ydynt gwbl anghyffelyb i wrthiau y brif eglwys. Canys megis ac yr oedd yr esengyl gynt yn gostegu lleisiau, ac yn rhwystro gweithrediâdau cyhoeddus y cythreuliaid;

felly er pan adgweirwyd y ffydd yn ddiweddar, nid yw'r tylwyth teg (ſef y cythreuliaid cymdeithgar) cyn hyfed ac oeddent yn amſer Pabyddieth: pryd yr ymddangôſent yn finteioedd gweledig i lithio pobl drwy yſpleddach â hwynt. Arwydd ei myned hi yn ddydd efangylaidd, pan ymguddiodd pryfed y tywyllwch.

PEN. 21.

Tchwaneg o reſymmau yn profi gwirioneddy ffydd.

14. Pe iawn arferem ni yr hyn y ddirnad ein deall ni, ac y wêl ein llygaid ni, argyoeddai hynny ni o wirionedd y pynciau mwyaf pwyſſawr yn yr ſcrythyrau, megis *fod Duw bywiol*. Gwneuthuriad dŷn y ddengis hyn. Nid y bŷd y gwnaeth ddŷn, am nad all pêth difywyd wneuthur pêth byw. Nid oes reſwm a deall yn y ddaiar, ſel y mae yn nŷn: ac nid all dim gyfranu i un arall, onid y peth ſydd ynddo ei hun. Ni phoethei'r tân mor dwſr, oni bae fod poethder ynddo. Nid dŷn chwaith ai gwnaeth ei hun. canys nid all y bychan o gorpholaeth eſtyn cufudd at ei faintioli: Nid all y clâf ei wneuthur ei hun yn iâch, na'r garw ei wneuthur ei hun yn brydferth, na'r gwan ei ddeall ei wneuthur ei hun yn gall. Nid rhieni chwaith ſy'n ffurfio eu plant, canys ni wyddant pa un ai mâb ai merch

Heb. 11. 6.

merch fydd ffrwyth y brû, nes ei eni; yn fynych cânt ferch pan ddymunent fab: er nad adwaenant hwy mo ofodiad y galon, a'r yſcyfent, y giau, a 'r gwythi, er na feddyliant am danynt, etto cynyddant yn y grôth. Cynhêfodd y myſyrdod hwn galon *Dafydd* i hoffi *Duw*, pan ddywedodd ef wrth yr Arglwydd, *Toaiſt ſi yn grôth fy mam, clodforaf dydi, canys ofnadwy a rhyfedd i'm gwnaed.* Pſal. 139. 13, 14.

Gwneuthuriad y bŷd heſyd y ddylei dy gymell di i gydnabod *Duw*. Nid dyn y wnaeth y bŷd, rhaid ydoedd creu'r bŷd oi flaen ef, er rhoddi cynhalieth iddo ef; nis gallaſei fyw heb luniaeth ac anadl yr yſpaid y buaſai yn gorphen gorchwyl llai: dychweliad y Corph ir ddaiar ſydd arwydd fod y ddaiar oi flaen ef, ai wneuthur ef o honi, canys dychwel pob peth ir man allan o ba un y daeth, ſal y mae'r tarth gwlyb yn cyfodi o'r ddaiar ir cwmylau, ac yn dyfod i lawr eilwaith yn law. Pe gallai dyn wneuthur bŷd, gwnai fwy nag un o ran ei awydd, ai gybudd dod. Heſyd ceidw'r bŷd ei dreſn oſodedig gan *Dduw*, er gwaetha dyn. Cyfyd yr haul yn ei brŷd yn gynt nag y mynnai'r diog, machluda yn gynt nag y mynnai'r trafferthus. Ceidw'r môr ei lê ai lanw heb ruſo dim er un *Pharaoh na'i gerbydau heirn, amſer a llanw nid eris am un dyn*; am hynny y mae iddynt feiſtr arall y ſydd uwchlaw pawb.

Ac nid yw anhygoel i *Dduw* greu'r bŷd o ddim; y mae Cymaint rhagor rhwng *byw a difyw*, ac ſydd rhwng *defnydd a dim*. Di weli *Dduw* beunydd yn anfon ir bŷd greaduriaid byw oddiwrth hâd difyw, ac yn rhoddi golwg i

ddefnydd dall. Y mae'r pethau mwyaf yn dyfod oddiwrth bethau bychain, nefaf i ddim; mae'r dderwen fawr yn tyfu oddiwrth feſen fechan, nid ydoedd y feſen onid cron, a meddal, y mae'r dderwen yn ganghenog, acyn galed: dyna beth ſydd, oddiwrth beth nid oedd.

Hyſpyſſa'r Creadigaeth ini hefyd fel *Moſes,* Mae *un Duw ſydd.* Canys cydweithia'r creaduriaid oll er eu bod yn llawer, ac o amryw ddull, nefol a daiarol, at yr un diben. Y mae'r haul yn cynheſu, a'r Cymylau yn dyfrhâu 'r ddaiar i beri iddi dyfu, y mae hitheu a'r môr yn mâgu bwyſtfilod, a'r cwbl i gynal dyn. Bod llawer o weiſion yn gwneuthur amryw ſwyddau, ac yn y diwedd yn tueddu at yr un peth, ſydd arwydd mae un meiſtr ſydd iddynt; wrth adeilâdu, pan fyddo'r naill yn llâdd llif, a'r llall yn nâddu, arall yn tyllu morteiſiau, ac erbyn y dèl y darnau ynghŷd, os byddant gymwys iw gilydd, ac yn gwneuthur adail dêg, cydnabyddwn i un pen-ſaer Cyſarwydd fwrw a marcio'r gwaith. Undeb yw'r peth godidoccaf mewn teulu, a theyrnas, anhwylus yw mwy nag un meiſtr mewn teulu, neu fwy nag un brenin mewn teyrnas, o herwydd rhwyſtrent eu gilydd drwy groes-amcanion. Pa unaf, hyfrydaf a chryfaf

Deut. 6. 4

Nid yw'r *Drindod fendigedig* hefyd heb ei hargraph ar ddyn, gan fod ei enaid ef yn deall, ac yn ewyllyſio; y mae'r *Tâd nefol* yn deall ei berffeithrwydd, ei yſtyrieth ef ai ddoethineb ef yw ei *Fâb*; y mae dyn yn gwneuthur peth yn ol ei ddeall ai fwriad oi fewn, *a thrwy'r mâb y gwnaeth Duw bob peth.* Wrth ddeall ei berffeithrwydd

Joan. 1, 1

ffeithrwydd y mae hyfrydwch i *Dduw*, ſef yr *Yſpryd glan*, yn ymfodloni ynddo ei hun, a chyflawniad ei ewyllis; y mae ewyllis yn nyn hefyd yn cyd-ganlyn ei ddeall ef, ac yn cynhyrfu ei allu ef, fal y dywedwn, *yr ewyllis y wna'r gorchwyl*. Am hynny nid all un dyn yſtyriol na chydſynio ag ymadrodd yr *Apoſtol* am *Dduw*, *O honaw ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef y mae pob peth*; ſef o'r hanfod, y *Tâd nefol*, a thrwy ei ddoethineb ef, *ſef ei Fâb*; ac iw ewyllys hyfryd ef, *ſef ei Yſpryd ef*, y mae pob peth. Rhuf 11. 36.

Dywed *Paul* fod *Duw yn ddoeth*, a phawb ac a yſtyriant ei weithredoedd ef y ddywedant yr un peth. 1 Tim. 1. 17.

Rhyfeddol mor gywraint yw gwneuthuriad dyn ac anifail, a maint o bibellau, a gwythi a chymâlau ſydd ynddynt, heb un diſwydd nag afreidiol, ond pob un yn cynorthwyo'r naill y llall. y mae'r haul yn cadw ei dymhôrau yn y modd buddiolaf ir bŷd; pettau 'r lamp nefol hwn yn ſefyll ynghanol y ffurfafen, neu yn *troi* yn oeſtadol uwchben, ac a'r draws canol y ddaiar yn lîn y Cyhydedd, byddai 'r naill ran o'r ddaiar yn anffrwythlon gan boethder, ar llall yn anghyfaneddol gan dywyllwch, ac oerder, am fod *Crwmmach* y ddaiar yn bwrw *Cyſcod*, fal na thywyno'r haul arni i gŷd ar un waith: am hynny ymſymmud yr haul i amgylchynu'r gogledd, nes addfèdu ffrwythau'r tir y tú yma ir bŷd, ac yna gan adel i ni ddigônedd o lunieth nes y delo eilwaith, cilia oddiwrthym ni a gwnaiff yr un cymwynas o amgylch y deheu. Yn y Cyfamſer nid yw'r gaiaf anfuddiol ini, gan oeri heintiau, a goſtégu pryfed, a gwybed; a chaledu dyn ac anifail,

gwneuthur yn iach, ac yn gryfach. Gwelir y glaw a'r eira gaiafol yn gwrteithio'r ddaiar i fwrw ei chnwd yr hâf. A bydd y lleuad yn nesaf attom ni, pa bellaf y bo'r haul oddiwrthym ni, fal na byddom heb oleuni pan fo'r nôs hwyaf. A chan fod cyfnewidiadau cyflym yn beryglus i ddyn ac anifail, nid yw trumder gaiaf yn neidio ar ben poethder hâf, eithr o fesur ychydig y cymer y naill le'r llall. Beth fydd niweidiach i'th iechyd ti nag oeri yn ddisymwth ar ol chwysu? am hynny o fesur mynudyn neu ddau beunydd y byrhaiff ac yr ymestyn y dydd, y chwnnega oerni neu wres. Ni lamma r haul o'r naill gylch ir llall mewn un dydd, eithr o fesur ychydig y llithra ef, fal y gallo'r naill ran o'r byd ei dderbyn ef, a'r llall ei hepcor ef yn oreu.

Eglur yw nad oes ddeall yn y goleuâdau hyn iw Cyfarwyddo eu hunain, Canys lle mae deall y mae bywyd hefyd, y gynhelir drwy ymborth mewn Creaduriad gweledig, ac er diwedd y dderfydd drwy farwolaeth, y peth ni ddigwydd ir rhain. Ni welwn chwaith un creàdur byw, nad yw'n gwibio i mewn ac allan, weithiau yn symud, weithiau yn sefyll, ond ceidw y rhain yr un mesurau yn oestadol, gan gerdded yn ddibaid. Petteu ganddynt ddeall, byddeu ganddynt ew yllis hefyd, ai tueddei nhw i orphwystra a rhyddid, yn hytrach na llafur di-dorr, er gwasnaethu Creaduriaid llai na nhw eu hunain. Diameu ynteu mae *Duw* sydd yn pennodi, ac yn rheoli eu rhodau, ac onidê ni cherddent mwy nag olwynion Clocc, neu felin, heb ryw un

Cel.

Celſyddgar iw ffurfio, ac iw trin i hynny.

Nid digon yw ir ddaiar gynheſrwydd heb wlybanieth. Pe gollyngaſeu *Duw* y mòr am ben y tîr nis gallaſai neb fyw; am hynny ordeiniodd bibellau i ddwyn dwfr o'r môr i ddiddanu'r tir: yr hwn wrth biſtyllu drwy'r ddaiar, megis drwy hîdl, a edi ei helltni yn ol, fal y bo croiwach, a chymwyſach i ddiodi creaduriaid byw. felly y deilliaw afonydd o galon y ddaiar, fal gwythi o'r afu, y gerddant drwy gorph pob gwlâd. Ac am nad yw leſol ir afonydd chwaith fod cyn lletted â'r ddaiar, gorchymyn *Duw* i darth eſcyn ir Cymylau, lle y tywycha gan oerni, ac y troiff yn ddwfr i ddiodi'r ddaiar â chafodydd hyfryd, pan fyddo mwyaf ei ſyched hi, a llettaf ei ſafn hi. *Mor luoſog yw dy weithredoedd di o Arglwydd, gwnathoſt hwynt oll mewn doethineb!* Pſa. 104. 24.

Dywed *Pedr fod yr Arglwydd yn gwybod pob peth.* a phwy ni chydſynia â'i ymadrodd ef, a'r a yſtyria amled yw'r creaduriaid y mae'r Creawdwr yn eu trefnu, a'u rheoli? Nid allai cymmaint o bethau diſywyd, diſynwyr gydweithio mor gyſſon ac mor union i leſhâd dyn, oni bae fod Cyfarwyddwr doeth iddynt, mwy nag y trawei faeth ddall y nôd. oni baeu i un â llygaid yn ei ben ei gollwn hi atto ef. yr hwn a ſedrodd oſod pob peth mor gelſyddgar oth ſewn di, dy mennydd i ddeall ac i gofio, y galon yn ffynnon bywyd, yr iau a'r yſcyfent iw ſwyddau, nid all na wypo hefyd pa rai ſwriadau ſydd yn dy galon di, pa ddichellion ſydd yn dy ben di. *Oni chlyw yr hwn a blannodd y gluſt? oni wèl yr hwn a luniodd y llygad? oni* Joan. 21. 17. Pſ. 94. 9. 10.

wyr yr hwn ſydd yn dyſcu gwybodaeth i ddyn?
Act. 17. 27. Canlyn heſyd fod gallu *Duw* gyda ei wybodaeth ef ymhob man, *acnad yw efe neppell oddiwrth bob un o honom, gan ei fod ef yn rhoddi bod a bywyd i bôb pêth.* Ni throei'r felin pêteu'r dwrf oddiwrthi, nag olwynion natur oni bae fod eu Cynhyrfwr hwynt yn breſenol; er nad yw'r lygaid yn gweled ei ſylwedd ef, mwy nâ'r wynt, neu'th enaid dy hun, etto gweli ei weithrediâdau ef, a nhwythau. Rhodia ditheu yn ofalus ger bron dy *Dduw*, a galw arno ef, am ei fod ef yn agos i'th gynorthwyo.

Amlwg heſyd yw rhaglunieth a gofal *Duw* yn y dreſn oſodedig. Adfeiliei adeilad y bŷd, oni bae iw gwneuthurwr edrych atti; a boddei'r môr y tîr, er dim gweledig ſydd iw gadw i mewn yn llawer man. trigau llydnod newydd ſwrw eiſieu medru ſugno, oni bae ei fod ef yn eu dyſcu: gwelir hwynt yn ceiſio purſau eu mammau, cyn iddynt er ioed weled y fath beth, nag i ddyn roddi llaw arnynt iw hyffordi. y mae llyſiau yn hâdu ychydig cyn eu diflanu, a dyfod amſer oerni, megis pettent yn rhagweled eu marwolaeth, ac yn darparu i gynal eu rhyw.

Ac am y ddŷled a ofynnir gan ddyn, *ſef ofni Duw, a chadw ei orchymmynion ef, hawdd i*
preg. 12. 13. *ddyn gydnabod fod hyny yn weddus.* Nid yw rheſwm yn gweled yn anghymwys ir tâd a ymgleddo blant, gael ufudd-dod oddiwrthynt. nid yw nêb y gwneuthur offeryn onid iw bwrpas; a fyrnii di i *Dduw* dy wneuthur a'th ymgleddu yn haelionus, yn unig fal y gallych waſnaethu'r pechod, a'r Cythrael, a gwrthryfela

fela yn ei erbyn ef? Y fynni di iddo ef dy ddal di yn ei freichiau i ferriffinio ei wyneb ef, ac â'th draed i guro ei ymyfcaroedd tyner ef?

A rhag i deimlad o ddigter *Duw* wneuthur dŷn pechadurus yn ddibris, ac yn anhydyn i ddychwelyd i deulu ei Arglwydd, mynega y mawhrydi nefol, iddo gael iawn gan *Grift* iw heddychu â phôb ûn a ddychwelo; ac anrhefu mol yw'r anghrediniaeth ni chydnabyddo y gollwn echwynwr trugarog ddyledwr tlawd yn rhydd, wedi i fachniad galluog dalu drofto ef. Heb. 7. 22.

Os amheui'r adgyfodiad, edrych ar yr hadŷd fy'n torri ar eu traws, ac megis yn braenu yn y prîdd, etto o'r gronynnau noethion priddlyd hynny, y cyfyd tywyfennau tal, ac yne lynt ddêg ar hugain. Er ir planhigion a'r llyſ au golli eu tegwch y gaiaf, a myned fel cy n meirwon, etto blodeuant eilwaith pan d del yr hâf. Troiff *Duw gyfcod angeu* (fef y nês) *yn foreuddydd*. Nid anhaws iddo ef y ffurfiodd iti gorph o ddefnyn ynghroth dy fam, wneuthur felly o briddyn ynyroth y ddaear. Pan luniodd ef *Adda* o'r pridd, bu fyw *naw cant a dêg ar kugain o flynyddoedd*, er iddo w anhychu llawer ar ei gorph drwy bechu. Ynt u nid anhebygol y peri'r Cyrph gorgoneddus byth a, am y byddant yn ddibechod; hoi fydd *gwifc briodas* yn dragywydd, pryd na bydd d brynti iw brychu nac un gwyfyn anwiredd iw hyffu. Gen. 5. 5.

Y mae ynoti arwyddion c nfarwolder a bywiogrwydd yr enaid tra bo Corph yn farw. canys mewn cwfc (yr hwn y w llûn marwolaeth) pan fo'r corphlich fyma ud, y mae'r enaid

naid yn ymgynhyrfu, yn ymreſymmu, yn deall pethau, ac yn derbyn rhybuddion, a chynghorion. Nid yw nerth yr enaid yn pallu gyda'r Corph. pan gollo dyn aelod drwy friw, nid llai deall, a ſerch, a dymuniad, a chydwybod yr enaid. yn amſer henaint pan ſo nerth y Corph leiaf, y mae callineb, a ſobrwydd, a rhinweddau'r enaid gryfaf. Canlyn ynteu, y bydd gwobr parhaus ir dâ ar drwg, am eu bod yn anfarwol. Nid yw'r *Duw*, y gwelir cymaint oi ddaioni ai wybodaeth, debyg i adel yr ufudd graſol yn guſtuddiedig byth. nid adwaenom un tâd naturiol, na wnaiff fwy er ei blant ufudd, nag er y rhai gwrthryfelgar afradlon. Gweliff dynion yn gymwys goſpi llofruddion ac yſpeilwyr, ac oni wnaiff rheolwr y bŷd gyfiawnder ar ddrwg-weithredwyr? er bod y pu loſophyddion gynt heb fawr gyfarwyddyd o'r Scrythyrau, etto wrth ddarllen Llyfr y creadigaeth canfuaſant lawer o'r pethau hyn; ond yn ddywyll gan wendid eu llygaid, *fal y dall cyn es gwbl iachâu, y welodd ddynion*
Marc. 8. 24. *fal prennicu.* A'm hynny dywedent *fod y gwirionedd megis weali ſuddo mewn llyn*, a'u bod yn gweled peth oi le wyrch ef. Ond cynnifer ac
Darc 3. 18. a irant eu llygaid ag *eli Criſt* y welant ddigon o reſwm wrth yſtyried pethau o'u hamgylch, iw ſiccerhâu o wirionedd yr ſcrythyrau, ynghylch y pethau hyſu, y ſydd,, ac a fydd.

15 Moddion ſcrifenwyr a dilynwyr gair *Duw* ymhob oes y ddengis e i bod o *Duw*; canys ni thwyllid hwynt iw ddigio ef, na thrwy dêg na thrwy ſagar. Ni ddenai melyſwedd golud, na gogoneiant y bŷd monynt i ddorri gorchym-

dion

chymmynion *Duw*. Er i Satan addo yn dèg, y *rhoddai* ef fawredd i'r Sawl a *Syrthient i lawr iw addoli ef*, etto Cafodd ei ymlid *ymmaith* gan *Grist*, a'i ddilynwyr. Methodd gan *Simon o Samaria*, er cyfarwydded *Swynwr* oedd ef, hudo yr Apostolion drwy ddobr: *eithr Petr a ddywedodd wrtho, bydded dy arian gyd â thi i ddestryw*. Ni thycciau bwgythion y bŷd i beri iddynt betruso yn dilyn eu iachawdwr. Nid yw rai gau dystion onid am wobr bydol; yr oedd y ffyddloniaid yn colli a feddent am eu tystiolaeth. Anhawdd cael gan ddrwg weithredwyr gyfaddef y gwir arnynt eu hunain, ond pan holid y Cristnogion am eu ffydd, cyffessent ou gwirfodd: ie Cospid hwynt eisieu tewi: a than eu custudd byddent lawen a hyfryd. Ofn a thristwch sydd yn anferthu, a chywilydd sydd yn digaloni rhai drwg dan eu penyd, oddieithr ymbell un fyddo *â chydwybod wedi ferrio*. Bendithieu'r merthyron enw eu *Harglwydd, am eu cyfrif yn deilwng i ddioddef er ei fwyn ef*, gan farnu erlidigaeth yn oruchafieth A hynny nid o ran stynigrwydd meddwl, canys yr oeddynt o gydwybodau tyner, *ac wylent yn chwerw dost* am y pechodau dirgelaf: nac o ran cesnogrwydd naturiol, canys yr oeddynt lawer o gyrph gweniaid, a thyner, hen ac afiâchus. Yr oedd gwraig dduwiol y waeddei yn dosturus yn ei gwewyr escor, ond pan benydwyd hi am ei ffydd ni chwynodd ronyn, *gan atteb iw Chyfneseisiaid* (oedd yn gosyn ei rheswm hi am hynny) *fod ei gwewyr escor hi yn ffrwyth pechod,*

Math. 4. 9, 10. Act 8. 9. 18, 19, 20

Act 5. 41.

Luc. 22. 62.

ac

ac o herwydd hynny yn drwm iddi hi; ond dioddef er Crist ydoedd ffrwyth oi ras ef, ac o'r achos hwnnw yn ysgafn iddi hi. Gan orfod ir proffesswyr duwiol ddioddef Cymaint o gustudd a phoen er mwyn eu crediniaeth; diammau iddynr chwilio'r peth hyd y gwaelod, cyn yr ymroddent i golli y feddent oi herwydd; am nad yw hylithr gan bobl gymeryd eu twyllo am eu hawddfyd amserol. *Fair Duw yw'r brofedigaeth danllyd*, i ddangos rhagbr rhwng Sothach a mwyn da. Wrth *deiladu ar sylfaen iechydwriaeth, y*
1 Cor. 3. 12, 13. *dydd* (yn enwedig y brwd a'r tymmhestlog) *a ddengis waith pob dyn*, pa un *ai meini gwerthfawr*, o athrawiaethau a grasau parhaus, ai ynteu *coed* pwdr a *sofl* crîn o gau athrawiaeth a rhysyg fyddo eu defnydd. *Oblegyd trwy dan y datcuddir ef.* Dioddefaint y
Philip. 1. 7. 14. saint ydoedd *gadarnhâd yr efengyl* dan erlidwyr cynnar a diweddar.

16. Os amheuei etto dywedaf wrthit, fel
Joan. 1. 45. *Philip* wrth *Nathaniel, tyred a gwêl.* Fal yr argyhoedda 'r creadigaeth a rhaglunieth dy reswm di, gwaith yr ailanedigaeth a lwyr argyhoedda dy galon, ac *a scrifena'r gyfraith ynddi*, oni's gwrthodi hi. Oni choeli fod athrawieth y ffydd yn wîn melys ac iachus, wrth weled eraill yn ei dymuno, ac yn siriol ar ei ôl ef, prawf ef dy hun, a dywedi'r un pêth. Golch lygaid gweniaid dy feddwl â dragrau edifeiriol, a gloiwach fyddant, a chanfyddi ewyllis *Duw* yn graffach; a gweli'r haul *Cyfiawnder* wrth ei oleuni ei hun. Oddiwrth darth Cnawdolieth y cysyd niwl yn

y

y meddwl. *Bydd pob dŷn â deall wedi ei dywyllu, tra fyddo wedi ymddieithro oddiwrth fuchedd Dduw.* Ond *y meddwl newydd y gaiff brofi perffaith* ewyllys *Duw. A'r hwn fydd yn credu ym mâb Duw, fydd ganddo y dystiolaeth ynddo ei hun.* Derbyn yspryd *Duw* i Sanctteiddio dy enaid, ac yna tystiolaethiff iti mai'r scrythyrau yw ei Scrifen ef. Yna y gelli ddywedyd wrth yr eglwys fal y *Samariaid wrth y wraig, nid ydwyf weithian yn credu oblegyd dy ymadrodd di, canys mi ai clywais ef fy hun, a gwn yn ddiau. Yr hwn a ewyllysio wneuthur ewyllis Duw y gaiff wybod am y ddysceidiaeth ai o Dduw y mae hi. Desaid ufudd Crist a adnabyddant ei lais ef, rhagor llais dieithraid.* Oni bydd dŷn yn yr un elsen â'r pêth yr edrycho ef arno, ni's gwêl ef yn iawn; pan edrycho un oddiar y lan ar bren yn y dwfr, efe ai gwêl yn gam er ei fod yn union. Felly ni ddichon yr hwn fydd mewn cyflur Cnawdol iawn ddirnad y gwirionedd grasol, *oblegyd yn ysprydol y bernir ef.* Meibion *Duw* fydd gynefin ai bresenoldeb ef, ac arferol o drin ei negesau ef, y adwaenant scrifen-law eu tâd. Cais *burdeb calon, a chei weled Duw, ai ewyllys hefyd.*

Eph. 4. 17, 18. Rhuf. 12. 2. 1 Joan. 5. 10. Joan. 4. 42. Joan. 7. 17. Joan. 10. 7. 1 Cor. 2. 14. Math. 5. 8.

Y Sawl fy rasol, ac yn dal fulw yn ddyfal ar waith Duw tuag attynt ac ynddynt a allant ddirnad yn hytpys eu bod hwy yn gweled cyflawniad o addewidion yr Scrythyrau ynghylch maddeuant ir edifeiriol, ac atteb i weddiau y cystuddiol. Meidr y dyn da dystiolaethu iddo *Alw ar yr Arglwydd yn nydd*

nydd trallod, a chael ei waredu, Megis yr annogwyd ef yn *Pſal.* 50. Ac na adawodd yr Arglwydd mono ef pryd y bae yn ymddiried ynddo ef. Eithr *Y tlawd hwn* (medd ef) *a lefodd, a'r Arglwydd a'i clybu, ac a i gwaredodd o'i holl drallodau.* Teimliff heddwch yn ei gydwybod ar ol ymoſtwng o flaen Duw mewn argyhoeddiad a gofid am ei bechodau. Oni allo ddywedyd mewn Gwirionedd, *Addefais fy mhechod wrth yr Arglwydd, a'm kanwiredd ni chuddiais, a'r Arglwydd a faddeuodd anwiredd fy mhechod.* I'r cyfryw y troir griddfan yr hwyr yn gân y boreu. Canys caiff ollyngdod yn ei gydwybod, a hyder hyfryd o gymod â Duw drwy *Griſt*; a chynnorthwy yſpryd Duw i weddio yn gynnes, i fyfyrio yn nefol, iw hyffordi i ddeall Ewyllys ddatcuddiedig Duw, ac iw dueddu iw chyflawni. Ac mor *ffyddlon, a chariadus, a rhyfeddol yw gweithredoedd Duw, yr enaid graſol a'i gwyr yn dda.* A thyſtiolaetha yn nherfyn ei fywyd na phallodd yr un o wirioneddau y goruchaf.

Pſal. 34. 6.

Pſal. 32. 5.

Pſal. 139. 14.

17. Nid oes gan neb wir reſymmau iw dangos am anghrefydd ac annuwioldeb. Ni feidr neb brofi nad oes na Duw, na'i ewyllys ef yn ddatcuddiedig: Nad oes ragor rhwng da a drwg, rhwng rhinwedd a chamwedd, rhwng cydwybod dda a chydwybod ddrwg. Ni ddichon neb beri i'r bŷd goelio fod lledrad yn well na goneſtrwydd, a thwyll yn well na gwirionedd, a godineb yn well na diweirdeb: Fod mwy diddanwch

i'r

i'r enaid mewn helynt bechadurus nag wrth ddilyn daioni; a bod cyflwr y dyn ffiaidd yn well nag un yr hwn fy'n ofni Duw. Ac am hynny nid yw'r pechaduriaid ffieiddiaf yn y dirgel yn ymwrando â rheſymmau eu heneidiau ond â chwantau afreolus eu cyrph: a châs ganddynt gŷmeryd hamdden i ymddiddan â'u cydwybodau ynghylch eu ffyrdd drwg, gan fod eu dealltwriaethau eu hunain yn briwo ac yn codymmu eu rhyfyg drygionus hwy, cynnifer gwaith bynnag ac y gadawont iddynt ymdrechu ac ymaflyd â'u gilidd. A phan dynner ymmaith yr hyfrydwch cnawdol ydoedd yn eu hudo, mewn adfyd a dolur dirnedir wrth eu ocheneidiau eu bod hwy yn teimlo fylwedd ac yn clywed pwys y gwirioneddau a eſceulufaſent hwy o'r blaen. Wrth fod ynteu gymmaint o reſymmau gydâ ffydd heb yr un gwdag anghredinaeth, hyſpys i ni fod gwirionedd yn y naill, ac nad oes dim ond twyll a ſiommedigaeth yn y llall.

Gobeithio fod yr hyn y ddywedpwyd yn ddigonol gydâ gweithrediad *yſpryd Duw*, er gwreiddio'r darllennydd yſtyriol *mewn ſiccrwydd deall i gydnabyddieth dirgelwch Duw, a'r Tad, a Chriſt:* Am hynny dibennaf y perwyl yma, ond crybwyll am rai pethau fydd ddilynawl iddo. Col. 2.2.

1. *Molianwn Ddaw* am fod yſpyſrwydd o'r ffydd ai ſcrifenâdau yn ein iaith ni ein hunain; hynny ydoedd oruchafieth *Iſrael*, pryd nad oedd mor amlwg, a chyn helaethed ac yw yn awr: Canmoleu'r *bobloedd*

all

Deut. 4. 6, 8. *ell ddoethineb eu deddfau hwynt.* Bu llyfr *Duw* wedi ei glasbyſſu cyn gaethed yn yr *iaith Ladin* yn amſer ein henefiaid diweddaf, na fedrai, ac na lefaſai ond rhai edrych arno. Yr ydoedd ir bobl gyffredin fel bwyd dan glo, a llys-ſam yn cadw'r agoriad. Y prŷd yr adnewyddwyd arfer eglwyſwyr llygredig *Iſrael*, y rhai *Y ddygent ymmaith agoriad y gwybodaeth, nid aent i mewn eu hunain, a'r rhai oedd yn myned, a waharddent.* Ond er pan gyfeithwyd y bibl yn *Gymraeg*, gelli gymmeryd y ſeigiau melyſaf ith law, a bwytta a'th ddiwallo, a bendithio dy *Ddaw*: Yr hwn oi drugaredd y roddes gyfarwyddyd i rai duwiol dyſcedig yn yr oes diweddaf i gyfeithu athrawieth y ffydd o'r *Groeg* a'r *Hebraeg*, i jeithoedd cyffredin teyrnaſoedd y Gorllewin. Ac ni raid ini ofni iddynt gam-gyfeithu ou gwirfodd, canys dioddefaſant (gan mwyaf) ferthyrdod; ac oni ddywedent gelwydd er arbed eu bywyd eu hunain, ni wnaent hynny er damnio ein heneidiau ni. *Y mae gair y ffydd yn agos atom ni,* nid rhaid ini fwrw *am gyrchu Criſt i lawr o'r nêf iw fynegi.* Petteu raid dylem fyned cyn belled i wybod doethineb *Duw*, ac yr aeth *Brenhines Sheba, yr hon a ddaeth o eithafoedd y ddaiar i wrando doethineb Solomon.* Y mae *ffynon iechydwriaeth* yn agos, ac yn agored, wedi i *Dduw anfon rhai fel Jacob i dreiglo ymmaith y gareg fawr oedd ar ei geneu.* Gelli lenwi dy goſtrel o wybodaeth iachus, oddeithr i galon garreg ei rwyſtro fal na ddelo i mewn. *Dangoſodd yr Arglwydd*

Rhuf. 10. 6.

Luc. 11. 31.

Gen. 29. 10.

Luc. 11. 52.

wydd it ddyn b.th ſydd dda, a pha beth y gais ef gennit: Yr hyn ſydd abl i'th wneuthur yn ddoeth i iechydwrieth. A pham y digiei'r Pâb am hyn? Canys anſonwyd y gair yn *Hebraeg* ir *Hebræaid*, ac yn *Roeg* ir *Groegiaid*, fal y galleu'r bobl gyffredin ei ddarllen a'i ddeall. Ac nid yw anghymwyſach i'r Cymru ei gael ef yn Gymraeg, ac i'r Saeſon yn Saeſonaeg, *fel y llefarer ymmhob iaith fawrion weithredoedd Duw.* Mic. 6. 8. 2 Tim. 3. 15. Act. 2. 11.

2. *Chwiliwch yr ſcrythyrau* yn ol gorchymmyn Griſt, *at y gyfraith a'r dyſtiolaeth. Ceiſiwch allan o lyfr yr Arglwydd, a darllenwch, ie glynwch wrth ddarllein.* Ac i'ch annog i hynny yſtyria mai *trwy wybodaeth y gwirionedd yr ewyllyſia Duw i ddynion fod yn gadwedig.* Y mae chwilio aſtud ar lyfrau cyfraith ddynol, a phyſygwrieth, er mwyn elw amſerol; ond ceir yma fudd tragwyddol, a difyrrwch preſenol heſyd. *Deddfau'r Arglwydd ſydd yn llawenhâu y galon, ac yn felyſach na'r mêl. Hyfrydach ydoedd gan Alphonſus brenin Arragon ei ſtudi na'i deyrngader.* Ac fal na phetruſo neb o ran ei wendid, gwybydd eu bod *Yn olau ir gwirion, i wraged, a phlant. Timotheus oedd yn gwybod yr ſcrythur lân er yn fachgen*, a dyſcaſai hwynt gan ei *Nain Lois, ai fam Eunice*. Ymborth yr enaid ydynt, *A'i porthant â gwybodaeth, ac a deall. Plant Duw y chwenychant laeth y gair, fal y cynyddont trwyddo ef.* A phawb ai diſlaſo a newynant, ac a nychant eu heneidiau yn dragywydd. A chyfarwyddo dynion y maent i ryngu bôdd *Duw, gan fod* Joan. 5. 39. Iſai. 8. 2. ac peu. 34 16. 1 Tim. 4. 13. 1 Tim. 2. 4. Pſal. 19. 8. ac 119. 103. Pſal. 19. 7. 2 Tim. 3. 1 2 Tim. 1. 5. Jer. 3. 15. 1 Pet. 2. 2.

y i

Pſal. 119. 105. *yn llufern a llewyrch iw traed au llwybrau.* Yr hyn y gerddech di yngwyſc dy ben hebddynt hwy, fydd cifeiliorni yn anialwch pechod, a'th ddwg ir fybwll peryglus.

Pſal. 119. 18. Ac fel y tyccio darllenïad iti gweddia fel *Dafydd* ar i *Dduw ddatcuddio dy lygaid i weled pethau rhyfedd allan oi gyfraith ef*; Tra'r oedd *Saul* yn gweddio yr anfonodd

Act. 9. 17, 17, 18. *Duw* un iw gyfarwyddo ef, *Gan ddywedyd wrth Ananias, cyfod a chais un â'i enw Saul o Tharſus, canys wele y mae ef yn gweddio.* A chwedi i Ananias draethu ei gennadwri yn enw'r Jeſu, cafodd y lleſtr etholedig oleuad a chryſhâd. Eiſieu grâs a goleuad oddiwrth *yſpryd Duw*, ni chynhyrfa pobl

Act. 13. 27. er darllen yr ſcrythyrau; *Ni adnabu preſwylwyr Jeruſalem au tywyſogion leferydd y prophwydi y ddarllenid bôb Sabbath.* Ac yn

Jer. 2. 8. amſer *Jeremi y rhai a drinent y gyfraith nid adwaenent Dduw.* Darllen yn ddiwyd, *Os gwaeddi ar ôl gwybodaeth, os chwili am dani fel am dryſſorau cuddiedig, yna y cei ddeall*

Dihar. 2. 3, 4, 5. *ofn yr Arglwydd. Cymer* amſer i gydfwrw'r ſcrythyrau; y mae y naill fan o honynt yn egluro'r llall, fal y mae llawer o ganhwyllau yn rhoddi mwy goleuni nag un; i hynny mae iti beth cyfarwyddyd ynghwrr y dalennau yn y Bibl, lle mae'r ſerennôdau. *A*

Pſal. 1. 2. *myfria arnynt ddydd a nôs.* Ac ymofyn ag eraill ynghylch y pethau nis gelli eu dirnad, fal y gwnaeth yr *Eunuch* yr hwn *a ddymu-*

Dihar. 13. 4. *nodd* ar gydymmaith *eiſtedd gyd ag ef* i eſponi'r ſcrythur iddo ef. *Enaid y diwyd a wneir yn frâs.* Oh gochel fod yn eſceulus,

na

na ddisgwil ŷd, heb lafur; tra yr oedd yr *Eunuch* yn darllen y *Prophwyd Isaias*, ni adawodd *Duw* ef yn ddi-gymmorth; gan anfon *Philip* iw gyfarwyddo ef. *Yr hwn a ddechreuodd ar yr scrythur honno, ac a bregethodd iddo yr Jesu* mewn modd ffynnadwy. Act. 8. 28, 31, 34, 35

Dôd heibio rag-farn, dôs at yr scrythyrau i geisio gwybod ewyllys *Duw*, nid i gadarnhâu dy ewyllys dy hun. Bydd ostyngedig; *y pethau a guddwyd rhag y beilchion, y ddatcuddir i rai bychain:* Ir pant y rhed dwfr y bywyd. Drwy rigolau'r galon ddrylliedig, y daw goleuni nefol i mewn. Bydd barodol i ufuddhâu ir hyn y gansyddech o ewyllis dy feistr. Pan oedd *Saul* wedi ei orchfygu gan frâw, ac ymddangosiad *Crist*, a chwedi ymroi, dywedodd, *Arglwydd beth a fynni di i mi ei wneuthur?* ac ni bu hîr oni chafodd wybod ewyllis Crist. Ni *chelei Duw* mo'i feddwl rhag *Abraham, canys efe ai hadwaenei ef y gorchymmynei ef iw blant, ac iw dylwyth gadw ffordd yr Arglwydd;* oni chaiff gwirionedd *Duw* reoli ynoti fel brenin, ni thrig ef ynoti iw gaethiwo fel carcharwr; o herwydd in Cenhedloedd *attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder, ac nas gogoneddasant Dduw* yn ôl eu gwybodaeth, *ac na buont ddiolchgar iddo, rhoddes Duw hwynt i fynu iw trachwantau, a'u gwyniau gwarthus, a'u calon anneallus hwy a dywyllwyd, onid aethont yn ofer yn eu rhesymmau.* Math. 11. 25. Act. 9. 6. Gen. 18. 17. Ruf. 1. 18, 21. 26

3. Cywilyddiwn ac edifarhâwn am yr esceulustra swrth sydd yn ein plith ni ynghylch y peth hwn; gall *Duw* gwyno ar y Cymro fel ar *Ep raim, mi a scrifenais iddo bethau mawri-* Hos. 8. 12

on fy nghyfraith, ac fel dieithr beth y Cyfrifwyd. Yityria er bod yn fychan geniti am bethau'r ſcrythur, fod y Duw mawr yn eu cyfrif yn fawrion; rhoddes ef rinwedd, ac awdurdod fawr ynddynt, a chymer ofal mawr am danynt;

Luc. 16. 1. 27. *Haws i nef a daiar fyned heibio nag i un tippyn o honynt ballu. A chwennych yr angylion fod yn hyddyſc* ar yr hyn y gynhwyſir ynddynt.

1 Pet. 1. 12. *Y mae gwobr mawr am eu Cadw*, a gwae ofnadwy am eu torri. Cymer digofaint *Duw* infentori

Pſ. 19. 11. o'r hyn y feddech iw felltithio iti, *Oni wrandewi ar lais yr Arglwydd, gan gadw ei orchmynion ef. Melldigedic fyddi di yn y ddinas, ac yn y maes. Melldigedic fydd ffrwyth dy dir, dy*

Deut. 28. 15, 16, 18, 19. Deut. 32. 47. *ddyfodiad i mewn, a'th fynediad allan. Am hynny nid gair ofer yw o herwydd dy enoies di yw ef.* Gwnaeu gwyr mawr gynt gyfrif o'r ſcrythyrau, darllennent, ofnent hwynt, ac ufuddhaent iddynt, fel y gwelir yn y brenhinoedd enwog hynny, *Dafydd, Salomon, Jehoſophat, Hezeciah, Joſiah, Conſtantinus*, a'r *Eunuch gal-*

Act. 8. 27. *lwog* oedd ar holl dryſſor *Ethiopia*. Hoffeu'r

Pſ. 19. 10. Sainct hwynt *yn fwy na'r mêl, nag aur fyddei coeth, a llawer*, ie yn fwy na'u bywyd naturiol. Ac onid allwn ni y *Cymru* hepcor dim arian iw prynu hwy, na dim amſer iw manwl chwilio hwy? Medd *Solomon, pennaf peth yw*

Dihar. 4. 7. ac 22, 23. *doethineb, â'th holl gyfoeth cais ddeall, pryn y gwir ac addyſe.* Nid yw gorchwilion hwſmon na chrefftwr mor bwyſſawr ac achoſion tywyſog, etto mynnai *Duw* i'r brenin gymeryd

Deut. 17. 18, 19. hamdden *i ſcrifennu Coppi o'r gyfraith mewn llyfr, a darllen arno beunydd, fel y dyſcei ofni yr Arglwydd.* Y mae'r *Saeſon* ac eraill ſy'n pro-

proffeſſu'r grefydd Griſtnogol mewn dim purdeb, yn odieth o'r cynnefin a'r bibl, ac yn nwylâw eu plant y mae llyfrau cyn amled a brechtânau: Etto cyfrifir ef yn *beth dieithr* yn ein myſc ni, heb ei adnabod, heb ymddiried iddo, na'i goelio, na'i berchi, na'i dderbyn, nac ufuddhâu iddo, na deall rheſwm am dano. Nid yw ein cenedl ni wrth natur ddim hurtiach, na mwy anhyddyſc na phobl eraill, canys parodol ydym a'r chwedlau digrif, a rhimynnau anllad, a châſtiau cyfraith; yn unic arfer, ac anwyllis ſydd yn ein cadw yn anwybodus o'r da. Oh nad yſtyriem yr hyn y ddywed doethineb, mae *ffyliaid yw yrhai a ddiyſtyrant addyſc: a bod anwybodaeth yngwneuthur pobl nid yn unic yn ffyliaid*, ond yn waeth nag anifeiliaid: *Ir ych a edwyn ei feddianudd, a'r aſſyn breſib ei berchennog, ond Iſrael annſudd ni chydnebydd yr hwn ſydd yn ei borthi:* ie yn garcharion i gythreuliaid *yngkadwynau tywyllwch, Canys collir pobl eiſiau gwybodaeth.* Medd yr Apoſtol, *i'r rhai colledig y mae'r efengyl yn guddiedig, y rhai y dallodd Duw y byd hwn eu meddylian.* Dallwyd ac yna difethwyd y Sodomiaid. Y mae anwybodaeth yn arwydd, ac yn achos o golledigaeth, gan beri i bobl wrthod Duw, a dewis y byd a'r pechod o'i flaen ef, eiſieu dirnad ei odidowgrwydd ef: *Pes adwaenent ni chroeſhoelient Arglwydd y gogoniant, ac ni ddewiſent un Barabbas o'i flaen ef.* Ac ni theby-gent i'r Indiaid Barbariaidd yn Cymeryd peth mor fregus â gwydr am yr hyn ſydd werthfawroccach nag aur.

Dih. 1. 7.

Iſai. 1. 3.

Hoſh. 4. 6.

2 Cor. 4. 3, 4.

1 Cor. 2. 8.

Nid llai perigl y rhyfygus na'r anwybodus. Pa fawl miliwn ſydd yn byw mewn gwrthwyneb i orchmynion, ac yn ddioſn er clywed bwgythion y gair? Dywed yr ſcrythyrau, *na ddichon dyn weled teyrnas Ddûw oddieithr ei eni ef drachefn, ac na chaiff anwiriaid ffiaidd etifeddu teyrnas nêf.* Ond gallant gwyno fel hyn, *Pwy a gredodd i'n ymadrodd ni?* Neu fel yn y ddammeg, *Canaſom bibell i chwi, ac ni ddawnſiaſoch: canaſom alarnâd i chwi, ac ni chwynfanaſoch*; Sef ni threfnaſoch eich cerddediad, a'ch ymarweddiad ar ôl ein gorchmynion hyfryd, ac ni chymeraſoch driſtwch edifeiriol am bechod, er ein bwgythion gofidus.

Jaon. 3. 3. Ruf. 10. 16. Math. 11. 17.

Iddo yn awr chwi ddiofalwyr, i'r rhai y mae maethgen dynion fel rhuad llew, a ſenn yr ſcrythyrau fel brefiad oen, cyffrowch, canys y gair ſydd i'ch erbyn o *Ddûw* y mae. Ond os addawch i chwi eich hunain heddwch, er bod *Criſt* yn llefaru toſter, dywed wrthych fel yn *Jeremi, Cewch wybod gair pwy y ſaif, ai'r eiddo fi ai yr eiddo chwi.* Nid yw'r ſcrythur fond heb dyſtion wrthi, oni chymerwch ofal i gyflawni y rhwymedigaeth y eſyd hi arnoch, drioddefwch garchar tragwyddol am y fforffed.

Jer. 44. 28.

4. Chwi oll ſydd yn ufuddhau ir ſcrythyrau, ac yn hyderu ar eu haddewidion, byddwch ddiwyd ynghylch y pwnc yma. fel y galloch *roddi rheſwm am y gobaith ſydd ynoch.* Nid oes neb na chaiff ei holi gan amheuon yn ei fywyd, a chan *Ddûw* pan fyddo marw. A'r hwn ſydd Griſtion o ran arfer y wlâd yn unig heb

1 Pet. 3. 15.

heb wybod ychwaneg, *ni all sefyll mewn profiad, na bod yn gymeradwy yn y farn.* Ceisiwch ddywedyd mewn gwirionedd fel y dysceyblion, *Yr ydym yr credu ac yno gwybod*; A chyda *Petr* dyfiolaethu, *Mae gwir râs Duw yw'r hwn yr ydych yn sefyll ynddo,* fef mai gwir athrawieth grâs ach dyfca chwi, a gwir waith grâs a duedda eich calonnau chwi i hyderu ar y *Duw byw*, ac i ddifgwil am ei ogoniant ef, i fod yn gyfranogion o honaw. Ac yna mawr fydd eich cyffur, fod cymaint o dyftion cywyr i brofi eich yferifenâdau am etifeddieth dêg. Joan. 6. 69. 1 Pet. 5. 12.

PEN. 22.

RHINWEDD Y FFYDD

Grifiianogol yngorchfygu llygredigaeth, ac yn Sancteiddio ei gwir dderbynwyr. *Lle'r yfgyrir cyfawr pechadurus dynol ryw cyn eu galw.*

CYfiawn, Pur, a Sanctaidd ydyw'r Gôruchaf Dduw, a'r *drwg ni thrig eyda'g ef:* Ac ni *faif* neb *yn ei lè Sanctaidd ef, ond y glàn ei ddwylo a'r pur ei galon.* Am hynny y mae'r Arglwydd yn Sancteiddio ei bobl, iw *gwneuthur yn gymwys* Pfal. 5. 4. Pfal. 24. 3, 4.

Col. 1. 12 *wys i fod yn gyfrannogion o etifeddiaeth y Sainct yn y goleuni.* Ac er mynegi nerth ei râs ef yn gweithredu hynny drwy 'r efengyl, rheidiol i ni yſtyried cyflwr halogedig pawb wrth natur, ac yna yr môdd y mae'r Arglwydd yn galw ei etholedigion allan o honaw i'w waſnacthu ef mewn glendid bucheddol. Pan gafodd ein rhieni Cyntaf (oeddent iachus Unwaith) yr haint bechadurus wrth ſefyll yn anadl y Sarph Uffernol, canlynodd

Gen. 3. y ffiaiddglwyf anwireddus eu hâd hwy byth. A'r nôf lygredig o fôn y pren (Sef Adda) a chwerwodd y canghennau oll, (Sef ei heppil ef) i ddwyn ffrwyth tra deincodus, hynny yw bucheddau gwrthwynebus i ewyllis Duw.

Gen. 6. 5, 6. Ac aeth *drygioni dyn yn aml ar y ddaiar, a holl fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus bob amſer. Oni edifarhâodd ar yr Arglwydd wneuthur o honaw ef ddyn ar y ddaiar, ac eſe a ymoſidiodd yn ei galon.* Yn awr mae'r llygredigaeth yn hollawl, gan fod pob math ar ddynion, a phob rhan o bob dyn, wrth natur ynddo.

Rhuf. 3. 9, 10, 11, 12. *Nid oes neb Cyfiawn, nac oes un, nid oes neb yn deall, nid oes neb yn ceiſo Duw. Gwyrâſant oll, aethant i gyd yn anfuddiol; nid oes un yn gwneuthur daioni, nac oes un.*

Y mae pob cenedl dan bechod, Juddewon a Groegwyr, Barbariaid a Scythiaid. Yr oedd

Phi. 3. 5. *Paul yr Hebræwr o'r Hebræaid, ac unwaededig yr wythfed dydd,* a'r eulnaddolwyr dienwaededic ymmyſc yr epheſiaid yn yr unrhyw gyflwr cyn eu troi drwy râs. Medd ef; *bu ein ymarweddiad ni oll gynt yn chwantau*

ein

in enawd, gan wneuthur ewyllyſiau y cnawd, a'r meddyliau. Mae gwledydd Crêd ac anghrêd, y bedyddiedig a'r difedydd yn yr un gamweddus anian. Yr oedd *Simon y Swynwr* wedi ei fedyddio, *mewn buſtl chwerwder, ac mewn rhwymedigaeth anwiredd.* Mae y rhai *ſy ganddynt rith duwioldeb ac yn gwadu ei grym hi, yn gynddrwg eu moddion a'r Paganiaid anwybodus*; Sef *yn ariangar, yn feilchion, yn gablwyr, yn anufuddion i rieni, yn annuwiol, yn angharedic, yn torri cyfammod, yn enllibaidd, yn fradwyr, yn waedwyllt, yn faſweddus.* Cyfyd chwyn yn y llafurdir a'r ardd, gyſtal ac yn y tir anial. Cwynodd Duw fyned *i'ſy Iſrael yn amhuredd oll.* Je gan mwyaf gwaeth yw llygredigaethau yr bobloedd ſy'n profeſſu'r gwir Dduw na rhai'r eulunaddolwyr. Magodd *Jeruſalem* ffieiddiach pechaduriaid *na Sodome neu Samaria, ac ymlygrodd yn fwy na hwynt,* ac aeth *yn gyſſur iddynt.* Mae anwiriaid Sion yn cael mwy o foddion gwybodaeth na chenhedloedd craill, ac wrth gamarferu eu Cyfarwyddyd yn myned yn fwy hylaw ar y drwg, ac yn nês at natur Satan; yr hwn nid aethai yn ddiafol mor gyfrwys, oni bae ei fod ef unwaith ynghymdeithas yr angylion gwybodus. Ac yn yr yſtyr hwn gwir yw'r hên ddihareb, ---- *Pa neſaf at yr eglwys, pellaf oddiwrth Baradwys.* Gwaeth yw Phariſeaid na Phublicanod. A pha genedl bynnag o'r anghredaddwy a amlygwyd ir oes hon tua chodiad haul neu ei fachlud, eulyn-addoliaeth, anwybodaeth, ac anwiredd a gafwyd ynddi.

Epheſ. 2. 3.

Act. 8. 13, 23.

2 Tim. 3. 2, 3, 4, 5.

Ezec. 22. 18, 19.

Pen. 16. 2. 46, 47.

Corruptio optimi eſt peſſima.

Gen. 8. 21. Pob oedran ſydd bechadurus, ievangc a hên, *Mae brŷd calon dŷn yn ddrwg o'i ieventid,*
Eſai. 48. 8 *a gelwir ef o'r gròth yn droſeddwr.* Y mae
Dih. 22. 15. baich o *Ffolineb yn rowym ynghalonau plant*; Yr hwn wedi ymddattod a yſtraffa 'r ffordd a gerddont â direidi ac oferedd. Ymgymyſc anwiredd gyd a'u deſnydd yn y brû, *ac mewn*
Pſal 51. 5 *pechod y beichiogaeu mamman arnynt.* A chynyddant ynddo gyda e'u mâintioli. Nid anhawdd craffu ar eu cenſigen a'u celwydd, au chwannogrwydd i bob atcaſrwydd. Medrau
2 Bren. 2. 2, 23. *plant Bethel* watwar prophwyd Duw. A phan dyſont i bybyrwch rhuthrant ir pechod
Jer. 8. 6. yn awyddus, *fel y march ir frwydr*; dan fwrw ewin aflendid, a chnoi 'r ffrwyn a'u attalio, a myned ar draws y Sawl au ceryddo. Eu hâf yw amſer eu ieuenctid, bydd blodau ar y drain, a rhoſynnau hyfryd ar y mieri melltigedig. Y pryd hyn mae'r anwiriaid yn cael
Gen 3. 5. hyfrydwch yn eu drygioni, *a thèg yn eu golwg yw ffrwythau'r pren gwaharddedig.* Llawenychant yn eu hoiwder, *a rhodiant yn ffyrdd*
Preg. 11. 9. *eu calonau, ac yngolwg eu llygaid,* heb yſtyried *y geilw Duw hwynt ir farn am hyn oll.* Ac erbyn yr heneiddiont bydd eu pechodau yn llawer amlach na u dyddiau, *a nhwythau yn*
Jer. 4. 22. *ddoethion i wneuthur drwg:* Ac yn feiſtriaid hylaw medrus ar bob crefft ddrygionus. *Au*
Job. 20. 11. *heſcyrn yn llawnion o bechodau eu ieventid, a orweddant gyda hwynt yn y pridd.*

Pob grâdd ar ddynion ſydd anwireddus, mawr a bychan. Y cyſoethog *gan uchder ei*
Pſal 10. 4, 5. *ffroen ni chais Dduw. Ei ffyrdd ſydd flin bob amſer.* Gan orthrummu y duwiol yn nyddiau

Jago,

Jago, *au tynnu ger bron brawdléoedd, a chablu'r enw rhagorol a elwid arnynt.* Y tlawd nid edwyn Dduw, a lledrattaiff oddiar ddŷn. Gwnaiff y gwan yr un drwg yn y dirgel, ac y wnaiff y crŷf yn yr amlwg, fel y mae'r ffwlbard yn ei allu mor rheibus á'r blaidd. O Herwydd hynny y dymunodd Agur na chai ef *na thlodi na chyfoeth*; am fod y llawn yn dueddol *i wadu Duw, ac i ddywedyd pwy yw'r Arglwydd?* A'r tlawd i *ledratta, ac i gymeryd enw Duw yn ofer.* Medd y prophwyd am ei bobl, *yn ſiccr tlodion ydyw y rhai hyn, ynfydion ydynt: Canys nid adwaenant ffordd yr Arglwydd, na barn eu Duw. mi a af rhagof at y gwŷr mawr, ac ymddiddanaf â hwynt: Canys hwy a wybuant ffordd yr Arglwydd, a barn eu Duw. Eithr y rhai hyn a gyd-dorraſant yr iau, ac a drylliaſant y rhwymau.* Jag. 2. 6, 7. Dih. 30. 8, 9. Jer. 5 3, 4, 5.

Mae'r pechaduriaeth hefyd gwedi gorchfygu pob rhan o bôb dyn, holl gyneddfau'r enaid, ac aelodau'r corph: *Halogrwydd cnawd ac yſpryd yw.* Yn yr enaid y deall yw tywyſog y cynceddfau, fel y mae'r haul yn y ffurfafen yn benaeth y goleuadau, etto y mae ef dan ecclip du. Mae'r holl genhedloedd *wedi tywyllu eu deall, wedi ymddieithro oddiwrth fuchedd Dduw drwy'r anwybodaeth ſydd yndynt.* Gwan yw'r ddeall mewn pethau budol, wrth fel y bu cyn cwymp Adda. Gorſu ir Arglwydd Dduw wneuthur i ddynion pechadurus y dillad cyntaf, a dyſcu iddynt wiſco am danynt. A bu'r bŷd uncant ar bumtheg o flynyddoedd heb ſedru gwneuthur llong ar ddwſr, nes i Dduw yn yſpyfol ddyſcu 2 Cor. 7. 1. Ephes. 4. 18. Gen. 3. 21.

ddyſcu hynny i *Noah*. Y mae llawer o bethau yn afleſol i ddyn eiſiau medru oddiwrthynt, ni ŵyr mo'u hachos, ac nid edwyn mo'u natur. ſethriff lawer llyſieuyn dan ei draed a fyddai iachus iw gorph ef, pes gwyddai pa ſodd iw drwſio. Meidr y creaduriaid direſum o honynt eu hunain lawer o gampau na feidr dyn oddiwrthynt, nes ei ddyſcu gan arall: Megis y pŷf copyn wau, a'r aniſeiliaid noſio i achub eu bywyd. Yn ſiccr y mae rhai ond nid y rhan fwyaf o'r byd, wrth yſtudio llyfrau, a dyfeiſiau'r cenhedlaethau aethant heibio, gyda'g ymarfer a phrofiad, wedi myned yn gyfarwydd ar fatterion daiarol, perthynol i'r Corph, megis celfyddydau, hwſmonaeth, llongwriaeth, a phyſygwriaeth. Ond ni enir y cyfarwyddyd hwn gyda phawb, canys *genir dyn fel ebol Aſſyn wyllt*, yr hwn yw'r hurtaf o'r milod; eithr cyfrenir ef ir cyfryw ac y rhoddo Duw yr athrylith neilltuol iddynt, ac a arferant ddiwydrwydd a phwyll. Ond er cyfarwyddded fyddo dynion naturiol mewn achoſion budol, maent yn anwybodus mewn pethau nefol. Er bod *Nicodemus* yn ddyſcawdwr, etto Pabanaidd oedd ei ddeall ef am y grâs ſy'n cymhwyſo rhai i deirnas nêf. Mae'r anianol y ſydd cyn graffed eu golygon â'r eryrod mewn pethau amſerol, cyn ddalled â'r turchod daiar mewn pethau tragwyddol. Mae *dynion yn llygredig eu meddwl heb y gwirionedd ganddynt. Halogedig yw'r diffydd hyd yn oed eu meddwl, an cydwybod*; Yr hon ni wnaiff mo'i ſwydd, eithr cyſcu yn lle ceryddu'r pechadur

Gen. 6. 14.

Job. 11. 12.

Joan. 3.

1 Tim. 6. 5.

Tit. 1. 15.

chadur rhyfygus. Dyna'r cyneddfau godidoccaf yn yr enaid, ac oedd â mwyaf o ddelw Duw arnynt; gan fod eu Swyddau i ddirnad ac i farnu, ac i reoli pob pêth. Mae llygaid ein corph ni o ddefnydd godidoccach na'r aelodau eraill, mor loiw a meini gwerthfawr neu Sêr y ffurfafen. Beth ynteu ydoedd rhagoriaeth golugon yr enaid? Etto yn awr mae'r fagddu wedi dyfod troftynt, a nhwythau wedi tywyllu yn drift: Er eu bod yn bwrw peth llewyrch wrth eu cynhyrfu, fel y difcleiria darn o arian ond ei rwbio, er darfod i ddelw'r brenin wifco ymaith oddiarno. Cynddrwg yw'r Coffadwriaeth a'r gydwybod. *Angofia dyn yr Arglwydd ei wneuthurwr. Nid yw Duw yn ei holl feddyliau ef. A gwrandawr anghofus yw ynghyfraith* y Goruchaf. A'r ewyllis yn waeth na'r deall, *gan gafau y da, a hoffi y drwg.* Cofleidia 'r ferch drachwantus y drygau hynny y bo'r meddwl a'r gydwybod yn ei warafun i ddynion. Mae rhai *yn gwybod Cyfiawnder Duw, (fod y rhai fy yn gwneuthur y cyfryw bethau yn haeddu marwolaeth) ac ydynt nid unig yn gwneuthur y pethau hynny, eithr hefyd yn cydymfodloni â'r rhai fy yn eu gwneuthur hwynt.* Dylai'r deall reoli 'r ewyllis; ond yn awr collodd ei awdurdod, a gwnaiff y deifyfiadau llygredig a fynnont er gwaetha iddo ef. Yn yr amrefn hwn mae 'r gweifion gwrthyfelgar hyn ar feirch, a'r tywyfog ar draed, ie ar lawr. Wrth ei gwymp aeth dyn â'i ben tano, a'i fol yn uchaf, (ys drwg yr yfum) trêch yw ei chwant na'i refwm. A thra fo'r fenn yn tynnu'r

Eſai. 51. 12. Pſal. 10. 4 Jug. 1. 24, 25. Mic. 3. 2. Rhuf. 1. 32.

tynnu'r wêdd dros dorlennydd, tyrr y ddau eu gyddfau.

Mae pechod yn teyrnasu yn y corph marwol, ac yn mynnu ufudd-dod iw gyfraith oddiwrth yr holl aelodau, y rhai y mae'r pe-
Rhuf. 6. 12, 19. chadur *yn eu rhoddi i fod yn arfau angyfiawnder, ac yn weifion aflendid*, ac anwiredd. Cyniwer drygioni i mewn ac allan drwy'r llygaid. *Plant y felldith fydd a'u llygaid yn*
2 Pet. 2. 14. *llawn godineb, yn llithio'r anwadal. Dercha-*
Gen. 39. 7. *fodd* yr Aiphties ddigwilidd *ei golwg ar Jo-*
Rhuf. 3. 18. *feph*, a dywedodd, *gorwedd gyda mi. Nid oes ofn Duw o flaen y llygaid.* Drwy'r clufiau y daw i mewn *ymddiddanion drwg a lygrant*
1 Cor 15. 33. *foefau da.* Wrth edrych ar y ffrwyth gwaharddedig, a gwrando ar hudoliaeth y farph, y daeth anwiredd gyntaf i galon dŷn: Ac ni
Gen. 3. 4, 6. pheidiodd mwy â thramwyo drwy'r Synhwyrau hynny. Y tafod fydd aelod bychan, ac
Jag. 3. 5, 6. yn gwneuthur drwg mawr, *tân ydyw, byd o anghyfiawnder. Lêdd agored ydyw'r gêg*, ac
Rhuf. 3. 15. arogl erchyll gyda'r lleferydd yn dyfod oddiwrth gorph marwolaeth, Sef y burgyn yn y galon: Megis goganair, a chelwydd oddiwrth anlladrwydd, melldith a chabledd oddiwrth wŷn. Y bol yw tryfforddŷ anwiredd, a phob cell o honaw yn llawn Camwedd. Yn ei ftafelloedd uchaf, fef y galon a'r cylla, y prefwylia'r chwantau hyfaf, ac yn yr ifaf, fef y grôth, y rhai anifeilaidd gwaelaf. Y
Jer. 17. 9. 2 Bren. 2. 19, 21. Math. 15. 19, 20. *galon fy ddrwg diobaith, a mwy ei thwyll na dim*; ac fel ffynhonnell *Jerico* yn bwrw allan ddyfroedd drwg. O'r hon *y mae lladdiâdau, a chablau yn dyfod allan, a'r pethau fy'n halogi*

dŷn

dŷn. A'r cylla fel ogof Cacus, fy â llawer o yſpail ynddo. Llynclyn yw, lle boddiff llawer o greaduriaid Duw. Ynddo y mae *merched y gele* (ſef glothineb, a meddvvdod) *yn llefain moes, moes.* Gwneir y grôth yn ſuglen vffern, lle'r aiff pob anifail anllad yn ei un llam, yno y glŷn, ac y trig yn eſmwyth, *nes deſcyn* i *ſtafelloedd angau.* Mae y rhannau ditgel yn cenhedlu llawer mwy o bechodau, nag o bechaduriaid, er lluoſocced ydyw'r bŷd; a'u brunti yn gywilidd ei ſynegi. Rheddir ir drwg yn nerth y traed, *y rhai ſy ſuan i dywallt gwaed,* ac i waſnaethu balchder. Pan *falchiodd merched Sion rhodiaſant â gwddf eſtynnedic ac â llygaid gwammal, gan rodio a rhygyngu wrth gerdded, a thryſtio a'u traed.* Gweiſion diwyd a milwyr dewr i lygredigaeth ydyw'r dwylo. Y rhai a *ddychymygant anwiredd ar eu gwelâu, pan oleuo y boreu gwnant ef, am ei fod ar eu dwylo. Pob un ſydd yn hela ei frawd â rhwyd; gofynnant am wobr i wneuthur drygioni â'r ddwy ddwylo yn egniol.* Am hynny y gweddiodd Dafydd. *Na ddeued troed balchder im herbyn; na ſyfled llaw'r annuwiol fi.*

Dihar. 30. 15.

Dihar. 7 8.

Epheſ. 5. 12.

Rhuf. 3. 15.

Eſai. 3. 16.

Mic. 2. 1. ac pen. 7. 2, 3.

Pſal. 36. 11.

Mae gweithrediad y llygredigaeth hwn yn erbyn pawb, ſef Duw, a dynion, a dyn ei hun.

Ymadawiad oddiwrth y Duw bendigedig, a throſeddiad oi ewyllis fanctaidd ef ydyw natur felldigedig pechod. *Syniad y cnawd ſydd elyniaeth yn erbyn Duw, nid yw ddaroſtyngedic iw ddeddf ef. Er i Dduw wneuthur o un gwaed bob cenedl o ddynion, i breſwylio ar*

Rhuf. 8. 7

Act. 17. 26,27,28 *ar holl wyneb y ddaiar, fel y ceiſient yr Arglwydd, os gallent ymbalfalu am dano ef, a'i gael, er nad yw ef yn ddiau neppell oddiwrth bob un o honom, oblegyd ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn ſymmud, ac yn bod:* Etto eſceulyſa dynion eu gwneuthurwr, ac yn lle *ymbalfalu am dano ef,* a cheſio dyfod o hŷd iddo ef wrth deimlo ei ddaioni ef yn y creaduriaid ſy dan eu dwylo, (megis dilyn ffrŵd oni ddeler at y ffynnon) *dywedant wrth Dduw*

Job. 21. 14. *cilia oddiwrthym ni, canys nid ydym yn chwennych gwybod dy ffyrdd.* ie *Cas ganddynt ef,*

Rhuf. 1. 30. ac anniolchgar, a thaeog ydyw eu moddion t ag atto ef. Canys er cael o honynt ei haelioni ef iw cynnal ac iw porthi beunydd, a bod yn naturiol dalu diolch am roddion, a'r naill gymwynas am y llall; etto *ni ddywedant yn eu calon, ofnwn weithian yr Arglwydd ein Duw, yr hwn ſydd yn rhoi y glaw*

Jer. 5. 24. *Cynnar, a'r diweddar yn ei amſer: efe a geidw i ni ddefodol wythnoſau cynhaiaf.* Pan welo'r Arglwydd *ei elyn yn newynu mae'n borthi ef,*

Rhuf. 12. 20. cynnifer gwaith ac y *ſychedo rhoddiff iddo ddiod.* Ond nid yw'r *marwor tanllyd a bentyrrir* felly *am bennau* dynion, yn toddi mo'u calonnau i garu eu hymgeleddwr, ond annuwiol fyddant. Ac maent nid yn unic heb arfer eu rheſwm iw troi eu hunain at Dduw, eithr hefyd â'u rheſymmau yn ymladd yn ei erbyn ef: Gan ddangos achoſion da (yn eu tŷb eu hunain) i'w cadarnhau yn eu gwrthryfel; ac iw barnu eu hunain yn eſcuſodol, er na wnelont y peth a geiſio ef. ac yn ddi-

Luc. 14. 18,19,20 ogel eu helynt er ei fwgythion ef. *Dywe-*

dant

dant pale y mae addewid ei ddyfodiad ef? Canys er pan hunodd y tadau y mae pob peth yn parhâu fel yr oeddynt o ddechreuad y creaduriaeth. 2 Pet. 3. 4.

Nid edwyn y bŷd trwy ei ddoethineb mo Dduw; 1 Cor. 1. 21.

Ond berniff ei wasanaeth ef yn rhodres. Job. 21. 15.

Pa beth ydyw'r Holl-alluog ſel y gwasnaethem ef? a pha fúdd fydd i ni os gweddiwn arno? Fel hyn y mae pechaduriaid yn anghydſynio â'r hyn a amlyger iddynt o ewyllis Duw, ac *yn elynion iddo mewn meddwl,* Col. 1. 2. gydag mewn chwant, Hyd y maent *yn adnabod Duw nis gogoneddant ef megis Duw, ac ni byddant diolchgar iddo, eithr oferyn eu rheſymau, ac nid yw gymeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth.* Rhuf. 1. 21, 28. Dyma'r achos o'r camgymeriad ſydd mewn pobl ynghylch pethau Duw, gan dybied y pechod ffieiddiaf yn rhinwedd o'r buraf. tybiodd yr Juddewon gwrthnyſſig eu bod yn gwneuthur gwasanaeth cymeradwy ir Arglwydd wrth wrthod Chriſt, a lladd ei weiſion ef. Camſyniant ſeddwl Duw yn ei farnedigaethau. Pan goſpwyd Juda am eulunaddoli, ac *Arogldarthu i frenhines y neſoedd,* dywedafant hwy ir aſlwydd ddigwydd iddynt am adel eu heulunod heibio. A'r un fath gam-yſtyriaeth a roddir ar ſcrythyrau, a thrugareddau Duw, a hynny a faga ryfyg pechadurus, ac hereſiau perygl us. *Yn lladd, yn godinebu, a thyngu, deuant ger ei fron ef, a dywedant, rhyddhawyd ni i wneuthur y ffieidd-dra hyn oll,* gan ŵyrdroi'r ſcrythyrau iw diniſtr eu hunain. Joan. 16. 2. Jer. 44. 18, 21. Jer. 7. 9, 10. 2 Pet. 3. 16.

Mae'r ewyllis mor elyniaethol i Dduw, ac yw'r meddwl, gan *garu'r creadur yn fwy* na'r

Rhuf. 1. 25. *na'r creawdwr, yr hwn ſy fendigedig yn dragywyddol.* Nid digon gan y galon butteinaidd adel a gwrthod ei Harglwydd, ei phriod cyntaf, a'i gwneuthurwr, eithr hefyd wedi troi ei chefn atto ef, cymer y gweiſion yn ei lè ef iw monwes o flaen ei lygaid ef. Gadewiff i'w Harglwydd *ſefyll* y tû allan *wrth y drws, a churo, oni lenwer ei ben â gwlith, a'i wallt â defnynnau'r nos.* Er maint o ddagrau a *wylodd* ef, ac o ddefnynnau gwaed a gollodd ef iw hynnill hi atto ei hun, etto hi ddywed yn yſtyſnig, *Cerais ddieithraid, ac ar eu hòl hwynt yr âſi.* Ni chaiff Duw mo ſyſyrdodau 'r deall, na deiſyfiadau 'r ſerch, ond y bŷd a'r cnawd ai caiff hwynt yn rhwydd. Gwnaiff y meddwl *ragddarbod dros y cnawd er mwyn cyflawni ei chwantau ef*, ac *aiff y galon ar ôl cybydd-dod.* A'r gwaſanaeth ſy ddyledus ir gwir Dduw yn unic, a dynnir oddiwrtho ef iw roddi i ryw eulun teimladwy. Gwnaiff yr awyddus ddelw o'i dryſſor, a'i olud; yr hwn a addoliff, ac a berchiff ef, gan offrymmu iddo ei oſal, a'i ddiwydrwydd, a'i ddymuniad; a cheriff ef megis y daioni pennaf, yn yr un mòdd ac y mannai 'r Duw Goruchaf i bobl ei garu, ſef *â'r holl enaid, ac â'r holl feddwl.* Gwaſnaethiff ef yn hollawl, ſel nad allo nyngu bôdd iw Greawdwr, gan na ddichon neb *waſnaethu Duw a Mammon.* Hyderiff arno yn llè Duw; gan *oſod ei obaith mewn aur, a dywedyd wrth au coeth fy ymddiried wyt. Llawenychiff am fod ei olud yn fawr, ac oblegyd iw law gael llawer.* Am hyn dywed yr Apoſtol

Rhuf. 13. 14.

Ezec. 33. 31.

Math. 6. 24.

Job. 31. 24, 25.

ſtol, ſod *cybydd-dod yn eulunaddoliaeth.* I Eraill *eu Duw yw eu bol,* ir hwn yr aberthant lawer o fwyd, ac y tywalltant lavver o ddiod offrvvm, ir hwn y canant fawl yn eu heglvvyſydd ſef y tafarndai. Y rhai *ſy gyfryw ni waſnaethant yr Arglwydd Jeſu Griſt, eithr eu bol eu hunain.* Ac ymhen iſaf cafell Baccus Eulun y meddwdod, a'r trythyllvvch, y mae allor Fenus, eulun yr anllad. Atto y cyrchiff y cyfryvv ac ſy 'n *caru melyſcbwant yn fwy nag yn caru Duw.* Aberthir iddo nid yr eiddil ar nychlyd, ond yr iachaf, a'r cryfaf a'r glanaf: A chaiff gymmaint o ſelyſgerdd yn ei addoliad, a'r ddelw euraidd yn amſer Nebuchodonoſor; neu ac oedd yn y deml yn amſer Dafydd. Y maſweddwyr a *ddatcanant gydà llais y nabl, dychymygant iddynt eu hunain offer cerdd, megis Dafydd.* Ie llawer medruſach ydynt ar byngcio dyrîau anllad yn y tvvmpathau chvvareu, nag ar ganu Pſalmau â llais peraidd, ac à chalon bur i'r Arglwydd. Fel hyn y gedi dynion y bywiol Dduw, ac y *gwnant ffiaidd bethau ſy gàs ganddo:* Ac y gwaſnaethant dduwiau gwael, nis gall mo 'u hachub yn eu cyfyngder. *Ni thyccia golud yn nydd digofaint, a chyfoeth a eheda ymmaith. Y bwyd ir bol, a'r bol ir bwydydd. Ond difethir hwn a hwythau. Aiff dull y ŷd a'r cnawd heibio, a'i chwant hefyd.* Aiff y rhwd a'r pryfed beunydd yn feiſtraid ar y duwiau hyn; etto nid arfer dyn mo 'i reſwm i gydnabod nad y rhain a haeddau ei ufudd-dod ef; mwy nar eulunaddolwyr yn amſer Eſai, y rhai a *addolent y naill ran o'r*

Col. 3. 5. Phſl. 3. 15.

Rhuf. 16. 18.

2 Tim. 3. 4.

Dan. 3. 5

Amos 6. 5.

Jer 44. 4.

Dih. 11. 4. ac 23. 5. 1 Cor. 6. 13 1 Joan. 2. 17.

pren, y lloſcaſid y darn arall o hono. *Ni*
Eſai. 44. 19. *feddyliai neb yn ei galon i ddywedyd, lloſcais ran o hono yn tân, ac a wnaf y rhan arall yn ffieiddbeth, a ymgrymaf i foncyff o bren?*

Tra niweidiol i ddynion ydyw gweithrediad y llygredigaeth hwn, gan eu gwneuthur fel bleiddiaid wrth eu gilidd, ie yn waeth nag eirth. y rhai ni rwygant eu rhyw eu hun, er iddynt yſclyfaethu creaduriaid eraill: Ond llâdd y naill ddŷn y llall. *Llawn yw tywyll*
Pſal. 74. 20. *lêoedd y ddaiar o drigfannau trawſter. A tho-*
Dih. 12. 10. *ſturi y drygionus ſy greulon.* Tommennydd o gelaneddau, a charneddau dinaſoedd diniſtriol, ac anghyfannedd-dra teyrnaſoedd ydyw'r cwyſiadau ſy 'n dangos ôl gwaith y natur felltigedig ymbob oes, a gwlâd. *O bale y mae*
Jag. 4. 4. *rhyfeloedd ac ymlâddau onid oddiwrth chwantau?* Nid amheuthun clywed y bŷd yn o-
Jer. 4. 31. chain fel Merch Sion, *gwae fi oblegid diffygiodd fy enaid gan leiddiaid.* Ie difetha pobl eu gilidd yn fradychus, fel y gwnaeth Joab ag Amaſa. Eb ef, *a wyti yn llawen fy mrawd?*
2 Sam. 20. 9, 10. a rhoddes y naill law am ei ŵdd ef i ymgaredigo ag ef, mal na ddaliai ar y cleddyf ydoedd yn y llall i ollwa gwaed ei galon ef: Gan ddallu ei lygaid ef â chuſſan, tra ſu yn ei drywanu ef dan y bumed ais. A llawn yw'r ddaiar o odinebwyr a halogant gyrph ac eneidiau eu gilidd, ac a wnant nadroedd yn wyberod. Pan *dwyller y galon gan wraig*
Job. 31. 9, 12. *i gynllwyn wrth ddrws cymmydog,* prifia yn *dân a yſſa oni anrheithio; ac a ddadwreiddia 'r holl ffrwyth.* Ac yn ſynech bydd y ddau anwiredd echryſlon hyn ſef mvvrdvvr a godineb,

neb, vvedi eu cvvplyfu ynghyd fel dvvy afr uffernol. Os ammhriodol fydd y buttain lleddir y plentyn, os priodol lleddir y gŵr: ac os Bathfheba a ymdroiff mewn aflendid, rhaid i Urias ymdreiglo yn ei vvaed. Nid diogel yftâd neb gan *ladron yn torri drwodd ac yn lledratta.* Aml yw yfpeilvvyr a thvvyllvvyr mevvn amryvv ddull: [x] Y cyfrvvys boneddigaidd a orthrumant yn dangneddefus; *gan ymchwelyd y tlodion oddiwrth farn, fel y byddo gweddwon yn yfpail iddynt, ac yr anrheithiont yr ymddifaid.* Marchnattavvyr a gyrhaeddant eu gilidd yn dvvyllodrus, gan abwydo eu bachau â geiriau tèg ac a llŵon. Dûa enllibvvyr (y rhai ni buont feirw gydâ Doeg yr Edomiad) envvau eu gilidd â buftl cenfigen, ac anair. *Hoffant eiriau deftryw,* ac â'u tafodau tvvyllodrus torrant efcyrn eu cymydogion. Nid heb achos y cvvynodd y prophvvyd gan ddyvvedyd; *Trwy dyngu, a dywedyd celwydd, a lladd celain, a lledratta, a thorri priodas, y maent yn torri allan, a gwaed a gyffwrdd â gwaed.* Ac medd yr apoftol fod y cenhedloedd vvedi *eu llenwi â phob anghyfiawnder, godineb, anwiredd, yn llawn cenfigen, llefruddiaeth, cynnen, twyll. Yn huftyngwyr, yn athrodwyr, yn drahaus, yn dorrwyr ammod, yn angharedig, yn anhrugarogion.* Ie nid allai pobl mor byvv vvrth yftlys eu gilidd, oni bae fod rhagluniaeth Duvv yn attal llawer ar vveithrediad pechaduriaeth y rhai nid yvv yn eu Sancteiddio. Mae ef yn dofi'r llevvod, heb eu troi yn ddefaid. Nid yvv ef yn newid eu naturiaeth hvvy, ond ei gwârhau

2 Sam. 11

Eſai. 10. 2

Pſal. 52. 1

Hoſh. 4. 2

Rhuf. 1. 29

yn unic. *Yr hwn a oſododd y tywod yn derfyn ir môr rhuadwy, a waharddiff ynddaredd dyn.* Jer. 5. 22. Pſal. 76. 10. Felly pan erlidiodd Laban ddiclon ar ôl Jacob daith ſaith niwrnod, ai oddiweddyd ef a'i dylwyth, dywedodd wrthynt; *Mae arfy llaw i wneuthur i chwi ddrwg. Ond Duw eich tâd a lefarodd wrthif neithwyr, gan ddywedyd, cadw arnat rhag yngen wrth Jacob na da na drwg.* Gen. 31. 23, 29. A chwedi hynny pan ddaeth Eſau a phedwar Cant o wŷr i ddial colled ei anedigaeth-fraint ar ei frawd Jacob, ydoedd yn eu hofni yn ddirfawr, yn lle tywallt gwed diferodd ddagrau; gan gofleidio a chuſſanu ei frawd. Pen. 33. 1, 4. Y mae Duw yn arferol o anfon rhwyſtrau oddiallan, neu argyoeddiadau oddifewn, i luddias i bobl gyflawni cwbl oi drwg amcanion. mae'n ffrwyno eu ewyllis, neu yn naccâu achlyſur iddynt. Megis pan ddarfu i *Saul a'i wyr amgylchynu Dafydd a'i wŷr iw dala hwynt; daeth cennad* atto ef gan *ddywedyd, bryſſia a thyred, canys y Philiſtiaid a ymdanaſant ar hŷd y wlâd. Am hynny dychwelodd Saul o erlid ar ôl Dafydd, ac efe aeth yn erbyn y Philiſtiaid.* 1 Sam. 23. 26, 27, 28. Amſer arall daeth yſpryd prophwydoliaeth arno, ac yn lle dal Dafydd, *Syrthiodd i lawr o flaen Samuel.* 1 Sam. 19. 22, 24. A chwedi hynny wylodd wrth Ddafydd, a dywedodd, *cyfiawnach wyti nâ myfi.* Pen. 24. 16, 27. Swyddogaeth, a rheolaeth ymmhlith dynion ydyw'r Argae gyffredin ſy'n cadw i mewn annoddyn pechadurieth rhag boddi, a llwyr ddifetha'r bŷd. Ordeiniodd Duw awdurdod i fod *yn ofn i weithredoedd drwg, ac yn ddialudd llid ir Sawl* a'u gwnelont. Rhuf. 13. 3, 4. Ond pan dor-

dorro'r argae hon, megis y digwydd weithiau mewn rhyfeloedd, ni dichon dim fefyll o flaen ffrwd anwiredd. Wrth gymeryd trefydd gwarchaedig ni bydd arfwyd ar y gorchfygwyr ymlenwi â llofruddiaeth, godineb, ac yſpail. A phryd *nad oedd brenin yn Iſrael*, digwilidd oedd yr eulunaddoliaeth a'r aflendid a amlhâodd yn eu myſc. A pha amſer bynnag y digio Duw, a chofpi'r drwg drwy adel i bobl ŵneuthur gwaeth, *a'u rhoddi i fynu i wyniau gwarthus*, pechant yn annaturiol, ac yn dra pheryglus i ddynol ryw. Barn: 17. 6. ac pen. 19. 1, 25. Rhuf. 1. 26, 27.

Anafus yw'r llygredigaeth hwn fefyd i ddŷn ei hun. gan ei fod wrth bechu *yn gwneuthur Cam a'i enaid ei hun:* ac yn dwyn tân yn ei fonwes ai llyſc mewn môdd anoddefus yma. Y mae *chwantau cnawdol yn rhyfela yn erbyn yr enaid*, ac yn rhoddi iddo lawer o friwiau gofidus, ac wrth eu cyflawni yn ei ddifetha ef, er gwerthfawrocced yw. A'r godinebwr *Sy'n pechu yn erbyn ei gorph ei hun:* A thrwy aflendid yn ei ddiſwyno ai wanhychu ef. Er diwedd gwnaiff y pechod iddo *ochain wedi iw gnawd a'i gorph gurio.* Brycha ei henw ef hefyd: *archoll a gwarth a gaiff ef, ai gwilidd ni ddeleir. enw pob drygionus a bydra.* Yſtym wradwyddus y mae'r pechod yn ei vvneuthur ar ddynion, ac megis â diodydd y ddewines Circe, y mae'n troi'r naill yn fôchyn drwy feddwdod, a'r llall yn arth drwy wŷn ddiclon, a'r trydydd yn afr drwy anlladrwydd, a'r pedwerydd yn dwrch daiar drwy gybydd-dod i ymdroi yn y pridd. Ac nid anaml iddo beri i ddŷn ei lâdd ei hun i Dihar. 8. 36. 1 Cor. 7. 9. 1 Pet. 2. 11. Dihar. 6. 32. 1 Cor. 6. 18. Dihar. 5. 11. ac pen. 6, 33. pen. 10, 7

ddibenu ei ofid amſerol, ac i bryſſuro 'r penyd rragwyddol, fel y gwnaeth i Saul a Judas.

Truenus yw Cyflwr dynion o herwydd eu pechadurieth, gan eu bod yn gaeth-vveiſion i Satan, a phechod. *Yſpryd diafol ſydd yn gweithio* (nid yn ſegura) *ym mhlant yr anufudd-dod.* Ni chant lonydd ganddo heb eu gyrru o'r drwg bigilidd. Y rhai *anwir ſydd fel y môr yn dygyfor, pan na allo fod yn llonydd, yr hwn y mae ei ddyfroedd yn bwrw allan dom a llaid.* Gwynt profedigaeth, ai gynhyrfiad naturiol ni edi i fôr llygredigaeth gael gorphwyſtra, Onid bwrw allan ryw aflendid beunydd. gwael yvv'r gvvaſanaeth pryd nad yw'r pen meiſtr ei hun ond carcharor *mewn Cadwynau tywyllwch. A phwy bynnag ſydd yn gwneuthur pechod y mae ef yn wâs i bechod, ac yn waſanaethwr llygredigaeth. Canys gan bwy bynnag y gorchfygwyd neb i hwnw hefyd yr acth ef yn gaeth.* Yma y gvvelvvn y meidr pechod lyvvodraethu â llavv grèf megis cwncwervvr ped fae raid. Ond mae dynion yn eu rhoddi eu hunain yn *weiſion* iddo o'u gwirfodd, er nad yw ond budredd cyn frunted a *chwdfa ci.* A dyn, yr hvvn a vvnaethpwyd yn benaeth ar y creaduriaid gweledig oll, ſydd yn cymeryd ei feiſtroli gan yr anifeiliaid o'i fewn, ſef ei drachvvantau. A chvvedi gadel tŷ ei dâd nefol, gorfydd iddo *borthi môch* bruntion, a dvvyn diffyg pob peth da. Nc mae'r gvvaſanaeth hvvn mor galed (yn envvedig tua'r diwedd) ac yvv vvael, gan ei fod yn ddihamdden. *Plant y felldith ni fedrant beidio â phechod.* eithr cant eu *llwytho* ag ef,

Eph. 2. 2

Eſai. 57. 20

2 Pet. 2. 4
Joan. 8. 34

2 Pet. 2. 19

Rhuf. 6. 16

2 Pet. 2. 22

Luc. 15. 2

2 Pet. 2. 14

au

au harwain gan amryw chwantau. Tynn cybydd-dod hvvynt y naill ffordd, a balchder ffordd arall. Aml yvv'r gofidiau, anhunedd a'r doluriau a ddigvvydd oddivvrth ymarferion drygionus. *i bwy y mae gwae? i bwy y mae gweliau? i bwy y mae ochain? ond ir neb fydd yn aros wrth y gwîn.* Y rhai fydd *chwannog i ariangarwch, a'u gwanant eu hunain à llawer o ofidiau.* A rhaid i gefn, ac vveithiau i efcyrn yr afradlon ddioddef dros ei fol; ac ir aflan *oblegyd y fenyw buteinig* ddvvyn eifiau *bara.* Y mae brunti pechadurus yn llawn o nadroedd, *a'u colynnau yn eu cynffonnau.* Yn niwedd direidi pechod y mae mileindra, a chwerwedd buftlaidd yn gymyfc â gvvaddod ei vvîn, a hynny a brofiff cydwybod pob enaid.

2 Tim. 3. 6.

Dih. 23. 29, 30

1 Tim. 6. 10

Dihar. 5. 26

Tra enbydus hefyd yw cyflwr pechadurus. Wedi ei bwrw iw cholli yn llŷs y Barnwr Cyfiawn Hollalluog. *digofaint Duw a ddatcuddwyd o'r nêf yn erbyn pob annuwioldeb, ac anghyfiawnder dynion, ac maent oll wrth naturiaeth yn blant digofaint.* ie *melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a fcrifennir yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt.* Y felldith a adroddodd Duw yn erbyn Adda fydd etifeddiaeth i'w holl heppil ef, a barhânt yn yr unrhyw anufudd-dod: a'i llidiawgrwydd fydd yn torri allan arnynt yn y bŷd yma drwy flinderau a phoenau corphorol; helbulon a *gofidiau a amlhânt i'r rhai a fryfiiant ar ôl Duw dieithr. yn chwŷs eu hwynebau y bwyttânt fara.* Ac os rhyw Sodomiaid a fwyttânt fara feguryd, (fel y caiff lla-

Khuf. 1. 18

Eph. 2 3

Pfal. 16. 4

Gen 3. 19

dron a llofruddion wedi eu bwrw ddigon o fwyd a diod tra fônt) etto ni ddiangant rhag dolur, er iddynt ochelyd llafur. Yr Arglwydd fy'n taro pobl anufudd â *cblefydau, â darfodigaeth, ac â chryd poeth, â diflanniad, ac â mallder, à chornwyd, ac â chrâch: o'r rhai ni ellir moi iachâu, eithr dilynant hwynt nes eu difetha.* A bydd dolur mor fanwl i benydio pob rhan o'r corph, ac yw pechod iw llygru. Swyddog digofaint yw a'i gleddyf noeth yn trywanu pob aelod lle mae anwiredd yn rheoli. Curiff y pen dichellgar â gwaiw, a chnoiff y bol nwyfus â gwewyr; a berwa'r galon ddrygionus â phocthder, ac yffiga'r lwynau anllad â chrynfa: a chanlyniff ar ei elyn nes ei guro ir bêdd, a gwneuthur ei degwch mor ffiaidd *a'i dom*, a'i hoivvder yn fwyd i bryfed. Y rhai a fyddant cyn hyfed a bwytta ei wyneb ef vvrth ei ddanedd; er uched oedd ei drem, a mileinied ei guwch yn ei fywyd. Er eu gwaeled ant yn drêch nag ef ynghwcryl eu creawdr. A thaerach fyddant na *Joab* vvrth *erlid ar ol Sheba mab Bichri i ddinas Abel*, canys nid ymadawant au gelyn nes *torri ei ben*, a bwytta ei galon hefyd, *am iddo dderchafu ei law yn erbyn y brenin nêfol.* ond nid yw clefydau na phryfed cyn dofted vvrth y corph ymma, ac yw'r cythreuliaid vvrth yr enaid anrafol yn y byd arall: gan ei fod yn fyw fyth, ac yn deimladwy o'i friwiau. pwy ond ai profodd, all ddeall ei fraw vvrth gymeryd ei godwm ir gagendor du? a'r gofid a ddigwydd iddo yno oddiwrth lofciad y tân anniffoddadwy, a brathiad

Deut. 28. 22, 27

Job. 20.7

2 Sam 20

thiad y pryſed anfarwol yn y gydvvybod. ni ſedrai'r Apoſtol Sanctaidd adrodd ychydig eiriau ynghylch diwedd y rhai Sy'n rhodio yn elynol i Griſt, ond *dan wylo* o herwydd toſted eu deſtryw. ynteu ynfyd yw'r pechadur ymlowio mewn gvvaith brvvnt i ynnill *tryſſor o ddigofaint, a marwolaeth yn gyflog* yn niwedd ei ddydd. ni ŵyr dilynvvyr anwiredd pa ddydd, pa awr, y cymer angau afel arnynt iw dihenyddio, ac iw rhoddi i boenau didrancedic. Nid yw'r Swyddog diarbed hwn arfer o aros ond ychydig am y rhan fwyaf o honynt, ond eu Cippio ymmaith cyn *hanneru eu dyddiau:* a hynny pan fo amheuaf ganddynt, ſef odiwrth eu gwleddoedd danteithiol ir ffwrn danllyd dragwyddol lle ni chânt ddefnyn o dwfr iw hoeri; gan drefnu iddynt gyfnewid chwith. *Felly y daw dydd yr Arglwydd arnynt fel lleidr yn y nôs.* (yn ddiarwybod, ddirybudd) Canys *pan ddywedant tangneddyf a diogelwch, yna y mae diniſtr diſymmuth yn dyfod ar eu gwartha megis gwewyr eſcor ar vn a fo beichiog: ac ni ddiangant hwy ddim. Cymmerant dympan a thelyn, a threuliant eu dyddiau mewn daioni, ac mewn moment y deſcynnant ir bedd.* teſlir y naill ir geuffos ddiwaelod oddiar ben ei orſedd, a'i rwyſc, fel lleidr oddiar yr yſcol; ar llall oi nŷth clyd. *Fel petris yn eiſtedd ac heb ddeor, yw yr hwn a helio gyfoeth yn anheilwng: yn hanner ei ddyddiau y gedy hwynt, ac yn ei ddiwedd ynfyd fydd.* A'r gôſp a oeder oddiwrth ynbell un, a ſydd toſtach pan ddêl. a braich digofaint a dynner yn ôl, ac a attaliPhi. 3. 18, 19

Rhuf. 2 pen. 6

Pſ. 55. 23

Luc. 16

1 Theſſ. 5. 2, 3

Job. 21. 12, 13

Jer. 17. 11

er

Eſai. 65. 20 er ennyd, a dery yn drymmach gwedi, *a'r pechadur yn fàb canmlwydd a felldithir.*

PEN. 23.

Anhawſtra troedigaeth pechaduriaid o'u cyflwr llygredig.

Glŷn pechaduriaid yn dynn yn y Cyflwr anwireddus hwn er ei fod mor druenus, ac anhawdd aruthr yw tynnu neb allan o hono. Dihar. 5. 22 *Delir yr annuwiol à rhaffau eu pechodau, glynant mewn twyll, gwrthodant ddychwelyd.* Cadarn yw Jer. 8 5 *maglau Satan, a rhwymedigaeth anwiredd.* Ni all neb eu torri ond yr Hollalluog Dduw yn unig. medd Criſt *ni ddichon neb* Joan. 6. 44 *ddyfod attaſi, oddiethr ir Tàd ei dynnu ef.* Y mae pob dŷn yn gorwedd mor ddiynmod yn ei ddrygioni, ac yw'r marw yn ei fèdd, Eph. 2. 1 neu 'r glŵth yn ei wely eſmwyth; gan ei fŵo ei hun â gweniaeth ei galon i gyſcu'n ddiofal fel Jonas, er bod dialedd yn effro uwch ei ben ef: ac fel *gwyr Lais y mae ef yn trigo mewn diogelwch,* Barn. 18. 27 er bod diniſtr yn agos atto. A megis Balaam ni wél môr cleddyf daufiniog noeth, ſef digter y Goruchaf, y Num. 22 ſydd yn erbyn ei wyneb ef yn ei ffordd ddrwg. eithr aiff ymlaen yn hyf, ac a lowia bôb petruſder, fel y gwnaeth y Conſuriwr hwnw i'w aſſyn ofnus: gan *ymnerthu yn ei* Pſal. 52. 7 *ddrygioni* yn galonnog, *heb edifarhàu i roi go-*Datcudd. 16. 9 *goniant i Dduw*; na cheiſio newid ei gyflwr anianol am un graſol, am fod ei bechod yn yſcafn ganddo. ie mor hyfryd ganddo ymdroi yn ei frunti mewn llwyddiant, ac yw gan

y

y *mochyn ymdreiglo yn y dom* ar dês. A rhediff dan neidio ar hyd *y ffordd lydan* (tra caffo hi yn dêg, ac yn ddihelbul) er ei bod *yn arwain i ddeſtryw* ymhen y daith. Cymer ei bleſer a'i rwyſc gydâ ei gymdeithion yn yſcafnder ei galon; a chweri ſuglen donnen uwchben y pull diwaelod, er na bo ond llinin brau o ſywyd bregus yn ei ddal ef. dawnſia ynghadwynau 'r cythrael, a chyflawna 'r ddihareb, *mai chwerthin a wna ynfyd yn boddi.* *Ymddigrifa'r anwir yn eu twyll eu hunain.* A'r bobl lygredig, fel Iſrael bechadurus gynt, *a eiſteddant i fwytta ac i yfed, ac a gyfodant i fynu i chwârae.* Neu fel Belſazzar ai gydwleddwyr a'r ordderchadon, *yfant wîn, a moliannant y duwiau o aur, ac o arian, o haiarn, o goed, ac o faen* (ſef eu golud, a'u tai a'u tiroedd) er bod Duw *wedi rhifo* eu hawddfyd hwy, ac yn barod iw gorphen, a chwedi *eu pwyſo hwynt yn y cloriannau, a'u cael hwynt yn brin.* Neu megis y bu yn nyddiau Noah a Lot, ac y bydd yn nyſodiad Criſt; y maent *yn bwytta, ac yn yfed, yn gwreica, ac yn gwra, yn prynu, ac yn gwerthu, yn plannu, ac yn adeiladu,* er bod diluw o ddigoſaint yn barod iw boddi hwynt, a thân anniffoddadwy yn ei waelod iw berwi hwynt oll dros byth. fel Nero maent yn canu, er bod eu dinas yn lloſci. Ac nid oes hyfrydwch yn y bŷd vvell ganddynt, na'r hwn ſo mŵyaf pechadurus. cyfododd Judas oddiar ei ſwpper, er bod yno ymborth gyſſurus, i gwplau'r brâd a roddaſai Satan yn ei fwriad ef. Hoffach ydoedd gan y dynion cyntaf y ffrwyth gwa-

2 Pet. 2. 22

2 Pet. 2. 13

Exod. 32. 6.

Dan. 5. 1, 3, 4, 26. 27

Luc. 17. 26, 27, 28, 29

Joan. 13. 30

harddedig,

harddedig, na'r holl aeron eraill a dyfau ym Mharadwys, er daed, ac amled oeddent. A'r un naturiaeth ſydd yn eu heppil hwy byth: y rhai a dybiant *ddyfroedd lledrad yn felus,*
Dih.9.17 *a bara cudd yn beraidd.* Mae'r godinebwr yn ymddigrifo mwy yn y wraig ddieithr, nag yn
pen. 5.3, 4, 20 yr eiddo ei hun, *a'i gwefuſau ſy gyſtal ganddo â'r dil mêl, er bod ei diwedd yn chwerw fel y wermod, ac yn llym fel cleddyf dauſiniog,* i ofidio ei galon ef ryw ddydd.

A chan fod y fath gariad rhwng y cnawd a melyſdra pechod, anhawdd fyth eu gwahanu yn y bŷd yma. Cryfaf cwlwm yw un y ſerch bleſerus. *Pan ddynner un, ac y llithier ef gan ei chwant ei hun, yna chwant wedi*
Jag.1.14, 15 *ymddwyn a eſcor ar bechod, a phechod pan orphenner a eſcor ar farwolaeth.* Yma y gwelwn na ollwng chwant moi afel hyd farw. Am hynny ni yſcarvvyd rhwng y *gwr golu-*
Luc. 16. 19, 23 *dog* ai faſwedd beunyddiol nes ei fyned i boenau Uffern. Y rhai ſy'n *cyfrif moethau bennydd yn hyfrydwch, ni fedrant beidio â phechod,*
2 Pet. 2. 12, 13, 14 *ac a ddifethir yn eu llygredigaeth.* Y rhai a ymddigrifant mewn anwiredd, *ac ânt i mewn*
Dihar. 2. 14. 16, 19 *at y fenyw eſtronaidd wenheithus, ni ddychwelant, ac ni ymaflant yn llwybrau y bywyd.* Ac os cychwyn rhyw un cnavvdol ymadel â chwrſe drvvg, nvvyniant pechod ai tynn ef vn ôl. Canys chwantau'r cnavvd a thrythyllvvch a ddena *y rhai a ddiangaſei unwaith*
2 Pet. 2. 18 *oddiwrth y rhai ſy'n byw ar gyfeiliorn.* Ac ni ddvvg llavver o vvrandawyr *ffrwyth i berffeithrwydd,* am fod *melyſwedd buch-*
Luc.8.14 *edd* yn eu gorchfygu, ac wrth eu coſteidio

yn

yn eu tagu hwy. *llith pechod yw difyrwch.* Tros amser *llawenycha'r* anwir *pan wnelont ddrwg*, ac ymglywant yn esmwyth mevvn buchedd annuvviol, *ac yn ddiogel* er eu bod *yn cyffroi Duw.* a chwedi myned yn * *ddiofid ymrôant i wneuthur pob aflendid yn unchwant.* A pha yscafnaf, peryclaf yw cyflwr pechaduriaid, ac anhawsaf eu dwyn at iechydwriaeth. Pan fo un yn glâf o grŷd poeth, ac yn ymleferydd, yn ymrwyfo, yn codi ac yn canu heb deimlo ei ddolur, dir yvv fod ei fywyd ar antur mavvr.

ἡ ἡδονὴ δέλεαρ κακῶν. Jer. 11.15 Job. 12.6

* ἀ πηλγηκότες. Eph 4 19

Yr achosion o ddiofalwch pobl yn eu helynt anianol anwireddus sydd amryvv. yn gyntaf eu hanvvybodaeth ai diosala. ni vvyddant mor bûr yw natur Duw, ac *môr gàs gan ei enaid ef* anwiredd, ac mor flîn ganddo ei oddef: eithr o herwydd eu bod hwy yn cael oed, ac ymvvared ganddo ef (y ganhiedir iddynt er mwyn eu denu hvvy at râs, a chael o honynt annogaeth ac amser i edifarhâu) tybiant ei fod ef yn fodlon iddynt, am ei fod ef yn ddioddefgar vvrthynt. Medd Duvv vvrth yr annuvviol, *pan welaist leidr cyttunaist ag ef, a'th gyfran oedd gyda'r godinebwyr, gollyngaist dy safn i ddrygioni; hyn a wnaethost a mi a dewais. tybiaist ditheu fy mod i yn gwbl fel ti dy hun.* Ac *o herwydd na wneir barn yn erbyn gweithred ddrwg yn fuan, am hynny calon plant dynion sydd yn llawn ynddynt i wneuthur drwg. a diystyrant olud daioni Duw, a'i ddaioddefgarwch, a'i ymaros, heb wybod fod ei ddaioni ef yn eu tywys i edifeirwch.*

Esai. 1.14

Psal 57. 18,19,20

Preg. 8. 11

Rhus. 2.4

wch. Ynfydion ydynt heb ganfod y gofid hîr a ddwg y pechod ar ol hyfrydwch byrr. fel dynion oi côf ergydiant ou hamgylch bentwynion tanllyd o bechodau trachwantus mewn direidi heb ragweled y perigl a galyn. *dall ydynt heb weled ymhell,* na gallu *edrych hyd ddiwedd yr hyn a ddeleir.*

Yn ail, anghrediniaeth a wna'r anrafol yn rhyfygus. Ni choeliant mor gwaethaf am danynt eu hunain, nac am neb a garant. Tybiodd rhai o ŵyr Sodom mai *cellwair* yr oedd Lot, pan adroddodd iddynt mor bechadurus, ac mor beryglus oedd cyflwr eu dinas; ac y cynghorodd hwynt i fyned allan o honi. Am hynny ni fyflafant oddiyno nes eu defetha â thân. Nid yw cynghorion, na rhybuddion yn cynhyrfu meddyliau pobl, tra fônt heb eu *cyd-tymheru â ffydd yn y rhai a'u clywant.* Er i Dduw anfon prophwydi i argyoeddi yr Juddewon gwrthnyffig ou drygioni, ac o'r deftryw i ddyfod onid edifarhâent, etto ni ddywygiau 'r anwireddus mo'u ffyrdd, am na *choelient y deuei 'r gelyn i mewn i byrth Jeruſalem.* Ac er nad oes ganddynt wir ffydd i fwgythion gair Duw; mae ganddynt goel grêf i addewidion eu calonnau twyllodrus eu hunain; gan *ymfendithio a dywedyd, heddwch fydd ini, er i ni rodio ynghyndynrwydd ein calonnau, i chwanegu meddwdod at ſyched.* a chwedi bwytta cegid pechod, tybiant y gallant ddringo ir nêf. Addawodd y *goludog* iddo ei hun *eſmythdra* ar ei yſcafnau llawnion *dros lawer o flynyddoedd, ar y noſon y ducpwyd ei enaid oddiarno.*

Gen. 19. 14

Heb. 4. 2

Galar. Jer. 4. 12

Deut. 29. 19.

Luc. 12. 18, 20.

Yn

Yn drydydd diystyriaeth ai diofala hwy. Ni chymerant hamdden i edrych o'u mewn; nac i bwyso eu cyflyrau wrth glorian y cyssegr, nac iw mesur eu hunain wrth yr ysgwir union, sef ewyllis ddatcuddiedig Duw yn yr scrythyrau. *Nid edifarhânt am eu hanwireddau* eisiau eu holi eu hunain, *gan ddywedyd, beth a wnaethom ni?* ac os *edrychant eu wynebpryd naturiol yn nŷch* y gair, ânt ymmaith ar eu hynt, ac yn y man *anghofiant pa fâth oeddent: gan gymeryd yn ddiystyr* yr hyn a ddywedo gweision y brenin nefol wrthynt; *a mynned ymmaith un iw faes, ac arall iw fasnach.* a gadel i ofalon y bŷd wthio ymmaith feddyliau'r yspryd, fel y gyrr y naill hoel y llall allan. Ac felly mae agos bob dyledwr, y sydd ar syned i'r carchar du tradwyddol, yn ddiosn, eisiau iddo gymeryd amser i fwrw ei gysrif. Yn enwedig ni feddyliant beth fydd diwedd eu bucheddau. *A flendid Jerusalem ydoedd yn ei godreu,* am nad oedd hi *yn meddwl am ei diwedd.* mae'r godinebwr yn canlyn y buttain *fel yr ŷch yn myned ir lladdfa.* (Yr hwn ni feddwl am ei berigl) *ac fel yr aderyn yn pryssuro ir fagl, heb wybod ei bod yn erbyn ei einioes ef.* ie ni osodant at eu calonnau mo'r barnedigaethau dinistriol a dywallto Duw ar eraill o flaen eu llygaid hwy. *Yn eu gwleddoedd y bydd y delyn, a'r bibell, a'r gwin: ond am waith yr Arglwydd nid edrychant, a gweithred ei ddwylaw ef nid ystyriant.* Balch, moethus, a diofal ydoedd Babilon, er iddi weled custudd Sion. Medd Duw wrthi, *halogais, a rhoddais fy etifeddiaeth yn dy law di.*

Jer. 8. 6

Jag. 1. 23, 24

Math. 22. 4, 5.

Galar. 1. 9

Dihar. 7. 22, 23

Esai. 5. 12

Esai 47. 7. 6.

A

A dywedaiſt byth y byddaf Arglwyddes, Felly nid yſtyriaiſt, ac ni chofiaiſt ei diwedd hi. Er i Dduw ddwyn ei gôf oddiar Nebuchodonoſor drahaus, ai ddeſcyn o orſeddfa ei frenhiniaeth, ai yrru i drigo ymmyſc Aſſynnod gwylltion i ymborth ar wellt y ddaiar; etto
Dan. 5. 18,21,22, 23 Belſazzar ei fâb ef *ni ddaroſtyngodd ei galon er gwybod o hono ef hynny oll:* ac ni anrhydeddodd Dduw.

Cela'r gydwybod ei fai oddiwrth y pechadur hefyd, a hynny ai diogela ef. Er i Dduw ordeinio yr gallu hwn yn yr enaid i wneuthur ſwydd cofiadur, ſef i roi pob peth a wnelo dŷn i lawr yn ei lyfr, ac i fod fel gwiliedydd
Dih. 23. 34 iw rybuddio o bob perigl, etto *cŵſc* hwn *ar ben yr hwylbren:* a gad ir llong ddryllio, ac iw llwyth golli. Ac os digwydd iddo chwrnu peth drwy ei hûn, ac aneſmwytho'r enaid â cherydd, troir ef ar y tu arall, at ryw londer a eſmwythâo ar ei gyſtudd ef, ac â rhyw felyſtra irir ei bibellau ef, fel na chwtho cyn ar-
Gen. 4, 13, 17 wed. Pan ddywedodd Cain *fod ei anwiredd ef yn fwy nag y gellid ei faddeu,* aeth i wreica, ac i adeiladu dinas, ac ni ddarllenir am
1 Sam. 16. 23 ddim ychwaneg oi gŵyn ef. A phan ſlinwyd Saul gan yſpryd drwg dyhuddodd cerddoriaeth ef dros amſer. Ac os llwyddiant amſe-
Heb. 12. 8 rol digyſtudd (yr hyn yw cynhyſcaeth y baſtardiaid) a wnaiff y gwely yn glyd, dywed
Luc. 12. 19 y bydol *wrth ei enaid, cymer dy eſmwythdra.* A phan oreurer ei lyffetheiriau, ymfalchia ynddynt, ac ni chlyw ddim caethiwed oddi-
Act. 28. 27 wrthynt: A phan *frâshâo'r galon mewn llawnder ni chlywant a'u cluſtiau, ac ni welant a'u*

llygaid

llygaid ddim ai dychwelo at Dduw. eithr dywedant wrtho ef, *Arglwyddi ydym, ni ddeuwn ni mwy atatti.* Jer. 2. 31.

Gyda hyn, y mae dynion yn ddiflin yngwaith camwedd oblegyd eu bod yn arferol ag ef. Milo wrth arfer dwyn llô ar ei gefn bôb dydd oddiamgylch maes yn Rhufain, ai dug ef yr un môdd pan aeth yn ŷch. wrth ymhyfrydu mewn pechodau llai, a bachgenaidd, daw pobl er diwedd i glywed yn esmwyth bechodau mwy a diafolaidd. Nid amhara môr anwiredd arnynt, am eu bod yn gynefin o ymrwyfo ynddo. Ac o herwydd eu bod hwy yn eu helynt drosseddus er pan aned hwy, nid yw hynny chwithach ganddynt, na chan yr Affriciaid eu dûedd naturiol, na chanddynt ronyn fwy brŷd iw newid am wynder. Medd y prophwyd, *a newidia 'r Ethiopiad ei groen? neu 'r llewpard ei frychni? felly chwithau a ellwch wneuthur da, y rhai a gynefinwyd â gwneuthur drwg.* Jer. 13. 23.

Mae Satan hefyd yr hwn sydd yn cadw *meddiant* ymhob enaid diadgenedledig, yn twyllo pechaduriaid, fel y gwnaeth â'r rhai cyntaf, i beri iddynt dybied na chânt *farw eithr bod megis duwiau*, er iddynt dorri gorchymmynion Duw. Ac megis y gwnaeth i Ananias, *mae ef yn llenwi eu calonnau i ddywedyd celwydd yn erbyn yr yspryd glân:* Ac i addaw 'r nêf iddynt eu hunain, er bod Duw yn bwgwth eu bwrw i Uffern. Meidr ef Siomi, a *llygadtynu* ei ddeiliaid i goelio 'r peth ni bo, ac i *anufuddhàu ir gwirionedd:* Gan fwrw hûd dros eu llygaid i weled pechod yn brydferth, Act. 26. 18. Gen. 3. 4, 5. Act. 5. 3. Gal. 3. 1.

a grâs yn afreidiol. Ac wrth edrych drwy ei yſpectalau eſ, cânt weled y camwedd du yn ddifyrrwch gwyn, a gwyrdd. *Dengis iddynt ogoniant y bŷd*, a mwyniant pechod, a dywed wrthynt *hyn oll a roddaſ i chwi am fy addoli i:* a chaiff ganddynt ei goelio ef yn eu calonnau, (megis y cafodd gan Efa) i *oſod eu gobaith ar gelwydd*. Tros amſer, ni hwyrach tra font byw, caiff yr *anifeiliaid ynfyd anianol hyn* (*y rhai a wnaed iw dal ac iw difetha*) borthiant wrth eu bôdd ym mhreſeb y cigidd uffernol hwn. ie coſa a gogleiſia hwynt drwy hyfrydwch pechadurus, nes dyfod amſer ei fantes iddo i frathu ei gyllell yn eu gyddfau, ac â gofid anhraethadwy i drywanu eu calonnau; a hwy wedi eu rhwymo cyn dynned nas gallont ddiangc oi grafangau ef. yna *difethir hwy pryd na ho gwaredydd*. Mae'r hên ſarph yn gyfrwys, ac yn celu ei malais, nes cael amſer cymwys iw gyflawni. fel *Jael* gwnaiff ymgêledd ir hwn y bwriado ef frâd. a'r gâth grafangog hon a chweri â'i yſclyfaeth cyn ei lyngcu. os penydiai Satan gydwybodau pobl anwireddus yn amſer eu hiechyd ai bywyd, ni hwyrach ſyddau iddynt gieſio newid eu meiſtr, a throi at Dduw. Am hynny ni ddywed ef un gair hagar wrthynt, ac ni roddiff un meddwl trwm o'u mewn hwynt, hyd awr angeu agos, pryd y tybio ef ſod drws trugaredd wedi ei gau. ac yno wedi iw wahoddedigion ef yſed y gwîn, rhydd iddynt y gwenwyn oedd ynghadw ganddo yn gwaelod ei gwppan. Ond yn y cyfamſer wedi ir pyſcod ynfyd lyngcu ei abwyd ef, ma-

Math 4. 8, 9.

Eſai. 28 15.

2 Pet. 2. 12.

Barn. 4. 18.

ent

ent ynglŷn, ac yn chwareu wrth ei anwair ef, mal nas cant ymadel. ac mae 'r adar a ddenwyd â pheiſwyn *iw faglau ef, (lle delir hwynt ganddo wrth ei ewyllis ef,)* yn cael eu hattal gan eu rwydau ef, nas gallant ymgodi tua'r nef. Eithr canant yn ſiriol yn ei gewyll ef wrth ei fod yn eu coleddu gyſtal yma, ac yn cuddio oddiwrthynt y peth ſydd i ddyfod ar ôl hyn. Rhydd *wenwyn ar lefrith* iw genawon, ſal nad allont ennyd archwaethu chwerwder y naill, gan felyſdra'r llall. hyfrydiff eu geneuau, cyn cnoi eu calonnau. *dalla ef feddyliau'r digrèd.* rhydd fwgwd ar lygaid ei feirch porthianus rhag iddynt ddychrynu wrth weled y pethau y ſydd o ddauty'r ffordd bechadurus, ai daflu ef i lawr cyn dyfod i ben y daith. Tarfarnwr twyllodrus yw, a rydd *y gwîn goreu 'n gyntaf*, a chwedi i'r rhai chud frwyſco mal nas gallont na chodi na cherdded oddiwrtho ef, yna *rhydd iddynt yr hyn a fyddo gwaeth.* Dengis y neidr hon ei thorr fraith ir ynfydioa; a chuddia ei cholyn oddiwrthynt, nes dyfod yn agos at wrès y ffwrn fawr, ac yno y brâth. a thrwy'r cyfryw foddion y mae hi *yn twyllo 'r holl fŷd.* Yn enwedig pan ddigio Duw wrth bechaduriaid yn angerddol, eiſiau iddynt ufudhâu iw gynghorion, a'i alwad ef, a dywedyd, *nid ymryſona fy yſpryd i* â'r dynion hyn *yn dragywydd:* (ſel y rhydd meiſtr y ſwydd i fynu o gynghori gweiſion pengaled na thyccio dywedyd wrthynt) a rhoddi o honaw ef genad *ir yſpryd celwyddog iw twyllo, ac iw gorchfygu hwynt, hwy a ant i fynu* mewn rhyfyg at ddrws y nèf, ſel *Ahab*

2 Tim. 2. 26. ἵνα ἀνανήψωσιν ἐκ τῆς τοῦ διαβόλου παγίδος, ἐζωγρημένοι ὑπ' ἐκείνου.

2 Cor. 4. 4.

Joſu. 2. 1c.

Dſtc. 12. 5.

Gen. 6. 3.

1 Bren. 22, 10. *hab i Ramoth Gilead*, ac oddiyno y ſyrthiant i Uffern. Ac *am na ddert yniaſant gariad y gwirionedd fel y byddent gadwedig, enfyn Duw i-*

2 Theſſ. 2. 10, 11, 12. *ddynt* (drwy law'r angel du) *amryfuſſedd cadarn fel y credont gelwydd, fel y barner yr holl rai nid oeddynt yn credu ir gwirionedd, ond yn ymfodloni mewn anghyfiawnder.*

Fel hyn y gwelwn mor gryfion yw anwiriaid yn eu llygredigaethau, gan *wneuthur eu*

Zech. 7. 12. *calonnau fel yr Adamant, a'u hwynebau yn ga-*

Jer. 5. 3. *lettach na chraig, a gwrthod dychwelyd.* Y mae Satan a'r cnawd wedi adeiladu ynddynt

2 Cor. 10. 4, 5. *geſtyll* cryfion, a dalfau uchel *o reſymiadau*, a gwyniau *yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Duw:* Onid yw yn *anhaws ennill* un enaid at ddaioni *na dinas gadarn.* A gwell cwncwerwr

Dih. 18. 19. yw'r *hwn a reolo ei yſpryd ei hun, na'r hwn a*

Pen. 16. 32. *ennillo ddinas.* Ym mhob oes collodd y miſwyr dewraſ y feddai Duw ar y ddaiar eu bywyd, wrth geiſio curo i lawr y dalfau hyn trwy arfau yſprydol, ſef cynghorion, a bwgythion. Ac ychydig a ddaroſtyngwyd i ufudd-dod Crift mewn cyſſelybiaeth ir rhai a ddaliaſant allan yn eu gwrthryſel, a chaledwch calon. Y rhai fel y *Leſiathan a dorrent gleddyf yr hwn a'u tarawai, ac a gyfrifent haiarn fel gwellt, a phres fel pren pwdr.* Ni pharau Saethau 'r Apoſtoliou a'r prophwdi iddynt

Job 41. 27, 28, 29 ffoi. *piccellau a gyfrifent fel Soflydd, a chwarddent wrth yſgwyd gwaiwffyn.* A chan fod yn

Act. 7. 51. *war-galed yn waſtad gwrthwynebent yr yſpryd*

Marc. 6. *Glân:* ac fel Herodias torrent y pen ai ceryddai o'u hanwiredd. bradychent, a difethent

Luc. 21. 16. blant, a brodyr, a chyfeillion, os ceiſient ſe-

fyll

syll ar eu ffordd hwy iw rhwystro i fyned ymlaen mewn drygioni. Am hynny y cwynodd Jeremi, *wrth bwy y dywedaf ji, a phwy a rybuddiaf fel y clywont? wele dirmygus ganddynt air yr Arglwydd, nid oes ganddynt cwyllis iddo.* Jer. 6. 10. *Ac o herwydd hynny yr ymhengodd Uffern, ac yr agorodd ei Safn yn anferth, ac yno y desciyn y liaws* anwireddus *ni fynnent ddyfod* at Grist *fel y caffent fywyd.* Esai. 5. 14. eithr pan gaffent gyngor i geisio rhyddhâd oddiwrth wasanaeth pechod drwy râs Crist, dywedai pob un agos fel y *gwâs pryn a briodasid yn nhŷ ei feistr, hoff geniti fy meistr, nid asi allan yn rhydd.* Jaon. 5. 40. gellir dywedyd am bob pechadur diedifeiriol trachwantus, *ymborth ar lydw y wac, calon siommedig ai gwyrdrôdd ef fel na waredo ei enaid.* Ex. 21. 5. Esai. 44. 20.

Ni thyccia mâth yn y byd ar foddion i droi pobl yn gyffredin, sef y colledig, at Dduw. ni chynhyrfant at ddaioni er clywed yr scrythyrau. pan ddarllenwyd prophwydoliaeth Jeremi o flaen Jehojacim a'i dywysogion, ac iddynt glywed tair dalen neu bedair o honaw, *torrodd y brenin y llyfr, ac a'i tasiodd ir tân. etto nid ofnasant, ac ni rwygasant eu dillad, na'r brenin, nac yr un oi weision, y rhai a glywsant yr holl eiriau hynny.* Jer. 36. 6, 23, 24. Mae haclioni Duw yn lle ei hennill hwy atto ef. yn ei gwneuthur hwy yn llawer gwaeth yn ei erbyn ef: pa iachaf, a chryfaf, a chyfoethoccaf a fyddont hwy, mwyaf a fydd eu godineb, a'u trais, a'u annuwioldeb. *ni wrandawant* y peth a ddywedo Duw wrthynt *tra fo'n esmwyth arnynt.* Jer. 22. 21. Mae eu calonnau daiarol hwynt yn caledu pa

deccaf y bo'r haul nefol yn tywynnu. Nid edifarhant er Cyſtudd chwaith. Medd y prophwyd am ei genedl, *O Arglwydd ti ai tarewaiſt hwynt, ac nid ymofidiaſant: difeaiſt hwynt, eithr gwrthodaſant dderbyn cerydd.* Fel pyllau drewllyd maent yn fawrio mwy, ac yn llwydo yn waeth wrth eu cythryblu. aeth calon Pharaoh yn galed fel yr enion dan forthwylion Duw. Nid all arfau Swyddogion ond yſcythru rhai o ganghennau llygredigaeth eu deiliaid, ac nid ei dynnu o'r gwraidd. periff coſpedigaeth cyfraith i bobl attal peth ar eu drygioni rhag torri allan yn gyhoeddus, ond yn y cyfamſer mae yn llynnio oddifewn, ac yn rhedeg yn y dirgel, ac yn rhy fynech yn yr amlwg hefyd. Er bod Dafydd yn frenin da, methodd ganddo wneuthur ei ddeiliaid felly, megis y gwelwyd yngwrthryfel Abſalon. am hynny cwyniff wrth yr Arglwydd gan ddywedyd, *afonydd o ddyfroedd a redant o'm llygaid, am na chadwaſant dy gyfraith di.* Ni ddichon rhieni wrth fagu a dyſcu eu plant, ddywygio'r natur llygredig a gyfrannaſant iddynt wrth eu cenhedlu. *Ni wrandawodd Hophni a Phinchas annuwiol ar lais Eli am y mynnei'r Argwydd eu lladd hwynt.* Yr ydoedd eu tâd yn wŷr da, parchedig, oedranus, ac yn offeiriad Duw, etto gwrthodaſant ei gyngor ef iw deſtryw. Methodd gan y propwyd Samuel (ydoedd ei hun yn raſol oi ieuenctid) gael gan ei feibion ofni Duw, wedi iddynt fyned yn wŷr, ac iddo eu goſod yn farnwyr ar Iſrael. *Ni rodiaſant yn ei ffyrdd ef, eithr troeſant ar ol cybydd-dra, a chymeraſant obrwy, a gwyraſant*

pen. 5. 3.

Pſal. 119. 136.

1 Sam. 2. 25.

1 Sam. 8. 1, 3.

yraſant farn. Digia 'r naill frawd wrth y llall, oni chydtynnant at anwiredd. Er i Abel addoli Duw yn gymeradwy nis gallodd ddŵyn ei frawd Cain i wneuthur felly. Nid yw meiſtraid duwiol yn cael mo'u cyngor yn drêch na'u gweiſion anraſol. er bod Gehezi yn wâs i Eliſeus gwr Duw dros gryn amſer, a gweled o honaw y rhyfeddodau a wnaethai 'r prophwyd Sanctaidd hwnw, a chlywed cymaint oi gyngborion ef, etto ni adawodd mo'i gybydd-dod ai gelwydd. Gorfydd ir naill gymydog wylo am gamwedd y llall, heb allu ei droi ef at ddaioni. eiriolodd Lot yn daer ar ei gyd-ddinaſwyr na wnaent ddrwg, ond ni wrandawſant arno nes ẏu diſetha â thân. A chan na fynn pechaduriaid mo'u puro, nid heb achos y cwynodd y prophwyd gan ddywedyd, *cyndyn o'r faith gyndynnaf ydynt dl. lleſcodd y fegin, yn ofer y toddodd. y toddudd, canys ni thynnwyd y rhai drygionus ymmaith, yn arian gwrthodedic y galwant hwynt, am wrthod o'r Arglwydd hwynt.* Ac nid rhyfedd clywed pregethwr cydwybodus yn gryddfan, eiſiau gweled ffrwyth ei lafur ymyſc ei wrandawyr, ac yn cydnabod, *fod Adda hên yn rhy gryf i ſfangylwr ievange.* Llwyr y dylai un ofidio wrth yſtyried anallu pawb i lanhâu natur ddynol ſydd wedi ei difwyno, ſel yr wylodd Joan o achos *na chaed neb yn deilwng i agoryd y llyfr* ydoedd wedi ei *ſelio*. Ac nid rhyfedd fod cyn anhawſed gan y prophwydi duwiol gynt fyned ar waſanaeth cyn beryced, ac yw ceiſio goreſcyn llygredigaeth dynion drwy air Duw. Medd Moſes *ni chredant i mi, ac ni wrandawant*

Gen. 4. 4, 8.

2 Ben. 5. 20. 22.

Gen. 19. 7.

Jer. 6. 28. 29, 30.

Dat. 5. 4, 5.

Exod. 4. 1,10,13. *want ar fy llais. o Arglwydd ni bum ŵr ymadroddus, danfon attolwg gyda'r hwn a ddanfonych.* Nid ai Jonas dros drigo i bregethu yn Niniveh. ac medd Jeremi rhag ei anfon i argyoeddi ei genedl, *ni fedraf ymadrodd, Canys bachgen ydwyfi.* Ac nes i Duw roddi calondid ryfeddol ynddynt, arfwydent ofod ar lygredigaeth y byd, fel yr ofneu'r Iſraeliaid y Cawr o Gath, ac y ffòent rhagddo ef. ond beth yw'r pechod? *A phwy yw'r Philiſtiad dienwaededig hwn, pan wradwyddei efe fyddinoedd y Duw byw?* Wele dywed Duw wrth yr enaid Cuſtuddiol dan bechod fel yr henuriad wrth Joan, *nac ŵyla: y llew o lwyth Juda, gwreiddyn Dafydd a orchfygodd.* Criſt Jeſu mâb Duw, a gymerth ei ſywyd yn ei law, ac a Safodd yn y maes i dorri pen Goliah, i lâdd pechod, i ſwrw allan yr yſpryd aflan, ac i waredu'r gwir Iſraeliaid, iw gwneuthur o gaethweiſion llygredigaeth yn blant i Dduw, ac yn frenhinoedd i reoli ar eu holl drachwantau. Ac er bod ceſtyll pechaduriaeth yn dra chryfion ym mhawb, ac yn anoreſcynol yn yr eneidiau gwrthodedig, etto ordeinwyd arfau yſprydol *nerthol trwy Dduw iw bwrw ir llawr* yn y rhai etholedig. Er caletted calonnau pechaduriaid, gwnaiff Duw ei air iddynt *megis tân, ac fel gordd yn dryllio'r graig.* Ac enyniff y fâth odyn wreſſog yn eu Cydwybodau, ac y beriff ir *galon garreg* ymollwng, i'r *geuyn haiarn yn y wavr* yſtwytho, ac ir *prèſ yn y talcen* doddi. A phriſia'r *efengyl yn allu Duw er iechydwriaeth i bob vn ar ſydd yn Credu, ir Jnddew a'r Groegwr hefyd. Yr ymadrodd am y*

1 Sam. 17. 24, 26.

2 Cor. 10. 4.

Jer. 23. 29.

Eſai. 48. 4

Rhuf. 1. 16.

groes

groes ir rhai colledig ynfydrwydd yw; eithr ir rhai Cadwedig nerth Duw ydyw, a wnaiff nad *arglwyddiaetho pechod arnynt, ac na bont dan felldith y ddeddf eithr dan râs. a lle'r amlhâodd pechod, rhagor amlheiff grâs: gan eu hachub drwy olchiad yr adenedigaeth, a'u troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw, fel y derbyniont faddeuant pechodau, a chyfran ym mysc y rhai a Sancteiddwyd.* 1 Cor. 1. 18. Rhuf. 5. 20. pen. 6. 14 Tit. 3. 5. Act. 26. 18.

Ac er mwyn hyn mawr jawn yw 'r pethau a wnaeth yr Arglwydd Jesu dros ei etholedigion, ac y wnaiff ef ynddynt. Dioddefodd drostynt a hwy yn elynion iddo, iw prynu oddiwrth gaethiwed diafol, a pechod, a'r dialedd dyledus iw hanufudd-dod hwynt. Llwyr *brynodd hwynt oddiwrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur yn felldith drostynt:* a chymeryd y gôsp arno ei hun; sef tlodi yn ei fywyd, *heb lè i roddi ei ben:* gwradwydd yn ei henw, *cyfrifwyd ef gyda'r anwir:* gofid yn ei enaid, ydoedd yn anfon allan ocheneidiau trymion o waelod ei galon, ac *yn driſt hyd angeu:* blinder a gwewyr yn ei gorph, yn bendifaddeu tra yr oedd wedi ei drywanu a'i hoelio ar y groes, lle y dioddefodd boen marwolaeth erchyll. A'r cwbl er talu jawn i gyfiawnder ei Dâd am y camm a wnaethau, neu a wnelau pechaduriaid iw fawrhydi ef, ac iw gymodi ef a'r ediseiriol credadwy; Sef i droi digofaint Duw oddiwrthynt hwy, a thynny yr gelynieth a fau yn ei erbyn yntef allan ou calonnau nhwythau. a gwneuthur y Duw nefol, a dynion vfudd ffyddlon yn heddychol, ac yn anwyl iw gilidd. Gan lanhau oddiwrth ei bobl nid yn vnic euo- Gal. 3. 13

grwydd

grwydd pechod a flinai eu Cydwybodau, ond ei ffeidd-dra hefyd a halogai eu Calonnau, a'u ¡bucheddau. *Rhoddes ein Jachawdwr Jesu*
Tit.2.14. *Grist ei hun trosom, i'n prynu ni oddiwrth bob anwiredd, ac i'n puro ni iddo ei hun, yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da.* Medd yr
1 Per. 2. 24. Apostol Pedr, *Crist ei hun a ddûg ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren, fel gwedi ein marw i bechodau y byddem byw i gyfiawnder.* A'i werthfawr waed prynodd iw blant Sancteiddiad gyftal a chyfiawnhâd a gogoniant. Ac heb law'r pethau a ddioddefodd ef dros ei etholedig, gorfyddai iddo ddioddef llawer o gam oddiar eu dwylo yn ychwaneg pes gallent ei gyrhaeddyd ef. canys tra y mae ef yn aros am danynt i edifarhâu, gwnant lawer yn ei erbyn ef, gan rwygo ei enw ef, a thorri ei orchmynion ef, a briwo *ei aelodau ef*, wrth erlid ei bobl ef. Yr ydoedd Saul y lleftr etholedig ai holl egni yn ceisio rhwystro 'r efengyl, wedi iddo ymuno a'r rhai a laddasent Stephan. a buasai hawdd i Grist ei daro ef yn farw, y pryd y tarawodd ef yn ddall, a gadel iddo (fel y Saul arall yn ei ofn gynt) *Syrthio ar ei gleddyf, am iddo wingo yn erbyn y Swmbylau:* a rhoddi iddo achos i ddywedyd wrtho ef fel Ahab wrth Elias, *a gefaist ti fi ô fy ngelyn?* Ond wele'r Arglwydd yn dirion wrth ei elyn dychrynnedig, gan ei ddiddanu ef yn ei fraw, a dangos trugaredd iddo ef, yn y fan lle 'r oedd ef ar fedr gwneuthur creulonder, ai ennill ef wrth ei arbed.
1 Bren. 21. 20.

Yma y dylem ryfeddu cariad Duw, ac aniolchgarwch dynion. Pan orchfygodd Dafydd

y

y Philistiad ofnadwy, cafodd ei groeshawu adref yn orfoleddus ac yn llawen gan bawb, er na dderbyniasai ef un briw yn y derfysc, a bod annogaeth naturiol iddo ef i roddi ei fywyd ar antur dros ei wlâd, a'i genedl. Ond cafodd Crist ei friwo, a'i lâdd wrth waredu ei elynion o ddwylaw eu gorthrymwyr tôst, ac mae'n fodlon drwy ei *gleisiau ei hun iw iachâu nhw*; a chyd-ddwg â hwynt tra font yn saethu atto ef, gan ddisgwyl eu hamser hwy i ddyfod iw côf, etto bychan ydyw ei ddiolch ef gan y rhan fwyaf o'r bŷd. Hefyd pan daler Pridwerth am y carcharorion sydd mewn caethiwed dan y Twrc, ceir hwynt adref drwy deg: Ond gorfydd i Grist orescin Pechaduriaid drwy nerth, wedi iddo eu prynu er gwerth. Ni chaiff ef y meddiant oi bwrcas, nes ei ennill â chleddyf daufiniog. Er bod iddo hawl gyfiawn iddynt, etto ni edi diafol a phechod iddo ef gael preswylfa mewn un enaid, nes eu gorchfygu hwynt, a'u taflu allan. Os mynn gael ei etholedigion rhaid iddo weithio yn rymus ynddynt, heb law'r pethau a ddioddefodd ef yn ofidus drostynt: a'u gwneuthur hwy yn *ewyllyscar yn nydd ei nerth*, os mynn *weled o lafur ei enaid*. Yr hyn y mae ef yn ei weithredu yn effeithiawl drwy ei yspryd yn y rhai galwedig, wrth ddechreu a chynyddu Sancteiddiad ynddynt yma, a'i gwbl berffeithio yn ol hyn. Psal. 110. Esai. 53.

Dechreuiff ef ddoethineb yn yr enaid wrth daro ofn yr Arglwydd ynddo, yr hyn a wnaiff iddo ymadel â'r drwg. A phan êlo ef ynghylch gwneuthur dŷn yn *deml* i Dduw, â *fflan-*

gellau

gellau gyrriff allan faſnachwyr Satan, a'i gwnaethai yn ogof lladron. o'r cyfryw cyntaf un a darewir iw ſiomedigaeth rhyfyg. Yſpryd Duw a ddidwylla'r pechadur, ac a ddengis iddo enbydrwydd ei gyflwr, yr oedd Satan a'i galon dwyllodrus yn ei guddio oddiwrtho ef. A digwydd ir diadgenedledig diofal, megis y bu ir Syriaid malaiſus a darawſid â dallineb wrth geiſio dal Eliſeus, y rhai oeddent yn tybied eu bod lle caent yſpail, ond pan agorodd yr Arglwydd eu llygaid hwynt, hwy a welſant, ac wele *ynghanol Samaria yr oeddent*, a brenin Iſrael yn barod iw taro. A dir yw y difethaſid hwy yno, oni bae ir prophwyd yr oeddent hwy yn ceiſio ei ddrygu, eiriol droſtynt, a'u hachub hwy. Gwaith cyntaf yſpryd y grâs, y diddanydd iachuſol, yw *argyhoeddi'r bŷd o bechod*, am nad ydynt yn credu yn Ghriſt, eithr yn rhyfygu; a deffroiff hwynt i weled fel y maent dan eu perigl yn Sodome, er iddynt freuddwydio eu bod yn ddiogel yn Sion. wedi i Satan ag addewidion gau dwyllo Efa, a'i gwr drwyddi hi, un o'r pethau cyntaf a wnaeth Duw tuag at eu adferu hwynt oedd peri iddynt weled eu noethni, a'u ceryddu am eu hanufudd-dod, a dangos chwerwed oedd ffrwyth eu camwedd. A'r unrhyw beth a weithiodd, ac a weithia ef yn y rhai edifeiriol gwedi hynny: gan oleuo eu deall, ac *iro eu llygaid* hwynt i weled fel y *maent yn druenus, ac yn reſynol, ac yn dlawd*, er na wyddent hynny o'r blaen. Pan ddel pelydr yr haul ir tŷ, canfydddir y brychau ni welid yn y tywyll. Dengis yr Arglwydd ei bechodau i bob dyn

2 Bren 6. 18, 19, 20, 21, 22.

Joan. 16. 9.

Gen. 3.

Datc. 3. 17, 18.

ryw

fyw amſer, naill ai er ei droedigaeth, neu ei golledigaeth. *Wrth yr annuwiol y dywedodd Duw, beth ſydd iti a gymmerech ar fy nghyfammod yn dy enau? gan dy fod yn caſſau addyſc, ac yn taflu fy ngeiriau i'th ôl.* a chwedi cyfrif ei anwireddau ef, medd yr Arglwydd, *hyn a wnaethoſt, ond mi a'th argyoeddaf, ac ai trefnaf o flaen dy lygaid.* Aiff y rhyfygus *yn fud,* ac yn ddieſcus pan holo 'r brenin nefol hwynt, a'u *taflu ir tywyllwch eithaf.* Bydd i bob pechadur ei gydnabod ei hun yn euog, *fel y cauer pob genau, ac y byddo'r holl fŷd tan farn Duw.* A phwy bynnag a ewyllyſio ef eu harbed, *efe a ddengis iddynt hwy eu gwaith, a'u hanwireddau, amlhâu o honynt: ac a egir eu cluſtiau hwy i dderbyn cerydd; ac a ddywed am droi o honynt oddiwrth anwiredd.*

pſal. 50. 16, 17, 22

Math. 22. 12, 13.

Rhuf. 3. 19.

Job. 36. 9, 10.

PEN. 24.

Drwy argyoeddiad y gorchfygir pechaduriaid, ac eu gwneir yn ufudd i Dduw.

Wrth weithio edifeirwch ddifrifol cynhyrfa Duw gynneddfau 'r enaid i wneuthur eu ſwyddau priodol. Er iddynt o'r blaen gyſcu yn ſwrth, etto rhaid iddynt ddefroi at eu gwaith cyn gynted ac y cyffyrddo 'r Arglwydd â hwynt, ac y clywont ei lais ef.

Egir y gydwybod ei llyfr, a dengis ir enaid lechres du ei phechodau: a cheir gwybod iddi yſcrifennu tra yr oedd yn tewi. Mal ſwyddog ſarrug rhydd ddyfyn ir llŷs mawr, i ymddangos o flaen brawdle Chriſt i roddi cyfrif am yr yn oll a wnaethpwyd yn y cnawd. Rhydd

gŵyn

gŵyn anwrtheb yn erbyn y drwg weithredwr, gan dyſtiolaethu o'u fewn ef yr hyn nid ellir ei wadu o flaen yr hwn a ŵyr bob pêth. Ac wrth gymeryd gafel ar y carcharor anhydyn, efe a'i gwâſe yn dynn, ac a'i piga yn ddŵys. Gofidiodd Dafydd, a bu gyfyng arno ef wedi iw *galon ei daro* ef. Nid all amgen na bo llid yn yr enaid, lle bo 'r *meddyliau yn cyhuddo eu gilidd.* Ac os cauád fydd y pechadur gan geiſio celu ei flinder, nid elliff ddiffodd tân euogrwydd wrth ei gadw i mewn. Clyw gornwyd ei galon yn pobi ac yn llofci mwy eifieu ei ollwng drwy edifeirwch, a chyffes. Tra y *tawodd* Dafydd yn ei bechod, *heneiddiodd ei eſcyrn* gan ei ofid. Toſtaf fydd penyd y drwg weithredwyr mûd, nid attébont wrth eu holi: Methiff gan y cyfryw droi 'r meddyliau trymion heibio drwy foddion bydol. Cerddant gyda hwynt ir maes, eiſteddant o'u blaen ar y bwrdd, a gorweddant gydâ hwynt yn eu gwelau. Euogrwydd fel cyſcod du a ganlyn *gorph marwolaeth* i bób man. Ni thry ymmaith at y llaw aſſwy na'r ddehau, mwy nag Aſahel oddiar ol Abner. Am hynny y dywedodd Dafydd, fod *ei bechod yn oeſtadol ger ei fron.* A chwynodd Job *yſcrifennu pethau chwerwon yn ei erbyn ef*, a gorfod iddo yn ei oed *feddianu pechodau ei ieuenctid.* Rhaid ir enaid ſynied am ryw beth, canys yſpryd eſcud yw, nis gall beidio â meddylied, mwy nag y gall yr afon beidio â rhedeg, neu 'r ffurfafen beidio â throi. Ac mal y mae 'r meddwl rhyfygus beunydd yn rhedeg ar y bŷd a'i fwyniant, felly y bydd y meddwl dychrynedig mor aſtud i fyfyrio beth a fydd

2 Sam. 24.10,14 Rhuf. 2. 15.

Pſal. 32. 3.

Pſal. 51. 3. Job. 13. 26.

fydd ei helynt ar ôl hyn. Y mae'n haws i Dduw droi ffrwd y meddwl oddiwrth y ddaiar i redeg tua thragwyddoldeb, nag yw i ddynion droi aber dros eu tir ydoedd yn rhedeg yngwaelod nant. *Fel afonydd o ddwfr y mae calon y brenin* (a'r gwerim hefyd) *yn llaw'r Arglwydd, ef a'i try hi lle y mynno.* A gwnaiff ir meddyliau yftyried perigl yr enaid, er iddynt o'r blaen ragddarbod i hyfrydu'r cnawd. Dih. 21. 1

Yna 'r argyoeddedig wrth yftyried eu ffyrdd eu hunain a gorchymmynion Duw a farnant eu *pechodau yn dra pechadurus,* a'u ffrwythau yn dra-peryglus, gan iddynt droffedu yn erbyn yr Hollalluog, Brenin nef a daiar, yr hwn fy ganddo ddigon o fôdd i wrthod ei gam, ac i faeddu pawb a wrthwynebant ei awdurdod ef; a chanddo lúoedd i ddiffin ei ogoniant, ac i orchfygu 'r Sawl a attaliant ei gyfiawnder oddiwrtho ef. O flaen yr hwn nis gall *yr annuwiol fefyll yn y farn.* Yr hwn fydd yn dymchwelyd mynyddoedd yn ei ddigofaint, ac a laddodd filoedd yn ei gyfiawn lid, ac fydd beunydd yn dwyn ymmaith anadl meibion dynion, gan newid eu gwedd, a'u danfon i fod yn gymdeithion i bryfed: Am hynny gwelant achos i ofni rhag iw *Camwedd fod yn dramgwydd iddynt,* a'u piccio ir pwll o'r hwn nis gellir codi. Rhuf. 9. 13.

Yn enwedig grefynant am wneuthur yn erbyn y Duw bendigedig, a haeddai barch ac ufuddodd oddiwrthynt, am ei fod ef yn rhoddi eu bywyd, a'u cynhaliaeth iddynt. Gwrthunaf angharedigrwydd yw i blant yfcriffinio ac ammherchi eu rhieni, a brathu 'r neb fydd yn eu porthi. Dadfeinia eu cydwybodau hwynt gân

Mofes,

Deut. 32. 6. Moſes, *a'i hyn a delwch ir Arglwydd bobl ynfyd ac angall? Onid efe yw dy Dâd a'th brynwr? Onid efe a'th wnaeth ac a'th ſicrhaodd?* A chydnabyddant ſod ei orchymmynion ef yn ddaionus, gan beri i bobl wneuthur y pethau ſy ſuddiol a hyfryd iddynt, ſef *ceiſio teyrnas*, a choron, a *meddianu ſylwedd*, a dedwŵddwch. *Llawenychu yn yr Arglwydd* yn oeſtadol, a byw yn y nef tra ſont ar y ddaiar. Bod yn heddychol, a chariadus, a gwneuthur da i bawb, ac iddynt eu hunain. Gwelant yr haeddai *Prydferthwch ſanctteiddrwydd* ei garu yn hytrach na'r brunti, a'r pethau a barant *orthrymder yſpryd*. Ac nad all dim ſod gaſach nag i blant anufuddhau iw tâd cariadus, ac yntef heb ofyn dim ganddynt ond a fae da ar eu llês. Och iddynt ei archolli ef â'r breichiau a genhedlodd, a fagodd, ac a ddilladodd ef: a'i ddianrhyc eddu ef â'r eneidiau ac â'r cyrph y greawdd ef; a i ddigio ef â'u pechodau, yr hwn ai boddhâodd ac a'i llonnodd hwynt â'i drugareddau. O herwydd hynny cydnabyddant iddynt *bechu yn ddirfawr yn yr hyn a wnaethant*. Ac ni fedrant na chredont ſod Barnwr cyfiawn i eiſtedd arnynt, gan ſod eu cydwybodau o'u mewn yn eu holi mor galed yn erbyn eu hewyllys, ac yn bryttio fel Lamech *os Cain a ddielir ſeithwaith, yna hwy a ddielir ſaith ddengwaith a ſeithwaith.*

2 Sam. 24. 10.

Gen. 4. 24.

Gwnaiff y coffadwrieth ei ran i ail-adrodd y gweithredoedd drwg oeddent er 's talm wedi eu claddu mewn diſtawrwydd, y tygaſid na chlywid byth mwy oddiwrthynt. Er i bechadur diofal dybied ſod ei feiau megis wedi eu yſgrifennu ar y traeth, ac ir llanw cyntaf o ddigrif-

ddigrifwch cnawdol eu golchi ymmaith mal nas galler byth mo'u darllen, etto yn ei gyflwr dychrynnedig gwybydd eu hargraphu ar y galon garreg, mal y bo anhawdd eu dileu: a bod ei bechod fel un Juda wedi ei *yſcrifennu â phin o haiarn, a'i gerfio ag ewin o Adamant ar lêch y galon*, ac nas gall amſer mo'i wiſco ymmaith. Yna y *cofiff ei ffyrdd, a'i holl weithredoedd y rhai yr ymhalogodd ynddynt.* Nis gallodd ugain o flynyddoedd beri i feibion Jacob anghofio'r brâd brwnt a wnaethent. Aetheu llawer o ddyddiau têg dros eu pennau er pan werthaſent Joſeph, er hynny yn eu cyfyngdra yr ydoedd mor gôf ganddynt eu cieidd-dra, a phe buaſai newydd wneuthur. Ymgynhyrfa'r nwydau hefyd. Bydd yn y pechadur ofn mawr. pan welodd Belſhazzar yr yſcrifen oedd iw erbyn, *newidiodd ei liw ef, a'i feddyliau a'i cyffroeſant ef, fel y dattododd rhwymmau ei lwynau ef, ac y curodd ei liniau ef y naill wrth y llall.* Y mae achos i un frawychu, ac yntef yn deall fod rhyfel iw erbyn, a'i elyn yn anorchfygol. Ei galon fel yr eiddo *Ahaz a gyffroiff, megis y cynhyrfa prennau y coed o flaen y gwynt.* Nid all dynion, mwy nag angylion drwg, vvrth yſtyried y gwir o ddiſri amgen na *chredu a chrynu.* Ofna'r bwyſtfilod pan ruo'r llew, ac y canfyddont eu perigl. Dan grynſa a braw y clywodd Saul Griſt y dywedyd wrtho, *myſi yw Jeſu yr hwn yr wyt ti yn ei erlid.* A dir yw fod yr ofn yſprydol yn fwy nag yr un bydol, o herwydd fod y drwg a fwgythir yn dragwyddol. Yn hyttrach na nêb *yr ofnir yr hwn a ddichon ddeſtrywio enaid a chorph yn uffern:* A rhagddo y

Jer. 17. 1.

Ezec. 20. 4.

Gen. 42. 21.

Dan. 5. 6.

Eſay. 7. 2.

Act. 9. 5, 6

Mat. 10. 28.

Luc. 21. 26. *llewygir gan ofn a diſgwil am y pethau ſydd i ddyfod yn nydd ei lid ef.* Ni bŷdd cyffro bychan rhag niwed mawr, ac ynteu yn annocheladwy. Nid oes dychymyg môdd i ddiange rhag dicter Duw megis y mae rhag gorthrumder dŷn. Nid ellir ffoi rhag yr hwn ſydd ym mhob man, nac ymddiffin yr erbyn yr Hollalluog. Nid oes arfogaeth yn y bŷd a geidw allan ergydion ei fêllt ef. Nid allai arian na ffafr penaduriaid ddiogelu Judas rhag llid yr hwn a'i barnai am *fradychu gwaed gwirion.* Ni lesha ir llofrudd o flaen y frawdle fod ei gyfeillion yn ei gefnu a'i ddiddanu, tra fo'r barnwr a'r ſwyddogion yn ei euogfarnu. O dywedpwyd am ŵr mawr, mai *beddau* iw vvrthwynebwyr ydoedd ei *gichiau* ef, gwirach y gellir galw llîd Duw, ac angerdd *y tân yſſol* yn bair annoddefadwy ir gydwybod euog. Gwnaeth *taranau i'r holl bobl ofni'r Arglwydd yn ddirfawr.* A chan ofni o bobl gymmaint rhag llîd Duw a nhwy ynghŷd, nid rhyfedd i un unig ei ofni ef, pan fo mêllt tanllyd, a lleiſiau dychrynllyd yn yr enaid.

1 Sam. 12. 18.

Nid llai gofid y cyfryw enaid na'i ofn. Nid all na bo dolur yn y galon y byddo pryfed y meddwl euog yn ei chnoi. Bydd awdurdod gan y gydwybod i benydio yr hwn y bo hi yn ei gondemnio: a gedi pechod *wenwyn* poethlyd *yn yr yſpryd* a bair ofid iddo. Digwydd dolur newydd oddiwrth godymmau hên, a chyn anhawſed ei oddef â drylliad eſcyrn. Am hynny y gweddiodd Dafydd wedi iddo bechu gyda Bathſheba ar i Dduw beri ir *Eſcyrn a ddrylliaſid lawenychu.* Bydd loes ar y galon vvrth i argy-

Job. 6. 4.

Pſal. 51.

argyoeddiad ei *drwyſbigo.* Nid all y corph fod yn anheimladwy o gyſtudd yr enaid. yr hyn a wnaeth i Saul yn ei ddychryn fod dridiau heb na bwytta nac yfed. Deincod oddivvrth rawn Sodom a beriff ymattal oddiwrth fwyd, a gwnaiff y crŷd yſprydol na chlywer ſlâs ar ddanteithion corphorol. Ni bydd dim yn felys ir hwn ſydd *ym muſtl chwerwedd,* nac eſmwyth ir hwn a weſcir gan *rwymedigaeth anwiredd.* A'r neb ſydd lawn o lîd gyſtal ac o lîth pechod a *lara'r dîl mêl.* Ni welodd Judas yn wiw brynu gwîn â gwerth y gwaed, nac ymgleddu ei gorph wedi iddo yn gwbl golli ei enaid. Ymgynhyrſa digter y pechadur yn ei erbyn ei hun am ei fod yn benaf gelyn iw iechydwriaeth, a rhydd ei gnawd yngwarchae am ei fod yn anifail mor ddrygiog. Ac megis y daeth Joan i bregethu *edifeirwch heb na bwytta nac yfed,* felly gan mwyaf y bydd y dychrynedig yn ei chymeryd. A brunti'r fuchedd a bair iddynt lendid dannedd. Peidiodd Belſhazzar â gwledda cyn gynted ac y canfu'r yſcrifen ydoedd yn ei fwgwth. A bu *hir ddirweſt* ir morwyr pan *ddycpwyd oddiarnynt bôb gobaith y byddent gadwedig.* Gwèl yr yſpryd cyſtuddiedig fwy achos i goſpi nac i wreſogi'r cnawd, ac iw ffieiddio yn hyttrach nag iw fionci. A *gofidus fydd o barwydennau ei galon, am iw enaid glywed ſain yr ydcorn:* Ac mewn rhan deimlo dicter Duw am bechod.

Act. 2. 37.
Act. 9. 9.
Dan. 5.
Act. 27. 20, 21.
Jer. 4. 19.

Am hynny nid all y cyfryw amgen na galaru, a dal o'r neilldu i vvylofain. Wedi argyhoeddi Dafydd ymprydiodd, a *gorweddodd ar y ddaiar,*

2 Sam. 12. 16.

ddaiar, a phan ddaeth iw wely deffygiodd
Pſal. 6. 6. gan ei ochain: *bob nôs y gwnai ei wely yn foddfa, a gwlychai ei orwedâfa â'i ddagrau.* A
Luc. 22. phan gymerth Pedr edifeirwch *aeth allan, ac a wylodd yn chwerwdoſt.* Wrth gloddio ir ddaiar y ceir dwfr, ac vvrth ddwfn chwilio 'r fuchedd ddaiarol y caiff yr yſtyriol ddagrau. Y rhai y *tywallto Duw arnynt yſpryd grâs a gweddiau, a edrychant arno ef a wanaſant, a*
2. ch. 12. 10. *galarant am dano, fel rhai yn galaru* am *eu hunigan edig, a gofidiant am dano megis rhai yn gofidio am eu cyntafanedig.* Cywiraf a thrymaf galar yn y bŷd yw 'r hwn a wna rhieni am golli eu plant, yn enwedig eu hunicane-
Gen. 37. dig. Galarodd Jacob ddyddiau lawer, a gwrthododd gymeryd cyſſur pan gollodd ef Joſeph: a'r pechadur a ganſyddo iddo ei golli ei hun, nid all na alaro fwy nag am golli arall: ac vntef yn colli 'r ſwccwr anwylaf a feddai hefyd, ſef y Duw a'i gwnaeth, ac a'i cynhaliodd ef beunydd er pan ddaeth ir bŷd: Ei
Pſal. 42. 3 *ddagrau fydd ei fwyd ddydd a nôs*, tra 'r annodo 'r gelyn *iddo ef fel i Ddafydd gynt pa le y mae dy Dduw?* Ni ddigwydd i neb achoſion mwy o driſtwch y tu yma ir bêdd, nag iddo fod yn deimladwy o ſorriant y Goruchaf, a chwedi ei fwrw yn euog yn y llŷs o'i fewn i golli hyfrydwch nefol, ac i ddioddef triſtwch tragwyddol. Am hynny medd yr Apoſtol wrth bechaduriaid â dwylo bruntion, ac â meddwl dauddyblig (mal nad oedont eu gwaith priodol) *ymoſidiwch a galerwch, ac*
Jag. 4. 8, 9 *wylwch, troer eich chwerthin chwi yn alar, a'ch llawenydd yn driſtwch.* Dyma byſygwriaeth â llawer

llawer o ddail chwerwon ynddo. galar ar ofid, ac wylofain ar alar, a thriftwch ar wylofain. A'r peth y mae'r pyfygwr yn ei orchymyn y bydd y clwyfus yn ei gymeryd, gan ddywedyd, *gwae ni yn awr bechu o honom.*

Cywilyddiant yn ddirfawr hefyd. gwelant eu hunain yn anifeiliaid bruntion. Medd prophwyd edifeiriol yn ei gyffes wrth Dduw, *anifail oeddwn o'th flaen di.* Je *pŷf ac nid gŵr,* Pfal. 73. *gwarthrudd dynion.* Nid oes iddynt *ffrwyth o'r* 22. *pethau y mae arnynt gywilydd o'u plegyd.* Wedi ac 22. 6. agor eu llygaid, a gweled eu noethni, gwla- Rhuf. 6. daidd ganddynt fel Adda ac Efa ymddangos ger 21. bron Duw.

Ymddarofiyngant hefyd dan law'r Hollalluog, a *chydnabyddant* nad yw ef yn gwneuthur dim cam â hwynt, pa gerydd bynnag a roddo arnynt. dywedant dan eu gofidiau fel y lleidr edifeiriol wrth ei gydymaith ar y groes, *yr ydym yn derbyn yr hyn a haeddau'r pethau a wnaethom.* A phan fyddo eu llygaid yn rhedeg gan ddwfr o *herwydd pellhau oddiwrthynt ddi ddanwr a ddadebrai eu heneidiau,* addefant mai cyfiawn yw'r Arglwydd, oblegyd *nyni* (meddant) *a fuom anufydd iw air ef.* Gwelant nad gwiw gwingo yn erbyn y fwmbylau, na chablu barnedigaethau union. Luc. 22. 41. Galar. Jer. 1. 16, 18.

Y moddion cyffredinol drwy ba rai y gweithir y cyfryw ddifrifol argyhoeddiad yw ymarferiaeth o air Duw, yr hwn fydd ferifennedig ynghydwybodau dynion, y rhai wrth *naturiaeth* a ddylent wneuthur y *pethau fydd yn y ddeddf,* a dangos *gweithredoedd y ddeddf yn ferifennedig yn eu calonnau, au cydwybodau yn cyd tyfti-* Rhuf. 2. 15.

olaethu, ac yn dirnad rhagor rhwng da a drwg. Pan fynegwyd i wyr Ninifeh y difethid hwynt, gwybuant yn eu cydwybodau eu hunain am ba beth, a hwy a ymoftyngafant, a gorchymmynodd eu *brenhin iddynt ddychwelyd bob un oddiwrth ei ffordd ddrygionus, ac oddiwrth y trawfder ydoedd yn eu dwylo*, er na ddarllenir i Jonah bennodi iddynt eu beiau. Yn enwedig hyfpyfrwydd o ewyllis Duw yn yr fcrythyrau gyd ar gydwybod yn cydoleuo yr enaid a wnaiff ei bechodau a'i berigl o'u herwydd yn ddigon amlwg iddo. *Trwy'r ddeddf yr adweinir pechod*; a'i *goleuni* fydd yn *argyoeddi gweithredoedd: ac yn peri digofaint*, fef vvrth ddatcuddio haeddiant pechod. Pan glybu y brenin Jofiah eiriau llyfr y gyfraith, efe a rwygodd ei ddillad, gan ddirnad mai *mawr oedd llid yr Arglwydd yr hwn a ennynwyd yn erbyn y deyrnas.* crynodd y bobl vvrth glywed Duw yn adrodd ei ewyllis, ac felly y gwnant vvrth ei hyftyried. Ffrydia dwfr edifeirwch o'r calonnau creigiog pan eu trawer â gwialen Moyfen. *Yr holl fcrythur*, pa un bynnag ai'r hen ai'r newydd, *fydd fuddiol i athrawiaethu, i argyoeddi, ac i geryddu.* A bendithir gynghorion a cheryddon gweinidogion a gwyr da eraill ir diben hwn. Ordeinwyd ir cyfryw mewn *addfwynder ddyfeu'r gwrthwynebus, i edrych a roddo Duw iddynt edifeirwch.* Tra 'r oedd Pedr yn dangos ir bobl eu pechod yn croeshoelio Chrift, y *dwyfbigwyd hwy yn eu calonnau.* Wrth glywed y Criftianogion yn prophwydo yr *argyoeddid y digrêd*, ac y *gwneid dirgelion ei galon ef yn amlwg*, oni fyr-

Jon. 3. 8.

Rhuf. 3. 20.

Joan. 3. 20.

Rhuf. 4. 15.

2 Bren: 22. 12, 13.

Ex. 20.

2 Tim. 3. 16.

2 Tim. 2. 25.

Act. 2 37.

1 Cor. 14. 24, 25.

thiai

thiai ar ei wyneb ac addolai Dduw. Cerydd y prophwyd *Nathan* a argyoeddodd Dafydd oi ffiaidd bechod yn achos Uriah. Y mae yn y dîl mèl golyn i frathu 'r rhyfygus, gyftal a melyftra i gyffuro 'r ffeintiedig. *Halen y ddaiar* yw gweifion Chrift i beri ir cnawd ofidio, mal ei cadwer rhag madru. Llef prophwyd ydoedd fel *fain udcorn* a wnai frawychu. Eſai. 54.

Ac o herwydd bod y rhan fwyaf yn eu hawddfyd yn yſmala ganddynt glywed cynghorion gair Duw, a'i weifion, a'u cydwybodau eu hunain, gan fod eu braſder yn cadw 'r pigau rhag dyfod at y byw, a'u pethau eſmwyth hwy yn rhwyſtro 'r ergydion i guro eu rhyfyg hwy i lawr, rhydd yr Arglwydd bwys ei law ar y rhai y ſo yſcafn ganddynt ei air ef. A phryd na ddyſcer er nwynder, caiff llais y wialen ddwyn y wers ar gôf, a throir llawenydd yn driſtwch i'r rhai a drônt *râs yn drythyllwch.* Tywydd ofnadwy a wnaeth i bobl wrthnyſſig geifio gan brophwyd weddio droſtynt *at yr Arglwydd fel na byddent feirw,* a chydnabod iddynt *chwanegu drygioni at eu holl bechodau.* Crynodd calon ceidwad y carchar dan ei bechod wedi ir ddaiar grynu dan ei draed: ac yn ddychrynedig *ſyrthiodd i lawr o flaen Paul a Silas, gan ddywedyd, o feiſtraid beth ſydd raid imi ei wneuthur fel y byddwyf gadwedig.* Cyfyngder a waſc euogrwydd pechod yn dynn at y galon ydoedd mewn helaethrwydd yn gorwedd yn rhydd, ac yn yſcafn. Ni chythrybliodd eu pechod annaturiol mo feibion Jacob, nes i'r helbul yn yr Aipht beri iddynt ei yſtyried. Yn ei rhydd-did bodlo-

1 Sam. 12. 19.

Act. 16. 27.

naſant eu meddyliau cenſigennus wrth gael gwared o'r ſpienwr: ond yn eu enbydrwydd cyfaddefant mor anhrugarog y gwnaethent â'u brawd. meddant, *gweled* a *wnaethom gyfyngdra ei enaid ef, ac ni wrandawſom ef.* A chofir iddynt ruthro i'r pechod ar draws cyngor. Medd Reuben *oni ddywedais i wrthych, na phechwch yn erbyn yr Herlod, ond ni wrandawech chwi, wele am hynny ynte y gofynnir ei waed ef.* Towydd galed oddiallan a chwanega boethni cuogrwydd oddifewn: a thra fo'r cyflwr bydol yn gymylog y ſaetha mêllt drwy'r meddwl yn aml. Y pechodau ni chanfyddid yn y cynhefrwydd llwyddianus, a'r maſwedd mwll; a ymddangoſant cyn amled a'r ſêr pan ddel oerni calon.

Gen. 42. 21, 22.

Hunan-gariad a bair i ddynion chwilio'r achos o'r blinderau a ddigwyddo iddynt, ac ni bydd anhawdd iddynt ei gael, gan nas bydd eu pechodau cyn lleied na bydd hawdd eu canfod. Y dymheſtl anguriol a wnaeth ir morwyr ofni, a *lleſain bob un ar ei Dduw*, a *bwrw coel brennau i wybod o achos pwy yr oedd y drwg hwnw arnynt.* Ni ddaeth Joab at Abſalom er galwad y cennadon, nes lloſci ei ŷd ef. A gorfydd i Fâb y Brenin nefol gyrchu atto ei hun y pechadur cyndyn drwy ryw golled, neu helbul danllyd. *A chan i fynu ei ffordd â drain* (blinderau pigog) *fel na chaffo ei lwybrau* cyfeiliornus, ac *nas goddiweſo ei gariadau* pechadurus: ac yna ymoſynniff am ffordd well, gan ddywedyd vvrth Dduw *par i mi wybod pam yr ymryſoni â mi.* Pan oedd *gyfyng ar Manaſſeh efe a weddiodd o flaen yr Arglwydd,*

Jon. 1. 4, 5.

Hoſh. 2. 6, 7.

Job 10. 2

ac ymoſtyngodd yn ddirfawr o flaen Duw ei Dadau. Oni bae iddo fyned ir yſcol yn y carchar, ni ddyſcaſai pa fodd iw ymddwyn ei hun ar yr orſedd, ac ni ryddhefid mo'i enaid, oni bae caethiwo ei gorph. Prinder a thlodi a ddug y mab afradlon atto ei hun. Tra yr oedd ganddo fodd i gydwledda â phutteiniaid, nid edrychodd am dŷ ei dâd. Dwyn newyn ym mhlith y môch a'i dychwelodd at ei hên dylwyth. Ni adferir y gwallgofus iw pwyll, ond wrth eu cadw yn iſel, a'u fflangellu hefyd. Dioſcir a geryddir a cheryddir yr hwn a ddyſcir. Am hynny mae Duw yn fynech yn gwneuthur rhai yn *dlodion yn y bŷd*, ſel yr elont yn *gyfoethogion mewn ffydd.* 2 Cron. 33. 11, 12. Luc. 15. 16.

Daroſtyngir rhai gan ddolur trwm. *Noſweithiau blinion a oſodir* iddynt, eu *cnawd a wiſc bryfed ac a aiff yn ffiaidd*, oni chwynont yn chwerwder eu heneidiau. A phan ddiſgwliont iw-gwelau eu cyffuro yna eu *brawychir hwy â brenddwydion, ac eu dychrynir â gweledigaethau,* oni ymbiliont am faddeuant, ac ymroi i ufuddhau. Ac i bob un ddywedyd *myfi a bechais beth a wnaf i ti o geiawad dyn? Pa ham na faddeui fy nghamwedd, ac na fwrî heibio fy anwiredd?* A'r pryd y bo doluriau ſel fwyddwyr arfog yn cymeryd meddiant o'r corph am iddo lochi gelynion ei wneuthurwr, gofidiant ef yn ddiarbed, a chadwant holl fwyniant y bŷd allan o honaw ef, mal nas gallo na chymeryd ymborth ar ei fwrdd, nac eſmwythdra ar ei wely. A dangoſant ir gydwybod mai gweinidogion cyfiawnder ydynt, ac na ddaethant yn ddiachos, gan bennodi'r pe- Job 7. 3.

choau

chodau a'u cyffroesant. Canys yn fynych bydd ar y clwyf ryw arwydd o'r anwiredd a'i parodd, megis ac y bydd afiechyd yn y defaid o'r un ffunyd â'r euod ai magodd. Yn y cyfryw gyflwr bydd holl hyfrydwch pechod wedi myned lle ni welir monaw fyth, heb adel dim o'i ôl ond ei frunti, a'i waddod yn y corph, a'i cuogrwydd yn y meddwl. Er ir melys oedd yn ei goluro doddi ymmaith, etto ei chwerwder a erys, a'i gnofeydd a deimlir. Wedi i'r archwaith hyfryd oddiwrth ei fêl ef ddarfod yn y geneu, peri y dolur gofidus yn y bol. Er iddo ymddwyn mewn hyfrydwch, nid efcor ar farwolaeth ond trwy wewyr. Yna y gofidia pob pechadur am ei ynfydrwydd ddarfod iddo er bodloni ei gnawd â thipin o hyfrydwch twyllodrus dros fynydyn, ddwyn aflwydd gofidus ar enaid a chorph dros byth, er dim ymwared fydd ganddo o honaw ei hun; a dymuna yn ei galon na buafai ef er ioed wedi ei eni. A phan fo'r enaid a'r corph ar unwaith mewn gofid, gresynol fydd yr helynt. Os bydd y corph yn glwyfus a'r enaid yn iach, caiff yfpryd gwr ei lawnwaith yn cynnal ei wendid: ac os bydd yr yfpryd yn gufluddiedig er bod y corph yn iach, blin fydd ganddo fyw, megis y gwelir vvrth Judas fradwr. Nid all pethau oddiallan iachau'r briw yn yr yfpryd oddifewn. Crynodd Felix y Rhaglaw, a Belfhazzar y brenin, nid allai eu reiolti oddiallan eu diogelu rhag ofn oddifewn, mwy nag y dichon dillad cynes rwyftro crynfa'r crŷd, neu wely plû roddi efmwythdra i efcyrn drylliedig, gan

fod

ſod y gofid yn nês at ddŷn na'r cyfryw gymmorth. Medd Solomon, *yſpryd cuſtuddiedig pwy a'i cynal?* ynteu tra fo'r aneſmwythder yn y corph a'r gydwybod hefyd dirfawr ſydd eu trueni. Y *galon honno ſydd yn gwybod ei chwerwder ei hun, a'r boenedigaeth ſydd mewn ofn*, ond nid allafi fynegi'r *ocheneidiau ſy'n anhraethadwy.* Y cyfryw a ŵyr bethau ni choeliafai fyth oni bae iddo eu gweled â'i lygaid, a'u teimlo â'i efcyrn; ſef nad oedd hyfrydwch pechod ond ei ddenu i golledigaeth, ac nad oedd y bŷd ond ei dwyllo â gweniaith, ac nad yw ei gyteillion *ond meddygon dilês.* Nad oedd y cwbl ond celwddog yn ei hawddfyd, a'u gadawant ef yn ddigyffur yn ei adfyd. Dih. 18. Dih. 14. 10.

Fel hyn y gorfydd i Dduw yn fynych guro i lawr y gwaliau pridd, ſef galluoedd y cnawd, i wneuthur ffordd iw air i fyned i mewn i'r yſpryd; a gorchfygu pentrefydd fynhwyrau y corph, a cheſtyll cynneddfau'r enaid, cyn y caffo gan y Gwrthryfelwr cyndyn ymroddi iw Arglwydd. Rhaid iddo *iſelu uchelderau dŷn, a gofod gogoniant* y rhyfygus *yn y llŵch*, a'i ſwrw ef yn iſaf, cyn y gofynno nawdd am ei fawr atcafrwydd.

Er i rai yn y fath gyflwr gofidus ammhwyllo, neu o herwydd eu annioddefgarwch afrywiogi mwy, ac ir digofaint poethlyd beri iw ammhuredd ferwi drofodd; megis y dynion a boethwyd â gwrês mawr a *gablafant enw Duw, yr hwn ſydd ag awdurdod ganddo ar y plaau, ac nid edifarhafant i roi gogoniant iddo ef.* Am y cyfryw dymer mae'n debyg y crybwyll y poetau pan ddywedant i Dat. 16. 19.

ofid

ofid droi rhai yn gŵn. Ac er i eraill fel Judas ddiweddu eu dyddiau, a neidio o'r badell i'r tân; etto yr un dilyw ac fydd yn boddi myrdd o gawri anwireddus, a gyfyd yr Arch, a'r ychydig o rai dewiſol ac fydd yndi i fynu tua 'r nef. Canys y rhai y mae 'r Arglwydd yn eu cadw a arferant y tuedd naturiol y blannodd Duw ym mhob peth byw i geiſio eu hachub eu hunain oddiwrth ddeſtryw, ac a gynhyrfir i ddymuno gwarediad, ac i ymofyn am dano. Megis y rhai a ddwysbigwyd wrth glywed Pedr a ddywedaſant *hawyr frodyr beth a wnawn ni i fod yn gadwedig?* neu fel yr Apoſtol, *ys truain ydym ni, pwy* an *gwaredyd oddiwrth gorph y farwolaeth hon?* Rhuf. 7. Chwennychant ymadel â'r helynt ddrwg fel *y llwythog* a'u beichiau, neu garcharorion a'u rhwymau. A deiſyfant gyfiawnder megis newynog yn chwenych bwyd, a ſychedig ddiod: y rhai yn ddiſrifol, ac yn egniol a geiſiant yr hyn a chwenychant. Megis y cyfododd y mab afradlon, ac y dychwelodd at ei dâd er pelled y ffordd, ac amled y rhwyſtrau. Ceiſiant y cyſſur yn Nuw y metha ganddynt ei gael o un lle arall. Chwiliant yr ſcrythyrau yn ddivvyd i edrych a *oes driael yn Gilead* perthynol iw clwyf. fel chi'r galon fydd ganddynt y gwahoddiadau grafuſol, a'r eſamplau o drugareddau y welant yno: Sef fel y gwnaeth Duw â Manaſſes edifeiriol, a Mair Magdalen, ac eraill. A thybiant nad yw amhoſſibl iddynt hwythau gael trugaredd os ceiſiant yn iawn. Wrth ymofyn â gair Duw cant weled digon o annogaeth i ddychwelyd atto ef: gan fod

yn

yn well ganddo ef iddynt ddyfod atto ef, nag aros yn eu pechodau hyd farw. Yſtyriant iddo ef gymeryd llŵ o'i wir fodd i beri credu hynny. *Fel mai byw ſi medd yr Arglwydd, nid ymhoffaf ym marwolaeth yr annuwiol, onid troi o'r annuwiol oddiwrth ei ffordd a byw.* Ac iddo yn raſuſol anfon ei Fâb iw prynu, *fal na choller pwy bynnag a gredo yndo ef, ond caffael o honynt fywyd tragwyddol.* Ai fod ef y gwahadd y truenus i ddyfod atto am gymmorth, gan ddywedyd, *deuwch attaſi bawb ac ſydd yn ſlinderog ac yn llwythog, ac mi a eſmwythaf arnoch. Wele ſi yn ſefyll wrth y drŵs ac yn curo, os clyw neb fy llais i, ac agoryd y drŵs, mi a ddeuaf i mewn atto ef.* Ac yn eu creſhawu yn dirion pan ddychwelont: gan beri *llawenydd yn y nef am bob pechadur a edifarhâo:* a llonni 'r edifeiriol ar y ddaiar. Diwalla ef y ſychedig *â gwin a llaeth heb arian ac heb werth.* Er iw pwrs ſod mor wag â'u cylla, a'u anheilyngdod yn gymmaint â'u hangen, etto os *gwrandawant* arno ef, *caiff eu heneidiau ymhyfrydu mewn braſder. Ac efe* a'u *harbed yn helaeth.* Gwiw ganddo ef dderbyn dynion candryll, a *bywhau calon y cyſtuddiedig: ac edrych ar y truan, a'r cyſtuddiedig o yſpryd ac ſydd yn crynu wrth ei air ef. Calon ddrylliog ni ddirmyga.* Ac ſel y mae 'n hyfryd ganddo ef i bobl dderbyn ei râs ef, felly triſt ganddo vveled ei gwrthod: âm hynny pan edrychodd Chriſt ar Jeruſalem wrthnyſſig *efe a wylodd droſti.* Wrth ddwſn ſyſyrio ar y cyſryw yſtyriaethau dyſc Duw yr enaid cyſtuddiol, a rhydd iddo *feddwl i adnabod*

Ezec. 33. 11.

Joan 3. 16.

Mat. 11. 28.

Datc. 3. 20.

Luc. 15.

Eſai. 55. 1, 2.

ac 57. 15.

ac 66 2.

Pſal. 51. 17.

Luc. 19. 41.

1 Joan 5. 20. *nabod yr hwn ſydd gywir.* Ac eglurhâ iddo ffordd iechydwriaeth: a thuedda ef i *obeithio yn*

Epheſ. 1. 13. *Ghriſt, wedi iddo glywed ac yſtyried gair y gwirionedd, efengyl ei iechydwriaeth:* Ac egir ei galon ef ſel un Lydia i graffu ar y cyfamod grafol, ac i dderbyn yſpryd y grâs i reoli yn-ddo ef: a phar iddo ymroddi i wellhau ei fuchedd, ac i ddywedyd ar ei liniau, *Arglwydd beth a fynni di i mi wneuthur?*

Yna 'r ymoſtwng yr edifeiriol o flaen Duw yn y dirgel, a chyffeſſiff ei fuchedd anwireddus â chalon ddrylliedig, ac â dagrau heilltion, gan ddywedyd fel Dafydd; *Yn dy erbyn*

Pſal. 51. *di o Dduw y pechais, ac y gwneuthum ddrwg yn dy olwg, trugarhâ wrthif, ac yn ôl lliaws dy doſturiaethau delea fy anwireddau.* Taer erfyniff ar Dduw am gael ei lanhau oddiwrth bob pechod drwy waed Jeſu Griſt. Gweddio a wnaeth Saul wedi ei frawychu, nes i Griſt

Act. 9. ei ddiddanu ef. Je adfunediff ger bron yr Arglwydd mewn ſimlrwydd calon ar ei gymeryd ef yn Feiſtr iddo, i ddilyn ei ewyllis fendigedig ef byth. Yr hyn a gyflawniff ef yn gydwybodus drwy ei holl ddyddiau. *Tyngiff*

Pſal. 119. 106. *a chyflawniff gadw barnedigaethau cyfiawnder.* Fel Joſiah *gwnaiff gyfammod ger bron yr Arg-*

2 Bren. 23. 3. *lwydd ar fyned ar ol yr Arglwydd, ac ar gadw ei orchymmynion ef â'i holl galon.* 'A'r Arglwydd Jeſu yr hwn ni *fwrw allan y ſawl a*

Joan 6. 37. *ddel atto ef,* a faddeuiff bechodau 'r edifeiriol, ac a heddychiff ei gydwybod ef mewn iawn brŷd, ac a rydd fywyd grafol oi fewn ef, a gallu i arwain buchedd dduwiol.

Yma ddarlleydd dal ſylw ſod Duw yn dech-

reu

reu ſancteiddio rhai yn eu hieuenctid, neu cyn iddynt ymdroi yn y pechodau ffieiddiaf, a bydd cyfnewidiad y rheini o'r cyflwr naturiol i'r grafol yn eſmwythach, gan na bydd cyn gryfed gwrthwyneb ynddynt i vvaith Duw, ac y ſydd yn y rhai a ymhalogaſant yn fwy. hawdd ſymud planhigin tyner o'r maes ir ardd. Ar y cyfryw deſcyn grâs fel gwlith eſmwyth iw ireiddio, yn hyttrach nag fel cafodydd dwys. Ond pan ſo Duw ynghylch galw pechaduriaid gwrthnyſſig i fod o vveiſion anwiredd yn blant i Dduw, tynniff hwynt atto ei hun gan mwyaf yn y môdd y rhagddywedpwyd. Rhaid vvrth forthwylion trymion a thân llym i weithio'r galon haiarnaidd i'r ffurf a ewyllyſio ei gwneuthurwr gael arni. A'r dynion a ddarparer i vvneuthur gwaſanaeth, ac i orfygu profedigaeth mwy nag eraill, a gant archwaethu chwerwder pechod drwy edifeirwch brûdd, ac yno melyſdra grâs mewn cydwybod dangneddefus, a gochelant y naill yn ddichlynach, a glynant yn y llall yn daerach byth: Mal y gwelir yn yr Apoſtol ſanctaidd Paul, yr hwn a wnaeth ac a ddioddefodd bob peth y gelwid ef iddo er cariad Chriſt, a'i rhyddhafai ef o'i ddychryn goſidus.

Ac nid heb achos y mae'r Arglwydd yn goſod ar y pechadur yn neilltuol drwy'r cyfryw ddwys argyoeddiad. Canys tra fyddo ef yn galw pobl i edifarhâu drwy gyffredin vveinidogaeth y gair, ac megis ar ben yr heolydd yn llefain ar gynnulleidfau lluoſog i ddiwygio eu ffyrdd, ni thybia fod ei rybudd

ef

ef yn perthyn ir naill mwy nag ir llall, am hynny yſoweth cydeſceulufant ef. Ond pan yw yn neillduol drwy ddwys gerydd yn curo vvrth ddrŵs y galon gyſtuddiol, cydnabyddir y pryd hynny pwy y mae ef yn ei geiſio: a'r hwn y mae y fath ymofyn am dano a ymroddiff iddo ef: ac fel Moſes cenfydd Dduw yn y berth bigog, er iddo ei ddigio ef fel Adda yn yr ardd lyſieuog.

PEN. 25.

Grâs Duw yn meddiannu holl gyneddfau enaid, ac yn rheoli holl aelodau corph y gwir Griſtion.

Wedi i'r Arglwydd fel y mynegwyd euſus vvneuthur dŷn yn eiddo ei hun, cymer feddiant yn holl gyneddfau'r enaid ac aelodau'r corph. Bydd y meddwl graſol yn adnabod y gwir ſanctaidd rhagor amryfuſſedd yr annuwiol. vvrth dderbyn edifeirwch *cydnebydd y gwirionedd, a daw i'r iawn allan o ſagl* hudol *diafol.* Gŵyr yn hyſpys fod Duw ſanctaidd, creawdwr Hollalluog, a Barnwr cyfiawn a dâl i bawb yn ol eu ffyrdd, a ddiddana 'r graſol, ac a goſpa 'r anuſydd, a brynodd bechaduriaid, ac â'i yſpryd ſanctaidd a'u *gwareda oddiwrth feddiant Satan,* a gwaſanaeth pechod, ac au diwalla â'i gariad; o'r hyn y mae ganddo brawf cyſurus ynddo ei hun. A chan fod meddwl dŷn yn allu cyflym, goleu, cynhyrfir ef i ymarvveddu â Duw, *Tâd yr yſprydoedd.* Wedi i râs anelu 'r enaid, ergydia fyfyrdodau tuag i ſynu yn aml, a rhêd ei ffrŵd tua'r môr mawr,

2 Tim. 2. 25, 26.

o'r

o'r hwn y mae'n tarddu. Rhwydd yw i ſyſyrio ar Dduw a'i ffyrdd. Rhyſedda ei odidowgrwydd, a'i anſeidrolder, a'i ddaioni ef. Felly y gwnai 'r prophwyd, yſtyriai anmherſynol breſennoldeb a gwybodaeth Duw. *Arglwydd* (medd ef) *ti a adwaenoſt fy eiſteddiad a'm cyfodiad: deelli fy meddwl o bell,* Pſal. 139. 2, 3, 14. *yſpys wyt yn fy holl ffyrdd. Rhyfedd yw dy weithredoedd.*

Cymer hamdden yn ſynech i gyd ſwrw pethau, mal yr ymſiccrhâo fwyfwy iddo ef ddewis y rhan oreu. Wrth gyd-bwyſo rheſymmau yr yſpryd a'r cnawd, berniff râs Duw yn odidoccaf. Ac wrth *gyfrif* yn ſanwl dirnad yn eglur *nad yw dioddefiadau yr amſer preſennol hwn yn haeddu eu cyffelybu* Rhuf. 8. 18. *i'r gogoniant a ddatcuddir* iddo ef. Cyfrififf bob peth pechadurus a darfodedig nid yn elwond *yn gollcd o hernydd arddcrchowgrwydd* Phi. 3. 8. *gwybodaeth Chriſt Jeſu ei Arglwydd.* A hynny a wnaiff iddo dybied yn wael o bob mwyniant a gynygio 'r temptiwr dichellgar iddo ef iw ddenu oddiwrth ei Dduw. Ffeiddiodd Pedr weled ceiſio ganddo werthu dawn yr yſpryd i Simon yr hudol, fel y gwerthaſai Judas Griſt am ddarnau o arian. Eb ef wrth Simon, *bydded dy arian gyda thi i ddeſtryw* Act. 8. 20 *am i ti dybied y meddienir dawn Duw drwy arian.* Tebyg na chymerſai yr Apoſtol gymmaint cyffro wrth un a'i yſpeiliaſai ef o 'i holl dda bŷd, ac y wnaeth ef wrth hwn am gynig iddo ddobr, a chyffelybu dawn yſpryd Duw i olud daiarol.

Mynech yſtyria'r graſol ddaed yw Duw i ddyni-

on. medd y prophwyd, *yn ddiau da yw Duw i Iſrael, ſef i'r rhai glân o galon.* Cariad Duw yn gwneuthur caethweiſion pechod yn blant iddo ei hun, ac etifeddion ei ddedwddwch ef, ydoedd yn ſirioli ac yn llenwi meddwl y dyſcybl anwyl.

Pſal. 73. 1.

1 Joan. 3. 1. Medd ef, *gwelwch pa fath gariad a roddes y Tâd arnom, fel i'n gelwid yn feibion i Dduw!* Meddyliff y duwiol yn ddiolchgar am drugaredd Dduw yn ei greadigaeth, a'i gynhaliaeth ef. Cynhyrfa ei enaid i *fendithio'r Arglwydd yr hwn ſydd yn diwallu ei enau â daioni, fel yr adnewydder ei ieuenctid fel yr eryr, ac yn gwaredu ei fywyd o ddeſtryw, ac yn gwneuthur barn i'r rhai gorthrummedig oll.* Ac fel y mae cydymddiddan cariadus yn ddifyr i gymdeithion, bydd cumundeb rhwng Duw a'r meddwl grafol yn hyfryd ir Criſtion. a bydd *felys ei fyfyrdod am ei Dduw.* Medd ef ynddo ei hun, *beth a dalaf ir Arglwydd am ei holl ddaioni i mi? Meddyliff am ei ffyrdd a throiff ei draed at ei dyſtiolaethau ef.* Y meddwl ſanctaidd ſydd i reoli 'r fuchedd, megis ac y mae 'r llygaid i gyfarwyddo cerddediad y traed. Am hynny ymgynghora yn bwyllog oi fewn ei hun, ac â Duw drwy weddi ynghylch ei achoſion, mal y gwnelo ef y peth a fyddo uniawn beunydd. Cofiff Dduw ar ei wely, *myfyriff am dano yngwiliadwriaethau 'r nôs.* Pob Iſaac rafol a *fyfyria yn y maes.* A'r arwyddion o haelioni Duw a wêl ar ei ſwrdd ai gwnaiff yn ddiolchgar, ac fel y glomen, edrych i fynu wrth gymeryd lluniaeth iw fewn.

Pſal. 103. 1, 4, 5, 6.

Pſal. 104. 34 ac 116. 12. ac 119. 59.

Pſal. 63. 6.

A bydd yn y meddwl grafol fwriad crŷf i ddilyn ewyllis Duw. Medd y prophwyd, *bwxiedais*

riedais na throſeddai fy ngenau. a rhoddes Daniel ei jŷd nad ymhalogai efe. O herwydd hynny ni cheiſiai 'r Apoſtl gan y Corinthiaid Criſtianogol roddi Eluſen ond yn ol eu bwriad hwy. Gan orchymmyn i bôb un megis ac yr ydoedd yn *rhagarfaethu yn ei galon felly roddi.* Trwy y ſath lwyrfryd calon y glynau 'r prif-Griſtianogion wrth yr Arglwydd nad allai dim eu gwahanu oddiwrtho ef: Yr ydoedd eu brŷd cyn gryfed ar ddaioni, nad allai dim ei droi ffordd arall: a'u hamcanion mor bur ac y byddent gymeradwy gan y ſawl au gwypau. Llwyr *adwaenai* Timotheus ſuchedd ac *arfaeth* yr Apoſtol ſanctaidd, ac a'i dilynai ef. Yn nydd y Farn gyffredin pan ddelo 'r Arglwydd i oleuo dirgelion, ac i *egluro bwriadau y calonnau* bydd i bob gwir Griſtion glôd gan Dduw.

Pſal. 17 3. Dan. 1. 8. 2 Cor. 9. 7. 1 Cor. 4. 5.

Nid all hefyd na bo yn y meddwl goleu hyder grŷf yn Nuw. Pawb a'r a *adwaenant ei enw ef a ymddiriedant ynddo ef.* Canys ni adawodd ef y rhai ai ceiſient ef; eithr bu er ioed yn noddfa ir gorthrummedig yn amſer trallod. Gwyr y graſol fod yn yr Arglwydd ddigon o allu mal y dichon ei waredu ef ym mhob cyſyngder, a bod ei gariad ef yn anfeidrol iw annog ef i roddi cymmorth. *Gwyddai Paul i bwy y credaſai, a ſicr oedd ganddo y gwaredai 'r Arglwydd ef rhag pob gweithred ddrwg, ac y cadwai ef iw deyrnas nefol.* Nid ofnai 'r prophwyd *er ſymud y ddaiar, a threiglo y mynyddoedd i ganol y môr.* Nid arſwydai 'r Apoſtol ymorcheſtu dan ſlinderau gan ddywedyd, *os yw Duw troſom, pwy a all fod i'n herbyn.* A pha

2 Tim 1. 12. Pſal. 46. 2 Rhuf. 8. 31.

pha fwyaf yr ymarfer Chriſtion â duwioldeb, mwyaf a fydd ei ficcrwydd ef ynghylch ei iechydwriaeth dragwyddol. Diogel ydoedd
Zdn. 38. gan yr un Apoſtol *nas gallai nac angeu nac enioes ei wahanu oddiwrth gariad Duw.*

Bydd cydwybod heddychol yn yr ufudd gra-
Rhuf. 5. 1. ſol. y rhai wedi eu *cyfiawnhau trwy ffydd a gant heddwch tuag at Ddduw, trwy ein Harglwydd Jeſu Griſt.* Grâs Chriſt yn yr enaid me-
Mat. 14. 24, 32. gis ei ddyfodiad corphorol ef ir llong *a oſtega'r* dymheſtl ydoedd o'r blaen yn ei thrallodi. Bydd calon y duwiol yn gadel iddo ac yn ei ddiogelu fod Duw yn maddeu ei bechodau ef. Y rhai a garant Dduw a'i cymmydog, nid
1 Joan. 3. 18, 19, 21. *ar air* nac ar dafod *yn unig, eithr mewn gweithred a gwirionedd*, wrth hynny a wyddant *eu bod o'r gwirionedd, ac a ſiccrhant eu calonnau ger ei fron ef.* Eu calon nis condemna hwynt, a *bydd ganddynt hyder ar Dduw.* Wrth yr eſmwythdra calon y bont yn ei gael mewn ffordd dda y gwyddant gael gollyngdod a rhyddhad oddiwrth yr euogrwydd, a'r aflendid a'i caethiwai o'r blaen. Gwyddant ir gwaſawyr redeg allan o'r gydwybod, gan nad ydynt mor ofidus â chynt. A bydd *yſpryd mab-*
Rhuf. 8. 15. *wyſiad* yn eu hyfhau i alw Duw yn Dâd, ac i ddiogel ymddiried yn ei ewyllis da ef. Am bob gorchwyl da a wnelont gwena eu cydwybodau arnynt iw diddanu hwynt. Eu *gorfo-*
2 Cor. 1. 12. *ledd* hwynt a fydd *tyſtiolaeth eu cydwybod mai mewn ſimlrwydd a phurdeb duwiol yr ymddugant yn y bŷd.* Ac ni ddobrir y fath gydwybod er dim i roddi cennad ir drwg, canys dyfal driniff ei fwydd i fod yn gynghorwr ffyddlon. Pa bryd

bryd bynnag y gwyro 'r Chriſtion beth oddiar yr iawn ffordd, rhybuddia ef fel arweinydd ffyddlon i ochelyd myned ym mhellach ym machau peryglus pechod rhag iddo drigo ynddynt, a chaiff glywed ei *llais ar ei ol yn dywedyd, dyma 'r ffordd rhodia ynddi.* Ac ni bydd anhawdd ganddo ymwrando â hi, ac attal ei amryfuſſedd ar yr amnaid lleiaf. Ei galon a drawodd Ddafydd am dorri cwr mantell Saul, pan allaſai ei ladd ef, ac yr annogwyd ef i hynny gan ei wŷr, am hynny ni wnaeth ef iw feiſtr ddim niwed ychwaneg, gan ddywedyd, *na atto 'r Arglwydd i mi wneuthur y peth hwn.* 1 Sam. 24. 6.
Cerydd ei gydwybod ef am y pechod llai, a barodd iddo betruſo gwneuthur y pechod mwy. Gan iw galon waraſun iddo gymeryd typyn o wiſc Saul, gwybu na chai lonydd genddi os cymerei ei fywyd ef. *Glynai* Job *yn ei gyſiawnder ac nis gollyngai hi,* am na fynnai roddi achos iw *galon iw wradwyddo ef tra fyddai fyw. Deddf ei Dduw ſydd ynghalon* y graſol, *a'i gamrau ni lithrant.* Job. 27. 6. Pſal. 37. 31.

Bydd ewyllis y duwiol yn dymuno ac yn hoffi yr Duw daionus y cenfydd y meddwl ei odidowgrwydd. *Dymuniad ei enaid ſydd at ei enw ef, ac at ei goffadwriaeth.* A dymuniad crŷf hiraethus fydd, megis ac ſydd yn y ſychedig am ddiod yn y gwledydd brŵd. *Sychedig fydd ei enaid am Dduw, am y Duw byw.* Fel *Joſiah troiff at yr Arglwydd â'i holl galon, ac â'i holl enaid.* Hoffiff ef yn fwy na'r hollfŷd, ac ni *ewyllyſia neb ar y ddaiar gydag ef.* Eſai. 26. 8. Pſal. 42. 2. 2 Bren. 23. 25. Pſal. 73. 25.

Gwell oedd gan y prif Griſtianogion ogoniant Chriſt na Meddiannau daiarol, o'r rhai

Act 4.34, 35. *cinnifer ac oedd berchen tiroedd neu dai an gwerthaſant, ac a ddygaſant werth y pethau a werthaſid ac a'i goſodaſant wrth draed yr Apoſtolion: a rhanwyd i bob un megis yr oedd angen arno.* Ffrwyth addfed a ymadawant â'u cibau yn wiſci. a'r calonnau addfed o râs a ymryddhant oddiwrth eu meddiannau bydol. Anwylach gan y gwir Griſtion Dduw na pherthynaſau naturiol. Galwyd llawer gynt i adel *brodyr a chwiorydd, tâd a mam, gwraig*

Marc.10. 29. *a phlant o achos Chriſt a'r efengyl*, a gwnaethant hynny yn ewyllyſcar. Gan adel *pob peth*

Ezra.10. *a dilyn Chriſt.* Ac yn amſer Ezra ymyſcarodd yr Iſraeliaid edifeiriol oddiwrth y gwragedd eulynaddolgar y cyttaliaſent â hwynt. Hc-

Job 23. 12. ffodd Job eiriau Duw yn fwy na'i *ymborth angenrhediol:* a Dafydd ei *drugaredd ef yn*

Pſal.63. 3. *fwy na bywyd.* Gadawodd llawer miliwn o ferthyron eu bywyd amſerol er cael mwynhau Duw yn dragywydd. Dibriſient bethau cyfreithlon fel tom os cyſtedlid hwynt â Chriſt. A chaſſaent bethau anghyfreithlon fel gwenwyn. Gwell oedd gan Moſes gymundeb â Duw

Heb. 11. 25. mewn anialwch, na *mwyniant pechod* mewn gwlâd râs. Rhwydd fydd yr enaid i garu Duw, ac ef yn canfod beunydd arwyddion o gariad Duw tuag atto yntef. a gwel reſwm da i hoffi yr hwn a wnaeth y ſerch, ac iddo ef a blannodd y winllan gael ei gwin. Ac mal yr hoffa y rhai graſol Dduw yn bennaf, hoffant ei ddelw ef mewn pobl yn neſaf. Byddant

1 Theſ.4. 9. wedi eu *dyſcu gan Dduw i garu eu gilidd.* Ewyllyſiant yn dda i eneidiau dynion gan eu rhybuddio au cynghori, a gweddio droſtynt.

Hynny

Hynny gydâ gogoniant a gerchymmyn Duw a annogodd yr Apostolion a'r prif athrawon i dramwy dros fôr a thir i fynegu ir byd ffordd iechydwriaeth drwy Grist. Yr hwn a bregethafant *gan rybuddio pôb dŷn, a dyscu pôb dŷn ym mhôb doethineb, fel y cyflwynent bôb dŷn yn berffaith yn Ghrist Iesu.* A gweddient ar Dduw nid yn unig dros yr ufudd, ond dros y gwrthwynebus hefyd; megis y gwnaeth Stephan, îe wrth ei ferthyru; efe a *ostyngodd ar ei liniau, ac a lefodd â llef uchel, Arglwydd na ddod y pechod hwn yn eu herbyn.* Gweddiodd yn grôch drostynt hwy a oeddent yn filain yn ei lâdd ef, ac erfyniodd am drúgaredd i'r rhai ni wnaent ag ef gyfiawnder. a chymeradwy fu ei aberth brydnawnol ef drostynt, canys ar fyrder gwnaeth Duw faul un o'i erlidwyr ef yn leftr gwerthfawr. Parodol fyddant fel y *Samaritan i dosturio* wrth y rhai a fyddont mewn nebryw annhymer neu anghyflwr, ac iw hymgeleddu, gan dreulio arnynt eu *gwin a'u holew.*

Col. 1. 28.

Act. 7. 60.

Luc. 10. 34.

Y nwydau y rhai a gynhyrfir gan y cyfryw feddwl ac ewyllis a fyddant fanctaidd hefyd. y llawenydd a fydd duwiol. Canys nid all yr *edifeiriol* fel *Zacheus* na *dderbynio Grist yn llawen,* am ei fod yn dwyn iechydwriaeth gydag ef. A chan fod *llawenydd yn y nêf, ac yngwydd angylion Duw am y pechadur a edifarhao*; mwy yw'r achos o lawenydd ir dŷn ei hun a fymudwyd o'r aflwydd blin ir dedwddwch cyffurus. Ac wrth gredu yn-Ghrift bydd iddo *fawr lawenhau â llawenydd anrhaethadwy, a gogoneddu.* Rhyfeddol yw'r dar-

Luc. 19. 6.

Act 15. 10.

1 Pet. 1. 8.

luniad hwn ar hyfrydwch y prif Griſtianogion, mae'n gyfryw ac ni choelia neb ond y rhai a'i teimla: Sef eu bod yn *mawr lawenhau*, ac yno dubla ei eiriau, gan ddywedyd iddynt *lawenhau â llawenydd*. Ac er hynny ni chyrhaeddodd y peth, eithr cydnebydd ſod ei eiriau yn fyrion, ac iddynt *lawenhau â llawenydd anhraethadwy*, a'u bod yn cael rhan o'r nêf ar y ddaiar, gan fod eu llawenydd yn *ogoneddus*, ac nid ſel yr un anianol yn warthus. Nid all amgen na bo calonnau y rheini yn ſiriol a fyddo yn blant i'r Brenin pennaf, ac yn etifeddion i deyrnas dragwyddol. Bydd iddynt wrth ddarllen ewyllis eu Tâd *ymhyfrydu yn ei gyfraith ef yn ol y dŷn oddifewn*. ac wrth rodio gyd ag ef cydnabyddant ſod *ei ffyrdd yn hyfrydwch, a'i lwybrau yn heddwch*. Mawr fydd eu diddanwch wrth wneuthur cyfiawnder a thrugaredd. a *phebyll Duw a fydd hawddgar ganddynt, dewiſant gadw drws yn ei dŷ ef o flaen trigo ym mhebyll annuwioldeb*. A'r llawenydd yſprydol a wna iddynt ddiflaſu maſwedd cnawdol, mal y gwna cynheſrwydd y ffurfaſen amſer hâf i bobl hepcor cynheſrwydd yr aelwyd a hoffent y gaiaf, ac y periff gwell ſynwyr i wŷr adel ymmaith chwareuon plant.

Rhuf. 6. 22.

Dihar. 3. 17.

Pſal. 84. 1, 10.

Pan welo Duw yn rheidiol *fel nas tra-derchafer hwynt drwy odidowgrwydd eu* trugareddau *adel i genad Satan gernodio* peth arnynt, ac er eu daroſtwng leihau eu diddanwch, au rhoddi ymbell waith mewn heli dagrau rhag eu llygru gan chwantau, y pryd hynny grafol a fydd eu triſtwch, fel na chaffont mor

go-

golled oddiwrtho ef. Cyftudd Eglwys Corinth a'i *trifiaodd yn ddiwiol, ac a weithiodd ynddi fwy o aftudrwydd, ac o ofn, o zel ac o nfudd-dod.* Ni phruddha'r Chriftion fel Ahab eifieu cael gwinllan ei gymydog, ond am weled pobl yn dianrhydeddu Duw; ac am ei fod ef ei hun yn fyrr o'r peth a ewyllyfiai ef ei wneuthur mewn diolchgarwch iw waredwr. Y dynion nodedig ac anwyl gan Dduw yn Jerufalem ydoedd yn *ocheneidio, ac yn gweiddi am y ffieidd-dra oll a wneid yn ei chanol hi. A deddf yr aelodau yn gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl* a wnaiff ir etholedig gwyno eu *trueni.* Ond ni thriftânt am golledion bŷd megis rhai heb obaith, mwy nag y llawenychant wrth ei elwa megis rhai heb olud gwell. Gwyddant na pheri'r helynt ddaiarol ond ychydig Gan fod gogoniant y cnawd yn *fyrthio fel blodeuyn,* ni ofodant mor gormod ferch arno: a chan fod ei ofid ef yn diflannu fel chwyn, ni ddigalonnant hwy dano. Gwelant beunydd nad yw hawddfyd ond llygedyn, ac adfyd ond cafod, yn y man y derfydd y naill a'r llall: a bod llwyddiant y byd fel diwrnod, a'i aflwydd fel nôs, y fydd ag ychydig oriau ym mhob un o honynt. Am hynny edrychant y tû hwynt iddynt at *fylwedd parhaus.*

2 Cor. 7. 11, 15.

Ezec. 9. 4.

Rhuf. 7. 23, 24.

1 Pet. 1. 24.

Eu dig au bodlonrwydd a reolir gan y meddwl yn dduwiol. Ni ddigiant wrth y neb a u hannogo i ddaioni, neu au hargyoeddo o fai ac amryfufedd. Cerydd cyfiawn a fydd iddynt fel *olew ni thyrr en pennau. Y drygionus a wnaiff anaf ir hwn a feio arno.* Daliodd Herodias

Pfal. 141. 5. Dih. 9. 7.

rodias ŵg marwol i Joan Fedyddiwr am iddo
Marc. 6. 19, 25. ddangos ei phechod iddi. Wedi iddi dwmno mewn ymloſcach aflan hi a ſychedodd am waed gwirion, a melyſaf ſaig mewn gwlêdd ydoedd genddi gael pen y prophwyd ar ddyſcl.
Dih. 9.8. Ond y *doeth a gâr yr hwn a'i ceryddo.* ac yn lle dial a wnaiff dda ir hwn a'i drygo. A-
Gen. 42. chubodd Joſeph y rhai ai bradychaſau ef, a fwccrodd y rhai a'i caethiwodd ef pan allaſai dalu 'r pwyth iddynt. Ni chanhiediff y graſol iw ddig weithio yn ei achos ei hun, ond am ddianrhydeddu Duw. Gweled Iſrael yn addoli eulun yn lle Duw a wnaeth i Moſes
Num. 25. 7. addfwyn dorri 'r llechau. A godineb ddigwilidd y bobl a wnaeth i Phineas ymaflyd yn y waiwffon: ac wrth weled *dinas Athen wedi*
Act. 17. 16. *ymroi i eulynnod y cynhyrfwyd yſpryd Paul yndo.* Ac mal na ddeil y graſol ŵg iw elyn daiarol, llai o lawer y gwnaiff ef hynny iw Dâd nefol. A bydd fodlon iw ragluniaeth ef, ac ir cyflwr y drefner iddo ef, er ei fod dros drô yn anhyfryd ir cnawd, am y caffo gymundeb â Duw ynddo. Ni chwenych ddim yn ei le ef, ac ni wrthid ddim gydag ef; eithr
Pſal. 131. 2. bydd fel *plentyn wedi ei ddiddyfnu.* Tywyll a gwael yr ymddengis pethau iſod iddo ef, ac ynteu yn craff-dremio ar ddiſcleirdeb yr haul nefol. Gŵyr y gall gollud fod yn niweidiol iw meddianwyr, mal y bu aur gwahardded i Achan, a thir drwy anghyfiawnder i Ahab, a gwiſcoedd hoiw i Gehazi. a bod yn yſcafnach calon yr ymdeithydd y ſydd â lleiaf
Philip. 4. 11, 12, 13. yn ei gylch. Am hynny *ym mha gyflwr bynnag y byddo dyſciff fod yn fodlon iddo.* Medrai 'r

Apoſtol

Apoſtol *ymoſtwng ac ymhelaethu, addyſcwyd ef i fod yn llawn, ac yn newynog, i fod mewn helaethrwydd ac i fod mewn prinder, gallai bob peth drwy Griſt ydoedd yn ei nerthu ef.* Ni falchiai er clod, ni ruſai er anglod. Er i anadl ei gyfeillion chwythu arno fel deheuwynt, ac anadl ei gaſeion fel gogledd-wynt, etto ni rwyſtrai 'r un o'r ddau mono ef i fyned ym mlaen yn ei yrfa dduwiol. Mewn colledion dywediff fel Job, *bendigedig a fyddo enw 'r Arglwydd.*

2 Cor. 6. 8.

Job. 1. 21.

Bydd y coffadwriaeth yn dryſſordy ir gwirionedd. Ynddi y cedwir arch y dyſtiolaeth, a llechau 'r gyfraith efangylaidd. Llawlyfr cryno yw a ddwg y Chriſtion gydag ef i bob man, â gorchymmynion ac addewidion, bwgythion ac eſamplau o air Duw yn yſcrifennedig ynddo, ac arno y derllyn dan ei ddwylo. Yr hwn ni *chredo yn ofer a ddeil yn ei gôf â pha ymadrodd yr efangyler iddo.* Yr hyn o'r da a ganſyddo 'r deall, ac a hoffo 'r ſerch a geidw 'r côf. Pawb a'r a glywſant a ryfeddaſant am y pethau a ddywedaſid gan y bugeiliaid ynghylch ganedigaeth Chriſt, eithr Mair yr hon a'u hoffai fwyaf, a *gadwodd y pethau hynny oll, gan eu hyſtyried yn ei chalon.* Cenſigennodd eraill wrth weledigaeth Joſeph, *ond ei Dâd a ddaliodd ar y peth.* Er bod gan ryw un wrth natur gôf gwan, etto pan ddel yſpryd Duw iw ſanctteiddio, dyſcir a *dygir ar gôf* iddo gymmaint o ewyllys Chriſt, ac a'i gwnelo yn gadwedig. Pan fyddo Chriſtion mewn cywirdeb calon yn ceiſio cyſarwyddyd ynghylch y peth a ddylai ei ddeall, neu'i

1 Cor. 15. 2.

Luc. 2. 18, 19.

Gen. 37. 11.

Joan. 14. 26.

wneu-

wneuthur, dwg yſpryd Duw ryw yſcrythur iw gôf ef iw gynghori a'i gynnorthwyo. Megis pan yrrodd Chriſt y *marchnattwyr allan o'r deml â ffrangellau, a thywallt allan arian y newidwyr*, tebyg ir dyſcyblion ryfeddu ynghylch y weithred anarferol honno, nes iddynt *gofio fod yn ſcrifennedig, zêl dy dŷ di a'm hyſſodd i.* Y pryd y marchogodd Chriſt i Jeruſalem i gyflawni prophwydoliaeth Zachary, *nac ofna ferch Sion, wele y mae dy frenin yn dyfod yn eiſtedd ar ebol aſſyn:* Ni wybu 'r dyſcyblion ar y cyntaf beth oedd amcan yr ymddygiad hwnw. Eithr *pan ogoneddwyd yr Jeſu, yna y cofiaſant fod y pethau hyn yn ſcrifennedig am dano, ac iddynt wneuthur hyn iddo.*

Joan. 2. 16, 17. ac 12. 13, 14, 15, 16.

Wedi ir Argwydd roddi naws raſol yn yr enaid oddifewn, ymddengis hynny yngweithrediadau 'r corph oddiallan. Wedi 'r hollter gwreiddyn y galon, ac impio ynddi y *planhigin enwog*, blaguryn paradwys, dwg ffrwyth peraidd a'i diddano ei hun ac eraill. Ordeinwyd yr enaid i gynhŷrfu ac i reoli 'r corph. Am hynny buchedda pôb dŷn ſal y rhoddo ef ei frŷd yn ei galon. Bydd ar y dwfr archwaeth y mŵyn a'r ſydd yn y graig o'r hwn y cyfyd. *Y dyn da o dryſſor da y galon a ddwg allan bethau da. Gweithia Duw yn yr eiddo ewyllyſio a gweithredu* yr hyn a berthyn iw iechydwriaeth. Pan roddo Duw ynghalonnau pobl naturiol i amcanu rhyw beth llefol i eraill, hwy ai cyflawnant ef. Yſpryd Duw a ddaeth ar Saul pan glybu eiriau gofidus gwyr Jabes, Gilead, ac efe a fyddinodd y bobl, ac a waredodd y gorthrymmedig. Ac

Matth. 12. 35. Phil. 2. 12. 1 Sam. 11. 2, 6.

o flaen hynny byddyn o'r *rhai y cyffyrddafai Duw â'u calon a aeth gydag ef.* A'r *Arglwydd a droes galon brenin Aſſyria i gymorthwyo'r* Iſraeliaid yngwaith y deml; *a rhoddes ynghalon brenin Perſia iw harddu.* A chyn ficred y tuedda Duw galonnau gwir Grifiianogion i ddyfal wneuthur daioni yſprydol. Megis yr agorodd ef galon Lydia i ddal ar gyngor, oni ymroddodd hi i fod yn ffyddlon i'r Arglwydd, ac i wneuthur ymgeledd iw weifion ef. Yr enaid grafol a fywoccaer àt ddaioni a lywodraetha aelodau'r corph iw gyflawni, mal yr arfer gwr celfydd ei arfau i wneuthur y gorchwyl a fwriado. Pan droer ffrwd paradwys at yr olwyn fawr, ſef yr enaid, hi a droiff holl olwynion bychain y corph a'r fydd ynglŷn wrthi i weithio am fara'r bywyd. Adeiledir y *cyſſegr gan bob un yr hwn y dwg ei galon ei hun ef i neſſau at y gwaith iw weithio ef.* Ewyllis rafol oddifewn a eſid y dŷn oddiallan ar waith da.

1 Sam. 10, 26. Ezr. 6. 22 ac 7. 27.

Act. 16. 14, 15.

Ex. 36 2.

Arferir y llygaid i hyfforddi duwioldeb. wrth edrych á nhw ar fawrion bethau Duw yn y nefoedd a'r ddaiar rhyfedda'r galon ei alluogrwydd, a'i ddoethineb ef. Dafydd wrth *edrych ar y nefoedd, ar y lloer, a'r ſer,* a foliannai Dduw am ei gariad tuag at ddŷn. Wrth ddarllen ynghyfraith Dduw caiff y Chriſtion gyfarwyddyd beunydd. A thoſturia wrth weled trueni ei gymydog. Pan gaethgludwyd yr Juddewon, *llygad Jeremi ydoedd yn blino ei enaid; ac yn diferu ffrydiau o ddwfr o herwydd diniſtr merch ei bobl.* J'r golwg y deuau defnynnau calon doddedig y naill i gyfarfod

Pſal. 8 3, 4.

Galar. Jer. 3. 48, 51.

farfod trueni greſynol y llall. A'r grafol a fyddo mewn awdurdod a wnaiff i bobl arſwydo camwedd wrth edrych arnynt. *Brenin wrth eiſtedd ar orſedd barn, a waſcar â'i lygaid bob drwg.*

Dih. 20. 8.

Mewn gweddiau beunyddiol hefyd y derchefir golugon y duwiol tua gorſeddfainc Duw. Derchafai 'r Jeſu ei lygaid tua 'r nef wrth alw ar y Tâd.

Joan. 17. 1.

Daw adeiladaeth i enaid y Chriſtion drwy'r cluſtiau: caiff *ffydd trwy glywed, deffry'r Arglwydd iddo gluſt i glywed fel y dyſcedig*, ac i ddeall yr hyn a adrodder wrtho, gan ufuddhau iddo. *egorir ei gluſt ac ni wrthwyneba.* Paradol ydoedd Cornelius a'i gyfeillion *ger bron Duw i wrando 'r holl bethau a orchymmynid iddynt.*

Rhuf. 10. 17. Eſai. 50. 4, 5. Act. 10. 33.

Geneu 'r dŷn daionus a fynega foliant Duw; ac a dractha wir lleſol wrth ddŷn. Yr hwn a *gredo 'â'r galon i gyfiawnder, a gyffeſſa â'r geneu iw iechydwriaeth* ei hun, ac eraill. *Deuwch* (meddai 'r prophwyd) *a gwrandewch y rhai oll a ofnwch Dduw, a mynegaf yr hyn a wnaeth efe im henaid: Llefais arno am genau, ac ef a dderchafwyd a'm tafod. Duw yn ddiau a glybu, ac a wrandawodd ar lais fy ngweddi, bendigedig fyddo.*

Pſal. 51. 15. Rhuf. 10. 10. Pſal. 66. 17. 19.

Cynghorion rhai duwiol ym mhob oes a drodd lawer o ddynion ar y goreu. Drwy anadlau prophwdi ac Apoſtolion y chwthodd Duw ddrws llawer calon yn agored i ollwn dedwddwch i mewn. Tra 'r *oedd Pedr yn llefaru* geiriau efangylol *ſyrthiodd yr yſpryd Glân ar bawb au clywent. Y Tadau a fynegant ir plant* ewyllis Duw, a'i *weithredoedd*

Act. 10. 44. Pſal. 44. 1.

ef

eſ yn eu hamſer hwynt. Y rhai a *wiſcant y dyn newydd* a fwriant ymaith gelwydd, ac a *ddywedant wir bob un wrth ei gymydog.* Eph. 4. 25.

Mewn iawn fodd y bwytti ac yr ŷf y ſawl a ofno Dduw. Wrth *fwytta ir Arglwydd y mae'n bwytta, canys y mae yn diolch i Dduw.* Rhuf. 14. 6.

Y prif Griſtianogion a *gymeraſant eu lluniaeth mewn llawenydd, a ſimledd calon, gan foli Duw.* Act. 2. 46.

Er ir annuwiol chwanegu eu pechod fel y chwanego eu porthiant, a bod yn waeth yn erbyn Duw po haelaf y fyddo eſ tuag attynt, etto plentyn Duw a fydd da ganddo ei Dâd a i diwallo. Cryfhaeu y *blaſuſfwyd Iſaac i fendithio.* Gen. 27. 4.

Y dwylo a olchir mewn diniweidrwydd, ac a dderchefir tua'r nef mewn erfyniad oſtyngedig. Pſal. 26. 6.

Ordeinwyd i Griſtianogion *weddio ym mhob man, gan dderchafu dwylo Sanctaidd.* A gwneir â hwynt yr hyn a fo da tuag at gynhalieth dyn ei hun, ac eraill. 1 Tim. 2. 8.

Dwylo'r Apoſtol a waſanaethaſant iw gyfreidiau eſ, ac ir rhai oedd gydag eſ. a Thabitha ydoedd lawn o weithredoedd da ac eluſenau y rhai a wnaethei hi. ac wedi ei marw hi y *gwragedd gweddwon a ddangoſaſant y peiſiau, a'r gwiſcoedd a wnathei hi.* Act. 20. 34. Act. 9. 36, 39.

Y cyfiawn a *yſcwyd ei law rhag derbyn gwobr:* a'r toſturiol a'i heſtyn i roddi Eluſen. Eſai. 33. 15.

Ymyſcaroedd trugareddau a fydd gan y rhai duwiol oll. a gofalant am ddiweirdeb, a'r iddynt *ymgadw oddiwrth odineb, a medru bob un feddiannu ei leſtr ei hun mewn ſancteiddrwydd, a pharch.* Col. 3. 12. 1 Theſ. 4. 3, 4.

Gwyddant fod eu cyrph yn aelodau i Griſt.

Am

1 Cor. 6. 15. Am hynny ni *chymerant aelodau Christ, a'u gwneuthur yn aelodau puttain.* *Yr wyryf Gristianogol ydoedd yn gofalu am y pethau perthynol ir Arglwydd, fel y byddai hi sanctaidd yng-horph ac yspryd.* Y priodol a geidw ei *wely yn ddihalogedig.* A geilw ar Dduw mewn purdeb yn ei ystafell a'i wely megis ac yn ei neuawdd ac uwchben ei fwrdd.

1 Cor. 7. 34.

Heb. 13. 4.

Dangosodd Duw garedigrwydd mawr i ffrwyth lwynau Abraham ffyddlon. A thrwy ei ragluniaeth cadwodd ddiweirdeb Sara a Rebeca yn ddifrycheulyd; gan gychwyn dinistrio'r fawl a osiau eu llithio oddiwrth eu gwŷr. Cadwodd y ffynhonnau heb eu dwyno, o'r rhai y ffrydiau cymmaint o genhedlaethau.

I Dduw y plyga gliniau 'r grasol, ac iw daith ef y cerdd y traed. *Tair gwaith yn y dydd y gostyngai Daniel ar ei linian, ac y gweddiai.* a'r Apostol mewn *gweddiau a blygei ei linian at Dâd ein Harglwydd Jesu Grist.* Dwg y traed i dŷ Dduw, ac ar achosion da i ddŷn.

Dan. 6. 10.

Eph. 3. 14.

PEN. 26.

Grym duwioldeb efangylol, a'r achosion o hynny.

Amlwg y gwelir grym duwioldeb ym mucheddau y rhai sanctaidd. *Ymarweddiad* y Christianogion gynt ydoedd *yn ynefoedd* tra'r oeddent ar y ddaiar. *Mewn purdeb dunwiol, a thrwy râs Duw yr ymddygent yn y bŷd.* i fod *yn ddifeius yr etholid* hwynt gan Dduw. A *rhoddai ei yspryd o'u mewn, a gwnai iddynt rodio*

Phil. 3. 20.

2 Cor. 1. 12.

Eph. 1. 4.

Ezec. 36. 27.

dio yn ei farnedigaethau ef, a'u gwneuthur. Y mae pob rhai grafol wedi eu *creu yn-Ghrift i weithredoedd da fel y rhodiont ynddynt.* Gwelir pob peth yn dilyn y natur y creawyd ef ynddo. Nofia'r pyfcod yn y dwfr, eheda'r adar yn yr awyr. I wared y daw'r trwm, i fynu yr aiff yr yfcafn. A'r grafol nhwythau a gynhyrfir gan eu duwiol anian, ac a wnânt yn ol rheôlau yr ail-creadigaeth, megis y gwna pethau eraill yn ol y cyntaf. Eph. 2. 10.

Diwyd fyddant yn eu dyledfwydd tuag at Dduw: gan *ddatcan ei rinweddau ef*, a byw wrth ei fodd ef, a *rhodio gyd ag ef fel Enoch.* Cyfiawn a thrugarog a fydd eu hymddygiad hwynt tuag at ddynion; mewn môdd dyladwy y llywodraethant eu hunain mewn fobrwydd a goftyngeiddrwydd, gan *fyw mewn pob duwioldeb ac honeftrwydd*, yr hyn a eglurir ym mhellach wrth y pethau a ganlyn. 1 Tim. 2. 2.

Ufuddhânt i holl orchymmynion Duw. Yr ydoedd *Zacharias ac Elizabeth* yn *rhodio yn holl orchymmynion a deddfau'r Arglwydd.* Yftod eu buchedd hwynt oedd dilyn rheolau Duw, ac nid llwybrau llygredigaeth Nid oeddent yn myned gydâ gair Duw yn y naill beth, ac yngwrthwyneb iddo yn y llall, eithr yn eu mefur gwnaent holl ewyllis Sanctaidd Duw.

Gorchfygant holl rwyftrau Sancteiddrwydd er amled fyddont. Nerthol y dilyn pethau naturiol y tueddiad a roes Duw ynddynt. Nid ellir attal yr afon rhag rhedeg ir môr, na'r tarth rhag efcyn ir cwmwl: ac nid llai egni dynion yfprydol i ddilyn daioni. Ant ar ol Duw ar draws pôb pèth. Ni ddichon gweddi-

Y llion

llion eu llygredigaeth beri iddynt beidio â'r da: Gwnânt archiad Duw yngwrthwyneb i gyngor llygredig. Medrant atteb holl gau-reſymau'r cnawd, a datcuddio eu twyll. Nid ymgyrghorodd yr Apoſtol â *chig a gwaed*, eithr gwnaeth y peth y galwodd Chriſt ef iddo. Siccr y gwyddant nad oes dim well ar eu llês na mwynhau Duw a'i fodloni. Am hynny *Caethiwant bob meddwl i ufudd-dod Chriſt*. Ac ni chaiff chwantau'r cnawd wneuthur eu haelodau hwynt yn arfau anghyfiawnder, eithr gwrthwynebant hwynt pa bryd bynnag y gwrthryfelont, a gwrthodant gyflawni eu deiſyfiadau. Pan fo'r *cnawd yn chwenychu yn erbyn yr yſpryd, yr yſpryd yntef a chwenych yn erbyn y cnawd*, ac a i rhwyſtra i wneuthur y drwg. Ni adawodd yr Apoſtol i genad Satan yn ei gnawd ef orchfygu, eithr efe a waeddodd ar Dduw am gymmorth, a chafodd atteb cyſſurus, ſef y byddai *grâs yn ddigonol* iddo ef. Y *rhai ſydd yn eiddo Chriſt a groeshoeliant*, ac ni feithrinant *wyniau, a chwantau'r cnawd*. Caiff gweddill pechod ynddynt nid ei fagu eithr ei goſpi a'i farweiddio beunydd. Rhodia gweiſion Chriſt *nid yn ol y cnawd ond yn ol yr yſpryd. Canys deddf yſpryd bywyd yn-Chriſt Jeſu a'u rhyddhaa oddiwrth ddeddf pechod*. Bydd grâs ynddynt fel cyfraith yn awdurdodol, ie yn gyfraith yſpryd yr hwn ſydd gryfach na chnawd: fel y mae'r enaid yn rhoi bywyd ir corph, ac ynteu yn ei gael gan Dduw, yr yſpryd Hollalluog. *A deddf yſpryd bywiol yn Ghriſt Jeſu*, y brenin cadarnaf, *ſydd yn rhyddhau* ei ddeiliaid ef *oddiwrth ddeddf pechod*, fal na bont mwy yn weiſion i feiſtr

Gal. 1. 16.

2 Cor. 10. 5.

2 Cor. 12. Gal. 5. 17, 24.

Rhuf. 8. 1, 2.

feistr gwael i wneuthur gwaith aflan. Ymgeidw y duwiol oddiwrth chwantau eu cnawd rhag clwyfo eu cydwybodau, mal yr ymgospa'r pwyllog rhag rhyw fwyd ni ddygymmyddo â hwynt, er eu bod yn ei chwenych, rhag peri doluriau iw cyrph wrth borthi blŷs eu llygaid. Gan ir merthyron adel chwantau cyfreithlon eu cyrph, sef newyn a syched heb eu diwallu, diddadl yw na fodlonent chwantau anghyfreithlon, megis rhai godinebus, malaisus, beilchion, neu gybyddus.

Llwyr ymwrthodant â'r gweithredoedd gwarthus y sydd yn gwneuthur dynion yn anifeilaidd, neu gythreulig, megis godineb, meddwdod, twyll, llofruddiaeth, a'r cysryw feiau anafus, anoddef Er bod y fath bechodau gwrthun (y sydd yn erbyn goleuni natur er ei drycced) wrth eu harfer yn myned yn feistraid ar blant digofaint, etto pan ddêl Arglwydd trechach i fewn dynion, bwrir y gormesdeyrn digywilidd hynny o'u gorseddau, ac nid ufuddheir iddynt. Rhai o'r Corinthiaid cyn eu troi a fuasent yn *odinebwyr*, yn lladron, yn gybyddion, yn feddwon: ond wedi iddynt dderbyn ffydd Grist hwy *a olchwyd, a sancteiddwyd, ac a gyfiawnhawyd.* A thra rheidiol i bobl gael grâs i adel y fath weithredoedd erchyll, am nad all neb a'u gwnelo etifeddu teyrnas nêf. Ni chaiff neb syw gyda Duw ond yr hwn a arswydo y cysryw bechodau, a *ystyria, ac ni wna felly: ei lygaid ni chysyd ar eulynnod, ni haloga wraig ei gymmydog, ni orthrymma, ni attal wystl, ni threisia drais.* Ni synn Christ i weithredwyr anwiredd swytta o'i swpper ef

1 Cor. 6. 9, 10, 11.

Ezec. 18. 14, 15, 16.

1 Cor. 11. yn yr eglwys filwrws, a diamau na chant gyd-wledda ag ef yn yr eglwys orfoleddus. Oni chant eu creſhawu ynghyntedd ei dŷ ef, ni dderbynir hwynt iw drigfannau hyfrydaf. Y mae llawer o gleddyfau tanllyd i gadw'r ſawl a hoffant fwytta 'r ffrwyth gwaharddedig rhag dyfod at bren y bywyd. Am hynny nid erlidiodd Saul mwy, ac ni cham achwynodd Zaccheus ar neb wedi iddynt droi at Griſt. Yr hwn ni ſynn fod *tŷ ei Dâd yn ogof lladron.* Gwahardd gychu caccwn afrywiog yn ei ardd yn lle gwenin ffrwythlon. Je gwnaiff iw ddilynwyr ymarferu â rhinweddau daionus yn lle'r pechodau anafus, oni aller blaſu ffrwythau 'r yſpryd yn eu gweithredoedd hwynt, megis cariad, ffydd, cymmwynaſgarwch, dirweſt. ymroddodd Zaccheus i wneuthur y pedwar cymmaint o iawn, ac y wnaethai o gam â nêb, ac yn lle gorthrymmu 'r tlawd iw llonni â'i dda. Dywedodd ef wrth Griſt *wele hanner fy na O Arglwydd,* yr *ydwyf yn ei roddi ir tlodion, ac*

Luc. 19. 8. *os dugym ddim o'r eiddo nêb drwy gam-achwyn yr ydwyf yn ei dalu ar ei bedwerydd.*

Caiff y grafol yr oruchafieth ar yr holl brofedigaethau a geiſio eu tynnu nhw oddiwrth dduwioldeb at fuchedd ddrwg. Ni ddichon golud a hoiwder y bŷd beri iddynt eſceuluſo Duw. Ymwrthododd y Chriſtianogion â'r rhodreſwaith pechadurus, a *lloſcaſant y* llyfrau perthynol iddo

Act. 19. 19. *yngwydd pawb, er bod eu gwerth yn ddengmil a deugain o ddarnau arian* Nid ymadawant â'r ernes ſy ganddynt am deyrnas nefol, er a gynnygier iddynt o fudr elw bydol. O rhydd Duw iddynt feddiannau daiarol mewn cyfi-

awnder,

awnder, ni ddiffidd, eithr hyffordda hynny eu daioni hwynt. Bydd rhoddion Duw drwy bawb rai y mae'n annerch ei gariad attynt, yn eu gwneuthur hwynt yn ddiolchgar iddo ef; ac yn olugwyr ffyddlon ar ei dda ef, gan ymgleddu ei blant ef â hwynt. Tra yr oedd *Job yn fwyaf o holl feibion y dwyrain*, a chanddo olud mawr, y pryd hynny yr *ofnai Dduw ac y ciliai oddiwrth ddrygioni, ac y gwaredai y tlawd a fyddai yn gweiddi*, a gwnai i *galon y wraig weddw lawenychu*. Ni falchiau 'r Apoſtolion pan geiſid eu haddoli, eithr *rhwygent eu dillad*. Job 1.13. ac 29.8, 12. Act. 14.

Nid all hyfrydwch pechod moi tynnu hwy oddiwrth Dduw. ni chwareuant ar marwor au lloſcodd hwynt. Ni allaſai Satan ddychymmyg profedigaeth debyccach i lygru Joſeph, na 'r cynnig a wnaeth ei feiſtres iddo ef. Canys yr ydoedd hi yn Arglwyddes fawr, ac a allaſei wneuthur erddo ef, a'i hoiwder ydoedd gyfattebol iw pherhynas yn llŷs y brenin, a cheiſiai ei ddenu ef beunydd, a hynny yn y dirgel lle ni bai neb iw gyhuddo ef: a phan welodd hi yr odfa yn gwaſanaethu, hi a'i daliodd ef gerfydd ei wiſc yn daer, ac ni fynnai nâg. Yr ydoedd yntef hefyd ym mlôdau ei ieuenctid, a'i nwyf naturiol yn ei nerth, ac yn haws iddo wrthod pob pechod na 'r hwn a gynnygid iddo. A chan ei fod ef yn ŵr doeth nid allai ddiſgwil amgenach os efe a groeſai ei dymuniad hi, na chafai ei ddrygu gan ei llîd hi: ac oni fodhaeu ef ei hyſgafnder hi, y gorfyddai iddo ddioddef pŵys ei digofaint hi: am y troei hi yn arth wrth ommedd iddi chware 'r afr, megis y digwyddodd. Er hynny i gyd y mae 'r llangc graſol drwy y-

ſtyriaeth duwiol yn curo'r gof ufferno! yn ei efel. er maint oedd mantais ei elyn a'th yr maes oddiarno, a chadwodd ei oneſtrwydd er colli ei wîſc, ac ni wnaeth ddrwg yn erbyn Duw da.

Gen. 39. 7.

Nid all y cyſtuddiau tôſt a ddigwyddo i'r duwiol beri iddynt gaſſau ffyrdd Duw, eithr gan mwyaf byddant well erddynt. Pa fwyaf y fo'r gelyniaeth a gaffont yn y bŷd, mwyaf a fydd yr anwyldra rhyngthynt hwy â Duw. Pan dafled y tri Iſraeliaid ir ffwrn dân daeth mâb Duw i wneuthur y *pedwerydd, ac i rodio* gydâ hwynt. Ni ddigaloneu'r Apoſtolion er eu llabyddio, a'u curo, ond bodlonent *drwy lawer o orthrymderau i fyned i mewn i deyrnas Dduw.* Ni throent oddiar y llwybr cyfyng er bod drain a mieri o'u dautu yn eu hyſcriffinio, gan wybod ei fod yn arwain i orphwyſtra tragwyddol. Dangoſent eu hunain ym mhôb pêth fel *gweiſion Duw, mewn cyſtuddiau, mewn anghenion, trwy barch ac ammharch, trwy anglod a chlôd. Pan eu difenwid bendithient, pan eu herlidid dioddefent, pan eu ceblid gweddient.* Nid allau eu gelynion drwy'r holl dom a fwrient arnynt, na thrwy'r holl waed a dywalltent o honynt ddiffodd eu cariad hwynt tuag at Dduw, a dŷn. Canys cynghorent yn ddifri, a gweddient yn daer, er mwyn cael o'r rheini fywyd tragwyddol, a ydoedd yn dwyn oddiarnynt hwy eu bywyd naturiol.

Dan. 3. 24, 25.

Act. 14. 22

2 Cor. 6. 4. 8.

1 Cor. 4. 12, 13.

Bydd grâs y duwiol yn drêch na'r holl ddrwg ſiamplau a welont o'u hamgylch. Cyn y diluw *aml oedd drygioni dŷn ar y ddaiar, a phôb cnawd a lygraſai ei ffordd, a llanwaſid y*

ddaiar

ddaiar â thrawſcdd, etto cyfiawn ydoedd Noah ger bron Duw yn yr oes honno. A'r pryd yr oedd gwaedd Sodoma a Gomorra yn ddirfawr am ddialedd, a'u pechodau hwynt yn drwm iawn, cyfiawn ydoedd Lot yn eu myſc hwynt. *Gofidiodd ond ni* lygrodd yr anwiriaid ei *enaid ef trwy eu anniwair ymarweddiad. Dûg Elias fawr zêl dros yr Arglwydd* yn amſer Âhab a Jezabel, *a ymwerthaſent i wneuthur Drwg*, pryd hefyd y *gwrthododd meibion Iſrael gyfammod Duw.* Er cynddrwg oedd Nero, yr oedd rhai o'i dylwyth ef yn ofni Duw ac yn caru ei bobl ef. Y *Sainct o deulu Cæſar* ydoedd bennaf rhai yn annerch at Griſtianogion Philippi îr fydd y pyſcod byw yn y môr hallt, ond blâs y meirw a newidir gan yr heli. Er amled a chûed y ſo y rhai drwg, etto ni cherdd y duwiol yn eu llwybrau hwynt. *Gwraig Job a lefarodd wrtho ef fel un o'r ynfydion, er hynny ni phechodd ef â'i wefuſau.* Cawſai ddigon o rybudd oddiwrth Adda fal y medrai Satan wneuthur bŵa crôes o'i aſen ef i ſaethu atto ef ac iw archolli, am hynny gwiliodd ac ymgadwodd. Mor iachus ydoedd tymer ei yſpryd ef, nad allai 'r haint oedd cyn neſed at ei fynwes ef mo'i ammharu.

Gen. 6. 5, 12. ac 7. 1. Gen. 18. 20. 2 Per. 2. 7, 8. 1 Bren. 19. 14. Phil. 4. 22. Job. 2. 10.

Parhaiff yr etholedig mewn ſancteiddrwydd ym mhôb cyflwr, oed, a llê. Mewn goruchafiaeth a daroſtyngiad. Llywodraethwyr ſſyddlon ydoedd Moſes, Hezeciah, ac eraill. *Rhodiodd Dafydd ym mherffeithrwydd ei galon o fewn ei dŷ*, er ei fod yn feiſtr arno. Duwiol a ſſyddlon ydoedd gwâs Abraham. *Dewiſodd Duw dlodion y bŷd hwn i fod yn gyfoethogion*

Pſal. 101. 2. Gen. 24.

mewn ffydd, ac yn etifeddion y deyrnas. O dlodi a doluriau yr aeth Lazarus i fynwes Abraham. Yr un rhyw râs a ddwg y cyfoethog a'r tlawd ir un gogoniant. Tua 'r un porthladd dymunol y mae 'r cyfoethog a'r tlawd grafol yn hwylio ar draws tonnau 'r bŷd hwn, ond bod y naill mewn lleſtr dipyn mwy na'r llall; J'r un gorphwyſtra y deuant, er bod y naill yn marchogaeth ei bererindod, a'r llall yn ei cherdded.

Luc. 16.

Ym mhob oedran yr ymddwg y grafol yn dirion. *Joſiah tra yr ydoedd efe yn fachgen a ddechreuodd geiſio Duw.* ac yngyylch ugain oed *efe a ddechreuodd lanhau Juda a Jeruſalem.* Ac *Obadiah a ofnodd yr Arglwydd o'i febyd.* felly hefyd y gwnaeth Joan Fedyddiwr, ac eraill. Yn ei henaint yr oedd Mnaſon yn ddiſcybl i Griſt, ac yn ymgleddwr iw weiſion ef. Grâs a brydferthai flodau ieuenctid plant Duw, ac a bereiddiai ffrwyrhau eu hoed.

2 Cron. 34. 3.

1 Bren. 18. 12.

Act. 21. 16.

Ym mhôb man y gwnant fel y dylent. Ni pheidiai Daniel ag addoli Duw yn yr amlwg er maint ei berigl am hynny; ac ni phechai Joſeph yn y dirgel er cryfed oedd y brofedigaeth iw ddenu. Dilynant reol Duw ym mhôb achoſion yſprydol a naturiol, er mwyn ei anrhydeddu ef yn yr eglwys, ac yn y farchnad: *addolant mewn yſpryd a gwirionedd,* a marchnattânt mewn cyfiawnder.

Joan. 4.

Yn ddiau bydd cymmaint o ddaioni yn ymarweddiad y grafol oni allo pawb y fydd â deall ganddynt ei weled a'i gydnabod. Uniawn fyddant yngolwg dŷn. Y *glûſt a g'ywai Job a'i benditbiai ef, a'r llygad a'i gwelai a dyſtiolaethei*

Job. 29. 11.

thei gyd ag ef. Zacharias ac Elizabeth oeddent ddiargyoedd: a'r Apoſtolion wedi eu *gwneuthur yn hyſpys ynghydwybodau'r* Chriſtianogion. Dywedent wrthynt yn hŷ, *tyſtion ydych chwi a Duw hefyd, mor ſanctaidd, ac mor gyſiawn, a diargyoedd yr ymddygaſom yn eich myſc chwi y rhai ydych yn credu.* Am hynny y dywedir ſod ir duwiol *air da* megis yr oedd *i Demetrius gan bawb, a chan y gwirioned ei hun.* Tyſtiolaethodd cennadau wrth Pedr, ſod *Cornelius yn ŵr cyſiawn, ac yn ofni Duw, ac â gair da iddo gan holl genedl yr Jddewon.* A dywed yr Apoſtol ſod *Ananias yn ŵr defoſionol, ac iddo air da gan yr Juddewon oll.* A'r cenhedloedd gwaethaf a ddirnadent gyſnewidiad fawr ym mucheddau'r Chriſtianogion; *a rhyfeddent* (am ei ſod yn beth newydd) *na chyd-redent gydâ hwynt ir unrhyw ormod rhyſedd.* Rhyfeddent weled dynion malaiſus wedi troi yn gariadus, y niweidiol yn ymgleddgar, yr anllad yn ddiwair, y meddw yn ſobr, a'r dwylaw a gauid i roi dyrnod yn agored i roi cymmorth. Gwelent y *lleſtri gwannaf* ſef y gwragedd yn gorchfygu eu pechodau cryfaf, ſef balchder, ac anlladrwydd. Oni obeithiai'r Apoſtol y gellid *ynnill y gŵr* anghredadwy *trwy ymarweddiad eu gwragedd* Chriſtianogol, *wrth edrych ar eu hymarweddiad ddiwair hwynt.* Herod ddrygionus a wyddai ſod Joan yn *ŵr cyſiawn,* a ſanctaidd, ac *ai parchei ef.* Methodd gan y tywyſogion cenſigenus gael bai yn ymarweddiad Daniel er iddynt ei geiſio yn fanwl, a'i ſod yntef mewn llê goruchel lle byddai raid iddo drin llawer o fatterion. *Ffyddlon oedd*

Luc. 1.6.

2 Cor. 5. 11.

1 Theſ. 2. 10.

3 Epiſt. Joan. 12.

Act. 10. 22.

Act. 22. 12.

1 Pet. 4. 4.

1 Pet. 3. 1, 2.

Marc. 6. 20.

efe,

efe, fel na cheid ynddo amryfuſedd. Cydnabyddodd ei elynion yn nhŷ 'r cyngor, na chaent achlyſur i achwyn arno *oddieithr o ran cyfraith ei Dduw.* a hynny a i hannogodd hwynt i wneuthur cyfraith, na chai neb addoli 'r gwir Dduw dros ſis, ac yno 'r hyderafant y gallent ei ddifetha ef am y da, gan na chaent arno ddrwg. Dan. 6. 4, 5.

Yr Angylion ſanctaidd a dyſtiolaethaſant uniondeb gweiſion yr Arglwydd yn y bŷd hwn: megis anwyled ydoedd Daniel, ac mor ffynnadwy oedd ei weddiau ef. Medd Gabriel wrtho ef, *yn nechreu dy weddiau yr aeth y gorchymmyn allan, ac mi a ddaethum iw fynegi i ti, canys anwyl ydwyt ti.* Dywedodd *Angel wrth Cornelius fel y derchafaſau ei weddiau a'i elusſenau ef yn goffadwriaeth ger bron Duw.* Ac ni feiddiodd yr Angel drwg (er maint ei gelwydd wrth ddŷn) wadu o flaen yr Arglwydd nad oedd Job yn ofni Duw, eithr taerodd ei fod ef yn gwneuthur felly am wobr. *ai'n ddiachos* (eb ef) *y mae Job yn ofni Duw?* Dan. 9. 23. Act. 10. 4. Job. 1. 9.

Cydwybodau 'r duwiol a dyſtiolaetha gydâ hwynt ynghylch eu uniondeb tuag at Dduw, a dŷn. meddai 'r Apoſtol am dano ei hun ac eraill, *yr ydym yn credu fod gennym gydwybod dda gan ewyllyſio byw yn oneſt ym mhôb pêth.* Je yn eu cyfyngderau mwyaf, ac yn amſer marwolaeth ſicr fyddant o fod eu ffyrdd yn gymeradwy ger bron Duw. Pan glafychodd Hezeciah hyd farw, a'i rybuddio gan y prophwyd Eſay i ymbaratoi i fyned o'r bŷd, yna efe a weddiodd ar yr Arglwydd, a dywedodd, *attolwg Arglwydd cofia yr awr hon imi rodio ger dy fron di* Heb. 13. 18. Eſai. 38. 1, 3, 4, 5.

mewn

mewn gwirionedd, ac â chalon berffaith, a gwneuthur o honof yr hyn oedd dda yn dy olwg.

c mal na thybiom ni iddo ef yn y fath gyflwr daeru anwir wrth y Duw a ŵyr bob peth, cafodd atteb grafuſol iw weddi: a *bu gair yr Arglwydd gan ddywedyd, clywais dy weddi, gwelais dy ddagrau, wele mi a chwanegaf at dy ddyddiau di bumtheng mlynedd.* Er bod Job mewn trwm gyſtudd, a'i gyfeillion yn ceiſio ganddo goelio mai rhagrithiwr oedd ef, ac mai am ei anghyfiawnder y digwyddaſai 'r holl aflwydd iddo ef, etto diheurai ei hun, gan ddangos iddo rodio mewn uniondeb gydâ Duw a dŷn, *ac oni threngai ni ſymudai ei berffeithrwydd oddiwrtho.* Pan oedd yr Apoſtol ar fin y pwll, ac erlidigaeth yn barod iw ddanfon ef allan o'r bŷd, wrth yſtyried y mŏdd y treuliaſai ei fywyd, yr ydoedd ef yn myned tua ei farwolaeth yn gyſſurus, gan ddywedyd wrth Timotheus, *myfi yr awrhon a aberthir, ac amſer fy ymddattodiad i a neſaodd, mi a ymdrechais ymdrech dêg, mi a orphennais fy gyrfa, mi a gedwais y ffydd, o hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder iw chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd y barnwr cyfiawn i mi yn y dydd hwnw.* Job. 27. 5. 2 Tim 4. 6, 7, 8.

A'r Arglwydd bendigedig ei hun ac ef yn Farnwr doeth a gydnebydd ſancteiddrwydd ei weiſion ar y ddaiar. Dywedodd ef am Job ei fod ef *yn ŵr perffaith, ac uniawn, yn ofni Duw, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni, ac yn parhau yn ei berffeithrwydd.* Ac i Ddafydd *gadw ei orchymmynion ef, a rhodio ar ei ol ef â'i holl galon, i wneuthur yr hyn oedd uniawn yn ei olwg ef.* Ac yn y llythr a anfonodd Chriſt at eglwyſydd Aſia Job. 2 3. 1 Bren. 14. 8.

drwy

drwy law Joan, hyſpyſſodd ef iddynt ei fod ef
Datc. 2. yn craffu ar *gariad, a gweithredoedd, a llafur, ac ammynedd* y gwir raſol yn eu plith hwynt. Cydnebydd iddynt *gymeryd poen er mwyn ei enw ef, ac na ddiffygiaſent, ac nad allent oddef y drwg, eithr iddynt gadw ei air ef.* Ac yn y farn ddiweddaf mynegiff mor gariadus yr ymddug y
Math. 25. rhai bendigedig tra'r oeddent yn y byd, iddynt
34. lonni ei aelodau newynog ef, ac ymgleddu ei frodyr cyſtuddiol ef.

Y mae achoſion pwyſfawr pam y mae'r Arglwydd fel hyn yn Sancteiddio ei bobl yn y bŷd hwn, ſef yw hynny, fal y byddo iddo ef denantiaid ufydd ar y ddaiar. Nid er mwyn ei clynion yn bennaf y creawdd ac y cynnal Duw y bŷd preſennol, canys ni chaiff mor diolch ganddynt am ddim a wnelo, ond er mwyn ei bobl a gydnabyddant ei haelioni ef. *Bwydydd a*
1 Tim. 4. 3. *greawdd Duw yw derbyn drwy roddi diolch gan y ffyddloniaid, a'r rhai a adwaenant y gwirionedd.* yn nechreu'r creadigaeth ar *ei lun eu hun*
Gen 1. 26. y gwnaeth Duw y dŷn a ordeiniodd ef i *arglwyddiaethu ar bŷſc y môr, ac ar ehediaid y nefoedd, ac ar yr anifeiliaid, ac ar yr holl ddaiar.* Ni chaiff ef ddim ardreth addoliad galonnog oddiwrth drigolion annuwiol y ddaiar am y ffurfafen a i goleua hwynt, a'r tir a drinant hwy, a'r cynhaliaeth a fwynhânt. O herwydd hynny y difethwyd y bŷd gynt â dwfr, a Sodom â thân. Tywelltiff Duw râs ar ei etholedigion mal y caffo waſanaeth oddiwrthynt, ac y cydnabyddont ef yn Arglwydd, ac yn berchennog
2 Cor. 9. 12. ar y pethau a echwynir iddynt. *Trwy gyflawni ddiffygion ei Saint aml roddir diolch iddo ef.*

Er

Er bod gan Satan lawer i gablu enw Duw yn y bŷd ſel y mae'r damnedig yn uffern, mynn yr Arglwydd riſedi dewiſol i wneuthur ei ewyllis yntef ar y ddaiar megis y gwnaiff yr angylion hi yn y nefoedd.

A chan fod yr achos yn gofyn bod mâth ar gymundeb rhwng yr Arglwydd a'i ddeiliaid, mal yr hyſpyſo ef iddynt ei ewyllis a'i ddaioni, ac yr elont hwythau ger ei fron ynteu beunydd i wneuthur eu dyledſwyddau iddo ef, ac i drefnu eu gofynion o'i flaen ef; ac nad yw weddus iddynt ddyfod iw ŵydd ef mewn aflendid. Am hynny trwſir hwynt â ſancteiddrwydd, ac *anllygredigaeth yſpryd, yr hwn ſydd ger bron Duw yn werthfawr.* Gwneir iddynt na *chyffyrddont â dim aflan, ſel y byddo iddo ef ei derbyn hwynt*, a'u dyledſwyddau. ac onide ni bydd *cyfeilliach rhwng cyſiawnder ac anghyfiawnder.* Nid gwiw diſgwil i'r brenin nefol breſwylio mewn cut drewllyd o ddŷn ffiaidd.

1 Pet. 3 4
2 Cor. 6. 14, 17.

Pwyſfawr yw'r gwaſanaeth ſydd gan Dduw iw wneuthur ar y ddaiar, nad ellir ei gyflawni yn iawn ond gan rai ſanctaidd, megis datcan i bobl mor dda yw ef gan ei fod yn gwneuthur ei blant gyſtal. wrth fod *eu goleuni hwynt felly yn llewyrchu ger bron dynion, ſel y gwêler eu gweithredoedd da hwynt, gogoneddir eu Tâd yn y nefoedd.* Rhaid bod *cenedl ſanctaidd, a phobl briodol i Dduw ſel y mynegont ei rinweddau ef. Gan fod â'u ymarweddiad yn honeſt ym myſc dynion*, ſel y gallo'r gwrthwynebus *o herwydd y gweithredoedd da y welont ogoneddu Dnw* a throi atto ef. Pobl ſanctaidd piau harddu'r efengyl, a gaiff gymmaint o wrthwyneb, ſel

Math. 5. 16.
1 Pet. 2. 9. 12.

na

na thybier cabledd yn wîr, ac nas galwer Chriſtianogion yn ddynion *glythion ac yſwyr gwìn.*
2 Cor. 8. 23. purir aelodau a *chennadau ır eglwyſi i fod yn ogoniant Chriſt.* Tyſtion Duw ar y ddaiar yw ei weiſion ef, am hynny gwnaiff hwynt yn eirwir ym mhob peth. *llythr Chriſt* ydynt at y
1 Cor. 3. 3. bŷd wedi ei *yſcrifennu ag yſpryd y Duw byw.* Ynteu rheidiol yw ei gwneuthur hwynt yn dêg, ac yn ddiſrycheulyd, fel y darllenno pawb ewyllis Duw yn eu bucheddau hwynt, ac y cydnabyddont beth ſydd gymeradwy ganddo ef. A chan fod *yr Eglwys yn golofn y gwiri-*
1 Tim 3. 15. *oredd,* neddir oddiwrthi hi bôb garwder anwireddus, fel y byddo yn dablen eglur iw darllen gan bawb. Duwioldeb buchedd y prif Griſtianogion a ynnillodd gimmaint attynt. oddiwrth ffrwyth yr hên goed paradwyſaidd y cyfododd rhai ieuainc o'u hamgylch o'r un rhyw. Gan i Dduw roddi ym mhôb ffrwyth rinwedd hâd i amlhau ei rywogaeth, diau na ſydd ffrwyth duwioldeb yn anhil. Drwy weini-
Act. 11. 24. dogaeth *Barnabas ydoedd ŵr da, a chyflawn o'r yſpryd Glân, llawer a chwanegwyd ir Arglwydd.* Dylau holl leſtri tŷ Dduw ſod yn lân ac yn loiw, yn enwedig y cyfryw ac a fyddo i ddal ymborth ynddynt iw gyfrannu i eraill, megis pennau cynnulleidfaoedd a theuluoedd: rhag i galonnau pobl godi yn erbyn bwyd iachus ar
1 Sam. 2. 17. ddyſcl front, ac iddynt *ffieiddio offrwm yr Arglwydd,* o herwydd anwiredd y fawl a ſo'n gweini yn ei gylch.

Am hynny y difeia 'r Arglwydd ei weiſion, a thyn bob trawſt a brychewyn o'u llygaid hwynt, fel y gallont hwythau ganſod yn well i dynnu

dynnu brychau o lygaid eraill, a u cyfarwyddo yn y flordd i'r bywyd. Hefyd ni faddeu nêb iw elynion, ac ni weddia droſtynt hwy, na'i gyfeillion mewn môdd cymeradwy, onid y cyfiawn yn unig, a *llawer a ddichon ei daerweddi ef* tuag at wneuthur llês iddynt. Jag. 5. 16.

PEN. 27.

Ychwaneg ynghylch achoſion duwioldeb a'i grym yn y bŷd hwn, a'r oes hon.

Ordeiniodd Duw yn ei gariad, a'i gyfiawnder, a'i daoethineb na chaiff neb y nêf ar ol hyn, ond a ſancteiddier yma. Y mae cariad Duw tuag at y daioni pennaf, ſef ei ſanctеiddrwydd ei hun, yn peri iddo ddarparu dynion, ac angylion ſanctaidd, ar ei lûn ei hun, i gael rhan o'i hyfryd ogoniant ef. o'i gariad y canhiadodd ef heppil i Abraham, fel na fyddai ei gaethwas yn etifedd iddo, gan ddywedyd mai *un a ddeuai allan o'i ymyſcaroedd ef a fyddai ei etifedd, ac y byddai ei hâd ef fel ſêr y nefoedd.* Gen. 15. 3, 4, 5. A chymwys ir Arglwydd gael nid caethweiſion eſtronaidd, ond ei blant ei hun, (ſef y cyfryw ac a fyddo mewn môdd bendigedig gyfrannogion o'i dduwiol anian ef) i fwynhau ei feddiant dragwyddol ef. *Yr etholedigion yn ôl rhagwybodaeth Duw Tâd, trwy ſanctеiddiad yr yſpryd i ufudd-dod, y rhai a adgenhedlodd ef i obaith bywiol trwy adgyfodiad Jeſu Criſt, a gaiff yr etifediaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflannedig, ac ynghadw yn y nefoedd iddynt.* 1 Pet. 1. 2, 3, 4.

Mae cyfiawnder yn goſyn i'r neb a d'iſgwilio 'r cyflog mawr wneuthur y gwaith daionus

am

am yr hwn yr addewir ef. Ar ben eithaf y rhedfa y gofodwyd y gyngwyſtl a roddir ir hwn a ymegnio yn ŵrol i gadw, ac i fyned ym mlaen yn y *ffordd gyfyng* drwy bob rhwyſtr. Wrth lewyrch y pentewyn hwn y gwnaeth y cenhedloedd, na bai ffordd i deml anrhydedd, onid yn unig drwy deml rhinwedd. ni addawodd Chriſt roddi *coron y bywyd* ond ir rhai a fyddo *ffyddlon hyd angau.* Nid teilwng nêb i fwytta ffrwyth paradwys, ond a lafurio drwy gariad rafol. ac ni chaiff ond *yr hwn a orchfygo fwytta o'r Manna cuddiedig.* Nid y llyrfion maſweddaidd, ond y rhai poenus yngwaith ffydd, a gorfodawg ym mhôb profedigaeth, a gant y gorphwyſtra nefol, ac *a eiſteddant gydâ Chriſt ar ei orſeddfainc, megis y gorchfygodd yntef, ac yr eiſteddodd gyd â'i Dâd yn ei orſeddfainc ef.* Melchiſedec y brenin cyfiawn a ddwg allan y bara a'r gwîn i gyfarfod dilynwyr Abraham a orescynno y gelynion a tyfelant yn erbyn eu heneidiau. Canys *cyfiawn yw ger bron Duw dalu cyſtudd ir rhai a u cyſtuddio* hwynt: ac iddynt hwythau y *rhai a gyſtuddir am* dduwioldeb, *eſmwythdra yn ymddangoſiad yr A glwydd Ieſu o'r nêf gyd â'i angylion nerthol.*

Dutc. 2. 10, 17.

Dutc. 3.

1 Theſ. 1. 6, 7.

Y Duw doeth a gymwyſa ei bobl i'r man lle y byddo ef iw dwyn hwynt. Ni enir plant ir byd daiarol hwn yn y môdd naturiol, nes ffurfio ynddynt yr aelodau a'r rhannau y bont iw harferu yma. A dir yw y gweithia Duw foddion ſanctaidd yn y rhai y byddo ef ar fedr eu derbyn ir bŷd nefol: gan eu *gwneuthur yn gymwys i gael rhan o etifeddiaeth y ſaint yn y goleuni.* *Periff wybod golud ei ogoniant ar leſtri trugaredd,*

Col. 1. 12. Rhuf. 9. 23, 26.

redd, ſef y rhai a rag-baratodd efe i ogoniant, wrth eu galw yn y bŷd yma, a'u gwneuthur yn *feibion ir Duw byw*. Porth, cyntedd, a ſtafelloedd iſaf y nêf ſydd ar y daiar, tra bo 'r eglwys yma yn filwrus. a'r rheini yn unig a'r a ymdrecho drwy bôb cyfyngdra i fyned i mewn iddynt, ac a ymddygo yn weddus ynddynt drwy râs dros amſer, a gant eſcyn ir yſtafelloedd uchaf. i breſwylio mewn gogoniant dros byth. Y mae meiſtraid pwyllog yn profi ffyddlondeb a diwydrwydd dynion dros rai wythnoſau, cyn eu cyfleu yn eu teuluoedd dros flynyddoedd. A myn yr Arglwydd pennaf brofi pwy a fyddant *oruchwilwyr ffyddlon ar ychydig*, cyn eu gollwn am ben llawer: a gweled pa ddyſc, a dawn, a ſobrwydd a gymerant yn yſcolion cerydd, cyn rhoddi 'r etifeddiaeth fawr dan eu dwylo. Mal y byddo *ir ychydig enwau y rhai ni halogaſant eu dillad* llwydion yma, gael y *gwiſcoedd gwynion* yno; megis y bont deilwng. Ac nid yw 'r drefn hon heb achos, canys lle gorphwyſtra yw 'r nêf, ac ni ollyngir yno neb y caer blinder oddiwrtho. Anhyweth erchyll yw dynion anfucheddol, ac anhawdd cyttal â hwynt. Hynny barodd i'r prophwyd gwyno mor dôſt pan ddywedai, *gwae ef o'i fod yn preſwylio ym Meſech, ac yn cyſanneddu ym mhebyll Cedar, ac iw enaid ef mor hir drigo gyd â'r hwn oedd yn caſſau tangneddyf.*

Datc. 3. 4.

Pſal. 120. 5, 6.

O herwydd hynny ni ſynn yr Arglwydd i r drwg a'r da fôd ſyth ynghŷd, ac iw anwylyd ef yn oeſtadol fod *megis lili ym myſc y drain*, neu wenith ym mhlith yſcall; nac iw wŷn ti-

rion gyd-fucheſa â draenogion. Ni ddwg y llafurwr nefol iw yſcuboriau uchaf ond y puryd ffrwythlon, a gafodd gynhaiaf da, a thymheriad iawn, y modylau mawrion o'r efrau anffrwythlon, a'r chwyn gleiſion a gant boethi ynghŷd mewn rhyw lê arall yn ddigon pell, mal nas niweidiont mo'r rhai da mwy.

Yma y gwnaiff Duw naddu 'r meini bywiol iw gofod yn y deml brydferth frŷ, mal na chlywer yno ſŵn dyrnodiau, nac ocheneidiau, eithr ſain *Halelujah*.

Hefyd drwy râs y rhydd Duw allu ir Chriſtion i fwynhau gogoniant. Ni ddichon llygaid clwyfus oddef goleuni mawr, nac *yſpryd*-
Luc. 8. *ion drwg* oddef preſennoldeb Chriſt. Golwg y barnwr cyfiawn ſydd ddychrynllyd i rai dihir euog. Am hynny 'r iachâ yr Arglwydd olygon meddyliau ei etholedigion â'r eneiniad graſol, a chynefina hwynt â daioni yn y bŷd hwn, fel y byddont hyfryd ynddo yn ei wŷdd ef dros byth.

Ond yma ddarlleydd y mae yn rheidiol rhoddi attebion i rai amheuon a ddichon godi ynot ynghylch rhinwedd grâs yn ſancteiddio pobl yn y bŷd hwn. megis yn gyntaf, a ydyw 'r ſainct yn berffaith raſol heb ddim gweddillion pechod ynddynt yn y bywyd preſennol? Yn ail, a oes neb ryw rai yn ein dyddiau ni yn byw mor ddaionus ac y doſparthwyd o'r blaen yn y llyfran hwn?

Am y cyntaf, yſtyriwn fod gan bobl Dduw yma bêth o bôb graſau ac a fydd ganddynt yn y nêf, ond nad ydynt yn eu llawn nerth nes myned yno. Ordeiniodd Duw i bethau 'r ail-

crea-

creadigaeth megis i rai'r cyntaf gynnyddu drwy dyfiant. Cymerth Duw chwe diwrnod i wneuthur y bŷd gweledig hwn, er iddo allu ei gyflawni mewn mynydyn. Rhaid i'r eginin gael amser i gynnyddu yn dywysen, ac i'r plentyn i dyfu yn ŵr. Er bod gan fachgen yn ei febyd yr unrhyw aelodau corph, a chynneddfau enaid ac a fydd ynddo yn ei wroldeb, etto mwy a fydd eu nerth yn yr ugeinfed flwyddyn, nag yn y ddegfed o'i oed ef. *Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i hedyn bychan a dyfiff mewn amser yn bren mawr.* Math. 13. A goleuni'r cyfiawn fy'n *torri allan fel y wawr,* Esai. 58. 8. a orchfyga'r tywyllwch o fesur mynudyn a mynudyn nes iddi fyned yn ddydd goleu. A'r peth a dyfo fy'n myned ym mlaen tua ei gyflawn faintioli, er na ddaeth hyd atto yn gwbl. Cydnabyddai'r Apostol sanctaidd mai *mewn rhan yr ydoedd yn gwybod yma.* ac nad oedd ef *cufys wedi cyrhaeddyd* y peth a gai ef yn *adgyfodiad y meirw,* na'i *fod ef cufys wedi ei berffeithio.* 1 Cor. 13. 9. Phil. 3. 12.

Er hynny nid oes yma yn y gwir Grisțianogion bechodau mawrion yn eu cyflawn nerth, ond yn unig gweddillion candryll o honynt, fef pechodau llai, a elwir gwendid y Sainct. Y cyfryw yw chwantau oddifewn yn codi oddiwrth y rhan gnawdol, y rhai yw *deddf yr aelodau yn gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl, a'r gnawd yn chwenych yn erbyn yr yspryd.* Rhuf. 7. Gal. 5. Ond ni adewiff y grasol iddynt gynnyddu a thorri allan i weithredoedd ffiaidd, eithr cwynant rhagddynt wrth Dduw, a gwaeddant arno ef am gymmorth iw gorthrechu hwynt yn fuan: fel y gwna rhai brawychus

am ddwfft cyn gynted ac y gwelont dân yn dechreu ennyn lle ni ddylai fod. Pan yw'r Apoſtol yn cwyno ei drueni o ran gweddillion pechod, ac yn llefain am waredwr rhag *corph marwolaeth*, nid yw ef yn ſôn am fwrdwr, na lladrad, na godineb, na thwyll, oddiwrth y rhai yr oedd ef yn ddiangol, onid am drachwant yn unig; blîn oedd ganddo ef fod neb rhyw dueddiad yn ei aelodau ir pechod, a rhoddai warrog, a gwarchae ar y chwant anifeilaidd os edrychai dros y cae, cyn iddo dorri trwodd, a throſeddu yn anrheithiawl. Ni bydd yn y duwiol ddrwg feddyliau chwaith eyn amled a chyn gryfed ac yn y rhai diadgenedledig, o herwydd bod eu meddyliau hwynt ar bethau yſprydol, a chanddynt hyfrydwch ynddynt. Tra fo'r hâd nefol yn aml egino mewn dŷn, ni chaiff y chwyn llygredig gymmaint lle i godi, nac i gynnyddu ynddo ef.

Rhuf. 7. 8, 24.

Gwendid gwir Griſtion yw gwneuthur rhyw beth ar fai nas gŵyr ef moi fôd felly. Mewn anwybod y gorweddodd Jacob gydâ Leah, cyn iddo wneuthur cyfammod am dani. felly y cychwnodd Abimelec brenin Gerar gymeryd Sara yn wraig iddo, heb wybod ei bod hi yn berchen gŵr, eithr tybiodd mai chwaer Abraham oedd hi. Am hynny attaliodd Duw ef rhag ymhalogi, o herwydd mai camgymeriad oedd; ac mai *ym mherffeithrwydd ei galon* y gwnaethai'r brenin hynny. Llyma'r amlygir mal y gall perffeithrwydd calon a rhyw fâth ar amryfuſedd fod ynghŷd yn yr un gŵr. Ac ni hwyrach i ryw un cywyr o ran anghôf ddywedyd

Gen. 29. 23.

Gen. 20. 2, 6.

wedyd anwir, pan fo 'n tybied ei fod ar y gwîr.

Y brychau cymmyfcedig â gweithredoedd da y ffyddloniaid fy ddyffygion a'u trifthâ hwynt. *Ewyllyfio ydoedd barod* gan yr Apoftol, eithr *cwplau'r da* (mor gwraint ac y dymunai) *nid oedd yn medru.* Periff y peifwyn fy 'n gymmyfcedig a'u gwenith iw llygaid hwynt ddyfrhau, pan font yn nithio, ac yn holi eu gweithredoedd goreu. Gwelant nad ydynt yn caru Duw mor wrefog ac yr haeddai ei ddaioni ef er bod ynddynt gywyr gariad tuag atto ef. Ac er iddynt fwytta yn gyfreithlon, a rhoddi diolch difrifol i Dduw am eu llonni, etto ni hwyrach iddynt yn hynny o'u hanfodd roddi *tramgwydd iw brawd gwan.* Rhuf. 7. 18. Rhuf. 14.

Beiau y grafol fynychaf ydynt yn y pethau lleiaf, ac heb eu bwriadu. Rhyw eiriau anghyfleus a ddiangant oddiwrthynt weithiau yn fyrbwyll, neu ryw gyffelyb amryfufedd. Pan ddarfu ir Apoftol Paul wrthwynebu Pedr, ei fai ef oedd arfwydo arfer ei rydd-did efangylol, ac nid gwneuthur ffieidd-dra cnawdol. *Cyn dyfod rhai oddiwrth Jago efe a fwyttaodd gydâ'r cenhedloedd, ond wedi iddynt ddyfod efe a giliodd ac a'i neilltuodd ei hun oddiwrthynt, gan ofni y rhai oedd o'r enwaediad. A'r Jddewon eraill hefyd a gyd-ragrithiafant ag ef, yn gymaint ac y dygwyd Barnabas hefyd iw rhagrith hwy.* Lle y gwelwn nad oedd y bai o'r hwn yr argyoeddwyd y prif Griftianogion o'r enwaediad na meddwdod, na godineb, nac yfpail, nac eulunaddolieth, onid yn unig arfwydo arfer eu rhydd-did efangylol i gydfwyt- Ga'. 2. 11, 12, 13.

ta â Chriſtianogion cenhedlig yngŵydd eu gwladwyr credadwy ydoedd anghynefin â hynny, rhag eu digio hwy. Yn ninas Corinth cyfododd yr Jddewon gwrthwynebus yn erbyn yr Apoſtol, ac a'i dygaſant ef ir frawdle, ac er maint eu malais nid allent roddi dim iw erbyn ef, ond ei fod ef yn annog dynion i addoli Duw yn erbyn y ddeddf, fel y tybient hwy. a'r rheolwr cenhedlig wrth weled hynny a naccadd borthi eu drwg ewyllis hwy,

Act. 18. 13,14,15. gan ddywedyd, *pe buaſei gam neu ddrwg weithred o Jddewon, wrth reſwm myſi a gyd-ddygaſwn â chwi. eithr os y cweſtiwn ſydd am ymadrodd, ac enwau, a'r ddeddf ſydd yn eich plith chwi, ni fyddaſi farnwr am y pethau hyn.* A chwedi hynny er taered ocdd cyngor yr Jddewon yn ei holi ef, ac yn ceiſio ei euogfarnu ef, etto 'r ſcriſenyddion a ddywedaſant,

Act 23.9. *nid ydym ni yn cael dim drwg yn y dŷn hwn; eithr os yſpryd a lefarodd wrtho, neu Angel, nac ymryſonwn â Duw.* A'r brenin Agrippa, a Feſtus y rhaglaw wedi iddynt ſanwl chwilio yr achos am ba un y cyhuddid ef, a gydnabuant na wnaethei ef

Act. 26. 30, 31. *ddim yn haeddu angeu, na rhwymmau*; yr hyn ſy ddyledus i bechodau mawrion. Mal hyn wrth dyſtiolaeth Jddewon a chenhedloedd, cyhuddwyr a barnwyr. y mae'n eglur fod y Chriſtianogion y pryd hynny mor ddifeius, a'u gwendid cyn lleied, nad allau eu gelynion craffaf mo'i ganfod. Je nid ymſodlonent i roddi cennad iddynt eu hunain i amlhau y pechodau lleiaf, er maned fyddent: eithr gwilient arnynt eu hunain rhag meddwl, na dywedyd, na gwneuthur y peth

lleiaf

lleiaf allan o'i lê. A byddai arnynt ſwy arſwyd ewyllyſio yn ddrwg iw gelynion, nag a fyddai ar eraill rhag gorthrymmu a thwyllo eu cymydogion, mal y gwelir wrth eu gweddiau daionus dros y rhai a'u herlidient hwy. Ni fagent y pechod lleiaf rhag ei fyned yn fawr, ond llethent bob eyw drwg yn y cibin, cyn iddo dyfu yn ewinog, ac yn ormeſol. Gwaeddodd yr Apoſtol ar Dduw am gymmorth, pryd nad oedd ond rhyw chwant bychan, megis *draen* neu ſwmbwl *yn ei gnawd*, mwy nag y wnaethau pechaduriaid caled rhag *y trawſt*, neu waiwffon, ſef rhyw anwiredd anafus.

Anfynech y fyrth cywyr Griſtion ir pechodau gorthrwm ſy'n halogi'r bŷd, yn caledu'r galon, ac yn torri'r heddwch rhwng Duw a'r gydwybod. O holl blant Duw a grybwyll yr yſcrythyr am danynt, ni ddarllenir ond am ychydig o honynt a bechaſant felly. Ac os rhyw brofedigaeth anarferol a oddiwes y cyfryw a'i fachellu, ai fwrw i'r dom, digwydd hynny yn fyrr-bwyll, ac heb ei ragfwriadu. A chynted ac y delo atto ei hun, a chael hamdden i yſtyried y peth, edifarheiff, a throiff oddiwrtho ef. Tybir na wyddai Noah fod diod o waed y winwydden cyn gryfed gan i bobl o'r blaen fugno'r grawn ſuppiau yn unig, ac mai hynny gyd a'i wendid oddiwrth y diluw a roddes achlyſur i'r gwîn iw orchfygu ef. ond ni ddarllenir iddo feddwi ond unwaith, gwiliodd rhag y pechod hwnw byth gwedi. Dywedir fod aſcwrn a dorrer ac a gyfanner eilwaith, yn gadarnach yn y man lle y

clymmodd, nag mewn un man arall. ac felly y bydd y gwir Gristion edifeiriol yn gryfach i wrthsefyll profedigaeth ir pechod gorthrwm a'i briwo unwaith. Er i Bedr i ddianc o berigl daeru celwydd, a'i dyngu hefyd, etto cyn pen nemawr edifarhâodd, ac *wylodd yn chwerw-dost*. Llawer gwaith y cyffesfodd ef Grist o flaen tywysogion, wedi iddo unwaith ei wadu ef rhag ofn gweision. A dug lawer o erlid er mwyn profiesiu ei gydnabyddiaeth â'i iachawdwr, a dioddefodd farwolaeth dôst cyn y gwadai ef mwy. Er i Ddafydd dros drô bechu yn erchill, etto wedi ei argyoeddi o hynny, gwiliodd yn ddiwyd, a gweddiodd yn daer, ar i Dduw ei *attal ef oddiwrth bechodau rhyfygus, a'i lanhau oddiwrth yr anwiredd mawr*.

Pſal. 19. 13.

Nid yw gwendid y Saint yn y bywyd prefennol gyfryw ac a rwyſtra eu dedwddwch hwy. Canys bydd y dyledſwyddau a wnelont yn y môdd y gallont yn gymeradwy gan Dduw. Canhiadodd Christ ei ddeiſyfiad i'r hwn a ddywedodd tan wylofain, *yr wyſi yn credu, o Arglwydd cymmorth fy anghrediniaeth i*; ac iachaodd ei blentyn ef. Ymgleddodd yr Arglwydd Jonah er ei fod yn ſiomgar. Rhoes Dafydd lê i amheuon, a dywedodd wrth yr Arglwydd *yn ei ffrŵſt, fo'm bwriwyd allan o'th olwg. er hynny* (medd ef) *ti a wrandewaiſt lais fy ngweddiau pan lefais arnat*. Hyfryd gan yr Arglwydd addoliad y gwir Gristion mewn cilfach, er ei fod yn ryddfanus fel colomen; ac wrth y cyfryw y dywed, *dy lais ſy beraidd*. Mae'r eluſen a'r haelioni a wnelo Christianogion

Marc. 9. 24.

Pſal. 31. 22.

Can. Sol. 2. 14.

gion tuag at ddynion *yn arogl peraidd, yn aberth gymeradwy.* A chaiff y cywyr Griſtion ryw faint o ſiccrwydd yn ei gydwybod ei hun fod Duw drwy Griſt yn maddeu gwendid, ac yn fodlon i ddywydrwydd ei ufudd-dod ef. Tyſtiolaetha'r Apoſtol hynny yn enw'r Chriſtianogion yn ei amſer ef, gan ddywedyd, *Anwyliyd y mae genym hyder ar Dduw: A pha beth bynnag a ofynnom yr ydym yn ei dderbyn ganddo ef, oblegyd ein bod yn cadw ei orchymmynnion ef, ac yn gwneuthur y pethau ſy yn rhyngu bodd yn ei olwg ef.* Phil. 4. 18. 1 Joan. 3. 22.

Y rhai gwybodus a wnelont bechodau ffiaidd a lenwir ag euogrwydd, a *rhyw ddiſgwil ofnadwy am farnedigaeth.* Ond ni chuddia'r Arglwydd tirion mo lewyrch ei wyneb oddiwrth ei weiſion ffyddlon am rai pethau diffygiol yn eu gorchwylion hwynt. Eithr *fel y toſturia tâd wrth ei blant, y toſturia yntef wrth y rhai a'i hofnant ef: ac a'i harbed hwynt fel yr arbed gŵr ei fâb ſydd yn ei waſnaethu* yn ufudd, er ei fod yn egwan: gan fod yn dyner wrthynt, a *chofio mai llŵch ydynt.* Je yn dra-thrugarog yn y nèf efe a obrwya'r fath ufudd-dod ac y mae ei bobl yn ei roddi iddo ef ar y ddaiar. Am fwydo'r newynog, a diodi'r ſychedig, ac ymgleddu *brodyr lleiaf Chriſt* cant etifeddu *teyrnas.* Er iddynt fel Jacob gloſſi peth yn y bywyd hwn, etto gorchfygant, a chant fod yn Iſraeliaid, ſef *tywyſogion Duw.* Yn awr angeu derbynir hwy ir eglwys orfoleddus, mor dyner ac y creſawodd y Galatiaid yr Apoſtol, *eu profedigaeth yr hon oedd yn eu cnawd ni ddirmygir, eithr derbynir hwy megis angylion Duw.* Heb. 10. 27. Pſal. 103. 13. Mal. 3. 17. Mat. 25. Gal 4. 14.

Gan

Gan fod yr Arglwydd mor ddoeth a pheri
2 Cor. 4. 6. i *oleuni lewyrchu o dywyllwch*, meidr ddyſcu ei bobl i wneuthur y defnydd goreu ou beichiau; a pheri iw gwendid amſerol mewn rhyw fôdd eu tueddu hwynt at berffeithrwydd dragwyddol. Canys gweddillion eu pechodau au ceidw hwynt yn oſtyngedig, ac yn addfwyn. Rhag tra-dderchafu 'r Apoſtol y *rhoddwyd iddo y ſwmbwl yn y cnawd.* Ac am dderchafiad ei galon yr ymoſtyngodd Hezeciah. Yr
2 Cor. 12. 7. 2 Cron. 32. 26. yſprydol a gynghora, ac a adgweiria ei gymydog pechadurus *mewn yſpryd addfwynder, wrth ei yſtyried ei hun rhag ei demtio yntef.*
Gal. 6. 1.

A gwnaiff cymydogaeth erwin pechod i Griſtion hiracthu am fyned lle caiff lonyddwch, a chyflawn ſancteiddrwydd. Lle yr oedd y gyfraith i rwymo celen farw wyneb yn wyneb wrth y llofrudd byw, parai ſawr y naill ir llall gydnabod ffieiddied oedd y cam a wnaethai. A'r hyn o aelodau daiarol pechod, ſy 'nglŷn wrth y graſol yn y bywyd hwn, a'i gwnaiff hwynt yn flîn o'i frunti ef, ac i hiraethu am
2 Cor. 5. 4. gael eu *harwiſco â gogoniant, fel y llyngcer yr hyn ſydd farwol gan fywyd.* Caethiwed llygredigaeth a bair i'r rhai ſydd *ganddynt flaen*
Rhuf. 8. 21, 22. *ffrwyth yr yſpryd ocheneidio ynddynt eu hunain, gan ddiſgwil y mabwſiad, ſef prynedigaeth eu cyrph.*

Taerni trachwant a phrofedigaeth wrth ofod ar yr hwn a garo ei enaid, a wnaiff iddo yn ſynychach alw ar Dduw am gymmorth. *Gweddiodd yr Apoſtol deirgwaith rhag cenad Satan.* Yr
2 Cor. 12. hyn a geiſiai ei fygu ef a wnai iddo dderchafu ei lef at ei Dâd yn uwch.

Rhydd

Rhydd y duwiol foliant ir Arglwydd am gynal ei râs ynddynt, er i lygredigaethau a gwrthwyneb y bŷd wneuthur ymgyrch arnynt cyn ſynyched. canys amlygir a *pherffeithir nerth Duw yn eu gwendid hwy.* O herwydd ordinhâd Duw y mae dynan gwan wrth ei gyfarwyddyd a'i ddeall yn meiſtroli anifeiliaid cryfion; gan farchogaeth y march a'r elephant, a doſi'r llewod a'r eirth. A phan yw ychydig râs yn gallu gorchfygu cymmaint o drachwantau, a rhwyſtrau cryfion oddifewn ac oddiallan, amlwg yw rhinwedd Duw ynddo. yr hwn er diwedd a *orphen y gwaith da* yn y nêſ, *a ddechreuodd'ef* yn ei bobl ar y ddaiar, fel y gorſoleddont bŷth ynddo ef. 2 Cor. 12. 9. Phil. 1. 6.

Am yr ail cweſtiwn a grybwyllwyd ynghylch buchedd pobl Griſtianogol yr oes hon, y mae i ni ormod achos i ddywedyd fel un gynt, *naill ai nid hon mo'r efengyl, ai nid ydym ni Griſtianogion*; oherwydd bod bywoliaeth pobl yn gyffredin mor groes i air Duw, a'r gorchymmynion union a broffeſſant, ac ir eſamplau duwiol a ddarllenant. Llwyr achos ſydd i eglwys Dduw alaru y dydd hwn am farnedigaeth ryfedd, ſef ei bod mor ammhlantadwy, a'i bronnau mor llawn. Côſp Ephraim gynt oedd *cróth yn erthylu, a bronnau hyſpion.* Ond bod Sion mor flith, ac heb fagu nemawr o blant grafol tebyg iw phriod nefol, bod llaeth y gair yn aml, a'r cynnydd mewn daioni yn brin, a ddichon beri ſyndod a gofid ym mhob calon a'i yſtyrio. Perhôn a chyfodi o'r Apoſtolion ſanctaidd o ſeirw i dramwy drwy wledydd crêd yn awr, fel y gwnaethont tra 'r oeddent yn y corph, rhyſe-

Hoſ. 9. 14.

ddent

ddent yn ddirfawr weled y rhagor ſydd rhwng Chriſtianogion yr oes hon, a'r rhai a adawſant hwy ar y ddaiar, pan ymadawſant hwy â'r byd. A hawdd y dirnadent nad yw y rhan fwyaf o'r tô preſenol gwîd o'r *hâd a heuaſant hwy yn y mâes*, ond *efrau o hauad y gelyn.* Chwîth fyddai iddynt weled godineb wedi cymeryd lle diweirdeb, a malais a thwyll yn awr mor gyffredin ac ydoedd cariad, a ſimlrwydd ym myſc y rhai gynt a ymhonnent o fod yn aelodau i Griſt.

Er hynny y mae ymbell rai yn ein gwledydd a'n dyddiau ni yn rhodio o flaen Duw mewn uniondeb calon. er i'r rhan fwyaf hoffi 'r drwg, y mae eraill mewn peth meſur yn ei rwyſtro, yn ei geryddu, ac yn ei gôſpi: A thrwy eiriau a gweithredoedd duwiol yn ynnill rhai at rinwedd dda, i fod yn well ganddynt râs Duw na mwyniant pechod. a phe bai gymwys gellid bennodi'r cyfryw yn o-deneuon. Ond rhaid iddynt roi 'r goreu i'r prif Griſtianogion y fuont dra-rhagorol mewn ſancteiddrwydd, a chanddynt rai achoſion enwedigol iw hannog i hynny. Eſampl Mâb Duw, *yr hwn nid adnabu bechod*, ac a *gyſlawnodd bôb cyſiawnder*, a'i ragflaenor duwiol, yr hwn ydoedd *fwy na phrophwyd*, a ennynai Zêl ynddynt. Gwelſant hwy y patrymmau nefol yr ydym ni yn unig yn clywed ſôn am danynt. A pha orau fyddo'r copi o flaen llygaid rhai, goreu y dyſcant.

Newydd-dra 'r eſengyl ddaionus, yn enwedig i'r cenhedloedd truain a fuaſent mewn hîr amryfuſedd, a'i bywiogodd hwynt mewn pôb rhyw ufudd-dod a diolchgarwch. pryd y daeth agos holl ddinas Antiochia ynghŷd i wrando

gair

gair Duw, ac i Paul a Barnabas ſynegi i'r Juddewon gwrthwynebus y troent hwy at y cenhedloedd o herwydd i'r Arglwydd ordeinio Chriſt *yn iechydwriaeth hyd eithaf y ddaiar.* *Y cenhedloedd pan glywſant a fu lawen ganddynt, ac a ogoneddaſant air yr Arglwydd,* gan roddi ewyllyſcar ufudd-dod iddo. Act. 13. 47, 48.

Cymerir mwy gofal rhag torri cyfreithiau newyddion na rhai hên. Gweiſion newyddion a fyddant dros drô yn ufuddach nag eraill.

A thywalltiad ryfeddol o yſpryd Duw arnynt yn y dyddiau hynny a'i gwnai hwynt yn odidog mewn grafau, a donniau. Cyrchaſant yn egniol tua thragwyddoldeb, wrth ir awel nefol lenwi eu hwyliau hwynt. Yr oeddent yn cael y fath weledigaethau yn yr yſpryd, ac a barau hiraeth arnynt am fyned at Dduw, a gofal am ymburo iddo ef. Wedi cipio 'r Apoſtol ir trydydd nêf, nid oedd ryfedd iddo ddiflafu 'r ddaiar, ac iw ymarweddiad ef byth gwedi dueddu tuag i fynu.

Hefyd yr oedd y brif eglwys yn fynech dan erlidigaethau trymion; ac y mae 'n briodol i gyſtudd drwy fendith arno gadarnhau ac arferu amryw rafau, megis marweiddiad pechod, goſtyngeiddrwydd, gwreſogrwydd mewn gweddi, chwant i'r nêf, a chymundeb â Duw.

Ac nid trwy gleddyf na bŵa yr oedd Chriſtianogaeth i orchfygu gwrthyneb y bŷd anghredadwy y pryd hynny, onid trwy yſpryd Duw, a grym duwioldeb. Am hynny rhaid ydoedd i râs fod yn grŷf iawn i wneuthur cymaint o wafanaeth.

Ond yn awr gan nad oes nemawr yn rhoddi efamplau da iw dilyn, a bod yr efengyl wedi hene-

heneiddio, a doniau rhyfeddol yr yſpryd i wneuthur gwrthiau, a'r gweledigaethau mewn cymaint meſur wedi peidio, a chymmaint o waith troedigaeth y cenhedloedd wedi ei gyflawni, a llawnder fydol wedi balchio cymmaint, nid all amgen na bo duwioldeb efangylol wedi treio llawer wrth fel y bu. Ac y mae pobl weithian wedi myned yn ffyrnicach ar bôb pêth nag oeddent yn yr oeſoedd gynt, yn enwedig ar y drwg, ac yn fedruſach i wneuthur cam ddeſnydd o bethau union, megis o wybodaeth i dwyllo, o gyfraith i orthrymmu, ac o'r efengil iw hannog i bechu drwy ryfygu am drugaredd. A neſſâodd yr amſeroedd enbyd yn y dyddiau diweddaf a ragfynegwyd, pryd y bydd dynion yn *feilchion, yn annuwiol,* er bod ganddynt wâg *rîth duwioldeb.* Ac os yw amſer y bŷd agoſ i ddarfod, a chwedi rhedeg hyd at y gwaddod iſaf (fel y tybia rhai) nid rhyfedd ei fod wedi egru a chwerwi cymmaint. Canys tebyg y gwywa daioni, ac y crina'r bŷd cyn lloſci pôb pêth; ac mai'r drygioni erchyllaf a bryſſura'r farn fawr: a dirmygu llais peraidd yr efangylwyr a bariff glywed udcorn dychrynllyd y Barnwr. Daw yr Ecclips du ar y bŷd, pan fo ei anwiredd yn ei lawn lloned. Ni ddiſethwyd y ddaiar â'r diluw, na Sodom a Gomorrah â thân, ond pan oedd rhinwedd dda yn brin, a phôb drygioni yn gyffredin ym myſc eu trigolion. Ac *megis y bu yn nyddiau Noah a Lot, felly y bydd yn y dydd y datcuddir mâb y dŷn..*

2 Tim. 3. 1, 2.

Luc. 17. 26, 28, 30.

Ond beth bynnag yw'r achos fod cymmaint yn ein myſc ni yn anfucheddol cais di ddarlleydd,

ydd, dy ddiwygio dy hun ac eraill, yn ol y gallu a ganiatto Duw i ti. Mi wn nad oes neb y dydd hwn yn dymuno grâs i waſanaethu Duw, ac yn cael ei naccâu; mi adwaenaf rai a'i ceiſiodd, ac ai cafodd. Nid yw ffynnon iechydwriaeth gloiedig ir naill mwy nag ir llall a ſychedo am deni. Dir yw fod pobl Dduw y pryd hyn yn cael ſylwedd yr unrhyw raſau. ac y gafodd y Chriſtianogion cyntaf, er bod rhagoriaeth rhwng eu doniau. Yr un yw daioni Duw i ddynion pa un bynnag a fo 'r moddion drwy ba rai y gweithier ef, a'i arferol, ai rhyfeddol. Y mae 'r bara beunyddiol a gawn ni o'r ddaiar drwy ſendith Dduw ar ein llafur, yn torri ein newyn ni, ac yn adferu ein nerth ni yn gyſtal ac y gwnai 'r Manna a ddeſcynnai o'r wybr ir Iſraeliaid. Yr un llaw ſydd yn ei roddi bob un o'r ddwy ffordd. A thra fo Duw yn tueddu 'r galon at dduwioldeb drwy gyngor yſcrythyrol, myfyrdod ddifrifol, haelioni, a cherydd, yr un Sancteiddrwydd a fydd ynddi, a phe gelwid dŷn drwy lais o'r nêf, neu ymddangoſiad Angel. Ceſclir cywyr Griſtianogion yr oes hon *i ddinas y Duw byw y Jeruſalem nefol, at yſprydoedd y cyfiawn o'r oeſoedd gynt, ac at Jeſu cyfryngwr y Teſtament newydd.* A chan fod Duw yn darparu eu dwyn ir un neſoedd a nhwythau, gweithia ynddynt yr un fath ffoddion tra font ar y ddaiar, ac ydoedd yn y lleill. A'r anghrefyddoldeb cyffredinol a wnaiſſ ir ychydig o rai duwiol ymegnio at ddaioni yn lewach, gan wybod mai agoſaf yw 'r barnwr pa amſaf a fyddo 'r drwgweithredwyr. Heb. 12. 22. 23.

PEN.

PEN. 28.

Cyfarwyddyd iw arfer fel y delo rhai i allu byw yn ddiwiol.

Pwy bynnag a ewyllysio fucheddu mor rasol ac y gweddai ir efengil, dalied sylw ar y fath hyfforddiadau ac a galyn. Gwelir beunydd mor rheidiol a llesol yw arfer pwyll a chynorthwyau i bôb gwaith pwys-fawr, yn enwedig lle bo rhwystrau yn ei gylch. Un go-wan wrth gyfarwyddyd a pheiriannau, a ddichon wneuthur pethau nad allo 'r cryfaf hebddynt. A'r hwn a fynno 'r maes oddiar elynion ei enaid, a ddylai fedru iawn drîn arfau ei filwriaeth ysprydol, megis myfyrdod, gweddi, diwydrwydd, a moddion eraill.

Meddwl am Dduw a charedigrwydd ei feistr a gynhaliodd Joseph rhag pechu yda'i feistres, pan geisiodd hi ei ddenu ef i hynny. Yr hwn yn ddyladwy a ystyrio ddaioni Duw tuag atto ef, ac anfeidroldeb ei bresenoldeb ef, a arswyda bechu yn erbyn ei Dâd nefol, a'i Farnwr cyfiawn, ac a wilia ar rodio wrth ei fôdd ef. Meddwl dŷn sydd yn ei droi ef oddiwrth y naill bêth, ac yn ei dueddu ef at y llall, ac yn ei gyfarwyddo iw wneuthur. Yr enaid edifeiriol wrth synech ystyried y cywilidd, a'r golled, a'r gofid a deimlodd ei gydwybod ef oddiwrth ei hyntiau pechadurus, a fydd gosalus iw gochelyd ar bôb achlysur, ac i foddhau ei waredwr a'i diddanodd ef. Y gwiail a olosgwyd gan angerdd digofaint a blygant, ac a uniownant y ffordd a fynno eu gwneuthurwr.

Ac

Ac nid digon feddwl weithiau am bethau yſprydol ar gip, ond rhaid eu goſod i wreiddio, ac i dyfu ynom ni. Nî bydd nêb y cyfryw bren iraidd ac a *rydd ei ffrwyth yn ei brŷd*, ond yr hwn a *fyfyrio ynghyfraith yr Arglwydd* Pſal. 1. 3. *dŷdd a nôs*, ac nid ymbell fynydyn yn unig. Ni cheir nerth oddiwrth fwyd oddieithr iddo drigo gyda ni, ac i gylla ac afu iachus gymeryd amſer iw droi yn waed ac yn gynhalieth i'r corph oll. Ac ni chryſheir yr enaid gan y gair heb ei gadw ynddo, a chael amſer i weithio arno. Rhaid ir ddaiar wrth dymmor hâf, a hîr gynheſrwydd cyn y dycco ffrwyth. ni waſanaetha genddi rai oriau, neu ddyddiau, eithr myn ſiſoedd o frwdaniaeth cyn yr addfedo ei chynnyrch: ac oni thwmnir y galon ddaiarol yn ddyſal â myfyrdod nefol, ni bydd ei *ffrwyth i* Pſal. 39. *ſanctteiddrwydd*. Tra yr oedd y prophwyd yn 3. *myfyrio yr ennynnodd tân* Zèl ynddo. Am hynny y cynghorodd Moſes ir Iſraeliaid *feddwl yn* Deut. 32. *eu calonnau am yr holl eiriau a dyſtiolaethodd ef* 46. *wrthynt, fel yr edrychent am eu gwneuthur*. O herwydd cam-dŷb ac anghôf am Dduw a gwirionedd y gwneir y pechod, ond wrth iawn bwyll y dywygir peth. Yr hyn a bair ir Arglwydd rybuddio yr anwiriaid, gan ddywedyd, *deellwch hyn y rhai ydych yn anghoſio Duw* Pſal. 50. *rhag i mi eich rhwygo*. mae rheſwm hollhawl i 22. annog pobl i waſanaethu eu gwneuthurwr, a'u cynhaliwr, a'u prynwr, a pha fwyaf a yſtyriom ni yn ei gylch, ewyllyſcaraf a fyddwn i ddduwioldeb, yn enwedig wrth feddwl am y gwobr tragwyddol a dderbyn pawb yn ol eu gwaith yn y bywyd hwn. Byddwn dduwiol yn

Tit 2.13 *y bŷd ſydd yr awrhon wrth ddiſgwil am y gobaith gwynfydedig.* Cariad y Coloſſiaid a weithiai
Col. 1. 4, 5. tuag at yr holl Sainct *er mwyn y gobaith a roddwyd i gadw iddynt yn y nefoedd.* Cynghora Solomon ŵr ieuanc i ymattal rhag rhodio yngolwg ei lygaid wrth *wybod y geilw Duw ef ir farn,*
Preg. 11. 8, 9. ac wrth *goſio dyddiau tywyllwch a fyddant lawer.* Eſmwyth yw meddylied am Dduw, ath gyſlwr dy hun yn dy waith ac yn dy wely, nac eſceuluſa'r peth ſydd mor hawdd, a lleſol. Y gwynt, a chwtha lle y mynno, a dry olwynion melin (ond ei gollwn iddo) tuag at gymwyſo'r ŷd i wneuthur bara corphorol: ac awel y meddwl graſol a gynhyrfer gan yſpryd Duw, a rydd holl alluoedd dŷn ar waith tuag geiſio'r hyn a berthyn i fywyd tragwyddol.

Arfera ffydd a ſanctaidd fyddi. Canys trêch ŷw ffydd na phôb profedigaeth. Hi yw'r *orucha-ſiaeth ſydd yn gorchfygu'r bŷd.* Creda'r peth a fu, ſef gwaith Duw yn creu ac yn prynu dynol ryw, a'r cariad a ddengis ef yn hynny iti yn neilltuol. Y fuchedd Sanctaidd yr oedd yr Apoſtol yn ei arwain *yn y cnawd, ei fyw*
Gal. 2. 20. *yr oedd trwy ffydd mâb Duw yr hwn a'i carodd ef, ac a'i dodes ei hun droſto ef.* *Pwy yw'r*
1 Joan. 5 5, 6. *hwn ſydd yn gorchfygu'r bŷd onid yr hwn ſydd yn credu mai Jeſu yw Mâb Duw? yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed,* i lanhau, ac i brynu ei etholedigion. Crêd a dilyn yr eſamplau
Jag. 5. 10. da gynt. *Cymer y prophwydi yn ſiampl o ddioddef blinder,* ac o hir ymaros, ac o bôb rhinwedd arall. *clywaiſt am ammynedd Job,* a pherffeithrwydd Noah, nid yw anhaws iti fyw yn raſol nag ydoedd iddynt hwythau. Crêd y peth

ſydd,

ſydd, ſef dy ſod yn *gyfaill* anwyl gan Griſt, os *gwnei pa bethau bynnag y mae ef yn eu gorchymyn iti.* Joan. 15. 14.
Crèd y pethau a ſydd, ſef y daioni adroddedig trwy addewidion cywyr. Addawodd Duw râs iw blant, a'u gwneuthur yn *gyfrannogion o'r duwiol anian.* 2 Pet. 1. 4.
Pan ſo gofalon bŷd yn dy aneſmwytho di, gorchfyga hwynt drwy hyderu ar ragluniaeth, a gair Duw. *Canys efe a ddywedodd ni'th roddaf di i fynu, ac ni'th lwyr adawaf chwaith, ſel y galloch ddywedyd yn hŷ, yr Arglwydd ſydd gymmorth i mi, nid ofnaf beth a wnel dŷn i mi.* Heb. 13. 5, 6.
Pan fyddech yn dael cam gan ddynion, ac i'r briw ddechreu llidio, goſtwng y chŵydd drwy eli'r Apoſtol, mal y mae yn dy gyfarwyddo gan ddywedyd, *nac ymddielwch rai anwyl, canys y mae'n ſcrifennedig, i mi y mae dial, myfi a dalaf medd yr Arglwydd.* Rhuf. 12. 19.
Efe a *ddwg allan dy gyfiawnder ſel y goleuni,* nas gallo malais nêb ei gymylu. Pſal. 37. 6.
Pa driſtwch bynnag a geiſio dy drymhau tra ſych yn ofni Duw, ymgynal â gair Chriſt a ddywed, *Gwyn eu byd y rhai ſydd yn galaru, canys hwy a ddiddenir.* Math. 5. 4.
A chan ſod Duw yn addaw *preſwylio yn ei bobl a rhodio yn eu myſc, na chyffwrdd â dim aflan,* eithr addurna dy enaid iw dderbyn ef yn weddus. 2 Cor. 6. 16, 17.
Ac os oes gennit hyder y cei fyned iw ogoniant ef, ceiſi fyned yn gyffelyb iddo ef yn y bŷd hwn. *Canys y mae pôb un y ſydd â'r gobaith hwn ynddo, yn ei buro ei hun megis ac y mae yntef yn bur.* 1 Joan. 3. 3.
crêd y gôſp a ddigwydd ir anwiriaid yn ol bwgythion Duw, ac o byddi *doeth* tydi a *ragweli y drwg, ac a gili.* Dih. 14. 6.
Gwelir llawer yn ymatral rhag lledrad a mwrdwr wrth ofni y gôſp ddynol a gan-

lyn y cyfryw ddrygau. Mwy o rinwedd a ddichon fod mewn ofn o benyd tragwyddol i attal pobl rhag pob anwiredd: oera 'r ſerch i bechod wrth weled haccred yw 'r golwg ar ei ffrwyth yn wynebau 'r meirw.

Taer-weddia beunydd ar Dduw am roddi yſpryd ei râs iti, ac nad *arweinier di i brofedigaeth.* Gweddîai Dafydd ar yr Arglwydd am ei gadw rhag pechu. Meddai ef, *Arglwydd*
Pſal. 141. 1,3,4. *clyw fy llais, goſod gadwriaeth o flaen fy ngenau, cadw ddrws fy ngwefuſau. Na oſtwng* (ſef na ollwng) *fy nghalon at ddim drwg, i fwriadu gweithredoedd drygioni gyda gwyr n weithredant anwiredd.* A thyſtiolaethiff i anrhydedd ei waredwr iddo ef gael atteb rhwydd iw weddiau, gan ddywedyd wrth Dduw, *y dydd y*
Pſal. 138. 3. *llefais i'm gwrandewaiſt, ac a'm cadarnheaiſt â nerth yn fy enaid.* Pan waeddodd yr Apoſtol
2 Cor. 12. rhag *cennad Satan*, cafodd atteb cyſſurus y *byddai grâs Duw yn ddigonol iddo ef.* Diogelach rhag ſyrthio i bechod yw 'r rhai goſtyngedig ar eu gliniau, na 'r rhai ſythion penuchel. Yr hwn tydd deimladwy o fod arno *eiſiau doethineb* (i fedru byw yn dduwiol a chyraedd y gaffaeliad oreu, ſef yr un nefol) *go-*
Jag. 1. 5. *fynned gan Dduw yr hwn ſydd yn rhoi yn haelionus i bawb, ac heb ddannod, a hi a roddir iddo ef.* Rhwyddach yw 'r Arglwydd i roddi 'r yſpryd i'r enaid gwllyſcar, nag un tâd naturiol i roddi bwyd iw blentyn newynllyd. Medd ein Achubwr wrth bobl, *os bara a ofyn Mâb*
Luc. 11. 11, 13. *i un o honoch chwi ſy dâd, a ddyry efe gareg iddo? os chwychwi gan hynny a fedrwch roddi rhoddion da ich plant chwi, pa faint mwy y*

rhydd

rhydd eich Tâd o'r nêf yr yſpryd Glân i'r rhai a ofynno ganddo? Ac eſe pan ei derbynier a *gynnorthwya wendid* plant Duw, ac ai *harwen* hwynt yn ffordd y bywyd. Rhuf. 8. 13.

Bodlona i gymeryd poen i orchfygu pechod a'i brofedigaethau, a bydd ddiwyd i wneuthur pob daioni yn ol dy allu. Rhaid llafurio yn yſtig i gynnill attom ffrwyth y ddaiar, ac i ddadwreiddio'r dryſni, a'r chwyn ſy chwannog i godi o honi. gyda gwlîth y nefoedd rhaid wrth ddefnynnau o chwŷs y corph i beri i'r maes ffrwythloni. Ac ni wafanaetha i ni dybied am natur dŷn ſyddo wedi ei llygru â pechodau ffiaidd y daw hi yn ddiboen i ddwyn ffrwyth da. Am hynny y perir ini *weithio allan ein iechydwriaeth drwy ofn.* Gorſydd *gweithio* heb ddiogi, ac yn frawychus hefyd am ein bywyd tragwyddol. Goſynnir genym ni *roddi cwbl ddiwydrwydd i chwanegu at ein ffydd rinwedd.* Duw ſydd yn rhoddi'r gallu i bôb da, ond rhaid ini wregyſu ein lwynau iw arferu ef yn ffyddlon, ac yn ddifewid. Nyni ſydd i *farweiddio gweithredoedd y cnawd trwy'r yſpryd* a rydd y Gorucha: ac i *ail-ennyn y dawn* a ſyddo oddiwrth Dduw ynom ni. Phil. 2. 12. 2 Pet. 1. 5. Rhuf. 8. 13. 2 Tim. 1. 6.

Rhag nwyf pechadurus coſpa a daroſtwng dy gorph drwy ympryd, a llafur. Dioddefiff y clâf chwyſu a gwaedu er cael gwared o ryw afiechyd niweidiol i'r bywyd preſennol: ac nid llai dioddefgarwch y Chriſtion er mwyn iechyd bythol. Gwrthododd y Sainct gynt feithriniad foethus iw cyrph rhag halogi eu heneidiau: a chan wrthod bwyd brenhinol er ei gynnig iddynt yn daer, dewiſaſant ffâ a dwfr. A Dan. 1. 8, 12.

threulient fwy o olew yn y lamp i weled gw-neuthur peth wrtho, yn enwedig tuag at wa-sanaeth Duw, nag o wîn yn y phiol iw llonni eu hunain. Canys os gwreſogir y cnawd or-mod anufuddha i reſwm a grâs, ac fel march porthianus bwriff ei farchogwr i lawr, ond dir-weſt a diwydrwydd a'i doſa. Drwg yw 'r eſ-cus am odîneb ddywedyd fod *y cnawd yn wan*, pan fydder yn ei gadw yn grŷf. A thra phor-ther ei falchder â gwchder anweddaidd, of-er yw ymhonni o oſtyngeiddrwydd. Y modd-ion difrifol a arferau 'r prif Griſtianogion tu-ag at ymſancteiddio, au gwnaethant i ragori cymmaint ar yr oes hon ſydd dynerach wrth y cnawd. Aml fyddau dagrau edifeiriol ar eu gryddiau hwy, amlach yw gwallt goſod a lliwiau peintiedig ar wynebau pobl yn ein dy-ddiau ni. Y pryd hynny glynent mor hwyr
Act. 20. wrth ordinhadau Duw, ac y wneir yn awr wrth faſwedd. Yr hwn a ymgadarnhao i ddi-oddef peth caledi er cyſtwyo ei drachwantau, a'u gwanhychu drwy naccau eu porthi, ac i fod yn ddiwyd yn y da tuag at Dduw, a dŷn, a gaiff weled tycciant ſendigedig ar ei alwedi-gaeth Griſtianogol.

Pwy ond y diwyd ſy 'n myned yn yſ-colhaig, neu yn gelfyddwr, neu yn hwſ-mon cywraint? ac nid aiff neb yn Griſtion da ond a ymgynefino ag arferion duwiol yn oe-ſtadol. Am hynny y goſynnir ganddo *lafurio* fel hwſmon, a dioddef *ymdrech* fel milwr, ac ymegnio, a bod yn *dymerus* fel rhedegwr. Rha-id ceibio at y mwŷn gwerthfawr o gyſſur yſ-prydol drwy 'r rhwyſtr galettaf: a dal y llaw

a'r

a'r llygad *ar yr aradr* yn ofalus, o mynnir fyned i *deyrnas Ddûw*, ac onide anrheithir y gwaith, a malcir y fuchedd. *Enaid y diog ni chaiff ddim, ond enaid y diwyd* (mewn dyledfwyddau grafol) *a wneir yn frâs. Goddef gyftudd megis milwr da i Jefu Grift.* Gorfydd i filwr yn fynech ymfodloni i fod mewn peryglon a gwiliadwriaethau, a phrinder, ac oerni, a briwiau, cyn cael y fuddugoliaeth. Ac o mynni ynnill y gamp yn yr yrfa efangylol cynhyrfa dy holl allu yfprydol a corphorol, ac ymgadw ym mhôb pêth oddiwrth bôb mafwedd a'th wanhycho, ac oddiwrth bôb gormodedd ath drymhao, fel y caffech afael ar y faeler, ac y *deröyniech y goron anllygredig.* Cynhyrfiad a gwaith fy fuddiol ir bywyd hwn a'r llall hefyd. Y dwfr rhedegog fy loiwaf, a'r awyr wyntog fy iachaf, a'r Chriftion bywiog fydd yfprydolaf. Nid all neb gerdded dwy ffordd gwrthwynebus iw gilidd ar unwaith. yr hwn a fyddo yn myned rhagddo yn egniol mewn daioni nid aiff yn ôl i'r drwg.

Luc. 9. 62. Dih. 13. 4. 2 Tim. 3. 1 Cor. 9. 24, 25.

Gochel bôb achlyfur pechod. Wrth arfer pethau cyfreithlon, bydd wiliadwrus rhag i ormodedd dy faglu. *I rydd-did y gelwir* Chriftion, *ond rhaid iddo wilied rhag arferu y rhyddid yn achlyfur i'r cnawd.* Os wyt mewn perigl o'th lithio i feddwdod, *nac edrych ar y gwin pan fyddo côch, pan ddangofo ei liw yn y cwppan.* Os i odineb, trô ymmaith oddiwrth olugon anllad: ac nac ymgymdeithafa â chyfeilliach ddrwg, y fydd yn *llithio trwy chwantau'r cnawd, a thrythyllwch.* Meidr y cythrael chwythu 'r tân uffernol o'r cynnyd crinion ir coed îr, gan gei-

Gal. 5. 13. Dih. 23. 31. 2 Pet. 2. 18.

ſio llygru y rhai da drwy y rhai drwg. Yr hwn a gymero ofal am iechyd ei enaid, ymgadwed ym mhellaf ac a allo oddiwrth y cyfryw ac ſydd gleiſion o haint anwiredd. Yn ſiccr lle bo rhwymedigaeth anwahanol, megis perthynas naturiol plant iw rhieni, neu ryw anghenrhaid cyfreithlon arall yn cadw dŷn graſol ym myſc rhai drwg, gall ddiſgwil nerth oddi-uchod iw gynnal mewn uniondeb ynghanol troſeddwyr, fel y cafodd Noah ac eraill: ond gocheled ymgymyſc â nhw llê ni byddo'r fath achoſion yn ei alw.

Rhwyſtra ddechreuad pechod. Pan glywech ddeiſyfiad afreolus yn codi ynot, brawycha, a gweddia, a dyro dy frŷd ar ei lâdd ef cyn iddo ymgadarnhau mewn gweithrediadau atcas. Hawdd i wendid dynnu eginyn derwen o'r gwraidd cyn gynted ac y torro trwy'r ddaiar. Ymwrando â thymer dy enaid beunydd, mal na byddo pechod ond bychan, nac oddiar un dydd oed cyn iti ymaflyd ag ef, a'i roddi i lawr. Llawer tân wrth ei ganfod mewn prŷd a ddiffoddwyd yn ddiboen, yr hwn ped eſceuluſaſid a gynnyddaſai i ddifrodi dinas. Am hynny Job wedi iw blant ef gydwledda a *gyfodai yn foreu, ac a'i ſanctteiddiai hwynt, ac a offrymmai boeth offrymmau yn ol eu rhifedi hwynt oll*; *canys dywedodd, fy meibion ond odid a bechaſant.* Gofalai 'r gŵr da hwn am roddi eli mewn prŷd wrth friwiau ei blant, rhag iw pechodau gynnyddu wrth oedi.

Job. 1. 5.

Gochel ymfodloni â dllún neu â rhyw ran o ſanctteiddrwydd, ac i hynny dy lonyddu heb geiſio 'r ſylwedd, a'r cwbl o honi. Er dy fod

yn

yn byw yn ddiniwed yn y bŷd, ac nad wyt mor flîn â llawer, etto oni bydd ynot gariad cynes tuag at Dduw a dŷn, ni byddi gymeradwy. Anifail yw'r march dôf gyftal â'r ebol gwyllt. Ac o byddi yn ufuddhau i air Duw mewn amryw bethau, a chynwys ynot dy hun ryw un drwg arfer, nid elli fod yn gadwedig. Ni wrthododd y gwr ieuanc ond un gorchymmyn, fef rhannu ei dda i'r tlodion, a gwahanodd hynny rhyngddo ef â Chrift, ac *aeth ymmaith yn athrift.* Aethai Herod yn ddyfcybl i Joan Fedyddiwr ond antur, pe canhiadefid iddo fyw mewn ymlofcach. O chaiff un pechod reoli ynoti, mewn amfer efe a fynn weifion atto, ac ychwaneg o bechodau iw galyn, os megi lîd neu falais yn dy feddwl, mewn amfer myn atto dwyll a gorthrech, neu fwrdwr. Ond os y pechod meiftrolus ni heppilia, bydd ei hun yn ddigon cŷf ith ddifetha os caiff lechu ynot. un brâth at y galon a ddwg fywyd gŵr, er ei fod ym mhob rhan arall yn ddifriw. Na chymer ychwaith dy fuo i gyfcu â gwrandawiad y gair, heb roddi o honot ufudd-dod iddo. canys felly y mae llawer yn *eu twyllo eu hunain.* Ni wna breintiau eglwyfig a phroffeffe Griftianogol ddim llês i'r hwn ni byddo yn byw yn gyfattebol iddynt. Yr hwn fydd farw yn ei enaid, er bod ganddo *enw o fod yn fyw,* a ddifethir onid *edifarha.* Er ei fod drwy grêd a bedydd wedi ci gyffegru yn dŷ i Dduw, a chwedi ei wyngalchu oddiallan â ffurf crefydd, etto os cynwys aflendid o'i fewn, ef a wneir yn garnedd ddiniftriol. *Yr hwn a lygro deml Dduw, Duw a lygra hwnw.* Ni bu tra hîr nes difrodi, a llof-

Marc. 10.

Jag. 1. 22.

Datc. 3. 1, 3.

1 Cor. 3. 17.

&'r

ci'r deml yn Jerusalem er tecced ydoedd, wedi i'r Jddewon ei *gwneuthur yn ogof lladron*. Ni ddichon enw Christion achub yr hwn sydd â moddion anghred. Y llong a henwer *Rhwyddeb* a ddryllia wrth graig, ac a fodda ei llwyth, onid edrychir at ei llywio 'n ofalus. er bod enwau da ar Sedeciah ac eraill, etto difethwyd hwynt am fod yn bobl ddrwg. wrth ei henw dylasai Absalom fod yn dâd hêdd, ond collwyd ef am ei drais.

Ymarfer â gwneuthur daioni yn ol y gallu sydd ynot, ac yno di gei hyfrydwch ynddo, ac ychwaneg o nerth iw ddilyn rhag llaw. Melys i enaid dŷn ei hun yw y ffrwyth a dyso oddiwrth râs Duw ynddo, a difyr iddo waith ei alwedigaeth nefol. Rhoddi cyfarwyddyd i'r enbydus, a'r cyfeiliornus, ac clusen ir truenus, sy-'n cysuro 'r sawl au gwnelo gymmaint â'r rhai au derbynio. ie *mwy bendigedig yw rhoddi na derbyn*. A phan ddel un hyd at y cynhwillin blasus y sydd o'r tu fewn i weithredoedd crefyddol, ni fyn fod hebddynt mwy. ac aiff dŷn yn aplach i bôb gwaith da wrth ei arfer. a benaith y Goruchaf a rydd ychwaneg ir hwn a fyddo *ffyddlon ar ychydig*.

PEN. 29.

Annogaethau i dduwioldeb.

Weithian ddarlleydd dyro dy frŷd ar ddilyn pôb cyfarwyddyd dda i fyw wrth fôdd Duw mewn pôb sanctaidd burdeb. Ac ith annog i hynny ystyr mor llesol yw rhinwedd dda i bawb a ymgynefino â hi. Cynghorodd yr Apostol o'i serch tadol i Timotheus, ydoedd me-

gis

gis ei fâb anwyl, ar iddo ei *ymarferu* ei hun i *dduwioldeb* o herwydd ei bod yn *fuddiol i bôb pêth, a chenddi addewid o'r bywyd y sydd yr awr hon, ac o'r hwn a fydd.* Bûdd a disyrrwch sydd yn gosod y bŷd ar waith, ac nid ydynt iw cael yn sylweddol, ac yn barhaus mewn un llê arall, onid lle y gosododd Duw hwynt, sef ym mhen y ffordd dda, a'r fuchedd nefol. Tra buddfawr i'r enaid yw duwioldeb, gan oleuo 'r meddwl â gwybodaeth ô Dduw, a llonni ei ddymuniad â blaen ffrwyth iechydwriaeth, a'i wneuthur yn *gyfoethog mewn ffydd*, ac yn etifedd i deyrnas: a rhoddi iddo fwy yn y bŷd yma nag a eill yr annuwolion cyfoethoccaf ei feddiannu, sef cymmaint o bôb pêth ac a'i bodlono. J'r cyfryw enaid dengis Christ y Tâd yn gymmodol ag ef, *a digon fydd ganddo*, mal na phenydio awydd daiarol mono mwy. A phan elo oddiymma caiff fwy o ddedwddwch nag a allafi ei ddarlunio, na thitheu ei ddirnad, y cyfryw ac *ni welodd llygad, ac ni ddaeth i galon dŷn iw ddeall.* Jâch i'r corph yw 'r cymmedroldeb, a'r diwydrwydd, a'r addfwynder Christianogol. Rhydd Duw fendith ar weithredoedd dwylaw 'r grasol, gan beri llwyddiant ar yr hyn a wnelo ef, a chymeryd gofal drosto ef, a bod yn geidwad iddo rhag myrdd o ddamweiniau niweidiol. Yn adgyfodiad y meirw bydd yr holl ddŷn mor brydferth ag *angel*, ac mor *ddisclair â'r haul*, yn nefol, nerthol yn dragywydd. Periff duwioldeb enw da i bawb ai dilyno. a pharch yngŵydd pawb a'i cansyddo. Brenhinoedd a anrhydeddau brophwydi sanctaidd megis eu *tadau*, a'u henwau fyddau mor beraroglaidd

1 Tim. 4. 7, 8.

Joan. 14. 8.

2 Bren. 6. 21.

aroglaidd ac ennaint tywalltedig. Y *Sainct* ar
Pſal. 16. 3. y ddaiar yw 'r *rhai rhagorol.* Dywed y Duw bendigedig eu bod hwy a'u gwaed *yn werthfawr yn ei olwg ef.* A gwnai i bawb au niweidiau
Eſai. 43. 3, 4. dalu yn ddrûd am hynny, a rhoddai 'r *Aipht yn iawn droſtynt, Ethiopia a Seba am danynt.*

Yr Angylion ſanctaidd a weinant iddynt, gan
Heb. 1. 14. ewyllyſcar *waſanaethu er mwyn y rhai a gant etifeddu iechydwriaeth.* Dynion pwyllog au anrhydeddant. Y prif Griſtianogion a iawn folent
Act. 2, 47. Dduw, *a gaent ffafr gan yr holl bobl.* Nid all dynion drwg ddiffodd goleuni eu cydwybodau cyn llwyred na chanfyddont odidowgrwydd y rhai da. Yn eu dolur chwenycha y gwaethaf fel Balaam *gael marw marwolaeth y cyfiawn:* ac yn eu hawddfyd ceiſiant yn gyffredin guddio a gwadu eu ffiaidd gampau, a gwneuthur lliw o rinweddau drwy ragrithio. Yr hyn ſy argoel hynod eu bod hwy yn barnu 'r da yn well na 'r drwg.

Bendigedig ynddo ei hun yw 'r hwn *ni rodia*
Pſal. 1. 1. *ynghyngor yr annuwolion:* a bendigedig i eraill o'i amgylch. Ordeiniodd Duw iw wir *Iſrael*
Eſai. 19. 24. *fod yn fendith o fewn y tîr*; ac er eu mwyn hwynt dros ennyd ettil ei farnedigaethau oddiwrth eu cymmydogion drwg. Dêg o rai cyfiawn
Gen. 18. 32. a barafent i Dduw arbed Sodom: ac er nad o-
ac 19. 24. edd ond un teulu daionus ynddi, etto ni loſcwyd moni nes i hwnw fyned ymmaith, ac ymadel â hi. Mewn tymheſtl beryglus wedi *dw-*
Act. 27. 20, 24. *yn oddiarnynt bôb gobaith y byddent gadwedig, rhoddes Duw i Paul yr holl rai ydoedd yn morio gydag ef.* Llawer o drugareddau a dynn y duwiol ar eraill. Bu tŷ Laban well er Jacob, ac

un

un Potiphar er Joſeph. Drwy hîr brawf gwybu heppil Abraham, Iſaac a Jacob, ſod yr Arglwydd yn *dangos trugaredd i filoedd o* genhedlaethau y rhai graſol, a'u *caro ef, ac a gadwo ei orchymynion ef.*

